# 'mawrhau ei swydd'

# Owen Thomas, Lerpwl (1812-91)

# a Chofiannau Pregethwyr

# y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

gan

Llion Pryderi Roberts

Traethawd a gyflwynir
i fodloni'n rhannol ofynion gradd
*Philosophiae Doctor*
Prifysgol Caerdydd

Wedi ei gyflwyno i Brifysgol Caerdydd
yn unol â gofynion gradd
Doethur mewn Athroniaeth

UMI Number: U584582

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS
The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript
and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed,
a note will indicate the deletion.

UMI®
Dissertation Publishing

UMI U584582
Published by ProQuest LLC 2013. Copyright in the Dissertation held by the Author.
Microform Edition © ProQuest LLC.
All rights reserved. This work is protected against
unauthorized copying under Title 17, United States Code.

ProQuest®

ProQuest LLC
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106-1346

**DATGANIAD**

4.1 Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon neu unrhyw brifysgol neu fan dysgu arall, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad 31/8/2011

**GOSODIAD 1**

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn cael ei gyflwyno i gyflawni'n rhannol ofynion gradd PhD

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad 31/8/2011

**GOSODIAD 2**

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliad annibynnol fy hun, oni ddywedir fel arall.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan gyfeiriadau eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad 31/8/2011

**GOSODIAD 3**

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad 31/8/2011

**GOSODIAD 4: GWAHARDDIAD AR FYNEDIAD A GYMERADWYWYD YMLAEN LLAW**

Trwy hyn, rwy'n rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os bydd yn cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol **ar ôl i waharddiad ar fynediad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion ddod i ben.**

Llofnod ..... (ymgeisydd) Dyddiad .....

# Diolchiadau

Carwn ddiolch i'r rhai a fu'n gymorth i mi wrth lunio'r astudiaeth hon ac a fu'n barod eu cymwynas a'u cyngor wrth ddwyn y gwaith i'w gyflwyno.

Hoffwn gydnabod yn gyntaf arweiniad fy nghyfarwyddwyr, yr Athro Sioned Davies a'r Athro Brynley F. Roberts, a diolch yn ddiffuant iddynt am eu cyngor gwerthfawr a pharod. Bu imi elwa ar eu profiad a'u gwybodaeth eang, yn ogystal â'u llygad barcud. Carwn ddiolch i'r Athro Sioned Davies yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd y prosiect 'Perfformio o'r Pulpud' a phennaeth Ysgol y Gymraeg am ei gofal bugeiliol a'i hanogaeth gyson parthed y traethawd.

Rwy'n ddyledus i'm cyd-weithwyr yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ac yn y Brifysgol yn gyffredinol, am sawl sgwrs ddiddorol a sylwadau adeiladol a pherthnasol. Carwn ddiolch yn arbennig i'r Dr. E. Wyn James, Dr Dylan Foster Evans, Dr Siwan Rosser, yr Athro John Gwynfor Jones a'r Dr Bill Jones, ynghyd â Peter Keelan a staff Llyfrgell y Dyniaethau a Llyfrgell Scolar. Bu staff darllenfeydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn barod eu cymwynas yn ogystal.

Hoffwn ddiolch o galon i'm teulu a'm cyfeillion a fu'n gyson eu diddordeb a'u cymorth wrth lunio'r gwaith, boed drwy gyfrwng sgwrs barod neu holi hynt y traethawd. Yn olaf, carwn gyflwyno'r traethawd i Lois am ei hysbrydoliaeth, ei hanogaeth a'i hamynedd diflino.

# Cynnwys

Diolchiadau iii

Crynodeb v

Byrfoddau vi

Rhagymadrodd 1

Pennod 1: 'byw yn dduwiol, a byw yn ddefnyddiol': Cofiannau Pregethwyr y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg 14

Pennod 2: 'ei bortreadu i ryw raddau y fath ag ydoedd': Owen Thomas y Cofiannydd 94

Pennod 3: 'Nis gallesid neb ei wneuthur fel yr hwn a'i gwnaeth': *Cofiant John Jones, Talsarn* 143

Pennod 4: 'enghraifft mor nodedig o gysegredigaeth calon a meddwl i'r efengyl': *Cofiant Henry Rees* 222

Diweddglo 324

Llyfryddiaeth 329

Atodiadau 1-4 360

# Crynodeb

Bwriad y traethawd hwn yw trafod agweddau ar gofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng ngoleuni rhai syniadau a thrafodaethau dylanwadol diweddar ym maes llên bywyd (*life-writing*). Prif bwyslais y traethawd fydd dadansoddi'r berthynas ganolog ddeongliadol a chreadigol rhwng y cofiannydd Owen Thomas, Lerpwl a'i wrthrychau John Jones, Tal-y-sarn a Henry Rees – cofiannau a ystyrir ymysg goreuon y *genre*.

Yn y bennod gyntaf, astudir y berthynas rhwng y prif ddylanwadau llenyddol a fu'n sail i'r cofiant, a hynny yng nghyd-destun amcan hyfforddiadol neu ddidactig y ffurf o gynnig portread o wrthrych sy'n esiampl o bregethwr duwiol a diwyd. Arwain hyn at ail ran y bennod, lle cynigir gorolwg ar y prif ddatblygiadau a fu ar y ffurf yn ystod y ganrif.

Y mae'r ail bennod yn adeiladu ar y bennod gyntaf, drwy fanylu ar gysylltiad Owen Thomas gyda'r traddodiad cofiannol Cymraeg. Cynigir dadansoddiad o'i seiliau cofiannol a'i brosesau creadigol, onid hunangofiannol, fel awdur yng nghyd-destun ei berthynas ddeongliadol â'i wrthrych – nodwedd arwyddocaol o theori hunan/gofiannaeth.

Yn y drydedd bennod, amcenir at ddadansoddi cofiant enwog Owen Thomas i'r pregethwr nerthol John Jones, Tal-y-sarn (1874). Hyderir y bydd y drafodaeth ym mhenodau 1 a 2 yn goleuo'r ymdriniaeth â phortread ymwybodol, bwriadol a chreadigol Owen Thomas o'i wrthrych. Yma, cyflwynir trafodaeth ar y berthynas rhwng y cofiannydd a'i wrthrych nodedig, a'i gynulleidfa darged benodol, ac ystyried cysylltiad y cofiant nodedig hwn â'r traddodiad cofiannol Cymraeg.

Y mae'r bedwaredd bennod yn cyflwyno ymdriniaeth fanwl ag ail gofiant Owen Thomas, sef *Cofiant y Parchedig Henry Rees* (1890). Canolbwyntir unwaith eto ar ddehongli portread creadigol y cofiannydd o'i wrthrych, gan ystyried perthynas y gwahanol gyd-destunau a gyflwyna, a'u cyswllt gyda ffurfiau hunangofiannol penodol, megis yr atgof neu'r llythyr.

Yn olaf, cyflwynir diweddglo byr ar ddiwedd y traethawd sy'n myfyrio ar gasgliadau'r ymchwil.

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| AD | Annie Davies [Rees] |
| *CHR* | *Cofiant Henry Rees* [Owen Thomas (1890), *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (2 gyfrol) (Wrexham: Hughes and son).] |
| *CJJT* | *Cofiant John Jones, Talsarn* [Owen Thomas (1874), *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn mewn cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrexham: Hughes and son).] |
| CMA | Calvinistic Methodist Archives |
| HR | Henry Rees |
| JH | John Humphreys |
| JJT | John Jones, Tal-y-sarn |
| JR | John Roberts |
| LlGC | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| llsg. | llawysgrif |
| llsgau | llawysgrifau |
| OT | Owen Thomas |
| RD | Richard Davies |

# Rhagymadrodd

Ar ochr ffordd breifat sy'n dwyn at gartref Tanycastell, yng nghysgod Castell Dolwyddelan, ceir cofeb farmor, dal sy'n coffáu bywyd y tywysog bregethwr John Jones, Tal-y-sarn a'i dri brawd. Saif y gofeb hardd dafliad carreg o gartref genedigol John Jones ar y naill law a sŵn a phrysurdeb yr A470 ar y llall. Ac wrth wibio heibio ar eu hynt tybed sawl teithiwr talog sy'n ymwybodol o fodolaeth y gofeb hon bellach, ynghyd ag arwyddocâd ei gwron yn hanes diwylliannol Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'i ddylanwad ar filoedd o Gymry rhwng Sul a Sul, rhwng Môn a Mynwy. Dim ond ambell un, dybiwn i.

Yr oedd pethau'n wahanol ganrif a hanner yn ôl. Pan gladdwyd John Jones ym mynwent Llanllyfni, fore Gwener, 21 Awst 1857, adroddodd *Baner ac Amserau Cymru* fod ymhlith y galarwyr wyth o feddygon, 65 o weinidogion a phregethwyr, 70 o flaenoriaid, 200 o gantorion a thros 5,000 o dyrfa.[1] Y mae'r ystadegau uchod, ynghyd â'r ffaith fod y corff wedi ei osod o fewn tair arch, yn amlygu'r parch aruthrol a goleddwyd tuag at John Jones y pregethwr. Teimlid bod 'mawr ŵr Duw roes Gymru ar dân'[2] wedi ffarwelio â'r fuchedd hon, gan adael bwlch sylweddol yn rhengoedd yr enwad a'r genedl. Eto, o blith y myrdd o bregethwyr a fu ym mhulpudau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae enw'r John Jones hwn yn parhau i ddwyn rhywfaint o ddylanwad, a hynny ymhlith rhai nad ydynt, o angenrheidrwydd, yn efrydwyr Anghydffurfiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er nad

[1] 'Y diweddar Barch. J. Jones, Tal y sarn', *Baner ac Amserau Cymru*, 26 Awst 1857, 307-8. Fe'i dyfynnir yn Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrexham, 1874), t.761. O hyn allan, ar wahân i nodi'r teitl llawn y tro cyntaf y bydd yn ymddangos yn nhroednodiadau pob pennod, cyfeirir at y gyfrol hon yn y testun fel a ganlyn, *Cofiant John Jones, Talsarn*. Gw., yn ogystal, R. Tudur Jones, 'John Jones, Tal-y-sarn (1797-1857)', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), t.170.
[2] Thomas, *Cofiant John Jones, Talsarn*, t.791.

oedd yn llenor, ac na chyhoeddodd unrhyw waith llenyddol o bwys, fe'i hystyriwyd yn ddigon pwysig i'w gynnwys yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (1997). Nid i'r gofeb farmor y mae'r diolch am hynny, ond i'r gofeb fwy parhaol nag efydd a luniwyd iddo gan bregethwr arall. O ddarllen y cofnod amdano yn y *Cydymaith*, ar wahân i'w enwogrwydd fel pregethwr ymarferol daw'n amlwg mai'r 'clasur o gofiant' a gyhoeddwyd yn 1874 sy'n cyfiawnhau ei gynnwys i raddau helaeth. Yn wir, nid yw awdur y cofnod yn brin ei ganmoliaeth pan noda mai hwn oedd, 'efallai y cofiant gorau a ysgrifennwyd yn Gymraeg'. Teitl y gwaith oedd *Cofiant John Jones, Talsarn* a'i awdur oedd Owen Thomas.[3]

Dichon mai digon addas wrth drafod cofiannydd yw gosod ychydig wybodaeth fywgraffiadol amdano mewn hyn o ragymadrodd. Ganwyd Owen Thomas ar 16 Rhagfyr 1812 ar aelwyd grefyddol, Fethodistaidd yng Nghaergybi, yn fab i saer maen o'r un enw. Cafodd addysg mewn ysgolion yng Nghaergybi, ac er ei fod yn ddarllenwr mawr pan oedd yn blentyn a llanc ifanc, i'r un gwaith â'i dad y daeth yntau yn ei dro, gan weithio yn Ynys Lawd ac yn ddiweddarach yng Nghastell y Penrhyn pan symudodd y teulu dros y Fenai i Fangor. Gan fod y teulu yn aelodau ag enwad y Methodistiaid Calfinaidd nid rhyfedd bod yr Owen Thomas ieuanc yn mynychu oedfaon yn gyson ac yn hoff o wrando pregethwyr. Ei ffefryn yn ddiau oedd yr enwog John Elias (1774-1841) a dyfodd yn arwr a model erbyn i Owen Thomas ei hun ddechrau pregethu yn sgil dylanwad diwygiad crefyddol 1832 a'r Mudiad Dirwest. Ehangodd rychwant ei ddysg yng ngholegau y Bala a Chaeredin, gan ddod o dan ddylanwad rhai o gewri Anghydffurfiaeth, megis Lewis Edwards yng Nghymru a Thomas Chalmers yn yr Alban, cyn dychwelyd i Gymru i bregethu'r Gair ym mhulpudau'r wlad. Wedi iddo gael ei ordeinio'n gyflawn yn 1844, bu Owen Thomas yn gweinidogaethu mewn eglwysi ym Mhwllheli, Y Drenewydd a Llundain cyn diweddu ei yrfa yn weinidog ar

[3] *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (arg. newydd; Caerdydd, 1997), t.397. Wedi ei farwolaeth, casglwyd a chyhoeddwyd ei bregethau, er na cheir cyfeiriad atynt yn y cofnod. Gw. Griffith Parry (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych, 1869).

gadeirlan y Methodistiaid yn Princes Road, Lerpwl. Bu iddo briodi yn 1860 ag Ellen Roberts, merch y pregethwr dylanwadol William Roberts, Amlwch a thrwy hynny dynhau ei gysylltiadau ag arweinyddion yr enwad. Mewn gyrfa hir ac anrhydeddus iawn gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, datblygodd yn un o gewri ac arweinyddion y mudiad, a hynny ar gyfrif ei ddoniau diamheuol fel pregethwr nerthol ac argyhoeddiadol, ei allu trefniadol a diplomatig, ynghyd â'i weithgarwch a'i wybodaeth ddigymar ymron ym meysydd hanes eglwysig, esboniadaeth feiblaidd a diwinyddiaeth. Cyhoeddodd erthyglau a gweithiau yn y meysydd hynny, a bu'n gyd-olygydd *Y Traethodydd* am ddeng mlynedd yn negawdau canol y ganrif. Bu farw yng nghysur ei deulu fore Sul, 2 Awst 1891, wedi bywyd a rychwantodd nid yn unig ddegawdau byrlymus y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond cyfnod a welodd wawrio a machlud 'oes aur' y pregethwr mawr Anghydffurfiol,[4] yn ogystal â blynyddoedd atgyfnerthu, cyfundrefnu, ymbarchuso a dechrau dirywio yn hanes yr enwadau Anghydffurfiol.[5]

Dau gofiant a luniodd Owen Thomas, y naill i John Jones a'r llall i'r pregethwr a'r arweinydd enwadol nodedig Henry Rees (1890).[6] Safant ymysg y corff mawr o gofiannau i bregethwyr a gyhoeddwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O'r herwydd, gwelir i oes y pregethwr ysgogi oes aur arall, sef eiddo'r cofiant crefyddol Cymraeg. 'Wele gofiant etto!' meddai'r cofiannydd a'r pregethwr John Foulkes wrth agor *Cofiant y Diweddar Barch Moses Parry* (1856).[7] Yr oedd ebychiad o'r fath yn adlewyrchu mor niferus ac mor

---

[4] R. M. Jones, 'Oes aur y bregeth Gymraeg' yn idem, *Llên Cymru a Chrefydd: Diben y Llenor* (Abertawe, 1977), tt.412–30. Gw. hefyd R. Tudur Jones 'Awr machlud y pregethwr mawr', yn idem, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914: Cyfrol 1* (Abertawe, 1981), tt.154–71, lle dadlennir dirywiad y cysyniad yn ogystal. John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990; arg. 1992), t.346.

[5] Am hanes manylach Owen Thomas ei hun, gw. y cofiannau a luniwyd iddo: J. J. Roberts (Iolo Carnarvon), *Cofiant y Parchedig Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon, [1912]); D. Ben Rees, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr. Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979). Gw., yn ogystal, bennod D. Ben Rees ar Owen Thomas yn y gyfrol *Pregethu a Phregethwyr* (Dinbych, d.d.), tt.139-49.

[6] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (2 gyfrol; Wrexham, 1890). O hyn allan, ar wahân i nodi'r teitl llawn y tro cyntaf y bydd yn ymddangos yn nhroednodiadau pob pennod, cyfeirir at y gyfrol hon yn y testun fel a ganlyn, *Cofiant Henry Rees*.

[7] J. Foulkes, *Cofiant y Diweddar Barch. Moses Parry. Gyda rhagdraethawd gan y Parch. Henry Rees* (Dinbych, 1856), t.iii.

gyfarwydd ydoedd y cofiant i'r werin Anghydffurfiol Gymraeg erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â bod y ffurf wedi hen ennill ei lle ymysg chwaeth lenyddol y cyfnod. Er mai ffrwyth degawdau cyntaf y ganrif ydoedd y cofiant Cymraeg, nid oes ddwywaith na ddatblygodd yn fuan iawn yn un o'r ffurfiau mwyaf poblogaidd ymysg *genre* ysgrifennu bywgraffiadol a chofiannol yn y Gymraeg. Erbyn marwolaeth John Jones yn 1857 yr oedd rhagor na chant o gofiannau wedi eu cyhoeddi, cryn orchest o ystadegyn sy'n awgrymu poblogrwydd y ffurf yn hanner cyntaf y ganrif.[8] Ceir ambell gip ar hyn yn y cofiannau eu hunain, megis pan noda awdur *Hanes Bywyd y Parch Ioan Griffiths* y byddai'n well gan y werin weld gosod yr hanes ar ffurf llyfryn yn hytrach na'i gynnwys mewn cyfnodolyn.[9] Serch hynny, ni ddylid synnu bod oes y pregethwr wedi esgor ar oes y cofiant. O graffu ar gofiannau'r ganrif gwelir bod y pregethwr Anghydffurfiol yn tra-arglwyddiaethu ar y ffurf. Gellir dadlau bod hyn yn arwyddo'r bri a'r statws a fwynhâi'r pregethwyr hyn ymhlith gwerin gwlad. Serch hynny, mae'n bwysig gweld datblygiad y cofiant, megis datblygiad y wasg gylchgronol, yn sgil bwrlwm ac egni anhygoel diwylliant Anghydffurfiol y cyfnod.[10] Megis y dywed Medwin Hughes am Fethodistiaid chwarter cyntaf y bedwaredd

---

[8] Heb sôn am y cofiannau byrion a geid mewn cylchgronau neu bapurau newydd. O safbwynt y traethawd hwn, ymdrinnir â'r cofiant ar ffurf cyfrol. Yn ogystal â'm gwaith ymchwil personol ar gyfer y traethawd hwn, bûm yn ymchwilydd ar brosiect yr Athro Sioned Davies, 'Perfformio o'r Pulpud: Pregethu Dramatig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg a'r Ugeinfed Ganrif yng Nghymru' yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd rhwng 2004 a 2009. Yn rhinwedd y swydd hon bu imi ddarllen a mynegeio ymron i gant o gofiannau. Roedd y mwyafrif o'r rheini wedi eu cyhoeddi yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

[9] Daniel Davies, *Hanes Bywyd y Parch. Ioan Griffiths, o Landwr, ynghyd ag eiddo y Parch. W. Griffiths, o'r un lle* (Caerfyrddin, 1826), t.iii. Mae sawl cofiannydd yn nodi mai cais arno gan eraill, boed deulu, gyfeillion, frodyr gweinidogaethol, eglwys benodol neu gyfundrefn eglwysig enwadol a'i ysgogodd i lunio'r gwaith. Er enghraifft, dywed cofiannydd Joseph Harris (Gomer) yn 1826 mai 'boddhau llawer o gyfeillion Cymreig Mr H' oedd pwrpas darparu cyfieithiad Cymraeg o'r gwaith Saesneg a gyhoeddwyd rai misoedd ynghynt (John Samuel, *Hanes bywyd y Parch. Joseph Harris (Gomer), Gweinidog y Bedyddwyr yn yr Heol Gefn, Abertawy* (Abertawe, 1826), t.iii). Ceir sylwadau tebyg yn y wasg yn ogystal. Honiad hyderus adolygydd *Bywyd y Parch. Ebenezer Richard* (1839) oedd y byddai mwy na dwy fil o Gymry yn fodlon prynu'r gyfrol ('Bywyd y Parch. Ebenezer Richard', *Y Drysorfa* (1840), 115). Ac yr oedd ail argraffiad *Hanes Bywyd y Parch. John Evans, Llwynffortun* (Llanelli, 1848), a hynny ychydig fisoedd wedi'r argraffiad cyntaf, yn brawf i'w adolygydd o '[g]anmoliaeth y wlad' i'r gwrthrych a'r testun fel ei gilydd ('Hanes Bywyd y Parch. John Evans, Llwynffortun', *Y Drysorfa* (1849), 145).

[10] Ar y wasg gylchgronol gw. Huw Walters, 'The periodical press to 1914', yn *A Nation and its Books: a History of the Book in Wales*, gol. Philip Henry Jones ac Eiluned Rees (Aberystwyth, 1998), tt.197-208; idem, 'Y Gymraeg a'r wasg gylchgronol ' yn *'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg': Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911*, gol. Geraint H. Jenkins (Caerdydd, 1999); idem, *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig, 1735-1850*

ganrif ar bymtheg, dyrchafwyd 'the usefulness of pious literature' fel modd o ddyfnhau ac atgyfnerthu ffydd a moesau'r werin Gymraeg.[11]

Gwerth y cofiant oedd ei fod yn gogoneddu Duw, yn coffáu'r Tadau ac yn ysbrydoli ac addysgu'r saint, ac nid oes brinder cofianwyr sy'n nodi mai dyma hefyd oedd sail ei boblogrwydd fel ffurf. Cyfeirir sawl gwaith yn y cofiannau, megis yn rhaglith John Elias i gofiant Robert Jones, Rhoslan, at yr adnod ysgrythurol sy'n nodi bod 'Coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig'.[12] Yr un ystyriaeth sydd gan gofiannydd Jenkin Davies, Twrgwyn wrth nodi y bydd 'darllen hanes rhai wedi dianc oddiwrth y llygredigaeth sydd yn y byd, beri i filwyr Seion ymwroli, ac ymnerthu mwy yn y gras a'u cynhaliodd hwy'.[13] Ac mae i'r ystyriaeth ddidactig hon arwyddocâd arbennig o'i chysylltu â bucheddau'r pregethwyr. Pe bai dyn yn chwilio am ddiffiniad o swydd y pregethwr yn y cyfnod hwn, byddai modd iddo loffa drwy 'un o brif orchestion Methodistiaeth Gymraeg', sef *Geiriadur Ysgrythyrol* Thomas Charles.[14] Ynddo, ceir dadansoddiad cryno a hwylus o'r nodweddion y dylid meddu arnynt os am fynd ati i gyhoeddi Gair Duw ac addysgu eraill yng ngwirioneddau'r Efengyl. Pwysleisir tair nodwedd benodol. Yn gyntaf, y dylai pregethwr fod wedi derbyn argyhoeddiad o ras Duw ar ei enaid drwy gyfrwng tröedigaeth, ac y dylai fyw ei fywyd ar y

---

(Aberystwyth, 1993). Am hanes newyddiaduraeth yng Nghymru gw. Aled G. Jones, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff, 1993).

[11] Medwin Hughes, 'Studies in Calvinistic Methodist Welsh literature, 1790-1825' (D. Phil. Dissertation (Oxford), 1987), t.461.

[12] John Elias, *Cofiant o fywyd a marwolaeth y diweddar Mr Robert Jones, Dinas, gynt o Roslan, Sir Gaernarfon, pregethwr yr efengyl yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn a fu farw Ebrill 18, 1829, yn y 84 flwyddyn o'i oed a'r 60fed o'i weinidogaeth: at yr hyn y chwanegwyd pigion o'i lythyrau ac o'i waith prydyddol ynghyd â llythyr ato oddiwrth y diweddar Barch. T. Charles o Bala* (Llanrwst, 1834), t.iii. Yn ôl John Samuel, cofiannydd Joseph Harris, gogoneddir Duw drwy adrodd am fucheddau y gweinidogion hynny a fu'n gweithredu yn ei enw (Samuel, *Hanes Bywyd y Parch. Joseph Harris*, t.6).

[13] Abel Green, *Cofiant, yn cynwys Ychydig o Hanes Bywyd y Diweddar Barchedig Jenkin Davies, Twrgwyn, yn Swydd Ceredigion, ynghyd â rhai o'i bregethau* (Castellnewydd-Emlyn, 1845), t.iii. Gw. yn ogystal gofiannydd David Rees, Aberteifi, sy'n nodi y '[t]uedda bywgraffiadau o wroniaid Seion at lesoli y cyfundeb Cristionogol' (T. E. James, *Cofiant y Diweddar Barch. David Rees, Gweinidog y Bedyddwyr yn Methania, Aberteifi* (Caerfyrddin, 1856), t.3).

[14] *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, t.269; Thomas Charles, *Geiriadur Ysgrythyrol, yn cynnwys Hanesiaeth, Duwinyddiaeth, Athroniaeth, a Beirniadaeth Ysgrythyrol* (6ed arg.; Bala, 1864). Cyhoeddwyd y gyfrol yn wreiddiol mewn pedair cyfrol rhwng 1801 a 1811.

ddaear hon yn dduwiol a diwair er mwyn ymgyrraedd at gyflwr santaidd ei Dad Nefol. Yn ail, mai sail ei awdurdod i bregethu'r Gair oedd ei fod wedi derbyn gwir alwad i'r gwaith oddi wrth Dduw. Yn olaf, drwy'r alwad honno, yr oedd Duw wedi ei gynysgaeddu â 'doniau ysbrydol a chyneddfau naturiol' a'i gwnâi yn gymwys i gyflawni'r alwedigaeth o bregethu'r Gair. Clymu'r tair nodwedd hyn ynghyd o fewn un gŵr ydoedd hanfod y pregethwr, felly, ac yr oedd i'w 'orchwyl sanctaidd' gyfrifoldeb cwbl greiddiol:

> Pregethiad yr efengyl gan ddynion o'i anfoniad yw y moddion penaf a drefnodd Duw i achub eneidiau dynion, trwy daenu gwybodaeth o'r Iachawdwr yn mhlith pechaduriaid. Ni bu neb yn fendith fwy i ddynolryw na'r cyfryw bregethwyr.[15]

Dyma a wnâi'r pregethwr yn ganolog i gyflwr ysbrydol y gymdeithas gyfan, ac wrth gwrs dyma a'i gwnaeth yn wrthrych hynod addas ar gyfer ei bortreadu yn y cofiannau Cymraeg. Dichon mai dyna yw sail sylw Saunders Lewis mai'r cofiant oedd y 'ffurf bwysicaf ar ryddiaith greadigol Gymraeg' yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac a barodd i R. Tudur Jones ddweud mai'r cofiant oedd 'cynnyrch llenyddol mwyaf trawiadol y ganrif'.[16]

Mae'n rhyfedd, felly, na thalwyd mwy o sylw i gofiant crefyddol Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg, hyd yn oed oreuon y traddodiad, gan feirniaid llenyddol yr ugeinfed ganrif.[17] Aeth ymron ddeugain mlynedd heibio cyn i neb fynd ati o ddifrif i

---

[15] Ibid., t.739.

[16] Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', yn *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t.341; R. Tudur Jones, 'Anghydffurfiaeth', yn *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, gol. Dyfnallt Morgan (Llandybie, 1968), t.123.

[17] Am drafodaethau eraill ar gofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gw. W. J. Harries, 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg o safbwynt llenyddol' (Traethawd MA, Cymru (Abertawe), 1954); Mairwen Lewis, 'Astudiaeth gymharol o'r cyfieithiadau Cymraeg o rai o weithiau John Bunyan, a'u lle a'u dylanwad yn llên Cymru' (Traethawd MA, Cymru (Aberystwyth), 1957); Emyr Gwynne Jones, 'Y cofiant', yn *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, gol. Dyfnallt Morgan (Llandybïe, 1968), tt.175–86; Alun Llywelyn-Williams, 'Bywgraffiad fel creadigaeth lenyddol', yn *Ysgrifennu Creadigol*, gol. Geraint Bowen (Llandysul, 1972), tt.139–55; Bedwyr Lewis Jones, 'Cofiannau ac atgofiannau', *Y Traddodiad Rhyddiaith*, gol. Geraint Bowen (Caerdydd, 1976). Adargraffwyd yn *Gorau Cyfarwydd: Detholiad o Ddarlithoedd ac Ysgrifau Beirniadol Bedwyr Lewis Jones*, gol. Gerwyn Wiliams (Caernarfon, 2002), tt.275–92; John Gwilym Jones, 'Hunangofiant fel llenyddiaeth', yn *Swyddogaeth Beirniadaeth ac Ysgrifau Eraill* (Dinbych, 1977), tt.182–98. Gw. yn ogystal bennod Derec Llwyd Morgan, 'Llenyddiaeth y Methodistiaid,

gloriannu'r ffurf, a dichon nad cyd-ddigwyddiad yn unig sy'n cyfrif mai Saunders Lewis, ŵyr Owen Thomas, oedd hwnnw. Er gwaethaf byrder yr astudiaeth a'i natur fylchog mewn mannau, diau mai ei ysgrif ef yw'r rhagarweiniad pwysicaf sydd gennym i gofiannau crefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac, yn wir, i *genre* ysgrifennu cofiannol yn Gymraeg.[18] Ynddi, dadleua mai datblygu a wnaeth y cofiant Cymraeg o gymysgedd o ffurfiau, megis yr hunangofiant, llenyddiaeth y cymeriad a'r bregeth angladdol, i greu '[m]ath arbennig o lenyddiaeth greadigol . . . newydd, annibynnol, a thrwyadl Gymreig'.[19] O'r herwydd, gwêl arwyddocâd arbennig i'r cofiant fel ffurf a allai adlewyrchu gwerthoedd y gymdeithas a'i lluniodd. Yr oedd, felly, yn erfyn pwysig i'r beirniad llenyddol o ran deall y gymdeithas honno.

> Cynnyrch aeddfedrwydd y diwygiad crefyddol a flaguriasai yn y ddeunawfed ganrif oedd y cofiant . . . Y mae'r cofiant yn gymaint drych i'r gymdeithas Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ag ydyw'r emyn yn y ddeunawfed ganrif neu'r cywydd yn y bymthegfed ganrif. Y mae'n fwy cynhenid i'r gymdeithas Gymraeg na'r awdl eisteddfodol. Yn y cofiannau y ceir gwir ddelw delfrydau'r gymdeithas. Ni thâl eu diystyru.[20]

Nid yn annisgwyl, i un yr oedd perthynas y llenor â'i gymdeithas yn greiddiol i'w feirniadaeth lenyddol, â Saunders Lewis ati i osod ffurf y cofiant crefyddol Cymraeg yn ei

---

1763–1814' yn *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2: Cynnydd y Corff*, gol. Gomer M. Roberts (Caernarfon, 1978), tt.456–526 (ac yn arbennig tt.485–97); D. Ben Rees, 'Y cofiannydd' yn idem, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979), tt.207–45; Hughes, 'Studies in Calvinistic Methodist Welsh literature', pennod 10 (cyfrol II), gw. yn benodol tt.428-34.

[18] Fe'i traddodwyd yn wreiddiol yn Llundain ger bron Cymdeithas y Cymmrodorion yn 1935. Gw. *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1935), tt.157–73. Egyr Saunders Lewis ei ysgrif drwy sylwi ar y diffyg hwn a chan obeithio y daw gweithiwr i'r maes yn fuan. Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.341. Y mae traethawd W. J. Harries yn fwy cynhwysfawr fel astudiaeth ac mae'n cynnwys gwybodaeth ddiddorol a defnyddiol. Ysywaeth, nid yw ei ddadansoddiad o'r ffurf yn cynnig dim byd newydd, ac mae'n tueddu i fod yn gaeth i syniadau'r oes parthed gwrthrychedd a chyflawnder portread y cofiannydd.

[19] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.349. Hyd y gwyddys, ef yw'r unig un i geisio olrhain y dylanwadau a fu ar lunio'r cofiant Cymraeg. Noda fod y cofiant nodweddiadol yn cynnig adroddiad cofiannol o fywyd y gwrthrych ar lun yr hunangofiant ysbrydol, cyn dadlennu portread o'r gwrthrych fel dyn, Cristion a phregethwr, ynghyd â chynnwys deunydd o'i law ei hun, boed bregethau neu ddywediadau, cyn cloi gyda marwnad.

[20] Ibid., t.341.

gyd-destun hanesyddol a chymdeithasol.[21] Serch hynny, ymddengys na all ysgaru arwyddocâd llenyddiaeth y cofiant annibynnol[22] oddi wrth ei safonau beirniadol ac esthetaidd. Er canmol arddull syml a diwastraff nifer o'r cofiannau, ynghyd â derbyn nad bwriad y cofianwyr oedd llunio 'hanes', beirniedir eu pwyslais ar ddadlennu cymeriad diwair eu gwrthrychau, a hynny heb 'ymchwil hanesyddol na dogfeniad'. O ganlyniad, ni ddarlunnid y gwrthrych fel person sy'n datblygu yn organaidd yn ei gymdeithas, gwendid a ddisgrifir gan Lewis fel 'cau ar gymeriad megis gwain am gledd, ei neilltuo a'i ddadansoddi fel peth ar ei ben ei hun, heb gysylltiad hanfodol â dim o'i gwmpas, a brysio oddi wrth drem gyflym ar ei yrfa i ymroi i'w bortreadu fel teip statig a diberthynas a digyfnewid'.[23] Nid rhyfedd, felly, i Saunders Lewis a beirniaid diweddarach weld *Cofiant John Jones, Talsarn* (1874) yn 'fath hollol newydd o gofiant mewn Cymraeg', a'i ystyried yn ddim llai na chwyldro. Ei ogoniant oedd mai 'bod cymdeithasol' yw John Jones yn y cofiant, gweledigaeth a hyrwyddwyd gan ddiddordeb Owen Thomas mewn hanesyddiaeth, diwinyddiaeth a phregethu, ynghyd â'i hoffter o'r traddodiad cofiannol Seisnig. Mewn brawddeg arwyddocaol noda Saunders Lewis fod gweledigaeth drefnus y cofiannydd yn darlunio gyrfa John Jones fel 'afon fawreddog'. Bwrlwm o fywyd ydyw, sy'n cychwyn yn bur ddistadl cyn ehangu'i gyraeddiadau a'i ddylanwad drwy'r gymdeithas. Parodd ei sylwadau ddyrchafu cofiannau Owen Thomas i'r canon llenyddol Cymraeg, ynghyd â gosod statws digymar i *Cofiant John Jones, Talsarn* fel 'coron llenyddiaeth y cofiant yng Nghymru'.[24]

Er bod modd derbyn sawl un o gasgliadau Saunders Lewis, does dim dwywaith nad yr ysgrif arloesol a dylanwadol hon a fu'n gyfrifol, i ryw raddau, fod cyn lleied o drafod wedi

---

[21] Diddorol, yng nghyd-destun hyn, yw dadl ddiweddar Tudur Hallam am ddylanwad esboniadaeth feiblaidd efengylaidd ar Saunders Lewis y beirniad llenyddol. Gw. Tudur Hallam, *Canon Ein Llên: Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd* (Caerdydd, 2007), tt.138-44.
[22] Mae Emyr Gwynne Jones yn dilyn W. J. Harries drwy ddiffinio'r cofiant annibynnol fel 'gwaith un awdur, wedi'i lunio, gan amlaf, oddi ar adnabyddiaeth bersonol o'r gwrthrych'. Jones, 'Y cofiant', t.177.
[23] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.355.
[24] Ibid., t.356.

bod ymhlith beirniaid yr ugeinfed ganrif ar y cofiant, nac awydd mawr yn eu mysg i ddatblygu ac ymhelaethu ar ei chanfyddiadau. Gellir dadlau i'r ysgrif esgor ar ddau ganlyniad anffodus yn hyn o beth, yn enwedig o ystyried amcan gwreiddiol Lewis o gymell rhagor i ymhél â'r maes. Yn gyntaf, rhydd ormod o bwyslais ar werth esthetaidd y cofiannau ar draul y cysylltiad rhwng nod ac amcan y cofiannydd a'i ymdriniaeth â'i wrthrych – nodwedd sydd hefyd yn amlygu perthynas greadigol a deongliadol y cofiannydd â'i wrthrych. Mae'n bosibl mai dyma sy'n egluro pam y neilltuir cryn gyfran o'r erthygl i drafod cofiannau nad ydynt yn nodweddiadol o'r *genre*. Gellir dadlau bod tuedd Lewis i ymdrin â'r berthynas greiddiol hon fel 'gwendid' yn ogystal yn golygu iddo ef a beirniaid diweddarach weld y cofiannau mewn modd rhy simplistig. Dichon na fu iddynt ystyried yn ddigon llawn y cymhlethdodau sy'n hanfod y cofiant, yn enwedig y berthynas rhwng cyd-destunau 'mewnol' ac 'allanol' neu 'gyhoeddus' y cofiannau, ynghyd â chydberthynas gwahanol *genres* cofiannol â'i gilydd o fewn y ffurf. Yn ail, tybed nad arweiniodd beirniadaeth (ddigon teg) Saunders Lewis at duedd ddiweddarach i ymwrthod â'i weledigaeth ef o'r cofiannau fel ffurfiau 'creadigol', ac, yn wir, wadu creadigrwydd neu gelfyddyd yng ngwaith cofianwyr. Dyna sy'n egluro tuedd Emyr Gwynne Jones i sôn am gonfensiwn y cofiant mewn termau negyddol yn unig. Ac mewn ysgrif ddiweddarach noda Alun Llywelyn-Williams mai 'byw ar greadigaethau dynion eraill' y mae cofiannydd, ac nad llenor creadigol mohono. Er nad yw'r hunangofiant yn ffurf greadigol bur yn ei olwg, mae'n ddiddorol fod Llywelyn-Williams yn gwahaniaethu rhwng *genres* cofiannol drwy nodi bod i'r hunangofiant gysylltiad agosach â 'gwir di-goll' y llenor.[25] Canlyniad hyn oll fu cyffredinoli a diystyru amrywiaeth ac ehangder *genre* cofiant crefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd ag ysgaru cofiannau gorau'r ganrif, yn enwedig *Cofiant John Jones, Talsarn*, oddi wrth y traddodiad cofiannol Cymraeg.

[25] Jones, 'Y cofiant', tt.180-1; Llywelyn-Williams, 'Bywgraffiad fel creadigaeth lenyddol', tt.140-1. Mae'n bosibl mai dylanwad o'r fath sy'n gyfrifol am bwyslais W. J. Harries yn nheitl ei draethawd dros ymdrin â'r ffurf 'o safbwynt llenyddol'.

Yn y deugain mlynedd ers cyhoeddi sylwadau Alun Llywelyn-Williams, gwelwyd cynnydd ym mhoblogrwydd cofiannau ymysg darllenwyr y Gymraeg, ynghyd â diddordeb newydd ac arwyddocaol ymhlith ysgolheigion yn Lloegr a'r Unol Daleithiau mewn astudio a dadansoddi maes ysgrifennu cofiannol neu '*life writing*'. Ymgais i ailagor y maes toreithiog a diddorol hwn yma yng Nghymru yw'r astudiaeth hon.[26] Yn hynny o beth, ni allaf innau ychwaith osgoi gosod ysgrif Saunders Lewis fel man cychwyn i'r astudiaeth, wrth fynd ati i ailasesu rhai o'r prif gasgliadau a wnaed ganddo. Serch hynny, nid nod y traethawd hwn fydd ysgrifennu hanes y cofiant Cymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nac amcanu dadansoddi yn fanwl bob agwedd neu ddatblygiad ar y ffurf yn ystod y ganrif. Yn hytrach, bydd y traethawd wedi'i seilio ar astudiaeth o'r berthynas ddeongliadol rhwng y cofiannydd a'i wrthrych (ac a'i ddarllenydd), a hynny o fewn fframwaith theori hunan/gofiannaeth (*auto/biography*). Dyma berthynas sydd, yn fy marn i, yn hanfodol er mwyn dadansoddi crefft a chelfyddyd y cofiant fel llenyddiaeth greadigol, ac sy'n cynnig llwyfan i ailedrych ar ffurf y cofiant crefyddol Cymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gan fod *Cofiant John Jones, Talsarn* yn un o'r ychydig gofiannau sydd wedi eu derbyn i'r canon llenyddol, prif bwyslais y traethawd fydd ystyried o'r newydd gysylltiad Owen Thomas a'i gofiannau â'r traddodiad cofiannol, a chwestiynu honiad gwreiddiol Saunders Lewis parthed newydd-deb chwyldroadol y cofiant hwn. O'r herwydd, gobeithir bwrw amheuaeth ar y ddadl bod cofiant crefyddol Cymraeg y ganrif yn ffurf sydd, yn ei hanfod, yn amddifad o gelfyddyd ac o'r gallu i gynhyrchu campwaith a ddylanwadodd ar ysgrifennu cofiannol yr ugeinfed ganrif.

Bydd pennod gyntaf y traethawd yn olrhain y portread, neu'r dehongliad, 'confensiynol' a geir o wrthrychau cofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

[26] Gw. eisoes, Llion Pryderi Roberts, '"Y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto": mawl a moes yng nghofiannau'r pregethwyr', *Y Traethodydd* [rhifyn arbennig ar gofiannau] (Ebrill 2006), 78-97; idem, 'Rhwydo'r dystiolaeth: cofiannu a chyfannu Fanny Jones, Tal-y-sarn?', *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 31 (2007), 76-121.

Bwrir rhagor o oleuni ar y cymhlethdod o wahanol ffurfiau a dylanwadau a esgorodd ar ffurf y cofiant crefyddol Cymraeg, ynghyd â'r elfennau deongliadol hynny a wnaeth y weithred o gofiannu bywyd pregethwr yn destun mor addas ac mor boblogaidd ar gyfer y *genre*. Ceisir dadlau nad dadlennu hanes cymdeithasol ydoedd hanfod y cofiannau, ond cynnig portread o'r gwrthrych fel pregethwr duwiol a diwyd sy'n cyflawni ei alwedigaeth oddi wrth Dduw. Elfen ganolog i hyn oll yw ystyried cydberthynas gwahanol gyd-destunau mewnol ac allanol, preifat a chyhoeddus, a hunangofiannol a chofiannol â'i gilydd, ynghyd â'r ffaith eu bod ynghlwm wrth amcanion cofiannol hyfforddiadol neu ddidactig y cofianwyr. Atgyfnerthir y dadansoddiad yn ail hanner y bennod drwy gynnig gorolwg ar hynt y portread canolog hwn o'r gwrthrych yn sgil y datblygiadau a'r newidiadau a wynebodd ffurf y cofiant yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwneir hynny drwy ddadansoddi a chymharu seiliau a nodweddion deongliadol dau gofiant a luniwyd i'r pregethwr a'r cofiannydd Thomas Jones, Dinbych (1756-1820) y naill yn 1820 a'r llall yn 1897. Diweddir y bennod drwy ddadlau bod cofiant 1897 yn drwm o dan ddylanwad egwyddorion cofiannol *Cofiant John Jones, Talsarn* (1874), ac felly ceisir gosod llwyfan priodol tuag at leoli Owen Thomas o fewn y traddodiad cofiannol hwn.

Pwrpas yr ail bennod yw adeiladu ar ganfyddiadau'r bennod gyntaf drwy geisio dadansoddi celfyddyd gofiannol Owen Thomas, ynghyd ag ystyried maint ei gysylltiad â chofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wyneb diffyg tystiolaeth arwyddocaol a beirniadol o'i law ei hun ynglŷn â'i ddull o gofiannu, ceisir ymdrin â rhai ffynonellau sy'n bwrw goleuni ar ei gymhellion, ei egwyddorion a'i safonau fel cofiannydd. Bydd rhan gyntaf y bennod yn trafod y cofiannau a ddarllenodd, a'r sylwadau beirniadol ar gofiannau a geir yn y 'Nodiadau Llenyddol' a luniodd tra oedd yn olygydd *Y Traethodydd*. Lluniwyd y rhain mewn cyfnod arwyddocaol iawn, sef rhwng 1855 a 1865 – degawd pan

oedd wrthi'n llunio rhannau cofiannol *Cofiant John Jones, Talsarn*. Yn ail hanner y bennod, manylir ar y berthynas rhyngddo ef a'i wrthrych ac a'i ddarllenydd yn *Cofiant John Jones, Talsarn* a *Cofiant Henry Rees*. Dadleuir bod ystyried y ddolen hon yn greiddiol er mwyn dehongli ei weledigaeth gofiannol, ac er mwyn dehongli'r portread a gynigir o'r gwrthrych yn ei gofiannau, sef testun pennod 3 a 4. Ailystyrir y berthynas hon yng ngoleuni cysyniadau ac ymdriniaethau theoretig diweddar parthed hunan/gofiannaeth sy'n dinoethi celfyddyd neu brosesau creadigol y cofiannydd yng nghyd-destun presenoldeb yr awdur yn ei gofiannau, a dylanwad neu ddisgwyliadau'r darllenydd ar y prosesau hynny. Dyma theori sy'n mynnu mai ymwybodol a chreadigol, onid hunangofiannol, yw ymdriniaeth y cofiannydd â'i wrthrych.

Y bwriad yw y bydd y ddwy bennod gyntaf hyn yn goleuo dwy bennod olaf y traethawd, sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r ddau gofiant a luniodd Owen Thomas i'r pregethwyr hynod John Jones, Tal-y-sarn (1874) a Henry Rees, Lerpwl (1890). Y cofiant cyntaf, a'r enwocaf, yw testun y drydedd bennod. Yma eto, seilir yr ymdriniaeth ar ddadansoddi portread ymwybodol a bwriadol Owen Thomas yng nghyd-destun y berthynas rhyngddo a'i wrthrych nodedig, a'r gynulleidfa darged benodol a oedd mewn golwg ganddo wrth lunio'r gwaith. Er gwaethaf honiad Saunders Lewis fod *Cofiant John Jones, Talsarn* yn gwbl estron i draddodiad y cofiant crefyddol Cymraeg, bwriedir dangos mai'r un seiliau deongliadol sydd i'r cofiant hwn ag eiddo'r cyfryw draddodiad. Ceisir dadlau mai amrywio, datblygu ac adeiladu yn arloesol a chrefftus ar y cofiant crefyddol Cymraeg a wnaeth Owen Thomas, a hynny drwy briodi'n gelfydd gynnwys ac adeiladwaith y cofiant mewn portread cofiadwy o dduwioldeb a diwydrwydd pregethwr anghyffredin sy'n 'mawrhau ei swydd' ac sy'n esiampl i eraill. Unwaith eto, y mae craffu ar gydberthynas y ddwy agwedd hyn ar y gwrthrych yn cyfoethogi'r darlun cofiannol a gynigir ac yn fodd o ailasesu'r feirniadaeth a gafwyd gan rai ysgolheigion yn yr ugeinfed ganrif mai cofiannu'r gŵr cyhoeddus yn unig a

wnaeth Owen Thomas. Dadleuir bod y portread ymwybodol ac eglurhaol hwn o'r pregethwr yn hydreiddio'r cofiant ac yn cynrychioli'r weledigaeth lawnaf a mwyaf awdurdodol o'i wrthrych ag y bwriadai Owen Thomas ei gyflwyno, yn enwedig yn sgil prinder ffynonellau hunangofiannol. Y pregethwr, felly, yw allwedd y cofiant, a'r cyfryw bregethwr yw'r allwedd i fawredd y gyfrol yn ogystal.

Y mae'r bennod olaf yn ymdrin yn benodol ag ail gofiant Owen Thomas a luniwyd i'w gyfaill a'i gyd-bregethwr Henry Rees. Er derbyn canmoliaeth glodwiw ar ei ymddangosiad yn 1890, mae'n amlwg nad yw'r cofiant hwn wedi derbyn yr un sylw na'r un gymeradwyaeth â *Cofiant John Jones, Talsarn* gan feirniaid diweddarach. Bid a fo am hynny, yn y bennod hon ceisir dadlennu mor debyg i'r cofiant cyntaf ydoedd amcanion y cofiannydd a'r dehongliad cofiannol y bwriadodd ei gyflwyno. Yn wir, dadleuir mai'r un portread o'r gwrthrych fel pregethwr duwiol a llafurus sy'n hynodi gweledigaeth y cofiannydd yn ei hanfod. Fodd bynnag, er cystal fo saernïaeth Owen Thomas yn hanner cyntaf y cofiant, mae undod gweledigaeth a strwythur y cofiant yn dirywio yn yr ail hanner wrth i gyd-destunau cysylltiedig, ac eto amgen, o'r gwrthrych fel arweinydd cyfundebol ac fel sant personol hydreiddio'r naratif a thra-arglwyddiaethu ar bortread canolog y cofiannydd o'r pregethwr. Manylir ar y cyd-destunau hyn a cheisir asesu eu cysylltiad ag amcanion deongliadol Owen Thomas a'u heffaith ar y cofiant fel cyfanwaith. Yn unol â'r cofiant cyntaf a luniodd, y mae ystyried y gydberthynas gymhleth rhwng gwahanol ffurfiau cofiannol fel yr atgof neu'r llythyr, ynghyd â datblygu dealltwriaeth o oddrychedd neu wrthrychedd honedig ffurfiau o'r fath yn y cyfnod, yn arwyddocaol er mwyn goleuo bwriadau ac ymdriniaeth greadigol y cofiannydd â'i ffynonellau, a'r portread canolog a gyflwynir. Hyderir y bydd astudiaeth o'r fath yn amlygu mor greiddiol i ffurf y cofiant yw'r berthynas greadigol rhwng y cofiannydd a'i wrthrych yn lluniad y gofadail arhosol.

# 1

# 'byw yn dduwiol, a byw yn ddefnyddiol':

# Cofiannau Pregethwyr y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

Ar 8 Ionawr 1858, yn fuan wedi iddo gytuno i lunio cofiant i'r pregethwr poblogaidd John Jones, Tal-y-sarn, anfonodd Owen Thomas, Lerpwl lythyr at frawd ei wrthrych, David Jones, Treborth.[1] Y mae hwn yn llythyr pwysig, un y gwelodd Iolo Carnarvon ynddo 'ddiddordeb hanesyddol'.[2] Hyd y gwyddys, dyma'r unig drafodaeth uniongyrchol gan Owen Thomas ar y broses neu'r grefft o gofiannu ei wrthrych.[3] Ond fel y gwelir, nid oedd y cofiannydd yn gwbl fodlon â'i fyd.

> Yr wyf yn teimlo yn dra digalon i ymaflyd ynddo. Y mae genyf y fath syniad am ei ragoriaethau ef ag sydd yn fy llethu, wrth feddwl tynnu darluniad o hono, wrth yr hwn, i fesur mawr, os nad yn hollol, y bydd yn cael ei adnabod gan y rhai a ddeuant ar ol. Y mae arnaf ofn hefyd nad oes llawer o ddefnyddiau at hynny, o'i eiddo ef ei hun. Ond rhaid gwneud rhywbeth, a rhywbeth go dda hefyd. Byddai yn gam a cholled i'r wlad i'w goffadwriaeth gael ei adael, fel y mae yr eiddo llawer o wroniaid ein cenedl wedi ei adael – yn gwbl i draddodiad diafael a diymddiried. Byddai yn gywilydd i ni ei gyfarfod yn y nefoedd, heb wneud ein gorau i anrhydeddu ei enw ar y ddaear. Yr

---

[1] David Jones, Treborth (1805-1868). Pregethwr amlwg gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a fu'n gweinidogaethu yng Nghaernarfon. Yr oedd yn frawd i John Jones, Tal-y-sarn, ac ef a ddarbwyllodd Owen Thomas i ymgymryd â llunio'r cofiant wedi iddo ef ei hun fethu â dod i ben gyda'r cynllun. Dyma'r unig lythyr gan Owen Thomas at David Jones, hyd y gwyddys. Nid oes llythyrau at David Jones ymysg papurau Owen Thomas na phapurau David Jones yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Serch hynny, ceir casgliad o naw llythyr oddi wrth David Jones at Owen Thomas ymhlith papurau'r olaf. Gw. LlGC, Casgliad Saunders Lewis, Llythyrau at Owen Thomas gan David Jones, Treborth. Cyhoeddwyd un ohonynt gan gofiannydd modern Owen Thomas, sef D. Ben Rees, yn ei gyfrol *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr. Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979), tt.221-2. Am ragor am David Jones, gw. D. Charles Evans, *Adgofion am y Diweddar Barchedig David Jones, Treborth; yn cynwys crynhodeb o hanes ei fywyd* (Dolgellau, 1886).

[2] Cyhoeddwyd y llythyr o'i gwr gan Iolo Carnarvon yn ei gofiant i Owen Thomas. Gw. J. J. Roberts (Iolo Carnarvon), *Cofiant y Parchedig Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon, [1912]), tt.282-3.

[3] Prin y gellir ystyried y frawddeg 'ysgrifennwch y cofiant fel y byddo yn ei lunio ei hunan yn eich meddwl', yn enghraifft o sylw ystyrlon a chynhwysfawr ar y broses o gofiannu. Fe'i mynegwyd mewn llythyr at Evan Davies, Trefriw a oedd a'i fryd ar ysgrifennu cofiant Joseph Thomas, Carno (gw. LlGC, Papurau Owen Thomas, Llsg. 5930. Llythyr gan Owen Thomas at Evan Davies, 31 Ionawr 1889. Fe'i dyfynnir yn ogystal yn Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.213.

> wyf yn gobeithio y bydd i'r defnyddiau a ddisgwylir gennych o'r Gorllewin fod yn gyfryw ag a'n galluoga i roddi hanes go gyflawn a manwl am dano yn moreu ei oes. Gellwch chwi roddi hanes manwl am dano yn nechreu ei grefydd, a chychwyniad ei weinidogaeth. Nid wyf eto wedi penderfynu dim ynghylch y cynllun goreu ar y cofiant. Pe buasai efe wedi cadw dydd-lyfr, neu pe buasai digonedd o lythyrau ar gael, ni buasai angenrhaid petruso dim ynghylch y cynllun. Ond y mae eisiau ychydig feddwl pa un fyddai y goreu o dan yr amgylchiadau.[4]

Yn ogystal â lleisio'i gred Galfinaidd ei fod ef a'i wrthrych ymysg yr etholedigion, mae'r llythyr hwn yn amlygu dwy agwedd benodol ar Owen Thomas fel cofiannydd. Yn gyntaf, awgryma ei sylwadau mai ei fwriad oedd cyflwyno darlun o John Jones a fyddai'n gwarchod coffadwriaeth anrhydeddus John Jones ymysg cenedlaethau'r dyfodol. Yn ail, gwelir bod Owen Thomas yn meddwl yn greadigol ynglŷn â saernïaeth ei gofiant, er na rydd y dyfyniad fawr o oleuni ynglŷn â'i union syniadau parthed hynny.

Eto, megis cofianwyr eraill yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid gŵr yn gweithio mewn gwagle oedd Owen Thomas. Yr oedd ganddynt gynllun cyffredinol i'w ddilyn, sef traddodiad y cofiant crefyddol Cymraeg a flodeuodd yn ystod hanner cyntaf y ganrif. Ymysg y casgliad helaeth o gyfrolau yn llyfrgell Owen Thomas fe geir nid llai na thri chopi o *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Charles* (1816), a luniwyd gan ei gyfaill a'i gyd-bregethwr ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd Thomas Jones, Dinbych.[5] Dyma gyfrol sydd ymysg y cynharaf o gofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fe honnir yn aml mai dyma'r cofiant Cymraeg cyntaf.[6] Cofiant ydyw o ryw 250 o

---

[4] Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.282-3.

[5] Gw. *Catalogue of Dr. Owen Thomas's Library, in the Calvinistic Methodists (or Welsh Presbyterian) Theological College, Bala, North Wales* (Dolgelley, 1893), t.159. Am ragor o fanylion, gw. pennod 2, tt.99-101.

[6] Thomas Jones, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Charles, Gwyryf yn y Celfyddydau, yn ddiweddar o'r Bala, Sir Feirionydd, wedi ei gyfieithu a'i gasglu gan Thomas Jones; at yr hyn a chwanegwyd marwnad ar yr achos* (Bala, 1816). Bu farw Thomas Charles yn Hydref 1814. Ef oedd un o brif arweinwyr enwad y Methodistiaid Calfinaidd ar y pryd, yn sicr yng ngogledd Cymru. Cafwyd rhai cyfieithiadau i'r Gymraeg o gofiannau cynharach, megis *Cofiaint am y diweddar Barchedig John Brown, gweinidog yr efengyl yn Scotland: yn cynnwys rhai o'r pethau hynotaf yn ysdod ei fywyd ef* (Caerlleon, 1806) neu *Hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Jenkin Lewis; gynt Gweinidog yr efengyl y mhlith yr Independiaid yn Llanfyllin; a gyfieithwyd o'r Drysorfa Efengylaidd am fis Hydref, 1807* (Treffynnon, 1807). Serch hynny, ni ellir honni bod

dudalennau, ac o fwrw golwg arno daw'n amlwg yn syth ei fod wedi ei rannu'n ddwy ran.[7] Yn gyntaf, ceir hunangofiant yn llaw Thomas Charles (wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Thomas Jones). Ynddo, ymdeimlir yn uniongyrchol â phrofiadau mewnol Thomas Charles o safbwynt ei dröedigaeth a'i fywyd ysbrydol. Manylir ar ei ryfel ysbrydol yn erbyn calon bechadurus wrth iddo ymaflyd yn fynych â themtasiynau a ffaeleddau, megis hunanhyder a balchder. Ymglywir yn ogystal ag awydd y gŵr cadwedig i ymgyrraedd at dduwioldeb a santeiddhad wrth iddo ddyheu yn gyson am 'dynhau fy arfogaeth' rhag 'diogi ysbrydol' a rhag diofalwch cysegru ei hun i wasanaeth Duw a'i law ragluniaethol. Mynegir yn ogystal gyfnodau lle profa gysur grasol y 'gogoniant dwyfol' yn Nuw.[8] Ar derfyn yr hunangofiant, cynhwysir adran 'gofiannol' y gyfrol yn llaw Thomas Jones, a'i phwrpas yw dilyn ymlaen hanes ei wrthrych drwy fanylu ar ddeng mlynedd ar hugain olaf ei fywyd a'i farwolaeth. Er nad yw'r adran hon yn gwbl gronolegol, does dim dwywaith nad y patrwm bywgraffiadol cyhoeddus yw sail y naratif. Croniclir rhai o'r prif ddigwyddiadau ym mywyd Thomas Charles, megis ei briodas â Sally yn 1783, derbyn curadiaeth Llanymawddwy, ymuno â'r Methodistiaid Calfinaidd ac ymsefydlu yng ngogledd Cymru. Sonnir am ei waith yn bregethwr teithiol, ei lafur gyda'r ysgolion cylchynol ac yna'r ysgolion Sul, a'i gysylltiad a'i ddylanwad o fewn yr enwad, megis ei gyfraniad i waith y Gymdeithas Genhadol, sefydliad Cymdeithas y Beibl, ac yn benodol o ran gogledd Cymru, ordeiniad cyntaf rhai o bregethwyr yr enwad (a sefydlu'n swyddogol enwad y Methodistiaid Calfinaidd) yn 1811. Cyfeiria'r cofiannydd yn ogystal at ei weithiau cyhoeddedig pwysicaf, megis pedair cyfrol *Y Geiriadur Ysgrythyrol* (1805, 1808, 1810, 1811), ynghyd â defnyddio llythyrau Thomas Charles i amlygu 'awyddfryd, tueddiad a golygiadau ei yspryd' wrth ymdrin â digwyddiadau o'r fath.[9] Edrydd am hanes ei farwolaeth orfoleddus yn Nuw, a dyfynnir rhai o'i eiriau ar ei wely

---

*Cofiant . . . Thomas Charles* yn waith cwbl wreiddiol gan i Thomas Jones gyfieithu rhan helaethaf y gyfrol, sef hunangofiant Thomas Charles, o'r Saesneg.

[7] Am gynnwys a strwythur y gyfrol, gw. Atodiad 1.

[8] Jones, *Cofiant . . . Thomas Charles*, t.52.

[9] Ibid., t.154.

angau,[10] cyn diweddu'r cofiant gydag atodiad sy'n cynnwys hanesion amrywiol,[11] a marwnad.[12] Dywed y cofiannydd ei hun mai ei amcan yw adrodd 'hanes pwysfawr ei fywyd tra llafurus',[13] ac nid oes amheuaeth o ddarllen y testun nad ar lafur a diwydrwydd Thomas Charles fel pregethwr, gweinidog, cynghorwr a chyfundebwr y mae pwyslais yr adran gofiannol hon. Ceir cyfeiriadau cyson yn y testun at 'lafur', 'ymdrech', 'defnyddioldeb', a 'dyfalwch' Thomas Charles dros yr achos mawr.[14]

Cyfrol yw hon, felly, sy'n cyfuno naratif tröedigaeth yr hunangofiant ysbrydol â'r patrwm bywgraffiadol er mwyn mynegi dyheadau efengylaidd ac awydd mawr Charles i '[f]yw yn *dduwiol* a byw yn *ddefnyddiol*', a hynny yn wyneb pob anhawster, anfantais a phrofedigaeth. Fel yr awgryma'r dyfyniad uchod, gellir dadlau mai'r hyn sy'n dehongli buchedd Thomas Charles yw'r pwyslais amlwg ar dduwioldeb a diwydrwydd ei fywyd. Y mae i'r pwyslais hwn arwyddocâd penodol o ystyried y grymoedd a ffurfiodd gofiannau Anghydffurfiol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y gwelir maes o law yn y bennod hon, yr oedd cysyniadau piwritanaidd o'r ail ganrif ar bymtheg ynglŷn â moesoldeb a duwiolfrydedd yn drwm eu dylanwad ar y portread o'r gŵr duwiol yng nghofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn eu cyfrol *Victorian Nonconformity*, er enghraifft, noda John Briggs ac Ian Sellers fod ystyried disgyblaeth biwritanaidd yr ail ganrif ar bymtheg a brwdfrydedd efengyleiddiaeth y ddeunawfed ganrif yn hynod arwyddocaol wrth geisio olrhain hanfodion

---

[10] Ceir adroddiad byr am farwolaeth ei wraig yn ogystal.
[11] Mae'r atodiad yn rhychwantu tt.226-52, ac yn cynnwys hanes ychwanegol am y Feibl Gymdeithas, hanes taith Thomas Charles i'r Iwerddon a darnau 'chwanegiadol, sydd heb eu rhoddi yn eu lleoedd priodol' (t.241). Gw. Atodiad 1 y traethawd hwn.
[12] Er mai dyma oedd cofiant cyntaf Thomas Jones, lluniodd farwnadau yn gynharach yn ei yrfa lenyddol, ac felly nid oedd y gynneddf goffadwriaethol yn ddieithr iddo. Gw. Thomas Jones, *Marwnad ar Anne Parry, o Fryn Milan ym mhlwyf Llanrhaiadr, sir Ddimbych* (Gwrecsam, 1788); idem, *Marwnad mewn côf am y Parchedig Daniel Rowlands . . . hefyd am y Parchedig William Williams . . . ac yn ddiweddaf, am Dafydd Morys* (Gwrecsam, 1791); idem, *Marwnad ar yr ystyriaeth alarus o farwolaeth y Parch. Thomas Charles . . . a fu farw . . . 1814* (Dinbych, 1816). Ceir, yn ogystal, yn yr atodiad farwnad gan Dafydd Cadwaladr, sydd wedi ei gosod fel llyfryn ar wahân i weddill y gyfrol.
[13] Jones, *Cofiant . . . Thomas Charles*, t.153.
[14] Ibid., t.191. Gw., er enghraifft, tt.166, 173, 174, 179, 182, 188, 197, 207, 209, 212-13, 216.

cymdeithas Anghydffurfiol Galfinaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[15] Dyma'r briodas rhwng piwritaniaeth ac efengyleiddiaeth a ddehonglir gan David Bebbington yn ei gyfrol ddylanwadol *Evangelicalism in Modern Britain*, lle gesyd y pwyslais newydd a gafwyd gan yr efengyleiddwyr ar weithrediaeth (*activism*) yn un o hanfodion efengyleiddiaeth.[16] Ac fel y dywed David Ceri Jones:

> The evangelical stress on the centrality of the Bible, the atoning death of Christ and the necessity of individual conversion was not unique. What was innovative was the stress on activity, a focus which marked the evangelicals out from their most immediate and closest spiritual predecessors, the Puritans.[17]

Yng Nghymru, er na ddylid ystyried Methodistiaeth yn ddilyniant ffurfiol ac uniongyrchol i biwritaniaeth yr ail ganrif ar bymtheg, mae sawl beirniad wedi amlygu dylanwad y meddwl piwritanaidd, ynghyd â'r doreth o lenyddiaeth ddefosiynol a hyfforddiadol a grëwyd gan y meddwl hwnnw, ar efengyleiddiaeth a Methodistiaeth y ddeunawfed ganrif. Yn ôl Geraint H. Jenkins: 'Judging by the amount of puritan literature read by the early Methodists, puritan teaching on inner experience and conversion was an indispensable guide in their own lives . . . The early devotional experiences of Methodists owed much to the pervasive influence and spiritual guidance of puritan literature.'[18] Ac mae'n wir iddo barhau i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ogystal, a hynny yn sgil ymdrechion arweinwyr y Methodistiaid Calfinaidd i

---

[15] John Briggs ac Ian Sellers (goln), *Victorian Nonconformity* (London, 1973), tt.2-5. Gw. yn ogystal honiad Ian Bradley mai efengyliaeth oedd 'one of the most important forces at work in shaping the character of the Victorians' (Ian Bradley, *The Call to Seriousness: The Evangelical Impact on the Victorians* (London, 1976), t.14).

[16] David W. Bebbington, *Evangelicalism in Modern Britain: A History from the 1730s to the 1980s* (London, 1989), tt.10-12.

[17] David Ceri Jones, *'A Glorious Work in the World': Welsh Methodism and the International Evangelical Revival, 1735-1750* (Cardiff, 2004), tt.45-6.

[18] Geraint H. Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales, 1660-1730* (Cardiff, 1978), t.123. Yn ôl Densil Morgan esgorodd y Diwygiad Methodistaidd ar 'a new emphasis in Protestant spirituality, more activist and energetic than previously and very often characterized by the outward phenomena of revivalism' (Densil Morgan, 'Continuity, novelty and evangelicalism in Wales, c.*1640-1850*', yn *The Emergence of Evangelicalism: Exploring Historical Continuities*, gol. Michael Haykin a Kenneth Stewart (Nottingham, 2008), t.86.

gadarnhau hunaniaeth a seiliau hanesyddol yr enwad newydd. Noda Densil Morgan, er enghraifft:

> Both the evangelical Nonconformists of the nineteenth century and, more surprisingly, the Calvinistic Methodists, whose roots were very definitely not in Puritan Dissent but in central Anglican churchmanship, looked back to the Puritans with a pride and admiration that affirmed a putative, if spirited, continuity with them.[19]

Does dim dwywaith nad oedd Calfiniaeth Fethodistaidd neu efengylaidd yn un o werthoedd canolog Anghydffurfiaeth erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, didwylledd a difrifoldeb y mudiad efengylaidd a'u profiadau ysbrydol deinamig a wnaeth i R. Tudur Jones nodi mai 'Piwritaniaeth wedi ei thrydaneiddio gan Fethodistiaeth' ydoedd efengyliaeth Anghydffurfiol y cyfnod.[20]

Gall ystyried cysylltiad o'r fath fwrw goleuni ar yr egni ysbrydol, diwylliannol a llenyddol sylweddol a welwyd yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg,[21] ynghyd ag egluro tuedd y llenyddiaeth honno i fod yn hyfforddiadol a didactig. Fodd bynnag, dylid gochel rhag synio mai 'duwioldeb' piwritanaidd ar y naill law a 'diwydrwydd' Methodistaidd ar y llaw arall yw sail cofiant Thomas Charles, na chofiannau pregethwyr y

---

[19] Ibid., t.91. Gw., yn ogystal, eiriau Medwin Hughes: 'The Calvinistic Methodist writers between the years 1790 and 1825 made far greater use than their predecessors of the Puritan tradition. It is not claimed that Methodism lost its originality . . . On the contrary, it persisted in developing the extemporaneous identity of the Movement but was also conscious of the Puritan tradition which the Methodist writers had developed' (Medwin Hughes, 'Studies in Calvinistic Methodist Welsh literature, 1790-1825' (D. Phil. Dissertation (Oxford), 1987), t.139). Gw. ymhellach Derec Llwyd Morgan, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul, 1981), t.40; R. Tudur Jones, 'Anghydffurfiaeth', yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Llandybie, 1968), t.123. Un o fentrau llenyddol mwyaf Thomas Jones yn ystod 25 mlynedd olaf ei oes, er enghraifft, oedd cyfieithu gwaith William Gurnal, *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth neu, Draethawd am ryfel y saint yn erbyn y diafol* (1796-1819). Yr oedd arweinydd y Methodistiaid yng ngogledd Cymru wedi 1841, Henry Rees, yn drwm o dan ddylanwad gweithiau'r Piwritaniaid (gw. pennod 4 y traethawd hwn).

[20] R. Tudur Jones, 'Y "Dwym Ias" a'r "Sentars Sychion"', yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor, 1998), tt.154, 156 a *passim*; idem, 'Anghydffurfiaeth', *passim*; idem, 'Awr anterth efengyliaeth yng Nghymru 1800-1850', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), tt.285-308; Densil Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul, 1991), yn benodol pennod 10.

[21] John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990; arg. 1992), tt.307, 326-7, 331.

bedwaredd ganrif ar bymtheg. Byddai hynny yn gorsymleiddio'r berthynas gymhleth rhwng yr elfennau hyn. I'r Piwritaniaid a'r Methodistiaid, yr oedd duwioldeb a diwydrwydd ynghlwm wrth ei gilydd yn ymdrech y Cristion i adnabod a gogoneddu ei Dduw. Yn *Geiriadur Ysgrythyrol* Thomas Charles ei hun, cysylltir 'duwioldeb' ag athrawiaeth Galfinaidd santeiddhad er mwyn dehongli diben pennaf cyfrifoldeb y pechadur a enillodd gyflwr o ras, sef buchedd dduwiol a oedd 'yn debyg iddo [Duw] a'i ogoneddu'.[22] Rhan o'r bywyd hwnnw yw diwydrwydd ysbrydol, sef 'prysurdeb, dyfalwch, gweithgarwch, difrifwch, awyddfryd . . . yn mhethau Duw, yn ddiarbed a diflino' er mwyn amlygu 'galwedigaeth ac etholedigaeth' y pechadur.[23] Ond fel y gwelwyd eisoes yn rhagymadrodd y traethawd hwn, y mae i'w 'alwedigaeth' ystyr pellach yn ogystal, sef 'y sefyllfa a'r gwaith y mae yr Arglwydd yn ei ragluniaeth yn galw dynion', ac y mae diwydrwydd a ffyddlondeb wrth y gwaith hwn yn hanfodol er gogoneddu awdurdod yr Arglwydd.[24] O ystyried hynny, annoeth yn ogystal fyddai dehongli 'duwioldeb' mewnol (hunangofiannol) a 'diwydrwydd' allanol (cofiannol) cofiant Thomas Charles fel dwy elfen bendant ac anghymarus. Yn wir, ni ddylid anghofio pa mor bwysig yw ystyried cymhlethdod y berthynas rhwng profiad mewnol yr hunangofiant a bywyd allanol a chyhoeddus y pregethwr yng nghofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn y cyfnod hwn ystyrid bod i'r hunangofiant, a'r hunangofiannol, bwysau trymach yng nghlorian gwirionedd na'r cofiannol, gan mai o law'r gwrthrych ei hun y daethai'r hanes. O'r herwydd caiff yr adroddiad allanol am ei fywyd ei gadarnhau neu ei ddilysu gan 'wirionedd' honedig yr hunangofiant. Dyma elfen sy'n ymddangos mewn sawl cofiant cynnar, ac fel y gwelir maes o law cyfrifai cofianwyr yr oes ddiffyg deunydd hunangofiannol o'r fath ymysg prif anfanteision eu gwaith, hyd yn oed yn negawdau canol y ganrif. Eto, yr un modd, y mae'r adroddiad allanol, cofiannol yn dwysáu'r adroddiad mewnol, hunangofiannol, ynghyd

[22] Thomas Charles, *Geiriadur Ysgrythyrol, yn cynnwys Hanesiaeth, Duwinyddiaeth, Athroniaeth, a Beirniadaeth Ysgrythyrol* (6ed arg.; Bala, 1864), t.318.
[23] Ibid., t.307.
[24] Ibid., t.409.

â chyflwyno cyd-destun i rai o'r myfyrdodau a gyflwynir. Un o'r elfennau sy'n hyrwyddo'r effaith ddeublyg hon yng nghofiant Thomas Charles yw'r deunyddiau hunangofiannol, megis llythyrau, a gynhwysir gan y cofiannydd.[25] Yn wir, dywed Thomas Jones mai sail llawer o'r adran hon yw'r 'hyn sydd mewn cof gan ei gyfeillion am dano, llythyrau llawer atto allan o bob parth o'r deyrnas, a'i lythyrau yntau at amryw Gyfatebwyr, ar amryw achosion', ac mae'n amlwg fod Thomas Jones yn cynnwys ei atgofion ei hun ymhlith y deunyddiau hynny.[26] Ynghyd â dadlennu'r enaid duwiol sy'n gyfrwng esiampl, mae'r hunangofiant yn amlygu'r nodweddion a fyddai'n galluogi Thomas Charles i gyflawni gweinidogaeth ddiwyd a bendithiol. Yr un modd, dengys ei yrfa lwyddiannus ei rinweddau moesol a'i ymroddiad duwiol i geisio cymundeb â'i Dduw ac i achub eneidiau eraill yn ogystal. Cysylltir y ddwy elfen hyn ymhellach gan amcanion didactig yr hunangofiannydd a'r cofiannydd fel ei gilydd. O'r herwydd, gellir dadlau bod yr hunangofiannol a'r cofiannol yn amlygu'r ddwy elfen hanfodol i'r fuchedd a goffeid, sef duwioldeb ar y naill law a defnyddioldeb a diwydrwydd ar y llall. Dyma'r patrwm clir a welir yn y cofiant, un a fyddai'n ddylanwadol iawn ar gofiannau crefyddol eraill y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, dengys y cofiant mor arwyddocaol yw ystyried y berthynas rhwng y byd mewnol, personol, hunangofiannol a'r byd allanol, cyhoeddus a bywgraffiadol i unrhyw un a fyn ddehongli llenyddiaeth gofiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bydd manylu rhywfaint ar darddiadau mwyaf arwyddocaol y ffurf yn fodd o amlygu'r berthynas gymhleth hon.

[25] Gw. y drafodaeth ar lythyrau mewn cofiannau ym mhennod 4, tt.298-319. Gw. Atodiad 1.
[26] Jones, *Cofiant . . . Thomas Charles*, t.153.

## 1.1 'CYD-DREFNIAD O'R HOLL FENTHYGIADAU': TARDDIAD Y COFIANT

Gellir cytuno â Saunders Lewis nad syml yw seiliau cofiannau pregethwyr Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Serch hynny, mae dadansoddiad o'r ffurfiau a gynigiodd batrwm i'r cofiant, neu a ddylanwadodd arno, yn cadarnhau'r cymhlethdod sy'n bodoli rhwng ffynonellau a *genres* mewnol ac allanol, personol a chyhoeddus, hunangofiannol a chofiannol yn hanes y ffurf. Ymhellach, gwelir bod y cymhlethdod hwn yn gysylltiedig, onid yn hyrwyddo, y pwyslais didactig ar bortreadu duwioldeb a diwydrwydd y gwrthrych cofiannol.

### 1.1.1 'Mapio dirgel-leoedd y galon': yr hunangofiant ysbrydol

Soniwyd eisoes am le amlwg yr hunangofiant yng nghofiant Thomas Charles, lle mae cyfieithiad Thomas Jones yn rhychwantu dros hanner hyd y gyfrol.[27] Eto, ni ellir disgrifio'r hunangofiant fel naratif trefnus, ymwybodol lenyddol sy'n olrhain hanes bywyd y gwrthrych. Ac eithrio'r tudalennau cyntaf lle rhydd Thomas Charles rai ffeithiau am ei enedigaeth a'i blentyndod, cywirach fyddai dweud mai cofnodion dyddiadurol yn rhychwantu cyfnod o ddeng mlynedd a geir yma, wedi eu fframio gan ddwy garreg filltir yn ei fywyd, sef clywed pregeth gan Daniel Rowland yn Ionawr 1773[28] a fu'n gyfrwng tröedigaeth, a phriodi Sally ei wraig ac ymsefydlu yng ngogledd Cymru yn haf 1783.[29] Mae'r naratif yn sicr yn pwysleisio lle canolog y cyfnod ffurfiannol hwn yn ei hanes, lle mae'n ymdrechu'n ddiwyd i ddinoethi ei gyflwr ac i fyw buchedd dduwiolfrydig. Wrth gwrs, nid rhywbeth newydd oedd 'cofiaeth'

[27] O dudalen 5 hyd 153 (o gyfrol 250 o dudalennau). Gw. Atodiad 1.
[28] Serch hynny, gw. tystiolaeth Thomas Jones yn y cofiant pan ddywed i Thomas Charles '[dd]echrau ysgrifennu ei Gofiant (memoranda) am dano ei hun yn mis Tachwedd, 1778'. Gw. Jones, *Cofiant . . . Thomas Charles*, t.164.
[29] Ibid., tt.8 a 152-3.

Thomas Charles.[30] Yr oedd cyffesiadau Awstin Sant yn y bedwaredd ganrif, gwaith a ddisgrifiwyd fel 'a manifesto of the inner world',[31] wedi cynnig patrwm i Gristionogion o hunanymholi dwys ar gyflwr enaid a chalon. Ac er na ddylid synio am *genre* yr hunangofiant ysbrydol yn nhermau traddodiad cwbl unffurf,[32] mae'n amlwg bod y llais cyffesiadol wedi canfod mynegiant newydd yng Nghalfiniaeth y Diwygiad Protestannaidd, ac yn arbennig ymysg llenyddiaeth ddefosiynol a didactig Piwritaniaid ac Ymneilltuwyr yr ail ganrif ar bymtheg. Fel y dywed Roger Sharrock: 'in the eighty years before the Civil War, diaries and confessions abounded in which assurances of grace and occasions of doubt and temptation were recorded'.[33] Wrth i'r ail ganrif ar bymtheg fynd rhagddi, datblygodd yr hunangofiant ysbrydol ar y cyd â chyfryngau eraill, megis llythyrau a dyddiaduron, o fewn corff o lenyddiaeth hyfforddiadol neu ddidactig a amcanai achub eneidiau a chymell duwiolfrydedd.[34] Yr un nod oedd i'r hunangofiant â gweithiau defosiynol nodedig, megis *The Plaine Mans Pathway to Heauen* (1601) a *The Practice of Piety* (1611), sef gosod canllaw i'r darllenwyr 'i drafod twf duwioldeb a santeiddhad yn yr unigolyn'.[35] Nid rhyfedd mo hyn o ystyried mor ganolog ydoedd y cysyniad o dduwioldeb i ddiwinyddiaeth gyfamodol Calfiniaeth ffederal. [36] I'r Calfinydd, yr oedd dyn mewn cyflwr o bechod tragwyddol

---

[30] Ibid., t.153.
[31] Linda Anderson, *Autobiography* (London & New York, 2001), t.20.
[32] Gw. sylwadau diweddar Bruce Hindmarsh, 'The antecedants of evangelical conversion narrative: spiritual autobiography and the Christian tradition', yn *The Emergence of Evangelicalism: Exploring Historical Continuities*, gol. Michael Haykin a Kenneth Stewart (Nottingham, 2008), tt.327-44.
[33] Roger Sharrock, 'Introduction', yn John Bunyan, *Grace Abounding to the Chief of Sinners*, gol. Roger Sharrock (Oxford, 1962), t.xxviii.
[34] Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales*, tt.36, 38, gw. hefyd tt.113-45; Rheinallt Llwyd, 'Printing and publishing in the seventeenth century', yn *A Nation and its Books: A History of the Book in Wales*, gol. Philip Henry Jones ac Eiluned Rees (Aberystwyth, 1998), tt.93, 98-9, 103.
[35] Arthur Dent, *The Plaine Mans Pathway to Heauen, wherein every man may clearely see whether hee shall be saued or damned* (1601); Lewis Bayly, *Practice of Piety: directing a Christian how to walke that he may please God* (1611). Bu Lewis Bayly yn esgob Bangor. Gw. John Gwynfor Jones, '*The Practice of Piety*, campwaith Lewis Bayly, esgob Bangor', yn idem, *Crefydd a Chymdeithas: Astudiaethau ar Hanes y Ffydd Brotestannaidd yng Nghymru c.1559-1750* (Caerdydd, 2007), t.245. Cyfieithwyd y ddwy gyfrol ddylanwadol hyn i'r Gymraeg yn 1630, y naill gan Robert Llwyd, *Llwybr Hyfforddynn Cyfarwyddo yr Anghyfarwydd i'r Nefoedd*, a'r llall gan Rowland Vaughan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb: yn cyfarwyddo dyn i ryngu bodd Duw, yr hwn lyfr â osodwyd allan yn Saeson-aec o waith y gwir barchedig dâd Lewis, Esgob Bangor.*
[36] R. Tudur Jones, 'Cewri ar eu gliniau: agweddau ar dduwioldeb y Piwritaniaid', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), tt.18-20, 22-3; Goronwy Wyn Owen, *Cewri'r Cyfamod: Y Piwritaniaid Cymreig, 1630-1660* (Caernarfon, 2008), tt.92-5;

oherwydd i'r cyfamod gwreiddiol rhyngddo a Duw, sef y cyfamod gweithredoedd, gael ei dorri yng nghwymp Adda. Ond prynwyd pechod dyn gan waed Crist, sef ail gyfamod Duw â dyn, y cyfamod gras. Ymateb dyn i ras Duw, a'i gred yn aberth a chariad Crist tuag ato, ydoedd tröedigaeth ysbrydol, sef dechrau'r daith o dywyllwch i oleuni, o ddamnedigaeth i iachawdwriaeth. Rhoddai sylweddoliad o ras Duw y cyfle i ddyn i ailgysylltu ei berthynas bersonol a'i gymundeb â'i Dad Nefol, sef prif nod unrhyw Gristion, i'w addoli a'i 'ogoneddu . . . mewn hyn o fyd a'i fwynhau nid yn unig yn y byd hwn ond yn dragywydd'.[37] Serch hynny, er ei achub o ras nid oedd iachawdwriaeth dyn yn gwbl ddiamod. Fel y noda Goronwy Wyn Owen, rhaid oedd i'r 'pechadur edifeiriol' ufuddhau neu 'ymostwng i ganllawiau'r gyfraith foesol ac ymestyn ar ôl Crist ac ymostwng iddo mewn edifeiriwch a ffydd'.[38] Yr oedd, felly, gyfrifoldeb ar bob Cristion i hunanymholi, i archwilio a 'mapio dirgel-leoedd y galon' lygredig. Gosodai hynny 'bwys mawr ar foesoldeb, ar ofal, ar ddisgyblaeth enaid', a chynnig cynhorthwy i ddyn ddeall yr ystyriaethau hanfodol hyn tuag at dderbyn iachawdwriaeth.[39] Gwnaethpwyd hynny drwy brif gyfrwng y Piwritaniaid, sef pregethu, wrth gwrs. Ond fel y nododd R. Tudur Jones amlygid y rhyfel dros galon ac enaid dyn, rhwng pechod ar y naill law a chariad a gras ar y llall, yn llenyddiaeth biwritanaidd yr ail ganrif ar

---

Geraint H. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar* (Caerdydd, 1983), t.184. Er mai cyfeirio a wna'r enw Piwritaniaid at ddosbarth penodol o wŷr a ddangosodd awydd mawr a gwresog dros ddiwygio'r eglwys er mwyn achub eneidiau, mae'n deg sôn yn ogystal am feddylfryd piwritanaidd a rannwyd gan sawl dosbarth o bobl na fyddai am arddel y label dirmygus hwn, chwedl Glyn Tegai Hughes. Yn ogystal, fel y sonia sawl beirniad, goroesodd piwritaniaeth Seisnig yr ail ganrif ar bymtheg i Gymru'r ddeunawfed ganrif, ac unwaith eto rhannwyd sawl cysyniad piwritanaidd gan offeiriaid o fewn yr Eglwys ac Ymneilltuwyr y tu allan iddi. Un o'r prif gysyniadau hyn oedd agwedd at dduwioldeb. Gw. Glyn Tegai Hughes, 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid', yn *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn*, gol. Derec Llwyd Morgan (Llandysul, 1991), tt31-54; Owen, *Cewri'r Cyfamod*, tt.3-10, 156; John Gwynfor Jones, 'Dylanwad piwritaniaeth ar Anglicaniaeth yng Nghymru', yn idem, *Crefydd a Chymdeithas: Astudiaethau ar Hanes y Ffydd Brotestannaidd yng Nghymru c.1559-1750* (Caerdydd, 2007), t.217; Davies, *Hanes Cymru*, tt.264-5. Gw. hefyd R. Tudur Jones, 'Relations between Anglicans and Dissenters: the promotion of piety', yn *A History of the Church in Wales*, gol. D. Walker (Penarth, 1976), tt.77-102. Ar y Piwritaniaid yn fwy cyffredinol gw., er enghraifft, W. Haller, *The Rise of Puritanism* (Columbia, 1938); Jenkins, *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar*; John Gwynfor Jones (gol.), *Agweddau ar Dwf Piwritaniaeth yng Nghymru yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg* (Llanbed, 1992). Am ddiffiniad o 'Bum Pwnc' Calfiniaeth, gw. 'Calfiniaeth ac Arminiaeth', yn John Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist* (Lerpwl, 1931), t.27; Gwyn Davies, *Golau Gwlad: Cristnogaeth yng Nghymru 200-2000* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2002).

[37] Jones, 'Cewri ar eu gliniau', t.26. Gw. hefyd idem, 'Athrawiaeth y cyfamodau', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), tt.9-16.

[38] Owen, *Cewri'r Cyfamod*, t.93.

[39] Morgan, *Y Diwygiad Mawr*, t.142.

bymtheg drwy ddadansoddi 'cyflwr enaid' a phwysleisio 'temtasiynau, trafferthion, pryderon a gobeithion yr enaid ymchwilgar'.[40]

Ceir mynegiant grymus o'r enaid piwritanaidd yn hunangofiant John Bunyan, *Grace Abounding to the Chief of Sinners* (1666). Ysgrifennwyd y gwaith tra oedd y tincer o lenor yn y carchar oherwydd ei safbwyntiau crefyddol, ac mae'n ymgais ganddo at adrodd hanes ei fywyd. Eithr y mae cyd-destun defosiynol a didactig y gwaith yn dadlennu nad ysgrifennu hanes yw priod amcan yr awdur.[41] Pwrpas y gwaith yw dysgu hanfodion y ffydd i'w gynulleidfa ac annog 'mewnfodaeth ronc' y cyfnod, chwedl Mairwen Lewis.[42] Diddorol yw geiriau'r awdur ar dudalen deitl yr argraffiad cyntaf, pan ddywed y caiff yr hunangofiant ei gyhoeddi 'for the support of the weak and tempted people of God', ac mae teitl cyflawn y gwaith yn dadlennu amcanion penodol yr awdur:

> *Grace Abounding to the chief of Sinners: or, a Brief and Faithful Relation of the Exceeding Mercy of God in Christ, to his poor Servant, John Bunyan. Wherein is particularly shewed, the manner of his Conversion, his fight and trouble for Sin, his dreadful Temptations, also how he despaired of God's mercy, and how the Lord at length thorow Christ did deliver him from all the guilt and terror that lay upon him.*[43]

Dyma deitl sydd hefyd yn diffinio strwythur cydnabyddedig yr hunangofiant ysbrydol,[44] ac fel y gwelir, mae tröedigaeth yr awdur yn ganolog i'r naratif. Yn wir, mae'r profiadau sydd ynghlwm wrth ei dröedigaeth yn rhychwantu dau draean o gynnwys yr hunangofiant, ond nid un digwyddiad ynysig mohono. Uchafbwynt ydoedd i gyfnod hir o fyfyrio ar gyflwr ysbrydol, o bendilio rhwng uchelfannau hyderus iachawdwriaeth ar y naill law a chorsydd

---

[40] Jones, 'Cewri ar eu gliniau', tt.41-2.
[41] Nid syndod, felly, weld cyfeiriad yn y gyfrol at weithiau Arthur Dent a Lewis Bayly uchod. John Bunyan, *Grace Abounding to the Chief of Sinners*, gol. Roger Sharrock (1666; Oxford, 1962 edn).
John Bunyan, *Grace Abounding*, t.8.
[42] Gw. Mairwen Lewis, 'Astudiaeth gymharol o'r cyfieithiadau Cymraeg o rai o weithiau John Bunyan, a'u lle a'u dylanwad yn llên Cymru' (Traethawd MA, Cymru (Aberystwyth), 1957), t.361; Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales*, t.123; Hughes, 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid', tt.32-3.
[43] Bunyan, *Grace Abounding*, tudalen-deitl.
[44] Gw. Sharrock, 'Introduction', tt.xxix-xxxi.

dwys amheuaeth a damnedigaeth ar y llall.[45] Mae gweddill yr hanes wedi ei rannu rhwng ei fywyd pechadurus blaenorol ac yna ei alwad i bregethu, a pheth adroddiad am ei weinidogaeth wedi ei dröedigaeth.[46] Byddid wedi disgwyl cael yr elfen gyntaf, gan ei bod yn grymuso effaith y dröedigaeth, ac mae i weinidogaeth gyhoeddus John Bunyan ei lle yn ogystal, yn sicr o gofio cyd-destun Calfinaidd a didactig y gwaith, ynghyd â phwysigrwydd pregethu'r gair i'r Piwritaniaid fel modd o ogoneddu Crist ac argyhoeddi ac addysgu eneidiau. Er nad yw'r elfen hon yn rhan sylweddol o'r naratif, mae'n dangos unwaith eto na ellir gorsymleiddio'r berthynas rhwng yr hunangofiannol a'r cofiannol, a rhwng bywyd mewnol a chyhoeddus y gwrthrych. Dwysáu amcan hyfforddiadol yr hunangofiant ysbrydol a wna pwyslais John Bunyan ar hygyrchedd y gwaith i'w gynulleidfa. Gwelir hynny yn glir yn ei ddefnydd o brofiadau pob dydd, dylanwad ieithwedd feiblaidd, gyfarwydd, ac arddull ddiwastraff, blaen ac eglur.[47] Iddo ef, byddai mynegiant addurnedig, coeth yn anghymarus â'r profiadau ysbrydol a fynegid: 'I dare not', meddai, 'God did not play in convincing of me . . . wherefore I may not play in my relating of them, but be plain and simple, and lay down the thing as it was'.[48] Er bod pob hunangofiant yn unigryw, felly, yr oedd rhai nodweddion o ran adeiladwaith a chynnwys yn rhwym o'u cysylltu gan mai'r un oedd profiad ysbrydol y Cristion yn ei hanfod.[49] Ar un llaw, yr oedd perygl i hynny arwain at ysgrifennu confensiynol a fformiwlëig, ac at gyfyngu ar brofiad rhai awduron nad oeddynt am ailadrodd yr hyn a oedd yn hysbys eisoes mewn hunangofiannau eraill. Ond ar y llaw arall, cynyddai unffurfiaeth strwythurol a naratifol fuddioldeb neu werth didactig y gweithiau, gan y gallasant fod yn

---

[45] Er enghraifft, pan ddywed John Bunyan: 'I thought no man in England could please God better than I. But poor wretch as I was, I was all this while ignorant of Jesus Christ' (Bunyan, *Grace Abounding*, t.14). Fel y noda G. A. Starr: 'spiritual autobiography tended to be a summing-up and review of a whole series of self-dissections'. G. A. Starr, *Defoe and Spiritual Autobiography* (New York, 1965; arg. 1971), t.6.
[46] Ibid., t.40.
[47] Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales*, t.38; Lewis, 'Astudiaeth gymharol . . . o weithiau John Bunyan', t.365.
[48] Bunyan, *Grace Abounding*, tt.3-4.
[49] Y mae G. A Starr yn dyfynnu hunangofiant Thomas Halyburton, lle mynega ei obaith y byddai ei gyfrol yn ddefnyddiol yn llaw unrhyw Gristion, 'considering that the work of the Lord, in substance, is uniform and the same in all' (*Memoirs of the Rev. Thomas Halyburton: Professor of Divinity in the University of St. Andrews* (1714; Princeton, arg. 1833), t.57), yn *Defoe and Spiritual Autobiography*, t.14.

ddealladwy a llesol i'r gynulleidfa ehangaf posibl. Wrth gwrs, nid pob un o'r hunangofianwyr a feddai ddawn lenyddol awdur *Grace Abounding*, a gellir ystyried y gwaith hwn yn enghraifft nodedig o'r *genre*. Fel y dywed Linda Anderson am Bunyan: 'he can assert its originality in the face of an apparent conventionality, even, indeed, because of it.'[50] Megis ei waith enwocaf *The Pilgrim's Progress* (1678), bu i *Grace Abounding* brofi'n hynod boblogaidd. Ymddangosodd sawl argraffiad yn ystod oes yr awdur ei hun, ac fe'i hargraffwyd nifer o weithiau wedi ei farwolaeth ynghyd â'i gyfieithu i sawl iaith. Un o'r ieithoedd hynny oedd y Gymraeg, lle cafodd groeso gwresog gan Ymneilltuwyr a Methodistiaid y ddeunawfed ganrif fel ei gilydd. Nid rhyfedd hyn o gofio i biwritaniaeth yr ail ganrif ar bymtheg dreiddio i Gymru'r ddeunawfed ganrif.[51] O'r herwydd, gellir honni bod dylanwad Bunyan i'w weld ar gynnwys ac adeiladwaith yr adrannau hunangofiannol a geir yn rhai o gofiannau Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[52]

Yn 1737 y cyhoeddwyd y cyfieithiad, o dan y teitl *Helaethrwydd o Ras i'r Gwaelaf o Bechaduriaid*.[53] Mae'n debyg mai dyma un o'r hunangofiannau ysbrydol cynharaf a geir yn

---

[50] Anderson, *Autobiography*, t.31; gw. hefyd Roger Sharrock, 'Preface' yn John Bunyan, *Grace Abounding to the Chief of Sinners*, gol. Roger Sharrock (Oxford, 1962), t.iii.

[51] Er enghraifft, yng nghysondeb y cyfrolau defosiynol a diwygiadol a gyhoeddid yng nghanol y ganrif honno. Gw. ymhellach Geraint H. Jenkins, 'The eighteenth century', yn *A Nation and its Books: A History of the Book in Wales*, gol. Philip Henry Jones ac Eiluned Rees (Aberystwyth, 1998), t.115. Am ddylanwad nid bychan gweithiau John Bunyan ar Gymry'r cyfnod, gw. Jones, 'Cewri ar eu gliniau', t.43; Jones, 'Anghydffurfiaeth', t.123 ac yn benodol Lewis, 'Astudiaeth gymharol . . . o weithiau John Bunyan', t.83. Gw. yn ogystal J. H. Morgan, 'Y meddwl piwritanaidd a llên', *Y Llenor*, 3, 1 (1924), 5-13; R. Tudur Jones, 'Rhesymeg y Piwritaniaid', *Efrydiau Athronyddol*, VIII (1950), tt.19-37.

[52] Lewis, 'Astudiaeth gymharol . . . o weithiau John Bunyan', t.367.

[53] Gw. John Bunyan, *Helaethrwydd o Ras i'r Gwaelaf o Bechaduriaid, mewn hanes gywyr a ffyddlon o fywyd a marwolaeth John Bunyan: neu ddadguddiad rhagorol, a rhyfeddol drugaredd Duw yng Nghrist iddo ef*, cyf. John Einnon (Caerfyrddin, 1737). Cyfieithiad ydoedd o'r nawfed argraffiad Saesneg a ymddangosodd yn 1716. Cafwyd dau gyfieithiad pellach yn y ddeunawfed ganrif, sef cyfieithiad Rhys Thomas, *Helaethrwydd o Ras i'r Pennaf o Bechaduriaid, mewn ffyddlon hanes o fywyd a marwolaeth y Parch. John Bunyan neu, Ymadroddiad byr o ragorol drugaredd Duw tu ag atto ef yn Nghrist* (Caerfyrddin, 1763) a chyfieithiad Evan Thomas, *Helaethrwydd o Ras i'r Gwaelaf o Bechaduriaid, sef cywyr hanes o fywyd a marwolaeth Ioan Bunyan: neu Fyrr ddatcuddiad o ragorol drugaredd Duw iddo êf* (Caerlleon, 1767). Dyma'r cyfieithiad a welodd Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', yn *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t.343; gw. Lewis, 'Astudiaeth gymharol . . . o weithiau John Bunyan', tt.130-41. Dyfynnir o gyfieithiad 1737 yn yr astudiaeth hon oni nodir yn wahanol.

yr iaith ac iddo sefydlu patrwm ar gyfer hunangofiannau Cymraeg diweddarach.[54] Tua'r un pryd wrth gwrs y cyneuwyd fflamau Trefeca a Llangeitho a daniodd goelcerth y Diwygiad Methodistaidd drwy Gymru.[55] Meginwyd y diwygiad hwn gan brofiadau seiadol y Methodistiaid, lle cedwid cymdeithas â'i gilydd 'i geryddu, i hyfforddi, i adeiladu, ac i gefnogi', chwedl Williams Pantycelyn yn ei *Drws y Society Profiad* (1777).[56] Ymgais i leisio'r union brofiad ingol a gorfoleddus hwnnw o ras achubol Duw ar y galon garreg yw priod waith hunangofiant John Thomas, *Rhad Ras*, a gyhoeddwyd yn 1810.[57] Er mai cyfrol yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw, Methodistiaeth y ddeunawfed ganrif yn ddiau sy'n llywio a thanio'r cynnwys.[58] Bu'r hunangofiant yn boblogaidd yn ei gyfnod, a gwelodd beirniaid diweddarach werth y gwaith yn ogystal, gan ei alw'n 'glasur gwerinol' ac yn 'llyfr hanfodol amrwd'.[59] Megis *Helaethrwydd o Ras*, nid croniclo 'hanes' ei fywyd a wna John Thomas, rhagor na chynnig myfyrdod estynedig ar ei gyflwr a'i brofiad ysbrydol drwy gydol oes faith. Yn wir, mae'n amlwg bod hunangofiant Bunyan, a ddarllenid yn awchus ar adegau gan John Thomas ei hun, wedi cynnig patrwm iddo, megis ag y gwnaeth i hunangofiannau Thomas Charles, Thomas Jones a Methodistiaid eraill a geisiodd ddadlennu'r dröedigaeth ganolog a'r 'broses o dderbyn santeiddhad yr Arglwydd'.[60]

---

[54] Lewis, 'Astudiaeth gymharol . . . o weithiau John Bunyan', t.361. Am drafodaeth ar ddylanwad *Helaethrwydd o Ras* ar lenyddiaeth Gymraeg, gw. tt.360-97.

[55] Am hanes y Diwygiad Methodistaidd, a'i ddylanwad ar Gymru'r ddeunawfed ganrif, gw. Gomer M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru* (2 gyfrol) (Caernarfon, 1973 a 1978); Morgan, *Y Diwygiad Mawr*. Bwriedir cyhoeddi trydedd gyfrol *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, gol. J. Gwynfor Jones, ym Medi 2011.

[56] William Williams, *Drws y Society Profiad*, gol. Edward Thomas (1777; Caernarfon, 1906), t.23; Eryn White, *'Praidd Bach y Bugail Mawr': Seiadau Methodistaidd De-Orllewin Cymru, 1737-50* (Llandysul, 1995).

[57] Teitl llawn y gyfrol yw *Rhad Ras, neu Lyfr Profiad: mewn byr hanes am ddaioni y Arglwydd tuag at ei wael wasanaethwr, Ioan Thomas (awdwr Caniadau Sion), o'i febyd hyd yma* (Abertawe, 1810).

[58] Yn rhagair ei argraffiad modern o'r gyfrol, sonia J. Dyfnallt Owen y bwriadai John Thomas gyhoeddi'r hunangofiant cyn gynhared â 1788. John Thomas, *Rhad Ras*, gol. J. Dyfnallt Owen (Caerdydd, 1949), t.5.

[59] Ibid., t.6; Derec Llwyd Morgan, 'John Thomas, awdur *Rhad Ras*', yn idem, *Pobl Pantycelyn* (Llandysul, 1986), t.20.

[60] Sonia John Thomas yn ei hunangofiant y byddai'n hoff o ddarllen '[p]rofiad' John Bunyan (*Rhad Ras*, t.37). Gw. yn ogystal Lewis, 'Astudiaeth gymharol . . . o weithiau John Bunyan', tt.365, 367.

Fel y gellid disgwyl, felly, y mae prif dueddiadau neu brofiadau yr hunangofiant ysbrydol piwritanaidd i'w canfod yn hunanymholi a myfyrdodau John Thomas: magwraeth ddistadl a phlentyndod sy'n fyw i'r Duw a'r diafol bob yn ail, tröedigaeth ac adnabyddiaeth o'i gyflwr pechadurus, a'r ymgodymu wedyn ynghylch cadwedigaeth ac ymboeni a oedd 'un gradd o wir ras ynof', chwedl yntau, ynghyd â'i ymdrech gyson, yn wyneb anawsterau dybryd, i ledaenu'r Gair ac achub eneidiau.[61] Ond nid Piwritan oedd John Thomas, eithr Methodist, ac fe geir yma hefyd ei brofiadau yng nghartref Griffith Jones, Llanddowror, yn ysgol Howell Harris yn Nhrefeca, ynghyd â'i brofiadau fel aelod, ac yn ddiweddarach fel cynghorwr, yn y seiat. Er iddo fynychu Academi y Fenni yn 1761 a dyfod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn ardal Rhaeadr Gwy a Llandrindod, ni chollodd yr ysbryd Methodistaidd a oedd yn megino fflamau ei brofiadau ysbrydol. Yn wir, gellir nodi mai un o brif ragoriaethau'r hunangofiant yw'r modd y mae'r gwaith yn adlewyrchu egni mawr y Diwygiad Methodistaidd a'r modd y gwefreiddiai'r teimladau a'r emosiynau. Wrth adrodd am ei amheuon ynglŷn ag effaith barhaol ei dröedigaeth, er enghraifft, dywed:

> Ond er hardded fy mywyd, er maint fy ymroddiadau, er gwresoced fy nhymherau, er cymaint fy awyddfryd, er twymed fy nghariad, ni wyddwn eto fawr am bla fy nghalon, fy nhrueni wrth natur, fy nghwymp yn yr Adda cyntaf, ac nid oedd yr Arglwydd Iesu eto ond Iachawdwr bach yn fy ngolwg, er nad wyf yn amau nad oedd Ysbryd Duw yn neilltuol weithredu arnaf, eto nid wyf yn barnu llai pe buasai'r Arglwydd yn fy ngadael heb fy mlino a gweithredu ymhellach arnaf y buaswn yn gwerthu Crist fel Jwdas am ychydig, yn adeiladu ar y tywod, yn troi yn wrthgiliwr ac yn tynnu yn ôl i golledigaeth...[62]

Ei achubiaeth yn hyn o beth yw mynychu'r seiat, lle caiff ymgeledd ac adeiladaeth ysbrydol. Nid rhyfedd i Brynley Roberts ddisgrifio'r gwaith fel 'an intimate portrayal of the nature of

[61] *Rhad Ras*, t.55.
[62] Ibid., t.44.

*seiat* life, not only in its extended self-examination but in its descriptions of preaching and its effects'.[63]

Ond megis ag yr awgryma'r dyfyniad uchod, mae mwy i *Rhad Ras* na myfyrdodau mewnol yr awdur ei hun, ac mae Methodistiaeth y gyfrol yn golygu bod cryn bwyslais ynddi ar ddiwydrwydd John Thomas yn ei weinidogaeth ac effaith y weinidogaeth honno ar ei gyfoeswyr pechadurus. Yn wir, gellir cytuno â Derec Llwyd Morgan pan ddywed fod deuoliaeth amlwg yn yr hunangofiant wrth i'r awdur droi oddi wrth ei amheuon a'i brofiadau ei hun at 'ofalon a gwefr pobl eraill'.[64] Ond nid elfennau cwbl anghymarus mo'r rhain, ac nid fel hanes allanol yn unig y dylid ymdrin â'i adroddiadau am ei weinidogaeth.[65] Yn rhagair yr hunangofiant, mae'n ddiddorol bod John Thomas yn rhybuddio ei ddarllenwyr mai 'credu yn yr Arglwydd Iesu a chariad Crist yn eu cymell i weithredu sydd yn gwneuthur rhai yn wir Dduwiol'.[66] Ceir yma nid yn unig awgrymu'r cysyniad piwritanaidd o alwedigaeth gymwys,[67] ond hefyd bwysleisio perthynas greiddiol duwioldeb a diwydrwydd yn y profiad efengylaidd a Methodistaidd. Dyma thema gyson yn ail hanner yr hunangofiant, wrth i'r awdur ymroddi i fod 'yn ffyddlon yn fy ngalwedigaeth'. Ystyr hynny yw '[g]weithio â'm holl egni' er mwyn bod 'yn fwyaf defnyddiol dros Dduw yn fy amser byr' drwy achub eneidiau pechadurus.[68] Unwaith eto, mae egni'r profiadau a ddisgrifir a'r pwyslais ar weithrediaeth yn treiddio drwy fyfyrdodau ysbrydol John Thomas. Dyna sy'n peri nad yw'r hunangofiant

---

[63] Brynley F. Roberts, 'The literature of the "Great Awakening"', yn *A Guide to Welsh Literature, c.1700-1800*, gol. Branwen Jarvis (Cardiff, 2000), t.301.
[64] Morgan, 'John Thomas, Awdur *Rhad Ras*', t.27.
[65] Noda Derec Llwyd Morgan a Brynley F. Roberts, er enghraifft, nad yw'r hunangofiannydd yn poeni fawr am gronoleg y digwyddiadau yn ail hanner y cofiant. Daw'n amlwg mai yn y profiad ei hun yn mae ei ddiddordeb. Morgan, 'John Thomas, Awdur *Rhad Ras*', t.26; Roberts, 'The Literature of the "Great Awakening"', t.300.
[66] *Rhad Ras*, t.10.
[67] Yn ôl Glyn Tegai Hughes, yr oedd 'galwedigaeth effeithiol' yn un o 'bum gris' yn y bywyd ysbrydol er mwyn galluogi'r Cristion piwritanaidd i adnabod a chyfranogi o ras Duw. Y pum gris a nodir ganddo yw 'etholedigaeth, galwedigaeth effeithiol, cyfiawnhad, sancteiddhad a gogoneddiad'. Gw. Hughes, 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid', t.49.
[68] *Rhad Ras*, tt.50 a 62.

'fymryn yn llai cynhyrfus nag ydoedd yn y rhannau mewnol'.[69] Ac mae'n werth nodi un elfen arall sy'n cysylltu'r John Thomas mewnol ac allanol, ei dduwioldeb a'i ddiwydrwydd, sef amcan hyfforddiadol y gwaith. Er gwaethaf ei amheuon, neu o'u herwydd, noda'r awdur mai 'er bendith i rai eneidiau newynog' y lluniwyd y gwaith. Da y dywedodd Derec Llwyd Morgan mai'r profiad dyrchafedig o gadwedigaeth a 'hyder gobeithiol' yn ei gyflwr a gymhellodd y gwerinwr hwn i ymboeni am ddefnyddioldeb ei alwedigaeth. Ac onid yr un profiad a'i sbardunodd, fel Martha Philopur gynt, i gofnodi ei brofiadau mewnol a chymdeithasol?[70] O fewn y gyfrol fechan ac 'amrwd' hon, felly, cyfunir piwritaniaeth a Methodistiaeth yn briodas gyffrous sy'n dadlennu grym a gwefr Calfiniaeth efengylaidd y ddeunawfed ganrif.

### 1.1.2 'y pictiwr mwya cymwys . . . o Gristion': y portread o'r cymeriad

Gwelir, felly, fod i ffurf yr hunangofiant ysbrydol ddylanwad pendant ar gofiannau crefyddol Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond y mae i'r cyfieithiad Cymraeg o nawfed argraffiad *Grace Abounding* elfen arwyddocaol arall a allasai fod wedi dylanwadu ar strwythur y cofiannau, sef yr adran gofiannol fer a ychwanegwyd at y naratif hunangofiannol.[71] Dyma, felly, symud o'r cyfrwng hunangofiannol yn y person cyntaf at fynegiant cofiannol yn y trydydd person. Fel yr awgryma teitl gwreiddiol yr hunangofiant, symudir hefyd o fyfyrdodau mewnol John Bunyan parthed ei gyflwr at ei weithgarwch cyhoeddus wrth i'r awdur adrodd hanes ei wrthrych wedi iddo gael ei ryddhau o'r carchar.

---

[69] Morgan, 'John Thomas, awdur *Rhad Ras*', t.24.
[70] *Rhad Ras*, t.11; Morgan, 'John Thomas, awdur *Rhad Ras*', t.21.
[71] Mae'n debyg mai'r un yw'r hanes cofiannol hwn ag eiddo George Cokayne, *A Continuation of Mr Bunyan's Life; beginning where he left off, and concluding with the Time and Manner of his Death and Burial; together with his true Character* a gynhwyswyd yn y seithfed argraffiad Saesneg (1692), a'r cyntaf wedi marwolaeth Bunyan ei hun. Gw. Sharrock, 'Introduction', tt.xiii a xlii; Lewis, 'Astudiaeth gymharol . . . o weithiau John Bunyan', tt.130 a 141.

Sylwir yn fras iawn ar ei weinidogaeth yn Bedford a'i benderfyniad i 'ymneilltuo o'i alwedigaeth gyffredin i ganlyn y weinidogaeth',[72] ynghyd â chyflwyno adroddiad digon moel am ei farwolaeth. Yna, try'r awdur i ddarlunio 'his true Character' drwy fanylu ar ambell nodwedd o'i gymeriad sy'n berthnasol i'w weinidogaeth, megis ei ymweliadau â rhai mewn cystudd a'i ddawn i 'gymmodi amrafaelion' yn eglwys Bedford. Yn ogystal â phwysleisio'i ymroddiad i'w alwedigaeth a'i ddiwydrwydd wrth y gwaith, mae pwyslais deongliadol yr awdur yn yr adran gofiannol ar ddarlunio gŵr a oedd yn 'dynwared ei Arglwydd a'i Feistr daionus . . . efe a aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni'.[73] Ceir yn ogystal bortread byr o'i bryd a'i wedd sydd eto yn cyferbynnu ei olwg 'erwin' â doethineb a daioni ei eiriau.[74] Diweddir y cyfieithiad Cymraeg ag ychwanegiad diddorol, sef tri phennill sy'n dyrchafu gwynfydedigrwydd y 'Gannan Nefol' a chanmol anogaeth Bunyan i drigolion Lloegr, ac yn awr Gymru, i ymgyrraedd tuag at y Gannan hon yn ei waith drwy '[dd]angos maes yn helaeth / beth yw sail ail Enedigaeth'.[75] Mae'r cyfeiriad diamwys at Gymru yn profi bod y penillion hyn yn ychwanegiad at yr argraffiad gwreiddiol, a'u bod wedi eu cyfansoddi yn arbennig ar gyfer y cyfieithiad, gan John Einnon ei hun o bosibl. Fel y gwelir maes o law, er nad marwnad yw'r penillion hyn, mae'r berthynas rhwng yr adran gofiannol hon, ynghyd â'r penillion Cymraeg a ychwanegwyd at y cyfieithiad, yn arwyddocaol wrth ystyried strwythur cyffredinol rhai o gofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gan mai bwriad y gwaith cofiannol hwn yw cynnig 'parhad' i'r hunangofiant, nid yw'n syndod gweld y pwyslais ar amlygu duwioldeb Bunyan a'r lles y gellid ei gywain o ddysgu am ei fywyd, ac felly dylid gochel rhag gorsymleiddio'r newid o'r cyfrwng personol i'r pwyslais ar ddiwydrwydd cyhoeddus y gwrthrych.

---

[72] Bunyan, *Helaethrwydd o Ras*, t.198.
[73] Ibid., t.199.
[74] Cyfeiria Mairwen Lewis at yr adran 'Byr agwedd o hanes corfforol Mr Bunyan' wrth drafod y cyfieithiadau Cymraeg. Serch hynny, ni chynhwyswyd yr adran hon yn yr argraffiad o *Helaethrwydd o Ras* (1737) sydd ar gadw yn Llyfrgell Scolar, Prifysgol Caerdydd, ond fe'i ceir mewn argraffiad diweddarach o'r gwaith a gyfieithwyd gan Evan Thomas (Caerlleon, 1767) yn yr un llyfrgell.
[75] Bunyan, *Helaethrwydd o Ras*, t.210.

Yr un amcan didactig, a'r un pwyslais ar gyflwyno portread o wrthrych, a geir mewn gwaith arall gan John Bunyan, sef *The Life and Death of Mr Badman* (1680). Yr hyn sy'n cysylltu'r ddau waith yw'r cynllun bywgraffiadol, ond y tro hwn gesyd Bunyan y naratif ar ffurf ymddiddan rhwng 'Mr Wiseman' a 'Mr Attentive'. Creadigaeth lenyddol yw Badman, ac felly nid yw'r gwaith yn amcanu adrodd hanes 'bywyd a marwolaeth' person o gig a gwaed. Fel y cyfeddyf yr awdur ei hun wrth ei ddarllenydd, ei fwriad oedd cynhyrchu gwaith a fyddai'n wrthbwynt i'r bererindod dragwyddol a gafwyd yn *The Pilgrim's Progress* drwy gymeriadu gŵr drygionus a cholledig. Eithr nid alegori fyddai sail y gwaith hwn, ond realaeth:

> Yea, I do trace him in his Life from his Childhood to his Death; that thou mayest, as in a Glass, behold with thine own eyes, the steps that take hold of Hell; and also discern, while thou art reading of *Mr Badmans* Death, whether thou thy self art treading in his path thereto.[76]

Fel y dengys James Forrest a Roger Sharrock, mae pwyslais moesol Bunyan ar fywyd Badman yn cysylltu'r gwaith â sawl *genre* didactig, megis hanesion barn (a ganolbwyntiai ar y pedwar peth olaf), y picaresg, a'r *exemplum*.[77] Diddorol, er enghraifft, yw defnydd yr awdur uchod o ddelwedd y drych, sy'n adleisio gweithiau megis *A Mirrour or Looking-Glasse for both Saints and Sinners* (1654) gan Samuel Clarke, gwaith y cyfeirir ato yn *The Life and Death of Mr Badman*. Dyma ddelwedd boblogaidd yng ngweithiau hyfforddiadol y cyfnod er mwyn galluogi'r darllenydd i ddinoethi cyflwr ei enaid. Megis yr hunangofiannau,

---

[76] John Bunyan, *The Life and Death of Mr Badman: Presented to the World in a Familiar Dialogue Between Mr Wiseman, and Mr Attentive* (London, 1680). Daw'r dyfyniad o olygiad modern James F. Forrest a Roger Sharrock o'r gwaith (Oxford, 1988), t.1. Gw. hefyd James F. Forrest a Roger Sharrock, 'Introduction', yn John Bunyan, *The Life and Death of Mr Badman: Presented to the World in a Familiar Dialogue Between Mr Wiseman, and Mr Attentive*, gol. James F. Forrest a Roger Sharrock (Oxford, 1988), t.xv.

[77] Am y drafodaeth ar y ffurfiau hyn, gw. Forrest a Sharrock, 'Introduction', tt.xix-xxx.

gwneid hynny drwy gyflwyno esiampl o'r hyn y dylid, neu na ddylid, ei efelychu.[78] Ond yma, cyflwynir nodweddion moesol, neu anfoesol, y cymeriad drwy ddarlunio portreadau neu deipiau cyffredinol. Gwelir mynegiant o deipiau cynrychioliadol o'r fath mewn gweithiau Cymraeg o'r ail ganrif ar bymtheg, megis *Drych i Dri Math o Bobl* gan Oliver Thomas, a gyhoeddwyd yn wreiddiol tua 1647, ond a ailgyhoeddwyd gan Stephen Hughes yn *Tryssor i'r Cymru* (1677).[79] Er nad ymddiddan a geir yn y *Drych*,[80] personolir neu bortreedir tri agwedd ar gyflwr ysbrydol, sef yr 'Anghristion' llygredig a drygionus, y 'Rhith Gristion' llugoer ei grefydd a'i ffydd a'r 'Cristion brwd' duwiol a diwair. Amcan yr awdur yw cyflwyno'r drychau hyn o'r natur ddynol drwy eu cymharu â'i gilydd fel y gallai'r darllenwyr ystyried eu cyflwr a sylweddoli 'pa fath ydech'.[81] Mae'r pwyslais hwn ar ddarlunio cymeriad drwy ddrych un nodwedd benodol yn awgrymu dylanwad y traddodiad homiliaidd, ynghyd â'r traddodiad Theophrastaidd a ddaeth yn boblogaidd yn Ffrainc a Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg yng ngweithiau Joseph Hall, Esgob Caerwysg, megis *Characters of Virtues and Vices* (1608), ynghyd â gweithiau Thomas Overbury, John Earle, Esgob Salisbury a phregethwyr megis Thomas Adams.[82]

Yng ngweithiau homiliaidd Seisnig yr Oesoedd Canol, bwrid agweddau haniaethol neu symbolaidd ar y natur ddynol, yn benodol yn ôl rhinweddau a ffaeleddau, megis y modd

---

[78] Ibid., t.xxviii; Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales*, t.142.

[79] *Drych i Dri Math o Bobl* (*c.*1647). Fe'i cyhoeddwyd yn Merfyn Morgan (gol.), *Gweithiau Oliver Thomas ac Evan Roberts: Dau Biwritan Cynnar* (Caerdydd, 1981), tt.209-24; Jones, 'Dylanwad piwritaniaeth ar Anglicaniaeth yng Nghymru', tt.218-19; Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales*, tt.127-8; G. J. Williams, 'Stephen Hughes a'i gyfnod', yn *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg*, gol. Aneirin Lewis (Caerdydd, 1985), tt.171-206.

[80] Mae'n werth nodi, fodd bynnag, mai ar ffurf ymddiddan y mae ei waith enwocaf, sef *Car-wr y Cymru, yn annog ei genedl anwyl, a'i gydwlad-wyr er mwyn Crist a'i heneidiau i chwilio yr Scrythurau yn ol gorchymyn Crist* (Llundain, 1631).

[81] *Drych i Dri Math o Bobl*, t.211.

[82] Am drafodaeth ddefnyddiol ar y traddodiad Theophrastaidd yn Lloegr yn y cyfnod, gw. Benjamin Boyce, *The Theophrastan Character in England to 1642* (Cambridge, Mass., 1947); Alan Shelston, *Biography* (London, 1977), t.28. Am waith Theophrastus ei hun, gw. *Characters*, cyf. a gol. James Diggle (New York, 2004). Am gyfieithiad Cymraeg o'r testun, gw. Awstin M. Thomas, 'Cymeriadau Theophrastus', *Y Traethodydd*, (Gorffennaf a Hydref 1983), 147-55 a 208-15.

y personolwyd y saith pechod marwol yn y gerdd alegorïaidd *Piers Plowman*.[83] Ond byddai rhai pregethwyr canoloesol yn amcanu diriaethu'r rhinwedd neu'r gwendid drwy gynnig portread mwy realistig a fyddai'n gyfarwydd i'w cynulleidfa, a chreu 'vivid little sketches of contemporary men and women . . . well-known types and characters of the tavern or market-place'.[84] Cafodd cymeriadu o'r fath ddylanwad ar greadigaethau 'rhinweddol' Joseph Hall, ac felly gysylltu'r traddodiad homiliaidd a'r Theophrastaidd. Er bod y Piwritaniaid yn aml wedi bod yn destun gwawd gan yr awduron Theophrastaidd, dywed Benjamin Boyce iddynt hwythau ddyfod i werthfawrogi manteision moesol a didactig *genre* o'r fath: 'The practical sense of the Puritans eventually impelled them to adopt so convenient a form of writing'.[85] Sonia Geraint H. Jenkins, er enghraifft, fod gan Stephen Hughes 'a fond regard for works of a Theophrastan character whereby each figure typified a particular quality or fulfilled a certain social rôle'.[86] Dyna'r union fath o gymeriadu argraffiadol a geir yn *Drych i Dri Math o Bobl*. Ond er bod portread John Bunyan o *Badman* hefyd yn gynrychioliadol, mae'r ffaith ei fod wedi'i wreiddio yn y byd hwn yn cyflwyno portread sy'n llai haniaethol a mwy dadansoddol ei bwyslais, er nad yw'n llai efelychiadol neu hyfforddiadol o ran amcan. Nid yw Bunyan yn dilyn arfer ei gyd-Biwritaniaid o ddefnyddio enwau Lladin ar ei gymeriadau. Eto, mae ei ddefnydd o ddeialog neu ymddiddan yn awgrymu dylanwad gwaith nodedig Arthur Dent, *The Plaine Mans Pathway to Heauen*,[87] ac megis y dywed Christopher Haigh, yr oedd llwyddiant a dylanwad gweithiau o'r fath yn deillio o'r ffaith fod y darllenwyr yn gallu adnabod y cymeriadau, ac uniaethu â hwynt: 'it is a representation . . . the voices are invented, but what they have to say is not'. Mae'n bosib y gwelai Bunyan hynny yn fodd o

---

[83] Boyce, *The Theophrastan Character*, tt.55-8.
[84] G. R. Owst, *Literature and Pulpit in Medieval England, a neglected chapter in the history of English letters and of the English people* (Cambridge, 1933), t.87. Dyfynnir yn Boyce, *The Theophrastan Character*, t.57.
[85] Ibid., t.315.
[86] Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales*, tt.127-8.
[87] Cyfeirir at ddylanwad gwaith Dent yn hunangofiant Bunyan. Gw. Hughes, 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid', t.35; Gomer Morgan Roberts, *Gweithiau William Williams, Pantycelyn* (Caerdydd, 1964), t.xi. Fe gadwyd yr enwau Lladin hyn yng nghyfieithiad Cymraeg Robert Llwyd (1630).

gyflwyno darlun mwy diriaethol sy'n treiddio o dan wyneb y cymeriad, ac o'r herwydd gynyddu effaith a lles y portread ar eneidiau ei ddarllenwyr.[88]

Fe gyfieithwyd *The Life and Death of Mr Badman* i'r Gymraeg yn 1731 o dan y teitl *Bywyd a Marwolaeth yr Annuwiol dan enw Mr. Drygddyn, wedi ei Annerch i'r Byd mewn ymddiddan cyfeillgar Rhwng Mr. Doethineb a Mr. Ystyriol.* Digwyddodd hyn chwe blynedd cyn cyhoeddi *Helaethrwydd o Ras*, ac efallai mai hynny, ynghyd ag arwyddocâd ffurf y bywgraffiad i'r gwaith, yw'r rheswm dros gyfieithu'r cofnod o '[f]ywyd a marwolaeth' John Bunyan ei hun a ychwanegwyd ato.[89] Megis *Helaethrwydd o Ras*, cafodd *Bywyd a Marwolaeth . . . Mr Drygddyn* ddylanwad ar Gymry y ddeunawfed ganrif, ond o safbwynt ffurf y bywgraffiad neu'r cofiant Cymraeg, y cysylltiad mwyaf arwyddocaol yw'r un a wnaeth Saunders Lewis rhwng y gwaith a *Hanes Bywyd Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht*, gan William Williams, Pantycelyn (1768). Dadlennodd Saunders Lewis fod ffurf yr ymddiddan a'r defnydd o'r teitl 'Hanes Bywyd a Marwolaeth . . .' yn cysylltu'r ddau waith.[90] Diau bod hynny'n wir, ond dylid cofio bod y teitl bywgraffiadol hwn eisoes wedi ei ddefnyddio yn rhyddiaith a barddoniaeth y ddeunawfed ganrif, megis yng nghyfieithiad Edward Williams, *Hanes o fywyd a marwolaeth Judas Iscariot* a gyhoeddwyd yn 1750, cyfieithiad John Evans y Bala o gyfrol John Wesley, *Byrr Hanes am Fywyd a Marwolaeth Nathanael Othen* (1761), a

---

[88] Christopher Haigh, *The Plain Man's Pathways to Heaven: Kinds of Christianity in Post-Reformation England* (Oxford, 2007), t.12. Gw. hefyd sylwadau Geraint H. Jenkins am hoffter Stephen Hughes o ddefnyddio ymddiddanion neu ddeialogau: 'Hughes saw the value of written dialogue as a means of stripping down the conventional outer image, exploring the darkest recesses of the soul, and establishing who were true Christians and who were not', Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales*, t.128.

[89] Gw. *Bywyd a Marwolaeth yr Annuwiol dan enw Mr Drygddyn, wedi ei Annerch i'r Byd mewn ymddiddan cyfeillgar Rhwng Mr Doethineb a Mr Ystyriol*, cyf. T. Lewis (Caerfyrddin, 1731), tt.227-36. Y mae'r awdur yn amlwg wedi darllen *Grace Abounding* gan fod dros hanner yr adran fywgraffiadol yn dadlennu'r ieuenctid pechadurus, y dröedigaeth a'r rhyfel ysbrydol mewnol sy'n greiddiol i'r hunangofiant hwnnw i elfennau a 'weithiodd ddiwygiad oddiallan yn ei eiriau a'i fuchedd' ac a 'weithiodd yn rymmus ar ei serchiadau'. Neilltuir gweddill y bywgraffiad i sôn am weinidogaeth gyhoeddus y 'Gwr duwiol ymma' o 1653 ymlaen, ac adrodd yn gyffredinol am ei garchariad, ei flynyddoedd olaf a'i farwolaeth.

[90] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.343.

marwnad Morgan Rhys i'r Parchedig Lewis Lewis, Llanddeiniol (1764).[91] Mwy arwyddocaol yw'r ffrâm fywgraffiadol ac ymddiddanol a ddefnyddiodd William Williams wrth gyflwyno'r hanes a adroddir rhwng Cantator y Bardd a Phercontator yr holiedydd. Mae'r elfennau hynny, ynghyd â'r pwyslais moesol ar anogaeth ysbrydol yn cefnogi'r honiad bod Bunyan wedi cynnig patrwm i Bantycelyn yn hyn o beth. Ond er bod gwaith Bunyan yn dadlennu bywyd llygredig enaid sydd yn gwbl golledig a phechadurus, nid felly bob un o wŷr Pantycelyn. Ceir ganddo ef dri chymeriad, sef Afaritius, yr Awyddus, Prodigalus, yr Afradlon a Ffidelius, y Cristion, ac ef yn unig sy'n osgoi dychrynfeydd Uffern. Elw bydol sy'n damnio Afaritius, ac afradlondeb moesol sy'n llywio pechodau Prodigalus, ac felly gellir ystyried Badman yn gyfuniad dychrynllyd o'r naill a'r llall. Yma eto, y mae'r portread o gymeriad y damnedig a'r duwiol fel ei gilydd yn mynegi'n ddiamwys awydd yr awdur i gyflwyno 'rhybudd' ac 'esampl dda' i'w ddarllenwyr, awydd a gadarnheir yn y cyflwyniad i'r gyfrol sydd ar ffurf llythyr.[92] Arwyddocaol yn ogystal yw'r ffaith mai creadigaethau neu deipiau llenyddol yw'r tri gŵr sy'n sail i'r ymddiddan. Yr un flwyddyn ag ymddangosiad marwnad Morgan Rhys i Lewis Lewis, cyhoeddodd Pantycelyn ei epig *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus* (1764), lle noda nad ffuglen a geir yma, 'yn unig enw *Theomemphus* yn represento Cristion',[93] a gwelir mai'r un math o amcanu at ddynoldeb, neu bortread cynrychioliadol o 'wir ddynion', a geir yn *Tri Wŷr o Sodom* yn ogystal.[94]

---

[91] *Hanes Bywyd a Marwolaeth Judas Iscariot*, cyf. Edward Williams (1750; Trefriw, 1824). Cyfieithiad o *The Life, Character and Death of Judas Iscariot* (London, 1724). Nid wyf wedi llwyddo i ganfod unrhyw fanylion am awdur y gwaith Saesneg. John Wesley, *Byrr Hanes am fywyd a marwolaeth Nathanael Othen*, cyf. John Evans (Bala, 1761); Morgan Rhys, *Marw-nad: neu hanes bywyd a marwolaeth y Parchedig Mr. Lewis Lewis, Gweinidog yr Efengyl, yn Llanddeiniol yn Sir Aberteifi* (Caerfyrddin, 1764). Gw. hefyd y farwnad i Morgan Nathan a gyhoeddwyd ddegawd yn ddiweddarach (*Hanes byrr o fywyd dychlynedd a dedwydd farwolaeth Morgan Nathan* (Caerfyrddin, 1774)).

[92] *Hanes Bywyd Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht* (1768), yn *Gweithiau William Williams Pantycelyn, II*, gol. Garfield H. Hughes (Caerdydd, 1967), t.117.

[93] Fe'i dyfynnir o ragymadrodd *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus* (1764), yn Roberts, *Gweithiau William Williams Pantycelyn*, t.193.

[94] Hughes, 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid', t.35.

Er nad yw cymeriadau Pantycelyn mor llawn a nofelyddol â chreadigaeth golledig Bunyan, eto nid oes ddwywaith na cheir yma yr un dadansoddiad o gyflwr eneidiau'r cymeriadau drwy gyfrwng portread. Gwelwn mor ganolog i'r gwaith yw'r portreadau hyn a'u perthynas â'i gilydd, ac mor gymwys ydynt i gyflawni awydd Pantycelyn i fod yn adeiladol yn ogystal â rhybuddiol. Yn wir, mae'r gwahaniaeth neu'r gwrthgyferbyniad rhwng y naill gymeriad a'r llall yn cyfrannu at lwyddiant y gwaith. Wedi darllen am y ddau golledig, daw cadwedigaeth y trydydd yn amlycach a sicrach ym meddwl y darllenydd. Ond o'r tri hyn, y trydydd yn ddiau yw'r pwysicaf. Ef yw'r ddelfryd y dylid ymgyrraedd tuag ati, ac iddo ef y rhydd Pantycelyn y portread llawnaf o ddigon. Nid rhyfedd hynny, gan mai Ffidelius yw'r 'pictiwr mwya cymwys ag wyf ynn adnabod o Gristion', chwedl yr awdur,[95] ac mae darlunio neu ddadansoddi'r berthynas rhwng bywyd mewnol/personol ac allanol/cyhoeddus y gwrthrych yn allweddol i'r portread a gyflwynir gan Bantycelyn. Fel y dywed Cantator wrth grynhoi hanfod cymeriad Ffidelius, a'i bortread ohono: 'Yr oedd Ffidelius yr un dyn o mewn ag o maes; yr oeddwn yn gydnabyddus ag egwyddorion ei grefydd, ei brofiadau tumewnol, gwastatrwydd ei fywyd, ynghyd â'i holl weithredoedd o ffydd a chariad ag oedd ef yn ei ymarferyd o bryd i bryd.'[96] Dyma sy'n gwneud Ffidelius yn Gristion mor llawn ac mor llesol ei fuchedd, ac mae'n ddiddorol mai tanbeidrwydd, a chysondeb, ei dduwioldeb a'i ddiwydrwydd personol a chyhoeddus sy'n llywio'r dyfyniad uchod. Megis Mr Drygddyn, felly, darlun wedi'i wreiddio yn y byd hwn yw Ffidelius, er gwaetha'i enw a'i genedligrwydd, a sylwer bod adnabyddiaeth Cantator/Pantycelyn o'i wrthrych yn dwysáu awdurdod yr awdur ar ei bwnc a chywirdeb neu ddilysrwydd y portread fel ei gilydd.

[95] *Tri Wŷr o Sodom*, t.137.
[96] Ibid.

Dwysáu dynoldeb y portread a wna plaender ac uniongyrchedd arddull Pantycelyn, a hynny mewn brawddegau a chymalau cyson eu cystrawen, heb amcanu at rethreg neu ormod o addurn.[97] Dyma, er enghraifft, fel y disgrifia gartref Ffidelius:

> Ei fywyd ef oedd anghynefin a rhyfeddol; ei deulu oedd brydferth, moesol a rhinweddol . . . Ei dŷ ef oedd yn deml i'r Arglwydd Dduw: yno yr oedd addoliad boreol a phrynhawnol, fel ym mhabell yr Arglwydd; Beibl y cysegr oedd yr holl deulu mor hyddysg ynddo ag yw plentyn ysgol yn ei Rammer: hyfryd oedd ei feibion a'i ferched yn ymbyncio ohono, ac yn bendithio Duw mewn salmau, hymnau ac odlau ysbrydol trwy gydol faith y dydd a'r nos; ei holl deulu ef oedd wedi eu dysgu yn egwyddorion y ffydd a holl hanesion yr Ysgrythur Lân. Yn fyr, ei dŷ ef oedd megis coleg o ddifinyddion, pawb oedd yno yn ddarllenwyr, yn weddiwyr, yn athrawon ac yn broffwydi; . . .
>
> Chwi ryfedd'sech y fath drefn fanwl, ddoeth ac adeiladol oedd yn y teulu hwnnw; diau fod ysbryd y Duw byw yn cyfarwyddo y rhai a'i gosododd hi. Yma yr oedd gwaith neilltuol i bob yr un, a chymhwyster rhyfeddol ymhob un at ei orchwyl . . . Ac o'r ffyddlondeb oedd ymhob yr un i'w feistr, yn hytrach i'w Arglwydd! Pawb y tu cefn i'r goruchwyliwr fel ei du wyneb, a'u holl egni i ddwyn y gorchwyl hwnnw ymlaen.[98]

Unwaith eto, mae'r berthynas rhwng bywyd personol a chymdeithasol Ffidelius i'w chanfod ym mhwyslais yr awdur ar bortreadu duwioldeb a diwydrwydd y Cristion, ac mae hynny'n gwbl fwriadol. Y mae, wrth reswm, yn Gristion i'w efelychu yn ei dduwioldeb, ei santeiddrwydd, a'i ysbrydolrwydd, ond y mae yn ogystal yn Fethodist twymgalon a phybyr sy'n dad a chynghorwr yn ei gymdeithas, yn brofiadol a llafar yn y seiat, yn fawr ei ofal am drueiniaid a thlodion ac yn gwisgo creithiau profedigaethau mewnol ac erlid allanol er mwyn ei Dduw. Byddai'r portread o'r 'addoliad boreol' a gynhaliai'r 'teulu' neu'r cyfarfod gweddi lle 'byddent yn sicr o ganu hymn' yn gyfarwydd iawn i Fethodistiaid y ddeunawfed ganrif.[99] Ac fel y dangosodd Derec Llwyd Morgan, fe geir gradd o wahaniaeth rhwng y profiad ysbrydol o ras a ddisgrifir yma gan Bantycelyn a'r hunangofiannau sy'n canoli ar y dröedigaeth: 'Canlyniad disglair y dröedigaeth yw'r pwnc yn awr, cyflawnder daioni'r

---

[97] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.345.
[98] *Tri Wŷr o Sodom*, t.138.
[99] Ibid., tt.138-9.

gwrthrych yn ei fywyd teuluol a chymdeithasol, ac yn ei fyfyrdodau.'[100] Dyma sy'n cysylltu'r portread gyda'r math o gofiannu 'cymeriad' a gafwyd yn ddiweddarach yng nghofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[101] O'r herwydd, nid dynwaredwr slafaidd oedd Pantycelyn. Er gwaetha'i ddyled i'r meddwl piwritanaidd[102] a llenyddiaeth y Cymeriad, mae'n rhaid gweld y portread o Ffidelius ar gynfas ehangach ymgais arwrol William Williams i fod yn llais i wareiddiad newydd y Diwygiad Methodistaidd, ac i ddiffinio'r gwareiddiad hwnnw, drwy rychwantu'r Fethodistiaeth bersonol ac 'ystyriol lwythol' a dadansoddi 'profiad ac addoliad ei bobl'.[103] Yn hynny o beth, gellir gosod y darlun o Ffidelius ymysg oriel o gymeriadau cofiadwy, adnabyddadwy a byw Williams Pantycelyn, megis Martha Philopur a Philo-Evangelius, '[c]ymeriadau a ddug [Pantycelyn] o fywyd ac o'r Beibl, cymeriadau sydd yn ystyrlon iawn eu cynodiad a'u harwyddocâd cytûn'.[104]

Agwedd bellach ar ddynoli neu gymdeithasoli y Cristion a'r Methodist yng ngwaith Pantycelyn yw ei ddefnydd o ffurf y farwnad. Ar ddiwedd portreadau'r *Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht* mae William Williams yn cysylltu'r darlun gyda marwnad i bob un a thrwy hynny gyfuno yn arloesol y traddodiad marwnadol Cymraeg a'r patrwm cofiannol Seisnig, yn ôl Saunders Lewis.[105] Er bod enghreifftiau o gyflwyno marwnadau i'w cael mewn cofiannau Seisnig cyn dyddiau Pantycelyn, megis y marwnadau ar ddiwedd cofiannau byrion Isaac Walton i John Donne a Henry Wotton a luniwyd ganol yr ail ganrif ar bymtheg, diau bod

---

[100] Derec Llwyd Morgan, 'Llenyddiaeth y Methodistiaid, 1763-1814', yn Gomer M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2: Cynnydd y Corff* (Caernarfon, 1978), t.465.
[101] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.345.
[102] Fe'i disgrifiwyd gan Geraint H. Jenkins fel 'the literary heir of puritanism'. Gw. 'Historical writing in the eighteenth century', yn *A Guide to Welsh Literature, c.1700-1800*, gol. Branwen Jarvis (Cardiff, 2000), t.39; gw. hefyd Hughes, 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid', tt.34-5; Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', tt.343-4; R. Tudur Jones, *Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* (Abertawe, 1987).
[103] Am y ddamcaniaeth hon gw. Morgan, *Y Diwygiad Mawr*, yn benodol tt.111-22, 136-8, a'i gyfrol *Williams Pantycelyn* (Caernarfon, 1983), tt.3-17 [11].
[104] Morgan, *Williams Pantycelyn*, t.47.
[105] Lewis, Y cofiant Cymraeg', t.344. Am drafodaethau ar farwnadau Pantycelyn gw. R. Geraint Gruffydd, 'Marwnadau William Williams, Pantycelyn', *Llên Cymru*, 17 (1993), 254–71; Morgan, 'Llenyddiaeth y Methodistiaid', tt.485-97; idem, *Williams Pantycelyn*, tt.51-3; Cathryn Charnell-White, 'Galaru a gwaddoli ym marwnadau Williams Pantycelyn', *Llên Cymru*, 26 (2003), 40-62.

Lewis yn iawn parthed dylanwad Pantycelyn ar gofianwyr Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[106] Ym marwnadau Afaritius, Prodigalus a Ffidelius crisielir ar gân y cymeriad a ddarluniwyd yn y naratif er mwyn amlygu'r 'rhybudd' amlwg i'r darllenydd o ddilyn buchedd y ddau gyntaf a'r lles mawr iddo ym muchedd yr olaf. Mae geiriau 'Cantator' fod arno 'hiraeth . . . am fod fel yntau' wrth gyfansoddi marwnad Ffidelius yn adlewyrchu'r gynneddf farwnadol o hiraethu am yr ymadawedig a chysuro a llesáu y byw.[107] Dyma yn union a wnaeth Pantycelyn yn y marwnadau niferus a luniodd i unigolion o gig a gwaed – gwŷr a gwragedd a oedd yn gysylltiedig â'r mudiad Methodistaidd, ac yn aml iawn yn gyfeillion neu'n gydnabod iddo. Dangosodd ysgolheigion megis Cathryn Charnell-White fod y marwnadau hyn yn gysylltiedig â llenyddiaeth y pedwar peth diwethaf, ac mai pwrpas y portread marwnadol oedd llenwi'r 'bwlch dirnadwy yn rhengoedd y mudiad . . . trwy gyflwyno'r ymadawedig fel esiamplau o'r hyn a ystyrir yn Fethodist da'.[108] Er nad oes i'r marwnadau hyn yr un safon lenyddol â'i weithiau eraill, diau nad oeddynt hefyd yn rhan o weledigaeth Pantycelyn o 'fynegi ethos yr oes' a dehongli'r mudiad Methodistaidd.[109] Yn sicr, gellir derbyn bod arwyddocâd y marwnadau yn hynod o bwysig i '*psyche* crefyddol y Methodistiaid', ys dywed Derec Llwyd Morgan.[110] Drwy foli'r fuchedd dduwiol ac ymroddgar a ddaeth i ben telid teyrnged i'r ymadawedig a ddwysâi'r golled a gafwyd yn ei farwolaeth. Eithr yr un pryd y mae i'r farwnad ddimensiwn ehangach, sef cynnig cysur i'r byw. Fe'i ceir nid yn unig yn y ffaith fod y farwnad yn llenwi'r bwlch a adewir gan farwolaeth, ond hefyd am fod y gwrthrych bellach wedi cyflawni ei etholedigaeth ac yn

---

[106] Izaak Walton, *The Lives of Dr John Donne, Sir Henry Wotton, Mr Richard Hooker, Mr. George Herbert and Dr Robert Sanderson* (1678; Oxford, arg. 1824). Y tu allan i'r traddodiad llenyddol Cymraeg rhaid ystyried dylanwad marwnadau Piwritanaidd, megis Piwritaniaid Lloegr Newydd ar ffurf y cofiant, yn arbennig yng nghyd-destun y defnydd o'r bregeth angladdol. Gw. Charnell-White, 'Galaru a gwaddoli ym marwnadau Williams Pantycelyn', 59.
[107] *Tri Wŷr o Sodom*, tt.157.
[108] Cathryn A. Charnell-White, 'Y pedwar peth diwethaf – marwolaeth, nefoedd, uffern a'r farn – yn llenyddiaeth Gymraeg y ddeunawfed ganrif' (Traethawd Ph.D., Cymru (Aberystwyth), 2000), tt.136 a 138. Gw. hefyd ei herthygl, 'Galaru a gwaddoli ym marwnadau Williams Pantycelyn'.
[109] Gruffydd, 'Marwnadau William Williams, Pantycelyn', 258.
[110] Morgan, 'Llenyddiaeth y Methodistiaid', t.493.

gorffwys yng ngwynfyd tragwyddol y Nefoedd – dyna'r wobr am ei dduwiolfrydedd ar y ddaear. Y sicrwydd hwn sy'n dehongli'r portread a gyflwynir o'r cymeriad delfrydol a diwair, a thry hynny y golled a'r hiraeth cychwynnol yn achos diolchgarwch, a'r gwrthrych yn esiampl i'w efelychu. Er bod peth amrywiaeth, tystia Cathryn Charnell-White i 'undod thematig sylfaenol y marwnadau: hiraeth a galar y byw, gorfoledd y meirw, llawenydd a dedwyddwch y meirw yn y Nef a rhwymyn cynhaliol yr arfaeth'.[111] O'r herwydd, daeth marwnad yn 'ddiweddglo anhepgor' ac addas iawn i'r cofiant crefyddol Cymraeg.[112]

### 1.1.3 'fel dyn, fel Cristion, fel pregethwr': y bregeth angladdol

Cysylltir llenyddiaeth y cymeriad â'r traddodiad homiliaidd unwaith eto mewn ffurf arall a adawodd ei hôl ar bortread y cofianwyr Cymraeg o'u gwrthrychau, sef pregeth angladdol Seisnig yr ail ganrif ar bymtheg. Er bod gwreiddiau'r bregeth angladdol i'w canfod yn y drydedd ganrif ar ddeg, ymddengys iddi hithau, fel yr hunangofiant ysbrydol, gael ei hatgyfodi ym mrwdfrydedd defosiynol yr ail ganrif ar bymtheg, a hynny gan bregethwyr Anglicanaidd ac Ymneilltuol fel ei gilydd.[113] Cyfrwng llafar oedd y bregeth, wrth gwrs, ac yr oedd y nifer bychan o bregethau a gyhoeddid cyn yr ail ganrif ar bymtheg yn aml yn gyfyngedig i aelodau o'r teulu brenhinol a'r dosbarth uchelwrol. Ond erbyn ail hanner y ganrif honno gwelwyd cyhoeddi pregethau angladdol i drawstoriad ehangach o'r gymdeithas,

---

[111] Charnell-White, 'Y pedwar peth diwethaf', t.141.
[112] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.344.
[113] Am drafodaeth hynod ddefnyddiol ar y bregeth angladdol Seisnig yn y Cyfnod Modern Cynnar, gw. Ralph Houlbrooke, 'Funeral sermons', yn idem, *Death, Religion, and the Family in England, 1480-1750* (Oxford, 1998; arg. 2000), tt.295-330. Gw. hefyd D. L. D'Avary, *Death and the Prince: Memorial Preaching before 1350* (Oxford, 1994); R. L. Greaves, *Society and Religion in Elizabethan England* (Minneapolis, 1981); Patrick Collinson, *Godly People: Essays on English Protestantism and Puritanism* (London, 1983); Clare Gittings, *Death, Burial and the Individual in Early Modern England* (London, 1988).

gan gynnwys gweinidogion, personiaid a phregethwyr. [114] Mae'n bosibl y gwelid cyhoeddi pregeth angladdol yn weithred o goffadwriaeth ynddi'i hun, ond mae'n debycach mai nodwedd ddidactig y bregeth a oedd wrth wraidd hyn. Megis y farwnad, mae i'r bregeth angladdol elfen goffadwriaethol a hyfforddiadol yn y modd yr ymdrinnir â'r cymeriad, ac unwaith eto mae marwolaeth, a'r pedwar peth diwethaf, yn amlwg iawn yn y darlun a gyflwynir. Fel y dywed Ralph Houlbrooke: 'It is based on a biblical text, expounds doctrines suitable to the occasion, and uses the dead man's life for edification, laying particular emphasis on the deathbed.'[115] Yn unol â bwriad gweithiau defosiynol eraill, defnyddiwyd y bregeth i argyhoeddi ac annog gwrandawyr i efelychu duwioldeb a nodweddion canmoladwy y rhai a goffeid – elfen a oedd yn amlwg iawn yn nefnydd y Piwritaniaid ohoni. Cyn gynhared â 1640, ceir enghreifftiau o bregethau y mae esiampl Gristionogol a duwiol y gwrthrych yn ganolog iddynt, megis pregeth John Ley, *A patterne of pietie: or the religious life and death of that grave and gracious matron, Mrs Jane Ratcliffe, widow and citizen of Chester* (1640), lle nodir yn y teitl hirfaith mai amcan y pregethwr yw '*so as the commemoration of the dead may best serve to the edification of the living, whether men or women*'.[116] Dyma *genre* arall, felly, a fyddai'n gweddu yn addas iawn i amcanion cofianwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ymddengys mai ychydig iawn o bregethau angladdol Cymraeg a gyhoeddwyd cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Un enghraifft gynnar yw pregeth Edward Samuel, *Pregeth ynghylch gofalon bydol . . . ar gladdedigaeth Mr Robert Wynne, diweddar vicar*

---

[114] Houlbrooke, 'Funeral sermons', t.300. Noda fod y ganran o bregethau cyhoeddedig i weinidogion gryn dipyn yn uwch yn y cyfnod 1701-1750 na'r cyfnod cyn 1640. Y bregeth gynharaf y credir iddi gael ei chyhoeddi'n fuan wedi ei phregethu oedd pregeth John Fisher yn angladd Harri VII yn 1509 (Houlbrooke, 'Funeral sermons', t.296).

[115] Ibid.

[116] John Ley, *A patterne of pietie: or the religious life and death of that grave and gracious matron, Mrs Jane Ratcliffe, widow and citizen of Chester; of whom the discourse is framed and applied so as the commemoration of the dead may best serve to the edification of the living, whether men or women, whereof part was preached, and the whole written by John Ley*' (London, 1640).

*Gwyddelwern* (1731). Ceir yn ogystal rai cyfieithiadau yn ystod y ddeunawfed ganrif o bregethau nodedig, megis y bregeth a draddodwyd ar farwolaeth George Whitefield neu'r Arglwyddes Huntingdon.[117] Nid rhyfedd, felly, fod pregethau angladdol Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg hwythau'n dilyn eu cymrodyr Seisnig o ran themâu ac adeiladwaith. Hyd y gwyddys, un o'r cynharaf yw'r bregeth a draddodwyd ar farwolaeth Evan Davies, gweinidog o Frycheiniog yn 1811. Fe'i cyhoeddwyd yn bur fuan wedi ei thraddodi y mae'n debyg, ac mae'n ddiddorol mai'r hyn a ysgogodd yr awdur i'w chyhoeddi oedd diffyg y Cymry, o'u cymharu â'r Saeson a chenhedloedd eraill, i gyhoeddi gweithiau 'a fyddo yn tueddu i fytholi eu henwau ac i hyfforddi eu cenedl'.[118] Y mae'r bregeth wedi ei rhannu'n ddwy ran, megis ag y gwneid yn aml ym mhregethau'r ail ganrif ar bymtheg. Y rhan gyntaf yw'r feithaf, lle cyflwynir trafodaeth wedi ei seilio ar destun beiblaidd a oedd yn ymdrin yn aml â themâu eschatolegol, megis byrder ac anwadalwch bywyd, anocheledd marwolaeth, dieithrwch y bywyd hwn i'r Cristion a'r ofn o farw yn bechadur, ynghyd â chysur, onid llawenydd, marwolaeth o gael sicrwydd iachawdwriaeth.[119] Daw'r testun ym mhregeth angladdol Evan Davies o ail Epistol Paul at y Corinthiaid, 5:1: 'Canys ni a wyddom, os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddatodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd.' Nid yn annisgwyl, â'r pregethwr ati i drafod breuder 'pabell' y fuchedd ddaearol, a thelir sylw i'r 'fath letty sydd ar ei gyfer' ar awr marwolaeth, a ddaw i 'dduwolion' ac 'annuwolion' yn ddiwahân. Prif bwyslais y bregeth yw'r hyder a'r sicrwydd a fedd y Cristion o dderbyn 'gorphwysfa dawel', a sail y sicrwydd yw'r 'dystiolaeth gyflawn a chywir a phrofiad helaeth' a dderbyniodd Evan Davies o'i dröedigaeth hyd at ei

[117] Edward Samuel, *Pregeth ynghylch gofalon bydol: a bregethwyd yn Eglwys Llangywer, yr ail dydd o fis Mai 1720, ar gladdedigaeth Mr Robert Wynne, diweddar vicar Gwyddelwern* (Caerlleon, 1731).
[118] Walter Lewis, *Pregeth a Bregethwyd yn y Plough yn Aberhonddu, a'r Aber, yn Swydd Frycheiniog, ar yr Achlysur o Farwolaeth y Parchedig Evan Davies, yr hwn a fu yn weinidog ffyddlon yn y llefydd uchod dros ysbaid ugain mlynedd, a ymadawodd a'r byd Hydref 29, 1811; at yr hyn y chwanegwyd hanes byr o'i fywyd duwiol heddychlon, a'i farwolaeth orfoleddus* (Aberhonddu, 1811), t.iii.
[119] Rwy'n ddyledus i ymdriniaeth Ralph Houlbrooke am y rhaniad thematig hwn, 'Funeral sermons', tt.305-6.

farwolaeth. Diweddir ar nodyn cysurlon ond rhybuddiol y bydd i'r gwrandawyr hwythau dderbyn ymgeledd nefolaidd os llwyddir i 'barhau yn ffyddlon' i Grist hyd farwolaeth.[120]

Testun yr ail ran yw '*Hanes Byr o'i fywyd duwiol heddychlon, a'i farwolaeth orfoleddus*', a dyma lle cysylltir ffurf y bregeth angladdol â'r patrwm cofiannol. Noda'r awdur y traddodwyd 'sylwedd' yr adran hon ar yr un achlysur â'r adran gyntaf. Megis sawl pregethwr o'i flaen, bwriad Walter Lewis yw bod yr ail ran yn ddilyniant naturiol i ran gyntaf y bregeth. Fel hyn, er enghraifft, y gesyd awdur pregeth angladdol o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ei achos ger bron y darllenydd: 'Instead of the Application of this Doctrine, I shall turn my discourse to the Occasion of our present meeting, the Death of your Pastor Dr. Samuel Annisley, in whom we have the whole Text exemplified; *he served his Generation, and he is fallen asleep.*'[121] Er nad ymdrechai pob pregethwr i gysylltu'r ddwy ran, yr oedd creu cydlynedd rhwng y testun a bywyd y gwrthrych, a'i osod fel esiampl, yn rhwym o gyflawni mwy na choffáu'r ymadawedig yn unig. Yn hynny o beth yr oedd amcanion y bregeth yn debyg iawn i eiddo'r farwnad, sef cyflwyno coffâd i'r meirw, gogoneddu'r Arglwydd a chynnig cysur neu esiampl i'r rhai a oedd eto'n fyw.[122] Ond mae'n ddiddorol bod Walter Lewis yn ymwrthod â'r farwnad oherwydd ei bod yn rhy debyg o ran ffurf i '[f]aledau distyrllyd' a lunnid am resymau ariannol yn unig.[123] Yn hytrach, yr hyn a geir yma yw naratif bywgraffiadol sy'n dadlennu'n fras agweddau ar hanes bywyd Evan Davies, ond sy'n

---

[120] Lewis, *Pregeth . . . ar yr Achlysur o Farwolaeth y Parchedig Evan Davies*, tt.1, 8, 12.

[121] Daniel Williams, *The Excellency of a Publick Spirit: set forth in a Sermon Preach'd (since much enlarged) at the Funeral of that late Reverend Divine Dr Samuel Annesley, who departed this Life Dec 31. 1696. In the 77th year of his age. With a Brief Account of His Life and Death* (London, 1697), t.133. Testun y bregeth yw Actau 13:36. Gwelir yma yr un pwyslais ar gynnig portread o 'the Excellency of this person' o fewn fframwaith naratifol fywgraffiadol (tt.133-47).

[122] Houlbrooke, 'Funeral sermons', t.311. Fel ychwanegiad at y dadansoddiad testunol y'i gwelwyd gan bregethwyr y traddodiad Seisnig yn ogystal. Fe'i gwrthodwyd yn llwyr gan rai pregethwyr ac mae hyn yn egluro'r disgrifiad ohoni yn yr ail ganrif ar bymtheg fel 'leane-to', chwedl Ralph Houlbrooke.

[123] Lewis, *Pregeth . . . ar yr Achlysur o Farwolaeth y Parchedig Evan Davies*, tt.15 a iii. Gwelir bod y pregethwr a'r cofiannydd profiadol John Hughes, Pontrobert, yn adleisio'r sylwadau hynny yn rhagair *Cofiant am y diweddar Barch. Owen Jones, o'r Gelli, swydd Drefaldwyn, gweinidog yr Efengyl ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd: ynghyd a chan o alar ar yr achos* (Caerlleon, 1830), tt.2-3.

cyfiawnhau neu gyflawni'r drafodaeth ar y testun yn y rhan gyntaf drwy bersonoli neu ddynoli y drafodaeth athrawiaethol. Gwneir hyn drwy osod portread o gymeriad duwiol, diwyd a diwair yn hanfod i'r naratif. Er gwaetha'r ffrâm fywgraffiadol, ychydig iawn yw'r manylion a gyflwynir parthed hanes Evan Davies mewn gwirionedd cyn adrodd iddo ddyfod i weinidogaethu eglwys Annibynnol y Plough a'r Aber. Nid yw'r portread ychwaith yn canoli ar y dröedigaeth nac yn amcanu adrodd am ei ddatblygiad ysbrydol. Wedi cyflwyno darlun o'i ragflaenydd, a'i dad-yng-nghyfraith 'hawddgar, dymunol a duwiol', try'r awdur at ddadlennu darlun o '[G]ristion llariaidd, addfwyn', nad oedd 'na chulni, nac eiddigedd, na hunan glôd' yn agos ato.[124] Ond megis darlun Pantycelyn o Ffidelius, nid duwiolfrydedd personol y gŵr yn unig a ddarlunnir. Portreedir Evan Davies yn Gristion cyhoeddus ac, yn benodol, yn weinidog yr Efengyl. Yn unol â'i statws fel gweinidog â'r awdur rhagddo i egluro ei safbwynt diwinyddol a dadansoddi ei ddoniau cyhoeddus, lle pwysleisir ei ostyngeiddrwydd yn y pulpud, ei bregethau gofalus o ran cynnwys a saernïaeth, a'i allu fel cynghorydd.[125] Diweddir yr adran drwy gyflwyno hanes ei salwch olaf a'i farwolaeth. Yn aml, dyma oedd uchafbwynt y bregeth angladdol, ac nid syndod, felly, weld bod yr adroddiad a gyflwynir yn rhychwantu hanner yr adran goffaol. Mae'r disgrifiad yn storïol ei naws a dyfynnir o eiriau Evan Davies wrth iddo fynegi ei hyder a'i sicrwydd o dderbyn iachawdwriaeth Nefol yn wyneb diddymdra marwolaeth.[126] Unwaith eto, mae'n arwyddocaol bod cyflwyno portread o'r Cristion a'r pregethwr duwiol a diwyd yn ganolog i 'esiampl hardd' y bregeth angladdol Gymraeg.

---

[124] Lewis, *Pregeth . . . ar yr Achlysur o Farwolaeth y Parchedig Evan Davies*, t.16; Houlbrooke, 'Funeral sermons', tt.312 a 315.
[125] Lewis, *Pregeth . . . ar yr Achlysur o Farwolaeth y Parchedig Evan Davies*, tt.19-21. Ymddengys nad oedd Evan Davies yn bregethwr huawdl iawn. Serch hynny, mae'r pregethwr yn ofalus i nodi na ddarllenai ei bregethau yn y pulpud.
[126] Ibid., tt.21-4. Houlbrooke, 'Funeral sermons', t.317.

### 1.1.4 'his Godly Life and Practice': y traddodiad cofiannol Seisnig a Saesneg

I Saunders Lewis, gosod y portread Theophrastaidd dan dri phen y bregeth a wnaed yn y pregethau angladdol er mwyn annog efelychiad.[127] Ar un wedd, gellir cytuno â'i farn, ond dylid cofio hefyd fod y portread o'r cymeriad canmoladwy wedi ei osod o fewn fframwaith sy'n gofiannol neu fywgraffiadol yn ei hanfod. Yn wir, daeth y strwythur bywgraffiadol cyhoeddus hwn yn bwysicach wrth i bregethau angladdol ddatblygu. Collwyd y pwyslais ar ddefosiwn preifat a rhoddwyd llai o le i ddisgrifio'r farwolaeth ddedwydd.[128] Tybed ai'r ffactorau hyn sy'n egluro'r duedd i gyfuno'r bregeth angladdol, neu'n sicr y rhan goffaol ohoni, gyda naratifau cofiannol gwrthrychau duwiol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir sawl enghraifft o gynnwys pregeth angladdol yng nghofiannau'r pregethwyr, megis y cofiannau a luniwyd i Thomas Davies (1827), Owen Jones (1830), John Roberts, Llanbrynmair (1837), John Evans a'i wraig Martha (*c.*1850), ynghyd â rhai cofiannau diweddarach. Cynhwysir rhan o bregeth angladdol yn y cofiant i John Thomas (1851), er enghraifft, ac mae'n bresennol yn y cofiant i Thomas Jones, Rhydwilym (1854). Serch hynny, daeth yn fwy arferol cyfuno elfen goffaol y bregeth â'r naratif cofiannol, portreadol neu ei hymgorffori yn yr adroddiad bywgraffiadol.[129] Erbyn y 1840au datblygodd yr arfer hwn yn bennod, neu adran fer, a oedd yn annibynnol ar yr adroddiad cofiannol a bywgraffiadol, ac a oedd yn blaenori neu'n dilyn yr adroddiad o farwolaeth y gwrthrych.[130] Ond dylid gochel rhag gweld hyn fel datblygiad sy'n unigryw i'r traddodiad Cymraeg gan fod modd dadlau ei fod yn nodwedd o gofiannau Seisnig yr ail ganrif ar bymtheg yn

---

[127] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.345.

[128] Houlbrooke, 'Funeral sermons', t.321. Dylid nodi, fodd bynnag, arfer pregethau Anghydffurfiol o gadw at yr hen batrymau i raddau helaeth.

[129] Gwneir hyn yn y cofiannau i'r pregethwyr Joseph Harris (1826), David Davies (1828) a Richard Jones o'r Wern (1834).

[130] Gw., er enghraifft, gofiant Thomas Jones, Dinbych (1820), Thomas Hughes, Lerpwl (1829), Robert Jones, Rhoslan (1834), John Roberts, Llanbrynmair (1837), Ebenezer Richard (1839), William Williams o'r Wern (1842), Jenkin Davies (1845), William Williams, Llandilo (1848) neu John Thomas (1851).

ogystal.[131] Gellir enwi sawl gwaith cofiannol lle cyfunir hunangofiant neu gofiant (neu'r ddau) â phregeth angladdol, megis *The Life and Death of . . . Joseph Alleine* (1677), *Some Remarkable Passages in the Holy Life and Death of Edmund Trench* (1693), *The Life of Thomas Firmin* (1698), *The Holy Seed; o'r, the Life of Mr. Thos Beard* (1711), *Memoirs of the Life and Death of the Rev. Philip Henry* (1712). Ac ymddengys i'r traddodiad barhau hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.[132]

O'r cofiannau a enwyd, mae'n werth craffu rhywfaint ar y cofiant i'r pregethwr a'r awdur Anghydffurfiol piwritanaidd Joseph Allein a gyhoeddwyd yn 1677. Mae'r gyfrol wedi ei rhannu yn dair rhan. Ceir yn gyntaf naratif cofiannol sy'n rhychwantu tua thraean y gyfrol, ac fe'i rhennir yn benodau. Dilynir cyflwyniad i'r gwaith gan y Piwritan nodedig Richard Baxter, gan hanes dylanwad crefydd ar wrthrych y gyfrol er pan oedd yn blentyn, ynghyd ag adroddiad am ei addysg ym Mhrifysgol Rhydychen. Wedi pennod sy'n cynnig portread byr ohono, ceir dwy bennod sy'n cyflwyno hanes ei 'Godly Life and Practice', drwy ganolbwyntio ar ei weinidogaeth yn nhref Taunton, Gwlad yr Haf. Dilynir y penodau hyn gan bennod hwy ei maint a ysgrifennwyd gan ei wraig, sy'n adrodd hanes ei gyfnod olaf a'i farwolaeth, cyn diweddu'r adran gofiannol â thair pennod sy'n amcanu darlunio ei gymeriad, fel pregethwr ac fel cyfaill. Yn ail, ceir casgliad helaeth o'i lythyrau gweinidogaethol, sef adran fwyaf y gyfrol. Ac mae'n amlwg o'u darllen mai llythyrau anogaethol a chynghorol ydynt, 'full of spiritual instructions', lle mae'r cynghorion yn aml yn ymwneud â phwysigrwydd buchedd dduwiol a phur. Yn olaf, cynhwysir pregeth angladdol a draddodwyd gan George Newton. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod trydedd bennod yr adran gofiannol hefyd

[131] Ac nid pregethau angladdol yn unig a gyfunid â chofiannau, ond hunangofiannau yn ogystal. Er bod strwythur llenyddol y cofiannau hyn yn amrywio, noda G. A. Starr: 'funeral sermons, biographies, and works of practical divinity often contained autobiographical elements' (Starr, *Defoe and Spiritual Autobiography*, t.33).
[132] Yn 1833, er enghraifft, cyhoeddwyd pregeth angladdol i'r gweinidog o Fryste, William Thorp, lle ychwanegwyd adran gofiannol ynghyd â'r llythyrau gweinidogaethol a ysgrifennodd at ei eglwys pan oedd ar wely angau. Gw. Joseph Fletcher, *The Funeral Sermon, on the Death of the Rev. W. Thorp, delivered at Castle Green Chapel, Bristol* (London, 1833).

yn bortread o'r gwrthrych yn ôl patrwm y bregeth angladdol, lle noda'r awdur mai ei nod yw amlygu 'what he was, and what his temper and behaviour was, *As a Man. As a Christian. As a Minister.*'[133] Oherwydd manylu arnynt mewn penodau eraill, ychydig iawn o sylw a roddir iddo fel dyn ac fel gweinidog, ond cynigir dadansoddiad ohono fel Cristion. Nodir yn gyntaf ac yn flaenaf ei 'exemplary Holiness and Heavenliness of mind and life', cyn mynd ati i gynnig portreadau byrion ohono drwy gyfrwng cyfres o rinweddau. Sonnir ei fod yn gariadus a ffyddlon, yn ddewr, yn heddychwr, yn parchu cywirdeb a gwirionedd, yn hael ei roddion, yn ddiwyd wrth ei waith, ac yn ddarostyngedig wrth natur. Dyma rinweddau neu nodweddion ei gymeriad sy'n ei wneud mor addas ar gyfer cyflawni yn llwyddiannus ei waith fel gweinidog yr Efengyl. Fe wyddys nad yw'r portread hwn yn perthyn i'r bregeth angladdol a gyflwynir ar derfyn y gyfrol, gan nad yr un awdur a'u lluniodd. Naill ai mae'r portread wedi ei neilltuo oddi wrth y bregeth angladdol ei hun a'i ymgorffori o fewn y naratif cofiannol, neu fe'i lluniwyd ar lun y patrwm yn unig ond fel cyfansoddiad annibynnol ar y bregeth ei hun. Pa ffurf bynnag sy'n gywir, fel y gwelwyd eisoes yr hyn sy'n arwyddocaol yw mai dyma'r union batrwm o gyflwyno portread annibynnol ar ffurf rhaniadau'r bregeth angladdol a geir yn nifer o gofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O'r herwydd, gellir dadlau bod gradd o amheuaeth am honiad Saunders Lewis fod strwythur y cofiant Cymraeg yn 'drwyadl Gymreig'.[134]

Tua'r un pryd â chyhoeddi cofiant Alleine, fe gyhoeddodd Edward Bagshaw ei gofiant i'r Piwritan o Gymro, Vavasor Powell. Ymddangosodd y cofiant, *The Life and Death of Mr Vavasor Powell...*, yn 1671, flwyddyn wedi ei farwolaeth, ac fel yr awgryma ei deitl

[133] Theodosia Alleine, *The Life and Death of that Excellent Minister of Christ, Mr. Joseph Alleine, late teacher of the church of Taunton in Somerset-shire, assistant to Mr Newton* (London, 1677), t.39.
[134] Lewis, Y cofiant Cymraeg', t.349.

swmpus dyma waith arall sy'n gyfuniad o sawl adran a *genre* llenyddol.[135] Dengys y teitl yn ogystal amcan cyhoeddi'r cofiant, sef llesoli'r cyhoedd. Ar derfyn yr adran hunangofiannol, er enghraifft, noda mai ei fwriad oedd 'cadw coffadwriaeth o drugareddau yr Arglwydd, ac i gyffroi eraill, i ddwylaw pa rai y dichon yr ychydig amneidiau hyn ddyfod, i ymddiried yng allu a daioni Duw, yr hwn yw Achubydd pob dyn, yn enwedig y ffyddloniaid'.[136] Ganrif yn ddiweddarach, fe gyfieithodd D. Risiart y cofiant i'r Gymraeg gan roi iddo'r teitl, *Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr Vavasor Powell* (1772), ac er y gellir cytuno â R. Tudur Jones mai 'llyfr digon blêr' a geir yma,[137] cafodd ei gyfieithydd ganmoliaeth gan Saunders Lewis am ei Gymraeg rhywiog. Gwelodd Lewis hefyd y gallai'r modd y cyfunwyd yr hunangofiant â'r rhannau cofiannol eraill fod wedi cyflwyno 'patrwm i gofianwyr Cymraeg gwreiddiol' y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[138] Yr un cynllun cyffredinol a welir ar gyfieithiad arall o'r ddeunawfed ganrif, sef *Hanes Ferr o Fywyd Howell Harris* (1792) gan Benjamin La Trobe.[139] Megis y cofiant i Vavasor Powell, ceir yma batrwm gosodedig sy'n cysylltu'r hunangofiant ysbrydol â naratif cofiannol ac eschatolegol, a'r un yw nod y

---

[135] *The Life and death of Mr. Vavasor Powell, that faithful minister and confessor of Jesus Christ: wherein his eminent conversion, laborious, successful ministry, excellent conversation, confession of faith, worthy sayings, choice experiences, various sufferings, and other remarkable passages, in his life, and at his death, are faithfully recorded for publick benefit: with some elegies and epitaphs by his friends* (London, 1671). Am gofiant modern iddo, gw. R. Tudur Jones, *Vavasor Powell* (Abertawe, 1971). Ceir ynddo hunangofiant, cyffes ffydd, detholiad o ymadroddion o'i bapurau personol a'i ddyddiadur, dyfyniadau o'i eiddo tra bu'n dioddef afiechyd, adroddiad o'i garchariad, hanes ei gystudd a'i farwolaeth (gan gynnwys dyfyniadau ganddo ar ei wely angau), ynghyd â'i farddoniaeth a marwnadau iddo. Mae'r adrannau yn tueddu bod yn fyr ar y cyfan, tua 25 tudalen, ac eithrio'r dyfyniadau o'i ddyddiaduron a hanes ei garchariad, sydd ychydig yn helaethach.

[136] Edward Bagshaw, *Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr. Fafasor Powell, y gweinidog a'r milwr dewrwych [hwnn] o eiddo Iesu Grist*, cyf. D. Risiart (Caerfyrddin, 1772), t.21.

[137] Jones, *Vavasor Powell*, t.190.

[138] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.342.

[139] *Hanes Ferr o Fywyd Howell Harris, Yscweier; a dynnwyd allan o'i ysgrifeniadau ef ei hun. At ba un y chwanegwyd Crynodeb byrr o'i Lythyrau o'r flwyddyn 1738 hyd y fl. 1772* (Trefecca, 1792). Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg yn 1791. Ar ddyddiaduron Harris, gw. Geraint Tudur, *Howell Harris: from Conversion to Separation, 1735-1750* (Cardiff, 2000). Yn gyntaf ceir hunangofiant swmpus sy'n rhychwantu rhyw draean o'r gyfrol. Dilynir hyn gan adran gofiannol fer sy'n adrodd am rai agweddau penodol ar ei hanes a'i weinidogaeth, megis sefydlu yn Nhrefecca a chasglu ynghyd ddilynwyr yno yn un 'teulu', gan eu harwain drwy gyfrwng pregethau a chynghorion. Yn y rhan olaf, manylir ar farwolaeth Howell Harris drwy gyflwyno y 'sylwiadau byrrion' a luniwyd ganddo yn ystod cyfnod ei afiechyd olaf.

cofiannydd wrth iddo fynegi ei obaith 'y bydd ei gyhoeddi i'r cyfryw ag fydd wybodus yn ffyrdd yr Arglwydd, fedi rhyw fudd da wrth ei ddarllain'.[140]

Serch hynny, un agwedd bellach ar y ddau gofiant yw'r modd y cyfunir elfennau hunangofiannol a chofiannol nid yn unig o fewn strwythur cyffredinol y gwaith ond o fewn y naratif cofiannol ei hun. Defnyddiwyd papurau a 'dydd-lyfr' Vavasor Powell, ynghyd â thystiolaeth teulu a chyfeillion, i adrodd hanes ei fyw a'i farw. Yr un modd cyfoethogir adran gofiannol cofiant Howell Harris â phigion o'i ddyddlyfr a cheir defnydd helaeth o'i lythyrau. Yn wir, gesyd y cofiannydd y llythyrau hyn yn adran annibynnol sy'n dilyn yr hunangofiant a'r adran gofiannol. Dyma adran hwyaf y cofiant sy'n rhychwantu dros hanner hyd y gyfrol. Ceir defnydd o adran o'r fath mewn rhai cofiannau diweddarach, megis cofiant Robert Jones, Rhos-lan (1834) a John Roberts, Llanbrynmair (1837).[141] Er nad yw hon yn nodwedd sy'n arbennig i gofiannau Cymraeg, mae defnydd o destunau hunangofiannol a dyddiadurol o'r fath yn ddiddorol. Wrth i'r hunangofiant fel ffurf ddiflannu'n raddol o'r cofiannau Cymraeg yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth dyddlyfrau a llythyrau yn ffynonellau hunangofiannol pwysig yn llygad y cofianwyr.[142] Wrth gwrs, mae'n anodd gwybod faint o ddylanwad a gafodd cofiannau unigol o'r fath ar y cofiant Cymraeg, nac ychwaith bennu union ddylanwad y traddodiad Seisnig, a Saesneg. Credaf, fodd bynnag, fod modd cytuno â Saunders Lewis pan ddywed mai'r traddodiad Seisnig a gafodd fwyaf o ddylanwad ar y ffurf.[143] Yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod patrwm pur bendant wedi

---

[140] *Hanes Ferr o Fywyd Howell Harris*, t.iii.

[141] *Cofiant o fywyd a marwolaeth y diweddar Mr Robert Jones, Dinas, gynt o Roslan, Sir Gaernarfon, pregethwr yr efengyl yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn a fu farw Ebrill 18, 1829, yn y 84 flwyddyn o'i oed a'r 60fed o'i weinidogaeth: at yr hyn y chwanegwyd pigion o'i lythyrau ac o'i waith prydyddol ynghyd â llythyr ato oddiwrth y diweddar Barch. T. Charles o Bala* (Llanrwst, 1834), tt.24-48; Samuel Roberts, *Cofiant y Parch. John Roberts o Lanbrynmair* (Llanelli, 1837), tt.47-115.

[142] Yn wir, dyfyniadau o'i 'ddydd-lyfr' yw sylwedd yr hunangofiant a luniodd Thomas Charles, ac a gynhwyswyd fel adran gyntaf y cofiant a baratowyd gan Thomas Jones yn 1816. Ac fel y gwelir maes o law, seiliwyd naratif sawl cofiant cynnar ar gyfuno prif ffeithiau neu ddigwyddiadau bywyd y gwrthrych â chynnwys dyddiaduron o'r fath.

[143] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.344.

ymffurfio erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma'r patrwm a ddefnyddiwyd gan Thomas Jones a chofianwyr cynnar eraill, ac fe'i sefydlogwyd a'i gadarnhau gan gofianwyr diweddarach yn nhraddodiad y cofiant Cymraeg. Eithr y mae un elfen ganolog sy'n gyson i'r cofiannau Seisnig a Chymreig fel ei gilydd, sef cyflwyno duwioldeb a diwydrwydd y gwrthrych fel esiampl i'w ddilyn.

## 1.2. 'FFYDDLAWN A FFRWYTHLAWN YN NGWAITH Y WEINIDOGAETH': COFIANNAU PREGETHWYR Y BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHEG

Gwelwyd uchod y patrwm cyffredinol a fu'n sail i gofianwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth iddynt fynd ati i greu oriel o gwmwl tystion Anghydffurfiaeth Gymraeg. Ac wrth gwrs, dyma'r patrwm a oedd ar gael i Owen Thomas wrth iddo droi oddi wrth ei amryfal orchwylion i lunio *Cofiant John Jones, Talsarn* yn negawdau canol y ganrif. Am fod gweddill yr astudiaeth hon yn amcanu at ddehongli Owen Thomas fel cofiannydd a chloriannu'r berthynas rhyngddo a'r traddodiad cofiannol Cymraeg, mae'n werth yn gyntaf fwrw golwg ar hynt y traddodiad cymhleth ac aml-haenog hwn yn ystod y ganrif.

'My God, how does one write a biography?', gofynnodd Virginia Woolf un tro; ac fel y dywed ei chofiannydd Hermione Lee, nid Woolf yw'r unig un sydd wedi gorfod ymgodymu â'r cwestiwn sylfaenol hwnnw.[144] Er gwaethaf dilysrwydd cysylltu geiriau megis 'confensiwn', 'patrwm' a 'traddodiad' â maes y cofiant, gellir gofyn cwestiwn tebyg wrth

[144] Nigel Nicolson a Joanne Trautmann (goln), *The Letters of Virginia Woolf, Vol. 6, 1936-41* (London, 1980), t.225; Hermione Lee, *Virginia Woolf* (London, 1997), t.3.

geisio dadansoddi llenyddiaeth gofiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[145] Y mae'n faes cyfarwydd eto'n ddieithr, yn eang a niferus eto'n amwys, yn ffurf ynddi'i hun eto'n croesbeillio ag eraill, yn honni bod yn wrthrychol eto'n oddrychol, yn statig ac ystrydebol eto'n datblygu a newid. A chymhlethir o hyd y dadansoddiad uniongyrchol o hanfodion y ffurf gan gymhlethdod ei gwreiddiau a'r ffaith fod pob cofiant i ryw raddau'n unigryw, nid yn unig o safbwynt yr awdur a'i lluniodd, ond yn ogystal o safbwynt y gwrthrych a bortreedir. Serch hynny, bwriad gweddill y bennod hon yw amlygu rhai tueddiadau a datblygiadau cyffredinol, a hynny drwy graffu ar ddau gofiant sy'n rhychwantu'r ganrif hirfaith hon. Gwrthrych y ddau gofiant yw Thomas Jones, Dinbych – gŵr arwyddocaol yn hanes y *genre* am fwy nag un rheswm.

### 1.2.1 'llafuriwch a gweddïwch': *Cofiant . . . y Parch. Thomas Jones . . . o dref Ddinbych* (1820)

Cyd-ddigwyddiad ffodus yw bod cofiannau i Thomas Jones, Dinbych ymysg y cynharaf a'r diwethaf i'w cyhoeddi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[146] Ymddangosodd y cofiant cyntaf iddo ryw chwe mis wedi ei farwolaeth yn 1820.[147] Nid yn annisgwyl, y mae'r gyfrol hon yn dilyn y patrwm a ddilynodd Thomas Jones ei hun wrth gofiannu ei gyfaill Thomas Charles.

---

[145] Rhai o'r geiriau a arferir gennyf yn y traethawd hwn a chan feirniaid eraill. Gw., er enghraifft, Alun Llywelyn-Williams, 'Bywgraffiad fel creadigaeth lenyddol', yn Geraint Bowen (gol.), *Ysgrifennu Creadigol* (Llandysul, 1972), t.142; Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.351; Emyr Gwynne Jones, 'Y cofiant', yn Dyfnallt Morgan (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Llandybïe, 1968), t.179.

[146] Gellir honni mai'r cofiant a gyhoeddwyd i Thomas Jones yn 1820 oedd y cyntaf i'w ysgrifennu'n gyflawn yn y Gymraeg. Fel y gwelwyd eisoes i raddau, er bod sawl cofiant wedi eu cyhoeddi cyn ymddangosiad y gyfrol, cyfieithiadau, neu gyfieithiadau rhannol ydynt oll hyd y gellir gweld. Gw., fodd bynnag, waith cofiannol byr David Jones, Llan-gan, *Llythyr oddi wrth Dafydd ab Ioan y Pererin, at Ioan ab Gwilym y Prydydd: yn rhoddi byrr hanes o fywyd a marwolaeth y Parchedig Mr Christopher Basset, Athraw yn y Celfyddydau, o Aberddawen, yn Sir Forgannwg* (Trefecca, 1784). Am drafodaeth ar y gwaith hwn, gw. Morgan, 'Llenyddiaeth y Methodistiaid', tt.494-7.

[147] John Humphreys a John Roberts, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones, gweinidog yr efengyl, yn ddiweddar o dref Ddinbych; hanes ei fywyd a 'sgrifenwyd ganddo ef ei hun, ar ddymuniad ei gyfaill Parchedig Mr. Charles* (Dinbych, 1820).

Dilynir hunangofiant ysbrydol sylweddol Thomas Jones[148] gan adran gofiannol fer yn llaw John Humphreys a John Roberts, Llangwm sy'n cynnwys gohebiaeth ato ac oddi wrtho, ynghyd â barddoniaeth, emynau a marwnadau. Unwaith eto, dylid gochel rhag gwahaniaethu'n ormodol rhwng safbwyntiau mewnol ac allanol y ddwy adran, ond mae'n ddiddorol bod y ddwy ran fel ei gilydd yn amlygu'r pwyslais ar dduwioldeb a diwydrwydd y pregethwr, ynghyd â'r briodas rhwng piwritaniaeth ac efengyleiddiaeth a drafodwyd eisoes yn y bennod hon.

Gan mai'r cynllun ar gyfer hunangofiant Thomas Jones oedd y profiadau hynny a fynegwyd gan Thomas Charles yn ei hunangofiant yntau, ynghyd â'i ysgogiad iddo ysgrifennu hanes ysbrydol ei fywyd, nid syndod gweld mai'r hyn a geir yw 'datblygiad ysbrydol' ei fywyd yn nhraddodiad hunangofiant John Bunyan.[149] Er mai mewnol yw'r ymdriniaeth ar y cyfan, cyfeirir at rai digwyddiadau allanol, megis priodi a symud aelwyd. Ond eilbeth yw'r digwyddiadau yn ei hanes, gan mai mynegiant o'i deimladau personol a'i fyfyrion am ei gyflwr sy'n gyrru'r naratif gan mwyaf, a gellir dadlau mai cyflwyno cefndir neu gyd-destun i'r mewnsyllu yw pwrpas cyfeirio at ddigwyddiadau yma. Eto, mae'n amlwg na chytunai pawb â safbwynt o'r fath. Un agwedd ddiddorol ar y berthynas rhwng y mewnol

---

[148] Gw. ibid., tt.5-80 (o gyfrol 128 tt.). Gw. Atodiad 2a.

[149] Fel y gwelir yn nheitl y cofiant cyflawn: '. . . *hanes ei fywyd a 'sgrifenwyd ganddo ef ei hun, ar ddymuniad ei Gyfaill Parchedig Mr Charles, hyd amser marwolaeth y gŵr enwog hwnw, yn 1814* . . .'. Fel math o ragymadrodd i'r gwaith dyfynna Thomas Jones restr o ofynion a dderbyniodd gan ei gyfaill, mewn llythyr ato yng ngwanwyn 1800, a oedd yn pennu'r math o brofiadau y dylid eu croniclo: 'Pa bryd, ac y'mha le y'ch ganwyd? – O ba alwad a sefyllfa yr oedd eich Rhieni? – Pa fath oedd eich dygiad i fynu o'ch mebyd? – Pa bryd, a thrwy ba foddion, yr ymwelodd yr Arglwydd â chwi âg argyhoeddiadau am eich cyflwr fel pechadur colledig? – Pa gynhaliaeth a weinyddwyd i chwi, a thrwy ba foddion, dan yr argyhoeddiadau hynny? – Pa bryd, a thrwy ba foddion, y datguddiodd Duw ei Fab ynoch? – Pa droion neillduol, o gyfyngderau a gwaredigaethau, a gyfarfuant â chwi ar eich taith trwy yr anialwch hyd yn hyn? – Pa gymhelliadau a'ch tueddodd tu ag at waith Gweinidogaeth y gair? – Pa rai a fuant yr anhawsderau a'r profedigaethau mwyaf? – hefyd, pa gysuron, a pha lwyddiant, a gawsoch, yn eich gwaith yn gyhoeddus? – Pa bethau hynodol a ddaliasoch sylw arnynt yn eich dyddiau, yn y dull, a'r moddion trwy ba rai, y dygodd yr Arglwydd ei achos gogoneddus y'mlaen? – Pa ddichellion ac ymosodiadau o eiddo'r gelyn a sylwiasoch arnynt, yn tueddu i attal y gwaith, yn yr Eglwysi, ac yn y byd? a pha fodd, er holl ddyfais y gelyn, yr aeth yr achos y'mlaen, ac y gorchfygwyd Satan a'i offerynau? – Beth yw eich grym a'ch cysur presennol yn y Weinidogaeth? a pha beth yw sail eich gobaith am fywyd tragwyddol yn wyneb angau a barn?' (tt.5-6). Er nad yw Thomas Jones yn cadw'n union at y rhestr hon, nid syndod gweld mai'r cwestiynau hyn sy'n gosod fframwaith neu adeiladwaith i'r naratif hunangofiannol sy'n dilyn. Gw. hefyd Idwal Jones, *Hunangofiant y Parch. Thomas Jones* (Aberystwyth, 1937), t.xiv.

a'r allanol yn yr hunangofiant hwn yw'r cysylltiad rhwng amheuon ysbrydol Thomas Jones a chyfnodau o afiechyd corfforol, yn enwedig pan yw'n dioddef oddi wrth garreg y bustl. Nid oes ddwywaith nad yw'r disgrifiadau manwl o arteithiau Thomas Jones o dan ddyrnau afiechyd yn hynodi'r hunangofiant hwn, ond parodd hynny i Saunders Lewis awgrymu nad oedd yn dilyn y patrwm arferol ar gyfer hunangofiant ysbrydol. Fodd bynnag, mae nodi gorthrymderau a blinderau yn rhan annatod o'r profiad ysbrydol ac yn hanfodol i gymell gras. Ys dywed Roger Sharrock, ceir yma 'a cardinal principle of reformed theology',[150] gan fod profiadau o'r fath yn dwysáu ymdrech Thomas Jones i fyw'n ysbrydol.

Fel y gwelir, nid tröedigaeth ddramatig a chyflym yw eiddo Thomas Jones ond un sy'n ffrwyth blynyddoedd o brofi 'cyfnodau hir o feddwl ac ymdrech a digalondid ar un llaw, a gweledigaethau sydyn, tanbaid ar y llaw arall'.[151] Penderfyniad arwyddocaol a dadleuol i raddau oedd i Idwal Jones rannu'r naratif di-dor gwreiddiol yn dair adran yn ei olygiad newydd o'r hunangofiant yn 1937. Yno, dadleuodd fod y gwaith yn rhannu'n naturiol, gan ddangos 'taith ysbrydol' Thomas Jones at 'lwyr ymroddiad i ewyllys Duw', cyn amlygu'r profion a fu ar ei ffydd oddi wrth ddioddefiadau corfforol ac yna'r ddadlennu 'ffrwythau'r ysbryd yn ei waith fel pregethwr, llenor ac arweinydd'.[152] Er nad wyf yn gomedd i Idwal Jones ei gynllun, sicrach fyddai gweld yr hunangofiant drwyddo draw fel ymgais i fynegi ymchwil parhaus am ras achubol Duw ar enaid pechadur, a'r ymdrech i fyw yn dduwiol. Gellir dadlau mai dwy nodwedd waelodol a chysylltiedig, sef duwioldeb Thomas Jones a'i ddiwydrwydd, sy'n adlewyrchu'r ymchwil hwn yn yr hunangofiant. Mewn dyfyniad sy'n adrodd hanes ei deimladau tra oedd yn dioddef o dan ail garreg yn 1783 – darn sy'n bur nodweddiadol o weddill yr hunangofiant – ymglywn â'i hyder ei fod yng ngofal ei dad Nefol, er gwaethaf ei boenau ysbrydol a chorfforol:

---

[150] Sharrock, 'Introduction', tt.xxxii-xxxiii.
[151] Jones, *Hunangofiant Thomas Jones*, t.xiv.
[152] Ibid., t.x.

> Tra'r oeddwn megis wedi fy nghloffi gan amryw ofidiau, heblaw y garreg oedd o fewn fy nghorph, yr oeddwn yn cael rhyw fesur o brawf fod yr Arglwydd yn fy nerthu i fyned y'mlaen yn fy nhaith a'm gorchwyl, a'i fod yn gosod ynof air y cymmod ac yn bendithio fy llafur i ambell Gristion gwan, ac ambell bechadur hefyd. Ond yma, tra gweddus i mi dewi, ac ymgywilyddio yn fawr gan fy ystyriaethau, O fy nghulni! O fy anfuddioldeb![153]

Yn ddiddorol iawn, dyma'r geiriau sy'n dwyn rhan gyntaf yr hunangofiant i ben yng ngolygiad Idwal Jones. Eto, ni ellir ysgaru'r geiriau hyn oddi wrth fyrdwn yr ail a'r drydedd ran, sef dadlennu profion bywyd, ynghyd ag amlygu 'ffrwythau'r ysbryd' drwy ei lafur. Yn wir, y mae'r ymdrech i ymgyrraedd at ystâd o santeiddhad a defnyddioldeb drwy lafur yn bresennol, onid yn ymgordeddu, drwy'r hunangofiant. Rhyfel ysbrydol parhaus â'r galon lygredig yw eiddo Thomas Jones, ac er gwaethaf dysgeidiaeth yr Arglwydd 'yn y bore', nid rhyfedd y dywed '[nad] llai fydd fy niffyg o galon i dderbyn yr un addysg, cyn y nos'.[154] Ni all ond 'ymgywilyddio, wrth edrych ar fy holl waith; neu, ai ni ddylwn yn hytrach ddywedyd, fy holl ystod o anfuddiolrwydd'. Yma eto, deuwn i gysylltiad â'r pechod mawr, sef anfuddioldeb; pechod sy'n sail ac yn sbardun i ddiwydrwydd parhaus ei fywyd. Ac wrth gwrs, nid diwydrwydd ysbrydol, mewnol yn unig mohono, ond defnyddioldeb a llafur allanol neu gyhoeddus yn ogystal, boed fel pregethwr teithiol gyda'r Methodistiaid, fel arweinydd a chynghorwr ar braidd ei eglwys, neu fel llenor, hanesydd a diwinydd yn ysgrifennu, cyfieithu, barddoni a chyhoeddi. Megis yr ymgais at dduwioldeb, felly, diddorol yw gweld bod yr ymroddiad hwn at ddefnyddioldeb i'w ganfod yn gyson yn yr hunangofiant yn ogystal. Yn aml, dilynir cyfnodau o salwch gan ymdrech ac awydd o'r newydd i fod yn ddiwyd a llafurfawr gyda'r achos; deisyfiad sy'n bresennol hyd yn oed pan gaiff iechyd i lafurio. Yn 1813, er enghraifft, flwyddyn yn unig cyn dod â'r hunangofiant i ben, dywed: 'O,

---

[153] Humphreys a Roberts, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones*, t.48.
[154] Ibid., tt.12, 56, 59, 65.

na buaswn, ac na byddwn yn fwy ffyddlawn a ffrwythlon yn ngwaith y weinidogaeth, ac yn mhob gorchwyl perthynol i winllan a chynaeaf fy Arglwydd a'm Hachubydd!'[155]

Nodwyd eisoes mai dyma, o bosibl, y cofiant Cymraeg cyflawn cyntaf i'w gyhoeddi. Ffaith ffodus oedd honno i'r Gymraeg, gan y dengys y dyfyniadau a gafwyd o'r hunangofiant uchod gryfder arddull Thomas Jones – gwaith a ganmolwyd gan Saunders Lewis fel 'llyfr dynol, diddorol ac yn waith llenor'. Iddo ef, dadlennai symlrwydd a diffuantrwydd ei fynegiant awdur a ysgrifennai'n gyson a rhwydd.[156] Awgrymu a wnaeth Idwal Jones ar y llaw arall fod symlrwydd arddull Thomas Jones yn dynodi nad oedd yn fwriad ganddo greu 'celfwaith'. Gwêl yr hunangofiant fel 'llyfr personol odiaeth . . . a sgrifennwyd ar wahanol adegau mewn ymateb i ofynion cyfaill agos', ac nad oedd bwriad ganddo i'w gyhoeddi.[157] Er cytuno ag ef nad oes prawf o fwriadau Thomas Jones ar gyfer yr hunangofiant, yr un pryd mae'n anodd credu nad ymgymerodd â'r gwaith gyda'r bwriad uniongyrchol o'i gyhoeddi – os nad yn ystod ei oes ei hun, yna'n sicr wedi ei farwolaeth. Nac anghofier iddo ymgymryd â'r gwaith mewn cyfnod o salwch pryd y lleisiwyd pryder gan sawl un am ei gyflwr, a phryd yr amheuwyd a fyddai'n goroesi'r afiechyd.[158] Yn ogystal, gwelwyd eisoes i Thomas Jones gyhoeddi sylwadau personol tebyg o eiddo Thomas Charles ar gyfer ei gofiant. Ac o sylwi ar y gwaith hwnnw, mae'n anodd hefyd dderbyn mai unig sail arddull Thomas Jones yn ei hunangofiant oedd mai gwaith personol ydoedd. Yr un ymadrodd dirodres, a'r un ddealltwriaeth o deithi'r Gymraeg, i gryn raddau, a welir ar ei gyfieithiad ef o hunangofiant

---

[155] Ibid., tt.69. Gw. hefyd tt.32, 51, 60, 78. Ac wrth gwrs y mae popeth, pleserus a phoenus fel ei gilydd, yn ddarostyngedig i law Duw. Ceir ymdeimlad ingol â'i gred mewn rhagluniaeth yn gynnar yn yr hunangofiant wrth i Thomas Jones nodi y 'Rhyngodd bodd i'r Arglwydd ddwyn ymaith fy Mam, drwy farwolaeth' pan oedd ond saith mlwydd oed. Ond yr un law hefyd a 'drefnodd' iddo gael llety a gofal pan aeth yn wael ar daith bregethu drwy ddwyrain Sir Ddinbych yn 1792 (Humphreys a Roberts, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones*, tt.7 a 50).

[156] Saunders Lewis, 'Cywydd gan Thomas Jones, Dinbych', *Y Llenor* (Hydref 1933), 135. Gw. hefyd ei sylwadau yn 'Y cofiant Cymraeg', tt.347-8.

[157] Jones, *Hunangofiant Thomas Jones*, t.x.

[158] Jonathan Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych, yn cynnwys ei gysylltiad a Duwinyddiaeth a Llenyddiaeth ei Oes a Hanes Symudiadau y Methodistiaid Calfinaidd, ac a'r Ordeiniaid Cyntaf a fu ar eu Gweinidogion yn y flwyddyn 1811* (Dinbych, 1897), t.218.

Thomas Charles a wnaethpwyd yn unswydd i'w gyhoeddi yn dilyn marwolaeth y gŵr hwnnw. Afraid sôn, wrth gwrs, am draddodiad yr hunangofiant ysbrydol a oedd yn ddylanwad amlwg ar y ddau Fethodist.[159] Unwaith eto, rhaid addasu cysyniadau oes ddiweddarach parthed yr hyn sy'n 'bersonol', a'u cymhwyso at dueddiadau'r oes yr ysgrifennwyd yr hunangofiant ynddi. Yn sicr, hyd yn oed os nad oeddynt yn ymwybodol o'r traddodiad, ni fyddai cofianwyr Thomas Jones wedi ystyried yr hunangofiant fel gwaith personol na ddylid ei gyhoeddi.[160] Yn wir, o gofio pwysigrwydd Thomas Jones a Thomas Charles fel dau o ffigurau amlycaf Methodistiaeth Galfinaidd yn negawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â'u sêl efengylaidd i ogoneddu Duw a chenhadu i eraill, rhaid ystyried llunio *Cofiant Thomas Charles* a llunio'i hunangofiant ei hun yn rhan o genhadaeth lenyddol ac ysbrydol Thomas Jones. Dyma oedd symbyliad ei lafur diflino yn cyhoeddi ysgrifau, llythyrau, cyfieithiadau, marwnadau a gweithiau diwinyddol, ynghyd â mentrau, megis cyhoeddi (ar y cyd â Thomas Charles) y *Drysorfa Ysbrydol*, sy'n cynnwys nifer o gofiannau byrion, wrth gwrs. Y mae'n amheus a fyddai gŵr a oedd 'yn parhau i bregethu, ysgrifennu a darllen, hyd yn oed ar wely cystudd', chwedl Idwal Jones ei hun, heb ystyried cyhoeddi pob gwaith o'i law, boed ba mor 'bersonol' yr ydoedd. Tebycach mai'r hyn a geir yma yw'r cyfuniad o reddf a dawn llenor i gyfathrebu ynghyd â bwriad ymwybodol o ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa syml, werinol.

Megis yn y cofiant i Thomas Charles, ychwanegwyd adran gofiannol at ran gyntaf *Cofiant . . . Thomas Jones*.[161] Mae'n llai o'r hanner na'r hunangofiant,[162] a'r bwriad yn amlwg oedd 'adrodd ychydig hanes am dano', sef y cyfnod hwnnw o chwe blynedd rhwng marwolaeth Thomas Charles yn 1814 a'i farwolaeth ei hun yn 1820. Gwneir hynny, meddir,

[159] Gw. y gymhariaeth a rydd Idwal Jones ag Awstin; Jones, *Hunangofiant Thomas Jones*, t.x.
[160] Er tegwch i Idwal Jones, rhaid nodi nad yw'n awgrymu hynny yn ei ragymadrodd.
[161] Gw. W. J. Harries, 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg o safbwynt llenyddol' (Traethawd MA, Cymru (Abertawe), 1954), pennod 3, *passim*.
[162] Sef tt.81-122 o'r gyfrol gyfan (128 tt.). Gw. Atodiad 2a.

drwy gasglu atgofion ei gyfeillion a'i weddw amdano, ynghyd â'r dystiolaeth a geir ymysg ei lythyrau ef a llythyrau a ysgrifennwyd ato.[163] Y mae i'r adran hon ei gwendidau, megis diffyg unoliaeth testunol ac awydd y cofianwyr i ddilysu barn 'gymedrol' Thomas Jones ar fater cecrus prynedigaeth ac Iawn Crist drwy brofi ei fod 'mewn *undeb serchus* â'r Corph, drwy Gymru oll'.[164] Serch hynny, mae'n werth nodi ambell bwynt arwyddocaol parthed yr adran gofiannol hon. Yn gyntaf, er gwaethaf bwriadau amddiffynnol y cofianwyr, gwelir unwaith eto yma groesi ffiniau disgwyliedig rhwng cyfryngau neu gyd-destunau mewnol ac allanol wrth iddynt fynd ati i adrodd hanes eu gwrthrych o fewn ffrâm fywgraffiadol.[165] Ond pwrpas yr hanes cyhoeddus hwn yw pwysleisio llafur a diwydrwydd Thomas Jones wrth ei alwedigaeth, a chadarnheir hyn gan ddefnydd y cofianwyr o ffynonellau hunangofiannol, megis gohebiaeth eu gwrthrych. Yn un o'i lythyrau a ddyfynnir ar ddechrau'r adran gofiannol, dywed Thomas Jones mai'r peth 'sydd fwyaf ar fy meddwl' yw annog yr eglwys fel a ganlyn: 'Llafuriwch a gweddïwch am i chwi iawn-barchu, derbyn a defnyddio gwerthfawr air Duw'.[166] Ac mewn llythyr arall at y saint yng Nghaerwys, sonia ei fod ef a'i frodyr 'mewn symledd a deffröad duwiol . . . ac ydym yn offrymedig ac ymroddgar yn y gwaith'.[167] Yn ogystal, telir sylw i'w ymdrech i bregethu, a nodir na fu yn aflwyddiannus yn hyn, er gwaethaf ei iechyd bregus, hyd yn oed tra oedd yn byw yn Syrior.[168] Dwysáu tystiolaeth 'gyhoeddus' o'i dduwioldeb a wna'r portread argraffiadol ohono 'fel Dyn, fel Cristion, fel Pregethwr &c' a gyflwynir gan y cofianwyr yn ôl confensiwn y bregeth

---

[163] Humphreys a Roberts, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones*, t.81.
[164] Ibid., tt.99 (pwyslais JH a JR) a 91. Gwneir hyn drwy gyflwyno nifer o lythyrau gan aelodau o'r Corff Methodistaidd sy'n datgan eu cytundeb, neu o leiaf eu cefnogaeth, i ddaliadau'r gwrthrych.
[165] Sonnir am waith Thomas Jones yn llunio cofiant ei gyfaill, ynghyd â'i benderfyniad i symud o Ddinbych i ffermdy Syrior yn 1816. Bu'n rhaid iddo ddychwelyd ddwy flynedd yn ddiweddarach oherwydd nad oedd ei iechyd yn caniatáu iddo deithio cymaint ag y dymunai, ac er mwyn bod yn agos at argraffwasg yn ystod cyhoeddi rhan olaf ei gyfieithiad o waith William Gurnal, *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth neu, Draethawd am ryfel y saint yn erbyn y diafol* (Dinbych, 1796-1819). Cyfeirir at y bregeth a draddododd o flaen Cymdeithas Genhadol y Methodistiaid yn Llundain yn 1817, a nodir ei gefnogaeth i'r gymdeithas honno a chymdeithasau eraill.
[166] Humphreys a Roberts, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones*, tt.83-5.
[167] Ibid., tt.86-7, 87-8.
[168] Ibid., t.90.

angladdol.[169] Fel y trafodwyd eisoes, mae'r nodweddion a drafodir yn perthyn yn uniongyrchol i gymeriad Thomas Jones, megis ei fod yn ysgolhaig ac ieithydd dawnus, ei fod yn ffyddlon i'r Brenin a'r llywodraeth, ei fod yn benteulu a meistr doeth a charedig, ynghyd â phwysleisio ei gred ddiysgog mewn rhagluniaeth. Serch hynny, nid oes ddwywaith nad amlygu pwyslais y cofianwyr ar bortreadu duwioldeb eu gwrthrych yw diben y portread gan fod yr ymdriniaeth wedi ei datgysylltu oddi wrth hanes ei fuchedd, ac mae rhai o'r nodweddion a ddisgrifir yn bur enerig i'r traddodiad cofiannol, megis ei fod yn gyfaill 'ffyddlon', yn hael a 'thyner at y tlodion', yn gynghorwr 'difrifol' ac yn ostyngedig ei natur. Wrth gloi eu sylwadau arno fel pregethwr, er enghraifft, daw'r cofianwyr i'r casgliad ei fod 'yn ei holl ymdriniaeth â gwaith mawr yr Arglwydd, fel un yn teimlo ei bwys a'i ysprydolrwydd'.[170] Y duwioldeb hwn sy'n sail i'w ddiwydrwydd ysbrydol a bydol, ac mae'r hanes cyhoeddus ynghlwm wrth 'wirionedd' yr hunangofiant. Y mae'r gwirionedd hwnnw yn ei dro yn dilysu'r portread cofiannol a gyflwynir ac yn hyrwyddo amcanion didactig y gwaith, sef bod 'o lês i bechaduriaid'.[171] Nid hanes ond portread yw hanfod y cofiant cynnar hwn, felly. Yn wir, gwelir mai'r un gwerthoedd sydd i waith cofianwyr Thomas Jones â'r cofiannau Cymraeg diweddarach, er na cheir, ond odid, gystal mynegiant o'r gwerthoedd hynny mewn sawl cofiant ag a geir yn nwylo medrus y llenor o Gaerwys.

---

[169] Ibid., tt.107-11.
[170] Ibid., t.111.
[171] Yr un amcan sydd i'r cofnod helaeth am ddyddiau olaf a marwolaeth Thomas Jones; cyfnod sy'n amlygu 'fod ynddo hyder fywiol a gobaith cryf yn yr Arglwydd Iesu'. Wrth gwrs, fel yr awgrymwyd eisoes yn y traethawd hwn, gellir ystyried llenyddiaeth eschatolegol yn *genre* annibynnol. Am ragor ar 'farwolaeth' yn y cofiant crefyddol Cymraeg, gw. Harries, 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg', tt.55-60.

### 1.2.2 'yr hanes cyflawnach': *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych* (1897)

Aeth ymron 80 mlynedd heibio cyn i Thomas Jones, Dinbych ymuno â'r garfan ddethol honno o bregethwyr hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis Thomas Charles, John Elias, Christmas Evans, William Williams o'r Wern a John Jones, Tal-y-sarn, a fu'n destun mwy nag un cofiant.[172] Awdur yr ail gofiant oedd Jonathan Jones, pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yng Nghaerwys ac yna Llanelwy. Hyd y gwyddys, dyma'r unig gofiant a luniodd Jonathan Jones, ac felly gellir ystyried mai ymateb yn syml a wnaeth i symbyliad cystadleuaeth ac argymhelliad cyfaill iddo fynd ati i ysgrifennu hanes y pregethwr a'r diwinydd amlwg hwn.[173] Ond nid amatur penchwiban oedd Jonathan Jones. Lluniodd gofiant a gafodd ei ganmol a'i barchu gan feirniaid yr ugeinfed ganrif, ac fel y gwelwyd eisoes, nid camp fechan ydoedd honno. Dichon mai gormodiaith yw haeriad Frank Price Jones yn 1956 mai 'Hwn, ond odid, yw'r cofiant Cymraeg gorau a ysgrifennwyd yn y ganrif ddiwethaf'. Eto, cenfydd ynddo sawl peth i'w glodfori, megis yr ymchwil manwl a wnaeth y cofiannydd er mwyn adrodd hanes bywyd ei wrthrych. Yn wir, hanner canrif wedi cyhoeddi'r cofiant, cydnebydd mai prin oedd y deunydd newydd y bu'n rhaid iddo'i gyflwyno pan aeth yntau ati i lunio cyfrol ar Thomas Jones.[174] Cyd-fynd â'r gofal hwn am ffeithiau a wna'r parch anarferol a ddengys Jonathan Jones at ei ffynonellau yn y gyfrol drwy eu cofnodi'n gyson a gofalus, elfen a ystyrir yn 'rhinwedd wir fawr', ym myd y cofiannau.[175] Ac mae'n amlwg nad Frank Price Jones yw'r unig un i werthfawrogi llafur cofiannol sylweddol y 'bywgraffydd diwyd a manwl' hwn, ys dywed Idwal Jones. Yn wir, fel 'gwaith gwych' y

---

[172] Gw. hefyd drydydd cofiant o fath iddo gan Frank Price Jones, *Thomas Jones o Ddinbych, 1756-1820* (Dinbych, 1956), lle bwrir golwg ar hanes ei fywyd cyn mynd ati i'w drafod yng nghyd-destun datblygiad enwad y Methodistiaid Calfinaidd.

[173] Cynhyrchwyd y gwaith yn wreiddiol, neu rannau ohono o leiaf, ar gyfer cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl, 1892. Testun y gystadleuaeth oedd 'Bywgraffiad y Parch. Thomas Jones o Ddinbych'. Gw. Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, t.xviii. Daeth yn fuddugol, ac aeth yr awdur ati i helaethu a chyhoeddi. Gwelodd y gyfrol olau dydd bum mlynedd yn ddiweddarach yn 1897. O hyn allan bydd unrhyw gyfeiriadau unigol at gofiant Jonathan Jones i Thomas Jones, Dinbych nad oes angen ymhelaethu arnynt yn ymddangos yn y testun. Nodir y rhifau tudalen yn unig oni fydd amwysedd.

[174] Frank Price Jones, *Thomas Jones o Ddinbych 1756-1820* (Dinbych, 1956), t.12.

[175] Jones, *Thomas Jones o Ddinbych*, t.12.

cyfeirir at y cofiant gan Glyn Ashton, golygydd y clasur Methodistaidd, *Drych yr Amseroedd.*[176] Er na cheir trafodaeth ar y gwaith yn ysgrif Saunders Lewis ar y cofiant Cymraeg, mae'r cyfeiriadau a geir at y cofiant yno ac mewn erthyglau eraill yn profi iddo ei ddarllen. Ac os na chanmolir y gwaith gan Lewis, nis beirniedir ychwaith.[177] Dyma gofiant digon anarferol ar un ystyr, felly, a gwaith gwahanol i'r cofiant gwreiddiol i Thomas Jones gan John Humphreys a John Roberts, Llangwm yn 1820. Ond er gwaetha'r ffaith nad yw'r cofiant hwn yn gwbl nodweddiadol o gofiannau troad yr ugeinfed ganrif, mae bwrw golwg fanylach arno yn fodd o amlygu rhai o nodweddion pwysicaf y cofiant crefyddol Cymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â dadlennu rhai o'r prif ddatblygiadau a fu parthed y ffurf.

***'Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig': gosod esiampl i'w efelychu***

Wrth gloi rhagymadrodd ei gofiant, y mae Jonathan Jones yn nodi ei fod yn dymuno 'y caiff pob un a ddarlleno y penodau canlynol fudd a bendith drwy wneuthur hyny' (xviii). Cymharer hynny â chyfarwyddyd ysgrythurol John Humphreys a John Roberts i'w darllenwyr: 'meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhain dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.'[178] Fe welir mai'r un amcan neu hanfod a berthyn i ddehongliad cofiannydd 1897 a chofianwyr 1820, sef clodfori a choffáu bywyd yr ymadawedig er lles ac addysg y byw, yr hyn a elwir gan Izaak Walton,

---

[176] Jones, *Hunangofiant Thomas Jones*, tt.viii-ix; Robert Jones, *Drych yr Amseroedd*, gol. Glyn M. Ashton (Caerdydd, 1958), t.xxviii.

[177] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.348. Daw astudiaeth Lewis i ben yn 1874, gyda chyhoeddi *Cofiant John Jones, Talsarn*. Gw. Lewis, 'Cywydd gan Thomas Jones, Dinbych', 133, 134. Y mae Lewis, er enghraifft, yn derbyn honiad Jonathan Jones fod gan Thomas Jones ran yn sefydlu gwasg Saunderson yn y Bala. Gw. hefyd, T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), t.14.

[178] Humphreys a Jones, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones*, t.3. Dyma adnod a ddefnyddid yn aml mewn pregethau angladdol i weinidogion yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Gw. yr adnod yn Epistol Paul ar yr Hebreaid 13:7; Houlbrooke, 'Funeral sermons', t.309.

'that pattern of primitive piety'.[179] Ac fel y dywed Emyr Gwynne Jones, bwriad y cofiannau oedd cynnig portread i'w efelychu er mwyn 'cynorthwyo Cymry'r ganrif i fyw bucheddau yr un mor dduwiol ag eiddo'r gwrthrychau eu hunain'.[180] O'r herwydd, roedd y cofiannau yn aml yn adlewyrchu gwerthoedd Anghydffurfiol a moesol y cyfnod,[181] ac megis y cofiant cynharach i Thomas Jones yr oedd y darlun o'r gwrthrych a gyflwynid yn amlygu dwy nodwedd benodol, sef duwioldeb a diwydrwydd.

*'dyn duwiol iawn': duwiolfrydedd Thomas Jones*

Yn unol â'r traddodiad efelychiadol sy'n sail i'r gwaith, felly, mae duwiolfrydedd Thomas Jones yn ganolog i weledigaeth gofiannol Jonathan Jones. Dyma hanfod y cymeriad a gaiff ei bortreadu. Gwêl fuchedd Thomas Jones yn 'fywyd mawr' (iii) oherwydd ei fod yn 'llawn meddwl, llawn teimlad, a llawn gwaith' (iv). Serch hynny, nid fel elfennau annibynnol y trinnir y tair ansawdd hyn. Eu cysylltiad â'r portread o'r Cristion duwiol, a'u cyd-destunoliad o fewn esiampl y portread hwnnw, sy'n amlygu mawredd y fuchedd, neu '[r]oddi mantais i'r darllenydd i adnabod Mr Jones *fel dyn duwiol, ac fel dyn duwiol iawn*', chwedl y cofiannydd ei hun (447). Gellir dadlau bod i'r meddwl, y teimlad a'r gwaith ran nid bychan yn amlygu duwioldeb y gwrthrych yn y cofiant, a'u bod yn gyfryngau sy'n adlewyrchu'r Cristion delfrydol yng ngolwg Jonathan Jones. Er enghraifft, sonia'r cofiannydd am y cyfyng gyngor a ddaeth i ran Thomas Jones pan oedd rhwng 18 a 24 oed ynglŷn â dilyn galwedigaeth o fewn yr eglwys wladol. Adroddir sut y gwrthododd hamdden ac elw bydol yr eglwys, gan fwrw ei goelbren yn ddiweddarach ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd. Yn ôl yr awdur, dyma brawf o 'wroldeb moesol a chrefyddol cryf . . . ei gymmeriad' (45). Nodweddir ei fywyd crefyddol ac ysbrydol gan safonau delfrydol, ac felly gall y cofiannydd dystio i'w 'gymmeriad uchel fel

[179] Walton *Lives*, t.iii; Gw. hefyd Shelston, *Biography*, t.23.
[180] Jones, 'Y cofiant', t.175.
[181] Gw., er enghraifft, eiriau R. Tudur Jones, pan ddywed nad oedd y cofianwyr 'byth yn anghofio mai darlunio modelau ac esiamplau y maent' (Jones, 'Anghydffurfiaeth', t.123).

dyn, ac fel Cristion gloyw, ac yn arbenig fel pregethwr sylweddol a galluog' (194). Mae'n ddiddorol y gwelir cyfuno'r ysbrydol â'r gweinidogaethol, y mewnol â'r cyhoeddus yma, yn adlais o ymdriniaeth y bregeth angladdol, a cheir sawl cyfeiriad yn y gyfrol at ei fuchedd ddiwair a duwiol, onid 'sanctaidd' yn wir (266). Eto, y cyfrwng mwyaf amlwg yn y penodau cyntaf sy'n portreadu nodweddion ei dduwiolfrydedd yw'r dyfyniadau a geir o'i hunangofiant.

Yma eto, defnyddir yr hunangofiant yn naratif Jonathan Jones er mwyn dangos 'agwedd meddwl' crefyddol ac ysbrydol ei wrthrych (24). Ond yn unol â'r hyn a geid yn yr hunangofiant, nid cyflwr statig yw duwioldeb Thomas Jones ond un sy'n newid a datblygu. Adlewyrchir hyn yn y dyfyniadau a gyflwynir, wrth i'r cofiannydd ddarlunio'i wrthrych yn 'ymdrech y *deall* a'r *rheswm* i ddirnad ac amgyffred dirgeledigaethau mawrion' rhai o'r prif bynciau diwinyddol, megis yr Iawn, wrth i'w gyneddfau ysbrydol a'i brofiadau ddwysáu ac aeddfedu (61, gw. hefyd 35). O'r herwydd, ceir yma amlygu cyfraniad y 'meddwl' a'r 'teimlad' yn ei dduwioldeb, a rhoddi pwyslais nid yn unig ar ddinoethi ei gyflwr tragwyddol ei hun ond ar gyflwr eraill yn ogystal. Ffynhonnell arall o eiddo'i law ei hun sy'n gyfrwng i'r meddwl a'r teimlad duwiolfrydig yw ei lythyrau. Ac megis yr hunangofiant, un o brif amcanion y cofiannydd wrth eu cynnwys yw dilysu'r portread a luniodd o'i wrthrych. Er enghraifft, dyfynnir llythyr gan Thomas Jones at un o'i gyfeillion yng Nghaerwys am y ceir ynddo 'agwedd ei feddwl, ac ansawdd ei deimladau crefyddol' – llythyr a ddengys i Jonathan Jones 'fod syniad Mr Jones yn uchel am ei ras a'i dduwioldeb' (121). Gellir ystyried yn yr un modd y 'geiriau grasol' o'i eiddo a ddyfynnir pan edrydd y cofiannydd hanes ei afiechyd olaf a'i farwolaeth. Er gwaetha'r ffaith fod Jonathan Jones yn nodi'n bur ddiamwys nad cyflwyno tystiolaeth am dduwioldeb ei wrthrych yw'r nod, y mae geiriau'r honiad ynddynt eu hunain yn cadarnhau'r cysylltiad rhwng y naill elfen a'r llall. Er nad oes 'ar neb sydd wedi dilyn yr

hanes hyd yma angen am brawf chwanegol mai "gŵr Duw" mewn gwirionedd oedd efe', eto, 'byddai yn gam âg ef, ac yn golled i eraill, pe na roddem eiriau sant mor ddisglaer' yn y cofiant (360-1). Fel y gwelwyd eisoes, yr oedd adrodd geiriau'r gwrthrych ar ei wely angau yn rhan arwyddocaol o ddisgrifio ei farwolaeth, ac yn dwysáu pwyslais y cofiannydd mai marw yn sicrwydd iachawdwriaeth a wnâi'r gwrthrych. Mae'n ddiddorol fod Jonathan Jones yma yn nodi mai dilyn y cofiant gwreiddiol y mae (361), a'i fod yn fodlon dyfynnu'n helaeth er gwaethaf ei ofnau o 'sangu ar dir cyssegredig' (365). Dengys hyn, unwaith eto, bwysigrwydd y portread duwiol yn yr hanes a adroddir, ynghyd â'r cysylltiad pendant sydd rhwng dyheadau cofiannol y naill gofiant a'r llall.

Ffynhonnell bellach o eiddo Thomas Jones sy'n adlewyrchu ei dduwioldeb yn llygad y cofiannydd yw'r gweithiau a gyhoeddodd yn ystod ei fywyd llafurus. Yma eto, mae Jonathan Jones yn cysylltu llafur cyhoeddus ei wrthrych wrth gyflawni ei alwedigaeth â'i ymdrech i ennyn buchedd dduwiolfrydig. Pan gynhwysir rhai emynau o eiddo Thomas Jones ar ddiwedd y drafodaeth yn yr ail bennod ar ei 'saith mlynedd o argyhoeddiad' crefyddol, nodir y gwneir hynny er mwyn i'r darllenydd gael blas ar ei ddawn farddonol. Ond mae'n amlwg mai prif amcan cynnwys yr emynau yw rhoi cyfle i'r darllenydd ymdeimlo rhywfaint â '[ph]rofiad dwfn a dwys eu hawdwr ar yr adeg y dygwyd ef gan yr Ysbryd Glan . . . i olwg gwleddoedd tŷ ei dad'. Dyma gyfnod sy'n gosod 'sylfeini ei ddefnyddioldeb mawr dyfodol, fel pregethwr ac fel awdur' (55). Y Cristion, ac nid y bardd, yw'r prif gyd-destun, felly. Yr un modd, mae'r farwnad a gyfansoddwyd i Ann Parry, Llanrhaiadr yn 1788, gwaith cyhoeddedig cyntaf Thomas Jones yn ôl ei gofiannydd, yn dyst mai 'gwroniaid y ffydd' oedd ei arwyr ac a oedd flaenaf yn ei feddwl (86).[182] Defnyddir y gweithiau hyn, felly, gan y cofiannydd i ddisgrifio 'ansawdd meddwl' ei wrthrych, ac mae'n nodi fwy nag unwaith

[182] Am ragor o hanes Ann Parry, gw. Derec Llwyd Morgan, 'Methodistiaeth Ann Parry (1718-1787)', yn idem, *Pobl Pantycelyn* (Llandysul, 1986), tt.28-36.

bwysigrwydd y rhagymadroddion i'r gweithiau yn hyn o beth. Yn wir, fe'u cymherir yn ffafriol â ffynonellau hunangofiannol, megis ei lythyrau.[183] Er enghraifft, pan sonia'r cofiannydd am y gyfrol *Ymddiddanion . . . ar Brynedigaeth* a gyhoeddwyd yn 1819, rhyw flwyddyn cyn marwolaeth Thomas Jones, nodir bod y rhagymadrodd yn cyfleu 'ymdeimlad o agosrwydd at fyd arall' (356). Dyma elfen sydd eto i'w chanfod mewn sawl cofiant, ac sy'n pwysleisio ystâd dduwiol y gwrthrych wrth i'r berthynas rhyngddo ef a'i gyfryngwr ddwysáu ac i'r bwlch rhwng y byd hwn a'r byd a ddaw leihau.

*'bywyd llafurus iawn': diwydrwydd Thomas Jones*

Y mae pwyslais y cofiannydd ar lythyrau a gweithiau ei wrthrych yn cysylltu ag elfen bellach ar ei dduwioldeb. Mewn rhagymadrodd o eiddo Thomas Jones i waith arall a gyhoeddwyd yn 1819, sef y cyfieithiad o'r rhan gyntaf o gyfrol William Gurnal, *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth*, noda'r cofiannydd y gwelir ynddo 'yr ymroddiad i lafur' a berthynai i'w wrthrych (355). Ynghyd â'i hunangofiant a'i weithiau llenyddol a beirniadol, oes lafurus Thomas Jones yw'r drydedd elfen o'i dduwioldeb a bwysleisir yn gyson gan Jonathan Jones, a hon yw'r elfen amlycaf o ddigon. Y mae'r cofiannydd yn gwbl ddiamwys yn ei ofal dros gyflwyno ei wrthrych fel 'gweithiwr defnyddiol' yn y winllan (45). Nodir bod llafurio'n gyson, a'r gallu i wneud hynny, ymhlith doniau Thomas Jones (28), a'i fod yn 'llawn o ysbryd llafur' (105) – ansawdd a gysylltir gan Jonathan Jones â Christ ei hun (132). Y mae'r cofiannydd yn awyddus i bwysleisio bod yr ysbryd diwyd hwn a'r sylweddoliad o werth a phwysigrwydd llafurio, yn elfen bresennol a chyson iawn drwy'i fywyd. Fe sicrheir y darllenydd, er enghraifft, nad 'blynyddoedd dilafur' oedd y saith mlynedd a dreuliodd yn ystyried ei gyflwr ysbrydol cyn derbyn sicrwydd o ras achubol ei Arglwydd (39), ac na fu'n gwbl segur hyd yn oed yn y cyfnodau hynny o afiechyd a gorffwys (59). Yn wir, mor gyson yw pwyslais y

[183] Gw., er enghraifft, ei sylwadau fod rhagymadroddion Thomas Jones gyfwerth â'i lythyrau er mwyn cyflwyno 'golwg ar deimladau ei galon' (Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, t.156).

cofiannydd ar ddiwydrwydd Thomas Jones, ni ellir ond ei ystyried yn elfen sy'n gwbl gysylltiedig â'i dduwioldeb. Y mae'r duwiol a'r diwyd ill dau yn porthi ei gilydd ym mhortread y cofiannydd, felly, a hynny mewn dau gyd-destun penodol.

Y cyd-destun cyntaf yw ei lafur galwedigaethol fel bugail a phregethwr. Yma, dilyn Jonathan Jones yr arfer a ddatblygwyd yn amlwg iawn yng nghofiannau'r pregethwyr, sef adrodd hanes y gwrthrych o fewn ffrâm fywgraffiadol sy'n dadlennu ei fywyd pregethwrol cyhoeddus. Ym mhenodau cyntaf y cofiant y digwydd y pwyslais pennaf ar ei lafur fel pregethwr, wrth i'r cofiannydd olrhain hanes a datblygiad Thomas Jones, o'i ansicrwydd cychwynnol ynglŷn â'i alwedigaeth, ynghyd â'r cymhellion cryf i bregethu a brofodd yn y cyfnod hwnnw, hyd at ei oedfaon cyntaf.[184] I'r cofiannydd, pwrpas adrodd am y cyfnod hwn o gyfyng gyngor y bu ynddo ynghylch y 'gwaith mawr' yw arwyddo'r 'fath syniadau uchel' a goleddai 'am fawredd a phwysigrwydd y gwaith o bregethu yr efengyl' (72). Uchafbwynt trydedd bennod y cofiant yw ei bregeth gyntaf yng Nghaerwys (69-70), ac o hynny allan, cyfeiria'r cofiannydd at ei waith yn teithio, boed gerdded neu farchogaeth, o fan i fan i bregethu neu, pan nad oedd ei iechyd yn caniatáu hynny, yn ymdrechu i bregethu ar aelwydydd Caerwys a phentrefi cyfagos (84). Wrth gwrs, nid ei lafur yn pregethu yn unig a bwysleisir, ond yn ogystal ei baratoadau manwl tuag at gymhwyso'i hun i gyflawni'r gwaith. Gwelwyd eisoes ei fod yn awyddus ac ymdrechgar i dderbyn gwybodaeth, ac fe nodir, er enghraifft, y bu iddo 'wneyd defnydd diorphwys o'i alluoedd i ymbaratoi gogyfer a gwaith dyfodol ei oes' (87) ac i gyflawni ei alwedigaeth drwy bregethu yr efengyl ac ymweld â'r eglwysi.[185] Golyga hyn fywyd teithiol y pregethwr ynghyd â'i 'lafur cartrefol' bugeiliol a gweinidogaethol. Uchafbwynt y drafodaeth hon ar ei ddiwydrwydd fel pregethwr a gweinidog yw'r bennod sy'n ei drafod 'fel pregethwr'. Dyma'r gyntaf o ddwy bennod sy'n

[184] Ibid., pennod 3 a 4 yn benodol.
[185] Ibid. Gw. y drafodaeth ar yr elfen hon, tt.189-90, lle nodir bod pregethu teithiol yn nodwedd anhepgor o fywyd y Methodistiaid Calfinaidd yn y cyfnod. Gw. hefyd t.210.

dilyn yr hanes am farwolaeth Thomas Jones, ac mae'n thematig ei hymdriniaeth.[186] Ymgais ydyw ar ran y cofiannydd at ddadansoddi nodweddion ei waith pregethwrol, ac nid anarwyddocaol o gwbl yw bod Jonathan Jones yn cynnwys duwioldeb ei wrthrych ymhlith y nodweddion hynny. Mae'n amlwg y gwêl y cofiannydd fod 'ei hanes fel dyn duwiol' yn ystyriaeth anhepgor wrth gynnig ymdriniaeth ag ef yn y pulpud (377). Yn wir, dywed Jonathan Jones yn ddiamwys mai'r sicrwydd y mae ei dduwioldeb yn ei gynnig parthed ei gyflwr ysbrydol a thragwyddol 'oedd sylfaen ddyfnaf a chadarnaf ei ddefnyddioldeb mawr dyfodol, a phrif elfen ei nerth fel pregethwr' (383).

Er gwaethaf pwysigrwydd gweithgarwch cyhoeddus Thomas Jones fel pregethwr a gweinidog, ac awydd amlwg y cofiannydd i'w ddarlunio'n gyson yn y gyfrol, gellid dadlau nad yw'r cofiant hwn yn manylu cymaint â chofiannau pregethwyr eraill yn y ganrif ar yr elfen hon. Y rheswm am hynny yw bod iechyd bregus Thomas Jones wedi ei atal rhag mynd i bregethu yn aml, ynghyd â'r ffaith nad oedd llawer o wybodaeth ar gael am ei oedfaon. Byddai hyn hefyd yn cysylltu â'r gred mai fel diwinydd, ac nid pregethwr, y gwnaeth Thomas Jones ei brif gyfraniad i Gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, a dyna, wrth gwrs, yw barn Jonathan Jones yn ogystal. Er bod safbwyntiau diwinyddol Thomas Jones yn amlwg yn ei bregethau,[187] mae'n wir dweud mai ar weithgarwch llenyddol ei wrthrych y rhydd Jonathan Jones ei sylw wrth amlygu'r elfen hon. Dyma'r ail brif gyd-destun a ddefnyddir gan y cofiannydd er portreadu diwydrwydd diymwad Thomas Jones yn ystod ei fywyd. Unwaith eto, megis y cyd-destun pregethwrol a galwedigaethol, pwysleisia'r cofiannydd y cyd-destun hwn drwy gyfrwng y ffrâm fywgraffiadol a gyflwynir. Ac er nad yw'n ymddangos yn y naratif hyd y bedwaredd bennod, gyda chyfeiriad a thrafodaeth fer ar y gwaith cyntaf oll a gyhoeddodd 'fel awdwr', sef ei farwnad i Ann Parry, Llanrhaiadr (85), caiff y cyd-destun ei

[186] Gw. Atodiad 2b am deitlau ac adeiladwaith penodau'r gyfrol.
[187] Cyfeirir at rai pregethau argraffedig o'i eiddo yn y bennod sy'n ymdrin ag ef fel pregethwr, ond mae'n amlwg nad oedd llawer o ddeunydd wedi goroesi. Gw. pennod 14 (tt.377-8).

awgrymu ambell waith yn naratif y penodau blaenorol yn ogystal.[188] O hynny allan, ceir cyfeiriadau a thrafodaethau cyson ar ei weithgarwch llenyddol a diwinyddol sy'n gronolegol glwm wrth hanes ei fywyd. Noda'r cofiannydd iddo wneud 'gwaith tra defnyddiol' pan oedd yn byw yn yr Wyddgrug rhwng 1795 a 1804, pryd y cyhoeddodd un o gyfrolau'r cyfieithiad o'r *Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth*, cyhoeddi *Y Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg* ynghyd â dwyn allan y *Drysorfa Ysbrydol* ar y cyd â Thomas Charles rhwng 1799 a 1801. Dywed ymhellach mai 'pum mlynedd cynnyrchiol iawn, mewn ystyr lenyddol' oedd ei gyfnod yn nhref Rhuthun, rhwng 1804 a 1809, lle gwelwyd cyhoeddi rhan arall o'i gyfieithiad o waith Gurnal, *Y Drych Athrawiaethol*, *Ymddiddanion Crefyddol*, sef traethawd sy'n ateb honiadau'r pregethwr Wesleaidd, Owen Davies, a *Catecism Eglwys Loegr* – gweithiau a oedd 'yn gofyn llafur ac ymchwiliad dirfawr'.[189] Ac wrth gwrs, nid yw Jonathan Jones am i'r darllenydd anghofio mai gwaith a wneir er lles eraill ydyw. Y mae'r ffaith i Thomas Jones lwyddo i gyhoeddi ei gyfieithiad o drydedd ran *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth* mewn cyfnod o gystudd yn 1796 yn brawf o'i awydd i 'wasanaethu ei oes a'i genhedlaeth' (103). Tebyg yw'r disgrifiad a rydd ohono fel 'awdwr ymroddedig a llafurus' wrth sôn am gyhoeddi'r gyfrol *Diwygwyr, Merthyron, a Chyffeswyr Eglwys Loegr* (1813) – gwaith a elwir gan y cofiannydd yn 'un o brif gymmwynasau Mr Jones i'w genedl yn ystod ei oes lafurus a defnyddiol'.[190] Yn unol ag amcan cofiannol Jonathan Jones, felly, nid yw'n syndod mai ar ei weithiau diwinyddol a hanesyddol y mae pwyslais y cofiannydd, yn hytrach na'i gyfraniad llenyddol.[191]

---

[188] Digwydd, er enghraifft, pan gyfeirir at y nodweddion hynny a amlyga ddawn Thomas Jones fel awdur, megis ei syched am wybodaeth a'r ffaith y gallai 'gyflawni gwaith mawr fel efrydydd mewn amser byr iawn' (28).
[189] Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, tt.132 a 189.
[190] Ibid., tt.198 a 209. Gw. y drafodaeth estynedig ar y gwaith, tt.206-11, lle mae'n arfer y teitlau *Merthyrdraeth* a *Hanes y Merthyron* yn ogystal. Gw. ei sylwadau wrth sôn am gyhoeddi *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth*, tt.355-6.
[191] Yr un pwyslais ar ei ddarlunio fel '[g]weithiwr llafurus' (406) a welir yn y bennod thematig sy'n ymdrin ag ef 'fel awdwr, ac fel bardd'. Math o gyflwyniad i'w weithiau llenyddol, diwinyddol, emynyddol a barddonol yw'r bennod, yn hytrach nag ymgais at feirniadaeth lenyddol gytbwys. Adlewyrchir hynny gan sylw Jonathan Jones wrth drafod emynau ei wrthrych mai ei fwriad yw cyflwyno 'ychydig esiamplau o'i emynau ger bron, gan adael i'r darllenydd farnu drosto ei hun' am safon lenyddol y gwaith (428).

Ymhellach, ac fel yr awgrymwyd eisoes, nid maint llafur y gwrthrych yn unig a amlygir ond ei ymdrech a'i ymroddiad i'r gwaith pregethwrol, gweinidogaethol a llenyddol. Telir sylw gan y cofiannydd, er enghraifft, i'w 'ymdrech egnïol' i fyw yn ddiwair a chrefyddol (37), a datblygu ei wybodaeth ysgrythurol a diwinyddol (57). Bwriad y cofiannydd yw dadlennu iddo 'ymroddi yn llwyr' i'w weithgarwch yn ei holl agweddau – boed yn y pulpud, y seiat, y stydi neu'r wasg argraffu.[192] Ond dwyseir yr ymdrech ymhellach oherwydd fe'i cyflawnir yn wyneb anawsterau dybryd, megis diffyg addysg, tlodi ac, yn achos Thomas Jones yn benodol, y gwrthwynebiad a oedd i'r Methodistiaid yn y cyfnod, ynghyd â'r cyfnodau niferus o afiechyd a'i blinodd. Dyma ddyfalwch ac ymroddiad a barhaodd hyd yn oed pan oedd Thomas Jones yn nesáu at ei wely angau, ac mae safbwynt Jonathan Jones yn gwbl ddiamwys wrth iddo adrodd am fywyd llafurfawr ei wrthrych:

> y mae yn ammhosibl ffurfio dirnadaeth gywir a chyflawn am lafur mawr Mr Jones yn ei waith cyhoeddus yn mysg pobl yr Arglwydd, ac yn ei ymdrech dyfal a chysson i oleuo a dysgu ei genedl trwy ei ysgrifeniadau gwerthfawr, heb gadw golwg barhaus ar yr anfanteision dirfawr yr oedd efe yn llafurio danynt.[193]

Gwelir, felly, fod ymroddiad Thomas Jones yn ganolog i ddealltwriaeth Jonathan Jones o'i weithgarwch ysbrydol a chrefyddol, ac i'w ddehongliad o'i wrthrych. O'r herwydd, gellir dadlau bod yma nodwedd arall sy'n cysylltu diwydrwydd y gwrthrych â'i dduwioldeb, ac sy'n hyrwyddo'r portread o'r Cristion sy'n galon i'r cofiant.

Megis y cofiant gwreiddiol i Thomas Jones (ac yn enwedig y cofiant a luniodd Thomas Jones i Thomas Charles), felly, gwelir bod cysylltiad annatod rhwng duwioldeb a diwydrwydd gwrthrych. Y mae'r naill elfen yn cadarnhau a bwydo'r llall. Ac nid eithriad yw

---

[192] Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*. Gw., er enghraifft, tt.62, 83, 94, 99, 137-8, 263-4, 282.
[193] Ibid., t.101. Gw. hefyd tt.94, 103, 355, 357.

Thomas Jones fel gwrthrych cofiant. Yn wir, y mae diwydrwydd yn ganolog i'r dehongliad cofiannol a gyflwynir, gan fod cofnodi bywyd 'llafurus a defnyddiol' (198) ei wrthrych yn dilysu portread Jonathan Jones o'r gŵr duwiol y dylid ei efelychu. Dyna sut y gall nodi bod Thomas Jones yn gystal esiampl i'w was yn Syrior Goch. Ei was, wrth gwrs, oedd Henry Rees – gŵr a fyddai'n tyfu i fod yn arweinydd y Cyfundeb yng ngogledd Cymru ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ac a oedd ei hun yn enwog am dduwioldeb a defnyddioldeb ei fuchedd. Nid anarwyddocaol yw geiriau'r cofiannydd wrth iddo nodi mai fel 'esampl byw . . . o ddyn tra llafurus, duwiolfrydig, ac efrydydd ymroddedig hollol' y bu Thomas Jones o gymaint bendith i'w was ieuanc (281). Er gwaethaf y gwahaniaethau mawr a geir rhwng cofiant 1820 a 1897, gwelir bod y portread o'r Cristion delfrydol sy'n sail i'r dehongliad cofiannol yn gosod *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych* yn gadarn o fewn traddodiad efelychiadol a didactig cofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bendigedig yn wir yw'r goffadwriaeth.

***'[c]ael hanes Mr Jones yn fwy trefnus gyda'i gilydd': adeiladwaith***

Y mae'r ffaith mai'r un yw seiliau deongliadol y ddau gofiant uchod yn dadlennu mor gyson ac arwyddocaol oedd y portread pregethwrol yng nghofiannau'r ganrif. Fodd bynnag, ni ddylid synio am gofiant Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel traddodiad cwbl statig ac unffurf. Yn wir, prin fod angen dadansoddi manwl o'r cofiant a luniwyd gan Jonathan Jones cyn sylweddoli y bu sawl datblygiad yn adeiladwaith y *genre*. Y mae bwrw golwg fanylach ar y datblygiadau hyn yn fodd o amlygu ymhellach y berthynas greiddiol a chreadigol rhwng y cofiannydd a'i wrthrych.

*'diflannodd yr hunangofiant': datblygiad naratif cofiannol*

Y newid amlycaf yn strwythur y cofiannau yw'r ffaith na cheir gan Jonathan Jones y rhaniad traddodiadol rhwng adran hunangofiannol ac adran gofiannol. Nodwyd eisoes fod hunangofiant yn elfen bwysig mewn sawl cofiant cynnar,[194] ac er nad oedd pob hunangofiant o reidrwydd yn waith ymwybodol lenyddol, yr oedd yn rhan amlwg o'r cyfanwaith. Yn arferol, fe'i gosodid ar ddechrau'r cofiant ac yn strwythurol, o leiaf, yr oedd yn annibynnol ar yr adran gofiannol a'i dilynai.[195] Nid hunangofiant, ond naratif cofiannol a arferir gan Jonathan Jones. 'Diflannodd yr hunangofiant', chwedl Saunders Lewis.[196] Yn sicr, diflannodd fel adran neu ffurf annibynnol, eithr ni ddiflannodd y cynnwys fel y cyfryw. Yn achos *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, ymgorfforwyd y deunydd hunangofiannol yng ngwead naratifol yr hanes bywgraffiadol a adroddir gan y cofiannydd, gan greu yr hyn a elwir gan W. J. Harries yn gofiant 'annibynnol'. Ystyr hynny oedd mai un awdur a luniai'r cofiant, yn hytrach na'i fod yn gyfuniad o waith y cofiannydd a'r hunangofiannydd.[197] Mewn math ar epilog i'r gwaith a elwir yn 'Adfyfyrdod', noda Jonathan Jones ei fod wedi cyflwyno'r cwbl o gofiant 1820, 'mewn rhyw ffurf neu'i gilydd' yng nghorff ei gofiant. Cynnwys hyn yr hunangofiant a ganmolir fel gwaith 'rhagorol iawn ar lawer o gyfrifon', a hynny am ei fod yn

---

[194] Gw. y cyfieithiadau a gafwyd o'r cofiannau i Fafasor Powel (1772), Howel Harris (1792), Thomas Charles (1816), Peter Williams (1817), ynghyd â hunangofiant gwreiddiol Thomas Jones (1820).

[195] Dilynwyd y patrwm hwn fwy neu lai gan gofiannau diweddarach megis y cofiannau i John Jones o Dreffynnon (1831), John Roberts, Llanbrynmair (1837), John Evans, Hebron a'i wraig Martha (*c.*1850), a Thomas Rees Davies (1860). Serch hynny, erbyn cyhoeddi cofiant 1897, pur anaml y ceid adran hunangofiannol, annibynnol. Un enghraifft hwyr, fodd bynnag, oedd y cofiant a luniwyd i Michael Roberts (1883), mab un o awduron y cofiant gwreiddiol i Thomas Jones, wrth gwrs, lle neilltuir dwy bennod gyntaf y gyfrol ar gyfer cyflwyno ei 'Adgofion' o'r cyfnod 1780 hyd 1817. (John Jones, *Cofiant a Phigion o Bregethau y Parch. Michael Roberts, Pwllheli; yn cynwys yr hyn a ysgrifenodd am dano ei hun, ac am ei dad, y Parch. J. Roberts, Llangwm* (Pwllheli, 1883)), tt.9-28. Enghraifft amlycach a thecach i'w nodi, efallai, yw hunangofiant y pregethwr Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon a gyhoeddwyd yn 1893, bedair blynedd yn unig cyn cyhoeddi *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych.* Ceir gan Robert Hughes hunangofiant difyr mewn arddull hawdd ei ddarllen, ond tuedd yr hunangofiant yw adrodd ei hanes yn blaen yn hytrach na mynegi profiad ysbrydol mewnol fel y cyfryw. Yn wir, y mae geiriau agoriadol Robert Hughes pan ddywed iddo ysgrifennu'r hanes, 'fel difyrrwch i mi fy hun, wrth adgofio mân helyntion bywyd' yn bur arwyddocaol. Gw. Robert Hughes, *Hunan-gofiant ynghyda Phregethau a Barddoniaeth y Diweddar Barch. Robert Hughes (Robin Goch), Uwchlaw'r Ffynnon* (Pwllheli, 1893). Yr oedd Robert Hughes yn arlunydd amatur a luniodd sawl darlun o bregethwyr amlycaf y Cyfundeb. Gw. Geraint Jones, *Gŵr Hynod Uwchlaw'r Ffynnon* (Llanrwst, 2008).

[196] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.350.

[197] Harries, 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg', t.70.

darlunio '[p]rofiad crefyddol dwfn a dwys' ei wrthrych (446). Dyfynnir o'r hunangofiant yn gyson, ond mae'r dyfynnu ar ei drymaf yn y penodau agoriadol sy'n ymdrin ag ieuenctid, llencyndod a'r blynyddoedd hynny ym mywyd Thomas Jones pan ddioddefai amheuon a chyfyng gyngor ynglŷn â'i gyflwr ysbrydol.[198] Wrth gwrs, fel y gellid disgwyl, ceir elfen o ddethol ar ran y cofiannydd, ac weithiau mae'r broses olygyddol yn bur amlwg, megis pan drosglwydda Jonathan Jones yr awenau i'r hunangofiannydd, gan y teimla nad gweddus yw '"sangu ar ddaear sanctaidd"', wrth adrodd am rai o'r profiadau ysbrydol mwyaf ingol ddwys. Dro arall, fodd bynnag, â'r cofiannydd ati yn fwriadol i aralleirio'r hunangofiant. Digwydd hyn yn fynych pan dry i adrodd hanes y cyfnodau o salwch a ddioddefodd Thomas Jones. Dichon mai tawedogrwydd Fictoraidd sy'n egluro anallu chwaeth Jonathan Jones i lwyr stumogi rhai o'r disgrifiadau mwyaf cignoeth a rydd ei wrthrych o symptomau ei afiechydon.[199]

Serch hynny, nid newid diweddar na graddol ydoedd diflaniad yr hunangofiant, ac nid arloeswr oedd Jonathan Jones yn hyn o beth. Er mai cyfuniad o gyfryngau hunangofiannol a chofiannol sy'n nodweddu rhai o'r cofiannau cynharaf un, gwelwyd tueddiad ymwybodol i ymgorffori deunydd hunangofiannol mewn naratif cofiannol neu fywgraffiadol o'r 1820au ymlaen. Y mae'r hanes yn y cofiant a luniwyd i John Bebb (1829), er enghraifft, wedi ei 'gymmysgu â phigion o'i Gof-lyfr' er mwyn adlewyrchu duwioldeb ei fuchedd.[200] Yr un pwrpas sydd i'r dyfyniadau hunangofiannol helaeth a geir mewn cofiannau eraill, megis y

---

[198] Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*. Gw. e.e., tt.21, 23-8, 29-30, 34, 37-8, 60, 64-8, 102, 129, 142, 161, 187-8, 218, 237-8.

[199] Gw., er enghraifft, Humphreys a Roberts, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones*, tt.48-9, 56. Mae sylwadau Jonathan Jones yn ddiddorol. Wrth adrodd am hanes ei afiechyd yn 1801 (t.56 yng nghofiant 1820), dywed: 'Y mae efe, drwy ei *Hunan-gofiant*, yn ein galluogi i ddilyn yr helynt hono gyda manylrwydd; ond gan ein bod yn teimlo na byddai gwneud hyny o lawer o ddyddordeb, nac, fe allai, o fudd i ddarllenwyr yr oes hon, nid ydym am wneyd nemawr ddim ond rhoi y cyfleustra iddynt i weled pa fodd yr oedd Cristion disglaer ac amyneddgar yn dwyn y baich a roddodd Duw arno drwy ei gystuddio' (t.122).

[200] William Owen, *Cofiant byr am Mr. John Bebb, iau, o'r Trallwm, Swydd Drefaldwyn, yr hwn a fu farw yn gysurus, Hydref 9, 1827, yn ychydig dros 21ain oed, wedi ei gyfieithu a'i gasglu, gan mwyaf, allan o'i gof-lyfr cyfrinachol ef ei hun* (Caerlleon, 1829), t.8.

cofiannau a baratowyd ar gyfer Christmas Evans (1839) neu John Evans, Hebron (*c.*1850). Yn wir, pwysleisia cofiannydd Christmas Evans yn nheitl ei gofiant mai deunydd hunangofiannol yw sail y gwaith.[201] Dro arall cyflwynir detholiad penodol, megis y dyfyniadau o 'ddydd-lyfr' Ebenezer Richard (1839) sy'n '[b]rawf o'r ysbryd gwyliadwriaeth a gweddi, ynghyd a'r hunan-eiddigedd manwl a arferai efe'.[202] Ceir, yn ogystal, naratif cofiannol yn unig, a hynny mewn cofiannau cynnar iawn megis y cofiannau a luniwyd i John Harris neu Ioan Griffiths, a gyhoeddwyd yn 1826. Weithiau, mae'n amlwg nad oedd deunyddiau hunangofiannol ar gael wrth lunio'r gwaith. Dyma gŵyn cofianwyr Owen Jones o'r Gelli (1830) ac Edward Prichard (1835), er enghraifft. Ac mae'n amlwg nad diffyg gwerthfawrogiad o'r ffurf a oedd yn gyfrifol, gan fod cofiannydd Edward Prichard yn gresynu nad oedd ar gael gofnod gwerthfawr o law ei wrthrych a ddadlennai 'ei holl demtasiynau, ei brofedigaethau, ei waredigaethau, ei fyddygoliaethau, a'i gyfeillach ddirgelaidd gyda Duw'.[203] O'r herwydd, y mae'r bywyd mewnol yn parhau i fod yn bwysig i bortread ac awdurdod y cofiannydd. Dyna yw sail geiriau John Hughes, Pontrobert – yn ei gofiant i John Jones, Treffynnon – lle mae'r cofiannydd yn awyddus i hysbysu'r darllenydd iddo arfer gofal nid bychan wrth sicrhau gwirionedd yr hyn a edrydd.[204] Fel yr awgryma'r beirniad llenyddol Linda Anderson, gwelodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg duedd gynyddol, os graddol, i brisio hunangofiant yn uwch na ffurfiau cofiannol eraill, ond gellir dadlau mai deunyddiau hunangofiannol, ac nid o reidrwydd yr hunangofiant fel ffurf a brisid gan y cofianwyr.[205] Yr hyn sy'n arwyddocaol yn niflaniad yr hunangofiant swyddogol yw

---

[201] William Morgan, *Cofiant, neu Hanes Bywyd y diweddar Barch. Christmas Evans, wedi ei gasglu gan mwyaf o'i ysgrifeniadau a'i gofnodion ef ei hun* (Caerdydd, 1839).
[202] E. W. Richard a H. Richard, *Bywyd y Parch. Ebenezer Richard* (Llundain, 1839), tt.14-22.
[203] Hughes, *Cofiant am y diweddar Barch. Owen Jones, o'r Gelli*, t.iii; Samuel Davies, *Hanes bywyd crefyddol a marwolaeth ddedwydd, Edward Prichard, pregethwr cynnorthwyol, y'mhlith y Methodistiaid Wesleyaidd* (Caernarfon, 1835), t.iii.
[204] John Hughes a W. Pierce, *Cofiant am y Diweddar Barch. John Jones, o Dreffynon, Swydd Fflint* (Caerlleon, 1831), t.ii.
[205] Anderson, *Autobiography*, tt.7-8. Elfen ddylanwadol arall o bosib oedd strwythur y cofiannau byrion, a geid yn aml yn y wasg gylchgronol, gan na chynhwysid hunangofiannau ynddynt. Gan fy mod yn ystyried y byr-gofiannau hyn fel dosbarth ynddo'i hun, nid oes ofod yma ond i gyfeirio'n unig atynt. Fodd bynnag, ni ddylid eu

parhad amcan didactig a moesol y cofianwyr o bwysleisio duwioldeb a moesoldeb bucheddau eu gwrthrychau drwy gyflwyno tystiolaeth hunangofiannol.

*'hanes byr fel hyn': strwythuro a chyd-destunoli'r hanes o fewn penodau*

Datblygiad arall amlwg yn adeiladwaith y cofiannau sy'n amlygu'r berthynas rhwng y cyhoeddus a'r preifat, y cofiannol a'r hunangofiannol, yw'r duedd gynyddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg i rannu'r naratif cofiannol yn benodau. Er bod adrannau pendant i gofiant gwreiddiol 1820, naratif parhaus a geir o fewn yr adrannau hynny.[206] Rhennir *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych* yn 16 o benodau, a gellir yn fras rannu'r penodau hyn yn dri math. Yn gyntaf, ceir penodau hanesiol, a'u pwrpas yw adrodd yn gronolegol y ffeithiau am fywyd Thomas Jones. Y mae'r penodau hyn yn cyfateb i'r adroddiad bywgraffiadol a ddisodlodd yr hunangofiant, lle'r olrheinir hanes bywyd y gwrthrych o'i enedigaeth hyd at ei fisoedd olaf. Tueddir i amrywio rhwng cofiant a chofiant o ran manylrwydd yr hanes a gyflwynir, ynghyd â'i sylwedd ysbrydol. Eto, cynhwysir prif dueddiadau'r fuchedd dduwiol a diwyd, sef genedigaeth, magwraeth, addysg ffurfiol a chrefyddol, syched y gwrthrych am wybodaeth, ei arferion llygredig cyn derbyn tröedigaeth neu blentyndod diwair yr etholedig, gwaredigaethau hynod, hanes ei dröedigaeth, ei alwad i bregethu a'i weinidogaeth ymroddedig a llafurfawr. Fel y nodwyd eisoes, mae'r mwyafrif o gofiannau yn tueddu at hanes cyhoeddus i raddau helaeth yn hytrach na phersonol, yn enwedig wrth i'r cofiannau luosogi yn ystod y ganrif. Serch hynny, gwelwyd mai'r nod o hyd

---

diystyru gan ei bod yn amlwg fod perthynas glòs rhyngddynt a'r cofiannau a gyhoeddwyd ar ffurf cyfrol. Fel y gwelwyd eisoes, fe geir tystiolaeth yn rhai o'r cofiannau, megis y cofiant a luniwyd i Ioan Griffiths (1826) neu Richard Jones o'r Wern (1834), i'r awduron bendilio rhwng cyhoeddi ar ffurf cyfrol a chynnwys eu cofiannau mewn cylchgronau. Gw. Davies, *Hanes Bywyd . . . Ioan Griffiths*, t.ii; John Jones, *Cofiant y diweddar Barch. Richard Jones, gynt o Wern Llanfrothen, Swydd Feirionydd: yr hwn oedd yn weinidog yr Efengyl ynghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd. Bu farw Chwefror 26, 1833, yn 60 oed* (Caerlleon, 1834), t.63. Gw. yn ogystal y frawddeg a ddyfynnir gan Saunders Lewis o'r cofiant a luniwyd i John Griffiths o Landwr (1826) yng nghyd-destun yr elfen hon, Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.348.

[206] Gw. Atodiad 2a am strwythur cyffredinol y cofiant hwn.

yn ddiau yw dadlennu duwiolfrydedd a defnyddioldeb y fuchedd. Y mae cofiannydd Owen Jones o'r Gelli (1830), er enghraifft, yn awgrymu'r patrwm:

> Yn awr, wedi rhoddi o honof hanes byr fel hyn am ei amrywiol symmudiadau o le i le, ei fawr lafur a'i lwyddiant gyda gwaith ei Arglwydd ymhob man yr âi iddo, ynghyd ag agwedd ei yspryd a'i feddwl gyda'r gwaith yn ei fywyd; mi a af rhagof i roi ychydig hysbysiad am ei glefyd diweddaf, a'i oriau olaf; yn nghyd a'i ymadawiad dedwyddol â'r byd trangcedig hwn i mewn i lawenydd ei Arglwydd.[207]

Ceir brawddeg debyg mewn sawl cofiant. Ac wrth gwrs yr oedd adrodd hanes cystudd olaf a marwolaeth yr awdur yn rhan anhepgor o'r bywgraffiad, lle ceid yn aml iawn ddyfyniadau 'o'r pethau gwerthfawr a phwysig a ddywedodd efe yn ystod ei glefyd'.[208] Hanesiol yw natur mwyafrif y penodau yng nghofiant Jonathan Jones, ac yn benodol yn hanner cyntaf y cofiant.[209]

Yn ail, ceir penodau mwy thematig eu cynnwys, sy'n ymdrin ag un nodwedd ar gymeriad neu waith Thomas Jones. Dyma'r ddwy bennod sydd i'w cael tua diwedd y cofiant, ac sy'n dilyn yr adroddiad am farwolaeth y gwrthrych. Nid cyflwyno hanes cronolegol yw amcan Jonathan Jones yn y penodau hyn, eithr ceisio disgrifio a dadansoddi peth ar Thomas Jones fel pregethwr yn y naill bennod ac fel awdur, llenor a bardd yn y llall.[210] Datblygiad yw'r penodau hyn ar y pwyslais a geid ar bortreadu cymeriad gwrthrych, ynghyd â phatrwm y bregeth angladdol Seisnig, a drafodwyd uchod. Yr oedd dadlennu'r cymeriad yn elfen bwysig o gofiannu'r pregethwyr Anghydffurfiol, gan mai 'dyma drysor pennaf dyn', ys dywed R. Tudur Jones.[211] Hynny yw, cymeriad y pregethwr oedd sail ei fuddioldeb; dyma a'i

---

[207] Hughes, *Cofiant am y diweddar Barch. Owen Jones*, t.33.
[208] John Jones, *Cofiant am fywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Hughes, o Liverpool: yr hwn a fu farw Tachwedd 2, 1828, yn y 71 flwyddyn o'i oedran, a'r 40 o'i weinidogaeth; gydag ychydig o hanes ei gydlafurwr, y Parch. Thomas Edwards, yr hwn a fu farw Mai 26, 1825* (Liverpool, 1829), t.29.
[209] Gw. Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, penodau 1-6, 8, 10, 11 ac 13 (Atodiad 2b).
[210] Gw. ibid., penodau 14 a 15 (Atodiad 2b).
[211] Jones, 'Anghydffurfiaeth', t.126.

gwnâi'n esiampl i'w efelychu. Er bod tuedd wedi ei sefydlu yn ddiweddarach i gynnig disgrifiad corfforol o'r gwrthrych, amcan y penodau thematig hyn oedd manylu ar ei 'nodweddiad cyffredinol', chwedl cofiannydd Thomas Hughes, Lerpwl (1829). Cyflwynid y gwrthrych fel Cristion duwiolfrydig a phregethwr diwyd ac ymroddgar, ynghyd â chyfeirio at rinweddau megis ffyddlondeb, doethineb, gostyngeiddrwydd, haelioni, syched am wirionedd neu hynodrwydd wrth weddïo. Unwaith eto, dyma batrwm a fu'n rhan o'r cofiant Cymraeg o'r dechrau. Gwelwyd eisoes i gofianwyr Thomas Jones, Dinbych neilltuo adran fer i'w drafod 'fel Dyn, fel Cristion ac fel Pregethwr', a daeth yr arfer yn nodwedd gyffredin a chynyddol bwysig o'r cofiannau erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Datblygwyd yr ymdriniaeth hefyd, wrth i gofianwyr ei helaethu a'i gosod mewn pennod, neu benodau, ar wahân. Ac er gwaethaf sylw cofiannydd William Williams, Llandeilo (1848) sy'n awgrymu bod y patrwm 'newydd' hwn yn dal i sefydlu ei hun ar ddiwedd y 1840au,[212] dyma bellach oedd 'craidd y cofiant', chwedl Saunders Lewis.[213]

Trafodwyd, yn ogystal, sut y bu i'r penodau hyn ddatblygu yn gyfryngau a oedd yn cyflwyno portread yn annibynnol ar hanes buchedd y gwrthrych, gan mai'r hyn sy'n llywio'r portread yw'r nodweddion canmoladwy hynny yn ei gymeriad sy'n ennyn efelychiad. Er y gŵyr cofiannydd David Davies, Abertawe (1828) nad oedd ei wrthrych yn berffaith, sonia, serch hynny, am ei ddarlunio 'yn ei gymmeradwyaeth yn gyffredin, yn mhob perthynas'.[214] Esgorodd hyn ar ddau wendid cyffredinol sy'n nodweddu sawl cofiant. Yn gyntaf, bod portread y cofiannydd o'r cymeriad delfrydol yn ei drin mewn modd haniaethol, 'cau ar gymeriad, megis gwain am gledd . . . ymroi i'w bortreadu fel teip statig a diberthynas a

[212] John Williams, *Cofiant y Parch. W. Williams, Llandilo-fawr: yn cynwys hanes ei fywyd o'i febyd i'w fedd, ynghyd a byr-ddarluniad o'i nodwedd, ei lafur, ei lwydd gweinidogaethol, &c* (Llanelli, 1848), t.iii.
[213] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.350.
[214] John Rowlands, *Cofiant y diweddar Barchedig David Davis, Abertawy* (Abertawe, 1828), t.48.

digyfnewid'.[215] Collir, felly, y bwriad gwreiddiol o ddiriaethu esboniad ysgrythurol y bregeth angladdol drwy gyflwyno portread o'r ymadawedig a fyddai'n gyfarwydd i'r gynulleidfa. Cysyllta hyn â'r ail wendid, sef tuedd i or-ganmol y rhinweddau haniaethol a drafodwyd. Yn nwylo cofianwyr anfedrus aethai'r portread yn ddiweledigaeth, a chuddiwyd personoliaeth unigol a chyfoethog y gwrthrych o dan flanced o ystrydebau gwenieithus.[216] Bu hyn yn fai mawr ar gofiannau, hyd yn oed yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae sawl awdur, megis cofianwyr John Jones, Treffynnon (1831), Richard Jones o'r Wern (1834), David Thomas (1846), David Rees (1856) a Moses Parry (1856), yn cyfeirio at bwysigrwydd cyflwyno portread onest o'r gwrthrych. Ceir digon o dystiolaeth mai amcan ymwybodol y cofianwyr oedd darlunio'r gwrthrych 'fel yr oedd', megis pan ddywed cofiannydd Richard Jones o'r Wern, er enghraifft, mai'r un oedd dawn y cofiannydd a'r artist. Iddo ef, roedd dwy egwyddor bwysig i'w dilyn: 'Ni ddylid gadael un aelod nag ystum heb ei ddarlunio; ac ni ddylid chwaith bod mor ddichellgar ag arliwiaw un ran o hono er peri iddo ymddangos yn fwy disglaer'.[217]

Eto, yr oedd cyd-destun efelychiadol y portread weithiau'n milwrio yn erbyn dyheadau gwrthrychol honedig y cofianwyr, ac yr oedd yn bur amlwg y detholid nodwedd yn ôl 'y gwersi ellir dynu oddiwrtho', chwedl cofiannydd Azariah Shadrach.[218] Awgrymir hyn ymhellach gan eiriau Owen Jones, cofiannydd y pregethwr hynod Dafydd Rolant y Bala pan obeithia na chenfydd ei ddarllenwyr 'ddim ond sydd yn deilwng o hono ef ei hun' yn y gwaith.[219] Ac mae cofiannydd y gweinidog Wesleaidd John Davies (1847) yn nodi'n blaen fod 'gosod allan beth bynag oedd nodedig deilwng yn ymddygiadau y marw fel esiampl i'r

[215] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.355.
[216] Harries, 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg', t.101.
[217] Jones, *Cofiant y diweddar Barch. Richard Jones*, t.iv.
[218] Josiah Jones, *Bywyd a Gweithiau Azariah Shadrach* (Machynlleth, 1863), t.iii.
[219] Owen Jones a Robert Thomas, *Cofiant y Diweddar Barch. Dafydd Rolant y Bala, yn nghyd a detholion o'i bregethau* (Wrexham, 1863), t.4.

byw . . . yn waith ag y mae rheswm yn ei ganmol'.[220] Tybed ai'r ffaith mai amrywiaeth, neu ddatblygiad, ar y patrwm cymeriadol hwn a geir gan Jonathan Jones sy'n golygu nad yw ei gofiant yn disgyn yn ormodol i gors ystrydeb. Eithr nid oedd cofiannydd Thomas Jones yn arloesi yma ychwaith. Fel y gwelir maes o law yn y bennod hon, ac yn ail hanner y traethawd, dilyn Owen Thomas, Lerpwl y mae Jonathan Jones. Y traethawd dadansoddol sy'n cynnig strwythur i'w benodau thematig, o'r math a welwyd yn *Cofiant John Jones, Talsarn* (1874) a *Cofiant Henry Rees* (1890). Eto, mae'n werth nodi yma i'r patrwm 'dyn, Cristion, pregethwr' barhau yn bur boblogaidd ymysg cofianwyr wedi troad yr ugeinfed ganrif.

Yn olaf, ceir penodau gan Jonathan Jones sy'n gyd-destunol neu gefndirol eu natur, ac sy'n ymdrin ag agweddau penodol neu ddigwyddiadau o bwys yn hanes y gwrthrych. Dyma'r penodau sy'n trafod cyfraniad Thomas Jones at y dadleuon diwinyddol ar fater Calfiniaeth (yn wyneb safbwyntiau'r Wesleaid) rhwng 1805 a 1811; ei ran yn ordeiniad cyntaf gweinidogion y Methodistiaid Calfinaidd yn 1811; a'i ymdrech rhwng 1814 a 1820 i ddiogelu safbwynt yr enwad ynglŷn ag Iawn Crist, yn wyneb dadleuon Uchel-Galfinaidd.[221] Er nad ydynt o reidrwydd yn gronolegol, y mae'r cynnwys yn perthyn i ddigwyddiadau neu ffeithiau'r penodau hanesiol neu fywgraffiadol. O'r herwydd, cymerant eu lle yng nghorff y naratif cofiannol, yn hytrach na'i ddilyn fel y gwna'r penodau thematig.[222] Ond er gwaethaf eu cysylltiad â'r naratif hanesiol, mae'r ymdriniaeth yn tueddu i fod yn fwy hanesyddol a chyd-destunol. Y mae cyd-destunoli o'r fath yn bur brin yn y cofiannau ar y cyfan, eto mae'n bresennol mewn sawl cofiant i ryw raddau neu'i gilydd. Un cyd-destun hanesyddol amlwg a

---

[220] William Rowlands, *Cofiant bywyd a marwolaeth y diweddar Barch. John Davies, Gweinidog Wesleyaidd: yn nghyda brasluniad lluaws o'i bregethau; at yr hyn y chwanegwyd nodau helaeth am bregethwyr ereill o'r un cyfundeb* (Llanidloes, 1847), t.iii.
[221] Gw. Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych* penodau 7, 9, 12.
[222] Serch hynny, gellir derbyn bod elfen thematig i gynnwys y penodau hyn yn ogystal, megis y bennod sy'n dadansoddi safbwynt diwinyddol Thomas Jones ar Iawn Crist.

welir yw pan â'r cofiannydd ati i gyflwyno hanes sefydlu eglwysi y bu'r gwrthrych yn gysylltiedig â hwy. Ar y cyfan, gesyd gyd-destunoli o'r fath yn rhan o'r naratif, megis ag a geir yng nghofiant Thomas Hughes (1829). Yma, cyflwynir peth o hanes a chefndir sefydlu'r achos Methodistaidd yn Lerpwl. Tebyg yw arfer Gwilym Hiraethog, cofiannydd William Williams o'r Wern (1842), wrth osod disgrifiad o sefydlu'r eglwys yn Rhosllannerchrugog o fewn naratif ail bennod y gyfrol. Llai arferol yw gweld neilltuo pennod gyfan i drafod elfen gyd-destunol, fel ag y gwneir ym mhennod gyntaf y cofiant i John Roberts (1837) sy'n adrodd hanes yr achos yn Llanbrynmair. Ond mae'r cyd-destun hanesyddol yn llawer amlycach yn y cofiant a luniodd John Owen, Thrussington i'r diwygiwr Daniel Rowland (1839). Nid syndod mo hyn, efallai, gan mai ffigwr hanesyddol ydoedd gwrthrych y cofiant hwnnw erbyn cyfnod llunio'r gwaith. Fodd bynnag, elfen gyd-destunol arwyddocaol yw bod y cofiannydd am osod Daniel Rowland 'yn olyniaeth pregethwyr a diwygwyr enwog Protestaniaeth yng Nghymru', ys dywed Saunders Lewis.[223]

Ceir, yn ogystal, gyd-destunoli enwadol, megis y sylw a rydd cofianwyr Thomas Charles o'r Bala a Thomas Jones, Dinbych i ordeiniad cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn 1811, neu'r bennod sy'n adrodd am lunio Cyffes Ffydd yr enwad yn y cofiant a luniwyd i Ebenezer Richard (1839). Dichon fod statws enwadol y gwrthrych yn dylanwadu ar gyd-destunoli o'r fath. Ond mae'n bosibl ei fod, yn ogystal, yn adlewyrchu'r ymdrech i gofnodi hanes. Dyma a sbardunodd waith Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry* (1778). Ceir dwy ran i'r 'hanes', sef ymddiddan rhwng plentyn a'i dad, ac yna gyflwyno adroddiadau byrion am eglwysi'r enwad, gan gynnwys nodion bywgraffiadol o'u gweinidogion. Mae'n ddiddorol mai ar ddull o ymddiddan y seiliodd Robert Jones, Rhos-lan yntau hanes y Methodistiaid yn ei glasur, *Drych yr Amseroedd* (1820). Megis yr hunangofiant

[223] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.352.

a'r cofiant, ystyrid hanesyddiaeth yn faes pwysig a dylanwadol yng ngolwg Anghydffurfwyr hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig yng nghyd-destun gwerth hyfforddiadol y gwaith. Sonia Medwin Hughes, er enghraifft, mai hanfodion hanesyddiaeth Robert Jones oedd 'a memorial to the pious, a testimony to God's providential power and a useful lesson for the present and future'.[224] Y mae pwyslais didactig o'r fath yn sicr yn egluro pam y bu i'r berthynas rhwng cofiannaeth a hanesyddiaeth barhau'n dynn, onid dwysáu, wrth i'r ganrif fynd rhagddi. Ac fel y gwelir yn y bennod nesaf, yr oedd hyn yn cyd-fynd â syniadaeth ddylanwadol ymysg cofianwyr a haneswyr yr oes a welai gysylltiad uniongyrchol rhwng adrodd hanes cenedl a chofiannu unigolion dylanwadol.[225] Erbyn degawd olaf y ganrif, gwelodd y Methodistiaid Calfinaidd gyhoeddi hanesion cofiannol megis *Y Tadau Methodistaidd*, ac nid heb ei arwyddocâd yw sylw cofianwyr John Thomas, Lerpwl (brawd Owen Thomas) yn 1898 fod bywyd y pregethwr amlwg hwnnw 'yn gyd-weuedig a bywyd Cymru am haner canrif', a bod dwyn sylw at hanes cyd-destun o'r fath yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyfleu '[m]awredd llafur a gwasanaeth' eu gwron.[226]

Gellir ystyried cyd-destunoli diwinyddol neu lenyddol yn ogystal, megis y pwyslais ar amddiffyn safbwyntiau diwinyddol y gwrthrych a welwyd yn y cofiannau i Thomas Jones, Dinbych (1820) neu Peter Williams (1817). Yr un math o agenda sydd gan gofiannydd Richard Jones o'r Wern (1834), lle telir sylw i'w weithiau diwinyddol er mwyn dadlennu 'diduedd rwydd ei ymofyngarwch am y gwirionedd'.[227] Serch hynny, gan nad oes ymgais i osod cyd-destun ffurfiol, dichon mai fel pwyslais neu agenda o du'r awdur y dylid ystyried elfen o'r fath. Amlycach yw ymgais cofiannydd Azariah Shadrach (1863) sy'n neilltuo

[224] Hughes, 'Studies in Calvinistic Methodist Welsh literature', t.368. Gw. yn benodol bennod ix, 'Calvinistic Methodist histories', tt.358-413. Gw. yn ogystal D. Ben Rees, *Haneswyr yr Hen Gorff* (Lerpwl a Llanddewi Brefi, 1981).
[225] Gw. pennod 2 y traethawd hwn, tt.96-7.
[226] Owen Thomas a J. Machreth Rees, *Cofiant y Parchedig John Thomas, D.D. Liverpool* (Llundain, 1898), t.4. Gw. hefyd J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd*, 2 gyfrol (Abertawe, 1895-7).
[227] Jones, *Cofiant y diweddar Barch. Richard Jones*, t.25.

pennod ar gyfer trafod ei 'lafur awdurol', elfen a welir mewn sawl cofiant erbyn degawdau olaf y ganrif wrth i gynhyrchion llenyddol rhai o'r gwrthrychau gael eu cynnwys yn eu cofiannau. Eto, gellir ystyried penodau o'r fath yn thematig eu naws, fel ag y gwneir gyda'r bennod yn *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych* sy'n ei drafod fel llenor ac awdur. Cyd-destun pellach sy'n gysylltiedig â'r cyd-destunoli enwadol yw maes pregethu. Eto, dyma elfen gyd-destunol brin, yn enwedig o ystyried pwyslais y cofiannau ar ddarlunio cymeriad y pregethwr, ond fe'i ceir yn nhrafodaeth swmpus Edward Matthews, Ewenni ar hanfodion y pregethwr mawr yn ei ragymadrodd i gofiant y pregethwr nodedig Thomas Richard, Abergwaun (1863). Ac fel y gwelir yn nhrydedd bennod yr astudiaeth hon, mae pregethu yn greiddiol i benodau cyd-destunol enwog Owen Thomas yn *Cofiant John Jones, Talsarn*. Yn wir, gellir dadlau yn gryf mai yn y cofiant mawr hwnnw yr unwyd y tri dosbarth o benodau a drafodwyd uchod, a bod Owen Thomas, o'r herwydd, wedi datblygu naratif cofiannol effeithiol drwy adeiladu yn grefftus ar elfennau hanesiol, thematig a chyd-destunol y cofiant Cymraeg. Does dim dwywaith nad *Cofiant John Jones, Talsarn* fu'r dylanwad amlycaf ar Jonathan Jones yma eto.[228]

***'ymgymmeryd â hyn o waith': Jonathan Jones fel cofiannydd***

Fodd bynnag, mae'r datblygiad strwythurol hwn yn adeiladwaith y cofiant yn amlygu newid mwy arwyddocaol yn ogystal. Cofiannydd yw Jonathan Jones, fel Owen Thomas o'i flaen, sy'n fwy datblygedig ei gwmpawd, a mwy ymwybodol o'i brosesau cofiannol. Diddorol, ac anghyffredin, er enghraifft, yw ei fod yn cyflwyno prolog ac epilog i'r portread cofiannol, drwy gynnig rhagymadrodd estynedig a phennod olaf a elwir 'Adfyfyrdod ar ei hanes, ei gymmeriad, ac ar effeithiau pwysig ei fywyd'. Cyfiawnhau adrodd am 'fywyd mawr'

[228] Ceir trafodaeth fanwl ar y cofiant ym mhennod 3, *passim*. Gw. hefyd bennod 2, t.95.

Thomas Jones a chynnig cyd-destun i'r cyfanwaith yw bwriad y rhagymadrodd. Mewn gwirionedd, rhydd Jonathan Jones gipolwg i'w ddarllenwyr ar gynllun cyffredinol yr hyn sy'n dilyn.[229] Yn ail hanner y rhagymadrodd, try i amddiffyn rhai o'i amcanion a'i benderfyniadau cofiannol, megis darlunio cefndir hanesyddol oes ei wrthrych neu ddwyn cyd-destunau penodol i'r hanes, megis y dadleuon diwinyddol neu ordeiniad cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd. Y mae rhagymadrodd estynedig o'r fath yn gwahaniaethu oddi wrth y rhagymadroddion byrion o ryw dudalen neu ddwy a geir gan amlaf yn y cofiannau.[230] Dro arall, dilynir sylwadau byrion y cofiannydd gan sylwadau neu ysgrif gan rywun arall, megis 'rhagdraethawd' Henry Rees i waith John Foulkes, *Cofiant Moses Parry* (1856).[231] Ond os byr yw'r rhagymadroddion hyn, ni ddylid eu diystyru, gan mai ynddynt hwy y ceir yr unig drafodaeth, er yn ddigon tenau yn aml, ar gofiannu a chofiannaeth yn y Gymraeg oddieithr rhai llythyrau ac adolygiadau yn y cyfnodolion.

Ymgais at egluro ei brif safbwyntiau a'i amcanion parthed y cofiant a geir yn yr 'Adfyfyrdod' yn ogystal. Yn wir, crisielir ei safbwynt cofiannol yn y frawddeg gyntaf un:

> Y mae yn debygol mai yr hyn a ddisgwylir yn gyffredin mewn Cofiant, neu Fywgraphiad, yw, adroddiad syml o ffeithiau bywyd y neb yr ysgrifennir am dano, ynghyd â chymmaint o eglurhâd ar y ffeithiau hyny ag a alluoga y darllenydd i'w hiawn ddeall, ac i ganfod eu hystyr a'u grym yn eu perthynas â gwrthddrych yr hanes. (445)

---

[229] Manylir ar rai o uchafbwyntiau ei fywyd, megis yr addysg a dderbyniodd, ei saith mlynedd o gyfyng-gyngor ynglŷn â'i gyflwr pechadurus, ei dröedigaeth a chyflawniad 'dadguddiad o Grist' ar derfyn y cyfnod hwnnw, dechrau pregethu, dechrau ysgrifennu a llenydda, ei gyfeillgarwch â Thomas Charles ac yn y blaen.

[230] Nodwyd eisoes ambell eithriad, wrth gwrs, megis ysgrif Edward Matthews ar 'bregethu Cymru' yn ei gofiant i Thomas Richard (1863), er y gellir dadlau, fel y gwneir uchod, mai ymgais i gyd-destunoli a geir yno. Edward Matthews, *Bywgraffiad y Parch. Thomas Richard, Abergwaen: nodiadau arno fel dyn, Cristion a phregethwr; penodau o'i ymadroddion detholedig, yn nghyd a phigion o'i areithiau, llythyrau &c.* (Abertawe, 1863). Hyd y rhagymadrodd yw xliii tt.

[231] J. Foulkes, *Cofiant y Diweddar Barch. Moses Parry. Gyda rhagdraethawd gan y Parch. Henry Rees* (Dinbych, 1856), tt.vii-xiv.

Y mae'r frawddeg hon hefyd yn adlewyrchu'r datblygiad a fu ymysg nifer o gofianwyr erbyn troad yr ugeinfed ganrif. Â rhagddo i ystyried rhai o'r anfanteision a wynebodd wrth ymgymryd ag ysgrifennu'r cofiant, megis diffyg adnabyddiaeth bersonol o'r gwrthrych, ac nid yn unig hynny, ond ceisio adrodd hanes gŵr o genhedlaeth a chyfnod gwahanol. Anhawster arall, fe ymddengys, yw'r cofiant 'bŷr a diffygiol' a luniwyd yn 1820. Ceir adlais o'r feirniadaeth hon yn y rhagymadrodd yn ogystal, pan noda am y diddordeb a fu yn negawdau olaf y ganrif i 'gael hanes Mr Jones yn fwy trefnus gyda'i gilydd nag yr oedd wedi ei osod' (xviii). Er gwaetha'r ganmoliaeth a rydd i'r hunangofiant, prif wendid y cofianwyr gwreiddiol yn ôl Jonathan Jones oedd na roddasant ddigon o sylw i adrodd 'am ffeithiau a gwaith ei fywyd' (446). Ac mae'n werth nodi ei fod yn ddigon beirniadol o'i wrthrych ei hun 'fel cofiantydd'. Unwaith eto, byrdra adran gofiannol *Cofiant Thomas Charles* ynghyd â'i diffyg manylder sy'n cael y bai. Serch hynny, y mae Jonathan Jones yn ddigon hirben i sylweddoli bod ffurf y cofiant wedi datblygu yn ystod y ganrif, ac mai dilyn 'y syniad oedd y pryd hyny am yr hyn a ddylai cofiant fod' a wnaeth Thomas Jones.[232]

Wrth gloi, dadlennir ei ddyheadau gogyfer â'i lwyddiant wrth lunio'r cofiant. Dywed fod ganddo ddau fwriad pendant. Yn gyntaf, 'adrodd, mor gyflawn ag y gallem, ffeithiau bywyd y gŵr yr ysgrifenem am dano'. Nid oes ddwywaith na fu iddo gyflawni hyn. Mae ystyried maint y gyfrol yn unig yn awgrymu hynny. Y mae 480 tudalen cofiant 1897 gryn dipyn yn hwy na chofiant gwreiddiol John Humphreys a John Roberts, sef 127 tudalen, a bron yn ddwywaith maint y cofiant a luniwyd i Thomas Charles (252 tt.). Serch hynny, y ffaith amdani yw bod y ddau gofiant uchod eu hunain yn feithach o ran hyd na sawl un o'r cofiannau a gyhoeddwyd, yn sicr yn hanner cyntaf y ganrif.[233] Eithriadau ar y cyfan yw'r

[232] Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, t.407. Gw. hefyd ei sylw bod angen cofiant amgen i Thomas Charles ar t.220.
[233] Er enghraifft, rhwng 1814 a 1840 yr oedd cyfartaledd hyd y cofiannau a gyhoeddwyd yn llai na chan tudalen, gyda rhai ohonynt yn llai na 50 tudalen.

cofiannau hirion a gyhoeddwyd cyn 1850, megis cofiant Peter Williams (1817) (131 tt.), John Roberts, Llanbrynmair (1837) (208 tt.), Christmas Evans (1839) (156 tt.) ac Ebenezer Richard (1839) (266 tt.), ac mae eu maint yn tueddu i adlewyrchu pwysigrwydd y gwrthrych a'i statws o fewn ei enwad. Erbyn degawdau canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd y ffurf wedi sefydlogi rhywfaint, a gwelwyd cyhoeddi sawl cofiant rhwng 80 a 140 tudalen o hyd. Eto, cyhoeddwyd cofiannau a oedd yn fyrrach na hynny, ac unwaith eto mae'n debyg bod cysylltiad y ffurf â byr-gofiannau'r cylchgronau yn arwyddocaol yn hyn o beth.[234] Noda cofiannydd Joseph Harries, er enghraifft, mai cofiant byr, dros dro, a gyflwynir ganddo er mwyn achub coffadwriaeth ei wrthrych rhag disgyn i ebargofiant. Ond mynega'i obaith y daw 'ysgrifell gymhwysach' rywbryd a all ysgrifennu 'cofiant bywgraffiadol eang'.[235] Yr oedd ystyriaethau economaidd a oedd yn gysylltiedig â'r gynulleidfa ddisgwyliedig hefyd yn rhwym o ddylanwadu ar hyd y cofiant. Awgrym o hynny yw natur ymddiheurol geiriau meibion Ebenezer Richard wrth iddynt obeithio na fydd darllenwyr, a Methodistiaid yn benodol, yn ystyried '[c]yfrol o'r maintioli hyn yn ormod o deyrnged i goffadwriaeth un a dreuliodd ei holl fywyd yn eu gwasanaeth'.[236]

Wrth gwrs, âi cofiant byr o'r fath yn erbyn safonau cofiannol Jonathan Jones, ond y mae ei honiad mai 'adroddiad manwl a chyflawn am fywyd dyn sydd yn ddyddorol ac addysgiadol i'r darllenydd' yn dadlennu nad meithder yn unig a barchai ond manylrwydd yn ogystal – elfen a bwysleisir fwy nag unwaith yn y cofiant.[237] Eto, dichon mai eithriad yw Jonathan Jones yn hyn, er gwaetha'r ffaith i'r cofiannau helaethu ar y cyfan yn ail hanner y

[234] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.350.
[235] John Samuel, *Hanes bywyd y Parch. Joseph Harris (Gomer), Gweinidog y Bedyddwyr yn yr Heol Gefn, Abertawy* (Abertawe, 1826), t.5.
[236] Richard a Richard, *Bywyd y Parch. Ebenezer Richard*, t.v.
[237] Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, t.xvii. Gw. hefyd t.144.

ganrif ac y cyhoeddwyd sawl cofiant swmpus yn negawdau olaf y ganrif.[238] Enghraifft nodedig yw'r cofiant darluniadol 600 tudalen i William Williams o'r Wern a gyhoeddwyd yn 1894. Megis Jonathan Jones, yr oedd awdur y cofiant hwnnw, David Samuel Jones yn adeiladu ar gofiant cynharach, sef gwaith pwysig William Rees (1842). Yn ei ragymadrodd byr, noda'r cofiannydd mai 'unig ddiffyg y cofiant cyntaf yw byrder', gan ychwanegu bod llunio a chyhoeddi cofiannau 'yn yr oes hono, yn anturiaeth arianol fawr a phwysig'.[239] Wrth gwrs, mae'r geiriau hyn yn adlewyrchu'r datblygiadau mawr a fu ym myd print a chyhoeddi yn ystod y ganrif; datblygiadau a'i gwnaeth yn haws ac yn rhatach i gyhoeddi llyfrau. Un elfen amlwg o'r duedd hon fu'r ffaith i gofianwyr gynyddu maint y naratif cofiannol drwy ychwanegu mwy o ddeunyddiau, megis darluniau, llythyrau a phregethau cyhoeddedig, at y naratif cofiannol.[240] Eto, y mae yn ogystal yn awgrymu newid agwedd at gofiannu ymhlith rhai cofianwyr, gan fod David Samuel Jones, fel Jonathan Jones, yn arddel helaethrwydd a manylrwydd fel un o brif rinweddau cofiant. Yn wir, y rheswm a ddug Morris Davies dros lunio ail gofiant i Ann Griffiths yw'r 'awydd am gofiant helaethach' er mwyn cywiro ac ychwanegu at ffeithiau ei bywyd ac achub amryw 'fân gofion' rhag difancoll.[241] A cheir cwyn gan sawl cofiannydd yn y cyfnod ynglŷn â diffyg deunyddiau i'w galluogi i adrodd yr hanes. Er enghraifft, 'ambell gofnodiad byr a diffygiol' yn unig a waddolodd Cadwaladr

---

[238] Y cofiannau hwyaf yn yr iaith yw dau gofiant Owen Thomas, wrth gwrs, sef *Cofiant John Jones, Talsarn* (1874) (1052 tt.) a *Cofiant Henry Rees* (1891) (1144 tt.). Ond ceir eraill o gryn faint, megis y cofiannau i Daniel Davies (1879) (296 tt.) John Prichard, Llangollen (1880) (424 tt.), Tanymarian (1886) (336 tt.), Thomas Aubrey (1887) (356 tt.), William Evans, Tonyrefail (1892) (400 tt.), William Rees (1893) (500 tt.) a Cadwaladr Owen (1896) (354 tt.). Cyfeiriwyd yn unig yma at gyfrolau lle mae'r cofiant yn rhychwantu hyd y gyfrol. Ceir sawl cyfrol o gryn faint lle dilynir adran gofiannol gan adran swmpus o bregethau cyhoeddedig, neu waith arall. Unwaith eto daeth y fformat 'Cofiant a Phregethau' yn fwy poblogaidd wrth i'r ganrif fynd rhagddi. Er enghraifft, er bod 'cofiant' John Hughes, Caernarfon yn cynnwys tua 500 tudalen, 110 tudalen yn unig yw'r adran gofiannol. Neilltuir gweddill y gyfrol (390 tudalen) ar gyfer 37 o'i bregethau (John Williams, *Cofiant a Phregethau y Parch. John Hughes, D.D., Caernarfon* (Liverpool, 1899)). Ac er gwaetha'r ffaith fod yr adran gofiannol 300 tudalen yng nghofiant Roger Edwards yn swmpus ynddi'i hun, ychwanegwyd ati y gwaith ffuglenol 'Y Tri Brawd a'u Teuluoedd' i greu cyfrol 526 tt. (T. M. Jones, *Cofiant y Parch. Roger Edwards, Yr Wyddgrug, yn cynnwys ei waith dyddorol 'Y Tri Brawd a'u Teuluoedd'* (Gwrecsam, 1908)). Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw maint cofiant yn adlewyrchu safon y gwaith o reidrwydd.

[239] David Samuel Jones, *Cofiant Darluniadol y Parchedig William Williams o'r Wern* (Dolgellau, 1894), t.vi.

[240] Yn wir, fel y nodwyd eisoes, yng nghyd-destun pregethau, gellid dadlau y ceid dwy gyfrol ar wahân mewn sawl cofiant, sef y bywgraffiad a'r casgliad o bregethau printiedig.

[241] Morris Davies, *Cofiant Ann Griffiths, gynt o Dolwar Fechan, Llanfihangel yn Ngwynfa, Swydd Drefaldwyn: ynghyd a'i Llythyrau a'i Hymnau, gyda nodiadau* (Dinbych, 1865; arg. 1908), tt.iv-v.

Owen i'w gofiannydd, elfen a'i rhoddodd o dan 'anfantais fawr, yn enwedig i ysgrifenu hanes boreuddydd ei fywyd'. Bu'r ffaith hon yn ystyriaeth o bwys gan olygydd y gyfrol, Robert Thomas, gan mai dyma'r pwynt cyntaf o dri y geilw sylw'r darllenwyr atynt yn y rhagymadrodd.[242] Tebyg yw cyfiawnhad James Morris, awdur y cofiant i Dafi Dafis, Rhydcymerau, a gyhoeddwyd yr un flwyddyn a *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*. Yn ei ragymadrodd, gresyna'r awdur y byddai wedi sylwi'n fanylach ar ei wrthrych yn ystod ei oes pe gwyddai mai iddo ef y deuai'r dasg o lunio'i gofiant wedi iddo farw. Byddai sylwgarwch o'r fath wedi ei alluogi'n fawr i greu gwaith 'llawer mwy cyflawn'.[243] Fel y gwelir, felly, er na ellir honni bod pob cofiannydd yn hanner olaf y ganrif yn arddel yr un safonau â Jonathan Jones, mae'n amlwg nad oedd y safonau hynny yn unigryw.

Ymhellach, rhaid cofio iddo gael ei ganmol gan feirniaid yr ugeinfed ganrif oherwydd ei ofal dros gofnodi ei ffynonellau â chysondeb sy'n bur absennol o gofiannau'r pregethwyr ar y cyfan.[244] Cywirir rhai ffeithiau ganddo yn ogystal, megis cofnod Thomas Jones yn ei hunangofiant am ddyddiad ffarwelio â Chaerwys a throi am yr Wyddgrug. Mae'n ddiddorol fod tinc gyfiawnhaol yn sylwadau'r awdur am 'fanylu fel hyn', ond eto nodir yn ddi-flewyn ar dafod fod 'cywirdeb yn bwysig bob amser' (96-7). Y mae'r manylrwydd gofalus hyn yn cysylltu ag ail amcan cofiannol Jonathan Jones, a'r pwysicaf yn ei olwg ef, sef y bwriadai gyflwyno portread o'r gwrthrych a fyddai'n amlygu'n gadarn ac eglur ei 'brif gymmeriad'. Dinoetha'r cofiannydd ei *rationale* drwy nodi mai ei gyfraniad fel diwinydd yw gwir werth 'bywyd mawr' Thomas Jones. Dyma yw allwedd ei gymeriad, a sail ddeongliadol y cofiannydd, ac o'r herwydd y mae am 'wneuthur rhyw gymmaint tuag at ddwyn ynghyd y

---

[242] R. Thomas (gol.), *Cadwaladr Jones, Dolgellau: ei fuchedd, ei weinidogaeth, ei ddefnyddioldeb cyffredinol, a phrif linellau ei nodweddiad* (Liverpool, 1870), t.vi. Yn wir, sylwer hefyd y defnydd o gyfosod y geiriau 'byr a diffygiol' y cyfeiriwyd eisoes at eu defnydd gan Jonathan Jones yn y bennod hon.
[243] James Morris, *Cofiant Dafi Dafis, Rhydcymerau* (Dolgellau, 1897), t.v. Serch hynny, mae adran gofiannol y gyfrol yn ymestyn ymron i 200 tudalen.
[244] Gw. eisoes, er enghraifft, sylwadau Saunders Lewis am ddiffyg ymchwil a 'dogfeniad' John Foulkes yn ei gofiant i Moses Parry (1856), 'Y cofiant Cymraeg', t.350.

defnyddiau angenrheidiol er galluogi y darllenydd, neu er mantais i Hanesydd Duwinyddiaeth Gymreig y dyfodol, i allu gweled gwir safle Mr Jones yn ffurfiad duwinyddiaeth y Methodistiaid'.[245] Dyma sylwadau sy'n arwyddocaol wrth ystyried agwedd Jonathan Jones tuag at ei wrthrych ac at gofiannu bywyd y gwrthrych hwnnw. Y mae'n ymwybodol iawn fod Thomas Jones yn ei fedd ers tri chwarter canrif, ac felly myn gyflwyno cyd-destun i gyfnod ei wrthrych, er mwyn '[rh]oddi cyfleusdra i rai o'r darllenwyr a allant fod heb ymgydnabyddu llawer â hanes crefydd yn Nghymru, ac â hanes y Methodistiaid' (xvi-xvii). Yma eto, gwelir awydd y cofiannydd i gyflwyno gwybodaeth, sy'n cyd-fynd â'i nod o ddadlennu esiampl, ac sy'n ychwanegu ato. Serch hynny, gŵyr y cofiannydd nad yw 'golwg gyflawn' yn bosibl, ac felly detholir o'r hanes sy'n berthnasol i'w amcanion cofiannol parthed ei wrthrych. Fel y gwelir isod, mae detholiad y cofiannydd yn cyd-fynd â'i bwyslais ar hanfod ysbrydol ac efengylaidd y portread o'r gwrthrych, sef iddo fyw 'yn sŵn ac yn ysbryd hen ddiwygiadau bendigedig Cymru'.

Eithr nid yn y prolog a'r epilog yn unig yr amlyga Jonathan Jones ei ddyheadau a'i brosesau cofiannol. Ceir sawl enghraifft lle ymddengys yn y naratif i egluro, cyfiawnhau, crynhoi a myfyrio ar ei waith fel cofiannydd. Digwydd, er enghraifft, pan â ati i grynhoi neu egluro ei benderfyniadau parthed adeiladwaith, strwythur neu gynnwys y gyfrol, megis pan ddynoda y bydd yn neilltuo pennod gyfan i drafod ordeiniad cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd oherwydd ei fod yn 'bwnc mor bwysig yn ei berthynas â Mr Jones'. Enghraifft bellach fyddai ei eglurhad parthed ei 'dri amcan' wrth adrodd am safbwynt Thomas Jones ynglŷn ag Iawn Crist.[246] Manylir yn ogystal ar elfennau mwy ymarferol ar ei brosesau cofiannol, megis dethol[247] ac addasrwydd neu gaffaeledd deunyddiau[248] – elfennau sy'n

[245] Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, t.464; gw. hefyd t.xi.
[246] Ibid., tt.198 a 349. Am enghreifftiau tebyg, gw. tt.50, 136, 224, 261, 288, 291, 301, 363, 376, 377-8.
[247] Gw. ibid., er enghraifft, tt.72, 146-7, 174, 231, 300.
[248] Gw. ibid., tt.140, 155, 156, 283-4.

gysylltiedig â'i gilydd yn bur aml. Er nad dyma'r lle i gynnig trafodaeth fanwl ar y wedd hon, mae'n werth nodi bod ymyriadau neu neillebau o du'r cofiannydd yn hen arfer yn y cofiannau, megis geiriau cofiannydd Owen Jones o'r Gelli (1830) a ddyfynnir uchod.[249] Serch hynny, byddai'n deg dadlau bod defnydd Jonathan Jones yn amlach, yn amlycach ac yn fwy datblygedig nag eiddo'r mwyafrif o gofianwyr. Ac fel y gwelir yn y bennod nesaf, mae'n debygol iawn mai *Cofiant John Jones, Talsarn* oedd y dylanwad amlycaf yn hyn o beth.

***'cerdded yn frenhinol o'm blaen': dylanwad Owen Thomas, Lerpwl***

Fel hyn yr egyr y cofiannydd y bennod sy'n ymdrin â marwolaeth ei wrthrych:

> Wele ni, yn awr, gyda llawer mwy o fanylder nag a dybiem unwaith oedd bosibl i ni, wedi dilyn ein hen gyfaill anwyl trwy amrywiol gyfnewidiadau bywyd – bywyd hynod mewn llafur ac arbennig mewn defnyddioldeb.[250]

Gellid maddau i'r darllenydd am gredu mai Jonathan Jones biau'r geiriau uchod, ond yn hytrach dônt o gofiant hynod Owen Thomas, Lerpwl i'r cawr bregethwr John Jones, Tal-y-sarn (1874). Yn wir, yr un pwyslais ar '[f]ywyd llafurus' ei wrthrych a rydd Jonathan Jones ar ddechrau'r bennod sy'n adrodd hanes marwolaeth Thomas Jones. Gall mai cyd-ddigwyddiad llwyr yw hyn, neu fod y cofiannau'n arfer fformiwla benodol yma. Serch hynny, fe awgrymwyd eisoes yn y bennod hon ddyled y naill gofiannydd i'r llall,ac o fwrw golwg fanylach ar y gyfrol, gellir honni i Owen Thomas fod yn ddylanwad nid bychan ar Jonathan Jones. Yn y bennod nodedig honno ar ddadleuon diwinyddol Cymru yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, adroddodd Owen Thomas beth o hanes Thomas Jones, yn bennaf yng nghyd-destun ei olygiadau diwinyddol a'i barodrwydd i amddiffyn y golygiadau hynny yn y pulpud ac yn y

---

[249] Gw. y bennod hon, t.76, a hefyd eiriau cofianwyr Thomas Jones (1820) pan soniant am ei ddarlunio fel dyn, Cristion a phregethwr.

[250] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrexham, 1874), t.734.

wasg.[251] Mae diolch Jonathan Jones am gymwynas Owen Thomas yn amlwg am iddo arfer 'y fath garedigrwydd a thegwch â choffadwriaeth Mr Jones' a'i achub rhag difodiant yng nghysgod ei gyfaill Thomas Charles.[252] Ond mae mwy na diolchgarwch yn unig yn nodweddu'r dylanwad hwn.

Erbyn cyhoeddi cyfrol Jonathan Jones yn 1897 yr oedd *Cofiant John Jones, Talsarn*, wedi hen sefydlu ei hun fel clasur o'i fath, a chyhoeddwyd yn ogystal *Cofiant Henry Rees* (1890), y pregethwr tanbaid a'r arweinydd cyfundebol a fu'n was fferm i Thomas Jones, Dinbych am gyfnod tua diwedd ei oes. Mae'n amlwg fod Jonathan Jones wedi darllen y ddau gofiant yn ofalus, ac nid yw'n brin o nodi'n gyhoeddus ei ddyled i'r '[b]ywgraffydd enwog'.[253] Yn ei ragymadrodd, mae'n cyfaddef na fyddai 'cryn lawer o gynnwys' y cofiant wedi gweld golau dydd, oni bai bod Owen Thomas wedi bod yn braenaru'r tir, ac wedi 'cerdded yn frenhinol o'm blaen'. Ac mae'r parch a deimla Jonathan Jones at y 'beirniad llenyddol craff' hwn, sy'n 'awdurdod mor uchel ar hanes duwinyddiaeth yn Nghymru', i'w weld yn y cyfeiriadau mynych a geir ato, ac at y ddau gofiant a luniodd, ynghyd â'r cysondeb y cytunir a'i farn yn y cofiant.[254] Eto, mae'n barod i anghytuno â safbwynt Owen Thomas ambell waith, yn enwedig wrth amddiffyn ei wrthrych.[255] Gan amlaf, fodd bynnag, dilynir awdur *Cofiant John Jones, Talsarn* yn bur ffyddlon, yn enwedig yn y rhannau hynny sy'n ymdrin â hanes y dadleuon diwinyddol. Annhebyg, yn ogystal, mai cyd-ddigwyddiad yw bod

---

[251] Thomas, *Cofiant John Jones, Talsarn*. Gw. yn bennaf tt.272 a 305-26, 413-39, 546-68. Brawddeg yn unig a deilynga ym mhennod swmpus Owen Thomas ar y Pulpud Cymraeg hyd at gyfnod John Jones, lle dywed fod ei bregethau yn 'alluog' o ran eu cyfansoddiad ac y gallai ennyn effeithiau dwys ar ei gynulleidfa, er gwaetha'r ffaith 'fod ei ddull yn drymaidd a'i lais heb fod yn rhyw soniarus iawn' (Thomas, *Cofiant John Jones, Talsarn*, t.940).

[252] Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, t.xv. Gw. hefyd tt.341, 344 a 447.

[253] Ibid., t.280.

[254] Ibid., tt.xv, 210, 159. Gw., er enghraifft, tt.161, 175, 196, 266, 280, 321, 326, 334, 343, 369, 381, 392, 408, 413, 439.

[255] Un enghraifft yw pan feirniedir tuedd Owen Thomas i roi cryn sylw i atodiadau gweithiau diwinyddol Thomas Jones (lle yr ymetyb i'r honiadau a wneid gan awduron eraill) ac o'r herwydd, greu 'gwedd fwy cladleuol' ar y gweithiau nag a oedd raid ym marn yr awdur. Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, t.xv. Gw. hefyd tt.179, 387-8, a hefyd 416 lle yr â ati i gywiro ffaith gan Owen Thomas.

elfennau o adeiladwaith cofiant Jonathan Jones yn ymdebygu i gofiannau Owen Thomas. Nid syndod yn hyn o beth, felly, weld mai 16 pennod sydd yn y gwaith, megis ag a geir yn y cofiannau i John Jones a Henry Rees. Ac mae maint y cofiant a manylrwydd yr ymdriniaeth yn atgoffa dyn o awdur *Cofiant John Jones, Talsarn*.[256] Fel y gwelwyd eisoes, datblygodd Jonathan Jones y cynllun arferol drwy gyflwyno hanes manwl o fywyd ei wrthrych, sy'n datblygu fel yr â'r cofiant rhagddo, a chan gynnwys penodau a oedd yn gosod cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol berthnasol i'r fuchedd a ddadlennir. Cyflwynir hefyd addasiad mwy traethodol ei naws o'r penodau thematig fel ychwanegiad at yr adroddiad cofiannol, ynghyd ag arfer llais cofiannol ymwybodol sy'n amlygu ei benderfyniadau a'i brosesau cofiannol. Agwedd arall ar broffesiynoldeb y cofiannydd yw'r atodiad a'r mynegai a gynhwysir. Y mae'r elfennau hyn oll i'w gweld yng nghofiannau Owen Thomas, ac mae'n ddiddorol mai ef yw'r unig bregethwr o'i genhedlaeth y ceir llun ohono yn y gyfrol ymysg y cedyrn o gyfnod Thomas Jones ei hun.[257]

## 1.3. CLO

Yn y bennod hon ceisiwyd olrhain y prif ffurfiau a'r dylanwadau hynny a gyfunodd i greu cofiannau crefyddol Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelwyd i'r hunangofiant, llenyddiaeth y cymeriad, y bregeth angladdol a'r traddodiad cofiannol crefyddol Seisnig osod patrwm i'r cofiant Cymraeg, neu ddylanwadu arno mewn rhyw fodd. Ffurfiau oeddynt a fu'n boblogaidd yn Lloegr yr ail ganrif ar bymtheg, ac a ddatblygodd yng nghyd-destun y

[256] Cymharer Atodiad 2b ag atodiadau 3 a 4.

[257] Gw. Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych*, gyferbyn â t.336. Cynnwys y portreadau yn y gyfrol gyfeillion, cyd-Fethodistiaid a gwrthwynebwyr diwinyddol Thomas Jones, megis Owen Davies a Christmas Evans. Nodir mai'r rheswm am gynnwys darlun o Owen Thomas yw am 'mai efe a wnaeth fwyaf o lawer tuag at osod Mr Jones yn ei le priodol fel Duwinydd' (t.xxiii).

gweithiau defosiynol a didactig a gyhoeddwyd yn y cyfnod. Arddangosai'r gweithiau bwyslais ar gyfarwyddyd ac adeiladaeth grefyddol a oedd yn ysbrydol a moesegol biwritanaidd ei naws. Yn y ddeunawfed ganrif y daeth y traddodiad piwritanaidd Seisnig i Gymru ac i'r Gymraeg, ac amlygwyd cymaint oedd dylanwad Piwritaniaid megis John Bunyan ar lenyddiaeth y cyfnod. Wrth gwrs, gwelodd y ddeunawfed ganrif yn ogystal wres y Diwygiad Methodistaidd, a cheisiwyd dadlau mai priodas rhwng piwritaniaeth yr ail ganrif ar bymtheg a Methodistiaeth ac 'Ymneilltuaeth newydd' y ddeunawfed ganrif a roes seiliau i gofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. O'r herwydd, yr oeddynt yn gyfryngau addas i adlewyrchu gwerthoedd cymdeithas Anghydffurfiol y cyfnod, ac nid oes syndod i'r pregethwr mawr a'i alwedigaeth hanfodol ddatblygu ynddynt yn wrthrych diddorol a chreiddiol. Dadleuwyd, yn ogystal, fod pwyslais amlwg yn y gweithiau hyn ar gyflwyno duwioldeb a diwydrwydd yr alwedigaeth honno. Dyma'r ddwy nodwedd neu rinwedd amlycaf a'r mwyaf arwyddocaol i'r dehongliad efelychiadol, ac maent yn ganolog i'r traddodiad piwritanaidd a Methodistaidd fel ei gilydd. Nid rhyfedd, felly, i'r elfennau hyn, a'r berthynas glòs a chymhleth rhwng y mewnol a'r allanol, yr hunangofiannol a'r cofiannol, dyfu'n hanfod y portread a gynigiwyd yng nghofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ceisiwyd cyflawni hyn drwy gynnig yn ail hanner y bennod orolwg o werthoedd y cofiant. Seiliwyd yr ymdriniaeth ar y cysyniad efelychiadol sydd mor bwysig i sylfeini deongliadol y ffurf. Craffwyd ar ddau gofiant i'r pregethwr a'r diwinydd Thomas Jones, Dinbych a oedd yn rhychwantu'r ganrif. Er mwyn amlygu'r gwrthrych fel esiampl dda o Gristion a phregethwr, fe'i portreedir yng nghyd-destun ei rinweddau. Ceisiwyd dadansoddi'r cofiannau hyn yng ngoleuni eu pwyslais efelychiadol, a gwelwyd bod portreadaeth o dduwioldeb a diwydrwydd y gwrthrych, ynghyd â'r berthynas rhyngddynt, yn ganolog i ddehongliad cofiannol y naill a'r llall. Er bod sawl gwahaniaeth rhwng y cofiant gwreiddiol i

Thomas Jones a'r cofiant a luniwyd gan Jonathan Jones ar derfyn y ganrif, gwelir na wyrodd y traddodiad cofiannol Cymraeg oddi wrth ei wreiddiau efelychiadol a didactig yn ystod y ganrif. Ar un wedd y mae *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych* gan Jonathan Jones yn enghraifft anarferol a nodedig o'r *genre* a ganmolwyd gan feirniaid yr ugeinfed ganrif am fanylrwydd a thrylwyrder ei ddadansoddiad. Adlewyrchir ynddo rai o'r prif ddatblygiadau yn y maes, megis sefydlogi o ran strwythur ac adeiladwaith a'r cyd-destunoli cynyddol a gafwyd ar 'hanes' y gwrthrych, a hynny yn amlygu agwedd at gofiannu sy'n fwy aeddfed ac uchelgeisiol ei gwmpawd, sy'n agosach at hanesyddiaeth, ac sy'n fwy ymwybodol o gyd-destun ei ddehongliad o'r gwrthrych. Eto, gorwedd y cofiant anarferol hwn yn solet o fewn y traddodiad cofiannol Cymraeg. Ceisiwyd dangos mai datblygu'r patrwm cyffredinol, ac nid arloesi, a wnaeth Jonathan Jones drwy ddadansoddi y pwyslais deongliadol ar ddarlunio duwioldeb a diwydrwydd y gwrthrych, a'r berthynas gymhleth rhwng y fuchedd fewnol, hunangofiannol a'r alwedigaeth allanol a chyhoeddus sy'n graidd i'r portread hwnnw. Yn wir, dadlennwyd nad Jonathan Jones, ond Owen Thomas, Lerpwl, biau'r clod am ddatblygu ffurf y cofiant yn y modd hwn. Ef yn anad neb arall yw'r prif ddylanwad ar awdur *Cofiant y Parch Thomas Jones o Ddinbych*, ac ato ef y try'r astudiaeth hon yn awr.

# 2

# 'ei bortreadu i ryw raddau y fath ag ydoedd':

# Owen Thomas y Cofiannydd

Yn angladd y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, 29 Mai 1871, fe gododd Owen Thomas ar ei draed i draddodi'r bregeth angladdol. Un gorchwyl ydoedd hwn o blith y myrdd o orchwylion eraill yr oedd yn ymgymryd â hwy ar y pryd, gan gynnwys cwblhau *Cofiant John Jones, Talsarn*. Y testun a ddewisodd ar gyfer coffáu ei gyfaill a'i gyd-bregethwr oedd 'Canys wrthych chwi y Cenhedloedd yr wyf yn dywedyd, yn gymmaint a'm bod i yn apostol y Cenhedloedd, yr wyf yn mawrhau fy swydd' (Rhufeiniaid 11:13),[1] ac nid oedd geiriau'r Apostol Paul yn annisgwyl nac anghyfarwydd i'r lliaws a oedd yn gwrando. Yr oedd yn destun addas iawn i dalu teyrnged i gyd-lafurwr yn y winllan, ac yn unol â strwythur y bregeth angladdol ei hun, ceir eglurhad ar arwyddocâd y testun cyn cymhwyso'r testun hwnnw at fywyd a gwaith y gwrthrych. Pwysleisir bod geiriau Paul ei hun, a'i alwad i'r gwaith, yn 'gynllun neu ddarlun o bob gweinidog arall'. Un ydoedd a oedd wedi ei gynysgaeddu 'â'r holl ddoniau angenrheidiol er ei wneuthur yn weinidog cymmwys'.[2] Yna, â Owen Thomas rhagddo mewn pum pen i argyhoeddi'i wrandawyr fod Paul yn 'mawrhau ei swydd' cyn cyfosod yr un gwerthoedd a doniau i'w gyfaill ymadawedig.[3] Yr hyn a geir

[1] *Pregethau y Parchedig Owen Thomas, D.D.*, gol. Josiah Thomas (Liverpool, 1896), tt.348–61.
[2] Ibid., tt.348 a 349.
[3] Nodir y pennau fel a ganlyn: 'I [Yr oedd yn mawrhau ei swydd] yn yr argyhoeddiad dwfn a'i meddiannai o'i gosodiad, ei hawdurdod, a'i hurddas dwyfol'; 'II Yr oedd yn mawrhau ei swydd yn y syniad uchel a goleddai am y cymhwysderau angenrheidiol iddi'; 'III Yr oedd yn mawrhau ei swydd, yn yr ymröad, yr egni, a'r ffyddloneb, a ddangosid ganddo yn y cyflawniad o'i dyledswyddau hi'; 'IV Yr oedd yn mawrhau ei swydd yn y gofal arbenig a gwastadol a gymmerai ar fod ei holl ymddygiadau yn anrhydedd iddi'; 'V Yr oedd yn mawrhau

ganddo, wrth reswm, yw'r pregethwr delfrydol, gŵr sydd wedi ei arfaethu i'r swydd gan Dduw ac sy'n ostyngedig i awdurdod ei Dad Nefol i ymdrechu â'i holl enaid, ac â'i holl nerth, i arfer ei ddoniau er mwyn cyflawni gofynion yr alwad. O graffu ar y tri phen olaf, gwelir yr un pwyslais deongliadol ag a welwyd ym mhennod gyntaf y traethawd hwn wrth drafod cofiannau pregethwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef dyrchafu diwydrwydd llafur, duwioldeb ymddygiad ac ymroddiad llwyr y pregethwr i'r gwaith mawr ac i'w Arglwydd. Bydd cyfle ym mhenodau nesaf y traethawd i weld mor hanfodol yw'r gwerthoedd hyn, a chysyniad galwedigaeth, yn nehongliad Owen Thomas o'i wrthrychau, ond awgryma hyn o drafodaeth yn bur ddiamwys fod cymhellion Owen Thomas ynghlwm wrth y traddodiad cofiannol Cymraeg, er gwaethaf honiad Saunders Lewis iddo greu chwyldro wrth gyhoeddi *Cofiant John Jones, Talsarn* yn 1874.[4]

Serch hynny, nid ymgais sydd yma i ymwrthod â honiad Lewis fod ei daid wedi llunio cofiant anghyffredin a dylanwadol, nac ychwaith wadu bod dylanwad ei ddiddordebau mewn 'hanes eglwysig, datblygiad diwinyddiaeth a phregethu yng Nghymru, a'r cofianwyr a'r haneswyr Saesneg', yn hynodi ei gofiannau. Yn wir, byddwn yn barod i gytuno â Saunders Lewis mai *Cofiant John Jones, Talsarn* yw uchafbwynt a phrif orchest y traddodiad cofiannol Cymraeg,[5] ac mae'n amlwg i Owen Thomas gyrraedd y statws yng Nghymru a neilltuir i James Boswell ymhlith y Saeson. Mewn pwt o erthygl o'r enw 'Cofiantau' yn Ebrill 1882, er enghraifft, nododd un sylwebydd fod 'pawb yn ystyried bod Rhagluniaeth wedi gofalu am Boswell i Henry Rees'. Gan fod Owen Thomas newydd dderbyn comisiwn gan deulu'r gwron hwnnw i lunio'i gofiant ar y pryd, mae'n anodd meddwl nad cyfeiriad penodol ato ef a

---

ei swydd yn yr eiddigedd a deimlai a'r ymdrechiadau a wneid ganddo er sicrhau pob mantais iddi a dueddai ei heffeithiolrwydd'.

[4] Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', yn *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t.354.

[5] Ibid., tt.354 a 356.



CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

geir yma.[6] Boswell, wrth gwrs, oedd lluniwr y clasur *Life of Johnson* (1791), ac yr oedd yn gymhariaeth addas gan ei fod yn un o hoff gofianwyr Owen Thomas. Eithr nid pawb a ffolodd ar Boswell fel cofiannydd. Cyhoeddodd yr hanesydd Thomas Babington Macaulay ei ddedfryd enwog arno yn yr *Edinburgh Review* yn 1831.

> He had, indeed, a quick observation and a retentive memory. These qualities, if he had been a man of sense and virtue, would scarcely of themselves have sufficed to make him conspicuous; but, as he was a dunce, a parasite, and a coxcomb, they have made him immortal . . . He would infallibly have made his hero as contemptible as he has made himself, had not his hero really possessed some moral and intellectual qualities of a very high order. (tt.18-20)[7]

I Macaulay, yr oedd cofnodion manwl Boswell am hanesion, digwyddiadau a sgyrsiau ei wrthrych yn profi mawredd Samuel Johnson, ond gwadai ddawn neu gelfyddyd y cofiannydd, oddieithr y gallu i sylwi, i gofio a bwydo'n barasitig ar hynodrwydd ei wrthrych.[8] Mewn cyfnod lle'r oedd trafodaethau ar gelfyddyd cofiannaeth yn bur ansoffistigedig [9] creodd sylwadau Macaulay farn, os nad rhagfarn, ynglŷn â chrefft y cofiannydd a fu'n bur ddylanwadol ymhlith beirniaid a chofianwyr. Dywed Joseph Reed mai hwn oedd 'perhaps the most damaging misconception of biography: that the subject of the biography is the artist; the

---

[6] 'Cofiantau', *Y Goleuad* (8 Ebrill 1882), 10.

[7] '*Life of Samuel Johnson*', *Edinburgh Review*, 54 (1831), 18–20. Adolygiad ydoedd ar olygiad newydd John Wilson Croker o glasur James Boswell, *Life of Samuel Johnson* (1831).

[8] Fel y dywed Macaulay: 'The best proof that Johnson was really an extraordinary man is, that his character, instead of being degraded, has, on the whole, been decidedly raised by a work in which all his vices and weaknesses are exposed more unspairingly than they were ever exposed by Churchill or by Kenrick (Macaulay, '*Life of Samuel Johnson*', 16). Gw. yn ogystal farn A. O. J. Cockshut mai'r modd y portreadodd Boswell y paradocs hwn yw'r allwedd i fawredd y cofiant (A. O. J. Cockshut, *Truth to Life: The Art of Biography in the Nineteenth Century* (London, 1974), t.101).

[9] Ys dywed Joseph Reed, parthed sylwadau adolygwyr yn Lloegr ar gofiannau hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, 'They seldom saw the books before them clearly enough to conceive of an art of biography' (Joseph W. Reed, Jr., *English Biography in the Early Nineteenth Century* (New Haven and London, 1966), t.66). Yn wir, honna Alan Shelston mai ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, cyfnod Lytton Strachey a Virginia Woolf a'u tebyg, y dechreuwyd synio am gofiannaeth (a chofiannu) fel celfyddyd ynddi'i hun: 'Such discussions of the genre as there had been had involved questions either of morality or of practice, and the motivation of the biographer had been seen primarily as a functional one, whether to record, to praise, or to instruct' (Alan Shelston, *Biography*, (London, 1977), t.62).

biographer but sets down what he sees in the most direct manner possible'.[10] Ymddengys fod Macaulay yn ddigon parod i gydnabod llafur Boswell, ond nid ei grefft, wrth lunio'r cofiant.[11] Gellir dadlau bod safbwynt Macaulay yn sefyll ar un pegwn y drafodaeth hon yn Lloegr ynglŷn â chelfyddyd y cofiannydd. Ar y pegwn arall safai Thomas Carlyle a fynnai fod cydymdeimlad y cofiannydd â'i wrthrych yn allweddol i'w ymdriniaeth, a bod cyfrifoldeb creadigol a chelfyddydol yr awdur i bortreadu gwŷr amlwg a dylanwadol yn hanfodol er mwyn goleuo a dadansoddi eu cymdeithas a'u cyfnod.[12] Megis y dywed Joseph Reed: 'Carlyle insists upon [the biographer's art] as the only medium for the revelation of the subject's greatest work. Carlyle believes in the biographer's creativity, and forms his principles upon this belief.'[13] Rhwng y ddau begwn yma y llafuriai cofianwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac Owen Thomas yn eu plith.

---

[10] Reed, *English Biography in the Early Nineteenth Century*, t.5. Cymharer hyn â'r sylwadau o eiddo Alun Llywelyn-Williams am ddiffyg creadigrwydd llenyddiaeth y cofiant a drafodir yn rhagymadrodd y traethawd hwn, t.9.

[11] Wrth gwrs, diddorol yn yr ystyr hwn yw sylwadau'r cofiannydd a'r beirniad Hermione Lee, sydd wedi awgrymu bod safbwyntiau gwleidyddol Rhyddfrydol Macaulay (o'u cymharu â Thoriaeth ronc Boswell a Johnson) wedi llywio ei ymateb i'r adargraffiad. Hermione Lee, *Body Parts: Essays in Life-Writing* (London, 2005), t.1.

[12] Am drafodaeth ar egwyddorion y cyfnod gw. Reed, *English Biography in the Early Nineteenth Century*; Cockshut, *Truth to Life;* Shelston, *Biography*, pennod 4; Catherine Parke, *Biography: Writing Lives* (New York and London, 2002), pennod 1; Laura Marcus, *Auto/biographical Discourses: Theory, Criticism, Practice* (Manchester, 1994), t.24.

[13] Reed, *English Biography in the Early Nineteenth Century*, t.34. Gw. hefyd sylwadau Marcus, *Auto/biographical Discourses*, t.34. Gw. ymhellach Thomas Carlyle, '[Review of] Croker's edition of Boswell's *Life of Johnson*', *Fraser's Magazine* (Ebrill 1832), 253-9; Thomas Carlyle, *Critical and Miscellaneous Essays* iv (London, 1888), tt.51-66; Thomas Carlyle, *On Heroes, Hero-Worship and the Heroic in History*, gol. Carl Niemeyer (Lincoln and London, 1966); J. L. Clifford (gol.), *Biography as an Art: Selected Criticism, 1560-1960* (London, 1962), tt.78-84; Elinor Shaffer, 'Shaping Victorian biography', yn *Mapping Lives: The Uses of Biography*, gol. Peter France a William St Clair (Oxford, 2004), tt.115-33; Fred Kaplan, *Thomas Carlyle: A Biography* (Cambridge, 1983); Michael Goldberg, *Carlyle and Dickens* (Athens, 1972); John D. Rosenberg, *Carlyle and the Burden of History* (Oxford, 1985). Dylid nodi bod y farn ynglŷn â dylanwad Carlyle yn gymhleth a rhanedig, gw. y dyfyniad gan Hermione Lee parthed Carlyle isod sy'n awgrymu yr erys rhai o syniadau Carlyle am grefft cofiannu yn berthnasol hyd heddiw (*Body Parts*, tt.1-2). Soniodd Alan Shelston, serch hynny, am Carlyle fel beirniad 'whose theories no one followed and whose practices no one emulated' (*Biography*, tt.54-5). Awgrymir felly nad oedd syniadau Carlyle am gofiannu yn boblogaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

## 2.1. 'ADGOFIO AC YSGRIFENNU AM DANO': EGWYDDORION COFIANNOL OWEN THOMAS

Fel yr awgrymwyd eisoes, os oedd trafodaeth ar gofiannaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn brin yn Lloegr, yr oedd yn brinnach fyth yng Nghymru.[14] Serch hynny, nid ymddengys fod Owen Thomas wedi dioddef yr un dynged â Boswell yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth gwrs, achubwyd cam Boswell gan Virginia Woolf a chymheiriaid Bloomsbury ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a welodd ynddo'r gallu i bortreadu personoliaeth fewnol dyn a oedd yn absennol o gofiannau 'croniclaidd' a ffeithiol Oes Fictoria.[15] Fel y gwelir yn y bennod nesaf, yn ystod yr ugeinfed ganrif cafodd Owen Thomas ei ddyrchafu a'i ganmol fel cofiannydd unigryw a medrus gan sawl sylwebydd. Ond ymysg y beirniaid hynny nid oes brin neb wedi mynd ati i ddadansoddi a chloriannu yn fanwl ei gyneddfau a'i alluoedd fel cofiannydd, a gofyn ai 'cofiannydd' neu 'groniclydd' ydoedd Owen Thomas. Dyna fydd craidd y bennod hon. Yn annhebyg i Carlyle ni thrafododd Owen Thomas ei grefft fel cofiannydd yn uniongyrchol, ac fel y nodwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf mae'n deg dweud bod tystiolaeth o'r fath yn brin. O'r herwydd, bydd y bennod hon yn ymdrin gan mwyaf â'r egwyddorion cofiannol hynny sydd i'w cael yn ei gofiannau ei hun. Fodd bynnag,

---

[14] Gw. pennod 1, t.83. Yn ei draethawd ar y cofiant Cymraeg yn hanner cyntaf y ganrif, er enghraifft, ni nodir yr un ffynhonnell feirniadol swmpus ar y cofiant gan W. J. Harries oddieithr astudiaeth Saunders Lewis ar 'Y cofiant Cymraeg' yn y 1930au. Dyfynnu o rai erthyglau neu adolygiadau byrion yn y cyfnodolion, neu o'r cofiannau eu hunain, a wneir gan amlaf yn y traethawd, er na ellir addef yn aml fod y drafodaeth honno yn ymdrin â chrefft neu'r broses o gofiannu fel y cyfryw. Gw. W. J. Harries, 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg o safbwynt llenyddol' (Traethawd MA (Abertawe), 1954). Ac yn ei erthygl yntau, nid yw Saunders Lewis ychwaith yn cyfeirio at unrhyw ffynhonnell benodol ar natur neu grefft y cofiannau. Gw. Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg'.

[15] Ceir gormodiaith a gwirionedd yn nisgrifiad enwog yr eiconoclastydd Lytton Strachey o gofiannau Fictoraidd yn ei gyfrol *Eminent Victorians* (1918): 'who does not know them – with their ill-digested masses of material, their slipshod style, their tone of tedious panegyric, their lamentable lack of selection, of detachment, of design.' Gw. rhagymadrodd Lytton Strachey i'w *Eminent Victorians* (London, 1918; arg. 1921), t.viii. Ceir y dyfyniad yn ogystal yng nghyfrol Robert Gittings, *The Nature of Biography* (Seattle, 1978), t.38. Y mae honiad Virginia Woolf ei hun yn llai ymfflamychol: 'we, by contrast, can no longer maintain that life consists in actions only or in works. It consists in personality' (Virginia Woolf, 'The new biography', yn *Collected Essays by Virginia Woolf, Volume Four*, gol. Leonard Woolf (London, 1967), t.230).

cyn troi at y ddau gofiant, mae'n werth bwrw golwg ar ambell ffynhonnell arall a all fod o fudd wrth geisio amlygu ei farn yn hyn o beth.

### 2.1.1 'darllenwr mawr': llyfrgell Owen Thomas

Un ffynhonnell ddefnyddiol sy'n bwrw goleuni ar ddiddordebau llenyddol a chofiannol Owen Thomas yw'r llyfrgell sylweddol o lyfrau a gasglodd yn ystod ei oes. Yr oedd ganddo ddiddordeb ysol mewn darllen er pan oedd yn ifanc a datblygodd yn gasglwr llyfrau heb ei ail.[16] Wedi ei farwolaeth prynwyd ei lyfrgell ac fe'i trosglwyddwyd i Goleg y Bala.[17] Er bod yn y casgliad hwn nifer fawr o gyfrolau diwinyddol, athronyddol a hanesyddol, dengys catalog Coleg y Bala mor helaeth ac eang oedd diddordebau Owen Thomas, ynghyd â chadarnhau'r hyn a ddywedodd Saunders Lewis parthed ei hoffter o gofianwyr ac awduron Seisnig. Ceir tua 400 o gofiannau yn y catalog, a'r rhan fwyaf o'r rheini yn weithiau heb fod a wnelo â'r Gymraeg. Cofiannau i ddiwinyddion, diwygwyr, pregethwyr a gweinidogion Anghydffurfiol, offeiriaid eglwysig, deoniaid ac esgobion yw craidd y cofiannau Saesneg. Serch hynny, mae'n amlwg y byddai Owen Thomas yn darllen cofiannau i lenorion yn ogystal, gan fod cofiannau George Eliot, Jonathan Swift, Walter Scott, Johann Wolfgang von Goethe, Voltaire a Thomas Babington Macaulay ymhlith y casgliad. Diddorol gweld rhai cyfrolau annisgwyl, megis *Lives of the Engineers*, Samuel Smiles (1862) a *Lives of Boulton and Watt* (1865) yma hefyd. Ond nid syndod yw bod rhai o brif gofiannau'r canon Seisnig yn bresennol, megis cofiannau Izaak Walton i John Donne, Henry Wooton, Richard Hooker,

---

[16] Un ymhlith nifer sy'n tystio i ddiddordeb Owen Thomas mewn darllen yw Eleazar Roberts, gw. 'Adgofion henwr', *Y Geninen* (1907), 41-2; D. Ben Rees, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979), t.275; J. J. Roberts (Iolo Carnarvon), *Cofiant y Parchedig Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon, [1912]), t.505.

[17] Yn 1893,cyhoeddwyd catalog yn cynnwys tua 7,500 o gyfrolau. Gw. *Catalogue of Dr. Owen Thomas's Library, in the Calvinistic Methodists (or Welsh Presbyterian) Theological College, Bala, North Wales* (Dolgelley, 1893) (175 tt).

George Herbert a Robert Sanderson o'r ail ganrif ar bymtheg (arg. 1824), cofiant Thomas Coke a Henry Moore i John Wesley (1792; arg. 1824) a chofiant J. A. Froude i Thomas Carlyle (1882-4). Serch hynny, yn ddiddorol iawn, nid oes sôn yn y catalog am ddau glasur canon Seisnig y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef cofiant James Boswell i Samuel Johnson a chofiant John Gibson Lockhart i Walter Scott. Mae hyn yn gryn syndod o gofio i Saunders Lewis dystio mai hwy oedd ei hoff gofianwyr ac mai argraffiad George Birkbeck Hill o'r *Life of Samuel Johnson* oedd 'ffefryn ei lyfrgell'.[18]

Er bod llai o gyfrolau Cymraeg yn y casgliad, y maent yn adlewyrchu'r un diddordebau. Ceir cyfrolau diwinyddol, cyfrolau o bregethau a Beiblau, cylchgronau, gweithiau hanesyddol, gweithiau llenorion a beirdd, megis Ceiriog, Gwallter Mechain, Dafydd ap Gwilym, Ieuan Glan Geirionydd a Lewis Glyn Cothi. Dengys y casgliad hefyd fod Owen Thomas yn gyfarwydd iawn â'r traddodiad cofiannol Cymraeg. Ceir yma gofiannau i nifer o bregethwyr amlwg megis Ebenezer Richard, Christmas Evans a John Elias, ynghyd â chyfrolau a ystyrid ymysg y difyrraf ac amlycaf o gofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis cofiant John Owen, Thrussington i Daniel Rowland, cofiant Edward Matthews, Ewenni i Thomas Richard, Abergwaun a chofiant Gwilym Hiraethog i William Williams y Wern.[19] Fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf, dylid cofio bod pwyslais deongliadol y cofiannau hyn ar gyflwyno'u gwrthrych yn ei gyd-destun yn arwyddo'r datblygiadau a fu ar ymdriniaeth ac adeiladwaith y cofiannau Cymraeg. Serch hynny, fel y dengys absenoldeb gweithiau Boswell a Lockhart uchod, mae'n rhaid ystyried nad yw'r catalog a gyhoeddwyd o reidrwydd yn adlewyrchiad o lyfrgell gyflawn Owen Thomas. Ni nodir ychwaith pryd y daeth

---

[18] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.354. Tebyg bod y clasuron hyn wedi eu cadw ym meddiant y teulu cyn gwerthu'r casgliad. Gellir maentumio y gwnaethpwyd yr un modd ag unrhyw nofelau a oedd yn ei lyfrgell. Tystia Saunders Lewis eto fod gan ei daid ddiddordeb mewn nofelau drwy nodi y credai 'fod Charlotte Bronte yn bwysicach na George Eliot, a bod *Wuthering Heights* Emily Bronte yn bwysicach na dim o waith ei chwiorydd'.

[19] Er mai pregethwyr yw'r mwyafrif o wrthrychau'r cofiannau, ceir ambell gofiant secwlar, megis y cofiant a gyhoeddwyd i'r newyddiadurwr a'r anturiaethwr H. M. Stanley (1890).

rhai o'r cyfrolau hyn i'w law,[20] ac felly dylid arfer peth gofal wrth bwyso ar y ffynhonnell werthfawr hon wrth geisio maentumio pa weithiau a fu'n ddylanwadol ar y cofiannydd ei hun.

### 2.1.2 'y llyfrau galluocaf a mwyaf awgrymiadol': nodiadau llenyddol *Y Traethodydd*

Ffynhonnell arall o bwys yw'r 'Nodiadau llenyddol' y bu Owen Thomas yn eu llunio i'r *Traethodydd* yn ystod ei gyfnod fel cyd-olygydd ar y cyfnodolyn rhwng 1855 a 1865.[21] Yr adolygiadau byrion hyn fu prif gyfraniad creadigol Owen Thomas i'r *Traethodydd* yn y cyfnod,[22] a gellir maentumio ei fod yn waith a oedd wrth fodd y llyfrgarwr. Tybed nad oedd hefyd yn orchwyl perthnasol a defnyddiol wedi iddo ddechrau ymgodymu â pharatoi'r cofiant i John Jones yn yr un cyfnod.[23] Wrth gwrs, mae'n rhaid cofio mai sylwadau cyffredinol yw'r nodiadau hyn ar y cyfan. Ymgais ydynt gan Owen Thomas i fwrw golwg ar rai o'r cyfrolau diweddaraf i ddyfod o'r wasg ac i 'alw sylw neillduol at y llyfrau galluocaf a mwyaf awgrymiadol adnabyddus i ni ar ba destyn bynag a farner genym yn angenrheidiol neu yn ddymunol cyfeirio meddyliau ein darllenwyr atynt'.[24] Wrth daro golwg ar y nodiadau hyn, hawdd y gellir cytuno â D. Ben Rees, pan ddywed y cyfleir ynddynt 'ehanger gwybodaeth ac

---

[20] Cyhoeddwyd argraffiad George Birkbeck Hill o'r *Life of Johnson*, er enghraifft, mewn chwe chyfrol yn 1887, ond mae'n bosibl bod Owen Thomas wedi darllen argraffiad amgen o'r gwaith flynyddoedd ynghynt. George Birkbeck Hill (gol.), *Boswell's Life of Johnson, including Boswell's Journal of a Tour to the Hebrides and Johnson's Diary of a Journey into North Wales* (New York, 1887).

[21] Er nad yw enw Owen Thomas yn ymddangos wrth droed y 'Nodiadau' hyn, gw. William Phillips, *Mynegai i'r Traethodydd (1845-95)* (Cyfrol II) (Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru, 1978), t.670. Ef oedd olynydd Lewis Edwards. Gw. hefyd Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.266-76; Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.509-12.

[22] Cyfrannodd hefyd ddwy erthygl, sef 'Duwinyddiaeth Llanbedr', *Y Traethodydd* (1856), 246-75 ac 'Yr esboniadau', *Y Traethodydd* (1859), 198-211. Ceir rhestr o'i gyfraniadau i'r *Traethodydd* rhwng 1845 a 1872 yn Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.522-3.

[23] Derbyniodd yr alwad yn 1857, ac er nad oes tystiolaeth bendant, gellir bod yn bur hyderus fod y rhan o'r cofiant sy'n ymdrin â hanes bywyd John Jones wedi ei gwblhau i bob pwrpas erbyn hanner olaf y 1860au. Gw. pennod 3, tt.147-56, am hanes ysgrifennu *Cofiant John Jones, Talsarn*.

[24] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1862), 125.

ysgolheictod Owen Thomas'.[25] Megis ei lyfrgell, mae meysydd y llyfrau a adolygir yn amrywio, gan gynnwys hanesyddiaeth, athroniaeth, gwyddoniaeth, meddygaeth, llenyddiaeth a beirniadaeth lenyddol. Hanes crefydd a diwinyddiaeth, fodd bynnag, sy'n cael y prif sylw, ond o dro i dro fe rydd Owen Thomas ei farn ar rai o'r cofiannau a gyhoeddwyd yn Gymraeg a Saesneg yn y cyfnod. Er mai sylwadau canmoliaethus a geir gan mwyaf, rhydd y nodiadau hyn olwg i ni ar ei ddaliadau llenyddol a beirniadol, megis ei gred y dylai unrhyw lyfr da, waeth beth fo'i ddadl neu ei safbwynt, ysgogi meddwl y darllenydd, ei 'dynu . . . i siarad âg ef. . . . [a'i] arwain i ymchwil mwy manwl drosto ei hunan am y gwirionedd'.[26] Dyma sut y gall ganmol y gyfrol *Dissertations and Discussions, Political, Philosophical and Historical* gan yr athronydd John Stuart Mill er ei fod yn llwyr anghytuno â'i safbwyntiau crefyddol a moesol.[27] Awgryma hyn fod yma ymgais at feirniadaeth lenyddol ac nad yw'r 'Nodiadau' wedi eu sylfaenu'n unig ar ragfarn athrawiaethol a moesol. O'u trin yn ofalus, felly, gellir dadlau bod sylwadau Owen Thomas ar gofiannau'r cyfnod yn amlygu rhai pwyntiau penodol ynglŷn â chofiannaeth a chrefft cofiannu.

Yn gyntaf, gwêl Owen Thomas werth mawr mewn cofiannu bywydau duwiol a defnyddiol, ac nid yw'n syndod mai cofiannau i ddiwinyddion a gwŷr crefyddol a drafodir gan amlaf yn ei 'Nodiadau'.[28] Er nad yw o reidrwydd yn mynnu mai gwrthrychau amlwg a dylanwadol yn unig y dylid eu cofiannu, y mae agwedd o'r fath yn gydnaws â phwyslais yr oes ar gofiannu bywydau gwŷr cyhoeddus a dylanwadol. Pwrpas darlunio'r bywydau hynny oedd cyflwyno esiampl o un a ddyrchafodd ei hun yn wyneb anawsterau'r byd i 'sefyllfa

[25] Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.271. Dyma wedd arall arno sy'n cael sylw gan sawl sylwebydd.
[26] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1862), 126. Mae'n deg dweud yma ei fod yn pwysleisio ei fod yn ystyried darllenwyr *Y Traethodydd* fel 'efrydwyr', sef y deallus a'r dysgedig, ac na fuasai'n ymddiried yr un sylwadau i'r 'difeddwl'.
[27] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1860), 503-4.
[28] Er bod y 'Nodiadau llenyddol' yn cynnwys sylwadau ar gofiannau gwŷr secwlar yn ogystal, megis cofiant Thomas Carlyle i Friedrich II o Brwsia, cofiant Henry Richard i'r dyngarwr, Joseph Sturge, a thrafodaeth ar y gyfrol *Biographies of Distinguished Scientific Men* gan F. Arago. Gw. 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1858), 501; 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1864), 379-80; 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1857), 379.

uchel mewn anrhydedd a defnyddioldeb i'w oes', ys dywed am y cofiant *Memoirs of John Kitto*.[29] Ac mae buddioldeb y fuchedd yn bwysicach, wrth gwrs, os yw wedi ei chyflawni ym myd yr ysbryd.[30] Yn wir, mae'n arwyddocaol bod Owen Thomas yn tueddu i gysylltu cofiannaeth a hanesyddiaeth yn yr un modd ag y gwnaethai Thomas Charles ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma elfen sydd hefyd yn adleisio ymdriniaeth Carlyle ac eraill yn Lloegr a oedd yn diffinio cyfnod drwy gyfrwng ei gwŷr mawr. Ac mae defnydd golygydd *Y Traethodydd* o'r gair 'hanes' yn ddadlennol wrth drafod *The Life of Martin Luther*, gan fod y darlun 'amhleidgar' a gynigir o'r diwygiwr fel petai'n dwysáu neu gyfreithloni dylanwad y bywyd hwnnw: 'Yr ydym yn teimlo fod y gwir Luther yn dyfod ger ein bron yn yr hanes hwn. Ac mae hynny nid yn unig yn iawn, ond mewn cysylltiad âg ef yn ddigon i wneyd ei fywyd, heb un gorliwiad, yn un o'r rhai mwyaf effeithiol a roddir i ni yn holl hanes y byd.'[31]

Yr ail elfen i'w hamlygu ei hun yn y 'Nodiadau' yw ymroddiad y cofiannydd i'w waith. I Owen Thomas, nid gorchwyl i'w gymryd yn ysgafn oedd cofiannu bywyd gwrthrych, ac mae'n amlwg y gwêl ddifrifwch a llawnder yr ymdriniaeth yn safon anhepgorol. Ond y mae i ymroddiad a manylder y dehongliad arwyddocâd pwysicach na gofal am ffeithiau yn unig. Y mae'n cysylltu yn uniongyrchol â gwrthrychedd y portread a gyflwynir ac awdurdod y cofiannydd ar ei waith, ac yn hynny o beth adlewyrchai Owen Thomas syniadau'r oes

---

[29] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1856), 387.

[30] Gw., er enghraifft, ei drafodaeth o *Bywgraffiad y Parch Thomas Richard*, 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1864), 131.

[31] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1858), 257. Diddorol yw nodi sylwadau Griffith Parry yn ei adolygiad ar y gyfrol *Buchdraeth y Diweddar Barchedig John Hughes, Liverpool, Awdwr "Methodistiaeth Cymru"* a ymddangosodd yn *Y Traethodydd* yn 1864 (ceir sylwadau ar y gyfrol gan Owen Thomas yn yr un rhifyn). I'r awdur hwn, roedd diffyg gwerthfawrogiad cenedl o'i 'dynion mawr a da' yn arwydd o ddirywiad y genedl honno. Dywed ymhellach fod y naill beth yn bwydo ar y llall: 'Y mae llawer o *hero-worship* yn y deyrnas hon; a thra y pery hyn ar egwyddorion cywir, ni raid i ni anobeithio yn hollol weled *Heroes* yn cyfodi yma eto' (Griffith Parry, 'Adolygiad ar *Buchdraeth y Diweddar Barchedig John Hughes, Liverpool, Awdwr "Methodistiaeth Cymru"*', *Y Traethodydd* (1864), 352). Er nad oes tystiolaeth bendant fod Owen Thomas o'r un farn, byddai'n sicr o fod wedi gweld y geiriau yn rhinwedd ei swydd fel golygydd, ac mae'n cyfeirio yn benodol at yr adolygiad ar ddechrau ei sylwadau ef ar y gyfrol yn yr un rhifyn ('Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1864), 380).

parthed gallu cofiannydd i gyflwyno portread cyflawn a diduedd o'i wrthrych. Sonia, er enghraifft, fod y diwygiwr John Huss (Jan Hus) wedi bod yn ffodus iawn yn ei gofiannydd am ei fod 'o ddifrif' a'i fod wedi ymroddi 'ei holl galon' i'r gwaith. Canmolir 'ymchwiliad manwl a gofalus, dysgeidiaeth ëang a chywir' yr awdur, ynghyd â bod ganddo '[f]eddwl wedi ei drwytho gan gariad at y gwirionedd'.[32] Gellir dadlau y gwêl Owen Thomas bwysigrwydd cyffredinol yn yr elfen hon gan mai trylwyredd a manylder yw un o'r prif rinweddau a berthyn i waith athronyddol John Stuart Mill a gwaith hanesyddol J. A. Froude yn ogystal.[33] Daw hyn i'r amlwg wrth iddo drafod cyfrol John Cotter Macdonnell, *The Doctrine of Atonement*, lle dywed fod y gwaith 'o nodwedd uwch' na chyfrolau eraill ar y pwnc oherwydd ei bod 'yn amlwg wedi costio i'r awdur lafur meddwl mawr, manwl a maith'.[34]

Y mae sylw Owen Thomas uchod ynglŷn â chael adnabod y 'gwir' Luther yn amlygu'r trydydd pwynt sy'n codi o'r 'Nodiadau Llenyddol', sef bywiogrwydd y portread a gynigir gan y cofiannydd. Ategu at fanylder y gwaith a wna gallu cofiannydd John Huss i gynhyrchu 'desgrifiadau naturiol ac effeithiol' sy'n amcanu at 'ail-greu' y gwrthrych o flaen llygaid y darllenydd. Ac mae cofiannydd y 'swp o hynodrwydd' hwnnw, y pregethwr Dafydd Rolant, er enghraifft, wedi llwyddo 'i'w adgyfodi megys o blith y meirw i gymdeithasu drachefn â'r rhai oedd adnabyddus o hono yn ei fywyd'. Arwydd o gofiant da, felly, yw un sy'n cyflwyno 'y ddirnadaeth oreu' o'r gwrthrych.[35] Unwaith eto, daw'n amlwg fod y gallu portreadol hwn ynghlwm wrth wirionedd a gwrthrychedd y darlun a gyflwynid. Dyma sut y gall ganmol cofiant John Hughes, Lerpwl (hanesydd Methodistiaeth) am ddwyn y gwrthrych yn ôl i gof ei gyfoeswyr yn ogystal â '[ch]ynorthwyo yr oesoedd a ddelont ar ol i

[32] Ibid., 377.
[33] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1860), 503; 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1858), 503.
[34] Ibid., 505.
[35] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1864), 382.

ffurfio dirnadaeth gywir am dano'.[36] Y mae'r elfen hon hefyd yn cysylltu cofiannaeth a hanesyddiaeth â'i gilydd, gan nad y gwrthrych yn unig a ddaw'n fyw ar dudalennau cofiant Thomas Richard ond y cyfnod a'i gymdeithas yn ogystal, ac mae gwrthrychedd neu wirionedd ffeithiol y portread yn hanfodol unwaith eto: 'Mae ei fywgraffiad yn ein dwyn yn ôl at yr amser pan yr oedd Mr Llwyd o Gaio, Mr Jones o Langan, Mr Charles o'r Bala, Mr Ebenezer Morris, Mr Elias o Fôn, ac amryw eraill o'r rhai a hunasant ers talm, eto gyda'r gwaith.'[37] Ac mae'n ddiddorol mai 'gallu desgrifiadol dirfawr' a dawn i bortreadu yw'r nodwedd amlycaf a ganmolir yng ngweithiau'r hanesydd Thomas Babington Macaulay, ac yn benodol yn ei *History of England*.[38] I Owen Thomas a'i oes, felly, yr oedd gwrthrychedd yn safon bendant y dylid ymgyrraedd tuag ati, un a oedd yn clymu'r hanes a'r portread ynghyd o dan awdurdod y cofiannydd, ac mae'r ddamcaniaeth hon yn dal i'w harfer gan rai cofianwyr hyd heddiw.[39] Serch hynny, ymddengys nad gwrthrychedd yw'r unig safon ar gyfer cofiant da ym marn Owen Thomas. Er enghraifft, gall ganmol 'athrylith ddysglaer' Thomas Carlyle yn ei gofiant i Friedrich II, er bod darlun gwerthfawrogol y cofiannydd o dad y brenin yn anghydnaws â'r dystiolaeth a gyflwynir.[40] Nid bai mawr oedd disgyn yn brin o'r safon ambell

---

[36] Ibid., 381. Mae sylwadau o'r fath yn adleisio geiriau Owen Thomas, yn y llythyr at David Jones a ddyfynnwyd uchod, lle dywed mai ei nod oedd creu darlun o John Jones, Tal-y-sarn a fyddai'n sail i adnabyddiaeth cenedlaethau'r dyfodol.

[37] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1864), 132. Gw. fy sylw am ddiffinio'r cyfnod yn ôl ei wŷr amlwg uchod (t.97). Tybed nad oes yma yn ogystal y tinc hiraethus a geir gan Owen Thomas pan yw'n sôn yn ei gofiannau am y genhedlaeth a fu. Sonia John Morgan, yn ogystal, am y siom a deimlodd Owen Thomas oherwydd iddo gael ei ordeinio ym Mangor, ac nid yn y Bala, lle yr ordeiniwyd, chwedl yntau, '[g]ynifer o'r hen dadau Methodistaidd'. Cysylltir y sylw hwn gan John Morgan â 'cheidwadaeth' (John Morgan, 'Y Parch. Owen Thomas, D.D.', *Y Drysorfa* (1900), 158).

[38] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1860), 382; 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1862), 127. Diddorol yma yw cyfeiriad D. Ben Rees yn ei gofiant at y gymhariaeth a wnaeth Evan Price rhwng Macaulay ac Owen Thomas. Er mai cyfeirio at wybodaeth a chof dihysbydd y ddau a wnaeth Evan Price, mae'r gymhariaeth hefyd yn ddiddorol o ystyried y sylwadau a geir isod gan sylwebyddion am allu disgrifiadol neu storïol y naill a'r llall. Gw. *Pregethwr y Bobl*, t.246. Gw. ymhellach y sylwadau ar gof Owen Thomas isod.

[39] Gw. sylwadau Robin Chapman parthed 'anelu am wrthrychedd', yn 'Cyffes cofiannydd', *Llais Llyfrau* (Hydref 1994), 7.

[40] 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1858), 501. Sylw Owen Thomas yw 'y mae yn eglyr mai anhawdd iawn ganddo ef ydyw cydnabod bai ynddo.' Ymhellach, wrth drafod cyfrol disgybl Carlyle (a'i gofiannydd yn ddiweddarach), James Anthony Froude, *History of England from the Fall of Wolsey to the Death of Elizabeth* (1856) yn yr un rhifyn, sonia am bortread 'unochrog' yr hanesydd o'r brenin Harri VIII. Serch hynny, gwêl werth diamheuol i'r gyfrol fel cyfraniad at hanesyddiaeth y cyfnod. Cytuno â barn Owen Thomas am ddarlun Froude o'r 'teyrn' Harri VIII a wna A. O. J. Cockshut pan ddywed fod y gyfrol yn enghraifft o'r problemau

waith os gellid, ar y cyfan, dynnu'r portread gorau y gellid ei gael o'r gwrthrych. Dyma'r tensiwn creadigol a amlygid yng ngwaith y cofiannydd, rhwng y ffeithiau (y deunyddiau a'r ffynonellau a ddefnyddid) a'r dehongliad o'r ffeithiau hynny, tensiwn a elwir gan A. O. J. Cockshut, 'the great strategic difficulty of biography [as an art]'.[41]

### 2.1.3 'llwyrder a thegwch': ymdriniaeth Owen Thomas â'i destunau

Yn wir, cadarnhau'r tueddiadau neu elfennau a bwysleisir yn y 'Nodiadau Llenyddol' hyn a wna sylwadau awduron eraill ar Owen Thomas fel llenor a phregethwr. Ni cheir gwell disgrifiad nag eiddo Evan Davies, a ddywedodd fod ei erthyglau i'r *Traethodydd*, 'oll yn dangos cydnabyddiaeth drwyadl â'r materion, a thegwch anarferol yn yr ymdriniaeth arnynt'.[42] Adleisiwyd y pwyslais ar drylwyredd Owen Thomas ac ehangder ei wybodaeth gan sawl un o'i gyfoeswyr, megis pan nododd Eleazar Roberts fod ganddo 'yr un eglurder a manylder yn ei ymdriniaeth â phwngc' â'i hen athro dylanwadol ym Mhrifysgol Caeredin, Thomas Chalmers.[43] Mwy arwyddocaol yw'r ffaith fod beirniaid modern yn ogystal yn talu teyrnged i'w ddiwydrwydd a'i ofal cyson dros gyflawni safonau ysgolheictod ei gyfnod, megis pan ganmola Densil Morgan ei ysgrif, 'Diwinyddiaeth Rhydychen' yn *Y Traethodydd* yn 1845 am ei 'minute knowledge of the literature . . . and his grasp of the doctrinal and

---

deongliadol a gyfyd pan nad yw'r ffeithiau sy'n sail i bortread yn cyd-fynd â'r portread hwnnw: 'the facts may break through [the line of interpretation] and destroy it' (*Truth to Life*, t.12).

[41] Ibid., t.13.

[42] Evan Davies, 'Y Parch. Owen Thomas, D.D.', *Ceninen Gwyl Dewi* (1895), 17. Sonia Griffith Ellis, er enghraifft, fel y byddai'n edmygu'r elfen olaf hon yn Owen Thomas a John Hughes wrth wrando ar sgyrsiau'r ddau dros y baned o de a geid cyn y 'Seiat Fawr' a gynhelid ar nos Lun yn Lerpwl – sgyrsiau a fyddai'n aml yn troi at drafod amrywiol gyfrolau. Griffith Ellis, 'Adgofion am yr hybarch Ddoctor Owen Thomas', *Y Drysorfa* (1910), 5.

[43] Gŵr a fu'n fawr ei ddylanwad ar sawl un yn y Cyfundeb, megis Lewis Edwards. Roberts, 'Adgofion henwr', 40-1. Gw. sylwadau D. Ben Rees am Thomas Chalmers yn *Pregethwr y Bobl*, tt.66-8.

ecclesiastical implications of this catholicizing movement within the established church'.[44] Yn wir, gwelir bod manylder ei ymdriniaeth ynghlwm wrth ymdrech barhaus Owen Thomas i gyflwyno'i destunau mor eglur â phosibl. Nid rhyfedd hyn o gofio mai pregethu oedd ei briod faes. Sonia Evan Davies, Trefriw, er enghraifft, fod y gallu i gyflwyno'i genadwri yn eglur i'w gynulleidfa yn un o hanfodion pregethwr da, ac mai ansicrwydd a diffyg meistrolaeth y pregethwr ar ei bwnc sy'n creu tywyllwch mewn pregeth. Ymddengys na welai y bai hwnnw ar bregethau Owen Thomas gan mai 'eglurdeb digyffelyb' yw eu prif nodwedd.[45] I John Morgan yntau, 'eglurder a nerth' oedd hanfod pregethu Owen Thomas, ac mae hynny'n gyfystyr â difrifwch amcan a diben y bregeth:

> Yr oedd trafferth anorfod bron wedi ei chymeryd ganddo i chwilio allan feddwl ei destun, ac ynglŷn a hyny meddai allu digyffelyb i osod y meddwl hwnnw allan ac i'w wneud yn eglur i'w wrandawyr . . .[Y]r oedd ei holl bregethau wedi ei seilio ar yr eglurhadaeth fwyaf dwfn.[46]

Elfen arall a fyddai wedi cryfhau'r duedd hon yn ei waith, wrth gwrs, oedd ei ddiddordeb mewn esboniadaeth feiblaidd, megis ei lafur mawr yn cyfieithu esboniad John Kitto i'r Gymraeg rhwng 1863 a 1882. Soniodd Robert Rhys yn ddiweddar mai egwyddorion

---

[44] D. Densil Morgan, 'Owen Thomas (1812-91) and the Welsh Nonconformist response to the "Lampeter Theology"', *Welsh Journal of Religious History*, 1 (2006), 39. Noda yn ogystal am *Cofiant John Jones, Talsarn*, '[it] remains unsurpassed as a minute description and analysis of the history of Welsh theology during its golden age'. Gw. ymhellach sylwadau John Aaron yn ei ragymadrodd i'w gyfieithiad o bennod Owen Thomas ar ddadleuon diwinyddol Cymru yn *Cofiant John Jones, Talsarn*. Er ei fod yn amlygu diffygion y gwaith yn ogystal â'i ragoriaethau, mae'n cydnabod awdurdod Owen Thomas ar ei fater: 'he is surveying some fifty years of discussions. And he does so in great detail.' Gw. John Aaron, 'Introduction', yn *The Atonement Controversy in Welsh Theological Literature and Debate, 1707–1841* (Edinburgh, 2002), t.xix; Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.259.

[45] Noda fod 'pob ymdriniaeth o'i eiddo, ar ba fater bynag fyddai dan sylw, yn hynod glir ac i'r pwynt' (Davies, 'Y Parch. Owen Thomas', 15). Mae'n anodd gwybod i ba raddau yr ystyriai Owen Thomas ei hun yn 'bregethwr esboniadol'. Eto, gwelir ei sylwadau wrth ymateb i bapur John Hughes ar 'Bregethu Esboniadol' yn un o gyfarfodydd y gweinidogion yn Lerpwl. Gw. Griffith Ellis, 'Cyfarfod y gweinidogion Cymreig yn Liverpool a'r amgylchoedd', *Y Drysorfa* (1900), 211.

[46] Morgan, 'Y Parch. Owen Thomas', 310 a 345. Yn ei ragymadrodd i'r gyfrol o bregethau a gyhoeddwyd wedi marwolaeth Owen Thomas, mae ei frawd Josiah Thomas yn sôn y byddai'n arfer ysgrifennu'r rhagymadrodd yn bur ofalus, ynghyd â'i ymdriniaeth â'r pen cyntaf. Ond yn aml, byddai'n ymddiried yn ei gof wrth draddodi y bregeth. Gw. *Pregethau y Parchedig Owen Thomas*, t.vii. Yr un byrdwn sydd i hanesyn Eleazar Roberts amdano'n gadael pregeth ar ei hanner un bore a theithio yn y bws draw i siop lyfrau yn Lerpwl er mwyn ymgynghori â chyfrol yno a fyddai'n cynnig eglurhad ar ystyr adnod. Yr oedd wedi benthyg ei gopi ei hun o'r gyfrol i gyfaill; Roberts, 'Adgofion henwr', 41-2.

sylfaenol esboniadau dylanwadol James Hughes yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd 'Deall, a rhoi ar ddeall i eraill, defnyddio ffynonellau, ond nid ar draul myfyrdod annibynnol.'[47] Er i esboniadaeth newid a datblygu tua chanol y ganrif yn sgil dyfodiad uwchfeirniadaeth, diau i'r nodwedd sylfaenol o 'roi ar ddeall i eraill' aros. Gwelir mai manylder ac eglurder sydd wrth wraidd sylwadau Owen Thomas wrth ddadansoddi'r broses fanwl a gofalus o ymdrin â llenyddiaeth a beirniadaeth Feiblaidd:

> Y mae'n rhaid i'r beirniad sefyll uwch ben yr holl ddarlleniadau hyn; cymharu y gwahanol ysgrifau a'u gilydd; cymharu rhai gwahanol wledydd; cymharu rhai gwahanol oesoedd; cadw ei lygaid i fesur yn agored ar nodwedd cyffredinol iaith ei awdwr neu ei awdwyr; peidio annghofio yn gwbl gynwys, ystyr, ac amcan y testunau cysegredig; ymgadw, yr un pryd rhag cael dylanwadu arno yn ormodol gan ei dueddiadau tufewnol, ond cymeryd ei lywodraethu, tra yn arfer ei farn, gan y tystiolaethau ger ei fron . . . ac, wedi dwyn y cwbl yma at ei gilydd, ceisio penderfynu pa air neu eiriau a arferid yn mhob amgylchiad o amrywiaeth gan yr ysgrifenwyr sanctaidd.[48]

Cyhoeddodd Owen Thomas ei gyfieithiad o'r esboniad ar *yr Epistol at yr Hebreaid*, ynghyd ag ychwanegiadau helaeth, fel cyfrol ar wahân yn 1889. Unwaith eto, soniodd ei gofiannydd fod ei waith esboniadol yn arddangos yr un trylwyredd ymchwil a gwybodaeth eang, ynghyd â'i 'ddawn ddihafal, yr uchaf, o bosibl, o'i ddoniau oll . . . i gyflwyno ei feddwl ar gwestiynau mwyaf dyrys Esboniadaeth, mewn iaith syml, naturiol, ac mewn dull a'i gwnâi'n ddealladwy i bawb'.[49] Mae'n ddiddorol mai'r hyn sy'n arwyddocaol i Owen Thomas a'i gyfoeswyr am ei eglurder a'i drylwyredd fel pregethwr ac esboniwr, felly, yw gwrthrychedd honedig y gwaith ac awdurdod pendant yr awdur ar ei bwnc.

---

[47] Robert Rhys, *James Hughes: 'Iago Trichrug'* (Caernarfon, 2007), t.81.

[48] Owen Thomas, 'Perthynas llenyddiaeth ysgrythyrol a llenyddiaeth a gwybodaeth gyffredinol', *Y Llenor* (Chwefror 1860), 26-7.

[49] Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, t.516. Gw. hefyd Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.254. Cymharer hynny â sylw Iolo Carnarvon ar Owen Thomas fel cofiannydd, lle noda ei fod 'yn gydwybodol i'r eithaf yn ei ymchwil' a bod ganddo ddawn ddiamheuol 'i adrodd ffeithiau a digwyddiadau . . . gyda'r manylder mwyaf, ac ar yr un pryd, yn y fath fodd ag i wneud yr hanes yn dra swynol' (Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, t.531).

Fel yr awgryma geiriau Iolo Carnarvon uchod, fe ganmolwyd Owen Thomas, yn ôl safonau'r oes beth bynnag, am ei ddawn i'w fynegi ei hun yn effeithiol. 'As a writer', meddai D. E. Jenkins, 'Owen Thomas has a way with him of making everything he touches interesting'.[50] Ond mae'n bwysig deall nad canmoliaeth gyffredinol ar ei arddull a geir yma. Y mae D. E. Jenkins yn llygad ei le pan noda mai yn y rhannau hynny o *Cofiant John Jones, Talsarn* sy'n cyflwyno hanesion neu atgofion y mae Owen Thomas ar ei orau yn hyn o beth. Dawn bortreadol a storïol yw eiddo Owen Thomas, felly; yr un ddawn i lunio disgrifiadau a phortreadau difyr ag a ganmolai yntau yng ngwaith Thomas Babington Macaulay. 'Pwy yn well nag ef', meddai Eleazar Roberts, 'am elfenu cymeriad a doniau hen bregethwyr Cymru? Mae ei hanes am danynt . . . yn un o'r pethau goreu . . . sydd yn y cofiant.'[51] A sonia Saunders Lewis yn ei erthygl ar y cofiant Cymraeg am ffoli ar y rhannau 'disglair ac ysblennydd' a geir yn y cofiant i John Jones.[52] Fodd bynnag, nid oedd ei ymdrech i fod mor eglur ag y gallai yn dwyn yr effaith a ddymunid bob tro. Er bod D. E. Jenkins yn canmol y rhannau hynny lle gall ymglywed drachefn â llais Owen Thomas y sgwrsiwr a'r storïwr difyr ymhlith y geiriau printiedig, dywed fod rhannau eraill o'r cofiant yn aneglur ac anodd eu darllen. Noda mai'r rhannau gwaethaf yw 'his explanations, and amplifications of details – in which his sentences are abominably involved and contorted'.[53] Ac nid yn ei gofiannau yn unig y byddai 'amleiriaeth' yn andwyo'i arddull. Yn ôl Evan Davies, bai ydoedd a ddeilliai, yn baradocsaidd braidd, o'i ymdrech i fod yn eglur a dadansoddol. Mewn brawddeg ddigon amleiriog ei hun, dywed fod gan Owen Thomas 'y fath ofal am fod yn eglur, a'r fath bryder am i'r darllenydd ddeall ei feddwl yn hollol yn yr un goleuni ag ef ei hun, fel y lliosogai

[50] D. E. Jenkins, 'A review and revision of the biography of John Jones, Talsarn by Owen Thomas' (MA Dissertati (Liverpool), 1924), t.330. Sonia Jenkins am ddull Owen Thomas o adrodd straeon: 'an unhalting narrative, sunny and serene – as like the biography [*Cofiant John Jones, Talsarn*] as possible' (t.331). Yn sicr, fel y gwelir o'm trafodaeth ym mhennod 4, y mae'r arddull yng nghofiant Henry Rees yn 'storïol' iawn mewn sawl man.
[51] Roberts, 'Adgofion henwr', 44.
[52] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.355. Gw. hefyd sylw Griffith Parry am 'fawredd mynegiad' Owen Thomas wrth bregethu ('Y Diweddar Barchedig Owen Thomas D.D.', *Y Drysorfa* (1891), 323).
[53] Jenkins, 'Review and revision', tt.331-2.

adranau eglurhaol mewn llawer o'i frawddegau, y rhai, os na sylwid yn fanwl iawn ar yr atalnodau, a dywyllent y meddwl yn lle ei egluro'.[54] Yn wir, ymddengys fod Owen Thomas ei hun yn gwbl ymwybodol o'r gwendid hwn ac yn gresynu na allai ymatal rhag yr arfer, megis pan soniodd wrth Daniel Rowlands un tro 'nad allai geisio ysgrifenu ar ddim nad ydoedd o dan ei ddwylaw yn myned yn *dissertation*'.[55] Dyma arddull eiriog, haniaethol a Seisnig ei chystrawen a oedd yn nodweddiadol o lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac a feirniadwyd yn hallt gan feirniaid yr ugeinfed ganrif.[56] Ar ei orau, fodd bynnag, dengys tystiolaeth ei gyfoeswyr fod gan Owen Thomas allu i gyfuno manylder ac eglurder ymdriniaeth â bywiogrwydd ymadrodd a dawn bortreadol er mwyn cyflwyno i'w ddarllenwyr ddarlun cofiannol llawn 'llwyrder a thegwch' sy'n dwyn y 'gwir' wrthrych i'r wyneb.[57]

## 2.2. 'YN NWYLAW Y DARLLENYDD': HUNAN/GOFIANNAETH OWEN THOMAS

Yn rhagymadrodd cyfrol gyntaf *Cofiant Henry Rees* (1890) gesyd Owen Thomas y cymhellion a'i perswadiodd i ymgymryd â llunio'r gwaith. Sonia am daerineb galwadau'r teulu arno i lunio'r cofiant, ynghyd â'i bryder mawr ei hun

> . . . rhag ofn i'r fath goffadwriaeth bendigedig – y gwyddwn a allasai, ond ei bortreadu i ryw raddau y fath ag ydoedd, fod mor nodedig o wasanaethgar a

[54] Davies, 'Y Parch. Owen Thomas', 18.
[55] Daniel Rowlands, 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1896), 473. Dyfynnir yn ogystal yn Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, t.505.
[56] Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944), tt.253-4. Dyfynna Thomas Parry o gofiant Owen Thomas i Henry Rees i amlygu'r tueddiadau hyn yn ysgrifennu'r cyfnod. Gw. ymhellach sylwadau Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.355; Jenkins, 'Review and revision', t.331; Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.237-8 a 243-5.
[57] Davies, 'Y Parch. Owen Thomas', 18.

> bendithiol i Gristionogion ein gwlad, yn enwedig i'n pregethwyr ieuainc, – gael ei esgeuluso . . . [58]

Does dim dwywaith nad yw llesgedd henaint yn bwydo'r gwyleidd-dra awdurol arferol yn y dyfyniad uchod. Serch hynny, diddorol yw canfod sylwadau o'r fath yn rhagymadrodd y cofiant, lle ymddengys fod Owen Thomas fel petai'n cydnabod bod cyfyngiadau ar allu unrhyw gofiannydd i gyflwyno dehongliad cofiannol cyflawn o'i wrthrych. Gwelwyd eisoes fod gwrthrychedd neu ymdriniaeth gofiannol 'amhleidgar' yn safon gofiannol i Owen Thomas, ond nad oedd diffyg gwrthrychedd, onid goddrychedd digywilydd, yn rhwystr iddo rhag gwerthfawrogi dawn cofianwyr eraill i gyflwyno portread effeithiol o'r gwrthrych. Yn hyn o beth, yr oedd yn adlewyrchu'r tensiwn a fodolai ymhlith cofianwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg rhwng gwrthrychedd honedig a goddrychedd gwirioneddol y darlun cofiannol a gynigid, a'r berthynas anesmwyth rhwng tystiolaeth a dehongliad – elfen a gymhlethid ymhellach gan amcanion hyfforddiadol ac amddiffynnol nifer o gofiannau'r cyfnod. Erbyn heddiw, wrth gwrs, ystrydeb fyddai sôn am ddehongliad gwrthrychol a chyflawn o wrthrych mewn cofiant. Fel y nododd y beirniad llenyddol Cora Kaplan:

> Whatever one's ethical view of "authenticity" as a gold standard for life writing, it is now an almost clichéd assumption that autobiography and memoir inevitably construct and invent their authors as quasi-fictional characters. Biography, although it may seek to modify and correct self-representation, takes the same liberties.[59]

I gofiannydd megis Owen Thomas yn Oes Fictoria, yr oedd gosod gwrthrychedd fel nod yn fodd o gyflwyno ei awdurdod ef fel awdur ar wirionedd y darlun a gyflwynai yn y cofiant, ond mae safbwynt Cora Kaplan uchod yn adlewyrchu datblygiadau diweddar ym maes

---

[58] *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (Wrexham, 1890), t.vi. O hyn allan, bydd unrhyw gyfeiriadau unigol at *Cofiant Henry Rees*, nad oes angen ymhelaethu arnynt, yn ymddangos yn y testun. Cynhwysir y byrfodd *CHR* a rhif tudalen yn unig oni fydd amwysedd. Gw. pennod 4, tt.226-33, yn y traethawd hwn am fanylion ynglŷn â hanes llunio'r gyfrol.

[59] Cora Kaplan, 'Biographilia', yn idem, *Victoriana: Histories, Fictions, Criticism* (Edinburgh, 2007), t.65.

beirniadaeth lenyddol, a sawl maes arall, wrth ymdrin â *genre* llên bywyd[60] sy'n amau gwrthrychedd pur unrhyw destun llenyddol.[61] Ymddangosodd nifer o'r safbwyntiau hyn yn sgil rhai o'r prif ddatblygiadau theoretig a gafwyd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif parthed rhyngberthynas yr awdur â'i destun, â'i gynulleidfa. Er enghraifft, lleisiodd sawl beirniad amheuaeth ôl-fodernaidd ynglŷn â 'gwirionedd' yr hunan cyflawn ac adnabyddadwy a gyflwynwyd gan hunangofianwyr.[62] Yn hytrach, pwysleisiwyd bod goddrychedd a hunaniaeth yn rhywbeth 'various, fractured and indefinite . . . "what is *the* self?" and even "what is *a* self?" are questions that are ever more difficult to answer'.[63] Yr un cysyniad ôl-fodernaidd am farwolaeth neu ddadleoliad yr awdur a hyrwyddodd ymdriniaethau a oedd yn cwestiynu gwrthrychedd neu sefydlogrwydd testunau ac a ddyrchafai'r 'pwyslais ar y darniog, yr amodol, a'r dros-dro', ys dywed Angharad George.[64] Yn wir, un o nodweddion yr ymdriniaethau beirniadol hyn oedd cwestiynu purdeb gwahanol ffurfiau cofiannol – megis cofiant, hunangofiant, llythyr, dyddiadur neu gerdd – ac amwyso'r berthynas rhyngddynt.

---

[60] Nid oes, hyd y gwyddys, gyfieithiad Cymraeg o'r term 'life-writing'. Er bod 'llên bywyd' yn gyfieithiad digon addas yn Gymraeg er mwyn osgoi tueddiadau didactig termau megis 'buchedd-draeth' neu 'bucheddiaeth', y mae'n bwysig sylweddoli nad yw 'llên' yn yr achos hwn o reidrwydd yn dynodi gwerth 'llenyddol' i'r ffurfiau hyn.

[61] Gw., er enghraifft, Marcus, *Auto/biographical Discourses*, t.179; Brian Roberts, *Biographical Research* (Buckingham, 2002), tt.1, 33; David Amigoni, 'Introduction: Victorian life writing: genres, print, constituencies', yn idem (gol.), *Life Writing and Victorian Culture* (Aldershot, 2006), t.2. Yn wir, yr oedd datblygiadau beirniadol o'r fath yn cyd-oesi â datblygiadau mewn meysydd eraill. Ym myd cymdeithaseg, er enghraifft, ail-ganfuwyd gwerth mewn astudio hanes bywydau ('life histories'), fel ymgais i leoli'r unigolyn yn ei gymdeithas a deall ei ymateb i'r gymdeithas honno. Bu'r 'biographical approach', fel y'i gelwid, yn elfen boblogaidd iawn yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif ond collodd ddylanwad erbyn canol y ganrif.

[62] Marcus, *Auto/biographical Discourses*, t.179. Yn ôl Laura Marcus, gellir erbyn hyn sôn am theori neu feirniadaeth hunangofiannol, a noda mai prif bynciau'r trafodaethau yn fras oedd 'the nature and expression of subjectivity; the generic specificity of autobiography; the truth-status and referentiality of autobiography in relation to the fact-fiction dichotomy and the status of fictional entities'.

[63] Donald Hall, *Subjectivity* (New York and London, 2004), t.118.

[64] Angharad Wynne George, '"Mwtlai wyd di?": ôldrefedigaethedd, Cymru'r Oesoedd Canol a Dafydd ap Gwilym' (Traethawd Ph.D., Cymru (Caerdydd), 2010), tt.14. Gw. Roland Barthes, 'The Death of the Author' (1968), yn *Modern Literary Theory: A Reader*, gol. Philip Rice a Patricia Waugh (London, 1989). Am gyflwyniad i ôl-foderniaeth yng nghyd-destun y Gymraeg, gw. John Rowlands, 'Chwarae a chwedlau: cip ar y nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', *Y Traethodydd* (Ionawr 1996), 5-24. Gw. hefyd Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd, 2002); Angharad Price, 'Borshiloff', yn *Llenyddiaeth Mewn Theori*, gol. Owen Thomas (Caerdydd, 2006), tt.137-51.

Un o'r beirniaid mwyaf dylanwadol yn hyn o beth oedd Norman Denzin, a honnodd yn ei gyfrol *Interpretive Biography* (1989), y byddai'n gamarweiniol credu bod cofiant yn cyflwyno gwirionedd gwrthrychol gan mai creadigaeth lenyddol yw unrhyw destun bywgraffyddol: 'the languages of autobiographical and biographical texts . . . cannot be taken as mere windows into the "real" world of the "real" interacting subjects'.[65] Hyrwyddodd Denzin ac eraill rôl greadigol y cofiannydd, a'i brosesau llenyddol, wrth ymdrin â'r testun cofiannol.[66] I Denzin, felly, y mae'r cofiannydd yn creu darlun o'r gwrthrych a gyflwynir sy'n deillio o'r byd real, ac sy'n ymwneud ag unigolyn sy'n bodoli o fewn y realiti hwnnw. Dehongliad penodol y cofiannydd o'i wrthrych sy'n llywio'i ddarlun. 'Stories, then, like the lives they tell about, are always open-ended, inconclusive and ambiguous, subject to multiple interpretations'.[67] Daeth y pwyslais ar amwyso neu danseilio awdurdod yr awdur neu'r cofiannydd hollwybodus yn boblogaidd ymysg beirniaid ffeministaidd a lleiafrifol yn y 1990au ac esgorodd ar *genre* hunan/gofiannaeth (*auto/biography*).[68] Fel Denzin, gwrthodwyd yr egwyddor gofiannol mai pwrpas cofiant yw 'the reconstruction on paper of the essential fundamental person', a phwysleisiwyd bod dadansoddi'r testun a'r broses neu'r berthynas greadigol sy'n sail i'r testun hwnnw yn greiddiol i ddeall sut yr oedd cofianwyr yn creu a dehongli eu gwrthrychau.[69] O'r herwydd mae'r berthynas rhwng hunangofiannaeth a

---

[65] Norman K. Denzin, *Interpretive Biography* (Newbury Park and London, 1989), tt.22-3.

[66] Cymdeithasegydd arall dylanwadol yn y dadeni a fu ar faes astudio hanes bywydau oedd Daniel Bertaux. Gw. 'Introduction', yn Daniel Bertaux (gol.), *Biography and Society: The Life History Approach in the Social Sciences* (Beverly Hills, 1981), tt.1-15.

[67] Denzin, *Interpretive Biography*, t.81. Gw. hefyd Roberts, *Biographical Research*, t.49. Cymharer hyn â sylw Linda Anderson am amwysedd deongliadol yr hunangofiant, pan ddywed 'that there are many ways of writing a subject'. Linda Anderson, *Autobiography* (London and New York, 2001), t.87.

[68] Gw., er enghraifft, Cheryl Walker, 'Persona criticism and the Death of the Author', yn *Contesting the Subject: Essays in the Postmodern Theory and Practice of Biography and Biographical Criticism*, gol. William H. Epstein (Indiana, 1991), t.111; Alison Booth, 'Biographical criticism and the "Great" woman of letters', yn *Contesting the Subject: Essays in the Postmodern Theory and Practice of Biography and Biographical Criticism*, gol. William H. Epstein (Indiana, 1991), t.104.

[69] Liz Stanley, *The Auto/biographical I: The Theory and Practice of Feminist Auto/biography* (Manchester, 1992), t.7. Serch hynny, mae'n deg nodi bod rhai cofianwyr yn rhannu'r cysyniad cyffredinol nad yw darlun cwbl wrthrychol yn bosibl. Gw., er enghraifft, sylwadau'r cofiannydd profiadol Ben Pimlott, yn fuan cyn ei farwolaeth yn 2004, sy'n pwysleisio parch y cofiannydd at gywirdeb a gwirionedd ei ymdriniaeth, ond sy'n amau bod y fath beth i'w gael â '"true" biography'. Hynny yw, dywed mai creadigaeth yw'r cymeriad a ddarlunnir sy'n unigryw i'r awdur (Ben Pimlott, 'Brushstrokes', yn *Lives for Sale: Biographers' Tales*, gol.

chofiannaeth, yn ogystal â rhai o'r cwestiynau hanfodol parthed goddrychedd, pwysigrwydd gwirionedd neu ffuglen yn y portread, a'r berthynas rhwng hunan ac arall, neu wrthrych ac awdur, wedi derbyn sylw cynyddol gan feirniaid sy'n trafod ffurf y cofiant.[70] Wrth gwrs, mae'r berthynas ganolog rhwng y cofiannydd a'i wrthrych wedi bod yn destun trafod ymysg cofianwyr a beirniaid ers canrifoedd.[71] Fel y dywed Alan Shelston: 'The nature of the author-subject relationship . . . is a crucial factor in the study of the form: the choice and treatment of a subject can reveal as much about the biographer as the biography may reveal of the subject itself.'[72] Dwysawyd y berthynas gymhleth hon gan ymdriniaethau hunan/gofiannol lle ymwrthodir â'r awdur hollwybodus, gwrthrychol ac absennol. Yn hytrach, fe'i gwelir fel rhan annatod a chreadigol o'r testun. Yn ei chyfrol ddylanwadol *The Auto/biographical I*, gwêl Liz Stanley y cofiannydd fel un sy'n creu a dehongli yn hytrach na phortreadu neu gynrychioli'r gwrthrych yn unig.[73] O ganlyniad, mae'r cofiannydd mor gaeth i oddrychedd ac amcan ei ddehongliad ag unrhyw hunangofiannydd.[74]

> Biographers are at least as active as autobiographers in the re/de/construction of self in the writing of a life; are at least as fertile in their inventive use of, indeed construction of, 'the facts'; and at least as adept in their deployment of a range of fictive devices in establishing authorial authority and factual status for their writing.

---

Mark Bostridge (London and New York, 2004), t.169). Cymharer hyn â barn y cofiannydd a'r ysgolhaig Cymraeg Robin Chapman 'nad oes y fath beth yn bod â bywgraffiad gwrthrychol pur' (Chapman, 'Cyffes cofiannydd', 6). Ystyrier yn ogystal deitl ei gofiant i Saunders Lewis, sef *Un Bywyd o Blith Nifer* (Llandysul, 2006). Gw. ymhellach bwyslais Robin Chapman ar law gelfyddydol y cofiannydd wrth saernïo'i waith ynghyd â'r berthynas greadigol rhyngddo a'i wrthrych ac, yn wir, a'i ddarllenwyr, yn 'Rhyw fath o fywyd: cofiannau Cymraeg cyfoes', *Y Traethodydd* (Ebrill 2006), 69-77. Fe'i traddodwyd yn wreiddiol fel darlith ger bron Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 13 Gorffennaf 2003.

[70] Roberts, *Biographical Research*, t.55. Gw., er enghraifft, William H. Epstein (gol.), *Contesting the Subject: Essays in the Postmodern Theory and Practice of Biography and Biographical Criticism* (Indiana, 1991); Mary Rhiel a David Suchoff (goln), *The Seductions of Biography* (New York, 1996); Susan Tridgell, *Understanding Our Selves: The Dangerous Art of Biography* (Bern, 2004); M. Benton, 'Literary biomythography', *Auto Biography*, 13 (2005), 206-26.

[71] I Samuel Johnson yn y ddeunawfed ganrif, er enghraifft, yr oedd yn gwbl greiddiol: 'Nobody can write the life of a man, but those who have eat and drunk and lived in social intercourse with him' (James Boswell, *Life of Johnson*, gol. R. W. Chapman (Oxford, 1998), t.422). Noda'r cofiannydd Robert Gittings mai sail pob cofiant yw 'a matter between the biographer and subject' (Gittings, *The Nature of Biography*, t.92).

[72] Shelston, *Biography*, t.30.

[73] Stanley, *The auto/biographical I*, t.7. Ymhellach, y mae Liz Stanley'n pwysleisio rhyddid y darllenydd i ganfod sawl darlleniad gwahanol o'r bywyd, ac y dylai'r cofiannydd hyrwyddo hynny yn y gwaith.

[74] Ibid., tt.9, 135. Gw. hefyd Denzin, *Interpretive Biography*, t.26; Roberts, *Biographical Research*, tt.87-8.

Y mae dadansoddi persbectif neu bresenoldeb yr awdur, a'i brosesau cofiannol, fel elfennau gweithredol yn y broses greadigol – yr hyn a elwir gan Stanley yn 'intellectual autobiography' – yn ganolog i ymdriniaeth hunan/gofiannol â ffurf y cofiant, felly, gan mai ynddynt hwy y ceir allwedd i iawnddeall seiliau deongliadol y cofiannydd.[75]

Er mai ymysg beirniaid ffeminyddol y datblygodd theori hunan/gofiannaeth, bu ystyriaethau o'r fath yn fodd i rai beirniaid fynd ati i geisio ailgloriannu llenyddiaeth gofiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg drwy ymwrthod â gwahaniaethau confensiynol rhwng ffurfiau llenyddol a dadansoddi arwyddocâd goddrychedd ac ymdriniaeth cofiannol yr awdur â'i wrthrych.[76] Pwysleisiwyd y gall darllenwyr werthfawrogi safbwynt neu ddehongliad y cofiannydd o'i wrthrych, ond yr un pryd nad oes raid derbyn fod bywyd cyflawn y gwrthrych wedi ei gynrychioli yn y cofiant gan awdur diduedd a gwrthrychol, nac yn wir fod dehongliad yr awdur o 'wirionedd' bywyd y gwrthrych yn absoliwt nac yn cynnig yr unig ddehongliad posibl o'r bywyd dan sylw. A thybed, wedi'r cyfan, nad yw Owen Thomas mor gaeth i wrthrychedd hollgynhwysol yr oes ag yr honnwyd uchod gan ei gydoeswyr. Mae'n bosibl dadlau mai un dehongliad posibl o'i wrthrych a grëwyd gan Owen Thomas y cofiannydd, er nad ei amcan ef oedd llunio dehongliad 'rhannol', wrth gwrs. Bydd penodau nesaf y traethawd hwn yn ymdrin â'i ddehongliad o fywydau ei wrthrychau, John

---

[75] Stanley, *The auto biographical I*, t.136. Gw. hefyd Walker, 'Persona criticism and the Death of the Author', tt.115, 119. Yr un yw diben pwyslais Ira Bruce Nadel ar 'feta-gofiannaeth' (*meta-biography*), lle ymdrinnir â'r modd y mae awdur yn dwyn ei gymeriad cofiannol i'r testun (Ira Bruce Nadel, *Biography: Fiction, Fact and Form* (London, 1984)).

[76] Gw., er enghraifft, David Amigoni, *Victorian Biography: Intellectuals and the Ordering of Discourse* (New York and London, 1993) (gw. yn benodol idem, 'Introduction: historicising academic disciplines', tt.1-17); Trev Lynn Broughton, *Men of Letters, Writing Lives: Masculinity and Literary Auto/Biography in the Late Victorian Period* (London and New York, 1999); David Amigoni (gol.), *Life Writing in Victorian Culture* (Aldershot, 2006); Kaplan, *Victoriana*. Fel y dywed David Amigoni: 'Later twentieth-century critics have been less inclined to accept claims about the generic purity of either biography or autobiography' ('Introduction: Victorian life writing: genres, print, constituencies', t.1). Gw. hefyd sylwadau Andrew Tate ynglŷn â 'the notoriously porous boundaries of biography and its multiple incarnations', yn 'Introduction: Victorian life writing', *Nineteenth-Century Contexts*, 28, 1 (March 2006), 3.

Jones, Tal-y-sarn a Henry Rees. Ond yn gyntaf, bwriadaf ddadansoddi prosesau cofiannol Owen Thomas a'r berthynas greadigol rhyngddo a'i wrthrychau a'i ddarllenydd. Bydd hyn yn cynnig cyd-destun i'r deongliadau a gyflwynir yn y naill gofiant a'r llall, ynghyd â bwrw goleuni ar ei grefft neu ei gelfyddyd fel cofiannydd, a'r dybiaeth ei fod yn gofiannydd 'absennol' a gwrthrychol.

### 2.2.1 'wedi ysgrifennu o honom y llinellau diwethaf': y cofiannydd ymwybodol, eglurhaol

O fwrw golwg ar gofiannau Owen Thomas i John Jones, Tal-y-sarn a Henry Rees, Lerpwl, gwelir bod presenoldeb yr awdur ei hun, drwy gyfrwng ei lais cofiannol, yn nodwedd gyson a diddorol ohonynt. Fel y soniwyd ym mhennod gyntaf yr ymdriniaeth hon, nid oedd hyn yn unigryw i'w gofiannau ef. Gwelir presenoldeb o'r fath ymhlith cofianwyr Cymraeg eraill y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma gofianwyr Ebenezer Richard, er enghraifft, yn sôn am gysondeb eu gwrthrych mewn gweddi bersonol:

> Fel prawf o'r ysbryd gwyliadwriaeth a gweddi . . . a arferai efe ar ddechreu ei fywyd gweinidogaethol, y mae yn ddywenydd genym allu gosod ger bron ein darllenwyr y pigion canlynol o'i ddydd-lyfr . . . Nid yw yr hyn a roddir yma ond cyfran fechan o hono, ond eto gobeithiwn ei fod yn ddigon i ddatguddio tymher gyffredinol meddwl yr ysgrifenydd yn y dyddiau hyny.[77]

Nid rhyfedd, gan mai'r un oedd amcan y cofianwyr hyn ag Owen Thomas, sef cyflwyno coffadwriaeth a fyddai yn esiampl i eraill; fel y dywed Alan Shelston, 'biography which is inspired by motives of commemoration and example inevitably involves the practitioner far

[77] E. W. Richard a H. Richard, *Bywyd y Parch. Ebenezer Richard* (Llundain, 1839), t.14. Dyma elfen sydd i'w chanfod yn y cofiannau Cymraeg cynharaf. Gw., er enghriafft, Owen Williams, *Cofiant neu Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Peter Williams, o Gaerfyrddin; allan o'i ysgrifen-law ef ei hun, wedi ei gasglu a'i gyfieithu gan Owen Williams; at yr hyn y chwanegwyd dwy o farwnadau ar yr achos* (Caernarfon, 1817), t.86.

more closely in the manipulation of his material'.[78] Wrth gwrs, byddid disgwyl i gofiannydd gynnig rhagargoel o'i fwriadau neu dynnu casgliadau o dro i dro, ond nid oes ddwywaith nad yw'r nodwedd hon yn amlycach a chymhlethach yng nghofiannau Owen Thomas. Ymhellach, ymddangosodd ei ffefrynnau o blith y traddodiad cofiannol Seisnig, Boswell a Lockhart yn eu cofiannau hwythau, a gwelwyd hynny gan fwy nag un beirniad fel ymgais ar ran y cofianwyr i gadarnhau eu hawdurdod a gwrthrychedd honedig eu hymdriniaeth, yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth arwyddocaol ynglŷn â'u hamcanion cofiannol. Ys dywed Joseph Reed:

> Boswell announced his objectivity and inserted himself as an integral dramatic participant in his book. Lockhart dissociates himself from the proceedings in order to establish his objectivity tacitly, but his presence intensifies the narrative, often unexpectedly, so that the reader cannot forget his authority.[79]

Golyga hyn y gellir ystyried y cofiannydd presennol yn gofiannydd sy'n gweithredu'n ymwybodol a chreadigol. Hynny yw, mae'n gwbl ymwybodol o'r prosesau cofiannol sy'n sail i'w ddehongliad o'r gwrthrych. Cofiannydd ymwybodol yw Owen Thomas yntau, a chaiff hyn ei amlygu gan y ffaith mai'r nodwedd fwyaf cyson sy'n cysylltu â'i bresenoldeb yn ei gofiannau yw'r ymdrech ar ei ran fel cofiannydd i fod yn eglur. Gwelwyd eisoes fod ymgyrraedd at eglurder ac argyhoeddi ei gynulleidfa yn nodwedd gyffredin o'i waith fel awdur, pregethwr ac esboniwr, a bod yr eglurder hwn yn gysylltiedig â'i wrthrychedd a'i awdurdod ymddangosiadol. Y bwriad yn awr yw dadansoddi'r agwedd ar ei waith y gellir ei galw yn eglurhaol neu esboniadol o'i safbwynt fel cofiannydd, ynghyd â diffinio'r llais cofiannol sy'n sail i'w bortread a'i ddehongliad o'i wrthrychau er mwyn amlygu ei hunangofiant deallusol a'i brosesau artistig,[80] neu ei grefft, fel cofiannydd.

---

[78] Shelston, *Biography*, t.52.
[79] Reed, *English Biography in the Early Nineteenth Century*, t.140.
[80] Hynny yw, y penderfyniadau creadigol hynny, megis dethol, cyflwyno neu ymatal gwybodaeth, a'i ymdriniaeth â'r deunydd sy'n sail i ddehongliad Owen Thomas y cofiannydd o'i wrthrychau.

Daw'r darllenydd i gwrdd â'r cofiannydd ymwybodol ac eglurhaol am y tro cyntaf tua dechrau *Cofiant John Jones, Talsarn* (1874), wedi i Owen Thomas gofnodi genedigaeth John Jones a mynd ati i gyflwyno gwybodaeth am ei rieni:

> Ganwyd y Parchedig John Jones mewn tŷ a elwir Tan-y-Castell, yn mhlwyf Dolyddelen, Sir Gaernarfon. Mae gradd o amheuaeth yn nghylch amser yr enedigaeth. Yn ôl Coffadwriaeth yn y Beibl, oedd yn eiddo dybygid i'w dad, os nad ydyw y Coffadwriaeth hefyd yn llawysgrifen ei dad, fe'i ganwyd ar ddydd Iau, Mawrth 1, 1796, am bedwar ar y gloch yn y prydnawn . . . Dybygid mai yn ol yr amser a geir ar y Beibl y byddai efe ei hunan yn arfer cyfrif ei oedran. Ei rieni oeddent John Jones, ac Elinor ei wraig, y rhai oeddent yn trigiannu ar y pryd, ac er ys amryw flynyddoedd cyn hyny, yn Nhan-y-Castell, a'r lle, yn wir, yr oedd y tâd wedi ei eni a'i fagu ynddo. Pan y cofir y dylanwad sydd gan gymeriad ac ymddygiadau rhïeni yn gyffredinol ar gymeriad ac ymddygiadau eu plant, a'r dylanwad arbenig oedd gan y rhïeni hyn yn neillduol ar gymeriad gwrthddrych ein Cofiant presennol, y mae yn ddiammeu genym nad annerbyniol gan y darllenydd, yn arweiniol i'w hanes ef, fydd cael byr-grybwylliad am danynt hwy, er mantais iddo i gyrhaedd rhyw fesur o gydnabyddiaeth â'r rhai yr ymddiriedwyd iddynt gyntaf ddysgyblu y meddwl hwnw a ddaeth wedi hyny mor alluog ac enwog a defnyddiol yn ei oes.[81]

Dyma ddarn arwyddocaol am sawl rheswm. Yn gyntaf mae pwysleisio dylanwad cadarnhaol y rhieni ar John Jones yn arwyddo am y tro cyntaf amcan cyffredinol y cofiannydd o gyflwyno'r gwrthrych fel esiampl i'w ddilyn.[82] Yn ail, gwelir bod hynny'n gysylltiedig â symudiad mynegiannol a naratifol sy'n dynodi presenoldeb y cofiannydd, drwy ei fod yn newid o'r trydydd person a'r amhersonol at y person cyntaf lluosog, 'Y mae yn ddiameu genym . . . '. Mae'r llais hwn yn wahanol i'r llais awdurol ac anweledig sy'n cyflwyno'r ffeithiau yn ofalus ac uniongyrchol: 'Ganwyd y Parchedig John Jones . . . '. Prif bwrpas y newid berfol hwn yw eglurder, a dyma sy'n dynodi'n gyson y llais eglurhaol hwn yn y

[81] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrexham, 1874), t.18. O hyn allan, bydd unrhyw gyfeiriadau unigol at y gyfrol hon, nad oes angen ymhelaethu arnynt, yn ymddangos yn y testun. Cynhwysir y byrfodd *CJJT* a rhif tudalen yn unig oni fydd amwysedd.

[82] Gweler trydedd a phedwaredd bennod y traethawd hwn am ddylanwad yr elfen hon ar y cofiant hwn a'r cofiant i Henry Rees.

cofiannau.[83] Drwy ymbresenoli ei hun fel cofiannydd ymwybodol yng nghorff y testun mae Owen Thomas yn amlygu'r prosesau deongliadol ac arddulliol hynny y soniodd Liz Stanley amdanynt nas dangosir i'r darllenydd fel arfer. Ond megis Boswell a Lockhart, yn hytrach na thanseilio awdurdod y cofiannydd, mae presenoldeb Owen Thomas yn dwysáu a chadarnhau ei afael ar ei wrthrych a'i ddarllenwyr. Digwydd hyn am fod y llais esboniadol hwn yn cyfiawnhau ac argyhoeddi, yn hytrach nag egluro yn unig, ac am ei fod yn ganolog i ymdrech Owen Thomas i argyhoeddi a hyfforddi ei gynulleidfa.[84] Gwelir, o'r herwydd, fod y nodwedd eglurhaol arno fel cofiannydd yn ganolog i'r berthynas greadigol a deongliadol rhyngddo a'i wrthrych, ac a'i ddarllenwyr. Gellir dadlau bod tri chyd-destun pendant sy'n nodweddu'r llais cofiannol, ymwybodol hwn. Yn gyntaf, y modd y mae Owen Thomas yn nodi ei brosesau cofiannol wrth ymdrin â'i wrthrych; yn ail, ei ymdriniaeth â'i ffynonellau; ac yn drydydd, y modd y mae'r cofiannydd yn ymbresenoli fel cymeriad yn y cofiant. Bydd bwrw golwg fanylach ar y tri chyd-destun hyn yn goleuo'r cofiannydd eglurhaol ymhellach ac yn amlygu crefft neu gelfyddyd y cofiannydd ymwybodol yn hyn o beth.

### *'mae yn ddiammeu genym y bydd yn dra dyddorol i'r rhan fwyaf': amlygu'r prosesau cofiannol*

Ceir sawl enghraifft yn y cofiannau lle gesyd llais eglurhaol Owen Thomas olwg i'r darllenydd ar y prosesau cofiannol neu olygyddol hynny sy'n sail i'w bortread. Yn naturiol ddigon, fe ddigwydd hyn wrth ragymadroddi ar ddechrau penodau ac wrth dynnu casgliadau

[83] Ar wahân i ragymadroddion y ddwy gyfrol lle defnyddir y person cyntaf unigol. Gwelwyd yn ogystal un enghraifft yn nhestun *Cofiant John Jones, Talsarn*, tt.156-61, lle mae Owen Thomas yn amrywio rhwng y person cyntaf lluosog arferol a'r person cyntaf unigol. Disgrifiad o'r tro cyntaf iddo glywed John Jones yn pregethu yw'r darn o dan sylw. Oherwydd cysondeb ymddangosiadol y defnydd o'r person cyntaf lluosog, tebyg nad oes gormod o arwyddocâd i'r amrywio hyn ac mai diffyg golygu sy'n gyfrifol.

[84] Hynny yw, fe gyfiawnheir datblygiad naratifol yr awdur tuag at drafod bywydau rhieni gwrthrych y cofiant oherwydd eu dylanwad ar y gwrthrych, ac mae hynny o ganlyniad yn lles i'r darllenydd yntau, 'er mantais iddo'. Er nad yw pob enghraifft o'r nodwedd eglurhaol hon a gyflwynir yn y cofiannau yn cyflawni'r swyddogaeth ddeublyg o egluro a chyfiawnhau, y mae'n deg dweud ei bod i'w gweld yn glir a chyson yn y ddau gofiant.

ar ddiwedd penodau, ond ceir dwy enghraifft nodedig ar ddechrau degfed bennod y naill gofiant a'r llall sy'n nodweddu agwedd gymhlethach na hynny'n unig. Yng nghofiant John Jones, er enghraifft, mae Owen Thomas yn agor y ddegfed bennod drwy ymbresenoli fel cofiannydd yn y testun. Cyfeiria'r darllenydd at ei benderfyniad i atal y cofnodi cronolegol o oedfaon John Jones a gafwyd yn y penodau blaenorol er mwyn cyd-destunoli'r hanes a chanolbwyntio ar y wedd fwy ymarferol ac anogaethol a ddaeth i ddull John Jones o bregethu yn y cyfnod. Cyn cyflwyno'r datblygiad hwn yn naratif y bennod, â Owen Thomas ati i gyfiawnhau'r newid naratifol er mwyn argyhoeddi ei ddarllenwyr o fuddioldeb y penderfyniad, ac unwaith eto defnyddir y newid mynegiannol i'r person cyntaf lluosog er mwyn dwyn y cofiannydd i'r fei. Byddai adrodd am oedfaon John Jones o flwyddyn i flwyddyn, meddai,

> hyd yn nod pe byddai genym y defnyddiau at hyny, yn hytrach yn feichus i'n darllenwyr yn gystal ag i ni ein hunain, yn neillduol gan na byddai ond ail-adroddiad, drachefn a thrachefn, heb ond ychydig iawn o amrywiaeth, o'r un pethau ag sydd wedi eu dwyn dan sylw genym eisoes (*CJJT*, 222).

Dyma unwaith eto gyflwyno'r darllenydd i'r broses gofiannol. Ac mae'n ddiddorol mai chwaeth artistig yr awdur, a chwaeth dybiedig ei ddarllenwyr, a ddefnyddir i egluro penderfyniad Owen Thomas yma yn hytrach na'i fwriadau yn benodol, er bod y rheini ynghlwm wrth y broses, wrth gwrs. Yn wir, gellir dadlau bod teitl y bennod 'Blynyddoedd dechreuad cyfnewidiad yn ngwedd ei weinidogaeth: 1833-1840' yn arwyddo'n uniongyrchol ei fwriadau yn hyn o beth. Serch hynny, yr hyn sy'n arwyddocaol yw ei fod, drwy egluro a chyfiawnhau ei benderfyniad i'r darllenydd, yn amlygu'r broses gofiannol guddiedig.[85]

[85] Gw. hefyd Thomas, *CHR*, tt.389-90. Cyfiawnhau newid pwyslais tuag at fanylu ar gyfraniad Henry Rees i'r Cyfundeb Methodistaidd a wneir y tro hwn. Gw. atodiadau 3 a 4 am deitlau penodau *CJJT* a *CHR*.

Agwedd bellach ar y cyd-destun hwn yw'r modd y mae presenoldeb Owen Thomas fel cofiannydd yn y testun yn arwyddo rhyw doriad yn rhediad cronolegol y naratif. Yma eto, y mae'r awdur yn amlygu'r elfen hon yn gwbl ymwybodol, ac mae'n ofalus i egluro a chyfiawnhau ei benderfyniadau i'r darllenydd. Ceir sawl enghraifft yn y cofiannau ohono'n 'crwydro' oddi wrth hanes cronolegol y naratif at faterion perthnasol, boed hanes diweddarach y gwrthrych ei hun neu elfen sy'n gysylltiedig â'i fywyd. Gan amlaf, nodi'n unig y ffaith ei fod wedi ymwrthod â chronoleg yr hanes a wneir, nodwedd sydd ynddi'i hun yn fodd o gyfeirio'r darllenydd yn ôl at yr hanes hwnnw.[86] Eto, gwelir bod sail eglurhaol i'r 'crwydro' hyn yn aml, sef ei berthnasedd i'r testun neu'r naratif ei hun ac i amcanion didactig Owen Thomas parthed y darllenydd. Wrth ymdrin ag ymadawiad John Jones, Tal-y-sarn â chwarel Llanrhochwyn yn y flwyddyn 1823, er enghraifft, y mae'r cofiannydd yn cyfiawnhau dwyn i'r testun dystiolaeth llygad-dyst gan un o'i gyd-weithwyr amdano'n pregethu yn 1827. Er bod Owen Thomas yn cyfaddef wrth y darllenydd fod cynnwys y dystiolaeth yn torri ar rediad cronolegol yr hanes, dywed y gwna hyn er mwyn dangos 'y teimlad cynnes a goleddid tuag ato gan ei gyd-weithwyr' (*CJJT*, 100). Gan fod y dyfyniad yn gwbl berthnasol i'r hanes a'i fod, o'r herwydd, yn effeithio ychydig iawn ar lif y naratif, mae'n ddiddorol y teimla'r cofiannydd yr angen i'w gyfiawnhau ei hun yn yr achos hwn. Ond mae tynnu sylw ac egluro ei benderfyniad yn fodd i Owen Thomas gadarnhau cymeriad rhinweddol a hynaws John Jones ar feddwl y darllenydd. Yr un yw diben torri ar rediad cronolegol yr hanes wrth ymdrin â thaith Henry Rees i Berlin ym mis Medi 1857 (y soniwyd amdani eisoes), lle mae'r awdur yn symud yr hanes ymlaen dri mis i gofnodi darlith ei wrthrych ar hanes y daith. Ac mae'n egluro fel a ganlyn:

> Er ein bod yn rhedeg yn mlaen, rai wythnosau, o'n trefn amseryddol, eto, er mwyn gorphen gydâ'n hadroddiad o hanes y daith, yr ydym yn tybied mai gwell i ni ddodi i

[86] Gw., er enghraifft, *CJJT*, tt.92, 148, 185 a *CHR*, tt.116, 464, 824.

> mewn yma yr hyn a baratöwyd ganddo ef o'r Ddarlith hono. Ac y mae yn ddiammeu genym y bydd yn dra dyddorol i'r rhan fwyaf, os nad i bawb, o ddarllenwyr y Cofiant. Y mae yn arddangosiad têg, debygem ni, o yspryd meddwl ei wrthddrych. (*CHR*, 627)

Wedi cynnwys y dyfyniad maith o'r ddarlith sy'n rhychwantu ugain tudalen, dychwela'r awdur i fis Medi 1857 ac ailafael â'r hanes.[87] Unwaith eto, mae ymyrraeth y cofiannydd â'i naratif cronolegol yn gyd-destunol ac yn hyfforddiadol, sef dangos 'yspryd meddwl' Henry Rees wedi iddo ddychwelyd o'r daith. Dro arall, mae presenoldeb y cofiannydd eglurhaol yn manylu'n fwy uniongyrchol ar y broses o ysgrifennu ei hun, a hynny er mwyn cyfiawnhau a chadarnhau ei sylwadau a'i farn. Sonia tua dechrau chweched bennod ei gofiant i Henry Rees, er enghraifft, fod ei wrthrych bellach wedi ei ordeinio i'r weinidogaeth ac yn un o brif bregethwyr Cymru. Yna, dywed: 'Wedi ysgrifennu o honom y llinellau diwethaf, ni a gyfarfuasom â'n hen gyfaill Mr Daniel Mortimer', gŵr sy'n tystio i ganmoliaeth uchel y pregethwr huawdl Ebenezer Richard o'r gwrthrych (*CHR*, 161).[88] Ceir yr un pwyslais ar gyflwyno gwybodaeth i'r darllenydd, a chyfiawnhau gwybodaeth a safbwynt y cofiannydd, yn *Cofiant John Jones, Talsarn*. Digwydd pan sonia Owen Thomas am ganfod adolygiad yn *Baner ac Amserau Cymru* o farwnad Emrys (William Ambrose) i John Jones, a hynny yn fuan wedi i'r cofiannydd ysgrifennu ei bwt ei hun am y farwnad a phenderfynu cynnwys rhannau ohoni yn y cofiant (*CJJT*, 782). Gwelwn, felly, fod ystyriaethau 'eglurhaol' sydd ynghlwm wrth y darllenydd yn sail yn aml iawn i bwyslais ymwybodol yr awdur ar amlygu ei brosesau cofiannol.[89]

Nodwedd ddiddorol ar y modd y mae Owen Thomas yn ymbresenoli fel cofiannydd yn y testun yw pan fo'n egluro a chyfiawnhau'r broses greadigol o ddethol gwybodaeth a

---

[87] Nodir ei gyhoeddiadau i bregethu y Sul cyntaf wedi iddo ddychwelyd a'r wythnos ddilynol (*CHR*, t.649).
[88] Gw. hefyd, er enghraifft, amdano'n derbyn sylwadau gan ferch Henry Rees yn fuan wedi iddo ysgrifennu am ymweliad ei wrthrych â'r Arddangosfa Fawr yn Llundain (*CHR*, tt.730-1).
[89] Gellir dadlau bod esboniadau penodol o'r fath yn bwrw goleuni ar resymeg yr awdur mewn enghreifftiau eraill lle torrir ar lif cronolegol y naratif ond na chyflwynir rheswm penodol.

deunyddiau. Er gwaethaf ei sylwadau yn y ddau gofiant o'i eiddo am fanylder neu lawnder y darlun o fywyd ei wrthrych,[90] yr oedd Owen Thomas yn gwbl ymwybodol o natur ddethol y cofiant, ac nid yw'n swil o ddangos y broses arwyddocaol hon ar waith i'r darllenydd drwy gyfrwng y nodwedd eglurhaol.[91] Dywed sawl gwaith yn y cofiannau ei bod yn rhaid iddo ymatal ei law, a dewis a dethol yr hyn a fynn ei gynnwys, megis pan ddywed ar derfyn y darlun o aelodau Cyfarfod Misol Arfon yn *Cofiant John Jones, Talsarn*[92] y carai sôn am sawl person arall, ond '[yr] arweiniai hyd yn nod crybwylliad byr am y rhai hyn oll ni i feithder annghymedrol; ac felly y mae yn rhaid i ni ymattal' (*CJJT*, 132).[93] Yr un modd, arwyddo ei brosesau a'i benderfyniadau cofiannol y mae ei duedd ambell waith i beidio, neu fethu, ag ymwrthod â'r demtasiwn i fanylu neu gynnwys deunyddiau. Yn *Cofiant Henry* Rees, fe ddyfynnir rhannau o araith 'gyflawn a chyfaddas' John Hughes, Lerpwl ar achlysur ffarwelio â Henry Rees a Moses Parry cyn eu taith i'r Unol Daleithiau. Gwneir hynny, er gwaethaf sylw Owen Thomas fod yr araith wedi ei chyhoeddi yn *Y Drysorfa*, ac wedi ei hadargraffu yng nghofiant John Hughes, a'i bod 'yn rhy faith i ni ei dodi i mewn yma yn gyflawn' (*CHR*, 256). Fel yr awgryma'r gair 'cyfaddas' uchod, perthnasedd y deunydd i hanes bywyd y gwrthrych sy'n arwain llaw y cofiannydd yn aml, ac mae cymalau eglurhaol o'r fath yn arwyddo hynny i'r darllenydd.[94] Serch hynny, megis yr agweddau eraill a drafodwyd, ni ddylid anghofio eu bod ynghlwm wrth ystyriaethau'r cofiannydd parthed ei amcanion cofiannol didactig a lles ei ddarllenydd. Yn wir, gellir dadlau bod ymwybyddiaeth Owen Thomas â'r darllenydd, a'i berthynas ag ef, yn arwyddo rhai o'i benderfyniadau golygyddol

---

[90] Gw., er enghraifft, *CJJT*, t.222 a *CHR*, t.905.

[91] Wrth gwrs, nid yw hyn yn gyfystyr â dweud mai dyma'r *unig* gyfrwng sy'n galluogi neu gyflawni hyn. Eto, does dim dwywaith nad yw natur ddethol y cofiant yn cael ei hamlygu gan y nodwedd hon.

[92] Y mae'r adran hon yn trafod Cyfarfod Misol Arfon pan ymunodd John Jones ag ef. Cyflwynir gan Owen Thomas 'ychydig grybwylliadau' am nifer o'r gweinidogion amlycaf yn y Cyfarfod Misol ar y pryd mewn cyfres o fywgraffiadau byrion sy'n rhychwantu 26 tudalen o'r naratif (*CJJT*, tt.106-32).

[93] Ceir sawl enghraifft yn y cofiannau o'r awdur yn ymwrthod â'r demtasiwn i ymhelaethu, gan ddefnyddio'r union gymal uchod wrth ymatal ei law. Gw., er enghraifft, *CJJT*, tt. 770 a 782 yn y cofiant hwn a *CHR*, tt.181 a 952. O dro i dro, sonia ynglŷn â'r hyn y bwriadodd ei gynnwys yn y cofiannau ond nas cyflawnwyd oherwydd diffyg gofod (gw., er enghraifft, *CJJT*, t.969).

[94] Gw. hefyd, er enghraifft, *CJJT*, tt.75, 217 a *CHR*, tt.342, 811.

wrth iddo ddethol ei ddeunydd. Dyma sy'n peri ei fod yn nodi yn *Cofiant Henry Rees* nad oes 'anghenrheidrwydd' arno – ac yn wir y byddai'n 'dra annymunol' ganddo – adrodd manylion helynt a gododd ynglŷn ag un o'r cenhadon a yrrwyd i'r India. Yn hytrach, cyfeiria'r darllenydd 'a ddewiso hyny' at drafodaethau yn y Pedwerydd Adroddiad Cenhadol a rhifyn o'r *Drysorfa* (*CHR*, 419). Er bod penderfyniadau golygyddol o'r fath yn rhan o dawedogrwydd y cyfnod, eto nid gwyngalchu a wneir yma gan fod Owen Thomas yn nodi'n blaen fod yr hanes ar gael i'r darllenydd a fynn ei ddarllen. Yr hyn sy'n ddiddorol yw sut y mae chwaeth y cofiannydd yn pennu chwaeth dybiedig y darllenydd. Yr un modd, gwelir bod gwybodaeth y darllenydd yn ffactor ym mhenderfyniadau cofiannol Owen Thomas. Fwy nag unwaith, mae'n ymatal oherwydd ei fod yn tybio bod y darllenydd yn ymwybodol, os nad yn gwbl gynefin, â'r ffeithiau neu'r cyd-destunau y sonia amdanynt. Wrth drafod y newidiadau sefydliadol a ddaeth i ran y Cyfundeb o ran derbyn ac ordeinio gweinidogion, mae'n amlwg y teimla'r awdur fod y darllenydd yn gyfarwydd â'r rheoliadau. Dywed:

> Nid ydym yn gweled yn angenrheidiol dodi y cynllun [i ordeinio], yn y ffurf oedd arno y pryd hyny, i mewn yma, gan ei fod yn gwbl yr un peth a'r un sydd yn awr, ac er ys blynyddoedd bellach yn arferedig yn ein plith. (*CHR*, 535)[95]

Yn wir, fe gyfeddyf yr awdur mai prif sail manylu ar yr elfen hon oedd ei pherthnasedd i fywyd a gyrfa'i wrthrych, ynghyd â'r 'diddordeb mawr' a gymerodd yn yr elfen – fel yn wir nifer o'r datblygiadau yn hanes y Cyfundeb ar y pryd.[96] Y mae ymdriniaeth o'r fath, wrth gwrs, yn awgrymu bod gan Owen Thomas gynulleidfa bendant mewn golwg, er nad yw'n swil o fwydo eu gwybodaeth drwy gynnig gosod rhai elfennau pwysig mewn atodiadau.[97] Nid oes ddwywaith nad yw natur ddethol y cofiant yn elfen bwysig o'r broses gofiannol ei

[95] Yr un elfen sy'n llywio ei farn nad oes angen iddo 'wneuthur llawer o sylwadau' ar ddarlith led faith a draddodwyd gan Henry Rees yn dilyn ei ymweliad â'r Cynghrair Efengylaidd yn Berlin (*CHR*, tt.627-47), er ei fod yn egluro ambell bwynt 'er mwyn rhai o'n darllenwyr' (t.647).
[96] Manylir ar y pwynt hwn ym mhedwaredd bennod y traethawd, tt.266-85.
[97] Gw., er enghraifft, *CHR*, t.700. Ceir yr atodiadau ar ddiwedd y naill gyfrol a'r llall. Gw. *CJJT*, tt.1025-41 a'r atodiad swmpus yn *CHR*, tt.967-1129.

hun. Ac mae amlygu penderfyniadau golygyddol a chreadigol y cofiannydd yn fodd o fwrw goleuni ar y prosesau cofiannol y mae'r awdur yn rhwym wrthynt, ynghyd â chadarnhau ei awdurdod dros y prosesau hynny a'r darlun a gyflwynir o'r gwrthrych.

***'ni a gymmerwn un tudalen': defnydd Owen Thomas o'i ffynonellau***

Yr ail gyd-destun sy'n nodweddu llais cofiannol Owen Thomas, a'r agwedd eglurhaol arno yw'r modd y mae ei bresenoldeb yn aml yn amlygu ei ymdriniaeth â'i ffynonellau. Fel y gallesid disgwyl, defnyddia'r cofiannydd amrywiaeth o ddeunyddiau yn sail i'w ddehongliad o'i wrthrychau, a chyfeiria at nifer o ffynonellau cynradd ac eilaidd, hunangofiannol a chofiannol, yn naratif y cofiannau.[98] Yn hynny o beth, yr oedd gofal a manylrwydd Owen Thomas am ei ffynonellau yn bur nodweddiadol o'i gyfnod. Er gwaethaf sylw dirmygus Lytton Strachey am gofianwyr Oes Fictoria parthed 'their lamentable lack of selection, of detachment, of design',[99] mae rhai sylwebyddion wedi nodi'r datblygiad cyffredinol a fu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ran proffesiynoldeb ym myd cofiannaeth. Un elfen o'r datblygiad hwn oedd ymdriniaeth cofianwyr â'u ffynonellau, a ddisgrifir gan John Garraty fel '[a] growing concern over source materials and thorough research'.[100] Wrth gwrs, nid datblygiad absoliwt mohono ac yr oedd yn dibynnu ar gydwybodolrwydd ac amcanion y cofiannydd yn aml iawn. Yr oedd Owen Thomas, megis cofianwyr eraill y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn gaeth i dawedogrwydd y cyfnod a'r duedd i ymatal rhag cyhoeddi unrhyw wirionedd a fyddai'n dueddol o beri embaras neu boen i goffadwriaeth y gwrthrych, ei deulu

[98] Cynnwys y ffynonellau cynradd feiblau teuluol, coflyfrau a chofnodion dyddiadurol, pregethau llawysgrif, llythyrau ac atgofion ysgrifenedig a gynhwyswyd mewn llythyrau. Defnyddir ffynonellau cyhoeddedig yn ogystal, megis adroddiadau cyfundebol, adroddiadau ac erthyglau o gyfnodolion enwadol, cylchgronau a phapurau newydd y cyfnod, pregethau cyhoeddedig a chasgliadau o bregethau, ynghyd â chyfrolau cyhoeddedig, gan gynnwys cofiannau i unigolion eraill.
[99] Gw. Strachey *Eminent Victorians*, t.viii.
[100] John A. Garraty, *The Nature of Biography* (London, 1958), t.93.

neu unrhyw un arall. Dyma'r gynneddf y taranodd Thomas Carlyle yn ei herbyn mewn adolygiad ar gampwaith John Gibson Lockhart, *The Life of Walter Scott* yn 1838.

> How delicate, decent is English biography, bless its mealy mouth! A Damocles' sword of *Respectibility* hangs for ever over the poor English life-writer (as it does over poor English life in general) and reduces him to the verge of paralysis.[101]

Yng nghofiannau Owen Thomas, ceir sawl bwlch, hepgoriad neu goll geiriau (*ellipses*) lle mae'r cofiannydd yn ymatal rhag enwi person, lleoliad neu ddigwyddiad. Digwydd un enghraifft pan ddyfynna'r cofiannydd eiriau John Jones am daith bregethu o'i eiddo drwy Sir y Fflint lle nad oedd y gynulleidfa yn hawdd ei phlesio: 'A fuoch chwi erioed yn treio pregethu yn * * * * * * *? . . . Y mae nhw yn galed yno fel y gallestr' (*CJJT*, 172).[102] Elfen arall a oedd yn clymu Owen Thomas y cofiannydd wrth dueddiadau ei oes oedd anghysondeb ac ansicrwydd ei ffeithiau a'i ffynonellau, a'i duedd ambell waith i ddyfalu. Yn wir, ceir sawl enghraifft yn y cofiannau lle mae cyfeiriadau'r cofiannydd at ffynonellau pendant wrth adrodd yr hanes yn brin, os nad yn gwbl absennol. Yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, er enghraifft, sonia Owen Thomas fod 'amryw hanesion' yn cael eu hadrodd am John Jones yn ei gysylltiad â'r siop deuluol, ond ni nodir tarddle'r hanesion hyn er bod Owen Thomas yn dyfynnu deialogau rhwng John Jones a'i wraig (*CJJT*, 142-4).[103] Yn wyneb diffyg tystiolaeth bendant, fe'i ceir o dro i dro yn dyfalu, megis pan edrydd, yn *Cofiant Henry Rees*, am y tro cyntaf y clywodd Ebenezer Morris ei wrthrych yn pregethu. Noda:

---

[101] '[Review of] Lockhart's *Life of Scott*', *The London and Westminster Review* (Ionawr 1838), 299. Adargraffwyd yn Clifford, *Biography as an Art*, t.84. Mae'n bwysig nodi mai canmol parodrwydd Lockhart i ymwrthod (i raddau) â'r duedd hon a wna Carlyle yma. Eto, treiddiodd tawedogrwydd y cyfnod i nifer o glasuron y canon Seisnig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis cofiannau Elisabeth Gaskell, *Life of Charlotte Brontë* (1857) a John Forster, *The Life of Charles Dickens* (2 gyfrol: 1872–4). Ar dawedogrwydd y cyfnod yn Lloegr, gw., er enghraifft, Garraty, *The Nature of Biography*, t.91; Reed, *English Biography in the Early Nineteenth Century*, tt.127-53; Shelston, *Biography*, yn benodol tt.49–61.

[102] Gw. hefyd, er enghraifft, *CJJT*, tt.183, 645, 661 a *CHR*, tt.63, 388, 496, 499-500, 548. Nid dyma'r lle i fanylu ar yr hyn a gynhwyswyd neu a wrthodwyd gan Owen Thomas ar sail parchusrwydd. Llanwyd rhai o fylchau *CJJT* gan D. E. Jenkins, yn 'Review and revision'. Gw. ymhellach fy ymdriniaeth â'r cofiannau ym mhenodau 3 a 4 y traethawd hwn.

[103] Gellir maentumio mai gan Fanny Jones ei hun y cafodd yr hanes, er nad oes tystiolaeth ysgrifenedig o hynny hyd y gwyddys.

> Y mae yn debyg mai y tro hwn yn Machynlleth, oedd y tro cyntaf i Mr Ebeneser Morris ei wrandaw ef: ac er nad oes genym unrhyw dystiolaeth bendant o'r hyn a feddylid ganddo ef y pryd hwn am dano, eto oddiwrth yr ymdrech neillduol a gymmerodd, gydâ Mr Ebeneser Richard, i'w gael i Gymdeithasfa Llangeitho y flwyddyn ganlynol, ni a allwn gasglu ei fod, fel y buasem yn dysgwyl, wedi cael boddlonrwydd mawr. (*CHR*, 132)

Digwydd yr elfen hon yn bur gyson yng nghofiannau Owen Thomas, ond fe ddylid pwysleisio nad ydyw yn tynnu dim oddi ar ei gydwybodolrwydd tuag at ei ffynonellau yn ôl arfer yr oes, nac ychwaith ar ei bwyslais ar 'fanylder' ac 'eglurder' fel safonau cofiannol anhepgor. Y mae, fodd bynnag, yn bwrw goleuni diddorol ar ddulliau creadigol y cofianwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[104]

Bid a fo am hynny, megis ei brosesau cofiannol, gwelir bod ymgais Owen Thomas i fod yn eglur yn cyd-fynd unwaith eto â'r newid mynegiannol i'r person cyntaf lluosog sy'n dwyn y cofiannydd yn ymwybodol i'r testun. Weithiau, ceir ymdriniaeth syml, uniongyrchol sy'n cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r ffynhonnell a ddefnyddir a/neu eglurhad dros benderfyniad y cofiannydd parthed y ffynhonnell honno. Gwelir hyn yn nefnydd y cofiannydd yn *Cofiant John Jones, Talsarn* o bregethau John Jones ar y testun 'Ai gwir yw y preswylia Duw gyda dyn ar y ddaear' (2 Cronicl 6:18). Cyflwynir dyfyniad o atgofion Griffith Hughes am y pregethau, ond mae Owen Thomas yn egluro'i benderfyniad i gynnwys y ffynhonnell: 'Gan fod y pregethau hyn . . . wedi effeithio cryn lawer ar feddwl ein hen gyfaill y Parch. Griffith Hughes, Edeyrn, ni a adawn iddo ef gael traethu ei adgof am danynt; ac fel y canlyn y mae efe yn ysgrifenu' (*CJJT*, 189). Dro arall, amlygir ymhellach y broses gofiannol drwy fod Owen Thomas yn cyflwyno eglurhad manwl ar sut y cyfunwyd sawl

[104] Wrth gwrs, gellir dadlau na fyddai Owen Thomas yn gweld angen cyfeirio at ffynhonnell megis adroddiad o'r Gymdeithasfa yn y *Drysorfa*, neu gofnodion yr ysgrifennydd, gan y disgwylid y byddai darllenwyr y cofiannau yn fwy na chyfarwydd â hwy. Eto, gwna hynny ar rai adegau.

ffynhonnell er mwyn llunio'i adroddiad ar y bregeth 'Mor werthfawr yw dy drugaredd, O Dduw! Am hyny yr ymddiried meibion dynion dan gysgod dy adenydd' (Salmau 36:7):

> Y mae y Parch. Robert Parry, Ffestiniog, a Mr. Rees Roberts, Harlech, wedi bod mor garedig ag anfon i ni eu hadgofion hwy am dani megys ag y traddodwyd hi y pryd hwn; ac y mae yr Adroddiad canlynol wedi ei wneyd i fynu o'u hadroddiadau hwy, ynnghyd âg o'n hadgofion ein hunain am y bregeth, fel y clywsom ni hi mewn Cyfarfod yn Llanwyddelen, Sir Drefaldwyn, Ionawr 18, 1849. (*CJJT*, 629)

Nid yn unig, y mae eglurhad o'r fath yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r ffynonellau a ddefnyddiwyd, ond y mae yn ogystal yn cyd-destunoli'r adroddiad ar y bregeth sy'n dilyn o safbwynt Owen Thomas fel cofiannydd. A gwelir nad wrth drafod atgofion o bregethau y digwydd y nodwedd eglurhaol, uniongyrchol hon yn unig. Yn *Cofiant Henry Rees*, sonia Owen Thomas am daith Henry Rees i Berlin yn 1857 (y cyfeiriwyd ati uchod, t.121). Noda'r cofiannydd i'w wrthrych anfon '[ll]ythyr maith' at ei ferch wedi iddo ddychwelyd sy'n sôn am y daith, ac â ati i egluro a chyfiawnhau ei benderfyniad i gynnwys cyfran yn unig o'r llythyr yn y cofiant er mwyn osgoi ailadrodd yr un wybodaeth. Unwaith eto, y mae'n ymresymu'n fanwl ac ymwybodol:

> . . . gan iddo [Henry Rees] gydsynio . . . i draddodi, ar ffurf Darlith, adroddiad lled helaeth o'i ymweliad . . . a bod yr hyn a baratoasid ganddo at hyny wedi ei gael, yn ei law-ysgrifen ei hunan, yn mysg ei bapurau, wedi ei farwolaeth, a'n bod yn bwriadu dodi yr Adroddiad hwnw i mewn yn gyflawn yn y dalennau nesaf, – ni a wnawn yma, rhag bod dan yr angenrheidrwydd o ail-adrodd yr un pethau, ond rhoddi rhai dyfyniadau o'r llythyr at Mrs Davies. (*CHR*, 624)

Yn amlwg y mae'r llythyr a'r ddarlith yn berthnasol i'r cofiant, ond yma eto gwelir y cofiannydd yn cyfuno ffynonellau ar sail disgwyliadau esthetig ac eglurder ei ddarllenydd. Yn ogystal, drwy fanylu yn uniongyrchol am ei ffynonellau mae Owen Thomas yn adlewyrchu manylrwydd a chywirdeb yr ymdriniaeth gofiannol yng ngolwg ei ddarllenydd ac yn pwysleisio'i awdurdod ar y ffynonellau hynny.

Fodd bynnag, ni ddylid ychwaith ddiystyru'r ffaith fod presenoldeb y cofiannydd hefyd yn arwyddo'i amcanion cofiannol, megis pan gyflwyna'r llythyr cyntaf o eiddo John Jones yn ei gofiant. Gwneir hyn nid oherwydd ei berthnasedd i'r hanes cronolegol ond oherwydd yr olwg a rydd y llythyr ar John Jones fel cysurwr 'cyfaill hoff ganddo mewn trallod mawr', ac fe'i cyflwynir yn y cofiant yn union fel y derbyniwyd ef oni bai am ychwanegu'r dyfynodau.[105] Unwaith eto, felly, mae budd y darllenydd ynghlwm wrth ei benderfyniadau cofiannol parthed ei ffynonellau. Wrth adrodd am bregethu teithiol yn ardal Llansannan yn *Cofiant Henry Rees*, cyfeiria Owen Thomas at '[dd]au gôf-lyfr o eiddo y diweddar Barch. Peter Roberts', sy'n cynnwys cyhoeddiadau nifer o bregethwyr yn yr ardal rhwng 1814 a 1822. Er nad yw'r ffynhonnell yn hawdd i'w dehongli, dywed Owen Thomas: 'ni a gymmerwn un tudalen, yr ydym yn tybied yn cyfeirio at y flwyddyn 1821, yn rhoddi y cyhoeddiadau tua Llansannan am un wythnos, fel y gallo y darllenydd gael cipolwg ar y teithio oedd yn y wlad gydâ'r efengylau, y dyddiau hyny' (*CHR*, 43). Sonnir sawl gwaith yn y cofiannau am 'gynorthwyo' y darllenydd neu gynnwys gwybodaeth gyda'r gobaith y bydd yn 'ddyddorol', neu o leiaf yn dderbyniol, iddo.[106] Dro arall, y mae'n fwy eglurhaol fyth, gan gymryd gofal mawr dros sicrhau bod y darllenydd yn deall yn union ei resymau dros ymdrin fel y gwna â'i ffynonellau. Amlygir hyn yn ei sylwadau wrth drafod taith Henry Rees a Moses Parry i'r Unol Daleithiau. Noda'r cofiannydd fod dwy ffynhonnell wedi eu defnyddio i adrodd yr hanes, sef llyfryn o'r enw *Y Genadaeth i'r America* a luniwyd gan Henry Rees a'i 'ddyddlyfr' sydd hefyd yn cofnodi hanes y daith. Penderfyna 'mai y peth gorau a allwn ni ei wneyd' yw cyfuno'r adroddiadau hyn wrth adrodd yr hanes, gan ychwanegu atynt rai llythyrau a ysgrifennwyd gan Henry Rees tra oedd ar y daith. Ond ychwanega: 'Lle y caffo y darllenydd, sydd yn meddu y llyfryn, unrhyw amrywiad oddiwrth, neu ychwanegiad at yr hyn

[105] *CJJT*, 249. 'Gwahan-nodau' yw term Owen Thomas. William Roberts, Amlwch oedd y 'cyfaill'. Fel y dywed yr awdur yma, dyma un o'r ychydig lythyrau gan John Jones i'w cynnwys yn y cofiant.
[106] Gw., er enghraifft, *CHR*, tt.167, 214 a *CJJT*, t.135.

a geir yn hwnw, dealled ein bod ni y pryd hyny yn dilyn y *dyddlyfr ysgrifenedig*' (*CHR*, 258-9, pwyslais OT).

Enghraifft nodedig o'r ymboeni manwl hyn ynglŷn ag eglurder ei brosesau i'r darllenydd yw pan gyflwyna'r sgwrs a gafodd John Jones ar ei wely angau â'i frawd David Jones, ac a gofnodwyd gan David Jones ar ffurf deialog. Gan mai dyma'r sgwrs a dawelodd ofnau John Jones ynglŷn â'i gadwedigaeth dragwyddol, yr oedd yn hynod o berthnasol i naratif Owen Thomas. Gellid disgwyl, felly, y byddai Owen Thomas yn cynnig rhyw sylwadau rhagarweiniol yn ei chylch. Serch hynny, y mae'n ymresymu'n faith a thrylwyr ynglŷn â chyflwyno'r ffynhonnell:

> . . . Yr ydym yn teimlo wrth ei gyflwyno ger bron y darllenydd ein bod yn ei arwain i le cysegredig – at wely angau, ac i mewn i deimladau calon, un o'r gweision galluocaf a ffyddlonaf i Iesu Grist, a fu yn ei wasanaeth erioed, ac un a alwyd, yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyn, i 'mewn i lawenydd ei Arglwydd'. Ond ni wnaem gam mawr â'r *'Cofiant'* wrth beidio ei gyhoeddi. Rhaid i'r darllenydd gofio, mai yn y dull gwledig, rhydd a charuaidd, – ti a thithau, – a arferid ganddynt pan yn blant yn Nolyddelen, y byddai'r ddau frawd yn cyfarch ei gilydd bob amser, ac hyd ddiwedd eu hoes, ac felly yn yr ymddiddan hwn. (*CJJT*, 746)

Amlygir mwy nag un ystyriaeth gan y sylwadau uchod – rhai arddulliol, er enghraifft, o ran cyfiawnhau'r defnydd o 'ti a thithau' rhwng dau bregethwr amlwg. Ond y mae'r ystyriaeth benodol hon yn gysylltiedig â'r cyd-destun moesol ehangach, sydd ynghlwm wrth brosesau creadigol y cofiannydd parthed defnyddio'r ffynhonnell. Er bod parchu teimladau personol yn rhwym o wneud y cofiannydd yn anesmwyth ynglŷn â chyhoeddi'r sgwrs, daw i'r penderfyniad fod lles y cofiant, y lles i goffadwriaeth John Jones a'r lles a ddaw i'r darllenydd o ddarllen y sgwrs, yn gwrthbwyso unrhyw ofnau a goledda. Dyma gipolwg ar densiwn amlwg cofianwyr y cyfnod rhwng cyflwyno gwybodaeth berthnasol a disgwyliadau cymdeithas parthed tawedogrwydd. O'r herwydd, y mae am sicrhau bod arwyddocâd y dewis

a wnaethpwyd yn gwbl eglur i'r darllenydd. Daw'n amlwg, felly, fod ystyried y darllenydd, ac yn benodol ystyried y budd (llenyddol a moesol) a gâi o'r cofiant, yn elfen bwysig o resymeg Owen Thomas fel cofiannydd. Dyma, efallai, sy'n egluro ei duedd weithiau i ofyn maddeuant ei ddarllenydd wrth gyflwyno neu hepgor ffynonellau. Yn wir, ceir un enghraifft yn *Cofiant John Jones, Talsarn* sy'n awgrymu bod gan ddarpar ddarllenwyr y gyfrol ddylanwad uniongyrchol yn y broses gofiannol o ddethol deunydd. Wrth sôn am oedfa hynod a gafodd John Jones yn 1844, dywed fod 'amryw wedi crybwyll wrthym, a rhai wedi ysgrifenu atom, yr ystyrid ei Gofiant, ganddynt hwy, yn hollol anmherffaith, pe na byddai cyfeiriad neillduol ac arbenig ynddo ati' (*CJJT*, 628). Ymhellach, gellir dadlau mai gwedd ar ddylanwad y darllenydd yw'r atgofion a yrrwyd at Owen Thomas gan wahanol unigolion – atgofion a anfonid ato gan ddisgwyl y byddai yn eu defnyddio wrth lunio'r cofiant.

***'dal cysylltiad mor agos â ni ein hunain': yr hunan/gofiannydd***

Nid oes ddwywaith nad yw'r atgof yn ffynhonnell greiddiol i Owen Thomas fel cofiannydd. Cynhwysir atgofion am y gwrthrychau gan amryw unigolion yn y cofiannau.[107] Serch hynny, nid trefnu neu ddehongli deunyddiau ac atgofion eraill yn unig a wnaeth. Fel y nodwyd eisoes, ef oedd awdur nifer fawr o'r atgofion sy'n ymddangos yn y cofiant. Yn wir, er gwaetha'r bwlch sylweddol rhwng cyfnod yr atgof a'r adroddiad ohono yn y naratif,[108] y mae'r cofiannau yn dyst i gof 'diarhebol' Owen Thomas,[109] a'i ddawn i ddwyn yn ôl enwau, dyddiadau, digwyddiadau, rheoliadau, hanesion, sgyrsiau, a hyd yn oed ddarnau o areithiau a

[107] Mae'r ffynhonnell hon yn amrywio o atgofion gan y gwrthrych ei hun, neu aelodau o'i deulu, i gyfeillion, cyd-bregethwyr (cyfuniad o'r ddau yn aml), cyd-weithwyr a dieithriaid a ddaeth i ryw gysylltiad â'r gwrthrych neu a oedd yn ei edmygu. Gwelir yn y cofiannau, er enghraifft, lythyrau a gynhwyswyd gan gyd-bregethwyr yn olrhain taith bregethu gyda'r gwrthrych, neu'n adrodd hanes rhyw bregeth nerthol o'i eiddo. Yr un bwriad sydd i adroddiadau neu lythyrau dieithriaid a'i clywodd yn pregethu, neu a fu'n cyd-letya ag ef ar ryw achlysur.

[108] Tua deugain mlynedd mewn rhai achosion yn *CJJT* a hanner can mlynedd a mwy mewn nifer o achosion yn *Cofiant Henry Rees*.

[109] Ys dywed Evan Price amdano wrth ei gymharu â'r hanesydd Thomas Babington Macaulay. Dyfynnir yn Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.246.

phregethau o niwl y gorffennol. Nid rhyfedd i D. E. Jenkins nodi: 'Reminiscence was his hobby'.[110] Y mae'r ffaith hon yn cyflwyno cyd-destun pellach iddo fel cofiannydd ymwybodol a goddrychol sy'n ymbresenoli ei hun yn ei gofiannau, sef ei fod yn bresennol fel cymeriad yn y cofiant, yn ogystal â chofiannydd. Ynghlwm wrth hyn, wrth gwrs, y mae perthynas gymdeithasol a deallusol Owen Thomas â'i wrthrychau. Er nad oedd ei gysylltiad â'i wrthrychau mor agos â rhai o'r cofianwyr mawr Seisnig a edmygai, yn benodol James Boswell neu John Gibson Lockhart, eto yr oedd yn bur agos.[111] Dichon mai agwedd baradocsaidd ar un wedd yw bod cofiannydd sy'n honni safbwynt gwrthrychol yn dibynnu cymaint ar ffynhonnell a oedd yn gwbl oddrychol. Ond fel y gwelwyd eisoes ym mhennod gyntaf y traethawd hwn, yr oedd cofiannu aelod o'r teulu neu gyfaill yn arfer cyffredin iawn ymysg cofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae hynny'n wir am y ddau gofiant a luniodd Owen Thomas. Yn y ddeunawfed ganrif, ac yna'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i raddau helaeth, defnyddiwyd perthynas glòs y cofiannydd â'i wrthrychau fel modd o danlinellu ei wrthrychedd neu gywirdeb cofiannol honedig y gwaith; ac unwaith eto yr oedd hefyd yn adlewyrchu'r berthynas rhwng gwahanol gyfryngau cofiannol a'i gilydd. Fel y dywed Alan Shelston, daeth yn un o rinweddau'r cofiant: 'Its authenticity springs from the very close affinity between author and subject . . . Failing an autobiographer, the next best thing must be a biographer who has personal knowledge of the subject.'[112] I Owen Thomas, felly, yr oedd yr atgof yn ffynhonnell mor ddibynadwy â'r llythyr.

---

[110] Jenkins, 'Review and revision', t.330. Nid oedd yn gwbl anffaeledig, fodd bynnag, yn enwedig erbyn llunio *Cofiant Henry Rees*, ac yntau bellach yn ei saithdegau. Gw. ei sylwadau yn rhagymadrodd y gyfrol hon wrth gywiro dau gamgymeriad a ddaeth i'r golwg. Dywed fod ei gof 'unwaith yn un y gallwn ddibynu yn hollol arno, ond fe'm siomodd y ddwy waith hyn' (t.viii). Gw. hefyd 'Nodiad' Owen Thomas yn yr un gyfrol (tt.758-9), lle mae Owen Thomas yn cywiro camgymeriad o'i eiddo y tynnwyd ei sylw ato gan y Parch. Thomas Rees, Merthyr. Ond y mae ei gof yn hynod, serch hynny.

[111] Gw. Lewis, 'Y cofiant Cymraeg'. Yr oedd Samuel Johnson yn gyfaill agos a mentor i Boswell, a threuliodd flynyddoedd yn ei gwmni. Yr oedd Lockhart yn fab-yng-nghyfraith i'w wrthrych ef, sef yr awdur Walter Scott.

[112] Shelston, *Biography*, tt.31 a 33.

Er nad oedd o'r un genhedlaeth yn union â John Jones a Henry Rees, yr oedd Owen Thomas yn cydoesi â'r ddau gan nad oedd ond pymtheng mlynedd rhyngddo ef a hwy.[113] Cafodd ei ordeinio i'r weinidogaeth yn 1844,[114] ac felly yr oedd eisoes wedi bod yn troi yn yr un byd â'i wrthrychau am dros ddeuddeng mlynedd erbyn marwolaeth John Jones yn 1857, ac am bum mlynedd ar hugain erbyn i Henry Rees yntau farw yn 1869. Yr oedd, felly, mewn sefyllfa fanteisiol iawn i bortreadu ei wrthrychau wrth eu galwedigaeth.[115] Ond yr oedd gradd bur dda o adnabyddiaeth yn perthyn rhyngddynt yn ogystal. Bu Owen Thomas yng nghwmni John Jones mewn aml i oedfa, cyfarfod cyfundebol ac ar sawl taith bregethu, a cheir digon o dystiolaeth yn y cofiant parthed y sgyrsiau a gawsant, yn benodol eu sgwrs olaf pan oedd John Jones ar ei wely angau. Gellir dadlau bod perthynas Henry Rees ag Owen Thomas yn agosach fyth. Yn ogystal â chyd-bregethu sawl gwaith, bu'r ddau yn cydweithio ar faterion cyfundebol, yn enwedig wrth i Owen Thomas ddod i fwy o amlygrwydd o fewn yr enwad. Ac am bedair blynedd olaf bywyd Henry Rees yr oedd y ddau yn cydweithio yn aml yn rhinwedd eu gwaith gweinidogaethol yn eglwysi dinas Lerpwl, lle câi'r cofiannydd 'y fraint fawr o gyfeillachu âg ef pan yn gwbl gartrefol' (*CHR*, 814).[116]

Nid rhyfedd, felly, fod Owen Thomas yn barod i bwyso cryn dipyn ar ei gof wrth adrodd hanes y ddau bregethwr hyn. Yr oedd ei adnabyddiaeth ohonynt hwy a'u byd yn golygu ei fod yn aml iawn yn rhan o'r atgof, ac yn rhan o'r stori a adroddid am ei

---

[113] Ganwyd Owen Thomas ar 16 Rhagfyr 1812, tra ganwyd John Jones ar 1 Mawrth 1797 a Henry Rees ar 15 Chwefror 1798.

[114] Gw. Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.71.

[115] Roedd diddordeb ysol Owen Thomas mewn pregethu er pan oedd yn blentyn, ynghyd â'r ffaith ei fod yn byw yng ngogledd Cymru ac felly o fewn yr un cylch teithiol â'i ddau wrthrych, yn golygu y byddai wedi eu clywed yn pregethu sawl gwaith cyn ymuno â'r byd gweinidogaethol.

[116] Ymddengys nad cysylltiadau proffesiynol yn unig a oedd gan Owen Thomas. Sonia D. E. Jenkins ei fod ar un adeg wedi gobeithio priodi Ann, un o ferched John Jones, ond na ddaeth dim o'r uniad am na hoffai Ann ei 'hen geg fawr' (Jenkins, 'Review and revision', t.323). Geiriau, fe ymddengys, sy'n cyfeirio yn llythrennol at faint genau Owen Thomas. Noda Jenkins ymhellach i'r pregethwr Kilsby Jones honni unwaith fod ganddo geg mor fawr fel y gallai un hanner ohoni orffwys tra byddai'r hanner arall yn pregethu! Bid a fo am hynny, parodd ei briodas yn 1860 ag Ellen, merch y pregethwr dylanwadol William Roberts, Amlwch gysylltiadau pellach â Henry Rees, gan fod William Roberts ac yntau yn gyfeillion (*CHR*, 108). Yr oedd John Jones, wrth gwrs, yn ei fedd erbyn hynny.

wrthrychau. Ei bresenoldeb fel cymeriad yn ei gofiannau yw'r trydydd cyd-destun sy'n nodweddu llais cofiannol, eglurhaol Owen Thomas, ac unwaith eto mae ei ymddangosiadau amrywiol yn y testun yn amlygu ei grefft fel cofiannydd, ynghyd â bwrw goleuni ar ei fywyd a'i gymeriad ef ei hun. Weithiau, mae'r ymddangosiad yn bur wibiol, megis pan noda'n syml iddo bregethu pregeth angladdol i John Jones, Tal-y-sarn (*CJJT*, 765). Dro arall, fodd bynnag, mae i ymddangosiad Owen Thomas arwyddocâd pwysicach i'r hanes. Yr enghreifftiau amlycaf a geir yn y cofiannau yw'r sgyrsiau penodol a gaiff â'i wrthrychau wrth ymweld â hwy yn eu cystudd (cystudd angeuol yn achos John Jones) (*CJJT*, 740-1; *CHR*, 834). Yma, manylir ar yr hanes a chofnodir y sgwrs a gafwyd, a hynny ar ffurf deialog yn achos John Jones, Tal-y-sarn. Wrth gwrs, atgofion Owen Thomas yw'r ddwy enghraifft olaf, ac mae cysylltiad agos rhwng ei bresenoldeb yn y cofiannau a'r atgofion a adroddir ganddo. Fel y gwelwyd eisoes, y dechneg o newid llais o'r trydydd person i'r person cyntaf lluosog sy'n arwyddo dyfodiad Owen Thomas i'r naratif, boed fel cymeriad neu gofiannydd (neu'r ddau), ac mae'r elfen hon yn amlygu goddrychedd yr ymdriniaeth. Un enghraifft ddiddorol yn hyn o beth yw ei ddefnydd o'r rhagenw 'ein' wrth gyfeirio at gymeriadau neu at enwad y Methodistiaid Calfinaidd ei hun. Dyma bwysleisio ei fod, fel cofiannydd ac fel cymeriad, ynghlwm wrth yr atgofion y mae'n eu hadrodd a'r gwrthrych y mae'n ei bortreadu. [117] Megis ei brosesau eraill fel cofiannydd, y maent yn amlygu ei bersona cofiannol, a hynny mewn mwy nag un cyd-destun.

[117] Cyfeiria at William Roberts, Amlwch yn y naill gofiant a'r llall fel 'ein hanwyl dad-yng-nghyfraith'. Gw., er enghraifft, *CJJT*, tt.249, 637 a *CHR*, t.785. Diddorol yn y cyswllt hwn yw sylw Joseph Reed ynglŷn â gwrthrychedd honedig Lockhart yn ei gofiant i Walter Scott. Dywed mai anfynych y cyfeiria'r cofiannydd at ei wrthrych fel 'my father-in-law' (Reed, *English Biography in the Early Nineteenth Century*, t.134). Am ei ddefnydd o'r rhagenw yng nghyswllt y 'Cyfundeb' gw., er enghraifft, *CHR*, tt.345, 362, 531, 903. Yn ddiddorol iawn, ni cheir yr elfen hon yn *CJJT* hyd y gwelir (lle cyfeirir at 'y Cyfundeb' (t.764)). Tybed a yw'r ffaith fod cysylltiad agos Henry Rees ag arweinyddiaeth y Cyfundeb, o gymharu â pherthynas oerach John Jones ag ef, yn gyfrifol am hyn? Ymhellach, dichon fod cysylltiad Owen Thomas â'r Cyfundeb, a'i safle fel un o'i arweinwyr, yn llawer amlycach erbyn y 1880au nag ydoedd yn y 1860au.

*'yr ydym yn cofio yn dda': atgofion cyffredinol*

Yn aml, y mae atgofion Owen Thomas yn rhai cyffredinol sy'n cyflwyno gwybodaeth berthnasol i'r hanes, neu ddehongliad y cofiannydd o'r hanes. Gall hynny olygu gwybodaeth 'ffeithiol' yn unig, megis ei fod yn bresennol, neu'n methu â bod yn bresennol, yn un o oedfaon y gwrthrych neu ei fod yn cyd-letya gydag ef ar adeg gŵyl bregethu. Ond gall olygu gwybodaeth sy'n gymysg o'r ffeithiol ac o farnau neu gasgliadau'r cofiannydd, yn ogystal. Wrth wrando ar John Jones yn pregethu yng Nghymdeithasfa Caergybi yn 1826, dywed 'fod genym gystal cof am ei ddull a'n teimladau, a rhyw gymmaint o'r pethau a ddywedodd, a phe buasem yn ei wrandaw neithiwr, ac yr oedd yn pregethu gyda nerth ac effeithiolrwydd mawr' (*CJJT*, 177). Serch hynny, nid manylu ar y profiad o glywed John Jones a wneir. Yn hytrach rhydd ei farn am 'ddiffyg unoliaeth' y bregeth, cyn ychwanegu nad oedd hynny wedi effeithio ar fwynhad y dyrfa, a'i fod yn 'cofio yn dda' fod y pregethwyr eraill yn ymddangos fel pe baent yn ei mwynhau'n arw. Enghraifft bellach yw'r sylwadau a gyflwynir pan edrydd am gyd-bregethu â Henry Rees ar agoriad capel newydd yn y Bala yn 1867, yn fuan wedi i'w wrthrych wella o salwch. Yma, nodir ei fod yn ymddangos yn iach ac yn gryf cyn ychwanegu 'ac, yn sicr, yr oedd yn pregethu mor nerthol, ag y clywsem ef odid un amser' (*CHR*, 844). Unwaith eto, ni fanylir ar yr hanes.[118] Sylwer hefyd fod Owen Thomas yn bresennol yn y naratif pan fo'n absennol o'r hanes. Sonia fwy nag unwaith am fethu â bod yn bresennol ar gyfer rhyw achlysur perthnasol i fywyd ei wrthrych, megis oedfaon nodedig. Ond gall sicrhau'r darllenydd yn aml o safon y bregeth, megis y gwna â phregeth Henry Rees yng Nghymdeithasfa Bangor, 1841, lle noda, 'ni a glywsom lawer o sôn am dani, a chanmoliaeth uchel iddi', cyn mynd ati i restru pennau'r bregeth (*CHR*, 361). Nid annhebyg yw ei duedd achlysurol i aralleirio yr hyn a ddywedwyd wrtho gan ei wrthrychau. Ceir sawl enghraifft yn

[118] Ceir atgofion am y gwrthrychau y tu hwnt i'r pulpud yn ogystal, megis pan sonia Owen Thomas am ymweliadau Henry Rees â'i gartref yn Llundain (*CHR*, tt.768-9, 782). Noda yn unig rai manylion ynglŷn ag iechyd ei wrthrych cyn sôn ei fod yn 'cofio yn dda' amdano'n canmol cyfarchiad John Parry, Bala yn y Cyfarfod Eglwysig. Terfynir y sylwadau wrth adrodd iddo bregethu'n effeithiol (*CHR*, tt.768-9).

y naill gofiant a'r llall pan ddywed Owen Thomas eiriau megis 'Ni a'i clywsom ef yn dywedyd', 'Clywsom ni ef ei hunan yn dywedyd', 'Clywsom ef fwy nag unwaith . . .', er nad yw yn dyfynnu eu geiriau'n uniongyrchol.[119] Y mae presenoldeb atgofion cyffredinol o'r fath o eiddo Owen Thomas yn amlygu ei bresenoldeb yn y cofiannau ac, o'r herwydd, ei berthynas â'i wrthrychau. Ond y mae, yn ogystal, yn cyfiawnhau ei agenda gofiannol drwy gadarnhau a phwysleisio awdurdod ei farnau a'i safbwyntiau ei hun ym marn y darllenydd.

*'yr ydwyf yn cofio eto': atgofion hunangofiannol*

Ceir yn ogystal atgofion gan y cofiannydd sydd, er eu bod yn berthnasol i hanes y gwrthrych, yn fwy personol eu naws. Yn hytrach na chyfleu barn yn unig, mae presenoldeb Owen Thomas yn arddangos ei deimladau a'i emosiynau ei hun. Tra oedd yn gwrando pregeth rymus gan John Jones, Tal-y-sarn ym Mangor yn 1835, er enghraifft, sonia'r cofiannydd am effaith un sylw trydanol o'r bregeth, a thry i ddisgrifio ei brofiad ef ei hun o'i glywed: 'Yr oeddem ni ein hunain, yn teimlo fel pe buasai rhyw beth yn rhedeg i fynu i'n corph drwy wadnau ein traed' (*CJJT*, 203-4). Ceir yr un manylu ar effaith emosiynol gwrando pregeth pan edrydd am y bregeth ryfeddaf o eiddo John Jones a glywodd (*CJJT*, 725), sef oedfa John Jones yn Llundain ar nos Sul y Pasg, 1856. Ymddengys i'r bregeth hon effeithio cymaint ar Owen Thomas nes ei gadw yn effro tan bedwar o'r gloch y bore canlynol (*CJJT*, 728). Y mae sylwadau sy'n amlygu teimladau neu emosiynau'r cofiannydd i'w canfod yn y cofiant i Henry Rees yn ogystal, ac nid yn yr oedfa yn unig y digwydd elfen o'r fath. Wrth gyd-letya â Henry Rees yng nghartref merch y pregethwr nerthol Thomas Richard yn 1855, dywed 'nad ydym yn cofio i ni erioed dreulio dyddiau mwy difyrus' (*CHR*, 590). Er nad oes enghreifftiau niferus o'r elfen emosiynol hon yn y cofiannau, y maent yn fodd o amlygu'r cofiannydd fel cymeriad o gig a gwaed yn ei destun, yn ogystal â dwysáu ei gysylltiad, a'i berthynas, â'i

[119] *CJJT*, t.162; *CHR*, t.122; *CJJT*, t.205.

wrthrych. Yn wir, gellir dadlau bod prinder sylwadau o'r fath yn ategu at eu heffeithiolrwydd.

Un nodwedd ddiddorol o bresenoldeb Owen Thomas fel cymeriad yn ei gofiannau yw y gall hynny ychwanegu dimensiwn personol i'r atgof a gyflwynir. Yn aml iawn, cyfeiria at ddigwyddiadau penodol, neu gerrig milltir ym mywyd Owen Thomas ei hun, ond sydd eto yn gysylltiedig â hanes ei wrthrych ac yn berthnasol i'r portread cofiannol. Un digwyddiad o'r fath yw pan edrydd y cofiannydd am y tro cyntaf iddo glywed ei wrthrych yn pregethu. Ceir adroddiadau byw o'r digwyddiad yn y naill gofiant a'r llall. Ac fe lywir yr adroddiad gan safbwynt personol y cofiannydd (safbwynt llygad-dyst yn yr achos hwn). Yn y cofiant i Henry Rees, er enghraifft, sonia nad oedd, y diwrnod hwnnw, 'ond newydd gael ein pen blwydd yn ddeg oed' (*CHR*, 123). Y mae'r adroddiad am John Jones yn feithach (*CJJT*, 155-61), ond unwaith eto wedi ei adrodd o safbwynt hunangofiannol Owen Thomas. Yn wir, y mae'r cofiannydd yn tynnu sylw at y dimensiwn amgen a gyflwynir wrth adrodd am y digwyddiad hwn drwy nodi ei fod am 'ddisgyn i ddull mwy rhydd a chwedleuaidd' i adrodd yr hanes (*CJJT*, 156). Sonia fod ei dad wedi clywed John Jones yn pregethu ym Mangor ychydig wythnosau ynghynt, ac wedi ei ganmol i'r cymylau a bod John Elias, arwr mawr Owen Thomas fel pregethwr, wrth gwrs, wedi cyhoeddi ei fod i bregethu yn Rhoscolyn yr wythnos ganlynol. O'r herwydd, dywed y cofiannydd ei fod yn 'hiraethu am y Sabbath canlynol', a'i fod yn mynychu'r oedfa yn bryderus oherwydd nad oedd am i John Jones bregethu'n well na'i eilun. Ond caiff y pregethwr effaith mawr arno, cymaint yn wir nes ei fod yn methu peidio â gwerthfawrogi ei weddi huawdl – a hynny er gwaetha'r ffaith fod ganddo 'er yn blentyn ryw wrthwynebiad teimlad i arddangosiad o ddoniau helaeth a rhyw hwyliau uchel wrth weddïo' (*CJJT*, 159). Y mae'r adroddiad yn ddramatig ac mae'r cofiannydd yn llwyddo i ddwyn y darllenydd yn fyw iawn i ganol yr oedfa nodedig honno:

> Mi a ymwthiais, gyda chyfeillion ieuainc eraill o Gaergybi, nes cyrraedd ychydig yn mlaen, nid yn hollol i ganol y capel, ac eto yn ddigon . . . agos i weled y llinellau lleiaf yn y wynebpryd ac i glywed pob gair a ddywedai . . . Yr oedd Mr Richard Roberts, mab Mr John Roberts, Currier . . . yn sefyll tu cefn i mi yn y dorf ac yn amddiffyn i mi rhag derbyn dim niwed oddiwrth y tyndra oedd yn y Capel, ac yr ydwyf yn cofio eto fy mod yn troi fy mhen i fynu ato, yn fuan wedi i John Jones ddechrau pregethu, ac yn dywedyd wrtho '*Y mae hwn yn ei medru hi.*' (*CJJT*, 159-60, pwyslais OT)[120]

Yn ychwanegol at sylwadau sy'n ymwneud â'r bregeth ei hun, ceir rhai manylion nad ydynt, o reidrwydd, o bwys i'r adroddiad o'r hanes na bywyd y gwrthrych fel y cyfryw ond sy'n dwysáu'r effaith ar y darllenydd fod y cyfan yn cael ei adrodd drwy lygaid y cofiannydd. Sonnir, er enghraifft, fod Owen Thomas a'i gyfeillion wedi prysuro tua Chaergybi 'i gael tamaid o ginio' ac i ddisgwyl John Jones yno i bregethu yn y prynhawn. Enghraifft nodedig arall yw pan edrydd atgof am y bregeth a draddodwyd gan John Jones yng Nghymdeithasfa'r Bala, 1834 – pregeth a oedd yn gysylltiedig â'r datblygiad a fu ar ei ddull o bregethu ac a gaiff sylw, yn naturiol, gan Owen Thomas.[121] Dyma oedd y tro cyntaf i Owen Thomas fynychu Cymdeithasfa bwysig tref Y Bala, ac er gwaethaf perthnasedd digamsyniol yr atgof i'w amcanion a'i ddehongliad cofiannol, yr elfen bersonol hon sy'n llywio'r stori. Prawf o hynny yw iddo gynnwys yn y naratif fanylion cyd-destunol nad ydynt o unrhyw arwyddocâd i bregeth John Jones fel y cyfryw:

> Dyna y Gymdeithasfa gyntaf erioed i ni yn y Bala, ac y mae yn fwy byw yn ein meddwl nag odid Gymdeithasfa ar ol hyny. Yr oeddem wedi bod yn gweithio yn galed drwy'r dydd, ddydd Mawrth, Mehefin 10, yn y Penrhyn, gerllaw Bangor. Pan oeddem gartref, ar ol noswylio, ar ganol bwyta ein prydnawn-bryd, daeth Mr. Hugh Roberts, Bangor, i dŷ ein mam, i'n cymhell i fyned gydâg ef a chyfeillion ereill i *Sassiwn* y Bala. Cytunasom i fyned, bedwar o honom, ar hyd y nos, ar ein traed yno. (*CJJT*, 226)[122]

---

[120] Diddorol yw'r defnydd o'r person cyntaf unigol yn y dyfyniad uchod sy'n clymu'r cofiannydd a'i ddarllenydd yn agosach fyth wrth yr hanes. Gw. n.83 uchod, serch hynny.
[121] Gw. y drafodaeth ar y datblygiad hwn ym mhennod 3 y traethawd, tt.183-97.
[122] Wrth gwrs, nid yw pob enghraifft mor ddramatig â'r enghreifftiau uchod, ond yr un yw bwriad a chanlyniad presenoldeb o'r fath.

Er gwaethaf (neu oherwydd) natur bersonol a hunangofiannol atgofion o'r fath, y mae agosatrwydd y cofiannydd i'w ddarllenydd, ynghyd ag elfen anecdotaidd a dramatig y dweud yn tanio'r naratif ac yn gwbl gydnaws ag amcanion cofiannol Owen Thomas o bortreadu pregethwr mawr a hynod. Y maent, yn ogystal, yn dwysáu dilysrwydd y profiad a gyflwynir, ac atgyfnerthu awdurdod y traethydd ar ei atgof. Hynny yw, gall y dimensiwn personol ddyrchafu profiad y cofiannydd hyd nes ei fod cyn bwysiced â llais hunangofiannol y gwrthrych.

Dro arall, y mae'r atgof yn fwy personol fyth. Er enghraifft, wrth adrodd yn *Cofiant Henry Rees* am oedfaon ei wrthrych ar ddechrau Mawrth 1867, noda iddo bregethu yn Netherfield Road, Lerpwl. Wedi nodi testun y bregeth a chynnwys cyfeiriad at yr ail gyfrol o bregethau Henry Rees, cyflwynir dimensiwn personol i'r naratif pan ddywed Owen Thomas mai dyna oedd y bregeth olaf 'i'n hanwyl briod' ei chlywed. Â ymlaen i nodi'r cydymdeimlad a'r cymorth a gafodd gan Henry Rees tra oedd 'yn nyfnder ein trallod wedi ei cholli' (*CHR*, 841), gan gynnwys ei ymweliad ag ef drannoeth colli ei briod. Edrydd yr hanes amdano'n gweinyddu yn yr angladd ac yna fedyddio'r baban 'gydâ theimlad a thynerwch, ac yn enwedig ymdrech enaid gydâ Duw ar ei rhan, nas gallwn byth eu hannghofio' (*CHR*, 842), cyn sôn am y sgwrs a gafwyd rhyngddynt, lle dyfynna eiriau Henry Rees. Er bod Owen Thomas yn llawn sylweddoli ei fod yn cyflwyno hanes sy'n 'dal cysylltiad mor agos â ni ein hunain', noda berthnasedd y darn i'r darlun o Henry Rees a gyflwynir, ac o ganlyniad y budd a ddaw i'r darllenydd o rannu'r profiad. Mae'n arwyddocaol bod llais cofiannol, eglurhaol Owen Thomas i'w glywed yma yn ogystal, a gellir yn ddiau ystyried atgofion personol o'r fath fel rhai hunangofiannol o fewn naratif y cofiannau. Byddai'n deg dweud bod yr elfen hon yn amlycach yn *Cofiant Henry Rees*. Tybed nad yw hynny'n adlewyrchu bod perthynas

Henry Rees ac Owen Thomas yn fwy personol ei naws na'r un rhyngddo a John Jones,[123] ynghyd â'r ffaith fod y cofiannydd yn hen ŵr erbyn troi at ysgrifennu'r ail gofiant, ac efallai'n fwy chwannog i edrych yn ôl dros ei fywyd ei hun.

Yr un naws hunangofiannol sydd i'r naratif ar ddiwedd y cofiannau yn ogystal. Wrth gwrs, mae terfyn cofiant yn lle digon naturiol i'r cofiannydd bresenoli ei hun a thynnu casgliadau ynglŷn â bywyd y gwrthrych dan sylw. Eto, y mae'r sylwadau a geir yn y naill gofiant â'r llall nid yn unig yn goleuo teimladau Owen Thomas parthed y broses o lunio'r cofiant ond hefyd yn amlygu'r bwriad neu'r amcan arbennig a'i sbardunodd i ysgrifennu. Yn y naill gofiant a'r llall, ymdeimlir â rhyddhad y cofiannydd o gael gorffen y gwaith, ond hefyd â'i fwynhad o fod wedi cael ail-fyw'r cyfeillgarwch a'r berthynas drachefn. Y mae tinc o hiraeth yn ei eiriau wrth gloi *Cofiant Henry Rees* pan ddywed ei fod, wrth ysgrifennu, 'yn ein teimlo ein hunain yn fynych megis gydâg ef drachefn; yn y gymdeithas buraf a hyfrydaf, y gallem braidd feddwl am dani, tu yma i'r nefoedd ei hunan' (*CHR*, 966). Yn naturiol ddigon, cysylltir hyn ag agenda gofiannol Owen Thomas o gyflwyno gwrthrych delfrydol er lles ei ddarllenydd. Gwelir nad cofiannydd anweledig a diddychymyg yw Owen Thomas, felly, ond un sydd â'r berthynas hanfodol a chymhleth â'i wrthrychau ac â'i ddarllenydd yn ganolog i'w ddeongliadau o'r gwrthrychau hynny ac i'w grefft fel cofiannydd.

[123] Gw. y drafodaeth ar y cofiant i Henry Rees ym mhedwaredd bennod y traethawd hwn.

## 2.3. CLO

Yn ei ragymadrodd i glasur James Boswell, *Life of Johnson*, noda Pat Rogers yn ddiamwys nad oes modd i neb heddiw synio am y cofiannydd, 'as Macaulay had done, the chance creator of a single brilliant book'.[124] Gobeithio bod y bennod hon wedi cyfrannu at y drafodaeth brin a fu hyd yn hyn ar grefft neu gelfyddyd gofiannol Owen Thomas, ynghyd â chadarnhau'r elfen honno. Gwelwyd bod Owen Thomas yn llunio'i gofiannau mewn oes a oedd yn fodlon cydnabod llafur neu ymdriniaeth y cofiannydd â'r dystiolaeth (wrth anelu at fanylder a gwrthrychedd), ond na syniai am ei 'gelfyddyd' fel y cyfryw. Ac yr oedd Owen Thomas yntau mor nodweddiadol o'i oes â'i gyd-gofianwyr, ac mor gaeth â hwythau i dueddiadau, rhagdybiaethau a rhagfarnau ei gyfnod. Dadleuwyd, er enghraifft, fod ei bwyslais didactig ar gyflwyno portread o'i wrthrychau, a oedd wedi ei seilio ar eu duwioldeb a'u diwydrwydd, yn ei glymu wrth y traddodiad cofiannol Cymraeg. Eto, nid cofiannydd nodweddiadol o'r traddodiad hwnnw oedd Owen Thomas, ac nid cofiannau arferol a gynhyrchodd. Perthynai iddo egwyddorion penodol parthed cofiannaeth, a gwelwyd ei fod wedi mynd ati yn ei gofiannau i ddatblygu yn gelfyddydol ar y traddodiad a roes batrwm iddo.

Gobeithir y bydd y drafodaeth uchod yn cyfrannu at duedd ddiweddar gan feirniaid llên y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Lloegr a'r Unol Daleithiau i ailddehongli cofiannaeth y cyfnod. Ceisiwyd cynnig dadansoddiad o grefft gofiannol Owen Thomas sy'n tynnu ar bwyslais newydd rhai trafodaethau beirniadol ym maes hunan/gofiannaeth ar ystyried perthynas gymhleth y cofiannydd â'i wrthrych ac â'i ddarllenydd. Yn wyneb trafodaethau a datblygiadau o'r fath, cyflwynwyd ymdriniaeth sy'n ymwrthod â'r cysyniad traddodiadol o'r awdur hollalluog, diduedd a gwrthrychol a oedd yn gwbl absennol o'r testun. Er na fyddai'n

[124] Pat Rogers, 'Introduction', yn James Boswell, *Life of Johnson*, gol. R. W. Chapman (Oxford, 1998), t.vi.

deg honni bod Owen Thomas yn meddu ar ryw gysyniadau datblygedig ac aruchel parthed 'celfyddyd' wrth gofiannu ei wrthrychau, y mae serch hynny yn gwneud mwy na chroniclo'r bywyd sy'n ymrithio o flaen ei lygaid. Yn wir, dadleuir bod Owen Thomas yn gofiannydd ymwybodol a phresennol yn ei gofiannau sy'n deillio o'i awydd i fod yn eglur ac argyhoeddi ei gynulleidfa. Hydreiddir y naill gofiant a'r llall â llais cofiannol sy'n amlygu'n ymwybodol y prosesau cofiannol artistig sy'n ganolog i saernïaeth ei gofiannau – prosesau sydd ynghlwm wrth y deongliadau o'i wrthrychau, ac sy'n eu goleuo. Yn wir, nod y bennod hon oedd cynnig dadansoddiad o brosesau a doniau cofiannol Owen Thomas er mwyn dadlennu'r dehongliad cofiannol sy'n sail i'r cofiannau o'i eiddo a drafodir yn y penodau dilynol. Y mae'r llais cofiannol hwn yn gysylltiedig â nodweddion a berthynai i Owen Thomas ei hun, ac a ganmolwyd ganddo mewn gweithiau eraill, megis manylrwydd ac eglurdeb yr ymdriniaeth, parch at ffynonellau, dawn ymadrodd a chof diarhebol. Ond y mae'r modd yr amlyga'r llais cofiannol (a hunangofiannol) y prosesau creadigol hyn yn awgrymu y gwyddai Owen Thomas fod angen dethol, dehongli, darlunio a saernïo wrth greu ei bortread a'i ddehongliad yn ei gofiannau. O'r herwydd, gellir dadlau mai cofiannydd, rhagor croniclydd, oedd Owen Thomas yn ei ymdriniaeth â'i wrthrych; cofiannydd a amcanai, yn ei eiriau ei hun, '[d]ynnu darluniad o hono, wrth yr hwn, i fesur mawr, os nad yn hollol, y bydd yn cael ei adnabod gan y rhai a ddeuant ar ol'.[125] Troi at ddehongliad neu bortread y cofiannydd ei hun o'i wrthrych fydd byrdwn y ddwy bennod nesaf drwy gyfrwng astudiaeth o ddau gofiant Owen Thomas, sef *Cofiant John Jones, Talsarn* (1874) a *Cofiant Henry Rees* (1890).

[125] Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.282-3. Gw. pennod 1 y traethawd hwn, tt.14-15, am ddyfyniad llawnach o'r llythyr.

# 3

# 'Nis gallesid neb ei wneuthur fel yr hwn a'i gwnaeth':

## *Cofiant John Jones, Talsarn*

Clinigol o fanwl, yn wir, yw cofnod Griffith Parry, Llanrwst am farwolaeth y pregethwr hynod John Jones, Tal-y-sarn (1797-1857). Bu farw, meddai, 'ar y Sabbath, yr 16eg o Awst yn y flwyddyn 1857, deng munyd wedi deg o'r gloch yn y boreu'.[1] Fel y nodwyd eisoes, tyrrodd y tyrfaoedd i dalu'r deyrnged olaf rhyw wythnos yn ddiweddarach, ac yn ei ragymadrodd i gyfrol o bregethau John Jones a gyhoeddwyd yn 1869, â Griffith Parry rhagddo i geisio egluro'r galar mawr a deimlid ar y pryd. Noda fod 'ei dalentau mawrion, a'i ddefnyddioldeb annghyffredin . . . wedi ei wneuthur yn feddiant cyffredin y genedl'.[2] Ond y mae'n ofalus i bwysleisio nad oedd am adrodd hanes ei fywyd gan y gwneid hynny gan ei 'fywgraphydd galluog', Owen Thomas, a oedd wrthi'n llunio'r cofiant ar y pryd.[3] Pan welodd *Cofiant John Jones, Talsarn*,[4] olau dydd o'r diwedd bum mlynedd yn ddiweddarach yn 1874, gellir dadlau y byddai 'clinigol o fanwl' yn ddyfarniad teg ar ei gynnwys yntau. Ond nid manylder yn unig a oedd i'r gyfrol ond mawredd. Yn wir, ymddengys y bu cryn ddathlu ar ymddangosiad y cofiant:

---

[1] Griffith Parry (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych, 1869), t.iii.
[2] Ibid., t.iv.
[3] Ibid.
[4] Owen Thomas, *Cofiant yParchedig John Jones, Talsarn mewn cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrexham, 1874). O hyn allan yn y bennod hon, bydd unrhyw gyfeiriadau unigol at y cofiant hwn nad oes angen ymhelaethu arnynt yn ymddangos yn y testun. Nodir rhif y tudalen yn unig oni fydd amwysedd. Defnyddir y byrfodd *CJJT* yn y troednodiadau.

> Dyma'r cofiant hynod hwn o'n blaen yn gyflawn mewn cyfrol fawr, hardd, drwchus âg ynddi gymaint â 1052 o dudalenau . . . Fel y dywedasom wrth adolygu y rhanau cyntaf o hono yr oedd yn werth aros wrth Mr Thomas am y cofiant tra-rhagorol hwn, gan fod llawer o bethau anorfod ynglŷn âg ef wedi achlysuro oediad y gohiriad. Nis gallesid neb ei wneuthur fel yr hwn a'i gwnaeth. Mae hanes John Jones, Talsarn, a'i Amserau 'mewn cysylltiad â hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru' yn cael eu gosod ger ein bron yn eglur, yn helaeth, yn fywiog, a tharawiadol, heb ddiffyg o un math, a'r cyfan ar unwaith yn addysgiadol ac yn ddeniadol.[5]

Er bod rhannau cyntaf y gyfrol wedi eu cyhoeddi er 1870 gwêl adolygydd *Y Drysorfa* werth pwysleisio arwyddocâd y digwyddiad arbennig hwn yn hanes coffadwriaeth John Jones, ac yn wir, yn hanes y cofiant Cymraeg.[6] Yn ogystal â chanmol y 'portread cyflawn a gorphenedig o "bregethwr y bobl"', â'r adolygydd ati i amddiffyn cynnwys y rhannau o'r cofiant nad ydynt yn ymdrin yn uniongyrchol â bywyd John Jones, megis y portreadau o'r pregethwyr Anghydffurfiol a'r bennod faith ar ddadleuon diwinyddol Cymru, ac mae'n diolch i Owen Thomas am ei '[l]afur anarferol' gyda'r gyfrol.[7] Wrth ddiweddu ei sylwadau, noda bwysigrwydd y cofiant i bregethwyr ieuainc yn benodol, gan y gallant 'dderbyn hyfforddiant lawer' ohono. Os darllenodd Owen Thomas yr adolygiad hwn, tybiaf y byddai wedi ei blesio'n fawr, yn arbennig â'r frawddeg olaf hon. Yn ogystal â dadlennu'r amcanion didactig cyffredinol sy'n ei glymu wrth y traddodiad cofiannol a drafodwyd ym mhennod gyntaf y traethawd hwn, fe welir maes o law yn y bennod hon fod i'r geiriau hynny arwyddocâd penodol o safbwynt y cofiannydd a'r cofiant fel ei gilydd.

---

[5] '*Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn*', *Y Drysorfa* (Medi 1874), 337.

[6] Er nad oes enw wrth fôn yr adolygiad, tybed a ellir maentumio yn ofalus mai Lewis Edwards yw'r awdur. Yn ôl David E. Jenkins, ef oedd awdur yr adolygiad ar rannau cyntaf y gyfrol yn *Y Traethodydd* yn 1871, ac mae'r awdur yn cyfeirio at ei adolygiad o'r rhannau hynny yn y dyfyniad uchod. Gw. D. E. Jenkins, 'A review and revision of the biography of John Jones, Talsarn by Owen Thomas' (MA Dissertation (Liverpool), 1924), tt.329-30. Serch hynny, ymddangosodd adolygiad dienw ar ran gyntaf y cofiant yn *Y Tyst Cymreig*, 14 Ionawr 1870, yn ogystal.

[7] '*Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn*', 337.

Nid dyma'r cofiant cyntaf a luniwyd i John Jones, Tal-y-sarn. Flwyddyn yn unig wedi ei farwolaeth ymddangosodd cyfrol fechan gan gyfaill iddo – y pregethwr Annibynnol a'r argraffydd Hugh Hughes, Tegai.[8] Mewn 55 tudalen adroddir hanes ei fywyd a chyflwynir darlun o rai o'i oedfaon hynod. Disgrifiwyd y cofiant gan Owen Thomas fel 'hanes . . . byr ac amherffaith iawn' (770), er ei fod yn canmol y portreadau a geid ynddo o John Jones yn pregethu. Eithr y mae'n arwyddocaol mai cyfrol Owen Thomas oedd y cofiant cynhwysfawr olaf a luniwyd i ŵr a oedd cyn enwoced â neb o'i gyfoedion. Dyma brawf efallai o'r edmygedd, neu'r parch arbennig, a fwynhaodd *Cofiant John Jones, Talsarn* yn y cyfnod. Yn wir, fel y trafodwyd eisoes yn yr astudiaeth hon, mae'n deg dweud bod y cofiant, a'r portread o'r gwrthrych a geir ynddo, wedi derbyn a chynnal statws arbennig ymhlith y cofiannau niferus i bregethwyr a gwŷr crefyddol a ffrydiodd o'r wasg Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er i feirniaid llên yr ugeinfed ganrif nodi bod gan y gyfrol ei diffygion yn ogystal â'i rhagoriaethau, y farn gyffredinol oedd bod y cofiant yn 'orchestwaith sy'n rhyfeddod prin'.[9] Gwelwyd eisoes farn Saunders Lewis ar gofiant ei daid a chadarnhawyd hynny gan D. E. Jenkins pan ddywedodd mai dyma oedd 'the supreme achievement of Welsh biographical literature'.[10] Ac ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain gallai John Aaron ddatgan bod y gyfrol yn glasur sydd wedi parhau i gael ei hystyried fel y cofiant gorau a ysgrifennwyd yn yr iaith Gymraeg, ynghyd â dwyn i gof honiad J. E. Daniel nad oedd Cymro yn ddiwylliedig os nad oedd wedi darllen y cofiant.[11]

---

[8] Hugh Hughes, *Cofiant John Jones, Tal-y-sarn* (Pwllheli, 1858).
[9] D. Ben Rees, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr. Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979), t.245
[10] Jenkins, 'Review and revision', t.5.
[11] Cyfeirir at y sylw yng nghyfieithiad John Aaron o bennod Owen Thomas ar y dadleuon diwinyddol yng nghofiant John Jones. Gw. *The Atonement Controversy in Welsh Theological Literature and Debate, 1707–1841* (Edinburgh, 2002), t.ix.

Serch hynny, fel y nodwyd eisoes yn rhagymadrodd y traethawd hwn, prin yw'r ymdriniaethau beirniadol â ffurf y cofiant, ac nid yw'r gwaith a gydnabyddir yn goron ar y ffurf yn eithriad i hynny. Yn sicr, ar wahân i ambell adolygiad ar y cofiant, neu ar rannau ohono, prin iawn fu'r dadansoddiadau treiddgar a gyhoeddwyd. Er enghraifft, ychydig dudalennau yn unig, mewn cyfrol o bum can tudalen a mwy, a rydd Iolo Carnarvon i'w drafod yn ei gofiant i Owen Thomas ([1912]). Yr ymdriniaeth lawnaf â'r gwaith o bell ffordd yw traethawd swmpus D. E. Jenkins, 'A review and revision of the biography of John Jones, Talsarn by Owen Thomas', a luniwyd yn 1924. Fel yr awgryma'r teitl, dyma drafodaeth feirniadol ar y cofiant, sy'n cynnwys gwybodaeth werthfawr, ac sy'n cyflwyno cefndir neu gyd-destun i rai ffeithiau neu sylwadau, ynghyd â chywiro gwallau ffeithiol yr awdur a'r hyn a wêl Jenkins fel enghreifftiau o ymatal bwriadol ar ei ran. Er na ellir ei alw, dichon, yn waith cwbl ddiduedd, y mae'n bwrw goleuni nid bychan ar John Jones, ac ar Owen Thomas yn ogystal. [12] Ymdriniwyd eisoes â sylwadau cryno ond craff Saunders Lewis, a ddylanwadodd nid yn unig ar yr astudiaethau diweddarach a fu ym maes y cofiant yn gyffredinol, ond y trafodaethau braidd-gyffwrdd a gafwyd o *Cofiant John Jones, Talsarn* yn ogystal.[13] Eithriad yw cofiannydd modern Owen Thomas, sef D. Ben Rees. Neilltuir pennod gyfan o'r gyfrol *Pregethwr y Bobl* i drafod ei waith fel cofiannydd, ac er na all yntau osgoi adleisio gwaith D. E. Jenkins a Saunders Lewis

[12] Tybed nad yw'r traethawd yn dioddef ychydig oherwydd adlewyrchu rhai o safbwyntiau (llai na diduedd) cyfarwyddwr D. E. Jenkins, ac ŵyr John Jones, sef J. Glyn Davies a oedd yn Athro Celteg ym Mhrifysgol Lerpwl ar y pryd. Daw ei ragfarnau i'r fei ar dro wrth ddarllen y traethawd, yn enwedig pan â D. E. Jenkins ati i drafod gwendidau'r gyfrol, a gwendidau'r awdur Owen Thomas yn benodol. Eto, mae D. E. Jenkins yn canmol y cofiant yn y traethawd. Yn ei ragymadrodd i'r gwaith dywed fod gwasanaeth Owen Thomas i Gymru yn ei osod 'in the front rank of his generation' (Jenkins, 'Review and revision', t.iv).

[13] Gw. rhagymadrodd y traethawd hwn, n.17. Yn naturiol ddigon ni chyfeirir at *CJJT* yn nhraethawd W. J. Harries, 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg o safbwynt llenyddol' (Traethawd MA, Cymru (Abertawe), 1954). Er na thrafodir y gyfrol, fe'i disgrifir fel 'cofiant reiol' gan Derec Llwyd Morgan yn ei bennod, 'Llenyddiaeth y Methodistiaid, 1763–1814' yn *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: Cyfrol 2, Cynnydd y Corff*, gol. Gomer M. Roberts (Caernarfon, 1978), t.485. A phrin yw'r drafodaeth ar y cofiant ei hun gennyf innau yn fy erthygl, '"Y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto": mawl a moes yng nghofiannau'r pregethwyr', *Y Traethodydd* [rhifyn arbennig ar gofiannau] (Ebrill 2006), 78-97.

mewn mannau, ceir ganddo sylwadau diddorol am y gyfrol. Bwriad y bennod hon yw adeiladu ar yr ymdriniaethau hyn, ynghyd â'r drafodaeth a gafwyd ym mhenodau cyntaf y traethawd hwn, er mwyn cynnig dadansoddiad manwl o'r cofiant yng ngoleuni'r amcanion sy'n sail i'r gwaith a dehongliad y cofiannydd o fywyd ei wrthrych. Un o rinweddau'r bennod a geir yng nghofiant D. Ben Rees yw ei bod yn dwyn tystiolaeth newydd i'r golwg ynglŷn â'r broses o lunio'r cofiant.[14] Cyn mynd ati i astudio'r modd y dehonglir John Jones gan Owen Thomas, gall manylu ar y broses greadigol daflu cryn oleuni ar natur y gyfrol ac ar y cofiannydd fel ei gilydd. O'r herwydd, mae'n werth oedi ychydig gyda'r broses ddiddorol a chymhleth hon.

### 3.1. 'OEDIAD MOR FAITH': LLUNIO'R COFIANT

Yn gymysg â'r dathlu a welwyd yn 1874 cafwyd ochenaid o ryddhad. Nid rhyfedd; yr oedd y cofiant wedi bod yn yr arfaeth ers dros bymtheng mlynedd. Eto, yr oedd adolygydd *Y Drysorfa* uchod, fel nifer o'i gyd-wladwyr, yn fodlon maddau'n llwyr am yr oedi mawr yn wyneb gweld cyhoeddi campwaith o gyfrol yn y pen draw. Y mae hanes y broses faith a fu ynghlwm â llunio'r gyfrol hon wedi ei chroniclo'n bur ofalus gan D. E. Jenkins, ac mae D. Ben Rees wedi ymhelaethu beth ar yr hanes fel mai afraid fyddai ailadrodd y broses yn llawn yma.[15] Serch hynny, mae'n werth cyflwyno peth cefndir ac oedi ag ambell elfen arwyddocaol sy'n bwrw goleuni ar

[14] D. Ben Rees, 'Y cofiannydd', yn idem, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979), tt.207-45. Trafodir yn ogystal gofiant Owen Thomas i Henry Rees, ond mae swmp y bennod yn trafod cofiant John Jones. Fodd bynnag, dylid nodi mai cofiannu bywyd Owen Thomas y pregethwr, ac nid y cofiannydd, yw prif fyrdwn yr awdur.

[15] Gw. y penodau 'The biography in preparation' ac 'Owen Thomas's cofiant' yn Jenkins, 'Review and revision', tt.22-38 a 319-33; Rees, 'Y cofiannydd', tt.207-45.

ddull Owen Thomas o greu'r cofiant ac ar unrhyw agenda a feddai'r awdur wrth ei lunio.

Yng Nghymdeithasfa Caernarfon, ym mis Medi 1857, y datganwyd gyntaf y bwriad i goffáu John Jones, Tal-y-sarn, ac y gofynnwyd i'r pregethwr David Jones, Treborth baratoi cofiant i'w frawd nodedig.[16] Mae'n wir i David Jones gydsynio â chais y Gymdeithasfa honno, ond mae'n amlwg na theimlai ei fod yn gymwys i'r gwaith gan iddo, fis yn ddiweddarach, estyn gwahoddiad i un o'i gyd-bregethwyr i ymgymryd â'r dasg.[17] At Owen Thomas, gweinidog eglwys Jewin Crescent, Llundain ar y pryd, y trodd am gymorth. Er mai barn D. E. Jenkins yw nad oes ots ynglŷn â pham y penderfynodd roi'r gorau i lunio'r cofiant, credaf fod llythyrau David Jones at Owen Thomas y pryd hwnnw yn ddigon arwyddocaol ac yn werth ymdroi â hwy. Yn un peth, yr oedd David Jones yn amau ei gymhwyster ei hun i lunio'r cofiant. Nid oedd ei iechyd yn gryf; âi i deimlo'n isel iawn wrth feddwl am ei frawd ac roedd hynny'n ei atgoffa o farwolaeth ei wraig yn gynharach yn y flwyddyn. Yr oedd hyn yn effeithio ar ei allu i gyflawni'r gwaith.[18] Ymhellach, mewn llythyr, dyddiedig 2 Hydref 1857, dywed fod angen yn ei farn ef 'ddarluniad annghyffredin' er mwyn gwneud cyfiawnder â bywyd ei frawd hynod. Gwelwyd eisoes nad oedd cofiannu aelod o'r teulu yn effeithio ar wrthrychedd honedig cofiant yn y cyfnod, eto ymddengys na theimlai David Jones y gallai gyflawni'r fath orchwyl. Ac fel y dywed wrth Owen Thomas: 'Goddefid i estron ei ganmol yn llawer mwy.'[19] Nid bod y cofiannydd yntau yn estron iawn i fywyd John Jones fel y gwelwyd eisoes yn y

[16] 'Cymdeithasfa Caernarfon', *Y Drysorfa* (Hydref 1857), 346.
[17] LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 2 Hydref 1857.
[18] LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 29 Rhagfyr 1857.
[19] LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 2 Hydref 1857.

bennod ddiwethaf.[20] Serch hynny, y mae'n ddiddorol, os nad anarferol, felly, nad oedd bwlch i fod rhwng bwriadau'r awdur a bwriadau'r teulu parthed y cofiant. Ond mwy arwyddocaol yw cais David Jones am gofiant 'annghyffredin'. Er nad oes tystiolaeth uniongyrchol i'w ganfod yn y llythyrau, tybed nad oedd David Jones am weld cofiant manylach a mwy cyd-destunol i'w frawd – un a fyddai nid yn unig yn ymdrin â'i fywyd a'i gymeriad ond â'i statws a'i ddylanwad fel tywysog ymysg pregethwyr yr enwad. Gellir maentumio mai dyna'r rheswm iddo droi at Owen Thomas. Yn sicr, byddai gŵr fel David Jones yn gyfarwydd â thraethodau a chyfraniadau manwl-dreiddgar Owen Thomas yn *Y Traethodydd*, heb sôn am ei wybodaeth â'i allu ym myd y bregeth.

Mae'n amlwg fod gwahoddiad David Jones wedi apelio at Owen Thomas gan iddo dderbyn yr her, er yn betrus, a chychwyn ar y gwaith yn nechrau 1858.[21] Eto, mae'n syndod ar un wedd iddo gytuno gan nad oedd yr amgylchiadau yn ffafriol a dweud y lleiaf. Ymddengys mai pur brin ar y cyfan ydoedd y deunydd a ddaeth i law,[22] a hynny er gwaethaf addewidion David Jones parthed casglu deunyddiau a ymdriniai â phlentyndod John Jones, ac iddo anfon fisoedd yn ddiweddarach rai deunyddiau ynghyd ag addewid i bwyso ar y teulu i gasglu rhagor o atgofion. [23] Yn

[20] Gw. pennod 2 y traethawd hwn, tt.132-3, am berthynas Owen Thomas a John Jones, Tal-y-sarn.
[21] Rhoddwyd sêl bendith gyfundebol ar ei awduriaeth yng Nghymanfa Llanelwy, Rhagfyr 1857. LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 29 Rhagfyr 1857. Gw. hefyd Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.218.
[22] Gw. LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 3 Mawrth 1858. Braidd yn biwis yw cydnabyddiaeth Owen Thomas i'r '*ychydig* gyfeillion a'm cynnorthwyasant yn y gwaith' (*CJJT*, t.vii). Sylw sy'n amlygu y bu llunio'r cofiant, neu'n sicr y rhan o'r cofiant sy'n adrodd hanes John Jones, yn gryn dalcen caled iddo, ac efallai'n awgrymu rheswm arall am yr oedi mawr a gafwyd wrth ei lunio. Ychwanegu at hyn a wna sawl cwyn yng nghorff y cofiant am ddiffyg deunyddiau ac atgofion, yn enwedig wrth ymdrin â phlentyndod John Jones. Cymharer hyn â sylwadau'r cofiannydd Rhys Evans, a nifer o gofianwyr eraill dros y blynyddoedd, sy'n diolch am gymorth 'llu cyfeillion a chydnabod' ac am amynedd 'llyfrgelloedd niferus' wrth i'r gwaith ddwyn ffrwyth (Rhys Evans, *Gwynfor: Rhag pob Brad* (Talybont, 2005), t.11).
[23] LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 29 Rhagfyr 1857. Sonia David Jones am gysylltu â'i frawd William a drigai bellach yn Cambria, Wisconsin yn yr Unol Daleithiau, ac â dwy chwaer hŷn John, sef Catherine a Mary y mae'n debyg, eto yn Wisconsin, a gofiai

ogystal, yr oedd amgylchiadau Owen Thomas ei hun yn llestair iddo gyda'r gwaith. Nid yn unig yr oedd gweinidogaethu ar eglwys yn Llundain yn golygu prysurdeb mawr, ond arwyddai hefyd fod cannoedd o filltiroedd rhyngddo a theulu John Jones yn Nhal-y-sarn a'i frawd David Jones yng Nghaernarfon. Fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf, yr oedd ganddo fys mewn llawer brywes llenyddol yn y cyfnod hwn yn ogystal, megis cyd-olygu'r *Traethodydd*, llunio erthyglau ar gyfer *Y Gwyddoniadur Cymreig* (1854-79), a'r *Esboniad ar y Testament Newydd* i enwi ond rhai o'i gyfrifoldebau.[24] Nid rhyfedd, felly, mewn llythyr at David Jones, dyddiedig 8 Ionawr 1858, ei gael 'yn teimlo yn dra digalon i ymaflyd [yn y gwaith]'. Ond ymddengys nad prysurdeb yn unig a oedd yn ei boeni parthed cofiannu John Jones. Yn y llythyr, dywed ei fod yn bryderus oherwydd y galw mawr a fyddai am gofiant i John Jones. Ymhellach, yr oedd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y cofiant fel y gofgolofn barhaol i'r seraff bregethwr hwn. Yn wyneb yr anawsterau hyn noda y byddai'n rhaid rhoi 'ychydig feddwl pa un fyddai y goreu dan yr amgylchiadau'.[25] Dyma frawddeg a ddeuai'n arwyddocaol iawn wrth ystyried y cyfeiriad y byddai Owen Thomas yn ei gymryd parthed y gyfrol erbyn ei chyhoeddi'n llawn yn 1874.

Ceir rhai llythyrau pellach gan David Jones ynglŷn â'r cofiant.[26] Yn ei lythyr olaf sydd ar gadw o'r cyfnod, sef llythyr dyddiedig 21 Mehefin 1858, mae'n ysu i

---

'am droion ei fabandod a'i ieuenctid' (bu farw Margaret, y chwaer hynaf, yn fuan ar ôl cyrraedd America (*CJJT*, t.30)). Noda David Jones ymhellach am gofiant i'w dad, John Jones, Tanycastell, a ysgrifennwyd gan John ei frawd. Noda y byddai o fudd wrth ysgrifennu'r hanes, ond nad oedd copi ohono yn ei feddiant y pryd hwnnw. Ni wyddys a ddaeth y cofiant hwn i'r fei. Am beth o hanes y teulu yn America (yn benodol erbyn troad yr ugeinfed ganrif), gw. J. Glyn Davies, 'Cambria, Wisconsin, in 1898', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1957), tt.128-59.

[24] Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.282.

[25] J. J. Roberts (Iolo Carnarvon), *Cofiant y Parchedig Owen Thomas D.D., Liverpool* (Caernarfon, [1912]), tt.282-3. Gw. dyfyniad llawnach o'r llythyr ym mhennod gyntaf y traethawd hwn, tt.14-15.

[26] LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 1 Ebrill 1858 a 15 Ebrill 1858. Noda ei fod yn dal wrth y gwaith o gasglu deunyddiau a'i fod wedi gofyn i amryw yn Nhal-y-sarn ac i'r teulu am wybodaeth am ei frawd. Yn yr ail lythyr, mae'n addo gyrru rhagor o wybodaeth wedi iddo sgwrsio â'i chwiorydd yn yr Unol Daleithiau, gan ei fod yn bwriadu symud yno i fyw ar y

wybod sut y mae'r gwaith ar y cofiant yn dod yn ei flaen. Sonia fod disgwyl mawr am y gyfrol a chynghora Owen Thomas i beidio â gosod pris y gyfrol yn rhy uchel, fel y gellid cael gwerthiant eang.[27] Dengys astudiaeth D. E. Jenkins mai gwir a ddywedodd David Jones am awydd y cyhoedd am y gyfrol, gan fod llythyrau yn cael eu hysgrifennu i'r wasg yn achlysurol yn holi hynt y cofiant. Yn Rhagfyr 1859, er enghraifft, dywed un o ohebwyr *Baner ac Amserau Cymru*, y '[b]ydd yn warth i ni fel cenedl os gadewir hanes y fath dywysog yn mysg pregethwyr yr oes heb ei ysgrifenu'.[28] Er na chafodd y gohebydd hwnnw ei ateb, mae'n amlwg fod cyfran o'r cofiant wedi ei gwblhau erbyn dechrau'r 1860au.[29] Yn wir, ceir llythyr gan Owen Thomas ei hun yn *Baner ac Amserau Cymru* yn Nhachwedd 1863, sy'n datgan ei fwriad i gyflwyno'r gyfrol i'r argraffwyr yn fuan. Noda bod disgwyl cyhoeddi'r gyfrol ar 1 Mawrth 1864, ac mae hyd yn oed yn cynnwys rhai manylion ynglŷn â maint y gyfrol a'i phris, sy'n awgrymu bod y gyfrol yn bur orffenedig.[30]

Os oedd sawl un o'r cyhoedd yn ddiamynedd am weld cyhoeddi'r cofiant, yr oedd y teulu eu hunain wedi hen flino ar aros erbyn canol y 1860au. Mae'n fwy na phosibl eu bod hwy ymhlith awduron rhai o'r llythyrau a ysgrifennwyd at y wasg, yn aml dan ffug-enw, yn holi hanes y cofiant. Yn wir, yn ôl David Jones, fe wyddys i wraig John Jones, Fanny, ddarbwyllo ei chyfaill, ac un o bregethwyr y Bedyddwyr,

---

pryd. Eithr ni ddigwyddodd hynny yn y pen draw gan i'r Cyfundeb wrthwynebu'r syniad. Noda David Jones mewn llythyr, dyddiedig 15 Ebrill 1858: 'cododd y brodyr fel un gwr yn fy erbyn i symud i America'.

[27] LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 21 Mehefin 1858. Yn yr un llythyr, fe sonia am y cofiant a luniwyd gan Hugh Hughes, Tegai. Ymddengys nad oedd David Jones yn fodlon o gwbl fod y gyfrol wedi ei hargraffu heb ei ganiatâd ac mae'n bur blaen ei farn am gymhellion yr awdur wrth gysylltu ag ef i ofyn caniatâd i ailargraffu'r gyfrol. Er ei fod yn addo llythyr pellach, ni ddaeth llythyr arall hyd ganol y 1860au hyd y gwyddys.

[28] *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Rhagfyr 1859, 181.

[29] Gw. yr adroddiad am Gymdeithasfa Caernarfon, 12 Medi 1860, a gyhoeddwyd yn *Baner ac Amserau Cymru*, 19 Medi 1860, 810). Dyfynnir o'r adroddiad (mewn cyfieithiad) yn Jenkins, 'Review and revision', tt.25-6.

[30] *Baner ac Amserau Cymru*, 4 Tachwedd 1863, 702.

Robert Jones, Llanllyfni i yrru'r llythyr digon miniog at *Baner ac Amserau Cymru* yn Ionawr 1865.[31] Ond yn ôl D. Ben Rees, llythyr arall gan Robert Jones, y tro hwn at Owen Thomas ei hun, a all amlygu un rheswm ynglŷn â'r oedi mawr a fu ar y gyfrol. Llythyr ydoedd a gyfeiriai at yr helynt a ddaeth i ran John Jones pan oedd yn arolygwr a chyd-berchennog ar Chwarel Dorothea ddiwedd y 1840au a dechrau'r 1850au – helynt a dynnodd 'gwmwl ar ei enw' yn ôl Robert Jones.[32] O gymharu â gweddill y cofiant, digon amwys a thrwsgl yw ymdriniaeth Owen Thomas â digwyddiadau'r cyfnod ym mhennod 13 a chytuna D. Ben Rees â barn D. E. Jenkins fod Owen Thomas yn rhyw led obeithio y byddai Fanny Jones wedi dilyn David Jones a Henry Rees i'r dalar cyn gweld cyhoeddi'r gyfrol.[33] Eithr nid felly y bu, ac roedd y teulu yn hynod ddiamynedd erbyn diwedd y 1860au ac yn naturiol ddigon yn rhoi pwysau ar Owen Thomas i gyhoeddi. Ym Mai 1868 derbyniodd Owen Thomas lythyr gan Thomas Lloyd Jones, un o feibion John Jones a oedd yn ysgrifennu ar ran y teulu. Yn y llythyr noda'n ddi-flewyn ar dafod nad ydynt 'ar un cyfrif yn foddlawn i ddim

---

[31] *Baner ac Amserau Cymru*, 25 Ionawr 1865, 59. Yn ogystal â chanmol Fanny Jones ei hun, byrdwn y llythyr oedd cymell yr awdur i ddod 'allan fel dyn' a chyhoeddi'r cofiant.

[32] Dyfynna Owen Thomas o lythyr Robert Jones yn *CJJT*, tt.688-9. Mae'r llythyr yn ymdrin â thriniaeth John Jones o weithwyr chwarel Dorothea yn wyneb dirwasgiad yn y diwydiant llechi, ac yn nodi bod ei bregethu yn y cyfnod hwn wedi dioddef o'r herwydd. Gw. fy nhrafodaeth ar bennod 13 y cofiant isod, tt.200-1. Ysgogodd y llythyr hwn ddau lythyr gan David Jones, dyddiedig 13 Ebrill 1865 a 6 Mai 1865. Ynddynt noda na wyddai ddim am yr helynt, ond ei fod, o wneud peth ymchwil, wedi clywed llawer o hanesion am ei frawd. Ond ar Fanny Jones y rhydd y bai, a hynny am ddarbwyllo'i frawd i ymgymryd â'r fenter yn y lle cyntaf, 'yr hon trwy ei dichellion a'i hanwireddau a'i twyllodd yn aml i wneuthur pethau y buasai lawer gwell iddo beidio' (LlGC, Casgliad Saunders Lewis, Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, rhif 7, 13 Ebrill 1865). Cyngor David Jones yw na ddylai Owen Thomas ymdrin o gwbl â'r cyfnod hwn yn y cofiant: 'ei adael yn ddistaw, ei adael fel marwolaeth ei hun' (LlGC, Casgliad Saunders Lewis, Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, rhif 8, 6 Mai 1865). Dyma a wnaethpwyd yn y cofnod o fywyd John Jones yn y *Gwyddoniadur Cymreig* ac yn y fersiwn o'r cofnod hwnnw a gyhoeddwyd fel cyfrol gofiannol yn yr Amerig, ac enwau Owen Thomas, David Jones, Treborth a John Parry (golygydd y *Gwyddoniadur*) ar y clawr (gw. 'John Jones', yn *Y Gwyddoniadur Cymreig: Cyfrol VI*, gol. John Parry (Dinbych, [1866]), tt.381–90; D[avid]. Jones, Owen Thomas a John Parry, *Cofiant y Parch. John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd, 1868)). Digon amwys yw ymdriniaeth Owen Thomas â'r helynt yn y cofiant gan ei fod yn poeni mwy am brofi na fu i bregethu John Jones waethygu yn ystod y cyfnod hwn nag am osod yr hanes yn eglur. Er iddo fynd yn groes i farn David Jones ar y pwynt hwn, felly, fe gadwodd at ei gyngor i beidio â chanmol Fanny Jones 'mewn ystyr grefyddol' (LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, rhif 7, 13 Ebrill 1865 a rhif 8, 6 Mai 1865). Cyhoeddwyd y llythyr cyntaf yn gyflawn yn Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.221-2.

[33] Bu farw David Jones yn 1868 a Henry Rees yn 1869. Bu Fanny Jones fyw hyd 1877. Gw. Jenkins, 'Review and revision', t.328; Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.226. Dichon mai enw arall y dylid ei ychwanegu at y rhestr uchod yw Robert Jones ei hun. Bu farw yn 1896.

ychwaneg o amser golli' cyn cyhoeddi'r cofiant. Ychwanega y dylai Owen Thomas ddychwelyd y deunyddiau a anfonwyd ato gan y teulu er mwyn iddynt hwy 'wneyd y defnydd gorau a ellir o honynt' oni ddeuai'r gyfrol i'r golwg yn fuan.[34] Nid ymddangosodd y cofiant serch hynny, ac er gwaethaf rhai hysbysiadau yn *Baner ac Amserau Cymru* yn ystod hanner olaf y 1860au yn nodi bod rhannau o'r cofiant gyda'r argraffwyr, ni chyhoeddwyd y rhan gyntaf hyd ddechrau 1870. Erbyn diwedd 1871 ceir adolygiad gan Lewis Edwards yn *Y Traethodydd* ar y chwe rhan gyntaf, a gynhwysa, y mae'n debyg, fuchedd John Jones hyd at ddiwedd un o is-rannau y bennod faith ar y dadleuon diwinyddol.[35] Ond aeth dwy flynedd a hanner arall heibio cyn i'r gyfrol gyfan gael ei chyhoeddi. Yn y rhagymadrodd a luniwyd ar 28 Mawrth 1874 mae'r awdur yn ymddiheuro am yr oedi hir a fu ar gyhoeddi'r gyfrol, ond fel ag y gwnaeth yn y wasg yn ystod y 1860au deil nad arafwch ar ei ran ef oedd yr achos. Noda fod 'amgylchiadau, nad oedd genyf fi un lywodraeth arnynt' yn llestair i'r gyfrol, er nad yw'n manylu yn eu cylch. Serch hynny, ymddengys fod ganddo enw, yn ôl y sôn, fel gohiriwr neu ymdrowr.[36]

Ond ceir rheswm arall am arafwch Owen Thomas yn ogystal, ac un sy'n fwy arwyddocaol, fe gredaf. O graffu ar yr hysbyseb i'r cofiant cyfan a ymddangosodd yn *Y Goleuad* ym Mehefin 1874, gwelir bod y gyfrol ar gael mewn un gyfrol hanner-

[34] LlGC, Casgliad Owen Thomas, llythyrau at Owen Thomas, rhif 95, 4 Mai 1868. Ymhellach, erbyn y 1860au yr oedd Gwen Davies (merch John Jones a mam J. Glyn Davies a George M. Ll. Davies), yn byw yn Lerpwl ac yn mynychu capel Princes Road, ac felly mae'n debyg fod Owen Thomas yn dod i gysylltiad â'r teulu yn weddol gyson – yn sicr o 1871 ymlaen pan ddaeth yn weinidog ar gapel Princes Road.

[35] Gw. 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd* (1871), 385-8. Sonnir mai cynnwys y 'tri rhifyn diweddaf' yw'r bennod ar ddadleuon diwinyddol Cymru ac mai hi fydd testun y rhan nesaf i'w chyhoeddi yn ogystal (t.388). Am deitlau'r penodau ac adeiladwaith gyffredinol y cofiant, gw. Atodiad 3.

[36] *CJJT*, t.viii. Gw. ymhellach ddarn o ryddiaith ddychanol ar rai o Gymry amlwg Lerpwl a luniwyd gan John Davies (gŵr Gwen Davies) a atgynhyrchir yn Jenkins, 'Review and revision', tt.335-6. Mae'r darn wedi ei ysgrifennu ar ffurf adroddiad ar gyfarfod diwylliannol. Ynddo, nodir yn ddeifiol y cafwyd 'eglurhad gan Owen Thomas ar y ddiareb Saesneg, "Never put off 'til to-morrow that which you can do to-day"' (t.335). Gw. hefyd sylw Lewis Edwards wrth adolygu rhannau cyntaf y cofiant na all Owen Thomas 'ymsymud ond fel elephant' (*Y Traethodydd* (1871), 385-8).

rhwym, neu '[dd]wy Gyfrol llian', am bris o 15 swllt.[37] Fel yr eglura D. E. Jenkins a D. Ben Rees, dyma bris a oedd gryn dipyn yn uwch na bwriad gwreiddiol yr awdur o bedwar neu bum swllt, ac mae'n amlwg na ddilynodd Owen Thomas gyngor David Jones iddo yn ôl yn 1858. Ond nid y pris yn unig a oedd yn wahanol. Yr oedd y gyfrol yn ddwywaith y maint y bwriadwyd iddi fod ac yr oedd syniad yr awdur o gynnwys ei gofiant wedi newid yn ogystal. Yn wir fe gydnebydd Owen Thomas hynny yn agored yn rhagymadrodd y gyfrol.[38] Yn ychwanegol at hanes bywyd John Jones, Tal-y-sarn yr oedd Owen Thomas wedi cynnwys dwy bennod faith. Y bennod gyntaf o'r ddwy yw'r feithaf ac mae'n rhychwantu 347 o dudalennau. Dyma unfed bennod ar ddeg y cofiant ac ynddi adroddir hanes y dadleuon diwinyddol a fu yng Nghymru rhwng 1707 a 1841. Mae'r ail bennod yn rhychwantu 232 o dudalennau ac yn trafod cysylltiad John Jones â'r 'weinidogaeth Gymreig'. Hon yw unfed bennod ar bymtheg y cofiant, a'r bennod olaf. Ynddi, olrheinir hanes pregethwyr amlycaf Cymru hyd at John Jones, cyn mynd ati i gyflwyno trafodaeth fanwl, ddadansoddol arno fel pregethwr.[39] Pwrpas y penodau hyn yn ôl Owen Thomas yw cyflwyno cyd-destun i agwedd penodol ar ei yrfa. Yn y naill bennod, cais yr awdur egluro y newid a ddaeth ar ei safbwyntiau diwinyddol ac ar ei ddull o bregethu yn ystod y 1830au. Mae'r bennod arall yn gosod cefndir i'w nodweddion, ei ddoniau a'i ddylanwad fel pregethwr.[40] Mae'n bur sicr bellach mai'r penodau cyd-destunol oedd craidd yr hyn a ychwanegwyd at y cynllun. Gellir dadlau mai ymateb yn greadigol fel cofiannydd a wnaeth Owen Thomas i'r sefyllfa a oedd ohoni, yn enwedig o ystyried bod D. E. Jenkins a D. Ben Rees yn gytûn i hyn ddigwydd ar ôl cyhoeddi rhan gyntaf y cofiant

[37] '*Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn*', *Y Goleuad* (Mehefin 1874), 16.
[38] *CJJT*, t.v. Lluniwyd y rhagymadrodd ar 28 Mawrth 1874.
[39] Dwy bennod, felly, sy'n rhychwantu 579 o dudalennau. Hyd y gyfrol gyfan yw 1052tt. (gan gynnwys mynegai) felly mae llai na hanner y gyfrol yn ymdrin â hanes bywyd John Jones (gw. Atodiad 3).
[40] *CJJT*, tt.261 a 792-3.

yn 1870.[41] Noder, er enghraifft, yr adroddiad yn *Y Goleuad*, Chwefror 1871, am Owen Thomas yn darlithio ar 'Hen Bregethwyr Cymru' yng nghapel Princes Road, Lerpwl.[42] Ymddengys iddo draddodi ail hanner y ddarlith yng nghapel Fitzclarance Street bythefnos yn ddiweddarach. Ac mae'n fwy na thebygol mai cynnwys y darlithoedd oedd sail yr hyn a geir yn rhan gyntaf unfed bennod ar bymtheg y cofiant. Wrth gofio bod y rhan gyntaf hon yn rhychwantu bron i 180 o dudalennau nid rhyfedd i'w gofiannydd, Iolo Carnarvon, sylwi bod yma dri llyfr mewn un.[43] Eto, mae'n amlwg fod bwriad Owen Thomas gogyfer â'r cofiant yn fwy uchelgeisiol na hynny hyd yn oed, gan ei fod yn sylwi yn y rhagymadrodd y carai fod wedi cynnwys trafodaeth ar bregethu yr Eglwys a phregethu yng ngweddill Prydain ynghyd â Ffrainc a'r Amerig, a'u cymharu â Chymru. Serch hynny, gwelodd fod y gyfrol eisoes yn faith iawn a bod perygl i'r cofiant golli golwg ar ei wrthrych, ac felly ymatal a wnaeth:

> buasai hyny yn arwain at ormod meithder, ac yn peri i nodwedd y gwaith, yn ei gysylltiad â Mr John Jones, ymddangos yn llai amlwg hyd yn nod nag ydyw yn awr. Y mae, fodd bynnag, yn destyn ardderchog; ac yr wyf yn gobeithio y cymmerir ef i fynu gan ryw un a wna gyfiawnder hollol âg ef. (vii)

Dyma frawddeg arwyddocaol iawn sy'n gosod cyd-destun pendant i nod y cofiannydd o lunio cofiant a fyddai'n coffáu bywyd pregethwr hynod ac enwog. Yn wir, ac ystyried teitl cyflawn y cofiant, sef *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn, mewn*

---

[41] Jenkins, 'Review and revision', t.36. Cytuno â hyn a wna Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.227. Ceir ambell enghraifft yn y cofiant sy'n amlygu bod y rhan gyntaf a gyhoeddwyd yn 1870 wedi ei gwblhau ymhell cyn hynny. Mewn adolygiad yn *Y Tyst Cymreig*, er enghraifft, nodir bod yr awdur yn sôn am David Jones, Treborth (*CJJT*, t.69) fel pe bai eto'n fyw, er bod blwyddyn a hanner wedi mynd heibio ers ei farwolaeth (*Y Tyst Cymreig*, 14 Ionawr 1870, 3). Yn rhagymadrodd y gyfrol gyflawn, serch hynny, cyfeirir ato fel 'y diweddar Mr David Jones' (*CJJT*, t.vii). Ymhellach, gw. t.605 o'r cofiant lle dyfynnir llythyr y Parch. Robert Ellis sy'n adrodd hanesyn am Henry Rees a William Roberts, Amlwch yn 1841. Dyddiad y llythyr hwnnw yw Ionawr 1872, ddwy flynedd yn unig cyn cyhoeddi'r gyfrol gyflawn yn 1874.

[42] 'Y Parchedig O. Thomas ar "Hen Bregethwyr Cymru"', *Y Goleuad*, 18 Chwefror 1871, 12. Jenkins, 'Review and revision', tt.321-2.

[43] Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, t.528.

*cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru*, gwelwn mor greiddiol i'r cofiant oedd bwriadau Owen Thomas. Er na chyfeirir at yr 'is-deitl' hwn yn yr adolygiadau o rannau cyntaf y gyfrol hyd y gwelaf, mae'n ddigon teg awgrymu bod diffyg deunydd hunangofiannol o du'r gwrthrych wedi golygu fod gan Owen Thomas amcan ehangach ar gyfer y cofiant nag adrodd yn syml hanes bywyd John Jones. Yn wir, ymddengys iddo roi mwy nag 'ychydig feddwl' i gynnwys, adeiladwaith a'r dehongliad creadigol a chofiannol o'r gwrthrych yn y cofiant hwn.[44]

## 3.2. 'GWIR DDYMUNIAD FY NGHALON': AMCAN YSGRIFENNU

Mewn cofiant diweddar i Gwynfor Evans, *Gwynfor: Rhag pob Brad*, nid yw'r awdur, Rhys Evans, yn petruso dim rhag gosod ei wrthrych o dan ddadansoddiad hinsawdd gofiannol yr unfed ganrif ar hugain: 'Mae yna draddodiad hir, rhy hir efallai, o lunio cofiannau i seintiau yng Nghymru, ond nid llyfr am fywyd sant yw hwn.'[45] Nod y gyfrol, meddai, oedd dangos cyfraniad Gwynfor i hanes diweddar Cymru a'i chenedlaetholdeb, a hynny 'heb ganu salm o fawl i'w fywyd mawr'. Fel y trafodwyd uchod, gwahanol iawn oedd hinsawdd gofiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, wrth graffu ar *Cofiant John Jones, Talsarn* gwelir bod canu 'salm o fawl' i'r gwrthrych yn rhan hanfodol o'r gwaith gan Owen Thomas:

> Nis gallaf ollwng y gwaith o'm llaw, heb drachefn ddatgan gwir ddymuniad fy nghalon, ar iddo fod o ryw fantais i'n pregethwyr ieuainc gyda golwg ar y gwaith mawr y maent wedi ymgymmeryd âg ef . . . Y mae yn anmhosibl, mi a

[44] Ibid., t.283.
[45] Evans, *Gwynfor: Rhag pob Brad*, t.9.

> dybiwn, i'r fath gymdeithas ag a ellir gael trwyddo . . . lai nag effeithio i ryw raddau yn ddaionus ar feddwl pob gwr ieuanc a ymwthio iddi. A phared yr Arglwydd na adawer mo honom fel cenedl, ddyddiau'r ddaear, heb ddynion o gyffelyb ysbryd iddynt yn ein plith. (viii)

Ei obaith mawr felly oedd y byddai darllenwyr – a phregethwyr ieuainc yn arbennig – yn derbyn nawdd a chyngor gan y gyfrol ac y byddai'n eu cynorthwyo wrth iddynt wynebu ar yrfa yn y pulpud. Gwelwyd ym mhennod gyntaf yr astudiaeth hon mor ganolog yw galwedigaeth y pregethwr, a chyflawniad o'r alwedigaeth honno, yng nghofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Soniwyd, yn ogystal, fod cofianwyr yr oes yn ymateb i anghenion didactig eu cynulleidfa, ac mae bod yn ymwybodol o gynulleidfa darged Owen Thomas yn ein galluogi i ddadansoddi nid yn unig y cofiant ei hun ond y modd yr aeth ati i'w lunio. Yn ôl D. Ben Rees, cyngor Owen Thomas i Evan Davies, Trefriw, ar greu cofiant oedd i'w ysgrifennu 'fel y bydd yn ei lunio ei hunan yn eich meddwl',[46] ac fe wyddom eisoes, o'i ohebiaeth â David Jones, Treborth, iddo feddwl yn ddwys wrth lunio'r cofiant hwn ynglŷn â'r union gynllun i'w fabwysiadu. Ond nid yw amcanion Owen Thomas o ran ymdrin â'i wrthrych yn amwys o gwbl.

> yr oedd y fath arbenigrwydd ynddo ef fel Pregethwr, fel mai gyda'r amcan yn benaf o geisio egluro y nodweddion neillduol a berthynent iddo fel y cyfryw a chyflwyno rhai enghreifftiau o honynt ger bron ein darllenwyr, er mwyn pregethwyr ieuainc Cymru, y darfu i ni, o'r dechreu ymgymeryd ag ysgrifenu '*Cofiant*' iddo; ac, yn wir, ar y pryd, nid oeddem yn meddwl am odid ddim arall. (792)

Dyna, yn ddi-flewyn ar dafod, 'amcan arbenig' Owen Thomas wrth lunio'r cofiant, a'i unig amcan wrth ddechrau'r gwaith. Dyma'r agenda gofiannol a oedd yn sail i'w

[46] Mewn llythyr, dyddiedig 31 Ionawr 1889, yn trafod llunio cofiant i Joseph Thomas, Carno (LlGC Papurau Owen Thomas, Llsg. 5930). Dyfynnir yn Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.213.

ddehongliad o'r gwrthrych ac yn llywio ei bortread ohono.[47] Y mae pwysigrwydd cynnal yr amcan hwn i'r awdur yn dod yn amlwg wrth ystyried bod Owen Thomas yn ei ailadrodd fwy nag unwaith yng nghorff y cofiant. Yn wir, gellir dweud mai mynegi'r agenda hon sy'n gosod undod i gynnwys y cofiant gan fod yr awdur yn ei datgan ar derfyn y rhagymadrodd ac ar derfyn y gyfrol oll.[48] Yn ei hanfod, felly, cyflwyno esiampl o'r pregethwr duwiol a diwyd i'w efelychu oedd prif ddiben llunio'r cofiant, ac fel y gwelwyd eisoes dyma osod Owen Thomas yn gadarn o fewn y traddodiad cofiannol.[49] Er ei bod yn deg honni bod cynlluniau Owen Thomas parthed y gyfrol wedi newid rhwng 1857 a 1874, mae'n rhaid sylweddoli yn ogystal iddo gadw yn driw i'r nod sylfaenol hwn.

Eto, yr un pryd, yr oedd agweddau ar y gyfrol yn sefyll ar wahân i'r traddodiad cofiannol Cymraeg yn ogystal. Soniwyd eisoes na ellir llwyr gytuno â barn Saunders Lewis fod y cofiant yn chwyldroadol o wahanol, ond does dim dwywaith nad yw ymdriniaeth yr awdur â'i wrthrych wedi ei ddylanwadu gan ddiddordebau Owen Thomas ei hun, sef hanesyddiaeth eglwysig, ddiwinyddol a phregethwrol Cymru, a'r traddodiad cofiannol Seisnig.[50] Ac er bod y pwyslais a rydd Saunders Lewis ar adeiladwaith 'llwyr wahanol' y cofiant fel allwedd i fawredd y gwaith yn ddigon teg,[51] dichon fod gradd o ormodiaith yn ei ddadansoddiad. Yr hyn sy'n sicr yw bod y gwrthrych yn ganolbwynt i'r cofiant hwn. I Saunders Lewis, 'cynllun a phensaernïaeth odidog' y gwaith sy'n amlygu mai 'bod cymdeithasol' ydyw'r gwrthrych, ac sy'n galluogi'r darllenydd i ddilyn datblygiad y pregethwr o

[47] Gw. ail bennod y traethawd, *passim*, am egwyddorion cofiannol Owen Thomas.
[48] *CJJT*, tt.viii a 1024. Gw. hefyd t.792.
[49] Gw. pennod gyntaf y traethawd am seiliau hyfforddiadol a didactig y cofiant crefyddol Cymraeg.
[50] Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', yn *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t.354.
[51] Ibid., t.355.

fewn y gymdeithas a'i magodd ac a'i lluniodd. John Jones y pregethwr yw gwir wrthrych y cofiant, felly. Ond tybed pe byddai'r ŵyr wedi ystyried nad oedd chwyldro cofiannol ei daid mor gynhwysfawr a chyflawn, dichon y byddai wedi gallu dehongli arwyddocâd y darlun a rydd Owen Thomas o ddatblygiad John Jones fel pregethwr, ac olrhain yr arwyddocâd penodol sydd i'r pwyslais ar ddarlun manwl y cofiannydd o alwedigaeth neu yrfa John Jones. Yn wir, credaf fod dadansoddi'r briodas ofalus rhwng cynnwys a chynllun yr ymdriniaeth a geir yn y cofiant, ynghyd â'r berthynas greiddiol rhwng duwioldeb a diwydrwydd y gŵr preifat a chyhoeddus yn y cyfnod, yn ganolog er mwyn llwyr werthfawrogi mawredd y cofiant hwn. Ac fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf, mae ystyried agenda gofiannol Owen Thomas, ei 'amcan arbenig' wrth ysgrifennu, a'r dehongliad sy'n deillio o'r agenda honno, yn hanfodol wrth ymdrin â'r gwaith yn y dwthwn hwn. Dyma, yn wir, sy'n cynnig allwedd i'r portread cofiannol a geir o'r gwrthrych.

## 3.3. 'DILYN HANES MR JOHN JONES': Y BRIODAS RHWNG CYNNWYS A CHYNLLUN YN NEHONGLIAD COFIANNOL OWEN THOMAS O'I WRTHRYCH

Yn y bennod ddiwethaf, dadlennwyd bod Owen Thomas yn gofiannydd ymwybodol a aeth ati i gynnig yn ei gofiannau ddehongliad bwriadol, cyd-destunol a chreadigol o'i wrthrychau. Wrth fynd ati i gofiannu bywyd John Jones, felly, y mae'n amlwg mai ei yrfa neu ei alwedigaeth gyhoeddus fel pregethwr yw canllaw'r cofiannydd ar gyfer

adrodd yr hanes.[52] Gellid tybio bod mwy nag un rheswm dros iddo ddewis gwneud hyn. Y rheswm amlwg, wrth gwrs, yw bod John Jones yn bregethwr hynod o boblogaidd a dylanwadol a oedd yn 'mawrhau ei swydd'. Ond dadleuwyd eisoes fod ystyriaethau eraill a allasai fod wedi dylanwadu ar yr awdur yn ogystal, megis diffyg ffynonellau neu ddeunyddiau hunangofiannol a allasai fod yn sail i gynnwys a threfn y cofiant. O gymharu ag ail gofiant Owen Thomas, i'r pregethwr nodedig Henry Rees, llond dwrn yn unig o'i lythyrau a gynhwysir yn y cofiant hwn.[53] Pwysir yn drwm, serch hynny, ar adroddiadau'r cylchgronau enwadol ac ar adroddiadau gan unigolion a fu'n dyst i'w oedfaon, ac nid oes ddwywaith nad yw'r ddwy elfen hyn wedi llywio meddwl yr awdur i ryw raddau parthed cynllun cyffredinol y cofiant.[54] Ymhellach, rhoddai strwythur gyrfaol o'r fath gyfle i Owen Thomas adrodd hanes ei fywyd yn gronolegol – patrwm a fyddai'n gweddu i'w fanylrwydd a'i reddfau fel hanesydd. Ac wrth gwrs, ni ddylid esgeuluso'r ffaith fod Owen Thomas yn cydymffurfio â thuedd gyffredinol traddodiad cofiannol Seisnig Oes Fictoria o ymdrin â bywyd unigolyn drwy gyfrwng ei g/yrfa gyhoeddus. Dyma oedd dull y cofiannau Cymraeg yn ogystal, er bod manylder yr adran fywgraffyddol yn aml iawn yn ail i'r darlun o gymeriad y gwrthrych a gynigid yn y penodau (thematig gan amlaf) a'i dilynai. Yn hytrach, cais Owen Thomas briodi hanes a chymeriad ei wrthrych drwy ddarlunio'n fanwl hanes ei yrfa gyhoeddus fel pregethwr er mwyn cyflwyno'r yrfa honno fel esiampl i'w hefelychu. Un bennod yn unig yn *Cofiant John Jones, Talsarn* sy'n thematig ei hymdriniaeth, ac mae'n arwyddocaol mai dadansoddi ei nodweddion fel pregethwr

[52] Gw. pennod 1, tt.17-21, am drafodaeth ar 'alwedigaeth' y pregethwr ac arwyddocâd hynny i gofiannau'r cyfnod.
[53] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (Wrexham, 1890). Ceir ymdriniaeth â'r cofiant hwnnw ym mhedwaredd bennod y traethawd hwn.
[54] Gw. y drafodaeth ym mhennod 2, tt.125-31, ar ddefnydd Owen Thomas o ffynonellau yn y ddau gofiant.

yw pwrpas honno.[55] Nid yn unig yr oedd y dull hanesiol neu atgofiadol, onid storïol yn wir, a ddewisodd yn amlygu'r pregethwr ond y mae yn ogystal yn amlygu'r gymdeithas yr oedd y pregethwr yn rhan ohoni. Felly, er bod amrywiaeth o ffactorau wedi dylanwadu ar Owen Thomas yn hyn o beth, credaf fod ymdriniaeth y cofiannydd â'r alwedigaeth a ddarlunnir yn hanfodol i ddeall pam y bu iddo lynu mor glòs wrth yrfa 'gyhoeddus' John Jones.

Ymhellach, er nad oes unrhyw gynllun penodol wedi ei osod gan Owen Thomas yn ei ddehongliad o fywyd John Jones, rhagor na strwythur y penodau a geir, nid yw'n cymryd fawr o ddychymyg i weld cynllun nid annhebyg i bregeth Fethodistaidd dri phen yn adeiladwaith y gyfrol. Er mai strwythur amrwd ydyw, gellir defnyddio'r patrwm triphlyg hwn fel sail i amlygu'r briodas rhwng cynnwys a chynllun yn naratif Owen Thomas. Megis yr adeiladwaith yn gyffredinol, John Jones y pregethwr yw'r ffactor sy'n dehongli rhaniad yr adrannau (neu'r 'pennau') hyn. Yn gyntaf, edrydd Owen Thomas ei hanes o'i enedigaeth hyd at ddechrau ei alwedigaeth, neu ei yrfa fel pregethwr. Yn ail, portreedir hanes a datblygiad cyffredinol yr alwedigaeth nodedig honno. Ac yna'n drydydd, darlunnir ei fisoedd olaf, pan na allai bregethu, a'i farwolaeth. O ddefnyddio'r cynllun hwn i graffu tipyn ar ymdriniaeth ac adeiladwaith y cofiant, gwelir bod agenda ddeongliadol Owen Thomas o gofiannu'r pregethwr delfrydol yn hydreiddio'r gyfrol, ac yn llywio'r darlun o'r fuchedd a gyflwynir. A gellir dadlau mai math o epilog yw'r bennod ddadansoddol neu thematig arno fel pregethwr sy'n cloi'r cofiant, un sy'n tynnu llinynnau tri phen y bregeth ynghyd.[56]

---

[55] Gw. Atodiad 3 am adeiladwaith gyffredinol y cofiant.
[56] Gw. y drafodaeth isod, tt.205-7, ar y bennod, 'Ei nodweddau neillduol ef fel Pregethwr' (*CJJT*, tt.971-1024).

### 3.3.1 'y plentyn yw tad y dyn': John Jones hyd at ddechrau ei yrfa fel pregethwr

Pedair pennod fer (1-4, tt.17-77) sy'n ymdrin â'r cyfnod ffurfiannol hwn ar ei fywyd, er eu bod yn rhychwantu cyfnod o 25 mlynedd, sef nid nepell o hanner hyd y fuchedd honno.[57] O ran cynnwys y penodau hyn yn gyffredinol nid syndod gweld bod y cofiant yn agor yn nodweddiadol o'r patrwm cronolegol gyda genedigaeth John Jones.[58] Sonnir am ei rieni a rhai o hynafiaid y teulu, cyn rhoi sylw i'w arfer o bregethu pan oedd yn blentyn. Manylir yn ogystal ar rai digwyddiadau nodedig, megis marwolaeth ei dad. Yn yr ail bennod sonnir am ei ddiddordebau pan oedd yn llanc, megis canu a cherddoriaeth, cyn symud ymlaen at groniclo'r cyfnod pan fu i'w sêl at foddion gras oeri, ac iddo neilltuo o'r eglwys. Hanes y cyfnod hwn, tua thair blynedd i gyd, yw testun y drydedd bennod. Mae'n diweddu, serch hynny, drwy nodi'r amgylchiadau a barodd i John Jones ddychwelyd at yr eglwys ac at bregethu. Ac mae'r bedwaredd bennod yn cadarnhau ei sêl dros grefydd a'i awydd i bregethu, wrth i'r hanes adeiladu at adrodd am bregeth gyhoeddus gyntaf John Jones mewn tŷ o'r enw 'Y Garnedd' ym mhlwyf Dolwyddelan yn 1821. Daw'r cyfnod hwn i ben, felly, ar ddechrau galwedigaeth John Jones i bulpudau Cymru. O'r herwydd, gellir dadlau mai dyma brolog i hanes y pregethwr mawr a chyhoeddus. Ac nid rhaniad mympwyol mohono gan fod y cofiant ei hun yn lled-awgrymu y daw terfyn naturiol i'r naratif ar ddiwedd y bedwaredd bennod. Nodwyd eisoes i'r gyfrol gael ei chyhoeddi mewn rhannau yn wreiddiol, ac mae'n bosibl mai arwyddo clo i'r rhan gyntaf a gyhoeddwyd

---

[57] Bu farw yn 60 oed yn 1857. Am deitlau'r penodau, gw. Atodiad 3.

[58] Ceir cryn ansicrwydd gan Owen Thomas ynglŷn â dyddiad geni John Jones, ond gellir bod yn bur sicr erbyn hyn mai 1 Mawrth 1797 yw'r dyddiad. Gw. R. Tudur Jones, 'John Jones, Tal-y-sarn (1797-1857)', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), t.170. Eto 1796 a nodir yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain: 1953), tt.450-1, a hefyd *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1997), t.397.

yw diben y frawddeg sy'n crynhoi sefyllfa John Jones ar y pryd ac a nodwyd mewn italig ar ddiwedd y bennod: '*Y mae erbyn hyn yn bregethwr ieuanc ar brawf, ond heb ei dderbyn eto yn aelod o'r Cyfarfod Misol.*' Yr hyn a amlygir yw bod cyfnod newydd ar ddechrau yn hanes John Jones.[59]

Y mae'r penodau cyntaf hyn, felly, yn dilyn hynt bywyd John Jones, ac er nad ydynt yn croniclo'i 'yrfa' fel pregethwr, gellir dadlau bod ei alwedigaeth a'i yrfa yn amlwg iawn ynddynt serch hynny. Yn sicr, fe amlygir gan yr awdur y nodweddion hynny a fyddai'n llunio'r pregethwr hynod hwn maes o law. Yn y bennod gyntaf, er enghraifft, darlunnir y rhieni, John Jones, Tanycastell (1759-1807) ac Elinor, neu Elin ach Rhisiart (1762-1846) ei wraig. Ymdrinnir â hwy mewn cyd-destun duwiol ac ysbrydol, gan danlinellu'r fagwraeth a gafodd John Jones a'r dylanwadau llesol a gawsai ganddynt – elfen a fyddai'n hyrwyddo ei alwedigaeth lwyddiannus ymhen blynyddoedd.[60] Ond un o'i hynafiaid, Angharad James, Penamnen (*fl.* 1680?-1730?) – gwraig nodedig o ddiwylliedig – yw seren y rhan hon o'r cofiant.[61] Yn wir, telir cymaint o sylw iddi hi ag a gaiff ei fam,[62] a gellir cytuno â D. E. Jenkins mai

---

[59] *CJJT*, t.77 (pwyslais OT). Dyma'r unig dro y ceir brawddeg italig o'r fath. Gan nad wyf wedi llwyddo i ddarganfod cyfeiriad at gopi o ran gyntaf y cofiant mewn unrhyw lyfrgell ni ellir bod yn gwbl sicr mai dyma lle y diwedda. Eto, mae'n bur debygol, gan fod adolygiadau ar y rhan gyntaf yn tystio bod yr hanes a gynhwysir yn ymestyn hyd at ddiwedd y drydedd bennod o leiaf. Diwedd y drydedd bennod yw dychweliad John Jones at grefydd wedi rhai blynyddoedd o wrthgilio. Yn wir, byddai'r naill fan neu'r llall yn arwyddo cyfnod newydd yn hanes John Jones, ond mae diwedd y bedwaredd bennod yn arwyddo hynny o'i safbwynt fel pregethwr. Ymddangosodd adolygiad ar y rhan gyntaf hon yn *Y Tyst Cymreig*, 14 Ionawr 1870, 3.

[60] Yr unig nodwedd anghrefyddol o bwys a gaiff sylw gan Owen Thomas wrth ymdrin â'r rhieni yw medr John Jones, Tanycastell gyda gwaith llaw a chrefftau. Dyma ddawn deuluol, un y mae ŵyr John Jones, Tal-y-sarn, J. Glyn Davies, wedi ei phriodoli i bob un o fechgyn Tanycastell, gan gynnwys ei daid. Gw. LlGC, Llsg. 15762, llythyrau J. Glyn Davies (4), llythyr at R. T. Jenkins, dyddiedig 7 Tachwedd 1942. Eto, o safbwynt Calfiniaeth y cyfnod, ni ellir ei galw'n ddawn secwlar ychwaith.

[61] Priod William Prichard o Benamnen, Dolwyddelan. Ymddengys iddi gael addysg dda ac y gallai ddarllen ac ysgrifennu Lladin. Yr oedd yn fedrus ar y delyn ac yn barddoni, a chadwyd peth o'i gwaith barddonol mewn llawysgrifau. Gw. *Y Bywgraffiadur hyd 1940*, t.395. Nid oes cofnod amdani yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*. Yr oedd John Jones, Tanycastell a'i wraig yn perthyn i Angharad James. Yr oedd John yn fab i'w merch ieuengaf, Catherine, a'i wraig Elinor yn or-wyres iddi drwy ei merch hynaf, Gwen.

[62] Gw. *CJJT*, tt.24-7 am Angharad James ac yna tt.27-30 am Elinor, mam John Jones. Efallai nad oedd Owen Thomas yn gyfarwydd â'r hanesyn am farwolaeth Elinor a geir yn atgofion ei hwyres, Frances

Angharad James a gaiff y clod gan Owen Thomas am athrylith John Jones, Tal-y-sarn.[63] Wrth graffu ar gynnwys y cofiant gwelwn fod hynodrwydd John Jones yn elfen bwysig ym mhortread Owen Thomas, a daw'r elfen hon yn amlwg wrth iddo ymdrin â phlentyndod y pregethwr. Gwneir hynny mewn cyd-destunau cyffredinol a phenodol. Yn gyffredinol, fe'i darlunnir fel plentyn dwys, gwylaidd, ac ysbrydol ei feddwl, gyda phwyslais ar ei ddisgrifio fel person nodedig neu anghyffredin. Un ydyw, felly, sy'n sefyll ar wahân i'w gymrodyr. Er ei fod yn cyfaddef nad oes tystiolaeth ar gael i'w gefnogi, ni all Owen Thomas ymwrthod â chredu bod 'rhyw hynodion ynddo ef y pryd hyny a'i gwahaniaethent oddiwrth blant yn gyffredin' (31). Yn wir, nid yn annisgwyl efallai, mae Owen Thomas yn maentumio mai 'y plentyn yw tad y dyn'.[64] Ond nid yw'r cofiannydd yn anghofio mai o Dduw y daw'r hynodion hyn, a cheir pwyslais ar ddangos mai un wedi ei arfaethu yn bregethwr oedd John Jones. Un enghraifft benodol sy'n ei osod ar wahân i eraill yn ôl Owen Thomas yw ei arfer o bregethu pan oedd yn blentyn. Dyma brawf pellach mai bachgen anghyffredin oedd John Jones, ac un a amlygai ddawn ac effaith y pregethwr mawr maes o law. Nid rhyfedd felly y neilltuir bron y cyfan o weddill y bennod gyntaf i'r arfer hwn, ac mae'n ddiddorol y gall Owen Thomas ysgrifennu mewn cryn fanylder ynglŷn â hyn er bod gweddill y dystiolaeth am ei blentyndod yn ddigon annelwig. Yn wir, gall hyd yn

---

(Fanny) Jones, yn y gyfrol *Adgofion am Dalysarn*. Yno, dywed y bu i John Jones rag-weld marwolaeth ei fam mewn breuddwyd. Frances (Fanny) Jones, *Adgofion am Dalysarn*, gol. George M. Ll. Davies (Dinbych, 1947), tt.32-5. Serch hynny, efallai na fyddai stori o'r fath wedi apelio at bortread uniongred Owen Thomas. Yr un yw barn D. E. Jenkins am hanesyn arall amdani yn cwestiynu gofal Duw trostynt fel teulu yn wyneb trafferth i dalu'r rhent ar y fferm (yr oedd ei gŵr ar ei wely angau wedi ei chysuro drwy ddweud ei fod wedi derbyn sicrwydd o ofal Duw dros y teulu) (gw. Jenkins, 'Review and revision', tt.53-4). Ceir cofnod am Elinor yn y gyfrol *Mamau Methodistaidd*, gan Edward Thomas (Gwrecsam, 1905), tt.105-8; a *Chwiorydd Enwog y Cyfundeb*, gan Mair Ogwen Griffith (Caernarfon, 1925), tt.121-4.

[63] Jenkins, 'Review and revision', t.41.

[64] Hynny yw bod John Jones y plentyn yn debyg i John Jones y dyn. Dywediad a gafwyd yn wreiddiol mewn cerdd gan William Wordsworth, 'My heart Leaps up when I behold'. Fe'i defnyddiwyd yn ddiweddarach mewn cerdd o'r enw 'Child is Father to the Man' gan Gerard Manley Hopkins. Fe'i ceir mewn nifer o gofiannau hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth ymdrin â phlentyndod pregethwyr. Gw. Jenkins, 'Review and revision', t.55. Eithr ni wêl Jenkins unrhyw athrylith yn John Jones y plentyn.

oed nodi testunau'r plentyn-bregethwr a dyfynnu o ddwy o'i bregethau.[65] I'r awdur, nid chwarae plant mo'r pregethau hyn ac mae'n awyddus i ddarlunio '*y difrifoldeb a ymddangosai ynddo wrth y gwaith*' (35, pwyslais OT). Ceir arwyddocâd pellach i hyn yng ngeiriau ei ewythr, y pregethwr John Williams, Dolwyddelan a sylwodd y gallai fod gan Dduw '"a gwneyd rhyw ddefnydd mawr o'r bachgen"' (37). Dyma'r prawf uniongyrchol cyntaf fod John Jones wedi ei ddewis yn benodol i fod yn bregethwr, ac nid yw'r awdur yn swil o atgoffa'r darllenydd o hynny wrth gloi'r bennod, pan noda fod y nodweddion hyn 'yn rhagarwyddo yn amlwg nodwedd arbenig ei athrylith, a'r cymhwysder anghyffredinol, gwreiddiol a naturiol, oedd ynddo i'r gwaith mawr a ddaeth wedi hyny yn brif orchwyl a phrif hyfrydwch ei fywyd, ac y bu o gymmaint bendith i'w genedl trwyddo' (38).

Adeiladu ar argraffiadau'r bennod gyntaf ar y darllenydd a wna Owen Thomas yn y penodau nesaf. Daw hyn i'r amlwg wrth iddo ymdrin â'r newid a ddaeth ar John Jones yn ystod ei arddegau. Er ei fod wedi troi ei gefn ar bregethu, nid oferedd a genfydd i lenwi ei amser, ond diddordeb ysol mewn cerddoriaeth, ynghyd â sylweddoli ei gyfrifoldeb i'w fam weddw.[66] Ymhellach, neilltuir pennod gyfan i drafod 'ei ymdaith yn y wlad bell', chwedl yr awdur, pan neilltuodd John Jones o'r eglwys.[67] Bwriad amlygu hanes o'r fath yw dwysáu effaith ei ddychweliad, ac fe ellid

[65] Y ddwy bregeth a nodir yw 'Pa sawl rhan sydd mewn dyn? Dwy ran, sef corph ac enaid', sef testun a gododd o *Hyfforddwr* Thomas Charles, a hefyd y bregeth a luniwyd wedi iddo weld buwch yn cael ei lladd. Gw. y dyfyniadau o'i bregethau yn *CJJT*, tt.33-4. Gw. ymhellach Thomas Charles, *Hyfforddwr yn Egwyddorion y Grefydd Gristnogol* (Bala, 1807).
[66] *CJJT*, tt.41-5 a 45-6.
[67] Mae D. E. Jenkins yn awgrymu bod defnydd Owen Thomas o'r gair 'gwrthgilio' yma yn rhoi'r argraff i'r darllenydd fod John Jones wedi ei dderbyn yn swyddogol drwy gymundeb i'r eglwys, yn hytrach na'r ffaith mai ymwrthod yr oedd ag arfer oes o fynychu'r cyfarfodydd ac oedfaon yr eglwys (gw. Jenkins, 'Review and revision', t.59). Eto, mae Owen Thomas yn nodi yn y cofiant bod John Jones yn dal i fynychu'r oedfaon ar y Sul ac yn ystod yr wythnos yn y cyfnod hwn, ond nad oedd yn mynychu'r 'cyfarfod eglwysig' neu'r seiat. Dichon mai cilio o gymdeithas yr eglwys a wnaeth, felly.

bod wedi disgwyl yn y bennod hon enghreifftiau o oferedd ac arferion drwg.[68] Ond y mae Owen Thomas yn ofalus i bwysleisio mai'r un difrifwch sy'n nodweddu John Jones yn y cyfnod hwn ag yn y bennod gyntaf (50). Yn wir, ar un wedd ei ymdaith *o'r* wlad bell yw testun y bennod gan na cheir unrhyw fanylion amdano nad ydynt yn atgyfnerthu'r darlun o ŵr hynod grefyddol ei natur a gafodd gam gan ei eglwys ac a'i gadawodd o'r herwydd.[69] Yr hyn sy'n ddiddorol am y bennod, felly, yw y manylir yn unig ar yr elfennau hynny sy'n arwyddo ei ddychweliad. Er enghraifft, rhydd Owen Thomas gryn sylw i'r hanesyn amdano'n mynd i ffair Llanrwst, lle ffieiddia at y 'ffyliaid didoriad' sydd yno'n meddwi a mercheta. Unwaith eto, eglura'r awdur na all roddi rhagor o fanylion am y cyfnod hwn oherwydd diffyg deunyddiau. Ond fe geir adroddiadau amdano'n gwrando oedfa nerthol y pregethwr ieuanc Henry Rees, ac amdano'n mynychu y cyfarfodydd canu yng nghapel y Cefn Coch, Llangernyw (lle gweithiai ar y pryd). Dyma'r ddau ddigwyddiad ysgytiol sy'n dryllio teimladau John Jones ac yn ei ddwyn yn ôl i'w wreiddiau ysbrydol: 'penderfynodd ymroddi yn gwbl i eiddo y Gwaredwr; a phenderfynodd hefyd . . . y cysegrai weddill ei oes i bregethu y Gwaredwr hwnw i'w gydwladwyr'.[70] Dyma ymlyniad arwyddocaol a diamwys cyntaf John Jones i gyflawni ei alwedigaeth, ac fe'i hailadroddir gan Owen Thomas o leiaf bum gwaith wedi hynny yn y Cofiant. Disgrifiad D. E. Jenkins o frawddegau o'r fath

---

[68] Yr oedd hanesion o'r fath yn elfen bwysig o blentyndod gwrthrych, yn enwedig pregethwr, yng nghofiannau hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Byddai hyn yn cyferbynnu a'r dröedigaeth ac yn pwysleisio effaith achubol buchedd ddiwair y pregethwr o hynny allan. Daeth tuedd yn ddiweddarach yn y ganrif i bwysleisio plentyndod daionus yn unig. Gw. y drafodaeth yn fy erthygl, '"Y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto": mawl a moes yng nghofiannau'r pregethwyr', *Y Traethodydd* [rhifyn arbennig ar gofiannau] (Ebrill 2006), tt.78-97.

[69] Yn ôl Owen Thomas ceir mwy nag un rheswm am ei neilltuad: y ffaith na siaradwyd ag ef am ymuno â chrefydd, ei ddiddordeb ysol mewn cerddoriaeth, yr erlid a fu arno gan weithwyr digrefydd chwarel Tanycastell, a'r cerydd a dderbyniodd gan y swyddogion eglwysig am beidio â dangos awydd i weddïo'n gyhoeddus yn y capel. Dywed yr awdur fod agwedd y swyddogion yn arbennig wedi effeithio ar John Jones a'i ddwyn i gredu nad oedd yn gymwys i fod yn Gristion, a chystwya'r awdur, er yn bur ysgafn, benderfyniad y swyddogion eu hunain.

[70] *CJJT*, t.59. Daw'r dyfyniad wedi iddo wrando'r bregeth. Yn fuan wedi hynny cafodd brofiad ysbrydol dwys mewn cyfarfod canu yng nghapel y Cefn Coch a fu'n fodd i'w ddwyn yn ôl i'r eglwys, wrth i'r brodyr yno ganu emyn Morgan John Rhys, 'Wel dyma'r cyfaill gorau gaed' drosodd a throsodd.

yw 'padding', ond credaf mai ymgais fwriadol sydd yma ar ran y cofiannydd i atgoffa'r darllenydd fod John Jones yn llwyr sylweddoli'r cyfrifoldeb sydd wedi ei arfaethu iddo o geisio pregethu'r Efengyl i bobl Cymru.[71] Erbyn dechrau'r bedwaredd bennod felly, nid yn unig y mae John Jones wedi dychwelyd o'r 'wlad bell', ond y mae crefydd a phregethu wedi ei feddiannu drachefn (70). Y daith tuag at ei bregeth gyhoeddus gyntaf yw prif fyrdwn y bennod hon, ond nid ar y pregethu y mae'r sylw'n llwyr, serch hynny. Pwysleisir, er enghraifft, ddawn John Jones wrth weddïo a'i ddawn i ddylanwadu ar eraill, megis pan gaiff ei frawd Richard dröedigaeth dan ei law (69). Ond nodweddion yw'r rhain sy'n cyfoethogi'r darlun cyffredinol o'r egin bregethwr duwiol a diwyd, a byddai'n deg dweud ar y cyfan mai ei ymdrech i bregethu yw calon y bennod. Y mae'r hanesion a adroddir amdano yn pregethu'n ddirgel yn Nant y Tylathau,[72] neu amdano yn pregethu wrth deithio ar ei ffordd i'w waith yng Nghapel Curig[73] yn paratoi'r darllenydd at y bregeth yn y Garnedd. Daw'n amlwg bod Owen Thomas yn awyddus i'r darllenydd ddeall mai 'awydd pregethu oedd yn llenwi ei feddwl ddydd a nos yr holl amser hwn' (72), a bod ei ymroddiad i'w alwedigaeth yn hanfodol tuag at ei baratoi ar gyfer cychwyn gyrfa fel pregethwr – galwedigaeth a ddisgrifir gan yr awdur fel 'gwaith mawr' sawl tro yn y cofiant (73). Unwaith eto, mae'n ddiddorol mai darlun o gymeriad neilltuedig, dwys ac anghyffredin a geir o John Jones yn y cyfnod hwn. Ond yr oedfa yn y Garnedd sy'n derbyn y sylw manylaf yn y bennod. Yn wir, mae'r modd yr ymdrinnir â'r digwyddiad yn rhoi adlais i'r darllenydd o'r dull anecdotaidd neu storïol sy'n hynodi gweddill hanes ei yrfa bregethwrol yn y cofiant. Dywed sut y galwyd ar John Jones i

---

[71] Gw. ibid., tt.140, 163, 178, 197, 204 am y sylwadau hyn am bregethu gan Owen Thomas. Jenkins, 'Review and revision', tt.76-7.

[72] Nid oedd yn gwbl ddirgel gan y byddai ei frodyr, yn ddiarwybod iddo, yn dod i'w wrando.

[73] Yr oedd John Jones yn labro ar ffordd yr A5 ar y pryd. Ymddengys fod rhai cyd-weithwyr a'i dilynai dros y mynydd yn credu mai ysbryd ydoedd gan ei fod yn ymarfer pregethu wrth gerdded ac o'r herwydd yn cadw'n ddigon pell o bawb. Byddai'n cyflymu ei gerddediad pan welai unrhyw un yn dynesu er mwyn cael llonydd i ymarfer. Gw. *CJJT*, t.71.

bregethu ac am yr effaith hynod a fu ar y gwrandawyr, nid lleiaf ar ŵr o'r enw Owen Llwyd, Gorddunant, a oedd yn perthyn i John Jones ar ochr ei dad. Y mae'r atgof yn ddramatig ei naws, ac mae techneg y cofiannydd o'i adrodd o safbwynt yr effaith a gaiff y bregeth ar Owen Llwyd yn cynyddu'r tensiwn. Disgrifia sut y'i cymhellwyd gan nerth y bregeth i wneud ei ffordd yn araf drwy'r gynulleidfa nes cyrraedd John Jones (a bregethai â'i lygaid ynghau), cyn ymollwng i borthi'r bregeth yn gynhyrfus:

> Pan oedd yr holl gynulleidfa wedi ei chynhyrfu yn ddirfawr, gwaeddodd y pregethwr gyda nerth a dylanwad anorchfygol, gan gyfeirio at blant Duw, '*Yn llaw pwy, debygech chwi, y maent hwy?*' ar hyny Owen Llwyd, wedi colli yn gwbl arno ei hun, a gauodd ei ddwrn ac a'i gosododd ar wyneb y pregethwr, ac a waeddodd allan mewn hwyl orfoleddus '*Yn llaw fy Nhad, weli di*'. Dyna pryd yr agorodd y pregethwr ei lygaid gyntaf, ar ôl darllen ei destyn, a hyny oblegid teimlo rhyw beth dïeithrol ar ei wyneb. Yr oedd yr holl le yn awr yn gyffro trwyddo; pawb fel wedi colli arnynt eu hunain.[74]

Dyma uchafbwynt y cofiant hyd yn hyn. Ac mae naratif y bennod hon, onid yw cynnwys a chynllun y pedair pennod gyntaf yn wir, yn arwain y darllenydd yn raddol – fel Owen Llwyd drwy gynulleidfa'r Garnedd – tuag at John Jones y pregethwr, a'r modd y cyflawnodd yr alwad oddi wrth Dduw i ddyfod yn bregethwr. Wrth ein sicrhau bod gwrandawyr y Garnedd, a'r gymdogaeth gyfan, yn datgan hynodrwydd John Jones fel pregethwr, mae Owen Thomas unwaith eto yn cadarnhau ym meddwl y darllenydd ddawn a statws yr yrfa sydd ar fin datblygu o'i flaen.

[74] Ibid., t.76. Yn ôl yr hanes, fe gynhyrfwyd gymaint ar fam ieuanc a eisteddai wrth y tân gan nerth y bregeth nes y bu bron iddi ollwng ei phlentyn i'r fflamau.

### 3.3.2 'cyflawnder ei nerth': gyrfa bregethu John Jones

Os arwyddo'r pregethwr a arfaethwyd oedd bwriad Owen Thomas yn rhan gyntaf y cofiant, byddai'n deg dweud bod pregethu a bywyd John Jones yn annatod glwm yn y cofiant o hyn allan. Yn wir, mae cynllun ac ymdriniaeth Owen Thomas yn amlygu hynny ar bob cyfle. Aeth ffrwd y mynydd bellach yn afon fechan, chwedl Saunders Lewis, a dilyn taith yr afon honno a wneir yn y rhan hon o'r gyfrol. Fe bregethodd John Jones am y tro cyntaf yn 1821 a'r tro olaf yn 1857, dri mis yn unig cyn ei farwolaeth. Cyfnod o 36 mlynedd, felly, oedd ei yrfa fel pregethwr – cyfnod sy'n rhychwantu dwy ran o dair o'r tudalennau yn y gyfrol sy'n olrhain hanes ei fywyd. [75] Er mai ymwneud â hanner olaf ei fywyd y mae Owen Thomas yma, y mae rhaniad o'r fath yn ddigon naturiol ac ystyried mai dyma gyfnod mwyaf arwyddocaol ei fywyd o safbwynt dehongliad cofiannol yr awdur.

Nac anghofiwn mai bwriad Owen Thomas oedd cyflwyno'r pregethwr delfrydol i'w efelychu, ac unwaith eto yn yr adran hon gwelir dawn y cofiannydd i briodi cynnwys a chynllun er mwyn cyflawni hynny. Fel y soniwyd eisoes, y dull mwyaf arwyddocaol a ddefnyddir wrth gofiannu'r cyfnod hwn yw cronicl, ar y cyfan, o oedfaon John Jones. Dyma'r elfen lywyddol yn adeiladwaith yr adran, ac fe'i defnyddir fel ffrâm gofiannol i adrodd yr hanes bywgraffiadol. Mewn cyfres o adroddiadau gan mwyaf, mae'r penodau yn ei ddilyn o gapel i gapel ac o un oedfa nerthol i'r llall, boed hynny ar y Sul, ar rai o brif wyliau pregethu'r enwad neu ar deithiau pregethu drwy Gymru benbaladr. Afraid dweud na chofnodir pob un oedfa. Serch hynny, o graffu ar y penodau hyn gwelir mai ychydig, os unrhyw, wybodaeth a gyflwynir am hanes ei fywyd nad yw'n berthnasol – onid yw'n uniongyrchol

[75] Sef 309 o 443 tudalen (o eithrio'r bennod ar y dadleuon diwinyddol a'r bennod olaf ar hanes pregethwyr ac ar John Jones ei hun fel pregethwr). Eto, fel y nodwyd eisoes, y mae hyn yn llai na hanner hyd y gyfrol. Gw. Atodiad 3.

gysylltiedig, yn wir – â'r 'gwaith mawr'. Ar y cyfan, y mae'r adroddiadau hyn o'i oedfaon, er yn ailadroddus mewn mannau, yn fanwl a diddorol. Er gwaetha'r arddull Seisnigaidd braidd sy'n nodweddiadol o gofiannau Oes Fictoria, ceir ysgrifennu gwirioneddol afaelgar mewn mannau ac mae'r ffrâm hon yn addas iawn wrth ddarlunio duwioldeb a diwydrwydd y pregethwr nodedig. Trafodwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf mor werthfawr i Owen Thomas fel cofiannydd oedd adroddiadau llygad-dyst, naill ai wedi eu dwyn o'i gof ei hun neu wedi eu derbyn oddi wrth eraill ar ffurf llythyr neu adroddiad yn y wasg. O ran strwythur, mae'r adroddiadau eu hunain yn bur unffurf er eu bod wrth gwrs yn amrywio o ran cyd-destun ac o ran ffynhonnell. Ond gan mwyaf nodir manylion allanol yr oedfa – ei lleoliad, dyddiad ac, yng nghyd-destun oedfaon y Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa, y sawl a bregethai. Yna, ceir adroddiad manwl am bregeth John Jones ei hun. Nodir nid yn unig ei thestun ond ei chynnwys yn ogystal. Yn aml, dyfynnir rhannau ohoni a cheir disgrifiad o'r bregeth a'r traddodiad ohoni, ynghyd â'i heffaith ar y gwrandawyr. Y mae gosod adroddiadau o'r fath fel sail i'r naratif yn ychwanegu at undod y portread o John Jones yn ymroddi i'w alwedigaeth a'i chyflawni. Hyrwydda hyn fanylrwydd ac awdurdod y dehongliad a chyflwyno momentwm cyson i'r hanes. Yn ei hanfod, felly, maint ei lafur, ynghyd ag egni, hynodrwydd a datblygiad (neu fomentwm) ei ddiwydrwydd a amlygir. Ond diben y diwydrwydd hwn yw cadarnhau a datblygu ei dduwioldeb ei hun a'i allu i ennill eneidiau eraill. O'r herwydd, gellir dadlau fod dwy elfen i'w canfod yn naratif y cofiant sy'n hanfodol er cyflawni agenda gofiannol yr awdur. Yn gyntaf, cyflwynir tystiolaeth sylweddol a chyson o'i ddoniau fel pregethwr ynghyd â'i effeithiolrwydd a'i boblogrwydd wrth y gwaith. Yn ail, pwysleisir nad cymeriad digyfnewid yw John Jones ond bod ei yrfa yn datblygu o hyd.

***'Pregethwr y Bobl': athrylith a phoblogrwydd John Jones fel pregethwr***

Pan ofynnwyd i Owen Thomas tua diwedd ei oes gan ei frawd pwy oedd yr athrylith bennaf a glywsai yn y pulpud, ei ateb yn ddioed oedd 'John Jones, Talsarn'.[76] Dywed yr hanesyn hwn lawer wrthym am resymau Owen Thomas dros gydsynio â chais David Jones, Treborth ac ymgymryd ag ysgrifennu'r cofiant. Yr oedd yn edmygydd di-ben-draw o John Jones fel pregethwr. Ac er ei bod yn amlwg ddigon mai John Elias oedd model Owen Thomas ei hun yn y pulpud, mae'n amlwg iddo ganfod yn John Jones archdeip o bregethwr yr ystyriai yn addas i'w gyflwyno fel esiampl i'w efelychu.[77] Rhan bwysig o'r cofiant, ac o'r goffadwriaeth, felly, yw talu teyrnged i'w boblogrwydd a'i hynodrwydd wrth y gwaith. Gwelwyd eisoes y pwyslais ar athrylith John Jones yn adran gyntaf y cofiant, ond wrth ymdrin â'i yrfa fel pregethwr y daw gwir ddawn a phoblogrwydd John Jones i'r fei, ac ni chyll Owen Thomas y cyfle i ddadlennu hyn i'r darllenydd.

> PREGETHWR oedd Mr. John Jones. Ac yr *oedd* efe yn Bregethwr o'r iawn ryw. Yr oedd wedi ei gynnysgaeddu â'r cymhwysderau, naturiol a grasol, angenrheidiol i'r gwaith, i raddau mor fawr, ag i'w ddyrchafu, yn ein bryd ni, yn un o'r rhai cyntaf, yn nosbarth uchaf pregethwyr unrhyw oes neu wlad, er dyddiau yr Apostolion. Nis gall ymchwiliad, gan hyny, i elfenau y rhagoriaethau neillduol a berthynent iddo fel y cyfryw, ac o'r modd y

---

[76] Jenkins, 'Review and revision', t.5.

[77] Gw., er enghraifft, Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.230-1. Gw. ymhellach sylwadau Owen Thomas ei hun yn *CJJT*. Wrth sôn am y tro cyntaf iddo glywed John Jones yn pregethu, noda fod ganddo ofn i John Jones 'droi allan yn well pregethwr na'r un oedd yn fy meddwl i uwchlaw pawb, John Elias. Maddeued y darllenydd i mi: nid oeddwn ond plentyn ac yn meddwl yn blentynnaidd' (t.158). Ceir ei sylwadau ar '[b]en bregethwr Cymru', John Elias, yn y portread ohono yn ibid., tt.844–71. Ond er ei fod yn batrwm o bregethwr i Owen Thomas, mae'n amheus a oedd yn batrwm ym mhopeth. Noda R. Tudur Jones am Elias fod 'ei natur feistrolgar, ei dymer boethlyd, ei duedd i ddefnyddio'i alluoedd areithyddol mawr i fygu trafodaeth, a'i snobyddiaeth gymdeithasol, yn peri ei fod yn llawer llai atyniadol fel gwladweinydd eglwysig na Thomas Charles, neu Thomas Jones' (R. Tudur Jones, *John Elias: Pregethwr a Phendefig* (Abertawe, 1975), t.53). Tybed nad oedd hefyd yn llai atyniadol fel gwrthrych cofiant nag oedd John Jones, Tal-y-sarn neu Henry Rees. Er na feddyliai Owen Thomas fod John Jones yn well areithiwr na John Elias, mae'n bosibl dadlau y tybiai ei fod yn llawnach dyn a phregethwr ac yn esiampl well i'w efelychu, yn enwedig gan bregethwyr ieuainc, ac yn ogystal gan ddarllenwyr yn gyffredinol. Yn sicr, fel y dengys y drafodaeth ar 'ddatblygiad pellach' John Jones isod, yr oedd safbwyntiau diwinyddol John Jones yn fwy cymeradwy i'r awdur na rhai John Elias.

> cyrhaeddwyd hwynt ganddo, ond ei wneyd gyda dim llwyddiant, lai na bod nid yn unig yn ddyddorol ond yn dra addysgiadol, yn enwedig i bawb sydd a wnelont â gweinidogaeth yr efengyl, ac a ddymunent ragori ynddi. (793)

Dyma'r doniau cynhenid anghyffredin a roddwyd gan Dduw sy'n sail i'w alwedigaeth i bregethu'r Gair. Dyma hefyd sylfaen ei boblogrwydd fel pregethwr a'i allu i gyflawni'r yrfa honno. O'r herwydd, mae'n bwysig sylweddoli nad yn ei gyneddfau allanol yn unig, megis ansawdd ei lais neu'r olwg a oedd arno yn y pulpud, y mae diddordeb Owen Thomas. Y mae ei gyneddfau 'grasol' yn hanfodol bwysig yn ogystal, sef cyfoeth mewnol, ysbrydol a duwioldeb ei feddwl a'i enaid. Wrth gwrs, byddai rhai o'r cyneddfau hyn wedi datblygu lawlaw â'i yrfa gyhoeddus fel pregethwr, ond hyd yn oed yn ystod ei flynyddoedd cynharaf yn y pulpud ceir tystiolaeth ddiamwys o'i ddoniau:

> Yr oedd ei lais . . . yn hynod o dreiddiol a soniarus, fel clychau arian; ei ddawn ymadrodd yn nodedig o rwydd a swynol; a'i ysbryd yn llawn o fywyd ac yni a thân. Ond heblaw hyny, yr oedd y *pethau* a leferid ganddo a rhagoriaeth gwirioneddol ynddynt, ac yn ennill sylw dirfawr, nid yn unig oddiwrth y dosbarth cyffredin o'r gwrandawyr, ond oddiwrth y rhai eangaf eu gwybodaeth, craffaf eu sylw a choethaf eu chwaeth. (90)

Gwelwyd ym mhennod gyntaf y traethawd hwn fod rhinweddau a galluoedd y pregethwr yn gyfrannog o'r portread o'r cymeriad a geid gan y cofianwyr. Ond er bod Owen Thomas yn ymdrin â 'nodweddau neillduol' John Jones fel pregethwr mewn pennod ar wahân (971-1024), caiff ei ddoniau a'i hynodrwydd sylw cyson yn nehongliad y cofiannydd o hanes bywyd ei wrthrych yn ogystal. Ac o'r dechrau'n deg, y mae'r pwyslais ar amlygu hyn i'r darllenydd yn rhan annatod o'r portread cyfan. Pan sonia Owen Thomas am yr argraff a wnaeth y John Jones ieuanc ar ei dad pan y'i clywodd am y tro cyntaf tua 1825, fe'i dyfynna: '"Ni chlywaist ti Mari", meddai wrth fy mam, "neb erioed tebyg iddo"'(156). Y mae John Jones y bachgen

hynod bellach wedi tyfu'n bregethwr hynotach, sy'n sefyll ar wahân i bregethwyr eraill. Dyma ymgais i gysoni'r darlun o John Jones y pregethwr gyda'r 'gŵr anghyffredin' a welodd ei frawd David Jones, Treborth.[78] Yn wir, crëir yr argraff hon yn gyson wrth sôn amdano yn y cofiant. Un enghraifft yw sylwadau John Elias wrth gynulleidfa yng Nghaergybi yn 1825, eto, a ddyfynnir yn y gwaith:

> Y mae yno lawer John Jones yn Sir Gaernarfon, ac y mae yno fwy nag un John Jones yn bregethwr; ond mi fydd yn dda genyf fi i chwi ddeall mai nid rhyw John Jones cyffredin ydyw y brawd a gyhoeddwyd i fod yma yn pregethu y Sabbath nesaf. (157)

Ond wrth gwrs, nid gŵr hynod yn unig mo John Jones ond pregethwr hynod, ac un o'r elfennau amlycaf sy'n arwyddo hyn yn y penodau cynnar yw'r hanesion sy'n gysylltiedig â datblygiad ei yrfa. Ceir pwyslais cyson ar y ffaith ei fod yn pregethu y tu hwnt i'r ffiniau a osodwyd arno gan reolau'r Cyfundeb. Ond yn ôl y cofiant, esgusodid John Jones am dorri'r rheolau hyn oherwydd ei 'ddoniau gweinidogaethol . . . newydd a dysglaer' (87). Mae'n ddigon naturiol, er enghraifft, fod Owen Thomas yn adrodd hanes ei bregeth gyntaf mewn Cyfarfod Misol, ond y mae'r modd yr edrydd am y bregeth yn Nhrefriw yn amlygu poblogrwydd ei wrthrych yn ogystal. Er nad oedd John Jones yn aelod o Gyfarfod Misol Sir Ddinbych, caiff ei ddarbwyllo i bregethu am nad oedd pregethwr i'w gael ar gyfer oedfa olaf y dydd. Ychwanega Owen Thomas, serch hynny, fod rhai pregethwyr o'r sir yn bresennol yn yr oedfa, ond eu bod wedi ymguddio er mwyn cael cyfle i wrando ar John Jones. Ymhellach, mae'r adroddiadau o oedfaon hynod John Jones ar y pryd hefyd yn amlygu cymaint ydoedd yr awydd am ei glywed, megis yr alwad iddo bregethu ym Mangor yn haf 1822 (eto, y tu hwnt i ffiniau'r Cyfarfod Misol), neu'r oedfaon sy'n gysylltiedig â Chymdeithasfa

[78] Gw. LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyr at Owen Thomas gan David Jones, 2 Hydref 1857.

Caernarfon yn Hydref yr un flwyddyn.[79] Yn ôl Owen Thomas, 'hollol afreolaidd' ydoedd i bregethwr nad oedd wedi ei dderbyn i'r Gymdeithasfa bregethu mewn oedfaon o'r fath (97).[80] Yn wir, cais Owen Thomas gyfiawnhau'r ffaith na chafodd John Jones ei dderbyn i'r Gymdeithasfa ym Mhwllheli yn 1823 drwy nodi bod y brodyr wedi anghofio nad oedd yn aelod, a hynny '*oherwydd ei ragoriaeth*' fel pregethwr![81] Yn ddigon naturiol, daw'r pwyslais hwn i ben pan gaiff John Jones ei ordeinio gan ei fod bellach yn rhydd i bregethu lle y mynnai.

Elfen arall sy'n amlygu ei ddoniau â'i boblogrwydd yn y cofiant yw ei berthynas â gweinidogion eraill, ac nid oes brinder tystiolaeth yma ychwaith. Er bod yr elfen hon yn arwyddo ymwneud John Jones â'i gymdeithas, credaf mai mwy arwyddocaol o safbwynt amcan Owen Thomas oedd dangos nad y gwrandawyr cyffredin yn unig a werthfawrogai ei ddoniau. Gwelwyd eisoes y deyrnged a dalwyd iddo gan John Elias – pregethwr mwyaf dylanwadol yr enwad – yng Nghaergybi yn 1825. Yr un yw'r bwriad wrth nodi pregeth gyntaf John Jones ar y cyd ag arweinydd Cyfarfod Misol Arfon, sef John Jones, Tremadog, yng Nghyfarfod Misol Nefyn. Edrydd Owen Thomas sut y pregethodd John Jones, Tal-y-sarn yn gyntaf, ac oherwydd grym a dylanwad ei bregeth dyna'r 'tro *cyntaf* a'r tro *diwethaf*' i'r gŵr o

[79] Edrydd yr awdur hanes ei benderfyniad i fynd ar daith i Gymdeithasfa Llanbedr Pont Steffan yn 1823, er nad oedd wedi ei dderbyn yn aelod o'r Gymdeithasfa ar y pryd (*CJJT*, tt.138-40). Yn ôl yr hanes ymddengys iddo gael ei ddarbwyllo gan John Jones arall, blaenor ym Meddgelert, i deithio i dde Cymru. Ond ni chafodd ei alw i bregethu yno, a thybiodd John Jones mai cosb am dorri'r rheolau ydoedd y rheswm.

[80] Mae'n arwyddocaol mai yn un o'r oedfaon hynny, ym Mron-y-fedw, y clywodd Griffith Williams ef yn pregethu. Roedd Griffith Williams yn perthyn i John Jones, ac yn stiward yn un o chwareli Dyffryn Nantlle. Cynigiodd waith iddo fel chwarelwr yn ardal Tal-y-sarn, cynnig a'i galluogodd i symud i'r ardal a chanfod maes ei weinidogaeth. D. E. Jenkins, ac nid Owen Thomas, sy'n nodi bod Griffith Williams yn perthyn i John Jones. Ymddengys ei fod yn briod ag un o'i gyfnitherod (Jenkins, 'Review and revision', t.71).

[81] *CJJT*, t.140 (pwyslais OT). Cafodd ei dderbyn y flwyddyn ganlynol. Gw. sylwadau Richard Bennet, 'Derbyniad John Jones, Talsarn, i'r Gymdeithasfa', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 7 (1922), 57-62. Gw. hefyd Jenkins, 'Review and revision', tt.78-9.

Dremadog gynnig pregethu ar ei ôl.[82] Yn ddiweddarach yn y cofiant cynhwysir adroddiadau llygad-dyst gan bregethwyr eraill yr enwad, megis Griffith Hughes, Edeyrn, Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon, John Jones, Bryn'rodyn a'r pregethwr Annibynnol John Thomas, Lerpwl.[83] Er nad yw'r adroddiadau yn ymdrin yn ddadansoddol â dawn a phoblogrwydd John Jones, ceir tystiolaeth ynddynt sy'n atgyfnerthu'r elfennau hyn ym meddwl y darllenydd. Sonia Griffith Hughes, er enghraifft, am y modd y 'rhagorodd mewn pregethu nag mewn un ran arall o wasanaeth y cyssegr' (215), a dyfarniad John Thomas o wrando oedfa hynod iawn gan John Jones oedd: 'Ni chlywsom neb erioed yn dyfod mor agos i'r dychymyg sydd genym ni beth a ddylai pregethu yr efengyl fod.'[84] Unwaith eto, dyma safbwyntiau sy'n addas iawn i amcanion didactig Owen Thomas.

O ystyried yr adroddiadau uchod, felly, gwelir bod ei ddoniau hynod a'i boblogrwydd ar eu hamlycaf yn yr adroddiadau niferus a geir yn y cofiant o'i oedfaon. Digwydd hyn yn naturiol ddigon yn y penodau hynny sy'n trafod anterth gyrfa gyhoeddus John Jones, pan oedd yn bregethwr enwog, hynod a diwyd.[85] Manylir, er enghraifft, ar ei bregeth yng Nghymdeithasfa Ffestiniog (628-34) – oedfa mor hynod fel y dywed Owen Thomas iddo dderbyn llythyrau a ddatganai na fyddai'r cofiant yn gyflawn pe cawsai ei hepgor (628). Neilltuir ugain tudalen yn y ddeuddegfed bennod i adrodd am ei daith i dde Cymru yn 1847.[86] Ymysg atgofion personol Owen Thomas, un o uchafbwyntiau'r penodau hyn yw'r bregeth hynod yng

---

[82] *CJJT*, tt.133-4 (pwyslais OT). Caiff y bregeth hon ei chanmol gan bregethwr nodedig arall, sef Michael Roberts, Pwllheli.
[83] Brawd Owen Thomas. Gweinidogaethai yng Nghaerfyrddin cyn symud i Lerpwl.
[84] *CJJT*, t.669. Gw. ei adroddiad, tt.667-73. Ceir adroddiadau Griffith Hughes, tt.215-19, Robert Hughes, tt.253-7 a John Jones, tt.653-67.
[85] Sef penodau 9, 12 a 14 yn y cofiant. Am deitlau'r penodau, gw. Atodiad 3.
[86] Mae'r adroddiad hwn yn rhychwantu ymron i chwarter hyd y bennod. Wrth nodi hanes y daith hon y ceir adroddiad John Thomas, Lerpwl o'r bregeth yng Nghymdeithasfa Caerfyrddin y cyfeiriwyd ati uchod (*CJJT*, tt.667-73).

Nghyfarfod Misol Caersws, Ionawr 1849, lle defnyddiodd John Jones y darlun o gyflogi gweision neu forwynion.[87] Cyfeddyf yr awdur fod yr oedfa hon yn un o'r rhai mwyaf effeithiol y bu ynddi erioed. Serch hynny, pregeth a glywodd yng nghapel Jewin Crescent, Llundain ar nos Sul y Pasg 1856 (blwyddyn gyflawn olaf ei weinidogaeth), oedd 'yr *hynotaf* a glywson ni o'i eiddo erioed' (725).[88] Nodwyd eisoes fod cyfansoddiad yr adroddiadau hyn yn pwysleisio huodledd y pregethwr a'i fater, lle cyfunnir disgrifio'r pregethwr â chofnodi ei genadwri. Diben adrodd am oedfaon o'r fath, felly, yw amlygu bod John Jones 'y pryd hyn, yn nerth mwyaf ei boblogrwydd' (632-3). Wrth gwrs, y mae adroddiadau o'r fath hefyd yn pwysleisio diwydrwydd ac egni diamheuol John Jones wrth y gwaith.

Yn wir, un o'r elfennau anhepgor yn yr adroddiadau uchod yw'r effaith a gaiff pregethau John Jones ar ei wrandawyr. Yma eto, ceir cysylltiad pendant rhwng ei boblogrwydd fel pregethwr a datblygiad a chyflawniad ei alwedigaeth. Daeth canlyniadau ei bregethau yn gynyddol bwysig wrth iddo newid o bregethu athrawiaethol i bregethu mwy ymarferol, â'i bwyslais ar argyhoeddi dynion o'u cyfrifoldebau tuag at dderbyn gras Duw.[89] O'r herwydd, nid syndod fyddai'r pwyslais cyson ar effaith ei oedfaon hynod ym mhenodau diweddarach y cofiant. Serch hynny, y mae'r pwyslais hwn yn bresennol o'r adroddiad am ei bregeth gyntaf un yn y Garnedd. Yr effaith gan amlaf yw peri i'r gynulleidfa borthi'r pregethwr, peri iddynt wylo, eu syfrdanu, neu lawenhau a gorfoleddu. Dyna'r effaith a gafodd ar ei wrandawyr ar faes y Bala yn 1827, pan 'ddechreuodd y dorf drwyddi a siglo dan ei

---

[87] Ibid., tt.677-82. Testun y bregeth oedd 'Paham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?'. Gw. 'Sefyll yn segur' (Mathew 20:6), yn Griffith Parry (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych, 1869), tt.79-83.

[88] Gall Owen Thomas ymfalchïo yn ogystal fod y bregeth ddiwethaf a glywodd gan John Jones – yn ei Gymdeithasfa olaf yntau yn yr Wyddgrug yn Rhagfyr yr un flwyddyn – yn llawn 'difrifwch, a nerth, a hyawdledd annghyffredin' (*CJJT*, t.732).

[89] Gw. y drafodaeth o dan y testun 'Datblygiad Pellach' isod, tt.183-97.

weinidogaeth; ac o'r diwedd torrodd allan yn orfoledd mawr' (100). Dyfynnir disgrifiad Robert Parry o effaith ddramatig pregeth John Jones yn Llanwyddelen yn 1849 pan 'roddwyd un lef gyffredinol gan yr holl dorf, fel pe buasai wedi ei tharo gan fellten . . . ac ni therfynodd effeithiau y bregeth yn y capel, ond bu yn dwyn ffrwyth am flynyddoedd' (632). Ac wedi oedfa nerthol ar ei daith olaf i Lundain yn 1856 lle'r aeth y gynulleidfa yn foddfa o ddagrau, nododd glanhawraig y capel '[na] fydd eisiau *watro* y capel ar ôl y bregeth yna' (726). Ceir sawl enghraifft debyg yn y cofiant, ac ychwanegu at y darluniau sy'n nodi cynnwys ac effaith oedfaon neillduol a wna ambell gip mwy cyffredinol ar ei boblogrwydd. 'Yr oedd, i ba le bynag yr elai, yn peri cyffro mawr', (90) meddai Owen Thomas cyn gynhared â 1821. Enghraifft o'r cyffro hwn yw pan ddyfynnir geiriau Rees Roberts sy'n sôn amdano'n pregethu yn yr awyr agored yn Ffestiniog un tro. Ymddengys iddi ddod yn law, ac felly cyhoeddwyd y byddai John Jones yn pregethu mewn capel gerllaw, ac edrydd yr awdur sut yr aeth yn bandemoniwm llwyr wrth i bawb geisio gwasgu am y gorau i'r capel – hanesyn sy'n tystio i 'boblogrwydd annghydmarol . . . Pregethwr y Bobl'(633). Dro arall, ceir gwybodaeth ffeithiol ynglŷn â'i boblogrwydd, megis pan nodir bod tua 6,000 o bobl yn gwrando arno'n pregethu yn Nhredegar yn 1846 (619). Y mae disgrifiadau o'r fath yn rhoddi syniad i'r darllenydd parthed cymaint oedd yr awydd yn y wlad am ei glywed. Megis y dywed y pregethwr John Jones, Bryn'rodyn, daw'n amlwg bod ei weinidogaeth, bryd hyny, 'mewn gwirionedd, yn ofnadwy. Nid oes dim gair arall i'w arfer' (658). Yr hyn sy'n arwyddocaol yw mai'r cyfuniad hwn o ddoniau mewnol ac allanol sy'n hynodi'r pregethwr cyhoeddus yng ngolwg Owen Thomas. Doniau ydynt y gall darllenwyr y cofiant eu hedmygu. Ac er, dichon, nad oes modd iddynt efelychu'n uniongyrchol rai o'r cyneddfau hyn, mae'n amlwg y teimla'r awdur werth eu pwysleisio. Yr oedd galluoedd o'r fath, wrth gwrs, yn rhan anhepgor o'r portread

o'r pregethwr cyflawn, ac felly yr oedd eu darlunio yn gosod delfryd amlwg i eraill geisio ymgyrraedd ati.

***'y mae yntau'n newid, yn tyfu': datblygiad fel pregethwr***

Er cystal doniau naturiol a hynodrwydd John Jones fel pregethwr, dengys Owen Thomas yn ogystal na all unrhyw yrfa gyrraedd ei hanterth heb ymroddiad, ymdrech a dyfalbarhad. Nid galwedigaeth sy'n aros yn ei hunfan ydyw, chwedl Saunders Lewis,[90] ond un sy'n datblygu ac ehangu ar gyneddfau personol John Jones. Dyma a'i galluogodd i gyrraedd ei nod o fod 'yn bregethwr mawr' maes o law (90). Unwaith eto, mae'r sylw a rydd y cofiannydd i ddatblygiad gyrfa bregethu John Jones yn berthnasol i'w nod o gyflwyno portread o'r pregethwr duwiol a diwyd yn ymateb i alwad ei Dad Nefol a gweithredu arni. O fwrw golwg ar y datblygiad cyffredinol hwn, felly, gwelir bod Owen Thomas yn pwysleisio dau gyd-destun penodol, sef datblygiad gyrfaol, cyhoeddus John Jones, a'i ddatblygiad athrawiaethol pellach fel pregethwr.

*'un o brif bregethwyr y Cyfundeb': camau'r yrfa*

Dyma'r cyfnod cyntaf yn ei yrfa, fel petai, a'r cyfnod sy'n rhychwantu pum pennod gyntaf yr adran hon o fewn y gyfrol.[91] Fel yr awgryma teitlau'r pedair pennod gyntaf, caiff y darllenydd ei arwain ar daith gyda'r bwriad o gyrraedd math ar uchafbwynt neu garreg filltir ym mywyd John Jones erbyn diwedd pob pennod. Ac o graffu arnynt, gwelir bod yr uchafbwyntiau hyn yn adlewyrchu camau pendant yn natblygiad ei yrfa gyhoeddus fel pregethwr: ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol, ei briodas a'i

[90] Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.355.
[91] Penodau 5 hyd 9. Am deitlau'r penodau, gw. Atodiad 3.

symudiad i Dal-y-sarn, ei dderbyn i'r Gymdeithasfa, a'i Ordeinio i'r Weinidogaeth.[92] O'r herwydd, tuedd Owen Thomas yn y penodau hyn yw canolbwyntio ar gyflwyno digwyddiadau penodol sy'n arwyddo'r cyfryw ddatblygiadau yn ei alwedigaeth, megis y sylw a rydd y cofiannydd i'r achlysuron lle derbyniwyd John Jones yn aelod o'r Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa.[93] Yma, wrth adrodd yr hanes, y mae'n ddiddorol mai manylu a wna'r awdur ar yr holi a fu ar John Jones – ynglŷn â'i 'gymhelliadau at y weinidogaeth' (87) yn y Cyfarfod Misol, ac ynglŷn â'r gŵyn annheg a ddaeth arno ei fod yn pregethu yn dywyll wrth ei dderbyn yn aelod o'r Gymdeithasfa. Dyfynnir geiriau John Jones ei hun ar y ddau achlysur, ac mae ymdriniaeth yr awdur yn pwysleisio'i rinweddau penodol fel pregethwr, sef ei awydd mawr i bregethu a'i ymdrech i gyfathrebu'n eglur â'i gynulleidfa. Nid heb arwyddocâd ychwaith yw arfer Owen Thomas o gyflwyno eglurhad o statws newydd John Jones fel pregethwr wedi'r naill ddigwyddiad a'r llall.[94] Ymhelaethu ar ei statws a wna tuedd yr awdur i adrodd hanes oedfaon nodedig yn natblygiad yr yrfa

---

[92] *CJJT*, tt.86–8, 101–4, 149–53, 194–7. Er nad yw ei briodas yn ymwneud yn uniongyrchol â'i yrfa gyhoeddus, mae i'r digwyddiad arwyddocâd diamwys i'r yrfa honno. Mae'n wir mai symud i weithio o chwarel yn Llanrhochwyn i un yn Nhal-y-sarn oedd y rheswm gwreiddiol am ei ddyfodiad i'r ardal. Ond gellir dadlau mai ei briodas sy'n arwyddo yn bennaf y cysylltiad rhyngddo a phentref Tal-y-sarn ei hun, gan iddo ef a'i wraig Fanny sefydlu siop yn y pentref yn fuan wedi priodi. Gan mai'r wraig a oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am y siop fe alluogodd y fenter i John Jones roi'r gorau i weithio yn y chwarel ymhen y flwyddyn (ibid., tt.141-5). Mewn teyrnged fer i Fanny ei wraig ar ddiwedd y chweched bennod, mae Owen Thomas yn pwysleisio ei diwydrwydd a'i gofal am ei gŵr ac yn canmol yn benodol ei '[g]allu ac ewyllus . . . i gymmeryd arni ei hunan, yn fuan, agos holl bwysau eu hamgylchiadau bydol, er mwyn rhoddi pob mantais a allai iddo ef gyda'r gwaith mawr yr oedd ei holl fryd arno, ac yr oedd wedi ei gymhwyso mor arbenig gan natur a gras iddo' (t.104). Yr oedd priodi Fanny, felly, wedi hyrwyddo ei alwedigaeth fel pregethwr. Am ragor ar Fanny Jones, gw. O. Llew Owain, *Cofiant Mrs Fanny Jones, Gweddw y Diweddar Barch. J. Jones, Talysarn* (Caernarfon, 1907). Am astudiaeth o'i chofiant gw. fy erthygl 'Rhwydo'r dystiolaeth: cofiannu a chyfannu Fanny Jones, Tal-y-sarn?' yn *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 31 (2007), 76-121. Yng nghofiant Hugh Hughes, Tegai, i John Jones, nodir bod 'gorchestion' Fanny Jones wrth gadw tŷ a siop i'w cymharu â gorchestion hynod ei gŵr ym mhulpudau Cymru (Hughes, *Cofiant John Jones*, t.9). Yn wir, mae'n ffaith fod cadw siop yn alwedigaeth digon poblogaidd ymysg gwragedd pregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd, gan gynnwys cewri'r enwad megis Thomas Charles a John Elias. Yr oedd gwraig David Jones, Treborth yn ogystal yn cadw siop yng Nghaernarfon. Gw. E. Wyn James 'Ann Griffiths, Mary Jones a Mecca'r Methodistiaid', *Llên Cymru*, 21 (1998), 76.

[93] Yn ôl y cofiant fe'i derbyniwyd i Gyfarfod Misol Sir Feirionnydd yn y Bala, yn niwedd 1821 neu ddechrau 1822. Fe'i derbyniwyd drachefn i Gymdeithasfa Caernarfon ym Medi neu Hydref 1824.

[94] *CJJT*, tt.89 a 154. Hynny yw, gall deithio ledled y sir i bregethu wedi'r naill achlysur a theithio ledled y Cyfundeb, gyda chaniatâd y Cyfarfod Misol, wedi'r llall.

gyhoeddus. Dyma arwyddocâd sôn am y Cyfarfod Misol cyntaf i John Jones gymryd unrhyw ran ynddo, ei bregeth gyntaf mewn Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa gyntaf y bu'n pregethu ynddi.[95]

Ymhellach, mae'r pwyslais a rydd Owen Thomas ar ddilyn hynt a datblygiad gyrfaol John Jones yn amlygu nid yn unig yr yrfa benodol honno ond yn ogystal y gyfundrefn neu'r gymdeithas grefyddol sy'n gosod cyd-destun iddi. Yr enghraifft amlycaf a geir yw'r saib a gymer Owen Thomas o adrodd hanes bywyd John Jones ei hun wedi iddo symud i Dal-y-sarn er mwyn sôn am Gyfarfod Misol Arfon.[96] Ceir gan yr awdur ei 'ychydig grybwylliadau' am aelodau'r Cyfarfod Misol ar y pryd, sy'n rhychwantu 26 tudalen, sef hanner hyd y bennod! Er bod y portreadau hyn, sy'n gofiannau cryno o'r pregethwyr, yn torri ar rediad y naratif, pwysicach i'r cofiannydd yw cyflwyno cyd-destun i alwedigaeth John Jones fel aelod o'r gymdeithas hon o bregethwyr.[97] Yn wir, dyma'r cyntaf, a'r byrraf o ddigon, o dri ymgais penodol gan Owen Thomas i gyd-destunoli gyrfa bregethwrol John Jones yn y cofiant.[98] Nid annhebyg yw'r wybodaeth ychwanegol a geir o dro i dro yn yr adroddiadau am oedfaon John Jones, ac ambell oedfa nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag ef fel pregethwr. Un enghraifft amlwg yw'r adroddiad am Gymdeithasfa Llanbedr Pont Steffan, 1823. Er nad oes a wnelo'r Gymdeithasfa hon ddim mwy â bywyd John Jones na'r ffaith ei fod yn bresennol ynddi, cred Owen Thomas mai 'hwyrach nad

[95] Ibid., tt.93, 94 a 133, 162.
[96] Daethai John Jones yn aelod o'r Cyfarfod Misol hwn wedi iddo ymsefydlu yn Nhal-y-sarn.
[97] Sylw Saunders Lewis am y rhan hon yw ei fod 'yn ennill i Owen Thomas hawl i'r enw o fod yn Saint-Simon llenyddiaeth Gymraeg'. Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', tt.355-6. Yr oedd Louis de Rouvroy, duc de Saint-Simon (1675-1755) yn enwog am ei bortreadau difyr o gymeriadau llys y brenin Louis XIV. Gw. Emmanuel Le Roy Ladurie, *Saint-Simon and the Court of Louis XIV* (Chicago, 2001).
[98] Y ddau ymgais arall, wrth gwrs, yw'r bennod faith ar ddadleuon diwinyddol Cymru (pennod 11 yn y cofiant) a'r rhan gyntaf swmpus o bennod 16 lle ymdrinnir â phregethwyr enwad y Methodistiaid Calfinaidd hyd at John Jones. Gw. Atodiad 3.

annerbyniol' gan y darllenydd fyddai adrodd yr hanes.[99] Wrth gwrs, rhydd darluniau ac adroddiadau cyffredinol o'r fath oleuni ar drefniadaeth cyfundrefn y Methodistiaid Calfinaidd ar y pryd. Ond gwneir hynny, yn ogystal, wrth adrodd hanes penodol John Jones, megis pan edrydd Owen Thomas am ei ordeiniad i'r weinidogaeth. Dyma, wrth gwrs, binacl datblygiad gyrfa bregethwrol o safbwynt cyfundebol, ac mae'r awdur yn mynd ati i egluro prosesau cyfundrefnol y cyfnod wrth amddiffyn y ffaith nad ordeiniwyd pregethwr mor boblogaidd â John Jones i'r weinidogaeth hyd 1829 – bum mlynedd wedi ei dderbyn i'r Gymdeithasfa.[100] Eglura'r awdur nad oedd dim yn anarferol yn hyn (195), ond dengys fod y drefn wedi newid yn ddirfawr erbyn cyfnod llunio'r cofiant ac ymhyfryda yn y ffaith fod pregethwr bellach yn cael ei dderbyn i'r Gymdeithasfa a'i ordeinio yr un pryd. Nid sarhad ar John Jones fel pregethwr oedd hyn, felly.

Wrth i John Jones dyfu a datblygu fel pregethwr, ac fel gŵr, o flaen y darllenydd yn y penodau hyn, nid rhyfedd bod Owen Thomas yn cyfyngu ei sylw yn gynyddol i bregethau o statws uwch, megis pregethau'r Cyfarfodydd Misol, oedfaon y Gymdeithasfa, neu wyliau o'r fath. Telir sylw penodol yn ogystal i rai cerrig milltir pregethwrol, megis ei deithiau cyntaf i Lerpwl, Manceinion a Llundain, (148-9 a 191-4), pregethu am y tro cyntaf mewn Cymdeithasfa (162-3), pregethu am y tro cyntaf mewn Cymdeithasfa yn ne Cymru (181-2), a phregethu am y tro cyntaf yng

[99] *CJJT*, t.135. Rhoddir cyfrif manwl am dudalen a rhagor am y Gymdeithasfa, gan ddiweddu drwy nodi cwyn 'cenadwr o Liverpool' i gael rhagor o bregethwyr o'r de i ymweld â hwy yno. Pair hyn i Owen Thomas fyfyrio ar hynodrwydd y gŵyn i bregethwyr Lerpwl y dwthwn hwnnw ac ystyried sefyllfa gref a llewyrchus Methodistiaeth Lerpwl erbyn cyfnod ysgrifennu'r cofiant. Eto, dywed, 'ni wna cofio yr hyn oeddent . . . unrhyw niwed, a dichon eu gwneud hyd yn nod yn fwy parod nag ydynt i gydymdeimlo â ac i gynnorthwyo lleoedd a allant fod yn awr yn yr un gwendid ag yr oeddent hwy ynddo y pryd hwnw' (t.137). Mae'n ffaith fod Owen Thomas wedi symud o Lundain i weinidogaethu yn Lerpwl yn 1865, ond mae'n anodd gwybod i sicrwydd a oedd wedi symud erbyn llunio'r adroddiad hwn. Serch hynny, effaith ostyngedig a gaiff hyn oll arno, ac mae'n bosibl mai dyma oedd prif fyrdwn cynnwys yr adroddiad am y Gymdeithasfa yn y cofiant.

[100] Fe'i hordeiniwyd yng Nghymdeithasfa'r Bala, Mehefin 1829.

Nghymdeithasfa'r Bala.[101] Croniclir, yn ogystal, rai oedfaon a gynhaliwyd yn ystod teithiau pregethu – elfen bwysig ym myd pregethwyr yr enwad yn y cyfnod.[102] Unwaith eto, mae manylu ar oedfaon o'r fath nid yn unig yn amlygu cyraeddiadau ei enwogrwydd, ond yn ogystal yn arwyddo diwydrwydd diball er mwyn hyrwyddo datblygiad gyrfaol John Jones fel pregethwr sy'n mynd o nerth i nerth. Ac arwydd o'i statws a'i enwogrwydd erbyn diwedd yr wythfed bennod yw bod rhaid i Owen Thomas ei atal ei hun rhag 'ymdroi gyda phob oedfa neillduol onide ni a awn i ormod meithder o lawer' (191).

Elfen arall sy'n darlunio datblygiad galwedigaeth John Jones yw'r sylwadau beirniadol neu ddeongliadol a wna'r awdur ambell waith wrth drafod ei bregethau. Wrth adrodd am bregeth effeithiol o'i eiddo yng Nghymdeithasfa Caergybi yn 1827, er enghraifft, try Owen Thomas i feirniadu cyfansoddiad y bregeth oherwydd ei diffyg unoliaeth (176-8). Mewn oedfa arall ym Mangor (172) sonia Owen Thomas fod John Jones wedi gwneud camgymeriad ffeithiol wrth ymdrin ag elfen o ddaearyddiaeth, a bod hynny wedi ei edliw iddo yn ddiweddarach. Eithr nid yn y camgymeriad ei hun fel y cyfryw y mae diddordeb Owen Thomas ond ar ddangos effaith y digwyddiad ar John Jones. Caiff ei ysgogi i ymroi o'r newydd a darllen rhagor o lyfrau Cymraeg er mwyn gwella ei wybodaeth gyffredinol, a gall Owen Thomas dystio bod 'arwyddion amlwg cynnydd arno o hyny allan fel pregethwr' (172). Er nad yw datblygiadau mewnol o'r fath yn amlygu camau'r yrfa gyhoeddus fel y cyfryw, mae'n arwyddocaol bod y cofiannydd yn eu trin fel rhan o gynnydd parhaus John Jones 'fel pregethwr'.

---

[101] *CJJT*, tt.185-6. Digwyddodd hyn yn 1827. Yr oedd pregethu ar y lawnt, neu'r *green* fel y'i gelwid yn y cofiant, yng Nghymdeithasfa'r Bala yn arwyddo cryn statws i bregethwr.

[102] Rhoddir sylw penodol i'w daith gyntaf yn Sir Fôn ddechrau 1825, er enghraifft, a hynny am mai dyna'r tro cyntaf i Owen Thomas ei hun glywed John Jones yn pregethu yng Nghaergybi (ibid., tt.155-61).

Yr un diben sydd i'r pwyslais ar adegau eraill yn y cofiant ar ymroddiad John Jones i'w alwedigaeth. Wedi ei daith bregethu gyntaf i dde Cymru, er enghraifft, mae ei amcanion parthed pregethu yn amlwg: 'fe ddychwelodd adref gyda phenderfyniad cryfach braidd nag oedd ganddo o'r blaen i'w wneyd yn brif orchwyl ei fywyd' (140). Ymroddiad personol llawn a diwyd yw allwedd ei ddatblygiad, felly, a gall cyd-destunau cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'i yrfa ysgogi'r nodwedd hon o dro i dro, megis profi oedfaon celyd, neu wrando cenadwri pregethwyr eraill, megis ag y gwna gwrando pregeth gan Henry Rees ar 'Ddiogi Ysbrydol' mewn Cymdeithasfa yng Nghaergybi.[103] Yn wir, y mae sylw cyson yr awdur i'r elfen hon yn awgrymu nad yw ymroddiad ei wrthrych yn diweddu wedi cyrraedd brig yr yrfa ychwaith. Hyd yn oed wedi iddo gael ei ordeinio i'r weinidogaeth gyflawn, fe'i cawn yn dychwelyd o'r Bala i Dal-y-sarn 'gyda phenderfyniad newydd i ymroddiad llwyrach nag erioed i'r gwaith mawr yr oedd yn awr wedi ei neilltuo i bob rhan o hono' (197). Cysylltir ymroddiad o'r fath â'i ddiwydrwydd ac â'i dduwioldeb wrth y gwaith, ac edrydd penodau nesaf y cofiant am ddatblygiad pellach ynddo fel pregethwr cyhoeddus a fyddai'n arwyddo ei ddylanwad yn ei faes a chadarnhau ei safle yn hanes pregethu Cymru.

*'cyffröad mawr': datblygiad athrawiaethol pellach*

Ar ddechrau degfed bennod y cofiant, mae Owen Thomas yn cadarnhau yn gwbl ddiamwys statws a datblygiad gyrfa bregethu John Jones.

> Yr ydym wedi dilyn Hanes Mr. John Jones, o flwyddyn i flwyddyn, gyda chryn fanylder, hyd nes y mae wedi cyrhaedd canol-ddydd ei oedran, a chyflawnder ei nerth. Yr ydym braidd yn ofni y byddai parhau i fyned rhagom yn yr un modd, hyd yn nod pe byddai genym y defnyddiau at hyny, yn hytrach yn feichus i'n darllenwyr yn gystal ag i ni ein hunain, yn neillduol gan na

[103] Ibid., tt.163 a 178. Pregeth gan Henry Rees, wrth gwrs, a fu'n gyfrifol am dröedigaeth John Jones yn 1819.

> byddai ond megis ail-adroddiad, drachefn a thrachefn, heb ond ychydig iawn o amrywiaeth, o'r un pethau ag sydd wedi eu dwyn dan sylw genym eisoes. Rhaid edrych arno, o hyn allan, fel un o brif bregethwyr y Cyfundeb y perthynai iddo . . . Ac fe ymroddodd, am flynyddoedd lawer, i deithio ac i lafurio, gartref ac oddicartref, gydâ'r fath egni a chysondeb a dyfalbarhad, ag nas gallasai neb ateb iddynt . . . heb feddiannu ar fesur annghyffredin o gariad gwirioneddol at y gwaith mawr. (222-3)

Y mae John Jones, felly, wedi troedio camau'r yrfa o bregeth gyntaf y Garnedd nes cyrraedd statws llawn fel pregethwr, a naturiol ddigon, o'r herwydd, yw bod Owen Thomas am newid arddull groniclaidd y dweud. Serch hynny, mae rhagor na diffyg deunyddiau a'r diflastod posibl i'r darllenydd yn sail i benderfyniad yr awdur. Teitl y ddegfed bennod yw 'Blynyddoedd Dechreuad Cyfnewidiad yn Ngwedd ei Weinidogaeth: 1833–1840', a dyma'r bennod lle'r â Owen Thomas ati i gyflwyno hanes datblygiad pellach yng ngyrfa John Jones fel pregethwr. Ar un wedd, gellid dadlau nad datblygiad cyhoeddus yw'r newid athrawiaethol hwn yn ei bregethau. Eto, dylid gochel rhag gorsymleiddio'r ffin rhwng cynnwys diwinyddol neu ddefosiynol bersonol y bregeth a'i hamcan cyhoeddus o argyhoeddi cynulleidfa. Sail y datblygiad oedd newid graddol yn safbwynt diwinyddol John Jones ar fater etholedigaeth gras ac Iawn Crist yn ystod y 1830au. Gwelodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg sawl dadl ar fater athrawiaethau Calfinaidd, yn benodol ynglŷn ag athrawiaeth yr Iawn a chyfyngder etholedigaeth.[104] Yn negawdau cyntaf y ganrif ysgogodd yr agweddau hyn ddadleuon ffyrnig yng Nghymru rhwng Calfiniaid (o wahanol enwadau) a'r rhai a goleddai safbwyntiau Arminaidd (yn benodol yn y cyfnod hwn y Wesleaid). Ond cafwyd yn ogystal gecru ymysg Calfiniaid a'i gilydd – megis y ddadl ar 'iawn masnachol' neu gytbwys, rhwng y Methodist Calfinaidd Thomas Jones, Dinbych a'r

[104] Gw. John Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist* (Lerpwl, 1931); Lewis Edwards, *Athrawiaeth yr Iawn* (Dinbych, 1860); R. Tudur Jones, 'Athrawiaeth y Cyfamodau', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), tt.9-16.

Bedyddiwr Christmas Evans.[105] Yn ôl Owen Thomas, achosodd dyfodiad y Wesleaid a'u hathrawiaethau Arminaidd i Gymru ar ddechrau'r ganrif adwaith ymhlith rhai pregethwyr Calfinaidd a'u gyrru i arddel syniadau diwinyddol eithafol ac Uchel-Galfinaidd.[106] Yn nes ymlaen datblygodd dadleuon tebyg am Iawn Crist ymysg y Methodistiaid Calfinaidd eu hunain, wrth i rai bleidio ffurf ar syniadau Calfiniaeth gymedrol (a adnabyddid fel y 'system newydd'). Achos hyn oedd i eraill o fewn yr enwad ystyried unrhyw safbwynt nad oedd yn Uchel-Galfinaidd ei natur fel Arminiaeth. Y pregethwr dylanwadol John Elias oedd arweinydd y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngogledd Cymru ar y pryd, yn sicr wedi marwolaeth Thomas Jones, Dinbych.[107] Tra bu fyw, fe atalwyd dylanwad y 'system newydd' o fewn yr enwad ond, fel y noda R. Tudur Jones, 'gyda'i farw ef yn 1841 daeth Calfiniaeth gymedrol yn dderbyniol trwy i John Jones, Tal-sarn ac eraill ei harddel a'i phregethu'.[108]

---

[105] Gw. pennod Owen Thomas ar 'Ddadleuon Diwinyddol Cymru' yn y cofiant (pennod 11; gw. Atodiad 3). Gw hefyd sylwadau gwrth-Galfinaidd R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1933), tt.32-47. Ceir ymdriniaeth fodern â dadleuon y cyfnod ym mhennod D. Densil Morgan, 'Y dadleuwr a'r diwinydd', yn idem, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul, 1991), tt.139-58. Noda Densil Morgan y cefnogai'r Wesleaid y safbwynt Arminaidd fod Iawn Crist yn gyffredinol ac yn gyfrannog i bawb, tra dadleuai Thomas Jones fod Iawn Crist yn 'ddigonol ar gyfer pawb', ond yn gyfrannog i etholedigion Duw yn unig. Wrth ddadlau ynglŷn â'r 'Iawn Masnachol' fel y'i gelwid, credai Christmas Evans mai 'cyfyng' ydoedd yr Iawn, a bod 'y taliad neu y dyoddefaint wedi ei gyd-raddu â haeddiant y beiau yn ôl eu rhif, eu pwys a'u mwyhâd' (o bamffled Christmas Evans, *Neilldduolrwydd y Prynedigaeth, yn cael ei chwilio allan, gan nodi y'mha bethau mae yn gymmwysedig* (Aberystwyth, 1811), a ddyfynnir yn 'Y dadleuwr a'r diwinydd', t.149). Agwedd fwy eithafol, yn ymylu ar syniadaeth Uchel-Galfinaidd oedd hon felly. Gw. ymhellach Jones, 'John Jones, Tal-y-sarn (1797-1857)', tt.177-81; John Aaron, 'Introduction', yn ei gyfieithiad o bennod Owen Thomas ar y dadleuon yng nghofiant John Jones (*The Atonement Controversy in Welsh Theological Literature and Debate, 1707-1841* (Edinburgh, 2002), tt.ix-xl); D. Densil Morgan, 'Lewis Edwards ac Athrawiaeth yr Iawn', *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 31 (2007), 52-75; idem, *Lewis Edwards* (Dawn Dweud) (Caerdydd, 2009), pennod 6 a 7 yn benodol.

[106] *CJJT*, t.540. Noda R. Tudur Jones mai adwaith ymysg yr Annibynwyr i safbwyntiau Uchel-Galfinaidd o'r fath oedd syniadau dylanwadol Dr Edward Williams, Rotherham. Ef oedd 'prif ladmerydd' y pwyslais ar gyfrifoldeb yr unigolyn i ennill iachawdwriaeth (Jones, 'John Jones, Tal-y-sarn', t.177). Daeth y safbwynt a goleddid ganddo ef a'i ddisgyblion i'w adnabod fel y 'system newydd', a bu'n ddylanwadol ymysg y Methodistiaid Calfinaidd yn ogystal. Am ddylanwad Edward Williams ar ddiwinyddiaeth y cyfnod gw. R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966), tt.171-6.

[107] Bu farw 16 Mehefin 1820.

[108] Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru*, t.173.

Wrth i arweinyddiaeth y Methodistiaid Calfinaidd dyfu'n fwyfwy amheus o safbwyntiau Calfinaidd cymedrol yn y 1830au daeth awyrgylch gecrus a rhanedig i nodweddu'r Cyfundeb, ac fe erlidiwyd sawl unigolyn yn y cyfnod oherwydd ei ddaliadau.[109] Er nad John Jones yn unig a goleddai'r daliadau cymedrol hyn, dichon mai ef oedd y pregethwr amlycaf i'w harddel yn y cyfnod. Mewn erthygl gryno ond hwylus ar John Jones eglurir ei safbwynt diwinyddol gan R. Tudur Jones:

> Yr oedd tuedd yn athrawiaeth John Elias a'i debyg i roi'r argraff fod Duw wedi trefnu popeth i'r manylion . . . onid oedd ymhlith yr etholedigion, ni allai wneud dim i osgoi ei dynged. Na, meddai John Jones, y mae Duw wedi trefnu moddion i arwain anghredinwyr at Grist, fel pregethu, darllen y Beibl neu weddïo. Daliai ei bod yn ddyletswydd i ddefnyddio'r moddion hyn – yn gymaint o ddyletswydd, dyweder, a dweud y gwir neu fod yn onest.[110]

I John Jones, felly, nid cyfyng ond cyffredinol oedd yr Iawn. Golygai arddel y safbwynt hwn bwysleisio nid yn unig etholedigaeth Duw ond yn ogystal gyfrifoldeb yr unigolyn i ennill iachawdwriaeth. Yr oedd yn anochel y byddai safbwynt o'r fath yn canfod llais yn ei bregethu. Fel y dywed John Aaron am bregethwyr y cyfnod: 'They knew that what they believed affected the way in which they preached, and would thus affect the nature of the Christian living and witness of their congregations.'[111] Ni ellir felly wahaniaethu rhwng y newid yn ei safbwynt athrawiaethol a'r datblygiad yn ei ddull o bregethu. Canlyniad y naill ydoedd y llall. Er mwyn bod yn driw i'r athrawiaeth, ymdrechodd John Jones i '[b]regethu mewn dull cyfaddas i argyhoeddi pechadur o'i berygl, a'i annog i ffoi rhag y llid', chwedl ef

---

[109] Sonia Owen Thomas fod rhagluniaeth Crist fel pe bai'n ochri â'r Uchel-Galfiniaid yn y cyfnod [1833-4] oherwydd marw sawl gŵr cymedrol ei olygiadau, megis Richard Jones o'r Wern, Richard Lloyd, Beaumaris a John Roberts Llangwm. Aeth Michael Roberts, yn ogystal, yn ysglyfaeth i salwch meddwl (*CJJT*, t.581). John Elias, felly, oedd arweinydd y Cyfundeb, ac ymddengys y rhoddai ef ormod o goel ar amheuon a chyhuddiadau rhai o'r Uchel-Galfiniaid, yn enwedig yn Sir y Fflint. Un o'r rhai a erlidiwyd yno oedd cyfaill John Jones, sef y pregethwr Robert Roberts, Rhosllannerchrugog.
[110] Jones, 'John Jones, Tal-y-sarn', tt.177-8.
[111] Aaron, 'Introduction', t.xx.

ei hun.[112] Dyma genadwri, felly, a oedd yn llai athrawiaethol, ond yn fwy ymarferol ac a ganolbwyntiai ar annog ac argyhoeddi ei gynulleidfa. Enghraifft o'r dull mwy ymarferol hwn ar bwysleisio cyfrifoldeb dyn yw'r bregeth enwog 'Dyfod at Grist' sy'n cynnwys y darlun o lyngesydd yn gofyn i gapten llong '"[dd]efnyddio y moddion priodol tuag at gael y llongau adref" (233).[113] Mewn cymhariaeth yn y bregeth, darlunnir dyn fel capten llong a gras Duw fel môr; ac meddai John Jones:

> Felly, 'mhobl i, y mae'r Arglwydd yn yr efengyl yn galw arnoch chwithau i edifarhau ac i gredu ac i fyw yn dduwiol. Nid yw yn disgwyl i chwi wneuthur hyny yn eich nerth eich hunain. Na, yr hyn y mae yn ddisgwyl yw, ar i chwi eich gosod eich hunain yn y modd mwyaf manteisiol i weithrediad nerthoedd anfeidrol ei natur ef ei hunan i'ch cynnorthwyo . . . Gwthia dy lestr fechan ar fôr mawr haeddiant y Gwaredwr; cyfod hwyl fawr gweddi ddirgel; lleda hwyl myfyrdod sanctaidd; llywia yn dêg wrth *gwmpas* gair y gwirionedd; a disgwyl yn ffyddiog am yr awelon nefol; a thi a gei dy hunan, yn ddisiom, ryw ddiwrnod yn yr hafan ddymunol. (223-4)

Mae'n bwysig cofio mai proses raddol oedd y cyfnewidiad hwn ym mhregethu John Jones, ac mae Owen Thomas yn amlygu hynny yn naratif y cofiant. Yn 1821, blwyddyn gyntaf ei weinidogaeth, noda i John Jones fynychu cyfarfodydd darllen yn Nhrefriw o dan arweiniad Ieuan Glan Geironydd a fu'n gyfrwng 'er ei gymhwyso yn ychwanegol i'w waith mawr'. Yn ôl y cofiannydd, astudiwyd gweithiau o eiddo Edward Williams yn y cyfarfodydd, sef *Essay on the Equity of Divine Government and the Sovereignty of Divine Grace* (1809) ac *A Defense of Modern Calvinism* (1812). Y drefn oedd bod Ieuan Glan Geirionydd yn darllen '[rh]an o Dr. Williams iddynt yn y Gymraeg. Yna ymchwilid yn fanwl i ystyr yr adran' (85). Dyma gysylltiad cyntaf John Jones â syniadau Edward Williams, Rotherham, a barodd iddo

[112] Gw. y llythyr a ysgrifennodd at Thomas Richard, Abergwaun yn 1841 a ddyfynnir yn *CJJT*, t.596.
[113] Gw. 'Dyfod at Grist' (Ioan 6:44), yn Griffith Parry (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych, 1869), tt.390-406.

ddechrau myfyrio ar natur etholedigaeth (86). Serch hynny, y mae portread Owen Thomas yn pwysleisio mai gŵr â'i feddwl ei hun yw John Jones, ac mae'r meddwl hwnnw yn datblygu lawlaw â'i yrfa. Wrth drafod ei anfanteision addysgol, er enghraifft, pwysleisia ei fod wedi datblygu ei syniadau'n organaidd drwy wrando pregethau, yn hytrach na darllen traethodau neu gael cyfarwyddyd,[114] a dengys ffrwyth myfyrio John Jones ar ei safbwynt diwinyddol parthed yr Iawn yng nghyd-destun ei bregethau. Cyn gynhared â 1822, mae Owen Thomas yn nodi mai diben pregeth i John Jones oedd 'i wasanaethu yr amcan mawr o gymhell pechaduriaid i dderbyn y cymmod a'u hadennill at Fab Duw' (92). Arwyddocaol, yn ogystal, yw ymdriniaeth yr awdur â thaith John Jones i siroedd Dinbych a Fflint ym Medi 1825. Yno, daeth i gysylltiad ag unigolion a ddylanwadodd ar ei safbwyntiau diwinyddol. Dyma wŷr a goleddai Galfiniaeth gymedrol ac a ddrwgdybid gan rai o'u brodyr yng Nghyfarfod Misol y sir. Yn wir, arwydd o bwysigrwydd y gwŷr hyn yw bod Owen Thomas yn ymadael yn fwriadol â llif naratif yr hanes er mwyn cynnwys portreadau byrion o dri ohonynt, sef y pregethwyr Robert Roberts, Rhosllannerchrugog a John Hughes, Wrecsam (Lerpwl yn ddiweddarach) a'r blaenor Thomas Evans, Maes-y-coed (164-71). Disgrifir pregeth John Jones yng Nghymdeithasfa Flynyddol Bangor, 1829, fel 'cyfnod newydd ar y pregethu yn Sir Gaernarfon' wrth i nifer yn y gynulleidfa fyfyrio ar 'berthynas yr efengyl a'i gwrandawwyr' (194). Y mae ei bregeth ar gyfrifoldeb dyn yng Nghymdeithasfa Biwmares ym Medi yr un flwyddyn, yn cadarnhau'r 'cyfeiriad yr oedd ei feddwl yn awr yn ei gymmeryd', yn ôl yr awdur.[115] Tebyg yw'r sylwadau gan Griffith Hughes, Edeyrn, a ddyfynnir yn y

[114] Er enghraifft, pan gaiff John Jones gynnig gan Azariah Shadrach i fynd i ysgol Neuaddlwyd, nodir mai ei ymateb yw bod arno '"ofn i'r cynhauaf fynd heibio tra y byddaf fi yn hogi fy nghryman"' (*CJJT*, t.94).

[115] Ibid., t.207. Ymddengys mai ofnau John Jones ynglŷn ag aneffeithiolrwydd ei waith ef a phregethwyr eraill a symbylodd y bregeth. Pwysleisir hynny ymhellach wrth i'r awdur sylwi bod John

cofiant, sy'n sôn am ddylanwad y pwyslais ar gyfrifoldeb dyn ar bregethwyr yn gyffredinol – pwyslais a barodd '"newidiad yn nhôn y pregethu yn gyffredinol yn ein gwlad ni"'.[116] Eto, oherwydd eu gosod ar wahân i'w gilydd, yn eu trefn gronolegol ym mywyd John Jones, gellir dadlau bod yr ymdeimlad y mae Owen Thomas am ei greu i'r darllenydd – mai datblygiad, ac nid chwyldro, ydoedd y newid pwyslais hwn – yn wanach nag y dylasai fod.[117]

Bu John Jones yn arloeswr math newydd o bregethu ymysg y Methodistiaid Calfinaidd, felly, ond parodd pregethau o'r fath iddo ennyn gwg aelodau amlwg o'r enwad, a John Elias yn eu plith.[118] Dengys Owen Thomas i'r awyrgylch waethygu yn gyffredinol yng ngogledd Cymru, ac yn benodol yn Sir y Fflint.[119] Yr oedd natur fyrbwyll John Elias ei hun wedi cyfrannu at yr amheuaeth a fodolai yn y cyfnod, megis ei sylw yng Nghymdeithasfa Dolgellau, Hydref 1840, mai pregethwyr ieuainc y Cyfundeb fyddai llofruddion yr achos (257). Ac o'r ochr arall, sonia Owen Thomas fod John Jones ar y pryd yn pregethu 'fel pe am herio ei wrthwynebwyr i ymladd',[120] agwedd sy'n llesteirio daioni ac effeithiolrwydd ei bregethau yn y cyfnod yn ôl yr awdur. Daeth y sefyllfa i uchafbwynt wrth i'r enwad, ar anogaeth John Elias ei hun, benderfynu cynnal cyfarfod yn yr Wyddgrug ym Mawrth 1841 er mwyn ymchwilio a

---

Jones yn teimlo mai methiant ydoedd ei bregethu y pryd hwn, a'i fod yn mynegi ei anfodlonrwydd o'r pulpud.

[116] Sylw a wneir wrth adrodd hanes ei daith ef a John Jones i Sir Drefaldwyn ddiwedd 1831 a 1832 (ibid., t.217).

[117] Mae'r ymdeimlad hwn yn ddiddorol yng nghyd-destun sylwadau D. E. Jenkins ar ddigwyddiadau'r cyfnod a drafodir isod, tt.193-4.

[118] Megis yr awgrymwyd isod, o safbwynt y cofiant, mae'n ddiddorol fod yr hanes yn gosod John Jones benben yn ddiwinyddol ag arwr mawr yr awdur, John Elias.

[119] Fel y dywed John Jones ei hun mewn llythyr at Thomas Richards, Abergwaun yn Ionawr 1841 a ddyfynnir yn y cofiant: 'Nid oes un Gymmanfa Chwarterol wedi bod, yn y Gogledd, er ys llawer o flynyddoedd, nad oes ynddynt y cyhuddiadau mwyaf pwysig yn cael eu cyhoeddi yn erbyn pregethwyr, ac byth yn cael eu profi' (*CJJT*, t.599).

[120] Ibid., t.259. Gw. hefyd yr hanesyn a rydd George M. Ll. Davies yn rhagymadrodd cyfrol o atgofion ei fobryb, Frances Jones, *Atgofion am Dalysarn*, t.5. Sonnir am y bygythiad a gawsai John Jones oddi wrth Uchel-Galfiniaid i'w droi o'r weinidogaeth, a bod ei wraig, Fanny, wedi erfyn arno i '"beidio â thynnu pawb am ei ben"'. Ei ymateb iddi yw '"Os yw fy nghydwybod yn lân a Gair Duw wrth fy nghefn, waeth gen' i amdanynt."'

oedd sail i'r cyhuddiadau a wnaethpwyd yn y sir. Trefnwyd bod dau ddirprwywr o bob sir yng ngogledd Cymru yn mynd i wrando'r achosion, ac yr oedd rhai o enwau amlycaf yr enwad, megis John Elias, Henry Rees, John Hughes, Pontrobert a John Jones ei hun yn eu mysg (594). Serch hynny yr oedd John Elias yn rhy wael ei iechyd i fynychu'r gynhadledd. Ond Calfiniaeth gymedrol a orfu oherwydd bod cyhuddiadau'r Uchel-Galfiniaid wedi eu profi'n gwbl ddi-sail. Daeth y cyfarfod hwn, ynghyd â marwolaeth John Elias dri mis yn ddiweddarach ym Mehefin 1841, â thaw ar y mwyafrif o'r dadleuon a'r cyhuddiadau yn y sir ac yn y Cyfundeb drwyddo draw.

Ymgais Owen Thomas i adrodd hanes y cyfnod, ac yn benodol y cyfnewidiad neu'r datblygiad hwn yn John Jones fel pregethwr yw pennod 10 ac 11 y cofiant, felly. Ymdrinnir â naratif y bennod yng nghyd-destun y datblygiad, a cheir newid yn awyrgylch y dweud gan Owen Thomas. Egyr y bennod drwy sôn am ofid John Jones ynglŷn â chaledi ysbrydol y cyfnod 1833-4 (223-5).[121] Gwêl hyn fel methiant ar ei ran fel pregethwr, ac felly fe gyflwyna'r awdur gyd-destun penodol i agwedd meddwl John Jones ar y pryd, a noda mai dyma'r sbardun penodol iddo ddechrau pregethu'n fwy ymarferol.[122] Pwysleisio'r datblygiad hwn yn ogystal a wna'r adroddiadau o bregethau John Jones yn y bennod hon ar y cyfan. Oedir â'r ddwy bregeth hynod a draddododd i Gymdeithasfa y Bala yn 1834[123] a 1835, a dengys oblygiadau'r bregeth enwog 'Dyfod at Grist' o fewn y Cyfundeb. Yn ôl y cofiant, dyma'r tro cyntaf i John

[121] Wedi oeri o wres yr adfywiad a fu yn Sir Gaernarfon yn 1832.
[122] Dywed William Owen, Penbrynmawr i John Jones nodi hynny ei hun, ac fe gadarnheir yr honiad gan Owen Thomas (*CJJT*, t.224).
[123] Ymesgusoda Owen Thomas am aros mor hir â phregeth 1834 gan mai dyma ei Gymdeithasfa gyntaf ef yn y Bala. Er na wêl lawer o wahaniaeth rhwng y bregeth hon a phregethau blaenorol o eiddo John Jones mae'r awdur yn cyfaddef fod ei bregethau o hynny allan 'yn cymeryd y ffurf o ymliw â phechaduriaid anedifeiriol, gan ddangos iddynt, yn y modd mwyaf eglur a ffyddlawn, sail eu rhwymedigaethau . . . a'u cymhell gyda'r dwyster a'r difrifoldeb mwyaf, i wneyd brys i sicrhau iachawdwriaeth a bywyd tragwyddol' (ibid., t.228).

Jones gyhoeddi'n groyw ei ddaliadau diwinyddol ger bron brodyr y Gymdeithasfa, ac mae'n nodi'r ymateb 'synedig' a gawsai'r bregeth gan rai megis John Elias.

> O'r diwrnod hwnw allan, pa fodd bynnag, fe ddaeth Mr. John Jones i gael ei ystyried yn un o'r rhai a dybid oeddynt yn tueddu at ryw gyfnewidiad, yn syniadau athrawiaethol y Cyfundeb y perthynai iddo; er, yn sicr, nad oedd y gwahaniaeth, o leiaf eto, ond yn unig yn y wedd fwy ymarferol a roddid ganddo ef ar y gwirionedd. [124]

Atgyfnerthu hyn a wna'r hanesion a rydd Owen Thomas yn y bennod sy'n dangos fod rhai am bardduo enw John Jones yn ystod y cyfnod hwn,[125] ac mae'n ddiddorol mai ymwneud yn bennaf â gwrthwynebiad ar sail diwinyddiaeth pregethau John Jones y mae'r adroddiadau hyn. Dyfynnir sylwadau Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon, er enghraifft, am ei daith yntau a John Jones i Gymdeithasfa Abergwaun ym mis Medi 1840, lle dywed fod y cynulleidfaoedd braidd yn siomedig â phregethau John Jones oherwydd eu bod 'o nodwedd ymarferol ac annogaethol', ac o'r herwydd y teimlai llawer nad oeddynt 'yn llawn ddigon Calvinaidd'.[126] Y mae'r bennod felly yn arwain y darllenydd at uchafbwynt y cyfnod, sef y cyfarfod tyngedfennol a drefnwyd yn yr Wyddgrug yn 1841. Mae pwysigrwydd y digwyddiad hwn yn amlwg, wrth i Owen Thomas nodi bod llawer, a John Jones yn eu plith, yn poeni y gallasai'r anghydfod beri rhwyg yn y Cyfundeb. Ond wedi braidd gyffwrdd â'r digwyddiad daw'r awdur â'r bennod i ben, a phenderfyna fod angen rhagor o gyd-destun 'tuag at gynnorthwyo y darllenydd i ddeall yn fanylach pa fodd yr oedd pethau yn sefyll ar y pryd, a'r tir

---

[124] Ibid., t.239. Gw. yn ogystal adroddiad Owen Thomas am gyfarfod y pregethwyr y dydd canlynol lle cafwyd ymateb cynhyrfus gan John Elias i sylwadau John Jones ar effaith yr Ysbryd Glân ar galonnau pechaduriaid. Daeth Ebenezer Richard i amddiffyn John Jones a rhoi dyrnod dyner i John Elias y pryd hwnnw, ond parhau a wnaeth yr amheuaeth parthed ei ddaliadau.

[125] Megis yr enghraifft o'i elynion yn ei gondemnio oherwydd ei unieithrwydd, yn benodol oherwydd iddo gymeradwyo cyfieithiad Thomas Jones, Amlwch ar esboniad Thomas Scott ar y Prophwydi (ibid., tt.229-30).

[126] Ibid., t.254. Tebyg yw hanes ei daith i Lundain yn 1838 pan ysgrifennwyd llythyr gan James Hughes (Iago Trichrug) at John Elias yn fuan wedi i John Jones ymadael oddi yno yn beirniadu diwinyddiaeth ei bregethau (tt.247-8). Gw. hefyd Robert Rhys, *James Hughes: 'Iago Trichrug'* (Caernarfon, 2007).

neilltuol a gymmerid gan Mr John Jones, a'r rhai a gydolygent âg ef, yn y dadleuon hyny' (261). Dyna yn union yw pwrpas y bennod faith sy'n dilyn ar hanes dadleuon diwinyddol Cymru.

Mae'r bennod hon, sef unfed bennod ar ddeg y cofiant, yn rhychwantu 347 o dudalennau, ac wedi ei rhannu'n dair rhan. Olrheinir â chryn fanylrwydd y dadleuon a fu, yn gyntaf rhwng Calfiniaid ac Arminiaid rhwng 1707 a 1831, yn ail rhwng Calfiniaid a'i gilydd rhwng 1811 a 1841, ac yn drydydd ymysg enwad y Methodistiaid Calfinaidd rhwng 1814 a 1841. Deunydd cyd-destunol yw'r ddwy adran gyntaf a rhan o'r drydedd adran. Ond erbyn cyrraedd diwedd y rhan hon daw Owen Thomas yn ôl at bwnc y ddegfed bennod, sef hynt a helynt John Jones yn y dadleuon hyn. Y mae'r adran (a'r bennod) yn terfynu gydag ymdriniaeth Owen Thomas â'r sefyllfa a arweiniodd at gyfarfod yr Wyddgrug, ac â hanes y cyfarfod ei hun. Er gwaethaf manylrwydd yr adroddiadau ar y dadleuon eu hunain, y maent yn syndod o ddarllenadwy ac yn ymdrin yn ogystal â'r dadleuwyr eu hunain, neu yn sicr ysbryd y dadleuwyr hyn yn ôl tystiolaeth eu gweithiau. Er bod y bennod yn feithach nag oedd angen iddi fod, nid amherthnasol yw'r cynnwys gan ei bod yn taflu goleuni ar y materion diwinyddol sy'n gefndir i'r newid a ddaeth ar ddull John Jones o bregethu. Yn wir, gellir ei gweld fel ymgais benodol ar ran Owen Thomas i osod cyd-destun hanesyddol sy'n cyfiawnhau'r datblygiad athrawiaethol ym mhregethu John Jones, ac o'r herwydd gyfiawnhau'r modd y datblygodd John Jones ei alwedigaeth. Serch hynny, bu cryn ddadlau ynglŷn â'r bennod hon, ac fe adlewyrchir hynny gan Owen Thomas ei hun yn rhagymadrodd y cofiant. Meddai yno: 'Y mae rhai yn golygu y sylwadau ar y dadleuon hyny fel y pethau mwyaf dyddorol yn yr holl waith, tra y mae ereill yn tybied mai camgymmeriad mawr oedd ymyrraeth â hwynt' (v). Ar y

pryd, nid cynnwys y bennod fel y cyfryw ond ei maint oedd asgwrn y gynnen. Awgryma Lewis Edwards yn *Y Traethodydd* y dylai'r awdur fod wedi bodloni ar ysgrifennu 'crynodeb bŷr' ar y dadleuon, ond gwêl werth diamheuol i'r bennod serch hynny.[127]

Heddiw, yr un yw'r feirniadaeth. Cyfeiria John Aaron, er enghraifft, at drylwyredd yr ymdriniaeth, a dywed: 'practically everything of importance (and a good deal of the unimportant) is included'.[128] Eto, y mae nifer o feirniaid yr ugeinfed ganrif wedi gweld gwerth y bennod. Yn ôl D. E. Jenkins, cryn gamp ar bennod o'r fath yw ei bod yn afaelgar a diddorol, ac fe'i disgrifia fel 'a fine feat of strength and skill'.[129] Fodd bynnag, ni olyga hynny na chafodd ei beirniadu yn ogystal. Amlygwyd rôl Owen Thomas wrth lywio, a lliwio, yr hanes yn ôl ei ragfarnau a'i fwriadau ei hun, er gwaethaf ei ymgais i gyflwyno'r hanes fel sylwebaeth ddiduedd.[130] Ni allai fod yn ddiduedd, ac mae John Aaron a D. E. Jenkins wedi sylwi ar y straen a grëir yn y cofiannydd weithiau oherwydd ei deyrngarwch i'w arwr John Elias ar y naill law, ac i John Jones ar y llaw arall. Yn ddiwinyddol, yr oedd Owen Thomas o'r un gred â John Jones, Tal-y-sarn, ac nid â'i arwyr eraill, John Elias a Henry Rees – yn wir, fe'n hatgoffir gan John Aaron y byddai'n annaturiol pe na bai cydymdeimlad Owen Thomas, nad oedd eto'n 30 oed yn 1841, yn gorffwys â'i gyd-bregethwyr ieuainc a amheuid gan yr hen do.[131] Eithr y mae beirniadaeth D. E. Jenkins yn llymach. Er ei fod yn cydnabod bod tystiolaeth yn y cofiant (a nodwyd eisoes) sy'n awgrymu mai newid graddol oedd y datblygiad hwn ynddo fel pregethwr, dadleua'n groyw fod

---

[127] 'Nodiadau llenyddol', 388. Mae'n awgrymu hefyd y dylid cyhoeddi'r bennod fel cyfrol ar wahân. Gw. hefyd gyfieithiad Aaron, *The Atonement Controversy*.
[128] Aaron, 'Introduction', t.xix.
[129] Jenkins, 'Review and revision', t.172.
[130] Noda John Aaron ei fod yn ofalus 'not to refer to himself at all other than as a witness of the contributions of others' (Aaron, 'Introduction', tt.xxv-xxvi).
[131] Ibid., t.xxvi.

Owen Thomas wedi osgoi'n fwriadol gyflwyno gwybodaeth a oedd yn berthnasol i sefyllfa John Jones oherwydd y taflai gysgod ar natur finiog ac anfrawdol John Elias ar y pryd.[132] Ond ei brif feirniadaeth o drafodaeth y cofiannydd ar y dadleuon diwinyddol yw i Owen Thomas amwyso'r hanes. Noda ei fod, yn lled anfwriadol fe ddichon, wedi ysgrifennu'n rhy faith a chyflwyno gormod o gefndir rhwng diwedd y ddegfed bennod a'r rhan ar ddiwedd yr unfed bennod ar ddeg sy'n ailafael â hanes cynhadledd yr Wyddgrug. Yn ôl D. E. Jenkins, canlyniad hyn yw nad oes gan Owen Thomas 'a firm grip of the essential details'.[133] Ond cwbl ddiamwys yw ei farn fod ymdriniaeth Owen Thomas â rhan John Jones yn hyn oll wedi ei hamwyso, am iddo wneud John Jones yn gyhuddedig yn yr Wyddgrug pan ydoedd mewn gwirionedd yn un o'r dirprwywyr a apwyntiwyd i wrando'r achosion: 'The whole story of the enquiry reads, to me, as if Owen Thomas were relating an account of the trial of John Jones himself; so entirely is he kept in the background in the narrative.'[134]

Er y gellid cytuno â D. E. Jenkins i ryw raddau – wedi'r cyfan brwydr gwŷr Sir y Fflint, megis Robert Roberts, Rhosllannerchrugog oedd hon – mae'n ddigon naturiol ystyried y byddai Owen Thomas am ddefnyddio'r hanes i amlygu safbwyntiau John Jones. Yn gyntaf, er nad oedd yn arweinydd ar y gwŷr hyn yr oedd o'r un agwedd â hwy yn ddiwinyddol, a gwelwyd eisoes fod gradd o amheuaeth yn ei gylch yn y cyfnod. Yn ogystal, yr oedd yn bregethwr amlwg a dylanwadol iawn o fewn yr enwad. Yn ail, dengys rhagymadrodd y cofiant fod Owen Thomas yn pryderu

[132] Yn benodol, honna mai llythyr John Elias i'r *Record* yn 1833, lle canmolai yr eglwys ac y taflai sen ar weithredoedd gwleidyddol yr enwadau – llythyr y byddai John Jones wedi ffieiddio ato yn ôl D. E. Jenkins – oedd un o'r prif sbardunau iddo ddechrau pregethu'r safbwyntiau diwinyddol a oedd wedi bod yn ei feddwl ers sawl blwyddyn, yn sicr ers 1827. Noda'n ogystal nad oedd John Elias cyn gryfed o fewn ei enwad wedi 1833 oherwydd y dilorni a'r gwawdio a fu arno o bob tu pan gyhoeddwyd y llythyr yng nghyfnodolion Cymru, ac i John Jones gymryd mantais ar hynny. Dywed: 'Owen Thomas, glides over the year 1833 . . . the year of "stir and uproar", in which his model, John Elias, figured so unenviably' (gw. 'Review and revision', pennod 5 [114-15] a phennod 7).
[133] Ibid., tt.171-2. Gw. hefyd tt.172-3.
[134] Ibid., t.178.

am berthnasedd rhai rhannau o'r cofiant i ddigwyddiadau penodol ym mywyd John Jones (vii), a dichon fod hyn yn un ffordd o unioni'r cam a wnaeth 300 tudalen gyntaf y bennod yn y cyd-destun hwnnw. Yn olaf, byddai cadw John Jones yn amlwg o fewn naratif yr hanes yn dilysu'r datblygiad yn ei safbwyntiau diwinyddol ac felly'r newid a ddaeth ar ei ddull o bregethu – pwnc a fyddai wedi bod o'r pwys mwyaf i Owen Thomas ei amlygu ac ystyried cynulleidfa darged y cofiant a'i nod sylfaenol o osod John Jones fel esiampl i'w efelychu. Cryfhau'r pwynt olaf hwn, fe gredaf, a wna'r duedd y soniwyd amdani uchod i bwysleisio'r ysbryd y mynegwyd y dadleuon ynddo. Yn wir, gellid gweld hyn fel ymgais Owen Thomas i osod esiampl, nid yn unig ar gyflwyno hanes diduedd ond yn ogystal ar atgoffa diwinyddion yr oes o'r modd y dylid ymddwyn wrth ddadlau ag eraill. Fe all hyn egluro ei duedd, baradocsaidd braidd, i achub cam y golygiadau diwinyddol celyd a arddelai John Elias ar y naill law, a'i geryddu ar y llall am yr ysbryd y mynegwyd y cyfryw safbwyntiau.[135] Fel y dywed John Aaron am y bennod: 'We find here examples to follow and examples to avoid.'[136] Nid rhyfedd mai barn D. Ben Rees ydyw na ellid bod wedi cynnwys y deunydd hwn mewn cofiant i unrhyw un arall, ac mai 'John Jones oedd y gwrthrych gorau i Gofiant uchelgeisiol' Owen Thomas.[137]

Dyma ddatblygiad arwyddocaol yng ngyrfa John Jones, felly, ac fe geidw Owen Thomas y datblygiad hwn yn flaenllaw ym meddwl y darllenydd yn y penodau sy'n croniclo hanes y blynyddoedd sy'n dilyn y cyfnod hwn. Nodwyd eisoes fod y pwyslais ar effaith pregethau John Jones ar gynulleidfaoedd y cyfnod yn amlygu hyn. Ond ceir yn ogystal gyfeiriadau pendant yn y naratif. Un enghraifft yw'r modd yr atgoffir y darllenydd na chiliodd cysgod yr Wyddgrug yn llwyr. Hyd yn oed wrth

[135] Gw., er enghraifft, *CJJT*, tt. 565, 574, 581, 582, 585, 604-5.
[136] Aaron, 'Introduction', t.xxii.
[137] Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.236.

drafod gyrfa John Jones ar ei hanterth, ac yntau bellach yn rhydd i bregethu yn ymarferol, noda'r cofiannydd fod drwgdeimlad y cyfnod, ac yn benodol gynhadledd yr Wyddgrug, wedi effeithio 'am rai misoedd, yn anfanteisiol ar ei weinidogaeth' (613). Sonia am ei duedd i bregethu'n unochrog yn ddiwinyddol, ond nodir bod hynny wedi darfod erbyn diwedd 1841. Adroddir hanes y ddadl a fu ynglŷn ag ysgrifau yr Annibynnwr o Lanfechell John Roberts (Edeyrn Môn), yn *Y Dysgedydd*, a honnai fod John Jones yn cynnwys elfennau Ffwleraidd yn ei bregethau (613-19).[138] Cafwyd cryn ymateb yn y wasg ar y pryd, ac mae'n amlwg fod John Jones wedi gweld hyn fel ymgais i'w bardduo. Eto, ni wyrodd oddi wrth ei safbwyntiau. Cyn hwyred â 1855, er enghraifft, ac yntau ar daith yn ne Cymru, nodir ei fod yn ymosod ar Uchel-Galfiniaid yn ei bregethau (712). Y mae elfen o'r fath yn cyfrannu at ddadlennu nid yn unig y newid ei hun ond ei ganlyniadau yn ogystal. I Owen Thomas, dyma ddatblygiad cwbl arwyddocaol, un sy'n arwyddo pwysigrwydd John Jones fel pregethwr (a'i safle yn hanes pregethu Cymru), ond sydd yn amlygu ei gyneddfau a'i ddiwydrwydd wrth y gwaith yn ogystal. Nid oes ddwywaith na chredai Owen Thomas mai dyma brif gyrhaeddiad John Jones fel pregethwr a phrif gyflawniad ei alwedigaeth. Nid syndod, yn wir, yw bod Owen Thomas yn gosod y newid safbwynt hwn, yn llwyddiannus ddigon fe gredaf, fel yr echel y troella hanes ei fywyd o'i amgylch. Datblygiad ydyw sy'n lledu hynt yr afon, ac sy'n arwain at 'flynyddoedd cyflawnder ei nerth'.

Ar y cyfan, felly, gellir dadlau bod pwyslais yr awdur yn y cofiant ar ddarlunio diwydrwydd a datblygiad gyrfa bregethu John Jones – datblygiad naturiol camau'r

[138] Andrew Fuller (1754-1815), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, a wrthwynebai'n ffyrnig Uchel-Galfiniaeth. Ei ddisgybl J. P. Davies, Tredegar a fu'n gyfrifol am ehangu ei ddylanwad yng Nghymru (Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru*, t.172). Gw. Hefyd T. Ellis Jones, 'Ffwleriaeth yng Nghymru', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (1936), 2-49.

yrfa a'r newid penodol ac arwyddocaol a ddaeth ar ei bregethu maes o law – yn gwbl fwriadol, ac yn tarddu o'i agenda waelodol fel cofiannydd. Os rhyfeddu, edmygu a cheisio efelychu doniau a chyneddfau hynod John Jones fel pregethwr oedd y nod i'r darllenydd, dichon fod manylu ar ddatblygiad ei yrfa yn cyflwyno cyngor a chynhorthwy ynglŷn â chyrraedd y nod bwysig honno. Ymhellach, yn wyneb diffyg tystiolaeth hunangofiannol y gŵr mewnol, yr oedd dadansoddi datblygiad athrawiaethol o'r fath fel elfen hanfodol o'r pregethwr mawr yn golygu bod mwy o lawer i bortread cofiannol Owen Thomas o'r pregethwr na chronicl o'i yrfa gyhoeddus yn unig. Yn wir, dyma yw calon y portread a gyflwynir yn y cofiant.

### *'Cymru i gyd yn* ffarm *i chwi': elfennau amgen*

Cyn ymadael â'r adran benodol sy'n dehongli ei yrfa yn y pulpud, mae'n werth nodi mai prin iawn, mewn gwirionedd, yw'r deunydd ym mhenodau'r adran hon sy'n trafod elfennau neu ddigwyddiadau ym mywyd John Jones nad ydynt yn ymwneud yn benodol â'i alwedigaeth fel pregethwr. Eto, cymaint yw awydd Owen Thomas i amlygu'r pregethwr yn y naratif fel na ellir ychwaith ddatgysylltu'r elfennau hyn o hynt yr yrfa honno yn llwyr. Un enghraifft yw ymdriniaeth yr awdur â'i yrfa amgen fel gweithiwr ffordd a chwarelwr.[139] Pwysleisir mor anfanteisiol i John Jones 'fel pregethwr' oedd ei amgylchiadau yn y cyfnod hwn. Cadw deupen y llinyn ynghyd oedd unig ddiben gweithio yn y chwarel yn ôl Owen Thomas, ac mae'n ofalus i atgoffa'r darllenydd bod y gwaith 'yn ddarostyngedig hollol i'r gwasanaeth a ymdrechai roddi i'r Efengyl' (90). Rhydd ymdriniaeth y cofiannydd â'i waith yn y chwarel gyfleoedd iddo bwysleisio duwioldeb John Jones wrth ddarlunio ei

[139] Bu'n gweithio yn chwarel Clogwyn y Fuwch, Trefriw ac yn Llanrhochwyn, cyn symud i ardal Llanllyfni a Thal-y-sarn.

grefyddolder dwys a'i ymdrech barhaus i gadw ei feddwl mewn 'myfyrdodau crefyddol' (81). Ond y mae rhagor i adrodd yr hanesion hyn na dangos enghreifftiau digyswllt o'i dduwioldeb yn unig. Cysylltir y gŵr â'i alwedigaeth fel pregethwr yn gyson, ynghyd â'i ymdrech i gyflawni'r alwedigaeth honno mor effeithiol â phosibl. Er enghraifft, telir sylw i'w ymateb difrifol yn wyneb rhegfeydd un o'i gyd-weithwyr, neu ei rybuddion y bydd ei bartner digrefydd farw'n ddisymwth – rhybuddion sy'n cael eu gwireddu.[140] Unwaith eto fe'i darlunnir fel un sy'n sefyll ar wahân i'w gyd-weithwyr, a rhydd y cofiant yr argraff mai ei unig ddiddordeb ynddynt yw achub eu heneidiau. Dyma sy'n arwyddocaol i Owen Thomas ynglŷn â'r hanes, sef 'nad yn y pwlpud, nac yn y cyhoedd yn unig, yr oedd John Jones y pryd hyny yn arwyddo awydd am iachawdwriaeth ei gyd-ddynion' (79). Yr un diben sydd i'r hanesion rhagluniaethol a adroddir amdano.[141] Pwrpas cofnodi digwyddiadau o'r fath yw amlygu John Jones fel un a ddewiswyd gan Dduw i gyflawni 'gwaith mawr' drosto, a'i fod, o'r herwydd, o dan gysgod ei adain. Dengys, ymhellach, y dylanwad bendithiol a gaiff John Jones ar weithwyr y chwarel. Ymddengys eu bod yn ei gyfri'n 'anrhydedd nid bychan' ei gael yn gydweithiwr (99). Yn wir, er bod naratif y penodau ar y cyfan yn atgyfnerthu'r elfennau hyn, gwelwyd eisoes nad yw Owen Thomas yn swil o dorri ar rediad cronolegol yr hanes er mwyn amlygu'r pregethwr. Un enghraifft fyddai ei ddefnydd o atgofion Robert Williams, Minffordd, un o chwarelwyr Llanrhochwyn, sy'n adrodd ei hanes yn gwrando ar John Jones yn pregethu yng Nghymdeithasfa'r Bala yn 1827, er mai â'r flwyddyn 1821 yr ymdrinia'r cofiannydd

---

[140] Mae'r hanesyn hwn yn atgoffa dyn o allu John Jones i rag-weld marwolaethau. Gw. Jones, *Atgofion am Dalysarn*, tt.32-3.

[141] Edrydd Owen Thomas i John Jones ddadlau dros ragluniaeth ddwyfol un bore yn y chwarel ac yna osgoi damwain angheuol. Ymddengys fod ci wedi bwyta ei ginio, a'i fod wedi gorfod gadael y chwarel o'r herwydd (*CJJT*, tt.81-2). Mae digwyddiad rhagluniaethol o'r fath i'w ganfod mewn nifer o gofiannau i bregethwyr, ac yn digwydd fwy nag unwaith yn y cofiant hwn. Gw. er enghraifft ymdriniaeth Owen Thomas â'r ddamwain a ddaeth i ran John Jones yn chwarel Dorothea yn nhrydedd bennod ar ddeg y cofiant (tt.697-8).

ar y pryd.[142] Yr hyn sy'n bwysig, felly, yw bod y darllenydd yn deall mai 'Ei bwnc mawr oedd bod yn bregethwr, ac yn bregethwr mawr' (90).

Y mae cysylltiad rhwng ymdriniaeth Owen Thomas a'i yrfa amgen uchod ag elfen arall nad yw'n ymwneud yn benodol â gyrfa bregethwrol John Jones. Eto, mae'r elfen hon yn arwyddo'i ymdrech i ddatblygu a chyflawni'i alwedigaeth, sef yr anawsterau a'r anfanteision a'i hwynebai wrth ymdrechu i fod yn bregethwr cymeradwy. Er gwaetha'r llwyddiant a'r galwadau mynych i bregethu, nid yw Owen Thomas am i'r darllenydd anghofio mai llwyddiant yn wyneb anfanteision dybryd ydoedd. Pan sonia am gyfarfyddiad cyntaf John Jones â'r cawr bregethwr John Elias, er enghraifft,[143] byrdwn yr awdur yw na all anfanteision rwystro athrylith y pregethwr mawr rhag creu argraff ar bregethwyr mwyaf yr enwad (91). Nodir yn benodol rai o'r anfanteision hyn yn achos John Jones, megis diffyg addysg. Y mae D. E. Jenkins yn synnu'n fawr at honiad yr awdur na chafodd ddiwrnod o ysgol gan fod Owen Thomas yn gyfarwydd â David Roberts, Cerrig y Drudion, y mynychodd John Jones ei ysgol gylchynol.[144] Er nad oes tystiolaeth i gefnogi'r ffaith fod Owen Thomas wedi gor-ddweud yn fwriadol, y mae pwysleisio anawsterau o'r fath yn rhwym o gryfhau cymeriad y gwrthrych, a chryfhau'r ddelwedd o'r athrylith a amlygir gan Owen Thomas wrth drafod ei blentyndod.

---

[142] Gw. yr ymdriniaeth â'r cofiannydd ymwybodol ym mhennod 2, tt.116-40.
[143] Mae dewis John Elias yma yn hynod o arwyddocaol, nid yn unig am ei fod yn un o bregethwyr mwyaf Cymru ar y pryd, ond fel y gwelwyd eisoes roedd Owen Thomas ei hun yn edmygydd mawr ohono fel pregethwr.
[144] Gw. Jenkins, 'Review and revision', tt.55-7. Amheuir yn ogystal sylw Owen Thomas ynglŷn â'r diffyg llyfrau a oedd ar gael i John Jones yn y cyfnod, yn ibid., t.66. Fel y soniwyd yn yr adran 'Datblygiad pellach' uchod, tybed nad oedd hyn hefyd yn amlygu aeddfedrwydd athrawiaethol ym meddwl John Jones.

Yr un yw'r driniaeth mewn penodau diweddarach yn ogystal, ac mae'r pwyslais yn dal yn gyson ar y modd yr effeithia elfennau o'r fath ar ei weinidogaeth. Enghraifft amlwg yw'r darn lle sonia Owen Thomas am fwriad John Jones i ymfudo i'r Unol Daleithiau, elfen a fu'n pwyso ar ei feddwl am sawl blwyddyn. Er bod Owen Thomas yn trafod y rhesymau a barodd i John Jones droi ei olygon tua'r Amerig, megis pryder am ei deulu neu ei ofnau am Babyddiaeth, y mae yn ogystal yn nodi mai 'taerineb cyfeillion, ac argyhoeddiad graddol yn ei feddwl ei hunan mai yn Nghymru yr oedd y lle mwyaf manteisiol iddo ef wasanaethu Duw' (621) a'i darbwyllodd i aros. Enghraifft o'r taerineb hwn yw'r ymateb a roddwyd i John Jones gan letywyr y digwyddai aros â hwynt yn Llŷn. Pan soniodd yn ganmoliaethus am dir amaethyddol yr Unol Daleithiau, dywedwyd wrtho fod 'Cymru i gyd yn *ffarm* i chwi yma' (620).

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys nad yw trydedd bennod ar ddeg y cofiant yn ymdrin o gwbl â gyrfa bregethwrol John Jones. Adrodd y mae am y ddwy flynedd y bu'n gyd-berchennog ac arolygydd yn Chwarel Dorothea yn Nyffryn Nantlle, rhwng 1850 a 1852. Ond hyd yn oed yn y bennod hon, mae John Jones y pregethwr yn bresennol, onid yn hollbresennol. Er enghraifft, egyr y bennod â'r ffaith fod nifer o'i gyfeillion yn poeni am ei waith yn arolygu yn y chwarel rhag iddo

> [d]ueddu i niweidio ei feddwl, i ryw fesur, gyda'r gwaith pwysicach, yr oedd ei galon mor lwyr arno, a'r gwaith yr oedd blynyddoedd lawer o brofiad, erbyn hyn, yn sicrhau fod ynddo y fath gymhwysderau tuag ato, ac yr oedd holl Gymru yn gwybod ei fod mor ddefnyddiol ynddo. (688)

Ac mae cynnwys gweddill y bennod hefyd yn atgyfnerthu pwyslais Owen Thomas ar y pregethwr. Soniodd D. E. Jenkins a D. Ben Rees eisoes am ddifaterwch Owen Thomas, os nad ei esgeulustra, wrth gofnodi'r hanes am fethiant John Jones i ymdrin

â sefyllfa anodd yn y chwarel a thrin y gweithwyr yn deg – methiant a daflodd gysgod dros ei gymeriad.[145] A chymaint yw pryder Owen Thomas am enw da pregethwrol ei wrthrych fel y tafla drefn i'r gwynt, a chynnwys yng nghanol naratif y bennod ddarn go helaeth o bregeth a draddodwyd gan John Jones rywbryd yn 1851. Mae'r bregeth hon yn rhychwantu chwe thudalen (rhagor na hanner hyd y bennod), ac mae rhesymau Owen Thomas am ei chynnwys yn arwyddocaol. Gwna hyn, meddai, 'er gwneuthur rhywbeth tuag at symud ymaith y cam sydd, trwy y dybiaeth y cyfeiriwyd ati, yn gorwedd ar ei goffadwriaeth, ac er cyfoethogi rhyw gymmaint ar y bennod annyddorol hon' (690). Dengys y gair 'annyddorol' yma ddiflastod Owen Thomas nid yn unig ag unrhyw fanylion nad ydynt yn ymwneud â gyrfa bregethu John Jones, ond hefyd ag unrhyw agwedd ar ei hanes sy'n taflu cysgod dros ei enw da – ac yn benodol dros ei enw da fel pregethwr. Ymhellach, amlyga fod cysylltiad organaidd rhwng galwedigaeth John Jones a'i fywyd, a rhwng bywyd personol neu fewnol ei wrthrych a'i yrfa gyhoeddus yn y pulpud. Arwyddocaol, yn ogystal, yw ymdriniaeth ragluniaethol Owen Thomas â'r ddamwain a ddaeth i ran John Jones yn y chwarel. Ceir darlun difyr a byw o'r ddamwain yn y cofiant a wnaeth i D. Ben Rees sylwi ar ddawn Owen Thomas 'i wneud ffilm o'r cyfan'.[146] Ond yr hyn y mae'r awdur am ei bwysleisio yw mai gwaith Duw ydoedd. Canlyniad hynny oedd penderfyniad John Jones i droi ei gefn ar y gloddfa: 'Clywai lais amlwg ei Feistr Mawr tuag ato, yn ei alw i ymgysegru yn hollol o hyny allan i'r weinidogaeth a ymddiriesid iddo' (698). Credaf fod dehongliad Owen Thomas o ddigwyddiadau'r bennod hon yn rhoi inni ddarlun lled glir o'i fwriadau a'i amcanion yn y cofiant drwyddo draw.

---

[145] Gw. Jenkins, 'Review and revision', pennod 10; Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.238-9. Gw. n.32 yn y bennod hon.
[146] Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.239.

### 3.3.3 '[d]echreu ar ei Sabbath tragwyddol': ei fisoedd segur olaf

Fel y nodwyd uchod, bu i John Jones, Tal-y-sarn bregethu am y tro olaf yng Nghapel Moriah, Caernarfon ar 22 Mawrth 1857. Ni fu farw hyd fore Sul, 16 Awst yr un flwyddyn. Ac ystyried mai portread o'r pregethwr poblogaidd yw darlun llywodraethol y cofiant hwn, mae'n werth talu sylw i'r modd y mae Owen Thomas yn ymdrin â'r misoedd segur hyn yn ei hanes.

Un bennod, neu ran o un bennod yn wir, sy'n ymdrin â'r cyfnod hwn, a gwelir yn y bymthegfed bennod ddilyniant naturiol o'r bedwaredd bennod ar ddeg gan mai ysbrydolrwydd a duwioldeb John Jones a'i fywyd tragwyddol yw ei phwnc mawr. Ni all Owen Thomas bellach adrodd am y '[b]ywyd hynod mewn llafur ac arbenig mewn defnyddioldeb' (734) sy'n nodweddu'r penodau eraill, ac felly ceir ganddo newid pwyslais pwysig. Dilynir hynt misoedd olaf John Jones yn y bennod a chawn wybod ei fod yn gwaelu a'i fod yntau 'yn myned yn fwyfwy argyhoeddedig o hyny' (735). Y canlyniad, wrth gwrs, yw peri bod yr hanes cyhoeddus yn fwy mewnol a phersonol ei naws yma, ac felly gellir ymdeimlo ag argraff y darllenydd modern ein bod yn dod yn nes at y dyn ei hun a'i bersonoliaeth yn y bennod hon. Eto, dylid gochel rhag gadael i gysyniadau simplistig parthed y gwahaniaeth rhwng y gŵr cyhoeddus a'r gŵr preifat, a'r ffin rhwng galwedigaeth a bywyd personol, gymylu'r darlun. Y mae'n bwysig sylweddoli mai newid pwyslais a geir yma, yn hytrach na newid cyfeiriad, ac er gwaetha'i gystudd, darlunio John Jones y pregethwr a wna Owen Thomas o hyd. Wrth i'w gorff ddirywio gwelwn fod ganddo'r un ymroddiad a diwydrwydd ynglŷn â'i dduwioldeb a'i gadwedigaeth ei hun ag a nodweddir tuag at gadwedigaeth eraill ynghynt yn yr yrfa. Wrth gwrs, ceir disgrifiadau cyffredinol o'i ysbryd yn y cyfnod.

Nodir ei fod, er enghraifft, yn derbyn peth pleser oddi wrth ddarllen llythyrau a anfonwyd ato gan bregethwyr megis William Roberts, Amlwch ac yn arbennig lythyr gan Henry Rees sy'n trafod marwolaeth a thragwyddoldeb enaid. Serch hynny, prif gyfrwng yr elfen hon yw ffynonellau mwy personol a hunangofiannol. Ceir yma gyfres o bedair sgwrs, yn gyntaf rhwng John Jones a'i wraig, Fanny; yn ail rhyngddo ac Owen Thomas ei hun; yn drydydd caiff sgwrs â'i frawd, David Jones, ac yn olaf gyda Dafydd ei fab (tt.737, 740-1, 747-51, 753, 754). Ym mhob achos cofnodir y sgyrsiau hyn ar ffurf deialog.[147] Yr un yw pwnc y sgyrsiau, sef amheuon personol John Jones o'i dynged wedi marwolaeth a'i ofnau nad yw'n dduwiol. Dim ond wedi'r drydedd sgwrs, a'r un feithaf, â'i frawd David Jones, Treborth y caiff oleuni a thawelwch enaid i 'ymollwng yn dawel i ewyllys yr Arglwydd, heb ofalu am ddim', ac mae'r cofnod o'i ddyddiau olaf yn pwysleisio'i ffydd yn Nuw a'i ddedwyddwch o gael marw 'yn yr Iesu'. Unwaith eto, darlunio duwioldeb a Santeiddhad y Cristion yw'r nod, ac yn hynny o beth ni ellir ysgaru'r hanes mewnol hwn oddi wrth y portread canolog ohono fel pregethwr. Arwyddocaol yn hyn o beth yw geiriau Owen Thomas wrth sôn am y ffaith fod John Jones wedi marw ar y Sul, rhywbeth yr oedd wedi ei ddymuno sawl gwaith, pan ddywed ei fod yn '*[d]echreu ar ei Sabbath tragwyddol*' (756, pwyslais OT).

Prawf pellach fod y darlun wedi ei saernïo'n ofalus yn y bennod hon yn ogystal, yw bod y 'gwaith mawr' cyhoeddus yn amlwg iawn yn ei fywyd o hyd. Ar ddechrau'r bennod ymdeimlir â rhwystredigaeth John Jones wrth i waeledd ei orfodi i aros yn y Rhyl, ar ei ffordd i bregethu ym Manceinion. Yn ystod ei waeledd, mae'n

[147] Techneg a ddefnyddiwyd, ac a wnaethpwyd yn enwog, gan James Boswell yn ei gofiant, *Life of Johnson* (1791). Y mae'n bur brin ei dylanwad ar gofiannau Owen Thomas er gwaethaf tystiolaeth Saunders Lewis am hoffter Owen Thomas o'r cofiant hwn (Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', t.354).

ymdroi i gyfansoddi tonau,[148] ond mwy arwyddocaol i'r awdur yw'r ffaith ei fod yn ogystal wedi mynd ati i drefnu nodiadau rhai o'i bregethau, a chreu cofnod ysgrifenedig o rai pregethau drwy eu hadrodd i'w fab. Dyma orchwyl a'i plesiai'n fawr yn ôl Owen Thomas, ac un a greai 'awydd angerddol ynddo am gael ei adfer eilwaith i fyned trwy Gymru i "efengylu"' (736). Yn wir, yr argraff a geir yw bod John Jones, er yn ymwybodol ei fod yn ymyl marw, yn daer am gael gwella er mwyn mynd ymlaen â'i alwedigaeth (738). Dyma, unwaith eto, gysylltu'r pregethwr a'r gŵr mewn un darlun cynhwysfawr. Arwyddocaol iawn, ac ystyried y datblygiad a fu ar ei fodd o bregethu a groniclir ym mhenodau 10 ac 11, yw llythyr a ddyfynnir yn y bennod oddi wrth ei gymydog o bregethwr, William Hughes, Tal-y-sarn at ysgrifennydd Cyfarfod Misol Arfon. Ynddo, cofnodir ei sgwrs olaf â John Jones yn fuan cyn ei farwolaeth, a hyd yn oed bryd hynny gall William Hughes nodi awydd John Jones am i bregethu'r enwad ddod 'yn fwy cyfeiriadol a chymhwysiadol . . . at gydwybod' (752-3). Pwyslais pellach ar y berthynas greiddiol hon yng nghofiant Owen Thomas yw'r goffadwriaeth ohono wedi iddo farw. Nid yn annisgwyl, efallai, yr elfen sy'n clymu ynghyd y dyfyniadau o'r marwnadau i John Jones a gynhwysir yn rhan olaf y bennod hon yw eu bod oll yn ymdrin â'i ddarlunio fel pregethwr. Yn wir, fersiynau barddonol ydynt o'r math o adroddiadau am oedfaon grymus sy'n nodweddu gweddill y cofiant (769-88). Ymhellach, mae'r ing cenedlaethol o '[g]olli pregethwr digyffelyb' (763), y soniodd Griffith Parry amdano,[149] yn amlwg yn y llythyrau cydymdeimladol at Fanny Jones a gynhwysir yma, er bod y llythyrau hyn yn naturiol yn cyfeirio at golled bersonol y teulu yn ogystal (763-8). Nid oes ddwywaith nad yw'r pwyslais ar fyfyrio personol John Jones parthed ei farwolaeth a chadwedigaeth ei enaid yn dod â'r gwrthrych yn fwy byw i'r darllenydd cyfoes a

[148] Cyhoeddwyd casgliad o'i donau yn y gyfrol *Tonau Talysarn, sef casgliad o donau y Parch. John Jones, Talysarn, gydag emynau*, gol. D. Emlyn Evans (Machynlleth, 1908).
[149] Parry, *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn*, tt.iii-iv.

modern yn y bennod hon, ond nid dyna oedd bwriad Owen Thomas. I raddau yr oedd yn dilyn confensiwn llenyddiaeth eschatolegol a oedd yn tueddu at gofnodi'n fanwl sgyrsiau ac ymsonau mewnol gwrthrychau ar eu gwely angau. Byddai adran o'r fath yn gyfarwydd iawn i gynulleidfa gyfoes y cofiant, a gwelwyd eisoes fod i'r sgyrsiau hyn yr un bwriad deublyg â'r farwnad o gyflwyno'r gwrthrych fel esiampl a sicrhau ei etholedigaeth. Ond mae'n arwyddocaol, o ystyried dehongliad cofiannol Owen Thomas, fod ei saernïaeth ofalus o gynnwys y bennod yn golygu bod yr hanes o hyd yn berthnasol i'r darlun o'r pregethwr nodedig a chyhoeddus sy'n nodweddu gweddill y cofiant.

### 3.3.4 'y gwaith mawr': cyflawni'r alwedigaeth

Cloir y cofiant gyda'r bennod sy'n trafod 'cysylltiad' John Jones â phregethu Cymru. Er bod y bennod ar un wedd yn sefyll y tu hwnt i hanes bywyd a gyrfa John Jones, mae cysylltiad agos rhyngddi a naratif hanes yr alwedigaeth a gyflwynir yn y cofiant. Rhennir y bennod yn ddwy ran. Yn y rhan gyntaf faith[150] ceir oriel o bortreadau byrion anfarwolion pulpud Cymru o'r Diwygiad Methodistaidd ymlaen, gyda'r pwyslais, yn naturiol, ar bregethwyr enwad y Methodistiaid Calfinaidd. Er bod y portreadau hyn yn gofiannau byrion ynddynt eu hunain, mae'n bwysig sylwi mai'r cyd-destun amlycaf ynddynt yw darlunio'r gwrthrychau wrth eu gwaith fel pregethwyr. Ac nid hanes amherthnasol yw hwn i fywyd a gyrfa John Jones ym marn yr awdur.[151] Unwaith eto, pwrpas y bennod thematig hon, megis y bennod ar y dadleuon diwinyddol, oedd gosod cyd-destun sylweddol a phwysig i gyflawniad John

[150] Teitl y rhan hon yw 'Byrolygiad ar y pulpud Methodistaidd hyd ei ddyddiau ef' (*CJJT*, tt.792-970). Gw. Atodiad 3.
[151] Gw. ei sylwadau ar ddechrau'r bennod yn *CJJT*, t.793.

Jones o'i alwedigaeth ym meddwl y darllenydd. Cyflwyno nid yn unig linach bregethwrol John Jones, ond yn ogystal adlewyrchu ei statws a'i bwysigrwydd ym mhregethu'r cyfnod yr oedd yn serennu ynddo – cyfnod y 'pregethwr mawr' chwedl R. Tudur Jones.[152] Wrth gwrs, ni ddylid anghofio bod hanes o'r fath yn mawrygu'r enwad yn ogystal.

Deuir yn benodol at John Jones yn ail ran y bennod.[153] Rhestrir tuag un ar hugain o nodweddion sy'n perthyn iddo fel pregethwr, a chreffir arnynt yn eu tro (rhai yn fwy manwl nag eraill). Ar yr olwg gyntaf, mae'r bennod hon yn sefyll ar wahân i weddill naratif y cofiant oherwydd yr ymdriniaeth thematig a geir ynddi, ynghyd ag arddull draethiadol neu ddadansoddol y dweud. Fel y gwelwyd eisoes ym mhennod gyntaf yr astudiaeth hon, y mae'r bennod yn ein hatgoffa o bortread y cymeriad a geir yn y cofiannau Cymraeg.[154] Eto, daw'n berffaith amlwg o ddarllen y bennod pam fod Owen Thomas wedi ei gosod ar derfyn y cofiant. Nid craffu ar ei nodweddion yn unig a wneir, ond y nodweddion hynny sy'n ei wneud yn bregethwr mawr ac sy'n egluro effeithiolrwydd a phoblogrwydd ei bregethau. Manylir ar ei ddoniau a'i gyneddfau, ac unwaith eto telir sylw i'w ddoniau allanol a'i ddoniau mewnol fel pregethwr.[155] Ceir trafodaeth hefyd ar nodweddion sy'n ymwneud â'i bregethau, megis eu cyfansoddiad a'u harddull. Ond y wedd ymarferol a oedd arnynt, neu eu huniongyrchedd 'at gydwybodau a chalonau ei wrandawwyr' (997), sy'n cael y sylw pennaf gan Owen Thomas yn y cyswllt hwn. Atgyfnerthu hyn, ynghyd â'r drafodaeth ar ei ddoniau, a

---

[152] R. Tudur Jones, 'Awr machlud y pregethwr mawr', yn idem, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914: Cyfrol 1* (Abertawe, 1981), tt.154–71 [155].
[153] Teitl y rhan hon yw 'Ei nodweddau neillduol ef fel pregethwr' (*CJJT*, tt.971-1024).
[154] Nodwyd eisoes y ceid penodau thematig sy'n ymdrin â'r gwrthrych fel dyn, fel pregethwr ayb. Gw. hefyd bennod gyntaf y traethawd hwn, tt.76-9.
[155] Gw. yr eglurhad ar y termau hyn yn yr adran o'r bennod hon sy'n trafod ei ddoniau a'i boblogrwydd uchod, tt.171-8. Un enghraifft o'r naill yw'r drafodaeth ar 'ymddangosiad allanol' (972), ac enghraifft o'r llall yw'r drafodaeth ar ei allu 'i berchenogi yr hyn a ddarllenai neu a ddywedid wrtho, fel ag i beri iddo ymsylweddu megis â'i feddwl ei hunan, a dyfod yn rhan hanfodol ohono' (975), sef cyfeiriad at ei grebwyll.

wna'r nodweddion hynny sy'n trafod agweddau ar ddatblygiad ei yrfa, megis ei ymroddiad tuag at bregethu, y pleser a roddai'r gwaith iddo a'i ysfa i wella ei hun ar bob cyfle (998). A diweddir y drafodaeth â'i arwyddocâd sylfaenol fel pregethwr gan mai'r nodwedd olaf o bwys i'w thrafod yw'r ffaith iddo 'gynnyrchu cyfnewidiad mawr yn nhôn y weinidogaeth' (1003-6), cyn cloi'r rhan hon o'r bennod gydag enghraifft o un o'i bregethau.[156] Nid ar hap y gosododd Owen Thomas y bennod hon ar derfyn y cofiant, felly. Yn wir, credaf y gellir dadlau mai pwrpas yr unfed bennod ar bymtheg, a'r ail ran yn benodol, yw cadarnhau'n uniongyrchol yr elfennau ar ei yrfa sy'n cael eu hamlygu yng ngweddill y cofiant a chyfiawnhau bod John Jones, fel yr apostol Paul, wedi 'mawrhau ei swydd' mewn modd effeithiol a nodedig iawn. Ymgais sydd yma ar ran yr awdur i fireinio'r elfennau hynny ym meddwl y darllenydd, a sicrhau mai John Jones y pregethwr yw calon y cofiant. Yn ogystal, y mae gosod cyd-destunau o'r fath yn hyrwyddo agenda gofiannol Owen Thomas, a'i ddefnydd o John Jones fel delfryd o bregethwr yn y cofiant – un y mae ei yrfa (a'i fywyd o'r herwydd) yn esiampl glodwiw i ysgogi pregethwyr ieuainc (a'r darllenydd cyffredin) 'i ymgyrraedd am y cymhwysderau hyny' (1024). Gwelir, felly, mor llwyr y mae portread y cofiannydd o 'John Jones y pregethwr' yn hydreiddio hanes ei fywyd yn y cofiant drwyddo draw.

[156] Unwaith eto, dyma nodwedd sy'n rhan bwysig o strwythur y cofiannau Cymraeg yn gyffredinol. Pwrpas hyn yw amlygu rhai o'r nodweddion a drafodwyd eisoes yn y cofiant er bod nodweddion perfformiadol eraill, wrth gwrs, yn absennol o'r bregeth ysgrifenedig.

## 3.4 'MR JONES FEL DYN': Y DARLUN O GYMERIAD JOHN JONES YN Y COFIANT

Os oedd Owen Thomas wedi llunio cofiant a fyddai'n ysbrydoli a chynorthwyo pregethwyr, nid pob pregethwr a werthfawrogodd yr agwedd honno ar y gyfrol:

> I do not think that the human and personol side of the man have received adequate place in the Cofiant. Apart from admiration of his powers and character he seems to have evoked a quite remarkable personal attachment and devotion.[157]

Felly y dywedodd ŵyr John Jones, Tal-y-sarn, yr heddychwr a'r pregethwr George M. Ll. Davies, am gofiant ei daid. Y mae'n farn sydd wedi ei hadleisio gan fwy nag un beirniad yn ogystal. Yn wir, ar wahân i undonedd rhai o'r adroddiadau ohono'n pregethu a dylanwad arddull Saesneg y cyfnod ar y dweud, byddai'n deg nodi mai dyma brif wendid y cofiant gan sawl un. Sonia D. E. Jenkins ei hun mai yn y digwyddiadau hynod – 'the spectacular events in the life of John Jones'[158] – yr oedd diddordeb Owen Thomas. Mae ymatebion o'r fath yn adlewyrchu'r pwyslais newydd a welwyd yng nghofiannaeth a beirniadaeth lenyddol dechrau'r ugeinfed ganrif ar ddadansoddi personoliaeth yr unigolyn, a dylanwad digamsyniol ymdriniaethau seicolegol ar y cyd-destun. Fel y soniwyd eisoes yn y bennod hon, ni fyddai'n deg tadogi'r pwyslais hwnnw ar bortread neu ddehongliad Owen Thomas o'i wrthrych, ond mae ystyried y 'gwendid' hwn yn codi rhai cwestiynau digon dilys ynglŷn ag ymdriniaeth y cofiannydd â'i wrthrych fel 'gŵr', ynghyd â chyflwyno tystiolaeth sy'n cadarnhau mai dehongliad bwriadol oedd eiddo Owen Thomas.

---

[157] LlGC, Llsg. 12788C, llythyr rhif 29, George M. Ll. Davies at D. E. Jenkins. Rhydd George Davies enghraifft am gyfaill iddo o gapten llong yn wylo'n hidl wrth glywed am farwolaeth John Jones. Gw. yn ogystal yr hanesyn gan Robert Owen, Tŷ Draw a adroddir gan D. E. Jenkins, sy'n tystio i fawredd John Jones ym marn un o chwarelwyr Dororthea hyd yn oed pan oedd ei amhoblogrwydd ar ei anterth oherwydd yr helynt yn y chwarel ('Review and revision', tt.268-9).
[158] Ibid., t.243.

O fwrw golwg fanwl ar hanes John Jones yn y cofiant, daw'n amlwg y pwyslais a rydd Owen Thomas ar ddwyster neu dduwioldeb ei gymeriad, ei natur ymroddgar, ei dymer ofidus, a'r duedd i'w feddwl gael ei feddiannu'n llwyr gan bethau crefyddol ac ysbrydol.[159] Ac fel y trafodwyd uchod, pur brin yw'r digwyddiadau hynny nad ydynt yn ymwneud â John Jones y pregethwr, neu'n gysylltiedig â'r yrfa honno. Diddorol, er enghraifft, yw sylw George M. Ll. Davies yn ei ragymadrodd i'r gyfrol *Atgofion am Dalysarn*, lle dywed fod atgofion ei fodryb yn amlygu '[nad] Methodistiaeth yn unig a lanwodd fryd ei thad, fel y gallesid meddwl wrth ddarllen y cofiant swyddogol'.[160] Yn wir, dengys y cofiant mor gyson y mae'r agweddau ar bersonoliaeth John Jones a ddadlennir ynghlwm wrth gyd-destun llywodraethol y cofiannydd o ddarlunio'i wrthrych fel pregethwr. Un enghraifft amlwg yw ymdriniaeth Owen Thomas â natur benchwiban John Jones wrth weini yn y siop. Nid yn unig y mae'n nodi mai Fanny Jones ei wraig a gymerodd arni gyfrifoldeb am y siop, a hynny 'gan fod y bregeth yn myned â'i fryd ef mor lwyr' (142), ond mewn cameo prin o fywyd John Jones gartref fe greir yr argraff fod ei feddwl yn gymaint ar bethau'r ysbryd fel nad oedd modd ymddiried arno ym myd masnach. Sonnir ei fod yn gofalu am y siop bob hyn a hyn, yn absenoldeb ei wraig, a cheir sawl enghraifft o'r troeon trwstan a ddigwyddai wrth i gwsmeriaid, yn ddiarwybod neu'n fwriadol, dalu llai am rai nwyddau na'u gwerth. Dengys astudiaeth D. E. Jenkins a llythyrau John Jones ei hun, serch hynny, fod lle i amau portread

[159] Digon tebyg yw pwyslais D. E. Jenkins, wrth sôn mai didwylledd John Jones yw'r allwedd i ddeall ei gymeriad hynod; hynny ynghyd ag angerdd teimlad a deallusrwydd digymar a'i gwnaeth yn bregethwr mor huawdl a nerthol. Gw. y bennod 'John Jones's personal qualities' yn 'Review and revision', tt.306-18.
[160] Jones, *Atgofion am Dalysarn*, t.4.

hoffus Owen Thomas yma.[161] Adleisio arwyddocâd y portread hwn a wna sylw Griffith Hughes, Edeyrn, wrth adrodd hanes taith bregethu i dde Cymru yn 1831. Iddo ef, yr oedd y ffaith nad oedd John Jones yn ymddangos fel ei fod yn sylwi ar ddigwyddiadau o'i gwmpas wrth bregethu yn arwyddo 'mor gwbl y byddai ei feddwl yn cael ei ddwyn gan, a'i sefydlu ar, yr hyn a bregethai'.[162]

Enghraifft bellach o bwyslais Owen Thomas ar dduwioldeb a chrefyddoldeb meddwl John Jones yw'r modd yr ymdrinnir â'i ddiddordeb yn ei flynyddoedd olaf mewn canu a llunio tonau. Er ei fod yn dyfynnu sylwadau gan Morris Davies parthed y diddordeb hwn, mae'n ofalus i gynnwys y sylw mai pregethu sy'n dal i fynd â bryd John Jones yn llwyr, ac nad yw'r diddordeb hwn 'ond difyrwch ac adloniad'.[163] Elfen arall sy'n gysylltiedig â hyn yw pwyslais cynyddol Owen Thomas, eto wrth ymdrin â blynyddoedd olaf John Jones, ar ysbrydolrwydd ei enaid, a'i bortreadu fel un sy'n agosáu at dragwyddoldeb. Dywed yr awdur ei fod, yn y cyfnod hwn, 'yn teimlo fod amser yn diflannu odditano'.[164] Ymddengys fod marwolaethau aelodau o'i deulu a ffrindiau agos yn y cyfnod hwn wedi cryfhau ymhellach y duedd ym meddwl John

---

[161] Mae barn D. E. Jenkins am yr hanesion hyn yn glir: 'it seems as if Owen Thomas has neglected his own good sense'. Y mae o'r farn fod gan bob un yn nheulu Tanycastell fedr ag arian, ac mai didwylledd John Jones a oedd yn gyfrifol am ei ymddygiad yn y siop (Jenkins, 'Review and revision', t.77); Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.217. Mae llythyrau John Jones yn tueddu i gadarnhau hynny. Gw. LlGC, Llsg. 12788C (Papurau D. E. Jenkins). Yn ogystal, ceir llythyrau gan John Jones at ei deulu yn LlGC, Papurau J. Glyn Davies, Casgliad Tanycastell. Eto, roedd yn bortread effeithiol, ac un a atgynhyrchwyd mewn mannau eraill, megis cofiant O. Llew Owain i Fanny Jones ei wraig (Owain, *Cofiant Mrs Fanny Jones*, tt.99-101). Yr hyn sy'n ddiddorol yma yw bod Llew Owain yn defnyddio'r portread i gryfhau ei ddarlun ef o Fanny Jones fel gwraig fusnes graff.

[162] *CJJT*, t.215. Darlun tebyg yw'r hanes a adroddir gan Owen Thomas am y tro trwstan a ddigwyddodd ar daith bregethu yn Llundain. Oherwydd bod meddwl John Jones 'ar rywbeth arall' mae'n colli ei ffordd wrth deithio yn y ddinas. Gellir maentumio mai ysbrydol neu bregethwrol oedd y 'rhywbeth arall' hwn (ibid., t.193).

[163] Ibid., t.707. Gw. hefyd tt.705-8. Dywed Morris Davies fod gan John Jones ddiddordeb mewn canu pan oedd yn ŵr ieuanc, ond bod hwnnw wedi edwino'n llwyr wedi iddo ddechrau pregethu.

[164] Ibid., t.701. Drachefn, ar daith yn siroedd Dinbych, Fflint a Meirionydd ym Mai 1854, y mae 'fel dyn yn teimlo nad oedd iddo lawer o amser cyn y gelwid arno i roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth' (t.711). Er bod yr elfen hon o rag-weld marwolaeth, neu o leiaf fod yn ymwybodol ohono, yn gyffredin iawn yng nghofiannau'r pregethwyr, mae ymdriniaeth Owen Thomas yma yn fwy cynnil na'r rhelyw, ac yn fwy cyson. Serch hynny, nid yw'r awdur am awgrymu o gwbl fod nerth ei bregethu yn gwanhau yn ystod y cyfnod hwn. Y mae marwolaeth ei gefnder o bregethwr, Cadwaladr Owen, er enghraifft, yn ei wneud yn fwy penderfynol fyth i lafurio â'i holl egni yn y weinidogaeth.

Jones o weld pwysigrwydd pethau crefyddol. Bu farw ei ferch Elen a'i gyfaill John Robert Jones, Bangor o fewn wythnos i'w gilydd yn Hydref 1845. Eto, mae'n arwyddocaol mai ymdrin â hwy yng nghyd-destun ei alwedigaeth a wna Owen Thomas. Pwysleisia i farwolaeth Elen ysgogi John Jones i lunio'r bregeth 'A'i dŷ nid edwyn ddim ohono ef mwy',[165] a nodir nad oedd perthynas John Jones â Chyfarfod Misol Arfon cystal ag y bu yn dilyn marwolaeth ei gyfaill (645).

Nid oes ddwywaith nad oedd John Jones yn meddu ar natur ddwys, a'i fod yn ŵr hynod grefyddol. Yn wir, mae'n bwysig nodi nad portread ffug yw eiddo Owen Thomas – yr oedd y nodweddion hyn nid yn unig yn perthyn i gymeriad John Jones ond yn rhan amlwg ohono. Serch hynny, gellir dadlau bod pwyslais cofiannol a deongliadol Owen Thomas ar y nodweddion hynny sy'n cyd-fynd â'r darlun o'r pregethwr duwiol, diwyd a delfrydol wedi golygu na roddwyd sylw haeddiannol i rai agweddau ar ei bersonoliaeth nad ydynt mor gysylltiedig â'r darlun hwnnw ym marn y cofiannydd, nac yn addas iddo. Er bod yr elfennau hyn yn absennol o'r cofiant ar y cyfan, mae'n werth nodi y ceir ambell gip, yn anfwriadol fel petai, ar nodweddion personoliaethol amgen i bortread canolog Owen Thomas. Er enghraifft, ceir tystiolaeth yn y cofiant sy'n awgrymu bod i gymeriad John Jones ochr ysgafnach, onid hwyliog. Mae'n ddiddorol mai mewn atgofion a yrrwyd at Owen Thomas gan unigolion a gyd-deithiai neu a gyd-bregethai â John Jones yr amlygir y wedd hon ar ei bersonoliaeth. Nis ceir yn naratif Owen Thomas nac yn ei atgofion personol. Sonia Griffith Hughes, Edeyrn, er enghraifft, fel y gallai John Jones 'fwynhau digrifwch diniwed', wrth fod yn dyst i dro trwstan a ddigwyddasai i John Hughes, Pontrobert

[165] 'Y symmudiad mawr' (Job 7:10), yn Griffith Parry (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych, 1869), tt.335-47.

wrth gychwyn oedfa yng Nghyfarfod Misol Llanfair Caereinion un tro.[166] Mae'n amlwg fod y digwyddiad wedi goglais John Jones. Serch hynny, y mae Griffith Hughes yn ymatal rhag disgrifio'i ymateb yn llawn 'yn enwedig wedi cynnifer o flynyddau'. Ond mae ambell hanesyn a ddyfynnir yn y cofiant yn awgrymu y gallai ysgafnder nodweddu John Jones yn y pulpud yn ogystal. Sonia Robert Hughes, Uwchlaw'r Ffynnon am oedfa yn Nhalgarth lle bu'n tynnu coes ei gynulleidfa yn ddireidus ynglŷn â'i ddiffyg addysg. Eto, er bod 'llawer iawn o rywbeth chwareus yn naturiol yn ei ddawn ef', mae Robert Hughes yntau yn ofalus i atgoffa'r darllenydd y byddai ysgafnder John Jones o hyd 'o fewn terfynau sobrwydd' yn y pulpud (651).

Y mae'n bur debyg fod natur ofalus y dweud yn yr enghreifftiau uchod yn egluro pam na themtiwyd Owen Thomas i olygu'r adroddiadau. Ond er gwaethaf cynnwys amryw o'i atgofion ei hun o ffrwyth y cof bendigedig a feddai,[167] ni sonia am ddim o'r fath. Y mae'n bosibl na welodd mo'r elfen chwareus hon ei hun yn John Jones, ond tebycach yw na theimlodd fod unrhyw bwrpas neu berthnasedd o gyfeirio ati.[168] Ceir cipolwg ar ambell elfen arall sy'n goleuo cymeriad John Jones yn y cofiant yn ogystal, megis ei garedigrwydd at Griffith Hughes, Edeyrn pan fu'n wael ar un o'r teithiau pregethu (213), ei allu i deimlo i'r byw pan na ofynnid iddo bregethu mewn Cymdeithasfa (er na ddangosai hynny'n amlwg) (153), ei ddiffyg amynedd â manylion cyfundrefnol y Cyfarfod Misol (645) ynghyd â'i natur foneddigaidd wrth

[166] *CJJT*, t.215. Wrth adael y pulpud aeth côt John Hughes yn sownd wrth y drws, gan ei adael 'yn grogedig rhwng y pulpud â'r llawr, fel nad oedd ganddo ond ysgwyd ei freichiau a gwaeddi "Pa be' ydy' hyn?"'. Enghraifft debyg yw'r atgof gan John Jones, Bryn'rodyn, sy'n nodi sut y byddai John Jones yn chwerthin wrth gofio am un creadur yn cysgu drwy ei bregeth yn Sir Benfro rhywdro.
[167] Gw., er enghraifft, Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.427-8.
[168] Mae'n werth nodi yma, serch hynny, ei fod yn dyfynnu hanesyn gan John Jones ei hun am Richard Williams, Brynengan yn codi ei galon wrth deithio i siroedd Dinbych a Fflint ac yn gwneud iddo 'chwerthin yn gwbl ddilywodraeth' (*CJJT*, 180). Ac wrth drafod ei areithiau dirwestol noda fod mwy o hiwmor i'w weld ynddynt o'u cymharu â'i bregethau, 'rhyw fath o arabedd nwyfus, hylon, hoenus, gogleisiol' (t.242). Eto, mae'n amlwg o'r gymhariaeth nad oedd yn bresennol yn ei bregethau ym marn Owen Thomas, a hyd yn oed yn ei areithiau dirwestol, mae'n pwysleisio bod ffrwyn ar yr ysgafnder hwn ac nad oedd byth yn peri i'w gynulleidfa chwerthin.

letya ar deithiau pregethu (665). Fodd bynnag, ni fanylir arnynt yn y cofiant, er mawr siom i D. E. Jenkins.[169] Unwaith eto, mae'n annhebygol bod Owen Thomas wedi mynd ati yn fwriadol i atal cynnwys yr elfennau hyn, ond mae'n amlwg o ystyried ei amcan ar gyfer y gyfrol, ynghyd â'r modd y pwysleisir agenda'r amcan hwnnw yn naratif y cofiant, na welai elfennau o'r fath yn addas neu'n bwysig i'w ddehongliad o fywyd ei wrthrych. Y mae'n bosibl bod digwyddiadau unigol o'r fath yn rhy unigolyddol i gael eu hystyried gan Owen Thomas fel elfennau i'w hefelychu.

Cyd-destun pellach yr ymddengys ei fod yn bur amherthnasol i Owen Thomas yw bywyd preifat John Jones ar ei aelwyd. Ar wahân i'r hanesion am ei ddiniweidrwydd yn y siop, a'i arfer o gyfansoddi pregethau drwy gerdded yn ôl ac ymlaen mewn llannerch gerllaw'r tŷ, yr unig dro y manylir ar ei sefyllfa ymysg ei deulu yw pan â'r awdur ati i'w ddarlunio yn ei fisoedd olaf. Ond fel y nodwyd eisoes, y sgyrsiau sy'n cyfiawnhau ei dduwioldeb ac sy'n trafod ei gadwedigaeth yw craidd ei ymwneud â'i deulu yn y bennod honno.[170] Eto, fel y noda D. E. Jenkins, yr hyn sy'n hynod yw na ddaw adnabyddiaeth bersonol Owen Thomas o John Jones, na'r ffaith ei fod wedi treulio cryn amser ar ei aelwyd yn Nhal-y-sarn, i'r golwg yn y cofiant oni bai ei fod yng nghyd-destun ei ddarlunio fel pregethwr.[171] Y mae'n amlwg fod y teulu wedi gyrru deunyddiau at Owen Thomas i'w defnyddio yn y cofiant,[172] ac mae'n anodd credu na fyddai rhai darluniau personol ohono yn eu mysg, ond ymddengys nad oedd portreadau o'r fath yn ei ddiddori. Serch hynny, yr hyn sy'n

[169] Gw. sylwadau D. E. Jenkins ar yr elfen hon yn 'Review and revision', t.324.
[170] Gw. yr adran 'Ei fisoedd segur olaf' uchod. Gellir ystyried ei blentyndod yn yr un modd.
[171] Soniwyd eisoes ym mhennod 2 am honiad D. E. Jenkins fod Owen Thomas wedi ymserchu ym merch hynaf John Jones, Ann; ond ymddengys nad yr un oedd ei theimladau hi ('Review and revision', t.323).
[172] Gw. y llythyr gan Thomas Lloyd Jones, dyddiedig 4 Mai 1868, yn gofyn iddo ddychwelyd y deunyddiau i'r teulu os nad oedd yn bwriadu cyhoeddi'r cofiant yn fuan. LlGC, Casgliad Owen Thomas, llythyrau at Owen Thomas, rhif 95, 4 Mai 1868.

synnu dyn yw na ddefnyddiodd Owen Thomas ragor ar hanes teuluol John Jones i gyfoethogi'r darlun o'r pregethwr. Er mai'n ddiweddarach y cyhoeddwyd atgofion Frances Jones ei ferch, cyfeirio at gyfnod ei phlentyndod y maent, ac mae i'w thad le amlwg ynddynt. Mae'n ddigon posibl y byddai Owen Thomas yn gyfarwydd ag ambell hanesyn, megis y darlun dirdynnol o John Jones wrth wely angau ei ferch, Elen, a'r galar amlwg yr oedd yn ei deimlo wrth iddo orfod cael ei hebrwng oddi wrth ei gwely wedi iddi farw.[173] Byddai'r darlun canlynol o'i ddull o weithio hefyd wedi bod yn addas i'w gynnwys:

> Treuliai ei amser gan mwyaf yn ei lyfrgell neu yn y winllan goed a oedd gerllaw'r hen gartref . . . fe arhosai yn ei lyfrgell hyd amser cinio. Byddai'n rhaid bod hwn yn hollol barod cyn galw ar fy nhad . . . Weithiau fe eisteddai ac fe ymaflai yn ei bibell . . . ond am ychydig iawn o amser. Fe godai'n sydyn ac i'w lyfrgell, ac ni welem ef mwy nes i'm mam ei orchymyn ei alw ef i gael te gyda ni. Ac O! fel y byddai'n mwynhau ei gwpanaid te, â'i feddwl wedi cael gollyngdod, wedi cael syniad neu olwg neu ddatguddiad newydd ar ryw wirionedd. Byddai fel bachgen chwareus, ac fe ddywedai, 'Wel dowch, Fanny Jones, gadewch inni gael cwpanaid o de da'n awr'.[174]

Ond nid oes braidd arlliw o gynhesrwydd teuluol o'r fath ym mhortread Owen Thomas. Cais D. E. Jenkins egluro hyn drwy gyfeirio at ddiffyg ym mhersonoliaeth Owen Thomas ei hun. Ni allai, meddai, fanylu ar y fath bethau oherwydd '[he] lacked the finer parts of human nature'.[175] Y mae'n bwysig ystyried tawedogrwydd y cyfnod wrth ymdrin â sefyllfaoedd personol o'r fath. Ond fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf, yr oedd Owen Thomas yn fodlon troedio 'tir cysegredig' os oedd yr hanes

[173] Jones, *Atgofion am Dalysarn*, tt.23-5. Fe luniwyd yr atgofion hyn tua throad y ganrif a'u cyhoeddi am y tro cyntaf dan y teitl 'Adgofion mebyd yn Nhal y Sarn' yn wythnosol bron yn *Y Dinesydd Cymreig*, 15 Awst–7 Tachwedd 1917. Frances hefyd a dalodd am gyhoeddi'r casgliad o donau ei thad, *Tonau Talysarn*.
[174] Jones, *Atgofion am Dalysarn*, tt.18-19. Wrth gwrs, tebyg na fyddai'r cyfeiriad at ysgafnder John Jones yn cyd-fynd ag amcanion cofiannol Owen Thomas.
[175] Jenkins, 'Review and revision', t.324.

yn addas i'w amcanion cofiannol. Unwaith eto, gwelir mor gadarn yw gafael y cofiannydd ar ei bortread, ac ar ddisgwyliadau ei gynulleidfa darged.

Prin, yn ogystal, yw defnydd Owen Thomas o lythyrau John Jones. Wrth gwrs, gall mai'r llythyrau a ddyfynnir yn y cofiant yw'r unig lythyrau a oedd wrth law y cofiannydd. Yn wir, sonia yn benodol yn y cofiant mai 'ychydig lythyrau o'i eiddo' sydd ar gadw (248-9). Serch hynny, awgrymwyd eisoes yn y traethawd hwn fod ymdriniaeth yr awdur â'i ffynonellau yn gallu bod yn ddiddorol a chymhleth, a'i bod ynghlwm wrth ei amcanion cofiannol. Er y byddai unrhyw ffynonellau hunangofiannol, megis llythyrau, yn werthfawr iawn i Owen Thomas fel cofiannydd, nid syndod gweld bod y llythyrau hyn oll yn ymdrin â bywyd ysbrydol a gweinidogaethol John Jones, neu'n ymwneud â'r gymdeithas grefyddol yr oedd yn rhan ohoni. Er enghraifft, dyfynnir o'i lythyr at William Pritchard sy'n ateb honiadau Edeyrn Môn am ddiwinyddiaeth ei bregethau (617), neu ei lythyr at Roger Edwards yn nodi na allai fynd i Lundain i bregethu ac yn gwrthod yn foneddigaidd wahoddiad i gyfrannu i'r *Traethodydd* a oedd newydd ei sefydlu (634-5).[176] Os nad yw pob llythyr a ddyfynnir yn ymwneud yn benodol â throeon gyrfa gyhoeddus John Jones, y maent yn gyson yn ymdrin ag elfennau neu themâu sydd â'i bersona ysbrydol, pregethwrol yn ganolbwynt iddynt, megis y llythyrau sy'n cydymdeimlo ag eraill yn eu galar.[177] Yn wir, wrth ddyfynnu llythyr ganddo at ei frawd, Richard, a ymfudodd i'r Unol Daleithiau, noda Owen Thomas nad oedd 'wedi cyfarfod ag odid ddim, yn holl hanes Mr John Jones, yn dwyn prawf mwy amlwg i ni o dduwioldeb ei ysbryd' (652). Noda bod John Jones wedi ei feddiannu mor llwyr gan grefydd 'fel nad ydyw'n gwneuthur

[176] Er ei fod yn canmol *Y Traethodydd*, dywed John Jones nad oes ganddo ef 'ddim yn werth ei anfon' i'r cyfnodolyn.
[177] Gw., er enghraifft, *CJJT*, tt.249-53, 636-7, 643-5, 684-6, 702-3. Gwelir mwy o deimladau personol John Jones yn y llythyrau hynny a ysgrifennwyd yn y cyfnod y bu farw Elen ei ferch (tt.636-7) a'i gyfaill John Robert Jones (tt.643-5), ond ysbrydol yw eu naws serch hynny.

cymaint ag un cyfeiriad ynddo at na'i iechyd na'i amgylchiadau ef ei hunan na'i deulu' (653). Ond dangosodd D. E. Jenkins mai hanner llythyr a ddyfynnodd Owen Thomas, a bod yr hanner arall yn ddiau yn ymwneud â phethau 'perthynol i'r byd a'r bywyd presenol'.[178] Ymhellach, fel y nodwyd uchod, mae'r llythyrau gan John Jones at ei deulu sydd wedi goroesi o'r 1840au yn awgrymu bod ganddo ddiddordeb ym mhethau'r byd a'r ysbryd fel ei gilydd. Er enghraifft, y llythyr at ei wraig, dyddiedig 12 Ebrill 1838, pan oedd yn Llundain sy'n gofyn iddi sicrhau bod y teulu'n cadw dyletswydd y weddi deuluaidd ac yn ei siarsio i yrru ato os bydd afiechyd yn dod i'r cartref. Tebyg yw'r llythyrau at ei fab hynaf, John, a oedd wedi ymfudo, fel ei ewythrod Richard a William, i'r Unol Daleithiau. Ceir un, dyddiedig 26 Ionawr 1847, sy'n ei annog i 'lynu yn dy broffes', ac eto'n cynnig cyngor iddo ynglŷn â pha fodd i weithredu gyda gwerthu tir a buddsoddi arian.[179] O'r herwydd, gwelir bod yn ei lythyrau gymysgedd o agweddau ysbrydol a secwlar ar y dyn cyflawn. Fodd bynnag, yn wyneb diffyg tystiolaeth i'r gwrthwyneb mae'n ddigon posibl derbyn na welodd Owen Thomas y llythyrau teuluol hyn. Ond mae'r ffaith fod cynnwys y llythyrau a ddyfynnir yn y cofiant mor unochrog yn awgrymu, os nad yn dadlennu, natur ddethol y cofiannydd wrth ymdrin â'r ffynhonnell hon a'i ymlyniad i'w bortread canolog o'i wrthrych.

[178] Gw. y llythyr cyfan, wedi'i gyfieithu, yn Jenkins, 'Review and revision', tt.216-19. Ceir copi o'r llythyr gwreiddiol yn LlGC, Llsg. 12788C (Papurau D. E. Jenkins). Mae'n ddigon teg dadlau na fyddai Owen Thomas wedi gweld y llythyr cyfan, ond tybed na feddyliodd ar y pryd fod rhywfaint ohono ar goll? Mae'n ddiddorol maentumio y gallai ei agenda gofiannol fod wedi llywio'i feddwl yn yr achos hwn.

[179] LlGC, Llsg. 12788C (Papurau D. E. Jenkins). Yn ogystal, ceir llythyrau gan John Jones at ei deulu yn LlGC, Papurau J. Glyn Davies, Casgliad Tanycastell.

Ar ganmlwyddiant marwolaeth John Jones yn 1957 ymddangosodd pwt o erthygl yn nhrafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon.[180] Ynddi, mae G. T. Roberts yn adrodd am yr hanesyn yn *Cofiant John Jones, Talsarn* am y gŵr o Ddolwyddelan a ddilynai John Jones yn ddiarwybod dros y mynydd i'w waith yng Nghapel Curig bob bore Llun, ond a gredai mai drychiolaeth ydoedd gan fod John Jones yn ymarfer pregethu ar y ffordd:

> clywai [y gŵr] ryw swn, a gwelai ryw beth tebyg i ddyn yn myned o'i flaen. Ymroddodd i gerdded ei oreu gyda'r amcan o'i ddal, a rhedodd am ysbaid ar ei ol. Ond nis gallai gyrhaedd yn ddim nes ato. Yr oedd y drychiolaeth a'r swn yn myned yn mlaen can gynted ag yntau, ac yn ymddangos fel yn gofalu am gadw yr un pellder rhyngddynt a'u gilydd. (71)

Stori ysmala, ond tybed na cheir yn yr hanesyn hwn ddrych o brofiad y darllenydd modern wrth ddarllen y cofiant. Ofna G. T. Roberts mai 'rhyw ddarlun digon anelwig' yn wir a geid o geisio disgrifio'n fanwl ŵr a fu farw gan mlynedd ynghynt, ac felly ni wna ragor na chynnig ambell ddarlun o'r pregethwr mawr yn ei erthygl.[181] Disgrifiad enwog Richard Holmes o gofiannu yw 'a tracking of the physical trail of someone's path through the past, a following of footsteps'.[182] Wrth ddarllen y cofiant fe wêl y darllenydd John Jones o'i flaen yn y pellter, a chlyw ei sŵn, ond ni ellir er pob ymdrech ddal y gŵr yn ei gyfanrwydd. Erys o hyd y tu hwnt i'w afael. Ond nid ar Owen Thomas y mae'r bai am hynny. Yn gymaint ag y gellir cytuno â barn D. E. Jenkins nad oedd natur cymeriad Owen Thomas ei hun yn effro i dueddiadau personoliaethol pobl eraill,[183] credaf fod ei gynllun gofalus yn y cofiant a'i allu i

---

[180] G. T. Roberts, 'John Jones Tal-y-sarn (1796-1857)', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 18 (1957), 89–91. Gw. yn ogystal y siart fanwl a amgaeir sy'n nodi 'disgynyddion . . . John Jones a'i wraig Elin ach Rhisiart'.
[181] Ibid., 89.
[182] Richard Holmes, *Footsteps: Adventures of a Romantic Biographer* (Llundain, 1985; arg. 1995), t.27.
[183] Jenkins, 'Review and revision', t.324.

gadw'r pregethwr yn hollbresennol am dros fil o dudalennau yn arwyddo nad oedd nodweddion o'r fath yn rhan greiddiol o'r portread yr oedd am ei lunio. I ni heddiw, gellir dadlau mai cysgod o'r dyn yw'r portread o 'John Jones, Tal-y-sarn' a gafwyd gan Owen Thomas. Ond yn y Gymru Galfinaidd a oedd ohoni ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd sofraniaeth Duw yn ymestyn dros bersonoliaeth gyfan dyn, ac yntau 'yn wir greawdwr diwylliant, yn wir raglaw'r Hollalluog yn y cread', chwedl R. Tudur Jones,[184] onid amherthnasol fyddai honni bod pwyslais Owen Thomas ar y pregethwr wedi'i wneud ar draul y dyn. Fel un a alwyd gan Dduw i achub eneidiau drwy gyflwyno'r efengyl, ac fel un a gyflawnodd yr alwedigaeth honno drwy ei fywyd mewn modd mor hynod ac effeithiol na allai ond bod yn 'dra addysgiadol' (793), nid rhyfedd mai hanfod John Jones y dyn i Owen Thomas ydyw'r pregethwr.

### 3.5. CLO

Yn ddiau, John Jones y pregethwr hynod ac enwog a gofiennir gan Owen Thomas, a'i fwriad oedd dangos mai pregethu oedd y grym a'r dylanwad mawr ym mywyd John Jones, ac iddo nid yn unig brofi'n bregethwr hynod a phoblogaidd ond ei fod yn ffigwr arwyddocaol yn ogystal fel gŵr a gyflwynodd fath newydd o bregethu i gynulleidfaoedd Cymru. Wrth gwrs, nid ystryw yw'r darlun hwn o John Jones, ond dengys yr ymdriniaeth ag egwyddorion cofiannol Owen Thomas yn y bennod ddiwethaf, a'r dadansoddiad a geir yn y bennod hon o'i ddehongliad o fywyd y

[184] R. Tudur Jones, 'Rhyddiaith grefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Llandysul, 1970), t.325.

gwrthrych, mai portread ymwybodol a chreadigol o'r pregethwr duwiol a diwyd sy'n llywio cofiant Owen Thomas i John Jones, Tal-y-sarn. Y mae'r portread yn deillio o'i amcan sylfaenol a bwriadol i gynnig esiampl i'w efelychu i ddarllenwyr yn gyffredinol, a'i gynulleidfa darged benodol. O'r herwydd, gellir cysylltu'r cofiant â'r traddodiad cofiannol Cymraeg a drafodwyd ym mhennod gyntaf y traethawd hwn. Gwnaeth Owen Thomas hyn drwy ei afael crefftus nid yn unig ar ymdriniaeth y gyfrol, ond ar ei hadeiladwaith yn ogystal, a cheisiwyd amlygu bod y berthynas neu'r cysylltiad deongliadol agos rhyngddo a'i wrthrych, ac a'i ddarllenydd, yn ganolog yn hyn o beth. Nid yn unig y mae'r cofiannydd yn amlygu y doniau diamheuol a feddai John Jones at bregethu, ond dangosodd sut y datblygodd lawlaw â'r doniau hynny i gyflawni'i alwedigaeth drwy gyrraedd safle o lwyddiant, enwogrwydd a dylanwad o fewn ei broffesiwn. Fe fu'r datblygiad hwnnw, wrth gwrs, yn hynod o ddylanwadol ar bregethwyr a phregethu yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac felly i'r gymdeithas Anghydffurfiol yn gyffredinol. Yr oedd, o'r herwydd, yn gwbl berthnasol i'w osod yn galon y cofiant. Yn wyneb hyn, amcanwyd at gynnig dadansoddiad a oedd yn ymwrthod â rhaniadau simplistig rhwng bywyd y gŵr mewnol (hunangofiannol) a'r yrfa allanol neu gyhoeddus (cofiannol). Yn hytrach, dadleuwyd bod Owen Thomas, drwy gyflwyno portread o'i wrthrych yn 'mawrhau ei swydd' fel pregethwr, yn cofiannu hanfod y gŵr yn ei farn ef, ynghyd â phortreadu'r gymdeithas honno a'i lluniodd yn ogystal. Dyma sy'n hydreiddio'r briodas gelfydd rhwng adeiladwaith a chynnwys yn y cofiant, gan mai o fewn ffrâm gofiannol hanesion ac adroddiadau'r naratif ohono'n pregethu, ynghyd â'r cyd-destun sylweddol i'w ddatblygiad athrawiaethol fel pregethwr, y gwelir hyn ar ei orau. Y berthynas hon yw

sail portread sy'n mwy na thystio i'r ddelwedd mai 'dyn "un peth"', chwedl Griffith Parry, oedd John Jones – a'r peth hwnnw oedd pregethu.[185]

Y pregethwr, felly, oedd y fuchedd gyflawn ac unig hanfod portread y cofiannydd o'i wrthrych. Dyma elfen a gamddehonglwyd i raddau gan rai beirniaid yn yr ugeinfed ganrif a gredai i Owen Thomas or-bwysleisio gyrfa gyhoeddus John Jones ar draul cyflwyno 'personoliaeth' y gŵr ar ei aelwyd. Dywedwyd eisoes fod y cofiant hwn yn perthyn i'r cofiant Cymraeg, ond gwelir ynddo ymdriniaeth gofiannol uchelgeisiol o ran cynnwys a chynllun a'i gwnâi'n addas iawn i dywysog a delfryd y pulpud yng Nghymru. Yr oedd Owen Thomas yn gwbl ymwybodol, felly, o rym a dylanwad y portread a luniodd, ac mae'n arwyddocaol mai 'John Jones' Owen Thomas a gofir gennym ninnau dros 150 o flynyddoedd wedi ei farwolaeth. Y mae hynny ynddo'i hun, fe gredaf, yn arwydd o fawredd y cofiant hynod hwn ac o gamp y cofiannydd. Dyma'r gofadail arhosol. Wrth gloi'r cofiant a luniwyd ganddynt i'r diwygiwr dylanwadol John Wesley, tanlinellodd yr awduron eu gobaith fod y cofiant yn adlewyrchu mawredd y gwrthrych:

> We have now delineated at large this man of God. We have followed him from his infancy to his grave. We have endeavoured to note every important step he took; and to discover the secret springs of his actions . . . And may we not challenge Universal History to produce a Minister of the Gospel that has been so successful in his labours, if we consider the extent of the work in which he was engaged, and the depth and solidity of the work itself.[186]

---

[185] Parry, *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn*, t.xv. Gw. hefyd eiriau cofiannydd arall John Jones, sef Hugh Hughes, pan ddywed: 'Fe allai mai y cyfrif sydd i'w roddi am ragoriaeth John Jones, fel pregethwr, yw, nad oedd yn ddim ond pregethwr, yn ei gymeriad cyhoeddus' (Hughes, *Cofiant John Jones, Tal-y-sarn*, t.48).

[186] Thomas Coke a Henry Moore, *The Life of the Rev. John Wesley* (London, 1792), t.519.

Fe wyddys fod y cofiant hwn yn llyfrgell enfawr Owen Thomas.[187] Ac fel Coke a Moore gwelir bod mawredd y gwrthrych yn ganolog i amcanion ei gofiant yntau yn ogystal. Cofiant gan bregethwr mawr i'r pregethwr mwyaf – y pregethwr delfrydol – ydyw, a'r unig gofiant y bwriadai, ac y gallai, Owen Thomas ei ysgrifennu. Dichon, felly, na ddylid ystyried y cofiant hwn yng ngoleuni cysyniadau yr ugeinfed ganrif ynglŷn â chofiannu personoliaeth gyflawn gŵr hynod, ond yn y modd y llwyddodd Owen Thomas i gofiannu seren Anghydffurfiaeth Gymraeg, sef y 'Pregethwr Mawr', a hynny drwy fywyd y gŵr a oedd ym marn yr awdur y cynrychiolydd disgleiriaf o'r barchus, arswydus swydd.

[187] Argraffiad 1824 a oedd yn llyfrgell Owen Thomas. Gw. *Catalogue of Dr. Owen Thomas's Library, in the Calvinistic Methodists (or Welsh Presbyterian) Theological College, Bala, North Wales* (Dolgelley, 1893), t.96.

# 4

# 'enghraifft mor nodedig o gysegredigaeth calon a meddwl i'r efengyl':

## *Cofiant Henry Rees*

> I have many a time longed to write to you but I felt I could not till *my husband did* . . . He and I are profoundly glad and thankful over the memoirs, more so than we can ever tell you – we feel that it presents my dear Father as he was wonderfully. Oh! I never have expected to be so happy with it, dear Dr Thomas.[1]

Nid rhyfedd bod rhyddhad amlwg yn byrlymu drwy lythyrau Annie Davies, Treborth wrth weld cyhoeddi'r cofiant i'w thad, Henry Rees (1798-1869), yn 1890.[2] Nid rhyfedd, ychwaith, fod y llythyrau hyn yn dadlennu'r boddhad a deimlai fod cynnwys y cofiant yn adlewyrchu ei disgwyliadau parthed y portread o'r gwrthrych. Coleddai y syniadau uchaf am ei thad, ac mae'n amlwg mai hi a ofalai am ei goffadwriaeth wedi iddo farw, fel ag y gofalodd fwyfwy amdano yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd hyd ei farwolaeth yn 1869.[3] Mae'r rhyddhad hefyd yn wrthbwynt i'r holl bryder a phoen a

---

[1] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 8, oddi wrth Annie Davies (19 Rhagfyr [1889]).

[2] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (2 gyfrol) (Wrexham, 1890). O hyn allan yn y bennod hon, bydd unrhyw gyfeiriadau unigol at y cofiant hwn nad oes angen ymhelaethu arnynt yn ymddangos yn y testun. Nodir rhif y tudalen yn unig oni fydd amwysedd. Defnyddir y byrfodd *CHR* yn y troednodiadau.

[3] Noda Owen Thomas yn y cofiant am ymweliadau aml gan Henry Rees â chartref ei ferch. Yn wir, tua diwedd ei oes, sonia y byddai'n rhannu ei amser rhwng y Benarth a Lerpwl (*CHR*, tt.849 a 870). Ac wedi ei farwolaeth, ymddengys mai penderfyniad ei ferch oedd ei gladdu nid nepell o'i chartref ym mynwent eglwys ynys Llantysilio, ar bwys Sir Fôn. Adroddir am angladd Henry Rees yn *Baner ac Amserau Cymru*, 3 Mawrth 1869, 6-7. Yno, nodir iddo sôn yn 1860, wrth weinyddu yn angladd ei gyd-weinidog John Hughes yn Smithdown-lane, Lerpwl, mai yn y fynwent honno yr hoffai ef gael ei gladdu, gerllaw ei gyfaill mawr. Er i aelod o'r dyrfa fynd ati i sicrhau'r bedd nesaf at John Hughes ar ei

achoswyd gan yr oedi mawr a fu ar gyhoeddi cofiant i Henry Rees, oedi a ysgogodd Annie a'i gŵr Richard[4] i wahodd Owen Thomas i lunio'r gwaith ar ddechrau'r 1880au. Nid oedd amheuaeth am hawl y gwrthrych i gofiant. Yr oedd Henry Rees yn un o bregethwr hynotaf a mwyaf poblogaidd y pulpud Cymraeg, ac yn arweinydd enwad y Methodistiaid Calfinaidd yng ngogledd Cymru. Nid oedd gwestiwn ychwaith parthed dewis Owen Thomas yn gofiannydd. Lai na blwyddyn yn unig wedi marwolaeth Henry Rees ymddangosodd rhannau cyntaf ei glasur o gofiant i'r cawr o bregethwr John Jones, Tal-y-sarn.[5] Megis y cofiant hwnnw, fe groesawyd *Cofiant Henry Rees* yn wresog gan adolygwyr, a'i ganmol fel '[t]rysor cenedlaethol'[6] ac fel cyfrol '[d]rwyadl a meistrolgar' yr oedd ei darllen yn 'wledd o'r fath fwyaf danteithiol'.[7] Serch hynny, ymddengys na chafodd y cofiant yr un effaith ar y cyhoedd (cyfoes a diweddarach fel ei gilydd) â'r cofiant enwog i John Jones.

Os gwir yw'r ffaith fod y drafodaeth ar gofiant cyntaf Owen Thomas yn ddigon prin, gellir dadlau na chafwyd unrhyw ymdriniaeth fanwl ac ystyrlon hyd yn hyn â'r ail gofiant a luniodd. Y meithaf o'r adolygiadau a gafwyd ar ymddangosiad y

---

gyfer, ac i'r penderfyniad i'w gladdu yn eglwys Llantysilio greu cryn siomedigaeth ymysg y saint yn Lerpwl, sicrha'r gohebydd mai 'oddi ar y serch puraf' y penderfynodd Annie Davies roi ei thad i orffwys mewn man 'hynod' a 'rhamantus', nad oedd nepell o'i chartref ar lan afon Menai. Nodir yn ogystal i Henry Rees sôn sawl gwaith y carai gael ei gladdu ar yr ynys. Ymddengys fod Mary Rees, mam Annie, yn cyd-fynd â'r penderfyniad ac iddi symud i fyw o Lerpwl at ei merch. Ni sonia Owen Thomas air am hyn yn y crynodeb byr a geir am angladd Henry Rees yn y cofiant.

[4] Richard Davies (1818-1896). Masnachwr a pherchennog llongau a ddaeth yn aelod seneddol dros Fôn, a'r Ymneilltuwr cyntaf i'w ethol yn ynad heddwch yn Sir Fôn. Fe'i penodwyd yn siryf yr ynys ac yna'n Arglwydd Raglaw. Priododd Anne (neu Annie) Rees, merch Henry Rees, yn 1855, a bu'r ddau yn byw ym Mhorthaethwy cyn symud i'r Benarth, ger Conwy, ac yna Dreborth. Fe'i claddwyd, fel ei dad-yng-nghyfraith, ym mynwent Llantysilio, Porthaethwy. Gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t.137; 'Aelodau Seneddol Cymru – Richard Davies, Benarth', *Trysorfa y Plant*, viii (1869), 113-15.

[5] Gw. y drafodaeth estynedig ar y cofiant hwn ym mhennod 3.

[6] '1890', *Y Goleuad*, 25 Rhagfyr 1890, 8.

[7] Gw. '*Cofiant y Parchedig Henry Rees*', *Y Goleuad*, 24 Gorffennaf 1890, 10; 'Hanes bywyd y diweddar Barchedig Henry Rees . . . Rhan I', *Y Drysorfa* (1889), 300; Griffith Ellis, 'Cofiant y Parchedig Henry Rees', *Y Traethodydd* (1890), 455.

gyfrol oedd eiddo Griffith Ellis, Bootle yn *Y Traethodydd*.[8] Er gwaetha'i honiad mai '*Cofiant* Mr Rees, ac nid Mr Rees' fyddai testun yr adolygiad, byr a chyffredinol ar y cyfan yw'r sylwadau ar grefft Owen Thomas fel cofiannydd.[9] Ac fel y gellid disgwyl, ni cheir dadansoddi beirniadol ar y darlun o'r gwrthrych sy'n ymrithio o'i flaen wrth ddarllen y cofiant. Eto, fel y gwelir maes o law, nid yw'r adolygiad heb ambell sylw treiddgar, ac yn y cyfnod diweddar nid yw cofiannydd modern Owen Thomas, sef D. Ben Rees, yntau yn cynnig trafodaeth estynedig ar y gyfrol.[10] Yn wir, o ddarllen ei sylwadau, daw'n amlwg fod y cofiant yn cymharu yn anffafriol gyda'r cofiant i John Jones, Tal-y-sarn. Ar oedran Owen Thomas a'i brysurdeb, ynghyd ag ymyrraeth teulu Treborth, y rhydd D. Ben Rees y bai nad yw'r ail gofiant cystal â'i ymgais gyntaf. Fel y gwelir, y mae cymharu'r ddau gofiant yn elfen anochel braidd yn y trafodaethau a geir ar y gyfrol, ond tuedda mwyafrif yr adolygiadau i osgoi rhoi barn bendant parthed rhagoriaeth y naill neu'r llall.[11] Mewn pwt yn *Y Goleuad*, yn fuan wedi i'r gwaith ddechrau ymddangos yn rhannau, noda un gohebydd nad oedd

> er's blynyddoedd wedi cael cymaint o bleser wrth ddarllen unrhyw lyfr ag wyf yn gael wrth ddarllen hwn. Mewn rhai cyfeiriadau, y mae i'm teimlad i yn rhagori ar Gofiant y Parch. John Jones, er hwyrach mai mwy priodol fuasai rhestru y ddau mewn dosbeirth gwahanol.[12]

---

[8] Ibid., 455-69.
[9] Ibid., 456.
[10] D. Ben Rees, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979). Fel y gwelir o'r bennod 'Y cofiannydd' (tt.207-45), wedi rhai sylwadau rhagarweiniol, nid oes gymhariaeth rhwng y drafodaeth ar *Cofiant John Jones, Talsarn* (tt.213-40) â'r drafodaeth fer ar *Cofiant Henry Rees* (tt.240-5). Ychydig mwy na thudalen a hanner a neilltuir i'r drafodaeth ar y gyfrol yng nghofiant J. J. Roberts (Iolo Carnarvon), *Cofiant y Parchedig Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon, [1912]) (gw. tt.529-31). Nis enwir hyd yn oed yn astudiaeth ei ŵyr ei hun, Saunders Lewis, o'r cofiant Cymraeg (Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', yn *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), tt.341-56), yn bennaf oherwydd y gwêl gyhoeddi *Cofiant John Jones, Talsarn* yn 1874 fel terfyn oes aur y cofiant Cymraeg.
[11] Wrth gwrs, nid yw'r astudiaeth hon ychwaith yn ymwrthod â'r demtasiwn i gymharu'r ddau gofiant. Yn wir, gall cymhariaeth fod yn elfen ddefnyddiol wrth gynnig dadansoddiad o *Cofiant Henry Rees*. Serch hynny, prif nod y bennod hon yw ymdrin â'r gyfrol fel cofiant yn ei hawl ei hun gan geisio osgoi'r duedd i'w thrafod yn unig yng nghysgod y cofiant arall.
[12] 'Nodion Cymreig', *Y Goleuad*, 2 Ionawr 1890, 4. Eto, bron i flwyddyn yn ddiweddarach, â'r cofiant wedi ei gyhoeddi'n llawn, dywed gohebydd *Y Goleuad* yn blaen nad yw *Cofiant Henry Rees* cyn bwysiced â'r cofiant i John Jones (gw. '1890', 8). Tebyg nad yr un oedd awdur y ddau sylw). 'Yr ydym

Nid syndod mo hynny, efallai, o gofio lledneisrwydd adolygiadau Fictoraidd o'r fath, a'r ffaith fod Owen Thomas ei hun yn fyw ar y pryd ac yn un o brif arweinyddion y Cyfundeb. Serch hynny, er y canmol gofalus ar y ddau gofiant, ceir yr argraff mai cofiant John Jones sy'n cael y llaw uchaf.[13] Ddau ddegawd yn ddiweddarach, bu cofiannydd Owen Thomas ychydig yn fwy mentrus. Er nad yw mor blaen ei farn â D. Ben Rees, nododd Iolo Carnarvon fod y 'farn gyffredinol' yn ffafrio'r cofiant cyntaf. Eto, y mae yntau'n ofalus i bwysleisio nad oedd hynny yn arwydd o 'ddirywiad yn y Cofiantydd'.[14] Yn hytrach, dywed fod y deunydd cyd-destunol sydd yn *Cofiant John Jones, Talsarn* yn rhoi cefndir ystyrlon a diddorol i fywyd y gwrthrych, megis y bennod ar y dadleuon diwinyddol ac oriel anfarwolion y pulpud Methodistaidd. Yn ogystal, ymddengys fod y gwahaniaeth rhwng y ddau wrthrych yn elfen bwysig, ac awgryma Iolo Carnarvon fod gwell deunydd i gofiant ym mywyd John Jones, gan mai pregethwr, a phregethwr yn unig, ydoedd: 'Y mae yn hollol naturiol hefyd', meddai, 'fod mwy o *human-interest* yn hanes hen wron Talysarn, nac ym mywyd y sant oedd yn byw ar ffiniau deufyd.'[15] Byrdwn y bennod hon, felly, fydd cynnig y dadansoddiad manwl cyntaf ar y cofiant hwn, gan dalu sylw arbennig i bortread cofiannol Owen Thomas, a'r berthynas ddeongliadol rhwng y cofiannydd a'r gwrthrych. Ac fel y gwelir maes o law, y mae cymhariaeth Iolo Carnarvon uchod yn arwyddocaol iawn wrth ystyried llwyddiant y portread canolog a gyflwynir. Yn gyntaf, fodd bynnag, y

---

yn naturiol', meddai Griffith Ellis, Bootle yntau, 'yn cymharu y Cofiant hwn a Chofiant Mr John Jones gan yr un awdur', ond noda nad oes modd dewis p'run yw'r gorau gan fod 'yr un nodweddion a rhagoriaethau yn y naill a'r llall' (Ellis, 'Cofiant y Parchedig Henry Rees', 455). Tebyg yw sylw adolygydd *Y Goleuad*, nad yr un oedd meysydd y ddau gofiant ac felly nad oes modd eu cymharu ('*Cofiant y Parchedig Henry Rees*', *Y Goleuad*, 6 Chwefror 1890, 10).

[13] Er enghraifft, disgrifia adolygydd *Y Drysorfa* y cofiant i John Jones, Tal-y-sarn fel 'llyfr hollol ar ei ben ei hun', cyn ychwanegu y bydd y cofiant i Henry Rees yn 'gydymaith-gofiant' iddo ('Hanes bywyd y diweddar Barchedig Henry Rees . . . Rhan I', 301). Mae'n werth nodi, fodd bynnag, nad oes sôn am *Cofiant John Jones, Talsarn* yn yr adolygiad yn *Y Goleuad*, 24 Gorffennaf 1890 nac yn yr adolygiad a geir ar y gyfrol yn 'Nodiadau Llenyddol', *Y Traethodydd* (1890), 167-70.

[14] Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.529-30.

[15] Ibid., t.530.

mae'n rhaid dychwelyd at y broses faith a chymhleth o lunio'r cofiant, sy'n gosod cyd-destun pwysig i ddehongliad Owen Thomas o fywyd Henry Rees.

## 4.1. 'MAE YN WIR RESYNUS NA DDAETHAI ALLAN ER YSTALM': LLUNIO'R GYFROL

Megis *Cofiant John Jones, Talsarn* bu cryn ddisgwyl am gofiant i Henry Rees, un o gewri'r enwad. Ac megis ei ragflaenydd, beirniadwyd hwyrfrydigrwydd cyhoeddi *Cofiant Henry Rees* ar ei ymddangosiad yn 1890. 'O'r diwedd', ebychodd Griffith Ellis wrth agor ei adolygiad ar y gwaith, a gellir synio ei fod yn lleisio rhwystredigaeth nifer. Yn wir, dros ugain mlynedd wedi ei farwolaeth, yr oedd sawl aelod o deulu'r gwrthrych, ei gyfeillion a'i gyd-weinidogion wedi huno erbyn i'r gyfrol ymddangos.[16] Ac megis clasur 1874, ymddengys nad proses hawdd a didrafferth i'r awdur ydoedd llunio'r cofiant i Henry Rees.

Y mae'n amlwg nad oedd Owen Thomas yntau'n ddall i'r feirniadaeth fod y gwaith yn hwyr iawn yn gweld golau dydd. Dyma sy'n egluro pam ei fod yn neilltuo cyfran o'r rhagymadrodd i gyfrol gyntaf *Cofiant Henry Rees* er mwyn ymdrin yn benodol â'r oedi a fu. Er mai cyfiawnhau ei achos ei hun a wna gan mwyaf, rhydd wybodaeth ddiddorol am y cyfnod y bu'n llafurio ar y gyfrol. O'r ugain mlynedd a aeth heibio ers marwolaeth Henry Rees, ymddengys mai am wyth mlynedd yn unig y

[16] Ellis, 'Cofiant y Parchedig Henry Rees', 455. Gw. Hefyd 'Hanes bywyd y diweddar Barchedig Henry Rees . . . Rhan I', 300. Cyhoeddwyd rhannau cyntaf y gyfrol yn 1890, a chyhoeddwyd y gyfrol gyfan mewn dwy ran cyn diwedd y flwyddyn. Bu farw Henry Rees yn 1869. Tri ffigwr amlwg a fu farw cyn cyhoeddi'r cofiant oedd William Rees (Gwilym Hiraethog) (1802-1883), Roger Edwards (1811-1886) a Lewis Edwards (1809-1887).

bu Owen Thomas yn gysylltiedig â'r gwaith, ac mai am bedair blynedd o'r wyth y cafodd yr hamdden i weithio 'gydâ chryn egni' ar y gyfrol. Bu hynny yng nghanol sawl gorchwyl ac addewid arall, ac yn wyneb o leiaf un pwl difrifol o waeledd.[17] Unwaith eto, felly, mae'n amlwg nad Owen Thomas a fwriadwyd yn wreiddiol i lunio'r cofiant hwn ychwaith.[18] Ond yn wahanol i *Cofiant John Jones, Talsarn*, ymddengys na ellir dal y cofiannydd yn gwbl gyfrifol am 'yr achos o hir oedi' a fu ynglŷn â'r gyfrol. Er na rydd fanylion am hynt y gyfrol cyn gwanwyn 1883, mae'n mynd ati i amddiffyn Annie a Richard Davies, Treborth rhag honiad yn y wasg mai arnynt hwy yr oedd y bai. Yn wir, dywed Owen Thomas '[f]od yr oediad wedi bod, iddynt hwy, yn achos mwy o ofid meddwl nag odid ddim a'u cyfarfuant erioed' (I, v). Yn ffodus, mae astudio cyfnodolion a newyddiaduron y cyfnod, ynghyd â'r casgliad o lythyrau at y cofiannydd oddi wrth deulu Treborth sydd ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn bwrw rhagor o oleuni ar hynt a helynt yr hanes, ac yn golygu bod modd dod i rai casgliadau ynglŷn â phrosesau cofiannol Owen Thomas.[19]

Yng Nghymdeithasfa Beaumaris, Môn, y gyntaf i'w chynnal wedi marwolaeth Henry Rees, argymhellwyd y dylid llunio cofiant i'r cawr bregethwr ynghyd â chyhoeddi ei bregethau a'i weithiau ysgrifenedig. Yn ôl yr adroddiad yn *Baner ac Amserau Cymru*, awgrymwyd enwau pedwar pregethwr amlwg i fynd ati i ohebu a threfnu'r cynllun, sef Lewis Edwards, Roger Edwards, Edward Morgan ac Owen

[17] Sonia yn benodol na fu modd iddo weithio ar y gyfrol am rai misoedd wedi cyfnod o afiechyd yn Hydref 1887.
[18] Gw. hanes llunio *Cofiant John Jones, Talsarn* ym mhennod 3 y traethawd hwn, tt.147-56.
[19] Casgliad o 23 llythyr sydd ar gadw o'r ohebiaeth, a hynny'n cynnwys deg llythyr oddi wrth Annie Davies ac 13 llythyr oddi wrth ei gŵr, Richard Davies. Er mai gohebiaeth unochrog ydyw, mae'n bur werthfawr serch hynny. Mae'r llythyrau yn rhychwantu ugain mlynedd i gyd, er bod y mwyafrif ohonynt yn perthyn i'r 1880au a throad y 1890au. Y llythyr cynharaf yn y casgliad yw llythyr gan Richard Davies ychydig ddyddiau yn unig wedi marwolaeth Henry Rees. Ymateb y mae i lythyr gan Owen Thomas a oedd yn ymddiheuro am na allai fynychu'r angladd oherwydd gwaeledd. LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 11, oddi wrth Richard Davies (24 Chwefror 1869). Gw. hefyd *CHR*, t.902. Hyd y gwyddys, nid yw llythyrau Owen Thomas at deulu Treborth wedi goroesi.

Thomas.[20] Serch hynny, ar Roger Edwards y disgynnodd y cyfrifoldeb dros y gwaith. Fel y nododd Owen Thomas ei hun yn y cofiant (902), nid oedd yn bresennol ym Meaumaris oherwydd gwaeledd, a thebyg mai'r ffaith hon, yn ogystal â'i brysurdeb gyda'r cofiant i John Jones, a fu'n gyfrifol am hynny. Erbyn Cymdeithasfa Dinbych ym Mehefin 1869, nodwyd bod '"y Parchn Dr. William Rees, Lerpwl [brawd Henry Rees], a Roger Edwards, Wyddgrug wedi eu pennodi gan deulu Mr. Rees i ddwyn allan ei Gofiant"'.[21] Roger Edwards, wrth gwrs, a olygodd y tair cyfrol o bregethau a chynghorion Henry Rees a gyhoeddwyd rhwng 1870 a 1881.[22] Y mae'n amlwg iddo ef a Gwilym Hiraethog ddechrau ar gofiant, ond hyd y gwyddys ni oroesodd unrhyw eglurhad ynglŷn â pham na ddaeth y gwaith i'r fei.[23] Ddeng mlynedd yn ddiweddarach ymddengys fod y teulu wedi hen flino ar ddisgwyl am gofiant, a bod Richard Davies ei hun bellach wedi cymryd gofal am y gwaith.[24] Ar 14 Mawrth 1881 ysgrifennodd at Owen Thomas yn holi a fyddai'n ymgymryd â llunio'r cofiant, gan ei fod yn un 'that knew him more intimately than nearly every one else'.[25] Fel y trafodwyd yn ail bennod y traethawd hwn, yr oedd Richard Davies yn bur agos i'w le

---

[20] 'Cymdeithasfa Beaumaris', *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Ebrill 1869, t.7.

[21] T. M. Jones, *Cofiant y Parch. Roger Edwards, Yr Wyddgrug, yn cynnwys ei waith dyddorol 'Y Tri Brawd a'u Teuluoedd'* (Gwrecsam, 1908), t.129. Yn Atodiad y cofiant, cadarnha Owen Thomas y trefniant hwn ond noda na fu'n llwyddiannus (*CHR*, t.1070).

[22] *Pregethau, gan Henry Rees, Liverpool: y gyfrol gyntaf* (rhagymadrodd gan Roger Edwards) (Treffynnon, 1872); *Pregethau, gan Henry Rees, Liverpool: yr ail gyfrol*, gol. Roger Edwards (Treffynnon, 1875); *Pregethau, cynghorion gweinidogaethol ac anerchiadau, gan y diweddar Barchedig Henry Rees, Liverpool: y drydedd gyfrol*, gol. Roger Edwards (Treffynnon, 1881). Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn 1872 ond ymddangosodd y rhannau cyntaf yn 1870.

[23] Flwyddyn wedi Cymdeithasfa Dinbych, nodir yn ei gofiant fod Roger Edwards yn hysbysu Cymdeithasfa Dolgellau ei fod wrthi'n llunio'r cofiant ac y byddai'n falch o gael unrhyw ddeunydd a chymorth wrth ei baratoi. Ond ni rydd yr awdur, T. M. Jones, unrhyw reswm pam na welodd y cofiant olau dydd. Yn wir, y mae'n ymatal rhag manylu ar yr amgylchiadau (Jones, *Cofiant y Parch. Roger Edwards*, t.129).

[24] Mae adroddiad y Gymdeithasfa Chwarterol a gynhaliwyd ym Mhorthaethwy yn niwedd 1880 yn *Y Genedl Gymreig* yn tystio bod rhai'n anesmwytho oherwydd yr oedi a fu. Cytunwyd i anfon at Roger Edwards er mwyn ei annog i gyhoeddi'r drydedd gyfrol o bregethau cyn gynted â bod modd, a mynegwyd llawenydd y Gymdeithasfa oherwydd bod Richard Davies bellach 'wedi cymryd y cofiant i'w law ei hun'. Gw. *Y Genedl Gymreig*, 16 Rhagfyr 1880, 7; *Y Goleuad*, 18 Rhagfyr 1880, 8. 'Goreu po gyntaf', yw ymateb gohebydd *Y Goleuad* i sylw Richard Davies ei fod yn ffyddiog y caed cofiant i Henry Rees 'cyn hir'.

[25] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 12, oddi wrth Richard Davies (14 Mawrth 1881).

wrth ddisgrifio'r berthynas glòs rhwng Owen Thomas a Henry Rees. Bu'r ddau gyfaill yn cyd-weinidogaethu yn Lerpwl am gyfnod, ac mae'n debygol iawn fod enw Owen Thomas fel awdur *Cofiant John Jones, Talsarn* wedi dylanwadu cryn dipyn ar benderfyniad teulu Treborth, yn ogystal. Er iddo ddwys ystyried, derbyniodd Owen Thomas y gwahoddiad, a hynny'n bennaf oherwydd galwadau taer y teulu a chyfeillion eraill, ynghyd â'i gred yntau y byddai'n resyn gadael y cawr bregethwr hwn heb gofiant, er gwaetha'i amheuon a allai 'wneyd dim tebyg i gyfiawnder â rhagoriaethau neillduol ac arbenig' y gwrthrych (I, vi). Dywed iddo wneud hynny yng ngwanwyn 1883, ond iddo roddi amod y cwblhâi ryw 'waith arall' yn gyntaf. Yn ôl ei addefiad ei hun, gorffennwyd y gwaith amgen hwn erbyn dechrau 1886, ac felly yr oedd yn rhydd i weithio ar y cofiant.[26]

Serch hynny, ymddengys nad oedd y sefyllfa mor syml â'r argraff a rydd y cofiannydd yn rhagymadrodd cyfrol gyntaf y cofiant. Yn gyntaf, mae'n amheus a fyddai Richard Davies wedi aros hyd wanwyn 1883 cyn cael ateb gan Owen Thomas. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu ei bod yn fwy tebygol mai yn 1881 y cytunodd i lunio'r cofiant. Mewn llythyr dyddiedig 20 Mawrth 1881,[27] brin wythnos wedi gwahoddiad Richard Davies, mae Annie Davies yn mynegi ei llawenydd fod Owen Thomas yn bwriadu ymweld â hwy er mwyn iddynt gael cyfle i drafod 'this most

[26] Tebyg mai'r gwaith hwn oedd ei gyfieithiad o Feibl Darluniadol John Kitto, gwaith a'i cadwodd yn brysur hyd o leiaf 1882, ac a lesteiriodd ei waith ar gofiant John Jones, Tal-y-sarn yn ogystal. Fe gyhoeddwyd y gwaith yn rhannau o ddechrau'r 1870au. Er bod D. Ben Rees yn nodi ei fod wedi gorffen y gwaith erbyn 1882 (gw. *Pregethwr y Bobl*, t.282), ni chyhoeddwyd cyfrol gyntaf *Y Beibl Darluniadol: y Testament Newydd: yn cael ei egluro a sylwadau gwreiddiol, gan John Kitto; ynghyda lluaws o nodiadau ychwanegol* gan wasg Hughes a'i Fab hyd ddiwedd 1885. Eto, fe gyhoeddwyd yr esboniad maith ar yr Hebreaid fel cyfrol ar wahân yn 1889. Gw. *Nodiadau Deongliadol ac Ymarferol ar yr Epistol at yr Hebreaid* (Wrecsam, 1889). Gw. hefyd Thomas Bassett, *Braslun o Hanes Hughes a'i Fab, Cyhoeddwyr Wrecsam* (Croesoswallt, 1946), t.36.

[27] Nid yw'r llythyr yn nodi'r flwyddyn, ond gellir dyfalu mai 1881 ydyw. Sonia Annie Davies am gwrdd ag Owen Thomas ddydd Llun, 28 Mawrth. Yn y 1880au, yn y flwyddyn 1881 ac 1887 yn unig y disgynnodd 28 Mawrth ar ddydd Llun.

*vexed* subject of my dear father's memoirs'.[28] Ymhellach, tybed ai cyd-ddigwyddiad ydyw bod Owen Thomas wedi traddodi 'darlith ragorol' ar Henry Rees yng nghapel Princes Road yn Rhagfyr 1881, ac mai'r cadeirydd y noson honno oedd neb llai na Richard Davies ei hun? Yn ail, mae'n debyg bod rhan gyntaf y cofiant, yn llaw Gwilym Hiraethog,[29] eisoes wedi ei gwblhau,[30] ond nad oedd Annie a Richard Davies yn fodlon o gwbl gyda'r gwaith. Yn ei llythyr cyntaf at Owen Thomas, mae Annie Davies yn bwrw peth goleuni ar y sefyllfa sensitif a oedd ohoni:

> It has struck me that I did not mention to you my great anxiety that it should *not* be known *to any one* that we feel disappointed in the manuscripts of the first part of the memoir written by my Uncle . . . I should be so sorry for Uncle to be in any way hurt or vexed about it. I have written to-day to Mr R. Edwards making . . . suggestions. I shall wait his reply with deep anxiety.[31]

Mae'n amlwg, felly, y gwyddai Roger Edwards am farn y teulu ar y gwaith, ond na ddywedwyd dim wrth Gwilym Hiraethog ar y pryd. Nid yw Annie Davies yn manylu ynglŷn â gwendidau'r rhan gyntaf hon, oddieithr datgan, mewn llythyr arall, ei phryder am anhrefn y deunyddiau.[32] Yn atodiad ail gyfrol *Cofiant Henry Rees*, dywed Owen Thomas na wyddai am fodolaeth y gwaith wrth fynd ati i ddechrau ar y

[28] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 2, oddi wrth Annie Davies (20 Mawrth [1881]).
[29] Mae copi llawysgrif o'r rhan gyntaf hon wedi goroesi, ac fe'i cedwir ymysg Archifau'r Methodistiaid Calfinaidd [CMA] yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. LlGC, CMA, Coleg y Bala 1, llsg. 256, 'Atgofion am y Parch Henry Rees, by the Revd William Rees – Gwilym Hiraethog'.
[30] Yn un o'i lythyrau at Owen Thomas, atgoffir Richard Davies o'r tro yr hysbysodd Roger Edwards ef fod rhan gyntaf y cofiant yn barod a gofyn iddo baratoi'r darlun o Henry Rees yn ddioed ar gyfer y cyhoeddiad, er na ddywed pryd y bu i hyn ddigwydd. LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 16, oddi wrth Richard Davies (21 Chwefror 1889).
[31] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 1, oddi wrth Annie Davies. Mae'r llythyr yn ddiddyddiad, ond gellir maentumio iddo gael ei lunio tua'r un pryd ag y cysylltwyd ag Owen Thomas gyntaf ynglŷn â pharatoi'r cofiant.
[32] 'The materials', meddai 'seem to me in *dire* confusion, but I am not literary myself and cannot be expected to understand the condition of matters in which another can work best! – I am speaking of the materials as they came from Mr Roger Edwards.' LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 2, oddi wrth Annie Davies (20 Mawrth [1881]).

cofiant.[33] Eto, byddai'n ymwybodol fod gan deulu Treborth, ac Annie Davies yn arbennig, safonau pendant parthed cynnwys y cofiant.

Erbyn y1880au hwyr yr oedd y wasg yn holi cwestiynau yn ogystal. Yn Nhachwedd 1887, y mae'n debyg,[34] yr ymddangosodd cyfeiriad at hwyrfrydigrwydd y cofiant yn y *British Weekly* a haerai mai ar gais Annie Davies ei hun y bu'r oedi.[35] Parodd yr honiad gryn loes iddi, a'i gwylltio'n gacwn, a chawn flas ar ei rhwystredigaeth wrth iddi sôn am '[the] *one* long bitter disappointment . . . that has been this non appearance of my father's memoirs and my own *utter helplessness in the matter*'. Dengys ei llythyr nesaf yn amlwg ar bwy y gwelai y bai, 'because we waited, *like fools* all those years for Mr Roger Edwards'.[36] Y mae'n ddiddorol mai'r pwt hwn yn y *British Weekly* yw'r ffynhonnell gyntaf, hyd y gwyddys, sy'n enwi Owen Thomas yn uniongyrchol fel awdur y cofiant. Dyfynnwyd eisoes yn yr astudiaeth hon sylwadau un sylwebydd, o dan y pennawd 'Cofiantau' yn *Y Goleuad*

---

[33] Dyfynnir sylwadau gan Gwilym Hiraethog am Henry Rees fel pregethwr yn Atodiad y cofiant (*CHR*, tt.1070-9). Wrth gyflwyno'r sylwadau, dywed Owen Thomas mai darn ydoedd o'r cofiant arfaethedig i'w frawd, a gadwyd gan Gwilym Hiraethog wedi i'r cynllun fynd i'r gwellt. Dywed Owen Thomas na wyddai am fodolaeth y sylwadau 'hyd nes yr anfonwyd hwynt gan ei fab hynaf, Mr Ebenezer Rees, i ni' (t.1070).

[34] Cyfeirir at y digwyddiad mewn dau lythyr. Er na nodir y flwyddyn, mae'r ddau lythyr, dyddiedig 5 a 11 Tachwedd, yn cyfeirio at waeledd Owen Thomas. Bu'n wael iawn rhwng misoedd Hydref a Rhagfyr 1887 fel y nododd ei hun yn y cofiant (*CHR*, I, vi). Mae'n amlwg iddo fod yn wael ddwywaith yn ystod y flwyddyn honno. Gw. hefyd *Y Goleuad*, 24 Rhagfyr 1887, 8; *Y Goleuad*, 19 Chwefror 1887, 12.

[35] Yn ei llythyr, dyddiedig 5 Tachwedd [1887], cyfeiria Annie Davies at yr 'extraordinary paragraph', ac meddai: 'The paragraph is on page 7 and commences with a reference to your illness and convalescence and then adds. "It is intimated that he hopes soon to publish the life of the late Henry Rees. The long delay is said to have occurred through the expressed wish of Mr Rees' daughter, Mrs Davies, wife of the L[ord] L[ieutenant] of Anglesey, who has at length consented to the publication"' (LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 5, oddi wrth Annie Davies (5 Tachwedd [1887])). Ymddengys nad Richard Davies oedd yr unig fab-yng-nghyfraith i flino aros wrth bregethwr blaenllaw am gofiant. Nodir bod Griffith Parry wedi ei benodi ers 15 mlynedd i lunio cofiant i David Jones, Treborth, ond na ddaeth dim i law, a bod ei feibion-yng-nghyfraith bellach wedi penderfynu llunio'r gyfrol. Un o'r rhain, sef D. Charles Evans, Porthaethwy oedd awdur y cofiant pan ymddangosodd. Gw. *Adgofion am y Diweddar Barchedig David Jones, Treborth; yn cynwys crynhodeb o hanes ei fywyd* (Dolgellau, 1886).

[36] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 6, oddi wrth Annie Davies (11 Tachwedd [1887]). Noda y byddai'n ysgrifennu at y papur yn ei hamddiffyn ei hun rhag y 'base falsehood' hwn, ond na all ymddiried ynddi ei hun, ac felly mae'n erfyn ar Owen Thomas i ymateb ar ei rhan. Noda, yn ogystal, ei bod am ysgrifennu at Ellis Edwards, mab hynaf Roger Edwards, ynglŷn â'r mater. Yr oedd Roger Edwards ei hun wedi marw yng Ngorffennaf 1886. Tybed a amheuai Annie Davies mai teulu y gŵr o'r Wyddgrug a oedd yn gyfrifol am yr honiad?

cyn gynhared ag Ebrill 1882, a alwodd am gael cofiannau i nifer o wŷr blaenllaw, ynghyd â mynegi'i farn bod 'Boswell' yn gofalu am gofiant i Henry Rees.[37] Chwe mis wedi'r nodyn yn y *British Weekly*, datganodd y *Genedl Gymreig* yn gwbl ddiamwys fod Owen Thomas ar fin cyhoeddi'r cofiant,[38] er y bu'n rhaid aros am flwyddyn arall cyn i'r gyfrol gyntaf weld golau dydd. Ymhellach, tybed nad oedd Owen Thomas am osgoi sathru ar gyrn y ddau awdur gwreiddiol gyda'r gwaith. Dywed yn rhagymadrodd y cofiant mai yn 'ddioed' wedi taith i Lansannan yng ngwanwyn 1883 yr ysgrifennodd y bennod gyntaf 'megis ag y mae yn awr wedi ei hargraffu' (I, vi). Eto, o ddarllen y bennod, daw'n amlwg mai yn Hydref y flwyddyn honno y'i lluniwyd, rhyw dair wythnos cyn i Wilym Hiraethog farw.[39] Tebyg mai cyd-ddigwyddiad arall yw'r ffaith i Owen Thomas ddatgan iddo ymroi o ddifrif i ysgrifennu'r gyfrol yn 1886, y flwyddyn y bu farw Roger Edwards, er gwaetha'r ffaith ei fod yn nodi'n ddiamwys mewn un man yn y cofiant mai rhwng 1884 a 1888 yr ysgrifennwyd corff y gwaith.[40] Er na ellir ond maentumio yma, mae'r ffeithiau hyn yn ddiddorol, serch hynny.[41] Yn sicr, byddai Owen Thomas wedi teimlo'n fwy rhydd

---

[37] 'Cofiantau', *Y Goleuad*, 8 Ebrill 1882, 10. Y mae'n anodd gwybod a wyddai'r gohebydd hwn ar y pryd am benderfyniad Owen Thomas i ymgymryd â'r gwaith neu ai cyfeirio yn gyffredinol at unrhyw gofiannydd ydoedd. Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'n amlwg na wyddai gohebydd o'r enw B—J—E— yn *Y Goleuad* mai Owen Thomas oedd yr awdur, wrth iddo resynu na ddaeth y cofiant i law a datgan 'y byddai o fewn ein cyrraedd, a hyny mewn byr amser, fywgraffiad cryno a gwir deilwng o "Dywysog Pregethwyr Cymreig"' pe rhoddid y gwaith yn llaw Owen Thomas neu John Hughes, Caernarfon (*Y Goleuad*, 23 Hydref 1886, 4). Ni wn sut y gallai synio y byddai Owen Thomas yn llunio cofiant 'cryno' mewn 'byr amser' ychwaith.

[38] *Y Genedl Gymreig*, 20 Mehefin 1888, 17.

[39] Noda yn y rhagymadrodd iddo ysgrifennu'r bennod gyntaf yn 1883 (*CHR*, I, vi). Cadarnheir hyn yn y rhan o'r bennod sy'n ymdrin â theulu Henry Rees, pan ddywed fod Gwen, ei chwaer, yn 'fyw eto (Hydref, 18, 1883), gerllaw Dinbych' (*CHR*, t.6). Sonnir yn ogystal am William Rees (Gwilym Hiraethog), ei frawd, fel pe bai eto'n fyw yn y bennod, er y ceir nodyn sy'n egluro iddo farw 'yn fuan iawn wedi ysgrifennu y llinellau uchod . . . ar ddydd blwydd ei enedigaeth, dydd Iau, Tachwedd 8, 1883' (t.9).

[40] Gwneir yr honiad wrth iddo nodi yn y cofiant y dylai'r darllenwyr ystyried wrth ddarllen y gwaith mai cyfnod ysgrifennu'r gyfrol, ac nid cyfnod cyhoeddi'r gyfrol, yw amser presennol naratif y cofiant (ibid., t.245).

[41] Yn ei sylwadau ar Gwilym Hiraethog, nid yw Owen Thomas yn awgrymu o gwbl ei fod yn byw ar lan y bedd. Yn wir, noda i'r gwrthwyneb nad oes arno, er gwaethaf ei bedwar ugain mlynedd, 'ond ychydig o arwyddion henaint' (ibid., t.8). Noda yn ogystal mai ond am rai dyddiau y bu Hiraethog yn wael cyn marw (t.9). Serch hynny, mae awduron cofiant Hiraethog yn sôn am obeithion rhai 'yn ystod

i lunio'r gyfrol wedi i'r ddau awdur gwreiddiol gilio o'r maes, ond golygodd hefyd ei fod yn gweithio yn unol ag amserlen dynn yn ôl ei safonau ei hun ac i'r cofiant ddioddef o'r herwydd. Megis ei gofiant cyntaf, felly, ymateb i amgylchiadau penodol a wnaeth Owen Thomas y cofiannydd, ac ymddengys fod hynny'n arwyddocaol o safbwynt dehongliad yr awdur o'i wrthrych, ynghyd â llwyddiant artistig y cofiant a gyflwynwyd yn y pen draw.

## 4.2. 'I'W RODDI YN NWYLAW POB PREGETHWR YN EIN PLITH': BWRIADAU'R AWDUR

Os oedd tuedd i gyfrif y cofiant hwn yn ail i *Cofiant John Jones, Talsarn*, nid oedd yn ail i neb arall. Gwelwyd eisoes iddo dderbyn cryn groeso ar y pryd, a bod Annie Davies yn fodlon â'r gwaith. Yn wir, yr oedd yn fwy na bodlon. Yn naturiol ddigon, yr oedd gan Annie Davies feddwl mawr o'i thad. Er gwaethaf gormodiaith Oes Fictoria, dengys ei gohebiaeth at Owen Thomas yn ddiamwys y credai fod Henry Rees yn sant a bod y portread a gyflwynwyd ohono yn addas a chywir. Mewn llythyr a ysgrifennwyd yn fuan wedi iddi ddarllen y cofiant gorffenedig, er enghraifft, sonia am ei llawenydd fod Owen Thomas wedi llwyddo i bortreadu ei thad yn union fel ag yr ydoedd, a bod rhai o'r llythyrau a dderbyniodd yn dilyn cyhoeddi'r cofiant yn profi cywirdeb y darlun a gynigiwyd: 'it has been a true and living picture of his own

---

y pythefnos olaf' y byddai'n gwella o'i gystudd. T. Roberts a D. Roberts, *Cofiant y Parch. W. Rees, D.D. (Gwilym Hiraethog)* (Dolgellau, [1893]), t.498.

saintly self that you have been able to give.'[42] Mae'n bur amlwg, felly, y byddai am i'w gofiant adlewyrchu'r darlun santaidd hwn, ac mai'r dyma'r portread canolog a fyddai'n mesur llwyddiant a safon y gwaith yn ei golwg. Cyfyd hyn yn ei dro gwestiynau am fwriadau cofiannol Owen Thomas ei hun wrth ymdrin â'i wrthrych, ac i ba raddau y teimlai yntau mai cofiant llwyddiannus a 'chywir' a gyflwynwyd ganddo yn y pen draw. Gwelwyd eisoes fod i Annie a Richard Davies ran nid anarwyddocaol yn lluniad y gyfrol. Tasg anodd yw canfod beth yn union oedd dylanwad teulu Treborth ar y cofiant, er bod yr ohebiaeth sydd ar gadw rhyngddynt ac Owen Thomas yn rhoi ambell awgrym yma a thraw ac yn bwrw goleuni ar eu cysylltiad gyda'r gyfrol. Yn sicr, mae naws gyfeillgar a chynnes y llythyrau yn arwydd o'r agosatrwydd a fodolai rhwng y cofiannydd a'r teulu, a'r caredigrwydd a dderbyniodd ganddynt. Bu'n aros gyda hwy yn Nhreborth sawl gwaith yn ystod y cyfnod y bu'n llunio'r cofiant, yn ogystal â'u gweld yn aml pan oedd yn pregethu neu'n mynychu cyfarfodydd cyfundebol yn yr ardal, neu ar deithiau Annie a'i gŵr i Lerpwl.[43] Fel yr awgrymwyd yn ail bennod yr astudiaeth hon, elfen naturiol yn y cyfnod oedd bod teuluoedd gwrthrychau yn gwahodd cyfeillion i lunio'r cofiannau, a chan nad oedd syniadau parthed gwrthrychedd cofianwyr Oes Fictoria mor ddatblygedig â'n heiddo ninnau heddiw, dibwynt fyddai cwestiynu didueddrwydd honedig yr awdur yma. Yn hytrach, y bwriad yw ceisio asesu faint o ddylanwad a gawsai Annie Davies ar ddehongliad cofiannol Owen Thomas o'i wrthrych.

---

[42] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 8, oddi wrth Annie Davies (19 Rhagfyr [1889]); LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 10, oddi wrth Annie Davies (diddyddiad, ond rhywbryd wedi Ebrill 1891).

[43] Yn un o'r llythyrau, er enghraifft, mae Annie Davies yn cynnig iddo ddod atynt am wyliau bach, ac mewn llythyr arall, trafodir yr anrheg gorau i'w roddi i'w ferch, Mary Margaret, ar achlysur ei phriodas â Lodwig Lewis. Gw. LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 7, oddi wrth Annie Davies (Chwefror 1889) a rhif 9 (15 Ionawr [1891]). Ceir pwt am hanes y briodas yn 'Newyddion Cymreig', *Baner ac Amserau Cymru*, 24 Ionawr 1891, 5, lle nodir bod 'yr anrhegion yn lliosog'.

Yn sicr, cawsai'r cofiannydd a'r teulu ddigon o gyfle i drafod y cofiant, ac fel y dywed Annie Davies ei hun yn un o'i llythyrau, 'speaking is better than writing'.[44] Eto, y mae ei gohebiaeth yn tystio i radd o ddylanwad ar luniad y cofiant, megis pan fynega'i hawydd i gynnwys hanes ei thad yn diolch i forwynion yng Nghymdeithasfa Llanidloes un tro: 'It was such a characteristic action. I should like it put in the memoir!'[45] Dyma enghraifft bendant ohoni'n lleisio'i bwriadau parthed yr hyn y dylid ei gael yn y cofiant, a gellir tybio bod awgrymiadau tebyg wedi eu gwneud ar lafar yn ogystal. Eto, mae'n bwysig nodi nad yw'r llythyrau hyn yn awgrymu dylanwad sylweddol na llwyr o du'r teulu. Y mae llythyrau Richard Davies, er enghraifft, yn ymwneud yn fwy ag allanolion y cofiant, megis delio gydag argraffwyr a materion hawlfraint,[46] ac yma fe ymddengys ei fod yn ddigon bodlon derbyn cyngor Owen Thomas.[47] Serch hynny, ni ellir ychwaith anwybyddu'r honiad a wnaethpwyd yn wreiddiol gan D. E. Jenkins, ac a ailadroddir gan D. Ben Rees, i Owen Thomas gyfaddef wrth Gwen Davies iddo orfod addasu ei gynlluniau i gydymffurfio â delfrydau a disgwyliadau teulu Treborth, ac iddynt ddifetha'r gyfrol o'r herwydd.[48] Yr oedd Gwen Davies, merch John Jones, Tal-y-sarn, yn un o braidd Owen Thomas yn Princes Road ac yr oedd y cofiannydd yn ymwelydd cyson â'i chartref ar ddiwedd y

---

[44] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 7, oddi wrth Annie Davies (Chwefror 1889).

[45] Yn ôl ei llythyr, gan Joseph Thomas, Carno y cafodd Annie Davies yr hanesyn hwn, a dywed ymhellach: 'I begged Mr Thomas to send you any thing he heard and knew – perhaps if you write to him yourself he might be more likely to do so – I could not myself discuss anything very definite.' LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 4, oddi wrth Annie Davies (10 Ebrill [1884]).

[46] Gw. ei lythyrau ef, LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhifau 12-23.

[47] Mewn un llythyr, trafodir cynnwys yr atodiad, a noda Richard Davies: 'I am very anxious to have any thing you think would help to make the '"Memoir" as complete as it can possibly be . . . now I will send the Ten pounds to Mr Gee for that right and also to Dr Parry what *you* think right for the use of the Charge.' LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 21, oddi wrth Richard Davies (22 Ionawr 1890). Gw. ymhellach LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 19, oddi wrth Richard Davies (3 Ionawr 1890), lle mae'n gofyn cyngor Owen Thomas ynglŷn ag ateb llythyr Thomas Gee.

[48] Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.240. Gw. D. E. Jenkins, 'A review and revision of the biography of John Jones, Talsarn by Owen Thomas' (MA Dissertation (Liverpool), 1924), t.326. Sylw nodweddiadol ysgubol D. E. Jenkins am Owen Thomas yn hyn o beth oedd: 'Could he have done that and maintain his self-respect, if there were in him the backbone of a gentleman.'

1880au. Y mae'n berffaith bosibl y gallai fod wedi ymddiried yn y teulu ynglŷn ag unrhyw rwystredigaeth a deimlai gyda'r gwaith.[49] Y tu hwnt i lythyrau teulu Treborth, dyma'r awgrym amlycaf o ddigon o'u dylanwad ar luniad a chynnwys y cofiant. Ond hyd y gwyddys ni cheir unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig o du Owen Thomas sy'n profi mai felly yr oedd yn teimlo parthed y gyfrol. Yn wyneb hyn oll, felly, cystal yw bwrw golwg ar amcanion Owen Thomas ei hun wrth fynd ati i lunio'r cofiant.

Megis *Cofiant John Jones, Talsarn*, mae'n amlwg fod gan Owen Thomas amcan ac agenda benodol wrth lunio'r cofiant i Henry Rees. Gwelwyd eisoes yn rhagymadrodd y cofiant fod arno awydd i achub coffadwriaeth ei gyfaill a'i gyd-bregethwr rhag mynd ar ddisberod, ond yr oedd rhagor na hynny'n unig yn gyfrifol am ei benderfyniad i dderbyn gwahoddiad teulu Treborth yn 1881. Yn wir, y mae Owen Thomas yn cyfaddef hynny'n groyw iawn wrth agor pennod olaf y cofiant.

> Yr hyn sydd yn gorphwys arnom bellach, ydyw ceisio gwneuthur rhai sylwadau ar ei gymeriad fel Pregethwr, ac yn ei gysylltiad â'r weinidogaeth a dderbyniodd gan yr Arglwydd Iesu. A phregethwr, uwchlaw pob peth, oedd efe. Yr ydoedd wedi ymgysegru yn gwbl at hyny; yn gwneuthur pob peth yn ddarostyngedig i hyny; yn wir yn aberthu pob peth er mwyn hyny. Amcanu ei osod allan megis pregethwr oedd yn arbenig mewn golwg genym, pan ymgymmerasom â'r gwaith hwn; a hyny yn neillduol gan obeithio y gallai fod o ryw wasanaeth i'n pregethwyr ieuainc – y rhai ydynt erbyn hyn yn lliaws mawr – na chawsant erioed y cyfleusdra i'w wrandaw.[50]

---

[49] Tebyg mai drwy fab Gwen, J. Glyn Davies, y clywodd D. E. Jenkins yr honiad. Mewn atodiad i'w astudiaeth o gofiant Owen Thomas i John Jones, Tal-y-sarn, edrydd J. Glyn Davies fel y byddai Owen Thomas yn ymweld â'r cartref yn Peel Street, Lerpwl i gael cinio neu de ar y Sul (Jenkins, 'Review and revision', tt.330-1). O gymryd sylw J. Glyn Davies ei fod tua dwy ar bymtheg neu ddeunaw oed ar y pryd, gellir nodi mai tua 1887-8 yw'r cyfnod y sonnir amdano. Dyma'r union adeg yr oedd Owen Thomas wrthi'n llunio'r cofiant. Wrth gwrs, fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, mae perthynas oeraidd J. Glyn Davies ag ŵyr Owen Thomas, sef Saunders Lewis, yn tueddu i fwrw gradd o amheuaeth ar ei sylwadau.

[50] *CHR*, t.905. Gw. yn ogystal ei sylwadau yn rhagymadrodd y gyfrol gyntaf lle mynega'i gred y gallasai creu coffadwriaeth i Henry Rees fod yn 'wasanaethgar a bendithiol i Gristnogion ein gwlad, yn enwedig i'n pregethwyr ieuainc' (I, t.vi). Yn y rhagymadrodd i'r ail gyfrol, dywed eto mai pregethwyr ieuainc Cymru 'yn arbenig oeddent mewn golwg genyf wrth ei gyfansoddi' (II, iv). Gw., yn ogystal, bennod 3 y traethawd hwn, t.157.

Yma, ceir y mynegiant cliriaf o *rationale* cofiannol Owen Thomas. Fel pregethwr y syniai am Henry Rees, ac fel pregethwr y bwriadai ei gofiannu. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu bod gweledigaeth gofiannol Owen Thomas yn gwahaniaethu'n sylfaenol oddi wrth y sant yr oedd Annie Davies am iddo'i bortreadu. Fel y nododd Henry Rees ei hun wrth adolygu cofiant John Foulkes i'w gyfaill Moses Parry yn 1856:

> . . . yr oedd Moses Parry yn dduwiol . . . Ac onid oes addysg ac annogaeth yn hyn i'w olynwyr yn y weinidogaeth . . . Mi a ddymunwn i bregethwyr ieuainc ddarllen ei hanes gyda sylw. Craffwch ar ei ysbryd a'i ffyrdd ef, ac edrychwch yn mha le yr oedd dirgelwch ei dipyn defnyddioldeb ef gyda chrefydd yn gorwedd – pa beth a'i gwnaeth, a pha beth a'i cadwodd dros gynnifer o flynyddoedd yn gymmeradwy.[51]

Soniwyd ym mhennod gyntaf y traethawd hwn fod dadlennu a phwysleisio duwioldeb yn elfen bwysig, onid creiddiol, wrth gofiannu pregethwr.[52] Ond rhagor na hynny, yr oedd efelychu pregethwyr amlwg o ran eu cryfderau, a gochel eu gwendidau, yn fodd i bregethwyr ieuainc sicrhau eu cynnydd a'u datblygiad.[53] Dadleuwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf mai dyma'r nod neu agenda arbennig sy'n llywio portread Owen Thomas o'i wrthrych yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, ac nid yw'r cofiant hwn ychwaith yn gwyro oddi wrth yr egwyddor honno. Noda'r cofiannydd fwy nag unwaith yn y cofiant mai pregethwyr ieuainc oedd ei gynulleidfa darged bennaf. A

---

[51] Henry Rees, 'Rhagdraethawd', yn John Foulkes, *Cofiant y Diweddar Barch. Moses Parry* (Dinbych, 1856), tt.viii-ix. Galwyd y cofiant hwn yn 'glasur yn ei ddosbarth' gan Saunders Lewis ('Y cofiant Cymraeg', t.350).

[52] Gw. y drafodaeth ym mhennod 1 y traethawd hwn, *passim*.

[53] Nid mynegi syniadau newydd a wna Rees yma. Gwnaethpwyd sylwadau tebyg ganddo ynglŷn â defnyddioldeb cofiannaeth yn *Y Drysorfa* yn ôl yn 1840 wrth adolygu cyfrol John Hughes Pont-robert, *Cofiant y Parch. W. Jones, Dol-y-fonddu, a'r Parch. E. Griffiths, Meifod, Gweinidogion gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, yn Swydd Drefaldwyn; ynghyd a Byr-gofiant am Mr. T. Griffiths, a Mrs M. Griffiths, brawd a mam y Parch. E. Griffiths* (Caerlleon, 1840). Yno, dywed fod 'cyfeillachu llawer â dynion rhagorol (yn eu hanes) a gweled gras Duw yn llewyrchu ynddynt yn ngwahanawl amgylchiadau eu bywyd, yn tueddu i feithrin ynom yr un ysbryd, ac argraffu eu delw ar ein cymmeriad', '*Cofiant y Parch. W. Jones, Dol-y-fonddu*', *Y Drysorfa* (1840), 213. Dyfynnir rhannau o'r adolygiad hwn yn Atodiad *CHR*, tt.980-1.

chan fod ymron i ugain mlynedd wedi mynd heibio ers ei farwolaeth, yr oedd atgyfodi esiampl Henry Rees yn bwysig am fod cenhedlaeth o bregethwyr bellach na chawsant y cyfle i'w glywed yn y pulpud, na chyfeillachu ag ef.[54] Er gwaetha'r gwahaniaethau sydd ym mhortreadau cofiannol *Cofiant John Jones, Talsarn* a *Cofiant Henry Rees*, ni ddylid anghofio mai hanfod y portread o'r gwrthrych yn y naill gofiant a'r llall yw cyflwyno esiampl o bregethwr delfrydol – un i'w edmygu a'i efelychu. O'r herwydd, mae unrhyw ymdriniaeth â'r cofiant hwn yn rhwym o ddadlennu mor arwyddocaol ydoedd duwioldeb Henry Rees yng nghyd-destun ei yrfa bregethwrol. Credaf, fodd bynnag, y gellir dadlau bod gwahaniaeth pwyslais neu gyd-destun rhwng portread didactig Owen Thomas a'r cymeriad santaidd yn ei hawl ei hun a awgrymir yn llythyrau Annie Davies. Bydd bwrw golwg fanylach ar y modd y portreedir Henry Rees yn y cofiant yn dadlennu a chadarnhau amcanion cofiannol a chreadigol Owen Thomas wrth ymdrin â'i wrthrych, ynghyd ag amlygu i ba raddau y llwyddodd i gyflawni'r amcanion hynny.

## 4.3. 'GORCHWYL MAWR EI FYWYD': HENRY REES Y PREGETHWR

Yn ail bennod y traethawd hwn, dadlennwyd nad oedd Owen Thomas, na gweddill cofianwyr Oes Fictoria, yn synio am 'gelfyddyd' soffistigedig wrth gofiannu, nac ychwaith yn ymateb i'w gwrthrychau yn wyneb cysyniadau modern sy'n pwysleisio yr hunan drylliedig neu luosog. Eto, nid yw datgan fod Owen Thomas yn anelu at gyflawnder wrth gofiannu ei wrthrych yn gyfystyr â dweud nad oedd yn ymwybodol

[54] Nodir mai yn nechrau 1889 y dechreuodd Owen Thomas lunio'r bennod ar Henry Rees fel pregethwr. Dyddiad y rhagymadrodd i'r gyfrol gyntaf yw 16 Rhagfyr 1889.

o gyfyngiadau cyflwyno darlun 'cyflawn' o'r fath, ac nad oedd ganddo weledigaeth benodol a fyddai'n llywio ei bortread o Henry Rees yn y cofiant.[55] Gwelwyd yn y bennod ddiwethaf mor ddylanwadol yw amcanion neu fwriadau'r cofiannydd yng nghyd-destun natur ei ddehongliad a'i bortread o John Jones, ac mae'n amlwg fod llwyddiant diamheuol *Cofiant John Jones, Talsarn* wedi cynnig patrwm pendant i Owen Thomas o ran cofiannu Henry Rees. Nid rhyfedd, felly, iddo gadw at yr un strwythur naratifol a chronolegol gyda'i ail gofiant, a thywys y darllenydd ar daith sy'n dilyn ei wrthrych o'r crud i'r bedd. [56] Yr oedd adeiladwaith o'r fath yn ddewis bwriadol, felly, ac yn wahanol i'r strwythur mwy thematig, neu draddodiadol, sy'n nodweddu cofiant anorffenedig Gwilym Hiraethog i'w frawd.[57] Unwaith eto, gyrfa bregethu Henry Rees sy'n cynnig ffrâm i'r naratif, ac sy'n cyflawni bwriadau'r cofiannydd o ddarlunio ei wrthrych fel pregethwr nodedig. O'r herwydd, gellir dadlau mai bwriad Owen Thomas oedd cofiannu Henry Rees o fewn cyd-destun pregethwrol a galwedigaethol pendant, ac mae digon o dystiolaeth yn y cofiant sy'n tystio i'r cyd-destun creiddiol hwnnw. Credaf fod manylu ar y cyd-destun hwn yn cynnig allwedd i ddeall dehongliad y cofiannydd o'i wrthrych ynghyd â diffinio'r portread cofiannol a gyflwynir.

---

[55] Gw. fy nhrafodaeth ym mhennod 2 y traethawd hwn, tt.110-11, ar sylwadau Owen Thomas yn rhagymadrodd *CHR*, I, t.vi. Gw. hefyd y drafodaeth ehangach ar rai cysyniadau modern ym maes cofiannaeth ym mhennod II, tt.110-16.

[56] Yn ogystal, cadwodd yr un nifer o benodau, sef 16, ac mae'r ddau gofiant tua'r un hyd. Ceir 1,144 o dudalennau yn y cofiant i Henry Rees, rhyw gan tudalen yn fwy na *Cofiant John Jones, Talsarn*. Mae'r atodiad i'r ail gofiant yn hwy o gryn dipyn na'r atodiad a geir yn y cofiant cyntaf. Rhwymwyd rhannau gwreiddiol *Cofiant Henry Rees* mewn dwy gyfrol yn ystod 1890. Gw. Atodiad 4.

[57] Serch hynny, dylid nodi nad yw'n gwbl glir mai ymwrthod â hanes cronolegol a wnaeth William Rees, ond ceir yr argraff mai ymdriniaeth thematig â chymeriad Henry Rees fyddai sail ei gofiant ef – yn rhannol o leiaf. Er enghraifft, ceir hanes 'bore ei fywyd' yn y drydedd bennod, tt.37-52. Gw. LlGC, CMA, Coleg y Bala 1, llsg. 256, 'Atgofion am y Parch Henry Rees, by the Revd William Rees – Gwilym Hiraethog'. Y mae'n fwriad gennyf ymdrin yn fanylach â'r cofiant hwn, mewn cymhariaeth â *Cofiant Henry Rees*, mewn man arall.

### 4.3.1 'Ymbaratoi ei oreu ar gyfer y gwaith mawr': cyfnod plentyndod ac ieuenctid

Amlygir cyd-destun y pregethwr, neu'r portread ohono fel pregethwr, yn gyntaf oll gan ymdriniaeth Owen Thomas â phlentyndod a llencyndod ei wrthrych. Yn wir, nid gormodiaith fyddai honni bod Henry Rees, fel John Jones o'i flaen, wedi ei alw gan Dduw, a'i fod yn bregethwr cyn iddo erioed gamu i'r un pulpud. Y mae trafodaeth hanesyddol a ffeithiol Owen Thomas yn dilyn nodweddion disgwyliedig cofiannau'r oes yn y penodau agoriadol hyn, wrth iddo adrodd am enedigaeth Henry Rees, yr ardal lle'i magwyd a'i hynafiaid.[58] Nid yn annisgwyl, efallai, rhydd y cofiannydd bwyslais crefyddol neu ysbrydol pendant i'r hanes, megis pan gyflwyna bortreadau byrion o deulu agos ei wrthrych.[59] Ac wrth gwrs, gellid dadlau bod dehongliad crefyddol neu ysbrydol o'r fath yn gwbl addas o ystyried y gymdeithas yr oedd Henry Rees yn rhan ohoni, ynghyd â'r ffaith mai adrodd hanes pregethwr a wneid yma. Serch hynny, wrth i Owen Thomas ddarlunio magwraeth ei wrthrych daw'n amlwg ei fod, unwaith eto, yn lleisio'r egwyddor gofiannol boblogaidd mai 'y plentyn yw tad y dyn', a gwelir bod y ddelwedd o'r pregethwr hynod yn cael ei hamlygu dro ar ôl tro.

---

[58] Ganwyd Henry Rees ar 15 Chwefror 1789 mewn tŷ o'r enw Chwibren Isaf yn Llansannan. Ceir disgrifiadau o'r tŷ a'r plwyf a seiliwyd ar ymweliad a wnaeth Owen Thomas â'r lle yng ngwanwyn 1883 yng nghwmni cyfaill o Lerpwl, Evan Morris, a oedd yn hanu o Lansannan. Dywed yr awdur mai dyma un o'r pethau cyntaf a wnaeth wedi iddo benderfynu ymgymryd â'r dasg o lunio'r cofiant (*CHR*, I, t.vi).

[59] Er enghraifft, er ei fod yn nodi bod tuedd gan Dafydd Rees, y tad, i fod yn isel ei ysbryd a 'phruddaidd' ei olygon, pwysleisir ei fod 'yn ŵr nodedig mewn duwioldeb' (*CHR*, t.5). Daw'n amlwg wrth ddarllen gweddill y cofiant fod Henry Rees yn debyg i'w dad yn hyn o beth. Eithriad i raddau yw nain Henry Rees, sef Gwen Lloyd. Yn wyneb y ffaith nad oedd 'dim hynodrwydd neillduol ynddi o ran ei chrefydd' a'r ffaith iddi neillduo o'r eglwys yn Nhan-y-fron am gyfnod, y mae sylwadau Owen Thomas yn tueddu i ganolbwyntio ar ddadlennu ei phersonoliaeth. Yn ogystal, yr oedd yn amlwg ei bod yn bur addysgedig, ac er nad yw'n mwynhau statws 'athrylith' Angharad James yn y cofiant i John Jones, pwysleisia Owen Thomas hynodrwydd a chryfder ei chymeriad. Nodir yn benodol mai 'ei chas beth hi oedd seguryd' (t.4). Ond hyd yn oed yma, daw'r cyd-destun crefyddol i'r fei erbyn diwedd y portread, drwy nodi iddi ddychwelyd at yr achos a'i bod yn cyfrannu'n gyson at achosion crefyddol, a bod 'arwyddion dymunol iawn o wir ddwyster crefyddol' i'w ganfod arni yn ei dyddiau olaf. Gwelir yr un pwyslais crefyddol yn y darluniau o frodyr a chwaer Henry Rees yn ogystal. Yr eithriad yw William Rees, lle canolbwyntir i raddau helaeth ar ei athrylith amryddawn. Tebyg nad oedd angen amlygu crefyddolder pregethwr mor amlwg.

Dyma ddelwedd ganolog Owen Thomas ar gymeriad Henry Rees yn y penodau hyn. Yn debyg i'r portread o John Jones o'i flaen, darlunia Owen Thomas un a oedd yn sefyll ar wahân i'w gymrodyr, a gesyd hynny stamp y pregethwr mawr arno yn syth. Nid yw'r cofiannydd yn gwadu natur gyfeillgar, onid chwareus, ei wrthrych, ond ar ddifrifoldeb a sensitifrwydd ei bersonoliaeth y mae pwyslais yr awdur. Disgrifir Henry Rees fel plentyn tawel a diymhongar, a hoffai ei gwmni ei hun, ac a oedd '[yn] foreu iawn yn dechreu meithrin y duedd fyfyrgar, a'i nodweddai ar hyd ei oes' (9-10). Yn hytrach na chadernid cymeriad ei fam, ymddengys mai dwyster a thynerwch y tad yw eiddo'r bachgen, iddo etifeddu ei ddawn hynod at weddi, a'i fod yn agored iawn i ddylanwadau ysbrydol. Telir sylw yn ogystal i'w ddiddordeb a'i ymroddiad i grefydd yn gyffredinol.[60] Cysylltir hynny'n uniongyrchol â'r 'gwaith mawr' gan y cofiannydd drwy fod gweithgarwch o'r fath yn cynnig cyfleoedd iddo hogi'r doniau a fyddai'n ei baratoi i fod yn un o bennaf pregethwyr y genedl.[61]

Mae'r penodau hyn, felly, yn cynnwys sawl elfen ddisgwyliedig o gofiant y cyw bregethwr ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis ffyddlondeb a hoffter o fynychu moddion gras, ymwybod â phechod, ac yn neillduol ymgodymu â themtasiynau sy'n arwain at ddyfnhau crefyddolder y gwrthrych. Confensiwn arall, a geir mewn sawl cofiant, yw'r sylw a rydd Owen Thomas i broffwydoliaethau a fynegwyd ynglŷn â Henry Rees. Dyfynnir, er enghraifft, eiriau ei fydwraig pan

[60] Manylir ar ei driwioldeb i'r eglwys a'i ddiwydrwydd ynglŷn â hi ym mha le bynnag yr oedd, megis cynorthwyo yn yr oedfa, yn yr ysgol Sul neu ei lafur gyda chaniadaeth y gwasanaethau (ibid., tt.30, 33, 40-1, 51, 63-4). Dyma brawf pellach ym marn ei gofiannydd o'i addasrwydd at y gwaith: 'yr oedd *gweithgarwch* crefyddol yn awr, yn elfen mor amlwg yn ei gymeriad â *myfyrdod* crefyddol' (t.51). Nid rhyfedd y gall Owen Thomas nodi y câi Henry Rees ei ystyried gan bobl y Bettws fel 'enaid ac ynni y canu, y cyfarfodydd gweddïau a'r Ysgol Sabbothol' erbyn diwedd ei gyfnod ar fferm Syrior (t.67).
[61] Er enghraifft, dywed y cofiannydd mai 'awgrymiad pwysig i ymgeiswyr ieuainc am y weinidogaeth' yw cofio bod Henry Rees, wrth holi yn yr ysgol Sul, 'yn cael mantais arbenig i'w arfer ei hunan i'r meddylgarwch, y manylder, a'r hunan-feddiant, a fuant mor wasanaethgar iddo yn y gwaith mawr yr oedd ei fryd eisoes arno, ac y daeth, ar ol hyn, mor enwog ynddo' (ibid., t.33).

ddywed y câi ei fam 'gysur mawr' oddi wrtho.[62] Unwaith eto, dyfnhau'r pwyslais ar hynodwydd ei gymeriad yw'r nod, ynghyd â hyrwyddo'r gred 'y deuai y plentyn hwnw yn rhywbeth' (9), ac y byddai'n gwireddu'r broffwydoliaeth fel oedolyn. Ond nid oes ddwywaith na ellir yn ogystal ddarllen y penodau hyn o fewn cyd-destun pregethwrol pendant a chyson. Dyma, wrth gwrs, oedd amcan Owen Thomas ar gyfer y darllenydd, ac mae'r ffaith fod y proffwydoliaethau eraill a geir yn ymdrin yn benodol ag ef fel pregethwr yn awgrymu'r cyd-destun hwn.[63] Gellir ymdrin yn yr un modd â'r hanesion, a geir mewn aml i gofiant, am 'waredigaethau hynod' y gwrthrych.[64] Arwyddocâd y pwyslais hwn yw y dylid gweld Henry Rees fel un sydd wedi ei arfaethu yn bregethwr, ac yn bregethwr nodedig iawn, 'llawn mor enwog a John Elias ei hun', chwedl darogan un hen ŵr.[65] Yn wir, gan mai'r broffwydoliaeth arbennig hon sy'n cloi'r penodau agoriadol i bob pwrpas, gellir synio am weddill y cofiant fel cofnod o yrfa sy'n cyflawni'r proffwydoliaethau hyn.

Elfen amlwg arall sy'n cyflyru'r darllenydd i adnabod pregethwr y dyfodol yw diddordeb a chariad angerddol Henry Rees y plentyn a'r llanc at bregethu. Dywed Owen Thomas fod gwrando pregeth yn 'nefoedd ar y ddaear iddo' (21), ac mai siom

---

[62] Tybed nad oes yma adlais anymwybodol o broffwydoliaethau Simeon ac Anna ynglŷn â'r baban Iesu (Luc, 2:25-38).

[63] Tua diwedd y bennod gyntaf, er enghraifft, dywed Owen Thomas fod teulu a chydnabod y bachgen Henry Rees yn 'proffwydo y byddai yn bregethwr' (*CHR*, t.21). Ymhellach, noda'r cofiannydd fod atebion ei wrthrych wrth iddo gael ei dderbyn i'r eglwys yn amlygu 'un ag y gobeithiai am rywbeth tra annghyffredin oddiwrtho, mewn blynyddoedd dyfodol'(t.23). Gwelodd Thomas Jones, Dinbych, hefyd, '[dd]efnydd pregethwr rhagorol ynddo' (t.66). Yn 1816 aeth Henry Rees i weithio ar fferm y pregethwr amlwg Thomas Jones (1756-1820) yn Syrior, ger Dinbych. Noda Owen Thomas fod sôn ar y pryd mai er mwyn cael dysgu pregethu yr aeth Henry Rees yno. Dywed i rai awgrymu y dylai fod wedi mynd at John Elias gan nad oedd Thomas Jones yn enwog fel pregethwr. '"Fe wnaethai Harri", meddent, "well pregethwr na Mr Jones o hono ei hun; ac y mae yn drueni ei fod yn myned ato i gael ei ddifetha"'. Arwyddocâd sylwadau 'ynfyd' o'r fath, medd Owen Thomas, oedd y 'disgwyliadau uchel a goleddid' o Henry Rees fel pregethwr (tt.54-5).

[64] Gw. fy erthygl, '"Y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto": mawl a moes yng nghofiannau'r pregethwyr', *Y Traethodydd* [rhifyn arbennig ar gofiannau] (Ebrill 2006), 78-97.

[65] *CHR*, t.69. Adroddir fel y cynhyrfwyd geiriau proffwydol yr hen ŵr wedi iddo weld Henry Rees yn torri allan i orfoleddu 'mewn hwyl nefolaidd anghyffredin' dan ddylanwad pregeth gan John Elias yn y Betws yn 1818.

o'r mwyaf oedd '. . . [c]olli y cyfleusdra i wrando pregethwr poblogaidd' (44). Cadarnheir hyn gan rai o'r hanesion neu'r digwyddiadau a gaiff sylw gan y cofiannydd, megis ymweliad cyntaf Henry Rees â Chymdeithasfa'r Bala yn 1812, lle y mae'n amlwg yn ei elfen ymysg y pregethwyr nodedig – yn enwedig y nerthol John Elias.[66] Symptom allanol yw'r fath ddiddordeb o'r awydd dwfn i bregethu y bu Henry Rees yn ei arddel er pan oedd yn ifanc iawn. Yn wir, nodir yn blaen nad oedd 'yn cofio ei hunan yn meddwl yn ddifrifol am fod yn ddim arall' (33). A phwysleisir sawl gwaith yn y penodau agoriadol hyn y berthynas organaidd ymron sydd rhyngddo ef a'r 'gwaith mawr', wrth i'r darllenydd weld ei ymroddiad i'r gwaith yn cryfhau a dwysáu wrth iddo yntau dyfu ac aeddfedu.[67] Nid unrhyw ddatblygiad cyffredinol sydd yma, felly, ond un sydd wedi'i wreiddio yng nghyd-destun y pregethwr, ac mae Owen Thomas yn amwyso'r ffin rhwng yr yrfa gyhoeddus ddisgwyliedig ac awydd personol, dwys ei wrthrych i gyflawni a gogoneddu'r alwedigaeth.

Un agwedd ar y berthynas hon y telir cryn sylw iddi gan y cofiannydd yw ymdrech Henry Rees i ddatblygu ei gyneddfau tuag at fod yn bregethwr, yn aml yn wyneb anfanteision dybryd. Nodir, ym mhennod gyntaf y cofiant, ymroddiad y llanc at ei wersi (12), a soniwyd eisoes am bwyslais y cofiannydd ar ei ddiwydrwydd crefyddol.[68] Ond wrth iddo aeddfedu daw ei ymdrech diarbed yn amlycach o'r hanner,

---

[66] Ibid., tt.25-8. Sonnir am 'awydd annghyffredin' Henry Rees am glywed pregeth gan John Elias. Cyfeddyf y cofiannydd mai dyma oedd y rheswm pennaf paham y mynychodd y Gymdeithasfa, ac na chafodd ei siomi. Ond amlygir dyfnder ei ddiddordeb yn y pregethwr ei hun, rhagor na'r bregeth yn unig, gan sylw Owen Thomas y 'cerddai yn ol ac yn mlaen, amryw droiau, gyferbyn â'r tŷ yn yr hwn y lletyai [John Elias] – a thŷ Mr [Thomas] Charles oedd hwnw – gan ddysgwyl cael rhyw drem arno, fel ag i'w wneyd yn fwy cydnabyddus âg ef' (t.27).

[67] Ceir cyfeiriadau mynych at bregethu fel y 'gwaith mawr' yn y penodau hyn (ibid, tt.33, 43, 49, 62, 66). Ceir cyfeiriadau tebyg yng nghofiant John Jones, Tal-y-sarn.

[68] Er enghraifft, wedi iddo gael ei dderbyn i'r eglwys ar ddiwedd y bennod gyntaf, ac yntau, yn ôl Owen Thomas, 'heb ddeall, mwy nag o'r blaen, fod y gwaith da wedi ei ddechrau ynddo', dywed ei fod yn 'ymroddi gydâ mwy o ddyfalwch nag erioed i grefydd' (ibid., tt.23-4). Ystyr hyn oedd darllen mwy ar yr Ysgrythur, a gweddïo'n amlach (ac amlycach). Gellir yn sicr weld y datblygiad o'i weddïau

yn arbennig yng nghyd-destun ei awydd i 'gymhwyso ei hunan at y gwaith' o bregethu (33). Pregethu, bellach, yw 'gorchwyl mawr ei oes' (62), ac fe bwysleisia'r cofiannydd y byddai'n trin pob pregeth a glywai 'megis gwers iddo ei hunan ar bregethu' (44).[69] Ymhellach, byddai'n myfyrio ar ddulliau mynegi'r pregethwyr yn ogystal â chynnwys eu cenadwri yn ei amser hamdden, ac wrth ei waith pob dydd ar y fferm. Dengys Owen Thomas fod ei lafur yn hyn o beth, ac yn arbennig ei 'ddydd-freuddwydion', wedi ei alluogi i ddisgyblu ei feddwl a mireinio ei sgiliau deongliadol fel y gallai 'egluro yn ddealladwy i eraill'.[70] Yn wyneb diffyg llyfrau priodol i'w darllen a'u hastudio, dyma ddisgyblaeth hanfodol ac addas iawn 'er ei barotoi ei hunan i'r gwaith mawr oedd yn ei aros, ac y daeth mor enwog ynddo'.[71] Y mae'r cyd-destun pregethwrol hwn yn elfen gyson iawn yn yr hanes a fynegir wrth i'r cofiannydd hysbysu'r darllenydd y defnyddid pob adnodd posibl ganddo wrth y gwaith, megis dwyn delweddau a chymariaethau ei bregethau o fyd natur.[72] Byddai, wedi llunio'r bregeth, yn ei thraddodi wrtho'i hun tra oedd 'gydâ'i wahanol orchwylion, yn yr ystabl, neu yn y beudy'.[73]

---

cyntaf personol i'w weddïau cyhoeddus yn y weddi deuluaidd, ac yna yn y capel, fel carreg filltir ar y daith i ddod yn bregethwr (tt.24-5, 28-9, 39, 64-5).

[69] Yr oedd ganddo ei arwyr yn hyn o beth, sonia Owen Thomas yn benodol am y pregethwr nerthol William Morris, Cilgeran a ddeuai i'r gogledd yn bur gyson i bregethu, a phrofedigaeth fawr i'w wrthrych oedd peidio â chael ei glywed. Ymddengys i Henry Rees ddechrau ei ddynwared am gyfnod, ond iddo ymwrthod â'r duedd cyn dechrau pregethu o ddifrif. Gw. ibid., tt.44-7.

[70] Sonia Owen Thomas ymhellach am ei duedd i 'ymgolli yn ei fyfyrdodau', er ei fod yn fachgen cyfeillgar a phoblogaidd, ac yn weithiwr caled. Er bod barddoni yn mynd â pheth o'i amser yn y cyd-destun hwn, esbonia'r awdur mai 'ei brif ddifyrrwch oedd, adrodd wrtho ei hunan y pregethau a wrandawai, ac yn enwedig erbyn hyn, ceisio pregethu ei hunan a'i holl egni' (ibid., t.16).

[71] Ceir awgrym gan Owen Thomas ei fod yn 'dydd-freuddwydio' wrth weithio i Thomas Jones, Dinbych yn ogystal. Un o'i ddyletswyddau oedd mynd ar deithiau i gasglu arian a oedd yn ddyledus i'r pregethwr gan rai a brynodd ei gyhoeddiadau. Ymddengys i Henry Rees gael sawl cwymp wrth farchogaeth oherwydd ei fod wedi ymgolli yn ei freuddwydion (ibid., tt.57-9).

[72] Un enghraifft a nodir yn y cyd-destun hwn yw'r modd yr edmygodd Henry Rees gyfrwystra a gallu ymresymiadol ei gi, Tango, pan lwyddodd i groesi'r buarth heb wlychu ei draed un diwrnod glawog (ibid., tt.47-8).

[73] Ibid., tt.62-3. Ymddengys i un o'i gyd-weithwyr yn Syrior ei glywed ac adrodd wrth Thomas Jones ei fod yn 'pregethu i'r gwartheg'. Er y gobeithiai'r gyd-weithwraig honno y byddai'n achosi trafferth iddo, ni chafodd bryd o dafod gan Thomas Jones.

Pwnc arall a bwysleisir yn y penodau agoriadol hyn sy'n cryfhau'r portread o'r gwrthrych fel pregethwr yw awydd Henry Rees i ddarllen ac astudio. Daw'n amlwg na theimlai iddo gael mantais fawr o'r ychydig addysg a dderbyniodd,[74] a 'gresyn mawr' i Owen Thomas oedd iddo gael ei ddwyn o'r ysgol i weithio gartref ar y fferm pan oedd yn ddeg oed (15). Ond unwaith eto, yr hyn sy'n ganolog i ymdriniaeth y cofiannydd yw amlygu gryfed oedd diddordeb ac awydd ei wrthych i ddiwyllio'i hun ar gyfer datblygu fel pregethwr. Er enghraifft, un o brif hanesion yr ail bennod yw ei ddyfalbarhad a'i ymdrech i berchenogi cyfrolau *Geiriadur Ysgrythyrol* Thomas Charles (33-9).[75] Sonnir yn ogystal iddo ddarllen *Merthyrdraeth*, Thomas Jones, Dinbych (47), a nodir mai un o brif fanteision mynd yn was i Thomas Jones yn 1816 oedd bod Henry Rees 'yn nghanol digonedd o lyfrau', ac y câi wersi Saesneg gan ei feistr (62, 66). Yn wir, noda Owen Thomas mai '[c]ryn brofedigaeth' ydoedd iddo golli lle a roddai 'y fath fanteision at hunan-ddiwylliant' pan ddychwelodd Thomas Jones i fyw i Ddinbych ym Mai 1818 (66). Erbyn diwedd trydedd bennod y cofiant, felly, mae'n gwbl amlwg i'r darllenydd mai pregethu oedd dymuniad llywodraethol enaid Henry Rees, a bod hynny yn llywio pob penderfyniad o bwys a wnâi.[76] Nod Owen Thomas oedd bod yr hanes hefyd yn cadarnhau'r egwyddor ddidactig y gallai unrhyw un, o dan ba anfanteision bynnag, gyrraedd eu nod o dyfu'n bregethwr drwy ymroi yn llwyr a diarbed i'r achos. Efallai na cheir yn y

[74] Gw. y dyfyniad a rydd Owen Thomas yma o erthygl goffa gan Henry Rees i'w ysgolfeistr Thomas Lloyd, Abergele. Ymddangosodd yr erthygl yn *Y Traethodydd* yn Ebrill 1853, 231-60, ac mae'n cynnwys sylwadau sy'n feirniadol o'r polisi o ddysgu plant uniaith Gymraeg drwy gyfrwng y Saesneg. Sonia yn ogystal mai 'peth digon annaturiol' yw cosbi plentyn am siarad Cymraeg mewn ysgol (*CHR*, tt.14-15).

[75] Ni allai fforddio eu prynu, ond edrydd y cofiant iddo lwyddo yn ei amcan drwy deithio i'r Bala adeg y Gymdeithasfa yn 1814 ac ymweld â chartref Thomas Charles ei hun. Yno, gofynnodd a gâi dalu am y cyfrolau pan oedd wedi sicrhau digon o arian. Pan oedd wrthi'n cyflwyno'i genadwri daeth John Elias i'r ystafell i ffarwelio â'i gyfaill o letywr cyn dychwelyd adref am Fôn wedi'r Gymdeithasfa. Dyna'r unig dro i Henry Rees gwrdd â Thomas Charles a dyna'i gyfarfyddiad cyntaf â John Elias.

[76] Megis ei daerineb, ar adael Syrior, dros chwilio am le a roddai ryddid crefyddol iddo. Yr oedd ei dad am iddo ddod gartref i fyw am ei fod 'yn lled feddwl fod yr awydd am bregethu yn gymmaint yn ei fryd fel mai anhawdd iawn a fuasai iddo gael lle cyfaddas iddo' (*CHR*, t.66). Ond ni ddaeth i hynny gan i bobl y Bettws erfyn arno i aros ac iddo gael gwaith ar fferm David Lloyd, yn y Cefn, gerllaw y Bettws.

cofiant hwn benllanw dramatig i'r penodau agoriadol, megis ag a gafwyd yn narlun Owen Thomas o'r oedfa yn y Garnedd yn *Cofiant John Jones, Talsarn.*[77] Eto, nid oes ddwywaith am amlygrwydd y cyd-destun pregethwrol a gyflwynir, nac ychwaith am fwriadau'r cofiannydd. Mae'r penodau agoriadol hyn yn arwain y darllenydd yn daclus at bregeth gyhoeddus gyntaf Henry Rees, ynghyd â rhoi rhagargoel o'r yrfa orfoleddus yn y pulpud a ddarlunnir yn y penodau dilynol.

### 4.3.2 '[p]rif ac unig orchwyl fy mywyd': gyrfa bregethu Henry Rees

Gellir dadlau bod gweddill y cofiant yn adeiladu ar y seiliau hanesyddol a thematig a osodwyd gan Owen Thomas yn y penodau agoriadol. Cawn bortread o Henry Rees yr oedolyn ar ei 'ymdaith barhaus' tuag at y bedd, ac mae'r geiriau hyn yn dadlennu nid yn unig gynnwys y penodau ond eu hadeiladwaith cronolegol yn ogystal.[78] Egyr y bedwaredd bennod gyda dechreuadau gyrfa bregethu Henry Rees,[79] ac mae cynnwys y chwe phennod nesaf (penodau 4-9) yn arwyddo bwriad y cofiannydd i gadw'r patrwm a ddefnyddiodd yn *Cofiant John Jones, Talsarn* a chyflwyno naratif manwl a threfnus sy'n adrodd a thrafod hynt ei yrfa gyhoeddus fel pregethwr.[80] Yma eto, ymddengys mai hanes oedfaon yw prif gyfrwng cofiannol Owen Thomas yn y

---

[77] Gw. pennod 3 y traethawd hwn, tt.167-8. Serch hynny, ceir adlais o benllanw o fath ar ddiwedd pennod gyntaf *CHR*, sef ei dderbyn fel aelod o'r eglwys dan ddylanwad adfywiad yn Llansannan pan oedd yn bedair ar ddeg oed. Yma eto, ystyrir y digwyddiad yn garreg filltir ar y daith i wireddu'r 'gwaith mawr' (*CHR*, t.23).

[78] Yr unig eithriad yw'r bennod olaf thematig (pennod 16) lle trafodir Henry Rees 'fel pregethwr'. Gw. Atodiad 4.

[79] Traddododd ei bregeth gyntaf yn Llaneilian, ger y Betws, Abergele.

[80] Mae cynnwys penodau 4-9 yn rhychwantu'r blynyddoedd 1819 hyd 1841, o'i bregeth gyhoeddus gyntaf hyd at y cais aflwyddiannus olaf a gafodd i ymadael â Lerpwl ac ymsefydlu yn Nyffryn Clwyd. Am deitlau'r penodau gw. Atodiad 4. Serch hynny, y mae'n bwysig nodi mai fy rhaniadau i (o ran hanes bywyd Henry Rees) yw'r rhai hynny sy'n llywio'r drafodaeth uchod. Nid ydynt yn adlewyrchu rhaniadau uniongyrchol neu ymwybodol ar ran yr awdur, rhagor na rhaniadau'r penodau eu hunain. Gwelir maes o law y rheswm dros rannu'r hanes.

penodau hyn, a'u pwrpas yw cyflwyno ffrâm ar gyfer portread didactig o Henry Rees fel pregethwr llawn duwioldeb a diwydrwydd y gellid, ac y dylid, ei efelychu.[81] Megis y cofiant i'r 'hen Dalysarn', felly, mae pwyslais gyrfaol neu alwedigaethol y penodau hyn yn cynnig cyd-destun pregethwrol i hanes bywyd y gwrthrych. Ac nid rhyfedd canfod mai'r un elfennau sy'n sail i ymdriniaeth gyd-destunol y cofiannydd yma eto, sef statws a doniau diamheuol Henry Rees fel pregethwr, ei ddatblygiad neu ei gynnydd wrth y gwaith, a'i ymroddiad llwyr i bregethu. Dyma'r elfennau sy'n amlygu gliriaf amcanion cofiannol Owen Thomas, ac mae'n werth bwrw golwg fanylach ar y modd yr ymdrinnir â hwy yn y cofiant hwn.

***'cymhwysderau arbenig . . . at y weinidogaeth': statws ac enwogrwydd***

Yr oedd amlygu hynodrwydd, dawn ac arbenigrwydd Henry Rees fel pregethwr yn nodwedd anhepgor i'r cofiannydd, ac mae fframio'r hanes yn ôl oedfaon ei wrthrych yn y penodau hyn yn cadarnhau'r elfen hon a phrofi i broffwydoliaeth hen ŵr y Betws gynt gael ei chyflawni (69). Unwaith eto, detholiad o oedfaon yn unig a gynhwysir ac weithiau mae sylwadau'r cofiannydd yn fyr a chyfeiriol, megis nodi i Henry Rees bregethu yn 'hynod ac effeithiol'.[82] Serch hynny, ceir cryn nifer o adroddiadau sy'n fanylach o'r hanner, lle cynigir trafodaeth estynedig. Nodir manylion yr oedfa, sylwadau ar y pregethwr a'r bregeth, ei heffaith ar ei gwrandawyr, ynghyd â deunydd ychwanegol sy'n perthyn i'r achlysur.[83] Megis *Cofiant John Jones, Talsarn*, felly, ffrwyth atgofion Owen Thomas ei hun yw nifer o'r oedfaon a groniclir yn y modd

[81] Gw. pennod 3, tt.169-70.
[82] *CHR*, t.174. Cyflwynir brawddeg neu ddwy weithiau, ond cyfeiriadol ydynt serch hynny. Nodir yn aml leoliad, amseriad a thestun y bregeth, ynghyd ag enwau'r rhai a oedd wedi pregethu o'i flaen neu ar ei ôl. Cynhwysir weithiau gyfeiriad at dair cyfrol ei bregethau cyhoeddedig. Gw., er enghraifft, ibid., tt.106, 110, 147, 165, 193, 238-9, 324.
[83] Gw., er enghraifft, ibid., tt.123-4, 137-42, 147-8, 166-9, 195-6, 209-12, 239-40, 360-2.

hwn,[84] ac ambell waith rhydd ddyfyniad, neu gyfres o ddyfyniadau, o'r bregeth.[85] Dyfnheir y cyd-destun pregethwrol gan y ffaith mai adroddiadau am bregethau a draddododd Henry Rees yn oedfaon y Gymdeithasfa a phrif wyliau eraill yr enwad a geir fynychaf. Manylir hefyd ar achlysuron penodol sy'n cofnodi rhyw bwysigrwydd neilltuol yn ei yrfa fel pregethwr,[86] megis pregethu am y tro cyntaf yn y Bala (137) neu Langeithio (145), neu fannau eraill o bwys cyfundebol.[87] Adroddiadau llygad dyst yw nifer o'r disgrifiadau manwl hyn lle ceisia'r cofiannydd gynnig darlun i'r darllenydd o ddrama'r bregeth a'r angerdd a feddai'r pregethwr. O'r herwydd, y maent yn gyfrwng gwych i arddangos doniau sylweddol Henry Rees wrth bregethu gan mai dyma'r oedfaon a ystyrir yn hynod ac arbennig, megis ei bregeth 'nodedig o rymus' yng Nghymdeithasfa'r Bala 1828 (166-9), neu'r tro yng Nghymdeithasfa'r Wyddgrug yn Hydref 1837 a ddisgrifiwyd gan Margaret Jones fel 'un o'r pregethau mwyaf ofnadwy, sobr, ac effeithiol a glywais erioed'.[88]

Elfen arall sy'n dyfnhau'r portread 'pregethwrol' yw pwyslais amlwg y cofiannydd yn yr adroddiadau hyn ar gofnodi'r effaith uniongyrchol a gâi'r pregethau nerthol ar y gynulleidfa. Sonnir bod 'pawb . . . yn teimlo, ac agos bawb yn wylo', pan bregethodd Henry Rees yng nghapel Jewin Crescent am y tro cyntaf (129), a

---

[84] Gw. fy mhwynt ym mhennod 2, tt.136-40, fod rhai o'r pregethau yn dibynnu ar berthynas y cofiannydd ei hun â'r oedfa.

[85] Ni wneir hyn cyn amled ag yn y cofiant i John Jones. Y rheswm mwyaf tebygol am hyn oedd bod tair cyfrol o bregethau Henry Rees eisoes wedi eu cyhoeddi erbyn i Owen Thomas ddechrau llunio'r cofiant.

[86] Edrydd am y tro cyntaf iddo bregethu mewn Cyfarfod Misol (*CHR*, tt.91-2), pregethu am y tro cyntaf mewn Cymdeithasfa (Cymdeithasfa Gynorthwyol flynyddol a theithiol 'a feddiannai holl awdurdod Cymdeithasfa Chwarterol') (t.108), neu mewn Cymdeithasfa Chwarterol (t.132).

[87] Cofnodir hefyd rai teithiau pregethu penodedig. Er enghraifft, ceir adroddiadau am ei daith i siroedd Dinbych a Fflint (ibid., tt.83-5), ei daith gyntaf drwy Fôn (tt.122-4), ei gyfnod cyntaf yn pregethu yn Llundain (t.126), de Cymru (tt.144-7) a'i daith bregethu gyntaf i siroedd Morgannwg a Mynwy (tt.175-6).

[88] Ibid., t.233. Dyfynna Owen Thomas o lythyr gan Margaret Jones o'r Wyddgrug a geir yn y cofiant a luniwyd iddi gan ei brawd. Gw. Thomas Jones, *Fy chwaer: sef cofiant am Miss Margaret Jones, Cefn y Gader, Wyddgrug* (Wyddgrug, 1844). Dyma un o'r cofiannau enwocaf i ferched a gyhoeddwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Am drafodaeth ar y cofiant gw. Jane Aaron, *Pur fel y Dur: Y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1998), pennod 4.

chofnodir iddo swyno'i wrandawyr yng Nghymdeithasfa Aberteifi, 1838: 'Yr oedd y cannoedd oeddynt o'i flaen megis wedi eu rhwymo wrth ei wefusau, ac yn ymddangos fel wedi colli pob meddwl arall' (239). Y mae cynnwys sylwadau o'r fath yn cadarnhau i'r darllenydd ddawn y pregethwr i fynegi ei genadwri yn eglur ac effeithiol, a cheir rhai adroddiadau byrrach gan y cofiannydd sy'n cyfeirio yn unig at effaith y bregeth ar ei gwrandawyr.[89] Megis John Jones o'i flaen, mae Owen Thomas yn awyddus i amlygu statws pregethwrol Henry Rees o fewn yr enwad drwy fanylu ar yr effaith hynod a gâi ei bregethau ar ei gyd-bregethwyr (gan gynnwys yr awdur ei hun). Cyfeirir yn benodol, er enghraifft, at yr 'olwg hyfryd' ar wynebau Robert Jones, Rhos-lan, John Roberts, Llangwm a Robert Dafydd, Brynengan wrth ei wrando am y tro cyntaf yng Nghymdeithasfa Sir Gaernarfon (132), a dyfynna'r cofiannydd sylw ysgubol John Elias wrth ei glywed am y tro cyntaf mai '"Dyna y pregethwr i Gymru"' (122). Ambell waith, mae dylanwad yr oedfa yn fwy penodol, megis y bregeth yn Llangernyw yn 1819 a fu'n foddion i ddwysáu teimladau John Jones, Tal-y-sarn at bregethu (74).[90] Yn wir, gellir dadlau bod ei boblogrwydd yn nodwedd bendant ar berthynas Henry Rees â phregethwyr eraill yn gyffredinol yn y cofiant,[91] ac yr oedd cael sêl bendith cewri'r enwad yn rhwym o gynyddu ei enw da fel pregethwr ac yn

[89] Gw., er enghraifft, *CHR*, tt.74, 165, 239.

[90] Gwnaeth hynny ymhellach gyda'i bregeth ar 'Ddiogi Ysbrydol' yng Nghymdeithasfa Caernarfon yn 1826, lle penderfynodd John Jones 'ymroddi gydâ mwy o ddyfalwch nag erioed i grefydd bersonol, yn gystal ac i ymgysegriad llwyrach byth i wasanaeth yr Arglwydd' yn ôl Owen Thomas (*CJJT*, tt.152-3). Gw. hefyd, er enghraifft, ibid., tt.84, 122, 158-9, 166, 225-6.

[91] Enghraifft ddiamwys yw'r hanes a geir yn ibid., tt.377-8 am Henry Rees ar daith bregethu yn ne Cymru gyda'i gyfaill William Roberts, Amlwch – un o bregethwyr amlycaf y Cyfundeb ar y pryd. Oherwydd ei barch tuag at ddoniau pregethwrol ei gyfaill, fe fynnai William Roberts bregethu yn gyntaf. Roedd Henry Rees am iddynt bregethu yn gyntaf ac yn olaf am yn ail, ac ymddengys iddo geisio torri'r ddadl drwy ofyn i fachgen lleol a wyddai pwy oedd i bregethu yn y capel y noson honno, gan ddisgwyl y byddai'r bachgen yn enwi William Roberts. Pan atebodd y bachgen mai pregethwr o'r enw Henry Rees oedd yno y noson honno a bod 'rhywun yn dyfod, yn gyfaill i Henry Rees' chwarddodd William Roberts a datgan bod yr achos wedi'i 'settlo . . . yn dêg'.

cryfhau'r achos dros ei ystyried yn bregethwr y dylid ei efelychu gan bregethwyr eraill.[92]

Yr un amcan sydd i'r datganiadau a wneir o dro i dro gan y cofiannydd parthed statws ei wrthrych fel pregethwr.[93] Pwrpas y sylwadau yw argyhoeddi'r darllenydd ynglŷn â doniau diamheuol Henry Rees fel pregethwr, pwysleisio'i lafur a'i gynnydd wrth y gwaith, ynghyd ag atgyfnerthu'r darlun o'r pregethwr hynod a gyflwynir yn y naratif. Er enghraifft, o fewn chwe blynedd o ddechrau pregethu, dywed Owen Thomas ei fod 'wedi sefydlu ei hunan yn hollol . . . megis pregethwr o'r dosbarth blaenaf, fel ag y gwahoddid ef braidd i bob Cymdeithasfa, ac y pennodid ef, gan amlaf, i bregethu ar un o'r adegau mwyaf cyhoeddus' (137). Gwelwyd defnydd o ddatganiadau tebyg yn y cofiant i John Jones, ac yma eto fe'u ceir yn aml mewn mannau penodol o'r hanes sy'n clymu cynnwys ac adeiladwaith y gyfrol. Ar ddechrau'r chweched bennod, datgan Owen Thomas fod Henry Rees bellach yn weinidog ordeiniedig, a'i fod yn un o bennaf pregethwyr y pulpud Cymraeg (161). Er bod sylwadau o'r fath yn bur ailadroddus ar y cyfan, y mae'n bwysig sylweddoli bod iddynt swyddogaeth gyd-destunol bendant yn y penodau hyn. Ond fel y gwelir maes o law, nid dyna yw swyddogaeth pob enghraifft yn y cofiant.

***'cael rhyw syniad am y cynnydd mawr a wnelsid ganddo': datblygiad fel pregethwr***

Elfen greiddiol sy'n amlygu portread pregethwrol y penodau hyn yw pwyslais yr ymdriniaeth gofiannol ar ddarlunio datblygiad gyrfa gyhoeddus Henry Rees fel

[92] Gw., er enghraifft, ibid., tt.82, 108, 132, 153-60, 161, 170, 196.
[93] Gw., er enghraifft, ibid., tt.70, 132, 147, 216.

pregethwr. Fel y trafodwyd yn y bennod ddiwethaf,[94] dyma elfen sy'n adlewyrchu amcan gwaelodol Owen Thomas o gofiannu esiampl, ac mae'n amlwg o'r dechrau'n deg mai'r ffrâm naratifol sy'n croniclo'r yrfa bregethu yw prif gyfrwng y cofiannydd yma eto. Megis gyda darlunio'i ddoniau cynhenid, yr oedd dethol pregethau ac oedfaon o bwys yn fodd o ddadlennu datblygiadau arwyddocaol ynddo fel pregethwr. Er gwaethaf prinder manylion, er enghraifft, rhydd y cofiannydd gryn sylw i bregeth gyhoeddus gyntaf ei wrthrych, gan ddibynnu ar y ffeithiau moel a gynigir gan dystiolaeth hunangofiannol o eiddo Henry Rees (71-2).[95] Wrth i'r galwadau i bregethu luosogi a chynyddu yn eu statws, gwelir bod y cofiannydd yn manylu ar gerrig milltir pregethwrol, megis pregethu am y tro cyntaf mewn Cyfarfod Misol neu mewn man o bwys cyfundebol. Er bod gan oedfaon a theithiau o'r fath gysylltiad â hanes personol Henry Rees, byddent wedi bod yn gamau penodol yng ngyrfa unrhyw bregethwr Methodistaidd yn y cyfnod.[96] Yr un byrdwn sydd i adroddiadau'r cofiannydd am y pregethau hynny sy'n arwyddo datblygiad swyddogol neu gyfundebol o'i eiddo yn y 'gwaith mawr', megis ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol (80-2), ei dderbyn i'r Gymdeithasfa (91) a'i ordeinio i'r weinidogaeth.[97] Yn wir, mae'r modd yr ymdrinnir â'r digwyddiadau hyn yn cyflwyno rhagor o dystiolaeth parthed y cyd-destun pregethwrol a didactig sy'n llywio'r naratif. Un enghraifft ddiddorol yw'r cofnod am dderbyn Henry Rees yn aelod o Gyfarfod Misol Sir Ddinbych, lle manylir yn bennaf ar y cerydd a dderbyniodd gan John Roberts, Llangwm oherwydd iddo dorri'r rheolau

---

[94] Gw. pennod 3, t.169.

[95] Cyflwynir rhagor o gyd-destun i'r hanes drwy dystiolaeth William Rees, ynglŷn â phregeth gyntaf Henry Rees yng nghyffiniau Llansannan. Digwyddodd yn yr Hendre, cartref Shôn y Gof, lle'r oedd ei rieni yn bresennol (*CHR*, tt.72-3).

[96] Er enghraifft, telir cryn sylw i'r tro cyntaf y bu'n pregethu yn Lerpwl (ibid., tt.134-6) – man y bu iddo ymsefydlu ynddo yn ddiweddarach. Ond yr oedd Lerpwl hefyd yn lleoliad arwyddocaol o safbwynt unrhyw bregethwr Methodistaidd, yn enwedig pregethwr o ogledd Cymru. Am ragor o fanylion, gw. D. Ben Rees (gol.), *Cymry Lerpwl a'u Crefydd: Dwy Ganrif o Fethodistiaeth Galfinaidd Gymreig* (Lerpwl, 1984).

[97] Serch hynny, mae'n werth nodi nad yw Owen Thomas yn gosod y digwyddiadau hyn fel uchafbwyntiau i benodau, tebyg i'w arfer yn *Cofiant John Jones, Talsarn.*

drwy bregethu y tu hwnt i ffiniau derbyniol y Cyfundeb.[98] Yr hyn sy'n arwyddocaol yma yw bod elfennau, nad ydynt o reidrwydd yn cysylltu yn uniongyrchol â chyraeddiadau Henry Rees yn y pulpud, yn cyfrannu at bortreadu ei ddatblygiad 'fel pregethwr'. Tebyg yw ymdriniaeth Owen Thomas ag ordeiniad ei wrthrych i'r weinidogaeth gyflawn yn y Bala yn 1827, lle cais egluro'r oedi anesboniadwy a fu ar ddwyn Henry Rees i uchafbwynt ei yrfa bregethwrol a gweinidogaethol – sylwadau nid annhebyg i'r rhai a geir yng nghofiant John Jones ar yr un achlysur.[99] Telir sylw penodol gan y cofiannydd i gyngor John Elias sy'n mynegi ei 'ddisgwyliadau mawrion' parthed Henry Rees. Er mai byrdwn y cyngor yw ymdrin â'i ddyletswyddau fel gweinidog, rhagor na phregethwr, mae'n amlwg fod Owen Thomas am i'r darllenydd ystyried digwyddiadau o'r fath fel rhan o ddatblygiad galwedigaeth gyhoeddus ei wrthrych ym mhulpudau Cymru.[100] Mae'r un pwyslais cyd-destunol yn llywio'r hanes amdano'n symud i weinidogaethu yn yr Amwythig[101] ac yna Lerpwl (214-18). Cânt eu trin fel camau perthnasol ac arwyddocaol yn ei yrfa, drwy fod gwasanaethu yn yr Amwythig wedi rhoi'r rhyddid i Henry Rees ymarfer a chaboli ei bregethau o flaen cynulleidfa leol cyn mynd ati i'w pregethu ar deithiau neu yn oedfaon y Gymdeithasfa (115-16). Unwaith eto, amlyga'r cofiannydd berthynas ei wrthrych â phregethwyr eraill yn ei gymdeithas, megis pan sonia mor werthfawr

[98] Gw. *CHR*, tt.74-8, 80-2. Yn fuan wedi iddo ddechrau ar ei yrfa bregethwrol aeth Henry Rees ar daith bregethu gyda'r mafric John Williams, Meidrim. Er nad oedd eto yn aelod o'r Cyfarfod Misol, fe'i perswadiwyd i bregethu y tu hwnt i'r ffiniau penodedig a osodwyd arno yn ôl ei statws gweinidogaethol. Yn y cyfarfod hwnnw, ceryddwyd Henry Rees yn hallt gan John Roberts, a oedd yn enwog am ei erwinder at bregethwyr ieuainc. Eto, bu'n ffodus fod ei gyn-feistr, Thomas Jones, Dinbych, wedi dod yno i achub ei gam a thawelu'r dyfroedd. Cafodd rybudd i fod yn fwy gofalus o reolau'r enwad ond fe'i derbyniwyd i'r Cyfarfod Misol.

[99] Ibid., tt.153-8. Hynny yw, y ffaith ei fod wedi ei ordeinio'n bregethwr yr efengyl a bod hawl ganddo bellach i weinyddu'r sacramentau. Gw. yn ogystal *CJJT*, t.198.

[100] *CHR*, t.158. Cyflwyno cynghorion tuag at weinyddu'r sacramentau yw byrdwn geiriau John Elias, er y gellir dadlau ei fod yn cyfeirio at weinidogaethu yn gyffredinol. Cyflwynir yn ogystal adroddiad cyffredinol ar yr achlysur (ac ar y Gymdeithasfa).

[101] Ibid., tt.97-9. Fel y nodwyd eisoes, symudodd yno yn wreiddiol er mwyn dysgu sut i rwymo llyfrau, ond yn fuan cafodd alwad gan yr aelodau yno i weinidogaethu arnynt yn llawn amser, gw. tt.110-15.

ydoedd cwmni ei gydweithwyr yn Lerpwl, yn enwedig John Hughes a roes iddo 'adeiladaeth nid bychan' ar nifer o bynciau.[102]

Agwedd bellach sy'n dadlennu datblygiad gyrfa bregethu gyhoeddus Henry Rees yw'r sylw a rydd ei gofiannydd i'r 'cynnydd parhaus' a welwyd ynddo fel pregethwr. Ceir cyfeiriad byr a gwibiog, braidd, at y ffaith iddo newid o'i 'ddull tanbaid a llafurus' o draddodi pregethau i ddull a oedd yn fwy llyfn a phwyllog, er nad oedd yn llai effeithiol o reidrwydd.[103] Serch hynny, mae'n amlwg nad darlun simplistig o'r fath y bwriadai Owen Thomas ei gyflwyno yn y penodau hyn. Ar ddatblygiad 'mewnol' pregethau Henry Rees – o ran eu cynnwys, eu harddull a'u hadeiladwaith – y mae pwyslais y cofiannydd (202), ynghyd ag arwyddocâd y datblygiad hwn ar ei yrfa bregethwrol. Dyma gyneddfau'r pregethwr delfrydol, a'r bwriad oedd darlunio'r modd y ceisiodd 'wneyd ei bregethau yn gyfansoddiadau mor berffaith, ag oedd bosibl'. Wrth drafod pregeth gynnar a draddodwyd yn Llanbrynmair yn 1822, dywed Owen Thomas nad oedd ynddi 'yr un eangder a manylder a choethder, ag a geir yn ei bregethau diweddarach', ond bod iddi '[f]esur helaeth o'r un dwyster teimlad, ac o'r un difrifoldeb ysbryd, ag a'i meddiannai hyd ddiwedd ei oes'.[104] Nid yw portread Owen Thomas yn gwadu'r doniau a'r

[102] Ibid., tt.240-2. Am hanes John Hughes, gw. Roger Edwards, *Buchdraeth y diweddar Barchedig John Hughes, Liverpool, awdwr 'Methodistiaeth Cymru' &c: ynghyda detholion o'i bregethau* (Gwrecsam, 1864). Yn benodol, dichon, ynglŷn â golygiadau diwinyddol Henry Rees, a oedd yn y 1830au yn tueddu mwy at uchel-Galfiniaeth neu geidwadaeth John Elias nag at Galfiniaeth gymedrol gwŷr megis John Hughes a John Jones, Tal-y-sarn. Gw. pennod 3, t.193.

[103] Digwydd y cyfeiriad wedi i Owen Thomas ddyfynnu llythyr a ysgrifennodd Henry Rees tra oedd ar daith bregethu ym Morgannwg yn 1829. Ynddo, mae'n cwyno oherwydd llesgedd ac yn nodi iddo 'chwysu' wrth bregethu sy'n awgrymu effaith y dull grymus ac egnïol o draddodi (*CHR*, t.120). Dywed iddo yn raddol wedi hynny newid ei ddull o bregethu (t.177). Noda Goronwy Wyn Owen i Henry Rees ddatblygu o fod yn bregethwr yn y traddodiad 'dramatig' i bregethwr mwy deallusol – math ar bregethu lle'r oedd yr 'elfen feddyliol, neu ddeallusol, yn gwthio'r elfen ddramatig yn llwyr o'r bregeth'. Tebyg bod cyfnewidiad o'r fath yn ei ddull o bregethu yn adlewyrchu'r datblygiad hwn yn ogystal (Goronwy Wyn Owen, 'Henry Rees (1798-1869): pregethwr a llenor', *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 29-30 (2005-6), 99-100).

[104] *CHR*, t.110. Serch hynny, dylid nodi (fel y gwna Owen Thomas) mai fersiwn a ysgrifennwyd mewn llaw fer wrth ei gwrando yw'r bregeth. Fe'i cyhoeddwyd â'r teitl, 'Anfoniad Crist ac anfoniad ei

hynodrwydd naturiol a feddai Henry Rees wrth y gwaith, ond y mae am bwysleisio iddo fireinio'r doniau a roddwyd iddo gan Dduw ac adeiladu ar y difrifoldeb a'r duwioldeb diymwad a'i nodweddai fel pregethwr (915).

Yn wir, gellir dadlau bod dwy agwedd ar ddatblygiad pregethwrol Henry Rees yn cael sylw manwl gan y cofiannydd yn y penodau hyn. Y gyntaf yw saernïaeth ei bregethau. Yn ôl y cofiannydd, arfer Henry Rees oedd paratoi'n ofalus at bregethu yn y pulpud, gan ysgrifennu ei bregeth yn llawn, 'ei chywiro a'i choethi gydâ gofal mawr unwaith ac eilwaith', cyn ei dysgu'n drwyadl ar ei gof (174).[105] Er gwaetha'r dystiolaeth sydd ar gael yn y cofiant fod paratoi'n ofalus eisoes yn nodwedd amlwg ym mhersonoliaeth ei wrthrych,[106] mae'n ddiddorol mai dadlennu'r cyd-destun pregethwrol a wna pwyslais cyson Owen Thomas yn hanner cyntaf y cofiant ar ei ymdrechion parhaus i ddatblygu cyfansoddiad a mynegiant llenyddol ei bregethau, sef 'amcan . . . [a] [ph]wnc neillduol ei efrydiaeth' (909). Y mae gofal a diddordeb Henry Rees i '[l]afurio mewn cyfansoddi' wedi derbyn sylw rhai beirniaid diweddar sydd wedi trafod ei gyfraniad fel arloeswr yn hyn o beth, ynghyd â phwysleisio mai

genadau', yn *Y Gofadail Fethodistaidd, sef Pregethau gan Nifer o Weinidogion Ymadawedig y Methodistiaid: Ail Gyfrol*, gol. D. Williams (Conwy, 1884), tt.339-49. Gw. yn ogystal, *CHR*, tt.193-4, lle sonnir i Henry Rees gyhoeddi traethawd o'r enw 'Annerchiad at y Cristion yn nhrafferth y byd' a ymddangosodd yn *Y Drysorfa* (1833), 294-7, 323-6. Er ei fod yn ddefnyddiol, noda Owen Thomas nad yw mor gain o ran cynnwys ac arddull. Cymherir y traethawd â phregeth ddiweddarach o'i eiddo ar yr un testun (a geir yn yr ail gyfrol o'i bregethau) sy'n amlygu'r 'holl fanylder a'r coethder a'r prydferthwch, ag a'i nodweddent yn ei flynyddoedd ddiwethaf'.

[105] *CHR*, t.201. Yr oedd sawl drafft ynghlwm wrth y broses honno, a byddai'n fynych 'yn ysgrifennu ac yn llosgi', chwedl Owen Thomas. Gw. hefyd ibid., tt.115, 161.

[106] Gw., er enghraifft, sylwadau Owen Thomas nad oedd ei wrthrych yn hoff o siarad yn fyrfyfyr ar unrhyw fater, ond iddo yn raddol ymdrechu i ymryddhau ei hun o'r duedd hon yn ddiweddarach yn ei fywyd. Yn wir, mewn un man, fe awgryma'r awdur fod yr hyn a geid ganddo wrth siarad yn fyrfyfyr yn fwy diddorol ac yn 'arddangos rhyw fywyd a mîn . . . na cheid, i'r fath raddau, yn y cyfansoddiadau a fyddent wedi eu paratoi yn y modd mwyaf gofalus ganddo' (ibid., t.116). Er ei bod ynghlwm â'i yrfa bregethwrol, enghraifft arall sy'n arddangos y duedd ofalus hon ynddo yw'r modd y teimlodd fod angen iddo baratoi yn ddeallusol gogyfer â gweinyddu'r sacramentau wedi iddo gael ei ordeinio (t.162).

'[g]waith ymwybodol lenyddol ganddo yw'r dasg o adeiladu a chyflwyno pregeth'.[107] Serch hynny, gwelir mai yn arwyddocâd y wedd hon arno fel 'pregethwr' y mae diddordeb pennaf Owen Thomas, yn hytrach na chyflwyno ymdriniaeth benodol ag arddull ei bregethau, neu gynnig dadansoddiad beirniadol ac estynedig ohonynt (909, 915). Dywed, er enghraifft, iddi amddiffyn ei wrthrych rhag esgeuluso llunio pregethau newydd a rhag datblygu mynegiant y bregeth ar draul ei meddyliau (202).

Yr ail agwedd ar ddatblygiad Henry Rees a bwysleisir yw ei ymdrech i ddyfnhau ei ysbrydolrwydd fel pregethwr. Dyma agwedd sy'n mynd law yn llaw â'i ofal am saernïaeth ac adeiladwaith ei bregethu. I Henry Rees, fel ei gofiannydd, conglfaen y 'traddodiad pregethwrol Awstinaidd-Galfinaidd mawr'[108] oedd bod pregethu'r Efengyl yn gyfrwng achubiaeth. Fel y dywed Goronwy Wyn Owen,'[y]r Ysbryd, drwy'r Gair, sy'n deffro dyn o'i drwmgwsg ac yn ei aileni'.[109] Gwelir mai ymgais i gymhwyso'i 'Galfiniaeth Efengylaidd' at gyneddfau meddyliol ac ysbrydol ei gynulleidfa oedd sail ei bregethau.[110] O'r herwydd, yr oedd prydferthwch a grym mynegiannol, coethder arddull a saernïaeth ofalus yn cyfoethogi effeithioldeb ac ysbrydolrwydd ei genadwri: 'Dyna sy'n gwneud tair cyfrol ei bregethau'n gystal moddion i ddarganfod mawredd y pregethwr', ys dywed R. Tudur Jones.[111] Un o'r prif ddylanwadau arno ydoedd pregethau'r Piwritaniaid Clasurol,[112] a'r ffigwr

[107] R. Tudur Jones, 'Pregethu Henry Rees (1798-1869) a Gwilym Hiraethog', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), t.196; Owen, 'Henry Rees', 101. Er bod Owen Thomas yn cyfaddef fod i bregethau Henry Rees 'nodwedd draethodol' a allasai lethu ei gynulleidfa oherwydd ehangder ei ymdriniaeth, dywed y '[t]eimlid bob amser fod y gwirionedd yn cael ei gyfleu yn y ffurf fwyaf manteisiol i'r gwrandawwyr ei ddeall' (*CHR*, t.927). Ac fel y noda R. Tudur Jones, mae ei boblogrwydd fel pregethwr yn tueddu i gadarnhau hynny (Jones, 'Pregethu Henry Rees, t.195').
[108] Owen, 'Henry Rees', 101.
[109] Ibid., 99.
[110] Jones, 'Pregethu Henry Rees',t. 201; Owen, 'Henry Rees', 101.
[111] Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.196.
[112] Owen, 'Henry Rees', 102. Noda Owen Thomas ddylanwad pellgyrhaeddol pregethau ac ysgrifau diwinyddol gwŷr megis Thomas Goodwin, John Flavell, Matthew Henry a John Howe.

amlycaf yn hyn o beth oedd y Dr John Owen (1616-1683), Cymro o dras ac un o ddiwinyddion pwysicaf yr ail ganrif ar bymtheg.[113] Yn ystod ei gyfnod yn yr Amwythig y daeth Henry Rees yn gyfarwydd â gweithiau John Owen, a rhydd Owen Thomas ddisgrifiad diddorol ohono'n pori dros y llyfrau hynny yn ei lety yn Barker Street:

> Ychydig a feddyliai y lliaws, oeddent yn tramwy yn ol ac yn mlaen ar hyd yr hëol hòno, fod yn un o'r tai, am y pared â hwy, ŵr ieuanc ac ysbryd hen Buritan duwiol, a fuasai farw agos i gant a haner o flynyddoedd cyn hynny, yn dal y fath gymdeithas â'u gilydd, yn ngwirioneddau yr efengyl ac yn mhrofiadau y saint, âg a gynnyrchai yr effeithiau mwyaf bendithiol ar feddyliau cannoedd a miloedd o drigolion ein gwlad. (118)[114]

Wrth adleisio'r cysyniad o gymundeb santaidd yn y dyfyniad uchod, mae'r cofiannydd yn atgoffa'i ddarllenwyr o bwyslais John Owen ar egwyddor santeiddhad.[115] Dyma'r allwedd i ddymuniad eithaf y Cristion o gymundeb â'r Tad Nefol,[116] a ddiffinnir gan gofiannydd John Owen fel 'the making of the heart and life

---

[113] Bu'n amlwg iawn ym mywyd crefyddol a gwleidyddol Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg, yn enwedig yn ystod teyrnasiad Oliver Cromwell. Noda'r *Bywgraffiadur* mai 'ar weithiau diwinyddol John Owen y magwyd cenedlaethau o bregethwyr Calfinaidd enwocaf Cymru' (*Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, t.669). Am ymdriniaeth â'i fywyd a'i weithiau, gw. Peter Toon, *God's Statesman: the life and work of John Owen, pastor, educator, theologian* (Exeter, 1971).

[114] Gw. *CHR*, tt.116-22 [118]. Yn ôl R. Tudur Jones, yr oedd cyfieithiadau Cymraeg o rai gweithiau gan John Owen ar gael cyn gynhared â 1724. Eto, mae tystiolaeth Owen Thomas yn awgrymu mai wedi iddo ddysgu Saesneg y daeth Henry Rees i gysylltiad â John Owen. Gw. R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe, 1966), t.120.

[115] Dyma athrawiaeth a sylfaenwyd ar y Testament Newydd, yn benodol 1 Thesaloniaid 4:3; 1 Pedr 1:15.

[116] Noel Gibbard, *Elusen i'r Enaid: Arweiniad i Weithiau'r Piwritaniaid Cymreig, 1630-1689* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1979), t.60; Peter Golding, 'John Owen on the mortification of sin', *Congregational Studies Conference Papers, 1985* (Oswestry, 1985), 24; J. I. Packer, *Among God's Giants: Aspects of Puritan Christianity* (Eastbourne, 1991), t.264. Fel yr eglura J. I. Packer, yr oedd santeiddhad yn un o'r elfennau a alluogai 'the more comprehensive reality that is central to Christian existence – namely, *communion with God*'[pwyslais JIP]. Gw. Packer, 'The spirituality of John Owen', yn *Among God's Giants*, t.264. Cyhoeddwyd y bennod fel erthygl ar y wefan *www.JohnOwen.org* yn ogystal. Mae'n werth cofio bod hanfodolrwydd cymundeb â Duw i fywyd y Cristion yn gred gyffredinol ymysg y Piwritaniaid, gan gynnwys John Owen. Toon, *God's Statesman*. Un o weithiau cyhoeddedig cynnar Owen Thomas oedd cyfieithiad o draethawd Thomas Watson ar egwyddor santeiddhad (gw. *Traethawd ar Santeiddhad gan y Parch. Thomas Watson, wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Owen Thomas, Bangor* (Llanrwst, 1839)).

of the believer holy'.[117] I gyflawni hyn, y mae'n ofynnol i farweiddio'r pechod sy'n bodoli yng nghalon pob crediniwr. Ystyr hynny oedd darostwng pechod ar bob cyfle drwy dderbyn preswyliad dyddiol yr Ysbryd Glân, drwy ras Duw, ar y galon. Fel y dywed Peter Golding: 'To put it in Owen's own words, "the foundation of all mortification of sin is from the inhabitation of the Spirit within us . . . The Holy Spirit is the author of the work in us, so that although it is our duty, it is his grace and strength whereby it is performed".'[118] Yr unig fodd o achub y galon bechadurus oedd 'ymberffeithio mewn sancteiddrwydd', felly (918). Dyma elfen a ddaeth yn ganolog i brofiad Henry Rees fel Cristion, ac a fu'n fodd iddo ddyfnhau ei sylwedd ysbrydol – yn enwedig ei ymwybyddiaeth o bechod. Ond unwaith eto, ar ganlyniad arwyddocaol hynny arno fel pregethwr y mae pwyslais pennaf Owen Thomas yma, gan iddo ddwyn '[c]yfnod newydd yn ei bregethu' (119). Noda y dwysawyd difrifwch a duwioldeb y pregethwr a'i bregethau,[119] ynghyd â'u heffaith ar y gwrandawyr:

> Yr oedd yn mhob pregeth fel yn gwthio i'r dwfn – i ddyfnder cyflwr a chalon y pechadur, ac i ddyfnder profiad ac ymwybyddiaeth y credadyn . . . ac ar gyfer y cwbl yn dwyn allan o ddyfnder calon yr efengyl bethau newydd a hen . . . oeddent gyfaddas i anghenion ysbrydol y pechadur argyhoeddiedig, ac i galonogi a chyfnerthu y credadyn gwan a thrallodedig.[120]

Yn sicr, yr oedd 'meithrin duwioldeb arbennig' yn ddatblygiad a barodd iddo gynyddu ei hynodrwydd a'i boblogrwydd fel pregethwr, ac nid ei feithrin yn unig ond ei gynnal, drwy ymdrech barhaus, ym mhob agwedd ar fywyd. Eithr nid cwbl lesol fu dylanwad John Owen yn ôl Owen Thomas gan i eiriogrwydd a hoffter y Piwritan o

---

[117] Toon, *God's Statesman*, t.167.
[118] Golding, 'John Owen on the mortification of sin', 23.
[119] Er enghraifft, yn ei bregeth ei hun ar 'Dywalltiad yr Ysbryd', dywed Henry Rees mai pregethwyr yw 'dynion wedi adnabod eu calonau eu hunain yn llefaru nes gwneyd dirgelion calonau eraill yn amlwg'. *Pregethau . . . Henry Rees, I*, t.426. Dyfynnir yn ogystal yn Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.200.
[120] *CHR*, t.119. Gw. yn ogystal ei lythyrau at ei ferch yn nes ymlaen yn y cofiant lle mae'n ei hannog i ddarllen gweithiau John Owen, tt.656-7.

amlhau adrannau a phennau yn ei bregeth effeithio'n negyddol ar bregethau Henry Rees am gyfnod.[121] Yma eto, fodd bynnag, amlyga'r cofiannydd y berthynas rhwng ysbrydolrwydd pregethau ei wrthrych a'u saernïaeth wrth nodi mai drwy ei ymdrech a'i awydd ymwybodol i fireinio arddull a mynegiant ei bregethau y llwyddodd i oresgyn y gwendid hwn.[122] Dyma gyfuno duwioldeb personol â diwydrwydd yr alwedigaeth gyhoeddus, a gellir dadlau mai'r berthynas rhwng y ddwy agwedd hyn sy'n gwneud Henry Rees yn bregethwr mor arbennig a chymeradwy ym marn y cofiannydd. Nid syndod bod Owen Thomas yn manylu cymaint arnynt yn y penodau hyn, felly. Er bod cyfeirio at elfen negyddol yn cynnig rhybudd rhag mabwysiadu nodweddion a lesteiriai ddatblygiad, mae'n amlwg mai bwriad yr awdur yw darlunio cynnydd parhaus a chadarnhaol a fyddai'n berthnasol i unrhyw gyw pregethwr a oedd am gyhoeddi, drwy'r Ysbryd Glân, wirionedd Efengyl Duw.[123]

### *'holl feddylfryd ei galon ar bregethu': ymroddiad i'r gwaith*

Megis Henry Rees y llanc, mae ymroddiad diarbed yr oedolyn i bregethu'r Gair yn nodwedd amlwg o bortread cofiannol Owen Thomas. Gwelir, yn ogystal, fod ei

---

[121] Ibid., .t.120. Ymddengys fod hyn yn fai yn arddull sawl un o'r Piwritaniaid. Ond mae'n amlwg fod John Owen yn euog iawn. Fel y dywed Peter Golding, 'Reading Owen is never easy' ('Owen on the mortifiaction of sin', 19), a sonia J. I Packer am ei 'studied unconcern about style in presenting his views' (*Among God's Giants*, t.253). Canlyniad hyn oedd bod pregethau Henry Rees nid yn unig yn faith iawn, ond yn gymhleth ac anodd eu cofio. Eto, tybed nad oes cysylltiad rhwng yr elfen hon â'r duedd a oedd yn Henry Rees i ymgorffori gormod o ddeunydd yng nghorff ei bregethau – elfen, fel y nodwyd uchod, a allasai lethu'r gwrandawyr a gosod gwedd 'draethodol' ar ei bregethau. Gw. yr hanesyn a rydd Owen Thomas am ymliw chwareus rhwng y pregethwr Annibynnol amlwg William Williams o'r Wern a Henry Rees ar y pwynt hwn yn *CHR*, tt.242-4, lle geilw Williams o'r Wern ei gyfaill yn '[b]regethwr didrugaredd iawn i bregethwyr eraill . . . [a]m fod arnoch eisiau dihysbyddu pob testun yr ymafloch ynddo, fel na fedro neb bregethu arno ar eich ol' (t.244).

[122] Ibid., t.122. Sonia Owen Thomas yn ogystal iddo ddarllen gweithiau meddylwyr sy'n llai clogyrnaidd eu harddull a 'llawer coethach eu chwaeth' na John Owen, megis Robert Hall, John Foster ac Isaac Taylor.

[123] Ibid., t.927. Sonia R. Tudur Jones am y pwyslais a rydd Henry Rees yn ei bregethau ar bwysigrwydd dylanwad yr Ysbryd Glân ar gyfryngau achubiaeth. Serch hynny, mae'n ein hatgoffa yn ogystal nad yw hynny'n gyfystyr â 'bychanu swydd Gair Duw yn y Beibl ac yn y bregeth', Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.200; Owen, 'Henry Rees', 99.

'[g]ysegredigaeth hollol i'r efengyl' yn elfen arwyddocaol o ran ei hynodrwydd a'i ddatblygiad gyrfaol ac ysbrydol fel pregethwr.[124] Ceir sawl enghraifft yn y penodau hyn sy'n manylu ar yr elfen hon, ac sy'n gwneud hynny o fewn cyd-destun pregethwrol y cofiannydd. Yn wir, egyr Owen Thomas bedwaredd bennod y cofiant drwy adrodd bod awydd Henry Rees i bregethu yn dwysáu, ffaith a gyfunnir â chred ddiffuant y saint yn y Bettws fod deunydd pregethwr ynddo (70). Nodir mai '[rh]yw hoffter mawr at y gwaith' a'i sbardunodd i ddechrau pregethu yn 1819 (71), ond dengys y cofiannydd, yn ogystal, fod ei wrthrych yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd pregethu. Telir sylw i rai digwyddiadau penodol yn ei fywyd a'i yrfa sy'n ei ysgogi i ymroi at y 'gwaith mawr', megis gwella o salwch (yn ddiweddarach yn 1819) (83) neu ddychwelyd o daith bregethu ym Môn.[125] Amcan Owen Thomas yw amlygu mai 'gorchwyl mawr ei oes fyddai pregethu yr efengyl' (95), ac mai'r alwedigaeth honno a lenwai 'holl feddylfryd ei galon' yn y cyfnod hwn (103). Gwelir yr un pwyslais ar ymroddiad Henry Rees yn y datganiadau o du'r cofiannydd am statws ei yrfa – datganiadau sy'n debyg iawn i'r rhai a gafwyd am John Jones yn ei gofiant yntau.[126] Unwaith eto, credaf mai bwriad y brawddegau 'llanw' hyn oedd argraffu ar feddyliau ei ddarllenwyr ymdeimlad dwfn ei wrthrych(au) â dwyster a phwysigrwydd y 'barchus arswydus swydd'.[127]

Ymhellach, mae modd adnabod rhai themâu penodol yn ymdriniaeth y cofiannydd ag ymroddiad Henry Rees i bregethu yn y penodau hyn, megis y sylw a

[124] Yn ogystal â'r cyfeiriadau a nodir uchod, gw. *CHR*, tt.78, 102-3, 133, 202, 223-4, 385.
[125] Ibid., t.124. Tebyg yw'r llythyr a ysgrifennwyd ganddo pan oedd ar daith yn siroedd Morgannwg a Mynwy; llythyr sydd, yn ôl Owen Thomas, yn dadlennu '[ei] gysegredigaeth hollol i'r gwaith mawr a ymddiriedasid iddo' (t.176).
[126] Soniwyd eisoes am y datganiad sy'n agor y chweched bennod (ibid., t.161) yn dilyn ei ordeiniad i'r weinidogaeth.
[127] Gw. pennod 3 y traethawd hwn, tt.166-7. Soniwyd eisoes mai gair D. E. Jenkins am y brawddegau hyn oedd 'padding'.

rydd i ymdrech ei wrthrych i dderbyn addysg. Soniwyd eisoes mai ychydig o addysg a gafodd Henry Rees pan oedd yn blentyn.[128] Ac yntau yn oedolyn, teimla'r awydd am ragor, ac mae'r portread pregethwrol i'w weld yma eto yn hyn o beth. Yn fuan wedi iddo ddechrau pregethu, penderfyna fynychu ysgol Thomas Lloyd yn Abergele. Er na all Owen Thomas gyflwyno hanes cynhwysfawr am ei gyfnod yno, mae am bwysleisio i'w wrthrych '[dd]yfod yn fwy-fwy argyhoeddedig o'i bwysigrwydd, ac yn fwy-fwy ymwybodol o'i ddiffygion ei hunan' gyda'r gwaith (78, 90). Llawforwyn ydyw addysg, felly, sy'n gosod seiliau deallusol i Henry Rees, a chynorthwyo gyda'i amcan mawr o ddatblygu'n bregethwr hynod. Yn wir, mae'n bur amlwg mai prif bwrpas mynychu ysgol Thomas Lloyd oedd dysgu Saesneg, iaith a fyddai'n ddefnyddiol iawn o ran darllen gweithiau diwinyddol.[129] Dyma elfen y manylir ymhellach arni pan edrydd Owen Thomas am benderfyniad ei wrthrych i symud i'r Amwythig. Nodir iddo barhau gyda'i addysg Saesneg yma drwy fynychu ysgol yn Dorrington yn 1822,[130] ac fel y gwelwyd eisoes, daeth i gysylltiad ehangach â gweithiau'r diwinyddion piwritanaidd a gafodd ddylanwad pellgyrhaeddol ar ddyfnhau ei ddoniau fel pregethwr (116). Mae ymdrech Henry Rees i gyfoethogi'n addysgol ac i'w ddiwyllio'i hun yn ffactor penodol yn ei ddatblygiad fel pregethwr, ac nid rhyfedd bod Owen Thomas yn gosod pwyslais uniongyrchol ar ei ymroddiad i'r pulpud yng nghyd-destun y ddau ddigwyddiad hyn.

Thema arall a geir yma yw'r modd y mae awydd Henry Rees i dyfu'n bregethwr mawr yn llywio ei holl benderfyniadau. Megis yn y penodau agoriadol,

---

[128] Yn ôl y cofiant, pan oedd tua wyth mlwydd oed aeth i ysgol ddyddiol Gymraeg yng nghapel Tan-y-fron a gedwid gan ŵr o'r enw Richard Davies. Aeth wedyn i ysgol ddyddiol Saesneg ei chyfrwng yn Llansannan a gedwid gan John Jones, mab y bardd Edward Jones, Maes-y-plwm (*CHR*, tt.11-12).
[129] Gw., er enghraifft, ibid., tt.78, 90, 94-5.
[130] Yn ogystal, byddai'n gorfod siarad Saesneg yn amlach yn yr Amwythig, wrth gwrs. Ac mae'n ddiddorol ei fod yn ddiweddarach yn ei fywyd wedi dadlau dros symud yr Athrofa o'r Bala i Wrecsam oherwydd y byddai'n rhoi mwy o gyfle i bregethwyr ieuainc ddysgu Saesneg. Gw. ibid., tt.744-58.

mae cyd-destun pregethwrol yr awdur yn amlwg yn y portread. Noda'r cofiannydd mai'r rheswm y dychwelodd Henry Rees gartref o'r Bettws yng ngwanwyn 1819 oedd 'er cael ei hunan yn hollol rydd at y gwaith mawr yr oedd wedi cysegru ei oes iddo' (75). Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ac yntau'n pendroni ynghylch ei ddyfodol, dywed iddo benderfynu mynd i'r Amwythig a dysgu'r grefft o rwymo llyfrau. Edrydd Owen Thomas iddo fynd yno ar awgrym Owen Williams, a aeth ei hun i'r Amwythig i ddysgu'r grefft. Nod hynny oedd rhoi i Henry Rees fywoliaeth gysurus mewn gwaith a fyddai'n golygu ei fod yn rhydd i bregethu lle y mynnai ac felly yn 'gydweddol â'r weinidogaeth' (97). Eithr wedi cyrraedd yr Amwythig ni pharhaodd yn hir fel rhwymwr llyfrau, a chyflwynodd ei holl amser i bregethu (115).[131] Unwaith eto, gwelir bod portread y cofiannydd yn gadarn ar bwysleisio arwyddocâd ymroddiad ac ymdrech barhaus a diflino ei wrthrych, yn wyneb myrdd o anawsterau, i ddyfod yn un a fydd 'yn benaf oll, yn cael ei adnabod fel gweinidog i Iesu Grist' (387).

### 4.3.3 'amcanu ei osod allan fel pregethwr': newid pwyslais?

Hyd yn hyn yn y bennod hon, amcanwyd at ddadlennu sut y fframiwyd ymdriniaeth Owen Thomas â'i wrthrych o fewn cyd-destun ei yrfa gyhoeddus fel pregethwr a bwysleisiai agweddau penodol, megis ei hynodrwydd, ei gynnydd neu ddatblygiad, a'i ymroddiad i'r swydd. Byddai'r agweddau hyn yn cyd-fynd â chymhellion cofiannol yr awdur o gyflwyno pregethwr delfrydol i'w efelychu. Nid oes ddwywaith

[131] Tebyg mai'r gwrthwyneb i'r elfen hon yw pan gaiff testunau ei bregethau eu llywio gan ddigwyddiadau, megis y bregeth a luniwyd adeg haint y Colera yn 1832 (ibid., tt.188-9). Enghraifft arall yw'r pregethau dirwestol a luniwyd ganddo pan oedd y dadleuon ynghylch y symudiad hwnnw ar eu hanterth ganol y 1830au. Am wybodaeth bellach, gw. John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990; arg.1992), tt.360-1. Gw. yn ogystal y drafodaeth ar lythyrau y pregethwr James Hughes (Iago Trichrug), a wrthwynebai ddirwest, yng nghyfrol Robert Rhys, *James Hughes, Iago Trichrug* (Caernarfon, 2007), tt.97-101.

nad yw'r cyd-destun pregethwrol hwn ar ei gryfaf yn hanner cyntaf y cofiant, yn enwedig yn y penodau hynny sy'n dilyn hanes gyrfa Henry Rees yn y pulpud. Gwelwyd, yn ogystal, mai hynt yr alwedigaeth hon ydoedd prif gyfrwng naratifol Owen Thomas wrth gyflwyno hanes bywyd ei wrthrych i'w ddarllenwyr. Hyd at ddechrau degfed bennod y cofiant, felly, y pregethwr yw calon y portread a geir o Henry Rees. Eithr yma, cymer Owen Thomas saib, a thorri ar lif yr hanes er mwyn gwneud datganiad cofiannol sy'n cadarnhau mawredd ei wrthrych yn y pulpud a'i statws uchel ymysg ei gyd-bregethwyr, cyn mynd ati i fyfyrio ar ei gymhellion a'i brosesau ei hun parthed y cofiant a'u hegluro i'r darllenydd:[132]

> Yr ydym, yn y pennodau blaenorol, wedi gweled Mr Rees yn cynnyddu o flwyddyn i flwyddyn, hyd nes y mae yn awr wedi cyrhaedd y safle uchaf a pharchedicaf oedd yn bosibl iddo yn y Cyfundeb . . . Nid yw y defnyddiau genym a'n galluogent i fyned rhagom gydâ'r un manylder yn ei hanes, ac yn yr un dull, am y gweddill o'i oes, ac nid ydym yn tybied y byddai hynny yn ddymunol. Felly ni bydd ymgais at hyny. (389-90)

Fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf, ceir saib cofiannol tebyg iawn yn *Cofiant John Jones, Talsarn* – eto ar ddechrau'r ddegfed bennod.[133] Megis yno, mae'n rhaid ystyried geiriau'r cofiannydd fel ymgais ymwybodol a bwriadol ar ei ran i newid cyfeiriad y naratif. Ond yma, mae'n arwyddocaol bod y geiriau hyn hefyd yn arwyddo cefndeuddwr pendant yn ymdriniaeth gofiannol yr awdur o safbwynt y cyd-destun pregethwrol a fu mor ddylanwadol ar ei bortread canolog hyd yn hyn.[134] Ar yr olwg gyntaf, nid ymddengys fod newid chwyldroadol yng nghyfansoddiad y chwe phennod

[132] Gwelwyd eisoes yn yr astudiaeth hon fod modd ystyried Owen Thomas yn gofiannydd ymwybodol, a'i fod weithiau yn ymbresenoli yn naratif ei gofiannau. Gw. pennod 2, tt.116-40.
[133] Gw. *CJJT*, tt.222-3. Gw. yn ogystal bennod 2 y traethawd hwn, tt.116-19.
[134] Megis y gwelir isod, mae'n deg nodi y ceir awgrymiadau o'r newid hwn ym mhenodau wyth a naw, ond dyma'r arwydd pendant cyntaf o du'r cofiannydd fod y gwynt cofiannol ar droi.

hanesiol neu fywgraffiadol sy'n weddill yng nghorff y cofiant.[135] Yr un drefn gronolegol sydd i'r adeiladwaith, a'r un ffrâm yrfaol sy'n llwyfannu'r hanes. Lle cadwodd y cofiannydd ei air, fodd bynnag, oedd ei honiad nad oedd am gofiannu oedfaon cyhoeddus Henry Rees 'gydâ'r un manylder'. Er nad ydynt yn llai niferus o reidrwydd yn ail hanner y cofiant, y mae'r adroddiadau ar ei bregethau yn fyrrach a chyfeiriadol ar y cyfan. Yn aml iawn, cedwir i'r arfer o nodi yn blaen leoliad y bregeth, a'i thestun, ynghyd â chynnwys rhyw ansoddair dethol sy'n ei disgrifio. Ceir llai o lawer o'r disgrifiadau manwl a'r trafodaethau estynedig a oedd yn rhan greiddiol o gynnwys ac adeiladwaith y penodau blaenorol.[136] Ac er gwaethaf y sylw a delir i rai oedfaon arbennig, ni cheir ychwaith naws ddathliadol y penodau hynny yn ail hanner *Cofiant John Jones, Talsarn* sy'n darlunio'r oedfaon hynotaf a'r effeithiau gorfoleddus a gawsai pan oedd yng 'nghyflawnder ei nerth' fel pregethwr.[137] O'r herwydd, nid yw'r cyd-destun pregethwrol mor ganolog ag y bu, a chaiff y portread o Henry Rees fel pregethwr ei lastwreiddio i gryn raddau yn y penodau hyn.

Serch hynny, ni wedir y cyd-destun pregethwrol yn llwyr. Rhydd y cofiannydd o hyd olwg i'w ddarllenwyr ar fyd y pregethwr, ynghyd â'r berthynas gymdeithasol rhyngddo a'i gynulleidfa. Er enghraifft, dyfynnir rhai llythyrau o eiddo Henry Rees sy'n ymateb i'r galwadau cyson arno i bregethu.[138] Telir sylw yn ogystal i'w berthynas â'i gyd-bregethwyr. Cynhwysa'r cofiannydd ei lythyrau at frodyr yn y

[135] Hynny yw, penodau 10 i 15 sy'n ymdrin â hanes bywyd Henry Rees. Pennod thematig ei naws yw pennod 16 sy'n ymdrin yn ddadansoddol â Henry Rees 'fel pregethwr'. Gw. Atodiad 4 am deitlau'r penodau, ynghyd â'r drafodaeth ym mhennod 1 y traethawd hwn, tt.76-7.
[136] Er enghraifft, *CHR*, tt.553-5, 558-61, 589-90, 601, 684, 790-5, 858-9, 863-4, 864-7, 871-5. Gweler yr un pwyslais i raddau helaeth ar bregethau hynod, neu oedfaon o bwys, megis y tro diwethaf i Owen Thomas glywed ei wrthrych yn pregethu (tt.871-5). Cynhwysir yma rai achlysuron, megis cyfarfodydd eglwysig neu gyfundebol, neu'r sacramentau.
[137] Gw. *CJJT*, penodau 12 a 14. Gw. Atodiad 3.
[138] *CHR*, tt.542, 563-4, 711-12, 817, 835, 854-5.

ffydd sy'n ymdrin â phregethu a phregethau,[139] ac edrydd am rai pregethau ac anerchiadau angladdol, megis teyrnged ei wrthrych i'w gyd-bregethwr yn Lerpwl, John Hughes (694-700). Er mai'r ffrâm yrfaol o restru hynt ei oedfaon yw cyfrwng amlycaf yr awdur o hyd, ac yntau bellach yn weinidog ordeiniedig ac yn un o sêr y pulpud, nid rhyfedd nad oes mo'r un sylw i ddatblygiad Henry Rees fel pregethwr i'w ganfod yn y penodau hyn. Yn hytrach, gesyd y cofiannydd fwy o bwyslais ar thema arall sy'n gysylltiedig â'i yrfa gyhoeddus yn y pulpud er mwyn amlygu'r cyd-destun pregethwrol, sef ei '[l]afur diorffwys' (590). Fel y gwelwyd eisoes yn yr astudiaeth hon, yr oedd dadlennu diwydrwydd pregethwr yn nodwedd gyffredin a phwysig o'r cofiant crefyddol Cymraeg,[140] ac megis yn ei gofiant i John Jones, mae Owen Thomas yn gyson ei bortread o Henry Rees fel pregethwr nad oedd yn 'arbed dim arno ei hunan' (541) ac yn 'llafurio gydâg egni mawr . . . heb golli cymmaint ag un Sabboth' (733).[141]

Unwaith eto, mae'r pwyslais hwn ar ddiwydrwydd a dyfalwch ei wrthrych yng nghyd-destun y 'gwaith mawr' (781) yn adlewyrchu'r un themâu neu gyneddfau ag a welwyd yn y penodau blaenorol, megis ei hynodrwydd a'i boblogrwydd, ei ddifrifoldeb a'i ymroddiad. Nodir ei fod yn 'llawn o ysbryd pregethu' (500), a'i fod yn 'gwbl gysegredig i'r efengyl' (493, 714). Tystia'r cofiannydd, er enghraifft, i'w ddifrifoldeb digwestiwn ar fore Sul wrth baratoi at yr oedfa 'mewn ing enaid yn ymdrech gydâ Duw' (883-4).[142] Dro arall, sonia am hiraeth Henry Rees am gael bod 'ar y *stage*' yng Nghymdeithasfa'r Bala, yn hytrach na gorfod mynychu achos Llys yn

[139] Er enghraifft, ibid., t.870.
[140] Gw. pennod 1 y traethawd hwn, *passim*.
[141] Er enghraifft, *CHR*, tt.541, 565, 590, 648, 733, 768, 811, 824, 829, 862-3, 868. Cymaint yw ei lafur yn y 1860au, yn wir, nes bod y cofiannydd yn nodi fwy nag unwaith na feddyliodd neb y byddent yn ei golli o'u plith am flynyddoedd lawer (t.863).
[142] Yn ôl tystiolaeth ei ferch, yr oedd hyn yn cyferbynnu'n drawiadol â'r ysgafnder a ddeuai ar ei ysbryd erbyn nos Sul.

Llundain.[143] Yr awgrym, wrth gwrs, yw mai llwyfan y Gymdeithasfa oedd ei gynefin naturiol ef, lle gallai arfer ei ddoniau arbennig at y gwaith, ac na allai 'fod yn fodlon heb bregethu' (812). Yr un yw diben y sylw a rydd Owen Thomas i awydd ei wrthrych i ailafael yn y gwaith wedi cyfnod o waeledd (839, 884), ynghyd â'i benderfyniad i fynd i bregethu i Wrecsam ddechrau Chwefror 1869 er nad oedd yn iach o gwbl (893). Yr oedfa honno oedd ei olaf fel pregethwr. O'r herwydd, gwelir bod y cyneddfau hyn yn gyson ganolog i agenda gofiannol Owen Thomas o gyflwyno patrwm o bregethwr i'w gynulleidfa darged yn y cofiant. Wrth sôn, er enghraifft, ei bod yn resyn o'r mwyaf nad oes fersiynau cyflawn ar gael o'r anerchiadau 'nodedig o werthfawr' a wnaeth ei wrthrych ger bron cyfarfodydd y Pregethwyr yn y Gymdeithasfa ar hyd y blynyddoedd, sylw'r cofiannydd yw y gallasai'r sylwadau amrywiol hyn am bregethu fod wedi bod 'o wasanaeth dirfawr, yn enwedig i bregethwyr ieuainc' (459). Cadarnhau hyn oll a wna'r bennod thematig sy'n ymdrin yn benodol â Henry Rees fel pregethwr, ac megis *Cofiant John Jones, Talsarn*, nid yw'n gyd-ddigwyddiad mai'r bennod hon sy'n cloi'r cofiant i bob pwrpas.[144] Eto, fel y nodwyd eisoes, yn wyneb y dystiolaeth a geir gellir dadlau bod arwyddocâd y cyd-destun pregethwrol, a'i ddylanwad ar bortread Owen Thomas, yn wannach yn y penodau hyn. Yn wir, mae'n eironig bod y cyd-destun pregethwrol hwn ei hun yn amlygu hynny ambell waith, megis pan gyfeddyf y cofiannydd wrth ei ddarllenwyr nad yw 'wedi gwneuthur cyfeiriad neillduol at ei deithiau a'i lafur yn y blynyddoedd diwethaf hyn mewn cysylltiad â'n Cymdeithasfäoedd'.[145] Y bwriad yn awr yw

[143] *CHR*, t.495. Gwysiwyd Henry Rees a Roger Edwards i ymddangos mewn achos Llys yn Llundain adeg Cymdeithasfa'r Bala, 1849. Fe'u galwyd fel tystion mewn achos a oedd yn ymwneud â chapel Jewin Crescent. Ymddengys na ddaeth dim o'r achos yn y pen draw. Ymateb ydoedd i gwestiwn Roger Edwards oni fyddai'n well ganddo fod yn Llundain nag yn pregethu yn y Gymdeithasfa.
[144] Caiff y bennod ei dilyn gan Atodiad nad yw'n rhan o'r naratif swyddogol. Gw. fy sylwadau am bennod thematig debyg yn *Cofiant John Jones, Talsarn* ym mhennod 3, tt.205-7.
[145] *CHR*, tt.525, gw. yn ogystal t.824.

amlygu sut y gwanhawyd y cyd-destun pregethwrol drwy droi at y cyd-destunau amgen a geir ym mhortread Owen Thomas o fywyd Henry Rees.

## 4.4. 'HANES Y NAILL WEDI EI GYMHLETHU, I FESUR MAWR, Â HANES Y LLALL': HENRY REES Y CYFUNDEBWR

Awgrymwyd eisoes sut yr arwyddodd saib cofiannol Owen Thomas ar ddechrau'r ddegfed bennod ei fod am newid cyfeiriad o ran ei ymdriniaeth â'i wrthrych, ac mai canlyniad hynny oedd gwanhau'r cyd-destun pregethwrol yn hanner olaf y cofiant. Eto, tybed nad gormodiaith fyddai dweud mai newid cyfeiriad a wnaed, rhagor na newid pwyslais:

> Yr un pryd, yr oedd iddo ef, erbyn hyn, law mor arbenig yn yr amrywiol ysgogiadau yn ein plith fel Cyfundeb, fel y mae ei hanes ef, i fesur mawr, yn gymhlethedig â'u hanes hwynt; a chan belled a hyny y mae yn rhaid iddynt gael ein sylw. (390)

Dyma gyfiawnhad Owen Thomas dros gynnwys llawer o ddeunydd amgen sy'n ymwneud â phrif drafodaethau a thueddiadau Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[146] Ac ar un wedd, yr oedd ganddo reswm amlwg dros wneud hynny. Fel pregethwr dylanwadol a grymus, bu Henry Rees yn gyfrannog o hynt a helynt yr enwad am ddeugain mlynedd a mwy. Ac yn dilyn marwolaeth John Elias yn 1841, fe'i hystyrid yn 'brif arweinydd' y Cyfundeb

[146] Yn benodol wedi 1841. Ailadroddir ac atgyfnerthir y sylw hwn o'i eiddo yn nes ymlaen yn y gyfrol. Noda 'nad oes bosibl i ni wneyd tegwch hollol â'i hanes ef' o hepgor deunydd o'r fath (ibid., t.536).

yng ngogledd Cymru.[147] Ymhellach, dangosodd Owen Thomas gryn fedrusrwydd wrth ymdrin â deunydd amgen o'r fath yn ei glasur cynharach *Cofiant John Jones, Talsarn*, ac mae'r un 'cymwysterau digonol', chwedl Iolo Carnarvon, i'w canfod yma, sef ei ddiddordeb amlwg yn y maes, ynghyd â manylder a chywirdeb ei ymdriniaeth. Yn wir, awgrymodd ei gofiannydd bwysigrwydd y deunydd enwadol wrth nodi mai *Cofiant Henry Rees* oedd y 'cyfrwng gorau sydd gennym i adnabod y Cyfundeb Methodistaidd yn ei arweinwyr a'i symudiadau, a'r ysbryd rhagorol oedd ynddo yn ei ail gyfnod'.[148] Eto, mae'n ddiddorol ac arwyddocaol na thrinnir y deunydd yn yr un modd yn union yn y ddau gofiant. Gwelwyd yn y bennod ddiwethaf mai pwrpas cyd-destunol oedd adrodd hynt y dadleuon diwinyddol a chyflwyno portreadau o fawrion y pulpud Cymreig yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, ac fe gryfheir hynny gan arfer y cofiannydd gan mwyaf o'u crynhoi i benodau arbennig mewn mannau perthnasol o'r cofiant.[149] Gosodir cefndir perthnasol i'r newid neu'r datblygiad penodol a ddaeth i ran John Jones fel pregethwr, ynghyd â chadarnhau ei le ymysg pregethwyr blaenaf Methodistiaeth. O'r herwydd, y mae cynnwys ac adeiladwaith y penodau hynny yn cyfrannu at y cyd-destun pregethwrol canolog ar ddehongliad Owen Thomas o'i wrthrych, ac yn ei gyfoethogi.[150] Megis y penodau

---

[147] Yn wir, mae'n bwysig cofio bod bywyd Henry Rees yn rhychwantu cyfnod o newid sylweddol ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd. Yn dilyn sefydlu'r Cyfundeb yn ffurfiol drwy ymwahanu a'r Eglwys sefydledig yn 1811, cafwyd sawl datblygiad cyfundrefnol yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis llunio'r gyffes ffydd, sefydlu'r athrofeydd a'r gymdeithas genhadol, ynghyd â thwf yn y weinidogaeth fugeiliol a threfniadaeth gyffredinol. Am hanes Methodistiaeth Galfinaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gw. y drydedd gyfrol arfaethedig yn y gyfres *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, gol. J. Gwynfor Jones, a gyhoeddir ym Medi 2011.

[148] Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.530-1. Adleisiwyd y farn hon gan sawl beirniad cyfoes a modern, megis pan sylwodd D. Ben Rees ymron i 70 mlynedd yn ddiweddarach fod manylder y cofiant yn ei wneud yn ffynhonnell werthfawr dros ben i haneswyr, ac yn arbennig haneswyr Methodistiaeth (Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.243).

[149] Yr eithriad amlwg yw'r rhan ym mhennod 7 y cofiant sy'n cynnig portreadau byrion o aelodau Cyfarfod Misol Arfon pan ymunodd John Jones ag ef (*CJJT*, tt.106-32). Eto, cedwir y deunydd i un rhan o'r bennod ac mae'n gwbl gyd-destunol i'r hanes ac i amcanion cofiannol Owen Thomas parthed ei wrthrych, yn ogystal â bod yn berthnasol i'r cyfnod. Mae hanes y dadleuon diwinyddol ar y mwyaf wedi eu gosod mewn un bennod faith, sef pennod 11 (tt.262-609) a'r portreadau o fawrion y pulpud Cymraeg yn ffurfio rhan gyntaf y bennod olaf, sef pennod 16 (tt.792-970). Gw. Atodiad 3.

[150] Gw. pennod 3 y traethawd hwn, tt.40-54 (yn arbennig, tt.178-97) a tt.202-5.

cyd-destunol hynny, y mae'r deunydd cyfundebol a gyflwynir yn *Cofiant Henry Rees* yn sicr yn berthnasol i hanes ei wrthrych. Ond ni ellir honni ei fod yn uniongyrchol gysylltiedig â Henry Rees bob tro, ac yn sicr nid yw'n ymwneud yn neilltuol â'r portread ohono ef fel pregethwr. Er ei fod yn gyd-destunol yn ei hanfod, gwelwn mai dull Owen Thomas gan mwyaf y tro hwn yw britho'r deunydd drwy naratif y cofiant, a gellir dadlau mai canlyniad hyn oll yw cyflwyno cyd-destun ychwanegol ar ddehongliad y cofiannydd o'i wrthrych. Nid pregethwr yn unig mo Henry Rees, felly, ond cyfundebwr yn ogystal, ac mae'r cyd-destun cyfundebol hwn yn ymgiprys am sylw'r darllenydd, gan dueddu i ymyleiddio neu lastwreiddio portread crwn ac unigolyddol y cofiannydd ohono fel pregethwr duwiol a diwyd.[151]

Er mai yn ail hanner y cofiant y caiff y cyd-destun cyfundebol ei amlygu fwyaf, byddai'n deg dadlau fod modd adnabod cyfeiriadau pendant at ddeunydd o'r fath yn y penodau blaenorol yn ogystal.[152] Yr enghraifft hynotaf yn y penodau cynharaf yw'r hanes a nodwyd eisoes o'r tro y cyfarfu Henry Rees â'r cewri enwadol

[151] Mae'n anodd cynnig rheswm pendant dros benderfyniad Owen Thomas i amrywio ei ddull yma, yn enwedig, fel y nodwyd eisoes, gan iddo gadw at strwythur cyffredinol y cofiant i John Jones, Tal-y-sarn wrth ymdrin ag agweddau eraill ar *CHR*. Serch hynny, nid tasg hawdd fyddai gosod hynt datblygiadau a digwyddiadau cyfundebol o'r fath, dros gyfnod maith, mewn un bennod, yn enwedig gan fod nifer ohonynt yn gysylltiedig â Henry Rees ei hun. Noder, yn ogystal, sylwadau Owen Thomas ei hun yn rhagymadrodd *CJJT* iddo dderbyn canmoliaeth a chwynion am y penodau cyd-destunol hyn yn dilyn cyhoeddi'r gyfrol mewn rhannau (*CJJT*, t.iii). Ymhellach, mae'n debyg y dylid ystyried bod Owen Thomas mewn gwth o oedran ac yn ddigon bregus ei iechyd pan oedd yn llunio'r cofiant, ac y byddai'r dull cronolegol a arferwyd yn haws o ran cyfansoddi yn gyffredinol.

[152] Ceir awgrym o botensial Henry Rees fel arweinydd yn y bennod gyntaf un, pan noda'r cofiannydd ei fod yn ddisgynnydd i'r uchelwr Hedd Molwynog (*CHR*, tt.3-4). Yr oedd Hedd Molwynog yn bennaeth ar un o bymtheg llwyth Gwynedd yn y ddeuddegfed ganrif, ac felly byddai nodi'r cysylltiad yn amlygu ei urddas naturiol a'i 'ogwydd cryf at arwain pobl', chwedl R. Tudur Jones (Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.194). Ymddengys fod y ddau frawd yn ymwybodol iawn o'r cysylltiad hwn, ond mae'n rhaid na wyddai Owen Thomas am dystiolaeth y beirdd fod cyfieithydd y Beibl, William Morgan, yn hanu o'r un cyff neu byddai yn sicr wedi cynnwys cyfeiriad ato. Dywed yn y cofiant mai ffaith a rydd gryn anrhydedd ar Lansannan yw mai yno y ganwyd 'yr enwog William Salesbury' (*CHR*, t.2). Gw. John Gwynfor Jones, 'Cefndir William Morgan a'i gyfraniad i Brotestaniaeth', yn idem, *Crefydd a Chymdeithas: Astudiaethau ar Hanes y Ffydd Brotestannaidd yng Nghymru, c.1559-1750* (Caerdydd, 2007), t.119.

Thomas Charles a John Elias adeg Cymdeithasfa y Bala yn 1814.[153] Yma, mae'r cofiannydd yn torri ar rediad y naratif er mwyn pwysleisio arwyddocâd y cyfarfyddiad 'hynod' hwn rhwng y tri a fu'n arwain y Cyfundeb am dair cenhedlaeth o ddechrau'r 1790au hyd ddiwedd y 1860au.[154] Ceir, i ryw raddau, drafodaeth gyfochrog ar ddatblygiad gyrfa a statws enwadol neu gyfundebol Henry Rees yn y penodau ffurfiannol hynny o'r cofiant sy'n trafod ei ddatblygiad fel pregethwr. Er enghraifft, telir sylw i rai cerrig milltir enwadol, megis ei benodiad cyntaf ar ran y Gymdeithasfa i gasglu tystiolaeth parthed sefydlu achos Cymraeg yn ninas Birmingham.[155] Er nad yw'r penodiad hwn yn gysylltiedig â gyrfa bregethwrol Henry Rees fel y cyfryw, y mae'n ddiddorol bod y cofiannydd yn cymhwyso'r swyddogaeth gyfundebol hon at ei ddoniau yn y pulpud wrth nodi ei bod yn rhagarwyddo'r cyfraniad a wnâi yn ystod deng mlynedd ar hugain olaf ei fywyd fel 'trefniedydd medrus, a chynghorwr ffyddlawn a doeth, yn gystal a phregethwr nerthol' (164). Dengys hyn fod perthynas bendant rhwng y cyd-destun pregethwrol a'r cyd-destun cyfundebol yn y cofiant, ac na ellir eu trin fel elfennau cwbl annibynnol ar ei gilydd. Er nad yw'r cyd-destun enwadol a chyhoeddus hwn mor amlwg yn y penodau hyn, ni ellir gwadu ychwaith nad oes cyd-destun cyfundebol diamwys i'w ganfod ar ymdriniaeth y cofiannydd ag achlysuron o'r fath. Er enghraifft, haera Owen Thomas mai yng Nghymdeithasfa'r Bala, 1833, y cymerodd Henry Rees ran mewn gwasanaeth ordeinio am y tro cyntaf (193) er ei fod eisoes wedi nodi i'w wrthrych draddodi'r cyngor yn ordeiniad ei frawd William yn weinidog gyda'r Annibynwyr

[153] *CHR*, tt.33-8. Dyma uchafbwynt hanesyn y cofiannydd amdano'n ceisio perchenogi *Geiriadur Ysgrythurol* Thomas Charles. Fel y nodwyd eisoes, sail cofiannol cynnwys yr hanes oedd dangos ymroddiad Henry Rees i'w ddiwyllio ei hun er mwyn datblygu'n bregethwr cymeradwy. Gw. n.66 uchod.

[154] Bu farw Thomas Charles yn 1814, a John Elias yn 1841. Fel y soniwyd uchod, dyma'r unig dro i Henry Rees sgwrsio â Thomas Charles a dyma'i gyfarfyddiad cyntaf â John Elias yn ôl Owen Thomas. Nid rhyfedd bod y cofiannydd yn diweddu ei adroddiad drwy hawlio y byddai'r digwyddiad yn destun 'darlun rhagorol, naill ai mewn arlun lliwiedig, neu ynte mewn cerfwaith o fynor' (*CHR*, t.38).

[155] Ibid., t.162. Digwyddodd hyn yn y Bala yn 1827, y gymdeithasfa lle cafodd ei ordeinio i'r weinidogaeth, wrth gwrs.

rhyw flwyddyn ynghynt (186-7).[156] Gan mai ar gais William ei hun y gwnaeth hynny, mae'n amlwg fod Owen Thomas am bwysleisio mai penodiad enwadol ydoedd achlysur y Bala, a dyna sy'n hawlio iddo'i statws fel digwyddiad o bwys yng ngyrfa gyfundebol Henry Rees.[157] Ond fel y dengys ei sylw am gyngor cyntaf Henry Rees mewn gwasanaeth ordeinio Methodistaidd, yr hyn sy'n cysylltu'r cyd-destun cyfundebol a phregethwrol yw'r ffaith fod y naill a'r llall ynghlwm wrth amcanion cofiannol Owen Thomas o gynnig patrwm i'w gynulleidfa darged y gellid ei efelychu.[158] Y mae i'r hanes enwadol hwn arwyddocâd pendant, felly, ym mhortread cofiannol yr awdur.

Er gwaetha'r cysylltiad â'i yrfa bregethwrol, dengys cydbwysedd naratifol penodau 8 a 9 fod y cyd-destun cyfundebol yn cryfhau fel yr â'r cofiant rhagddo. Yn wir, gellid dadlau mai'r wythfed bennod sy'n adlewyrchu gliriaf fwriad Owen Thomas i ymwrthod â'r pwyslais manwl a fu yn hanner cyntaf y cofiant ar ddarlunio

---

[156] Nodir bod Henry Rees wedi traddodi 'Araith ar Natur Eglwys' yng ngwasanaeth ordeinio Cymdeithasfa'r Bala, 1833.

[157] Diddorol, ond nid annisgwyl, yw'r ffaith nad oes sôn yn y cofiant am ymadawiad William Rees â'r Cyfundeb oherwydd yr hyn a welai fel gorthrwm ar ran y swyddogion wrth ymdrin ag achos o dorri'r Sabath. Ymunodd â'r Annibynwyr pan sefydlwyd achos ganddynt yn Llansannan yn 1828. Gw. *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, t.782; Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.195; R. Tudur Jones, 'Gwilym Hiraethog (1802-83)', yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor, 1998), t.184; Roberts a Roberts, *Cofiant y Parch. W. Rees*, tt.76-82; J. Cadvan Davies, 'Hiraethog', *Y Geninen*, xxv (1907), 263-6. Awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael fod perthynas y ddau frawd yn un gymodlon ac agos. Serch hynny, noda Owen Thomas yn y cofiant y pryderai William Rees na fyddai ei frawd yn fodlon cyflwyno'r Cyngor yn ei urddiad oherwydd daliadau diwinyddol yr Annibynwyr (*CHR*, t.186). Cyd-ddigwyddiad diddorol, wrth gwrs, yw bod brawd Owen Thomas ei hun, John Thomas, wedi ymadael â'r Hen Gorff ac ymuno â'r Annibynwyr, a bod y pedwar wedi gweinidogaethu yn Lerpwl yn ystod eu hoes.

[158] Traddododd y cyngor am y tro cyntaf yn y Bala yn 1834. Yn ôl y cofiannydd yr oedd yn gyngor 'newydd a hynod ac effeithiol iawn . . . yn deilwng yn sicr o ddarlleniad manwl a mynych, yn enwedig yn y rhai sydd yn gwasanaethu mewn pethau Sanctaidd' (ibid., t.194). Ar gais y Gymdeithasfa, fe gyhoeddwyd y cyngor yn *Y Drysorfa*. Gw. yn ogystal gyfeiriad yr awdur at yr araith a draddododd ar y testun 'Yr Ysgol Sabbothol fel Llaw-forwyn i Weinidogaeth yr efengyl' – testun a osodwyd iddo – yng nghyfarfod blynyddol ysgolion Sul Sir Drefaldwyn, yn Rhagfyr 1829 (t.177). Cyhoeddwyd yr araith mewn llyfryn gan John Hughes, Pontrobert, y tro cyntaf y cyhoeddodd Henry Rees unrhyw beth yn y wasg. Gw. *Cofiant o'r Materion y Buwyd yn Areithio arnynt yn Nghyfarfod Blynyddol yr Ysgolion Sabbothol perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd yn Swydd Drefaldwyn, yr hwn a gynhaliwyd yn Myfod, Rhagfyr 11, 1829, yn nghydag araith y Parch. Henry Rees, o'r Amwythig, wedi ei hysgrifenu ganddo ef ei hun* (Llanfaircaereinion, 1830).

Henry Rees yn ôl cyd-destun pregethwrol. Edrydd y bennod am 'amgylchiad pwysig iawn yn hanes Mr Rees' (246), sef ei benodi gan Gymdeithasfa'r Bala, 1838, i fynd ar daith genhadol i'r Unol Daleithiau.[159] Er mai croniclo taith bregethu estynedig a wneir yn ei hanfod,[160] ni cheir yma y portread o'r pregethwr fel y'i hamlygir yn y penodau blaenorol. Un rheswm am hyn yw i'r hanes gael ei neilltuo i bennod unigol yn hytrach na'i gyfuno â'r naratif cyffredinol. Y mae'n debyg mai hynodrwydd a phwysigrwydd y fenter, ynghyd â hwylustod y drafodaeth i'r awdur, a oedd yn gyfrifol am hynny. Dyma, wrth gwrs, oedd patrwm *Cofiant John Jones, Talsarn*, ond nid oes ddwywaith nad yw'r bennod yn wahanol o ran ei hymdriniaeth i'r penodau cyd-destunol yn y cofiant hwnnw, ynghyd â phenodau blaenorol y cofiant hwn. Annisgwyl, yn ogystal, yw'r ffaith fod Owen Thomas yn newid safbwynt y traethydd drwy ddyfynnu adroddiadau Henry Rees ei hun fel sail i'r naratif.[161] O'r herwydd, mae natur hunangofiannol y dweud yn golygu na cheir yma y drafodaeth fanwl a chanmoladwy ar ei yrfa bregethwrol sy'n nodweddu gweddill y cofiant.[162] Dychwelir at hanes

---

[159] Penodiad swyddogol ydoedd ar y cyd â'r pregethwr o Ddinbych, Moses Parry. Bu'r ddau ar daith rhwng Ebrill a Medi 1839.

[160] Swmp y bennod yw disgrifiad cronolegol o'r teithiau yr ymgymerwyd â hwy, y mannau yr ymwelwyd â hwy, a'r oedfaon a'r cyfarfodydd enwadol o bwys a gynhaliwyd, megis y Cyfarfod Chwarterol a gynhaliwyd yn Remsen (*CHR*, tt.280-1).

[161] Unig gyfraniad uniongyrchol Owen Thomas i'r bennod yw rhai sylwadau eglurhaol neu gefndirol yma a thraw. Lluniwyd y bennod o dair ffynhonnell bendant. Y gyntaf yw adroddiadau Henry Rees o'r gyfrol *Y Genadaeth i'r America: Golygiad Byr ar Agwedd Crefydd y'mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, yn Unol Daleithiau yr America; ynghyd a Hanes Taith Henry Rees a Moses Parry, i ymweled a'r Eglwysi yno* (Caerlleon, 1841). Mae'r gyfrol yn dwyn enw'r ddau bregethwr, ond haera Owen Thomas mai Henry Rees a ysgrifennodd y cyfan. Yr ail ffynhonnell yw dyddlyfr o eiddo Henry Rees sy'n cynnwys 'adroddiad mwy rhydd o'i deimladau personol nag a roddir i ni yn y llyfryn argraffedig' (*CHR*, t.258). Noda'r cofiannydd ei fod wedi cyfuno'r ffynonellau hyn er mwyn llunio'r bennod (tt.258-9). Yn olaf, cynhwysodd yn ogystal rai llythyrau perthnasol o'i eiddo a ysgrifennwyd cyn mynd ar y daith neu wedi cyrraedd yr Unol Daleithiau. Wrth gloi'r bennod, dyfynnir yn ogystal o'r cofiant i Moses Parry sy'n adrodd hanes y storm a gafwyd ger Caergybi wrth ddychwelyd i Gymru (tt.320-1). Gw. hefyd J. Foulkes, *Cofiant y Diweddar Barch. Moses Parry. Gyda rhagdraethawd gan y Parch. Henry Rees* (Dinbych, 1856), t.22.

[162] Er enghraifft, wrth gyfeirio at oedfaon, byddai gwyleidd-dra naturiol ar ran Henry Rees (hyd yn oed yn ei ddyddlyfr yn ôl safonau'r cyfnod) yn peri nad yw'n gwneud rhagor na chofnodi rhai manylion, megis awyrgylch yr oedfa, nifer y gynulleidfa a'i natur werthfawrogol mewn ambell fan. Yn ogystal, ceir darnau sy'n cyflwyno gwybodaeth, neu sy'n cynnwys myfyrdodau personol Henry Rees ar ambell elfen. Pynciau crefyddol yw cynnwys y rhain gan mwyaf, ond ceir eithriadau, megis ei sylwadau ar '*system* atgas' caethwasiaeth (*CHR*, t.304). Gw. yn ogystal y drafodaeth isod ar ddefnydd Owen Thomas o ffynonellau hunangofiannol yn y cofiant hwn, tt.296-319, yn benodol tt.296-8.

cronolegol y cofiannydd yn y nawfed bennod, ond unwaith eto, mae'r cynnwys yn arwyddo pwyslais cynyddol Owen Thomas ar y cyfundebwr. Rhydd dros hanner hyd y bennod i drafod rhai o'r prif bynciau a oedd yn blino'r Methodistiaid Calfinaidd tua'r cyfnod y dechreuodd Henry Rees roi stamp ei awdurdod ar yr enwad yng ngogledd Cymru, yn dilyn marwolaeth John Elias.[163] Telir sylw manwl i dri phwnc penodol, sef awyrgylch gecrus y dadleuon athrawiaethol, rhwygiadau posibl yng nghyfundrefn genhadol yr enwad, ac anfodlonrwydd cynyddol rhwng Methodistiaid y de a'r gogledd ar fater yr athrofa.[164] Ceir hanes cysylltiad pur helaeth Henry Rees â'r pynciau hyn yn y penodau dilynol yn ogystal, ond bwriad y cofiannydd yma yw amlygu iddo wneud cyfraniad a dangos arweiniad mewn cyfnod anodd i'r Cyfundeb.[165] Yn wir, gellir dadlau mai cyfiawnhau'r cynnydd amlwg a fu eisoes yn nylanwad y cyd-destun cyfundebol ar bortread cofiannol Owen Thomas – yn enwedig ym mhenodau wyth a naw – yw amcan sylwadau'r cofiannydd ar ddechrau'r ddegfed bennod, yn ogystal ag arwyddo'r drafodaeth a geir yng ngweddill y cofiant.

---

[163] Hyd at ei farwolaeth yn 1841, bu John Elias yn bregethwr nerthol ac arweinydd cyfundebol am ymron i chwarter canrif, yn arbennig yng ngogledd Cymru. Noda Owen Thomas ddau ddigwyddiad sy'n amlygu dylanwad a statws Henry Rees ar y pryd, sef mai ef a ddewiswyd yn llywydd cyfeisteddfodau Cymdeithasfa'r Bala rhyw wythnos yn unig wedi marwolaeth John Elias, ac mai iddo ef a William Roberts y gofynnwyd i draddodi pregethau angladdol i John Elias yn ystod y Gymdeithasfa (*CHR*, tt.360-1).

[164] Gw. y drafodaeth ar y dadleuon diwinyddol, ibid., tt.351-9, y genhadaeth, tt.326-30, 331-46, 376-8, a'r athrofa, tt.363-75. Dyna gyfanswm o 42 tudalen o bennod 66 tudalen. Gw. Atodiad 4.

[165] Ac nid dyna derfyn ar ddeunydd cyfundebol ac enwadol o'r fath, gan fod o leiaf 12 tudalen arall o'r bennod yn ymdrin â'i benodiad ar ran Cyfarfod Misol Lerpwl i gasglu tystiolaeth am ddiwygiad yn yr Alban (*CHR*, tt.324-6), yn ogystal â'r drafodaeth a gafwyd yng nghyfeisteddfod Cymdeithasfa Dolgellau ym Medi 1841 ar ei fwriad i symud o Lerpwl i Ddyffryn Clwyd (tt.378-88). Cyngor y gyfeisteddfod oedd iddo aros yn Lerpwl, a dyna a benderfynodd.

### 4.4.1 'y safle uchaf a pharchedicaf oedd yn bosibl iddo yn y Cyfundeb': rhinweddau cyfundebol Henry Rees

O ystyried hyn oll, nid yw'n syndod bod penodau ail hanner y cofiant yn cynnwys cryn dipyn o ddeunydd enwadol neu gyfundebol. Ar y naill law, cyfeirir at ddigwyddiadau neu swyddogaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Henry Rees. Dyma ddeunydd y byddai disgwyl ei gael yn y cofiant. Er enghraifft, telir sylw i benodiadau gan y Gymdeithasfa, megis traddodi pregethau angladdol er cof am bregethwyr eraill,[166] neu gyflwyno'r araith ar Natur Eglwys[167] neu'r cyngor[168] mewn gwasanaeth ordeinio.[169] Cynhwysir yn ogystal unrhyw swyddogaethau cyfundrefnol ac anrhydeddus a gawsai, megis ei ethol y llywydd blynyddol cyntaf ar y Gymdeithasfa yn 1855 (579),[170] neu ei benodi'n llywydd y Gymanfa Gyffredinol gyntaf yn Abertawe, 1864 (780-1), a adlewyrchai'r parch a fwynhâi ymhlith ei gyd-Fethodistiaid. Ar y llaw arall, cyfeiria'r cofiannydd mewn cryn fanylder ar dueddiadau mwy cyffredinol o fewn y Cyfundeb yn ystod y cyfnod hwn y bu gan Henry Rees ryw gysylltiad â hwynt, gyfrannu atynt neu ddylanwadu arnynt. Megis nawfed bennod y cofiant, trafodir ar fwy nag un achlysur yn y penodau hyn raniadau diwinyddol o fewn y Cyfundeb, hynt y genhadaeth a sefydlu'r Gymdeithas Genhadol Gymreig,[171] a'r dadlau a fu ynglŷn â'r athrofeydd. Yn ogystal, ymdrinnir â

---

[166] Er enghraifft, ibid., tt.429, 565, a'r anerchiad a gyflwynodd yn angladd ei gyfaill a'i gyd-weithiwr, tt.694-700. Wrth gwrs, mae'n deg dadlau y manylir ar yr anerchiad hwn oherwydd perthynas agos Henry Rees â John Hughes. Gw. ymhellach gyfrolau *Pregethau Henry Rees*.

[167] Er enghraifft, *CHR*, tt.406-7, 416-17 (ar achlysur ordeinio Owen Thomas ei hun ym Mangor yn 1844) a 518. Gw. ymhellach *Pregethau . . . Henry Rees, III*.

[168] Er enghraifft, *CHR*, tt.420, 492-3, 734-5. Gw. ymhellach *Pregethau . . . Henry Rees, III*.

[169] Cyfeirir at rai swyddogaethau eraill yn ogystal, megis pan ofynnwyd i Henry Rees a John Hughes ysgrifennu cyfarchiad ar ran y Gymdeithasfa at weddw John Davies, Fronheulog, a fu farw yn 1848 (*CHR*, tt.488-91). Bu John Davies yn gyfaill dylanwadol i'r Cyfundeb ac yn fawr ei haelioni a'i ddiddordeb parthed ei drefniadau. Yn ôl D. Ben Rees elwodd Owen Thomas ar gyfeillgarwch a chroeso teulu Fronheulog, yn enwedig pan oedd yn fyfyriwr yng Ngholeg y Bala. Yn wir, dywed fod 'perthynas agos' rhyngddynt, a byddai'n ymweld â hwy yn aml. Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.57-9. Gw. yn ogystal, Owen Jones, 'Owen Thomas', *Cymru* (1891), 56.

[170] Gw. *CHR*, tt.847, a hefyd 855, 867. Bu'n llywydd am yr eilwaith yn 1867.

[171] Rhydd Owen Thomas adroddiad manwl yn y cofiant am yr helynt a fu ynghlwm â Thomas Jones, Berriew, a wrthodwyd gan Gymdeithas Genhadol Llundain – cymdeithas a oedd yn cynnwys

datblygiadau neu drafodaethau cyfundrefnol ac athrawiaethol eraill. Sonnir am gynhaliaeth pregethwyr, materion addysgol (gan gynnwys ysgolion dyddiol, ysgolion Sul a'r athrofeydd), achosion a chapeli penodol (gan gynnwys codi, cynnal a thalu dyledion capeli), trefniadaeth gyffredinol yr enwad, o ordeinio gweinidogion i sefydlu'r Gymanfa Gyffredinol, ynghyd ag unrhyw ddigwyddiadau arbennig ac ehangach eu harwyddocâd, megis cofnodi daucanmlwyddiant y 'troad allan' neu sefydlu'r Gynghrair Efengylaidd.[172] Y mae presenoldeb sylweddol i'r cyd-destun cyfundebol hwn, felly. Unwaith eto, fodd bynnag, rhaid derbyn nad yw'n gwbl annibynnol ar y cyd-destun pregethwrol a chyhoeddus a geir ar ddehongliad Owen Thomas o'i wrthrych. Nid syndod mo hyn. Afraid dweud mai'r un yw byd y pregethwr a byd y cyfundebwr ar sawl lefel, ac mae ymdriniaeth y cofiannydd yn amlygu hynny. Nid bwriad Owen Thomas oedd sefydlu cyd-destun amgen ar y portread o'r pregethwr. Yn wir, y mae'r cyfundebwr fel pe bai'n atgyfnerthu'r cyd-destun pregethwrol mewn mannau, er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r portread fel y cyfryw. Er enghraifft, yn aml iawn trinnir areithiau a chynghorion Henry Rees yn yr un modd â'i bregethau yn y cofiant, yn enwedig o safbwynt ymateb y gynulleidfa, ac o ran y pwyslais didactig a rydd y cofiannydd ar eu harwyddocâd i ysgogi ac ysbrydoli pregethwyr ieuainc.[173] Ond efallai mai'r elfen amlycaf sy'n

---

Annibynwyr yn ogystal â Methodistiaid. Parodd hyn ymraniad rhwng y Cymry â Chymdeithas Genhadol Llundain a arweiniodd at sefydlu Cymdeithas Genhadol Gymreig ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd (ibid., tt.326-46).

[172] Y 'troad allan' oedd diarddel tua 2,000 o glerigwyr piwritanaidd o Eglwys Loegr yn dilyn Deddf Unffurfiaeth 1662, digwyddiad a esgorodd ar 'Anghydffurfiaeth Brotestannaidd', yn ôl John Davies (*Hanes Cymru*, t.276). Gw., yn ogystal, R. Tudur Jones, 'Eglwys Loegr a'r saint', yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor, 1998), tt.91-112. Sefydlwyd y Gynghrair Efengylaidd ('The Evangelical Alliance') yn Llundain yn 1846, wedi cyfarfod cychwynnol dair blynedd ynghynt. Pwrpas y gynghrair oedd darparu fforwm ar gyfer Cristnogion ac enwadau efengylaidd o bob rhan o'r deyrnas, ac o bob rhan o'r byd, a chryfhau'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd. Am ragor o wybodaeth, gw. gwefan y gynghrair: *www.eauk.org* [gwelwyd 9 Gorffennaf 2011].

[173] Mewn un man, sonia am y cyngor a draddododd Henry Rees yng Nghymdeithasfa'r Bala, 1845, a dywed na allai 'pregethwyr . . . yn hawdd gael gafael ar unrhyw beth i'w ddarllen mwy cyfaddas i'w cynhyrfu, eu bywiogi, eu hadeiladu, yn y gorchwyl pwysig y maent wedi ymgymmeryd âg ef' (*CHR*, t.420). Am y Cyngor a draddodwyd yng Nghymdeithasfa Caernarfon, 1848, noda na allai neb ei

adlewyrchu'r berthynas gymhleth a chlòs rhwng y pregethwr a'r cyfundebwr yn y cofiant yw'r ffaith mai'r un nodweddion neu rinweddau a bwysleisir gan Owen Thomas wrth ymdrin â'i wrthrych yn y naill gyd-destun a'r llall, sef ei ddawn a'i hynodrwydd naturiol, ei ddiwydrwydd diarbed a'i ymroddiad diflino at y gwaith. Dyma'r tair rhinwedd a bwysleisir gan y cofiannydd yn ail hanner y cofiant, ac mae'n werth manylu ychydig arnynt er mwyn amlygu eu harwyddocâd i'r cyd-destun cyfundebol, a'u perthnasedd i amcanion cofiannol yr awdur o gynnig delfryd i'w hefelychu.

***'un o'r gwylwyr mwyaf gofalus a llygadog': ei hynodrwydd fel trefnydd***

Y mae'n deg casglu mai prif ddoniau Henry Rees fel cyfundebwr yw ei ddoethineb a'i fedr fel cyfundrefnwr, gan mai dyma a bwysleisir fynychaf gan Owen Thomas. Yn wir, ceir sawl enghraifft yn y cofiant o'r 'mwyneidd-dra doethineb' a'i galluogai i drafod achosion sensitif penodol. Un achos o'r fath yw canmoliaeth y cofiannydd o'i 'gywirdeb dihoced' (358) pan wasanaethodd fel dirprwywr yn y cyfarfod yn yr Wyddgrug, 1841, a wrandawodd achosion yn ymwneud â safbwyntiau gwahanol ar fater Iawn Crist; pwnc a fu'n sail i sawl un o'r dadleuon diwinyddol a fodolai o fewn yr enwad ar y pryd.[174] Ymddengys fod gan Henry Rees safbwynt diwinyddol a oedd yn fwy uniongred a Chalfinaidd na llawer o'i gyd-bregethwyr, ac a oedd yn agosach

---

ddarllen 'heb deimlo fod meddwl yr awdwr o hono yn gwbl gysegredig i'r efengyl, ac yn llawn pryder ac eiddigedd rhag iddi, yn ei ddwylaw ef a'i frodyr, golli dim yn y dylanwad mawr oedd wedi bod iddi ar gydwybodau trigolion ein gwlad' (t.493).

[174] Fel y gwelwyd ym mhennod 3, tt.184-9, bodolai safbwyntiau diwinyddol gwahanol ynglŷn ag Iawn Crist o fewn yr enwad, yn enwedig yn siroedd Dinbych a Fflint, rhwng y rhai a oedd yn Uchel-Galfinaidd eu golygon a'r rhai hynny a arddelai Galfiniaeth a oedd yn fwy cymedrol. Gw. y bennod swmpus yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, tt.262-609, ac yn benodol, tt.538-609. Am restr o ymdriniaethau modern â'r pwnc, gw. pennod 3, n.105.

at sawl un o'r hen do, megis John Elias a John Hughes, Pontrobert.[175] Eto, noda'r cofiannydd fod ei ymddygiad teg a diduedd yn adlewyrchu'r 'doethineb Cristnogol' sylweddol a'i nodweddai (358).[176] Enghraifft bellach yw'r tro y bu'n rhaid i Henry Rees a John Hughes ymyrryd mewn mater a oedd yn gysylltiedig ag un o genhadon bryniau Cassia (419).[177] Dro arall, telir sylw i'w allu fel diplomydd a'i urddas wrth areithio neu lywyddu mewn cyfarfodydd cyfundebol, megis yr araith a draddododd gerbron cyfeisteddfod Bangor ym Medi 1863 o blaid adleoli'r athrofa yn Wrecsam. Fe'i dyfynnir yn helaeth gan Owen Thomas, ac fe'i gesyd yn batrwm 'o'r modd i ymdrin â'r fath faterion: – pwyllog, têg, tawel, ëang, manwl, ac eto yn eglur a phendant a chryf, tra yn yr ysbryd gorau – ac mor gyflawn'.[178] Yr oedd doethineb dihysbydd o'r fath yn amlwg yn mynd i hawlio parch a theyrngarwch iddo o fewn y Cyfundeb, ynghyd â chryfhau ei statws fel arweinydd. Yr un sgiliau diplomyddol a ganmolir pan etholwyd Henry Rees yn llywydd y Gymdeithasfa yn y gogledd, wrth i'r cofiannydd ddatgan na welodd mohono 'erioed . . . heb allu cadw urddas y gadair i fynu yn hollol, tra ar yr un pryd y llwyddai i orwedd yn berffaith esmwyth ar

---

[175] Eithr nid cyn-feistr Henry Rees, Thomas Jones, Dinbych. Gw. Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd*, tt.139-58. Yn gynharach yn y cofiant edrydd Owen Thomas am y trafodaethau a fu yng Nghymdeithasfa Llanfyllin, 1823, oherwydd gwrthwynebiad Robert Roberts, Rhosllannerchrugog i eiriad yr erthygl yn y Gyffes Ffydd sy'n trafod prynedigaeth (*CHR*, tt.124-6). Teimlai Robert Roberts ei fod yn rhy gyfyng ei athrawiaeth. Gw. yn ogystal ibid., tt.182-5. Er bod yr awdur yn cyfaddef nad oedd gan Henry Rees unrhyw ran yn y drafodaeth am ei fod yn 'rhy ieuanc', noda nad oedd yn cytuno o gwbl â chynigiad Robert Roberts. Tebyg mai John Elias oedd prif hyrwyddwr llunio Cyffes Ffydd ar gyfer y Cyfundeb. Ymddengys nad oedd Thomas Charles na Thomas Jones yn gweld gwir angen amdani. Yn wir, yr oedd Thomas Charles yn ei fedd erbyn i'r trafod ddechrau yn ei chylch. Gw. Gomer M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2: Cynnydd y Corff* (Caernarfon, 1978), tt.346-7 a 419; E. O. Davies, *Ein Cyffes Ffydd, 1823-1923* (Caerdydd, 1923).

[176] Cymherir hyn ag ymdriniaeth Owen Thomas yn *CJJT*, a ddengys farn glir John Jones, Tal-y-sarn o blaid y garfan gymedrol; gw. penodau 10, 11 a tt.610-13. Gw. yn ogystal bennod 3, tt.184-9, yn y traethawd hwn.

[177] *CHR*, t.419. Cyfeiriad digon cynnil a geir gan Owen Thomas. Nid yw am fanylu ynglŷn â'r helynt yn y cofiant, ond mae'n cyfeirio'r darllenydd a fyn wybod rhagor at yr adroddiad cenhadol perthnasol.

[178] Ibid., t.755. Gw. y drafodaeth fanwl a fu yn 1863 ar leoli adeilad newydd athrofa'r gogledd ym mhennod 13 y cofiant, tt.744-58. Serch hynny, canlyniad y drafodaeth oedd penderfynu cadw'r athrofa yn y Bala.

deimladau yr holl aelodau'.[179] Ond unwaith eto, gosod Henry Rees fel esiampl i eraill yw prif nod Owen Thomas wrth ddyrchafu sgiliau o'r fath.

***'gwneuthur rhyw ddaioni i'r Achos mawr': ei ddiwydrwydd ynglŷn â'r enwad***

Rhinwedd arall sy'n clymu â'i hynodrwydd naturiol fel arweinydd a threfnydd, ac sydd eto yn berthnasol i fwriadau'r cofiannydd, yw ei weithgarwch cyson a sylweddol ar ran y Cyfundeb. Wrth reswm, byddai statws uchel Henry Rees o fewn yr enwad yn golygu baich trwm o orchwylion a swyddogaethau cyfundrefnol. I'r cofiannydd, yr oedd pwysleisio'i ddiwydrwydd yn adlewyrchu nid yn unig ei amlygrwydd, ond yn ogystal yn tanlinellu mai gwaith ychwanegol ydoedd at ei lafur fel pregethwr a gweinidog. Ar ddechrau'r 1850au, er enghraifft, noda Owen Thomas mai prin iawn oedd cyfarfodydd y Gymdeithasfa yng ngogledd Cymru nad oedd gan ei wrthrych ryw swyddogaeth ynddynt, boed yn y pulpud neu'r pwyllgor (525).[180] Dengys y sylw a dâl y cofiannydd i achosion gweinidogion unigol fod Henry Rees yn ŵr parod ei gymwynas a sicr ei ddylanwad. Un enghraifft ddiddorol yw'r cyngor a roes i Owen Thomas ei hun pan oedd yn ceisio penderfynu a ddylai ymadael â'r Drenewydd ac ymsefydlu yn weinidog yn Llundain (508-9). Yn ogystal â chynnig cynghorion personol iddo, dadleuodd Henry Rees yn gadarn o blaid y brifddinas pan ymdriniwyd â'r mater yng Nghymdeithasfa'r Wyddgrug, 1851 (516).[181]

---

[179] Ibid., t.579. Gw. yn ogystal tt.847, 855 a 867-8.

[180] Yn ogystal â'i 'waith cyffredin' o wythnos i wythnos yn Lerpwl, a phregethu yn y Gymdeithasfa, 'yn fynych iawn fe osodid arno ryw wasanaeth arall mewn cysylltiad â'r Gymdeithasfa, a ychwanegai yn ddirfawr at ei lafur ef' (ibid., tt.419-20). Er mai swyddogaethau ychwanegol oeddynt, mae'n werth cofio mai dyma orchwylion a fyddai'n dod i ran unrhyw bregethwr amlwg yn y cyfnod.

[181] Dechreuodd Owen Thomas weinidogaethu'n sefydlog yn Llundain yn 1852. Yr oedd peth ymrysona ac ymgecru wedi bod ymhlith yr aelodau yno ers tro. Symudodd i Lerpwl yn 1865. Gw. Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.90-117. Dyma enghraifft bellach o'r cofiannydd yn dwyn ei hanes ei hun i'r cofiant. Gw. y drafodaeth ym mhennod 2 y traethawd hwn, tt.136-40.

Cadarnhau mawredd a statws ei wrthrych fel un i'w efelychu a wna pwyslais amlach ac amlycach Owen Thomas wrth i'r cofiant fynd rhagddo ar lafur cyfundrefnol Henry Rees mewn cysylltiad â rhai tueddiadau cyfundebol mwy cyffredinol yn ogystal. Wrth gwrs, byddai datblygiadau o'r fath yn berthnasol i gynulleidfa darged Owen Thomas, ac nid yw'r cofiannydd yn ofni torri ar rediad cronolegol neu fywgraffiadol y cofiant er mwyn crynhoi'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r hanes. Er enghraifft, manylir ar y diddordeb a'r arweiniad a ddangosodd Henry Rees yn achos dyledion capeli, megis ei gynnig yng Nghymdeithasfa y Drenewydd ym Mawrth 1846 y dylid talu'r ddyled ar unrhyw gapel cyn y gellid ystyried ei helaethu neu godi un newydd yn ei le; rheol a arweiniodd at leihau'n sylweddol a dileu dyledion sawl Cyfarfod Misol.[182] Yr un yw diben y drafodaeth ar y rhan flaenllaw a gymerodd yn yr ymdrech ganol y 1850au i ddiwygio trefn y Cyfundeb o ordeinio rhai i'r weinidogaeth (525-36). Dyfynna'r awdur argymhellion ei wrthrych parthed darparu addysg i bregethwyr o ogledd Cymru a ystyrid ar gyfer eu hordeinio, ac ychwanega mai dyma oedd sail '[d]echreuad cyfnod newydd yn ein trefn i dderbyn pregethwyr i'r Weinidogaeth' (526).[183] Ymhellach, cofnodir y cynigion a gyflwynwyd gan Henry Rees a phregethwyr eraill ym Mawrth 1855 i newid un o brif weithdrefnau'r Cyfundeb drwy dderbyn pregethwr i'r Gymdeithasfa

[182] *CHR*, tt.433-4. Erbyn canol y 1840au, yr oedd pryder cynyddol y byddai'r dyledion a grëwyd o godi capeli newydd, neu adnewyddu'r rhai a fodolai eisoes, yn peri gofid a chywilydd i'r Cyfundeb. Yn ôl Owen Thomas, ymdrechodd Henry Rees a'i gyd-weinidog yn Lerpwl, John Hughes, yn llwyddiannus i ad-dalu dyledion capeli Lerpwl a Manceinion, a chodasant y mater mewn sawl Cymdeithasfa ar y pryd. Yn dilyn Cymdeithasfa'r Drenewydd, cafwyd trafodaeth ar y cynnig yng Nghymdeithasfa'r Bala ym Mehefin yr un flwyddyn, a dyfynnir cynigion Henry Rees gan Owen Thomas. Argymhellodd y dylid canolbwyntio ar dalu dyledion yn hytrach na chodi capeli newydd; y dylid sicrhau fod digon o arian mewn llaw i dalu am y capel newydd cyn ymrwymo i'w adeiladu; ac y dylai pregethwyr wrthod pregethu mewn unrhyw gapel newydd a godir o hynny allan hyd nes ei fod yn rhydd o ddyled (tt.432-7).

[183] Ymhlith yr argymhellion a drafodwyd yng Nghymdeithasfa Bangor ym Medi 1853, nodir na ddylid derbyn unrhyw bregethwr 'i'r holl Gorph' nad yw wedi derbyn o leiaf dymor o addysg athrofaol; y dylai pob Cyfarfod Misol gyfrannu at gronfa a fyddai'n cynnal yr ymgeiswyr tra eu bod yn derbyn eu haddysg; y dylid sefydlu cyfeisteddfod i arolygu gwaith yr athrofa; ac y dylid penodi Richard Davies (mab-yng-nghyfraith Henry Rees) yn drysorydd ar y gronfa honno.

a'i ordeinio i'r weinidogaeth yr un pryd.[184] Gan fod angen barn y Gymdeithasfa yn ne Cymru ar y drefn newydd, edrydd yr awdur am y trafodaethau a fu hyd nes y derbyniwyd sêl bendith derfynol ar y rheoliadau yng Nghymdeithasfa y Bontfaen yn Awst 1857.[185] Unwaith eto, rhaid cofio nad sylwebydd cwbl ddiduedd oedd Owen Thomas yn hyn o beth, ac felly byddai'n naturiol iddo gyflwyno deunydd nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â bywyd ei wrthrych.[186] Gan amlaf, fodd bynnag, y mae'n bur gyson yn yr ystyr fod gan y datblygiadau cyfundrefnol a drafodir gysylltiad o ryw fath â Henry Rees, hyd yn oed os na ddilynid ei gynghorion ef bob tro. Cyfeirir mewn cryn fanylder, er enghraifft, at yr ymdrech i sefydlu cronfa ariannol ganolog yng ngogledd Cymru tuag at Goleg y Bala, ynghyd â llafur nid ansylweddol ei wrthrych yntau yng nghyd-destun hynny.[187] Er na fu'r cynllun yn llwyddiannus,[188] y mae

[184] *CHR*, tt.528-31. Yng Nghymdeithasfa Caerlleon (Caer) y gwnaethpwyd hyn. Edrydd y cofiannydd mai'r arfer yn flaenorol oedd bod pregethwr yn cael ei dderbyn i'r Gymdeithasfa ac yna fod cyfarfodydd sirol y Gymdeithasfa yn penderfynu ei gyflwyno ar gyfer ei ordeinio wedi cyfnod amhenodol o amser. Yn ôl y drefn newydd, yr oedd pregethwyr i dreulio dwy flynedd ar brawf cyn cael eu derbyn gan y Cyfarfod Misol, ac yna bregethu am dair blynedd arall cyn cael cyfle i dderbyn enwebiad i'w hordeinio i'r weinidogaeth, ynghyd â bod rheidrwydd ar i'r ymgeiswyr am y swydd honno sefyll arholiad cyn cael eu derbyn.

[185] Gw. yn ogystal ibid., tt.542, 670-4. David Saunders, olynydd Owen Thomas yng nghapel Princes Road, Lerpwl yn ddiweddarach, oedd y pregethwr cyntaf i'w ordeinio o dan y drefn newydd.

[186] Er enghraifft, enwir Owen Thomas yn un o arholwyr yr athrofa ar ymgeiswyr y weinidogaeth, ac felly gellir maentumio bod ganddo yntau gysylltiad agos â'r rheoliadau newydd.

[187] *CHR*, tt.465-86. Yn 1847 argymhellwyd y dylid casglu £30,000. O dan y drefn hon yr oedd yn ofynnol i bob Cyfarfod Misol unigol bennu'r modd mwyaf effeithiol o gasglu'r arian, ond argymhellwyd y dylid ymweld â phob sir yn ei thro 'i osod yr achos ger bron y Cynulleidfäoedd'. Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Lerpwl, dadleuodd Henry Rees dros bwysigrwydd rhoddi addysg i bregethwyr ieuainc drwy sôn am ei anhawster ef ei hun i dderbyn addysg pan oedd yn llanc (tt.466-7). Penodwyd Henry Rees a Lewis Edwards gan Gymdeithasfa Bangor ym Medi 1847 i fynychu'r holl Gyfarfodydd Misol. Serch hynny, oherwydd diffyg deunyddiau, yr ymweliad â Sir Fôn yn unig a groniclir yn y cofiant. Yn ei adroddiad ar y digwyddiad dyfynna Owen Thomas lythyrau Henry Rees at Lewis Edwards, ynghyd â llythyr a ymddangosodd yn *Y Traethodydd* rai blynyddoedd yn ddiweddarach a edrydd hanes y drafodaeth fywiog a gafwyd ar 'y casgliad mawr'. Yn ogystal â'r penderfyniadau y daethpwyd iddynt, sonnir am wrthwynebiad gwŷr megis David Elias (brawd John Elias) i'r cynllun, am na chredai y dylid rhoi addysg athrofaol i bregethwyr.

[188] Er gwaethaf llwyddiant ymddangosiadol taith Henry Rees a Lewis Edwards, Cyfarfod Misol Meirionnydd yn unig a gadwodd at y cynllun yn ôl Owen Thomas. Wrth faentumio ynglŷn â'r rhesymau posibl am fethiant y cynllun, dywed na fu'r gronfa yn llwyddiant hyd nes ymdrechion Edward Morgan ddeng mlynedd yn ddiweddarach (*CHR*, tt.485-6). Unwaith eto, caiff y fenter hon sylw yn y cofiant oherwydd diddordeb Henry Rees ynddi, a nodir ei fod 'yn hynod o bryderus' yn ei chylch (t.615).

ymdrech a diwydrwydd Henry Rees ynddo'i hun yn parhau yn addas iawn i amcanion cofiannol didactig Owen Thomas ac i'w gynulleidfa darged.[189]

***'gofal calon . . . am ei Gyfundeb ei hunan': ymroddiad Henry Rees i'r achos***

Y trydydd rhinwedd a oedd yn nodwedd arwyddocaol o'r cyd-destun pregethwrol ac sy'n bresennol yn ymdriniaeth y cofiannydd â Henry Rees fel cyfundebwr yw ei ymroddiad. Y mae'n amlwg fod perthynas Henry Rees â'i Gyfundeb gryn dipyn yn agosach a chynhesach nag eiddo John Jones, Tal-y-sarn,[190] ac nid oes brinder o gyfeiriadau yn y cofiant at ei ffyddlondeb yn hyn o beth. 'Y Capel . . . oedd ei bob peth' (20), chwedl Owen Thomas, wrth sôn am ei blentyndod yn Llansannan, ac mae'r un teyrngarwch enwadol i'w ganfod ynddo fel oedolyn.[191] Pwysleisir sawl gwaith bryderon Henry Rees parthed rhai agweddau neu dueddiadau cyfundebol, megis y dadleuon cecrus a godai rhwng Methodistiaid a'i gilydd ar faterion athrawiaethol.[192] Yn ôl yr awdur, dengys rhai o'i lythyrau sy'n trafod addysg wladol neu'r achos cenhadol 'y gofal calon oedd ganddo, am wlad ei enedigaeth, ac yn

---

[189] Gw., yn ogystal, ymdriniaeth y cofiannydd â'r ddadl parthed neilltuo athrawon rhwng athrofeydd de a gogledd Cymru (ibid., tt.769-79).

[190] Er gwaethaf ymdrechion y cofiannydd i roi megin ar y marwor yn ei gofiant yntau. Gw. pennod 3 y traethawd hwn, t.204.

[191] Yn wir, mae'r hyn na cheir yn y cofiant yn arwyddocaol yn ogystal. Nid yw'r hanes a rydd Owen Thomas am hynafiaid Henry Rees hanner mor lliwgar â'r hyn a geir yn y cofiant i'w frawd William, lle edrydd yr awduron am 'gamp a rhemp' y teulu yn yr Oesoedd Canol (Roberts a Roberts, *Cofiant y Parch. W. Rees*, tt.23-9). Ymhellach, nodwyd eisoes yn y bennod hon na cheir gair am y rhwyg teuluol a fu (o safbwynt enwadol o leiaf) pan ymadawodd William â'r Hen Gorff dros achos o ddisgyblu aelod am dorri'r Sabath yn niwedd 1827, achos a barodd 'aml i gyfarfod digon ystormllyd yn eglwys Llansannan', chwedl ei gofianwyr (ibid., t.80). Wrth gwrs, yr oedd Henry Rees wedi ymsefydlu yn yr Amwythig erbyn hynny, yn weinidog newydd ei ordeinio, ond mae'n amheus nad oedd ganddo farn ar y mater. Gw. n.157 uchod.

[192] Gweler, er enghraifft, sylw Owen Thomas ar gynnig gwrthodedig Robert Roberts, Rhosllannerchrugog yng Nghymdeithasfa Llanfyllin, 1823, fod geiriad y Gyffes Ffydd ar fater prynedigaeth ac Iawn Crist yn rhy gul ei olygon (gw. n.175 uchod). Fel y nodwyd eisoes, yr oedd safbwyntiau diwinyddol Henry Rees yn bur geidwadol ar y mater hwn. Serch hynny, dywed y cofiannydd iddo gredu yn ddiweddarach y byddai derbyn y cynnig hwnnw wedi 'rhagflaenu blinder mawr i ni fel Cyfundeb' (*CHR*, t.126) drwy osgoi'r cecru a fu ynglŷn â'r pwnc yng ngogledd Cymru dros y pymtheng mlynedd ddilynol.

arbenig am ei Gyfundeb ei hunan' (450-1).[193] Yn ystod ewfforia diwygiad 1859, er enghraifft, sonia'r cofiannydd fod Henry Rees yn llai optimistaidd am effaith barhaol yr adfywiad, ac y teimlai fod angen sicrhau 'fod ein trefn eglwysig . . . yn cael ei chymhwyso yn brydlawn a doeth at yr angenrheidiau presennol' (678). Ymhellach, dadlennir ei awydd i sicrhau heddwch a chytundeb mewn materion cyfundrefnol, megis ei ryddhad amlwg, ar agoriad swyddogol Athrofa Trefeca yn Hydref 1842, 'fod cwestiwn ein Hathrofëydd wedi ei derfynu mor heddychol'; a hynny yn sgil sawl trafodaeth ddadleugar ar brydiau rhwng Methodistiaid gogledd a de Cymru (394). Ynghlwm wrth ei bryderon am y Cyfundeb, wrth gwrs, y mae ei ffyddlondeb diwyro tuag ato, ac nid syndod yw gweld pwyslais pendant y cofiannydd ar elfen ddidactig o'r fath yn y cofiant.[194] Er gwaetha'r ffaith fod ganddo farn gref ac ewyllys cadarn, gwelwyd eisoes sut y pwysleisia Owen Thomas y gallai ei wrthrych gofleidio diplomiaeth a chyfaddawd pan fyddai hynny'n angenrheidiol.[195] Er enghraifft, lleisio barn Henry Rees a wna'r argymhelliad o Gymdeithasfa Pwllheli, 1855, parthed y drefn newydd o ordeinio gweinidogion (y cyfeiriwyd ati eisoes) a fynnai 'mai dymunol, er mwyn cadw undeb a chydweithrediad, i ni fel Cymdeithasfa oedi gwneuthur un penderfyniad arno, nes cael golygiadau ein brodyr o'r Deheu o berthynas iddo' (532).[196] Serch hynny, mae Owen Thomas yn ofalus i bwysleisio nad unben ydoedd, ac y byddai ei deyrngarwch i'r achos yn parhau pan na fyddai

---

[193] Gw. yn ogystal ei lythyr at Lewis Edwards pan oedd ar fin cychwyn ar daith gyfundebol i'r Unol Daleithiau yn 1839, llythyr sy'n amlygu 'y pryder a'i meddiannai y pryd hyny, fel ar hyd ei oes, yng nghylch llwyddiant yr Athrofa' yn ôl yr awdur (ibid., t.254).

[194] Rhydd ambell enghraifft sy'n amlygu teyrngarwch cyffredinol ei wrthrych i'w grefydd, megis y sylw fod ei araith ar Natur Eglwys i Gymdeithasfa y Bala, 1843, yn brawf ei fod yn 'Ymneillduwr cryf a phendant' (ibid., t.406). Cyhoeddwyd yr araith yn *Y Traethodydd* (1845), 278-88, o dan y teitl 'Eglwys Crist', ac fe'i ceir yn ogystal yn nhrydedd gyfrol *Pregethau . . . Henry Rees*, tt.374-89.

[195] Pan sonia Owen Thomas mai un o brif fanteision symud i weinidogaethu yn Lerpwl yn 1865 oedd rhoi cyfle iddo gyd-weithio â Henry Rees a'i 'adnabod yn fanylach', dywed '[na] chiliai byth oddiwrth wneuthur yr hyn fyddai yn boenus iawn iddo, os dodid hyny arno gan y frawdoliaeth, neu heb iddo gael ei ddodi arno, os barnai y gallai wneuthur rhyw ddaioni i'r Achos mawr' (*CHR*, tt.814-15).

[196] Gw. uchod, t.278, n.183 a 184. Erbyn Cymdeithasfa y Bala, 1855, yr oedd y cynllun wedi ei gymeradwyo'n llwyr yn y gogledd ond nid felly yn ne Cymru. Henry Rees a oedd yn llywyddu'r drafodaeth yn y Bala, ac ym Mhwllheli.

tueddiadau neu benderfyniadau'r Cyfundeb yn cydweld â'i olygon ei hun. Er gwaetha'r penderfyniad i beidio ag adleoli'r Athrofa yn Wrecsam fel y dymunai ef (744-58), edrydd ei gofiannydd i'w wrthrych draddodi 'anerchiad gwerthfawr' wrth osod carreg sylfaen yr adeilad newydd yn y Bala yn 1865.[197] Y mae'n amlwg y gwêl ffyddlondeb o'r fath yn arwydd o fawredd Henry Rees; nodwedd y dylid ei phwysleisio wrth ddarllenwyr y cofiant ac, yn arbennig, wrth bregethwyr ieuainc yr enwad.[198]

Gwelir, felly, fod cyd-destun cyfundebol diamwys, sy'n gysylltiedig â'r cyd-destun pregethwrol, yn dod yn gynyddol amlwg a dylanwadol ar bortread Owen Thomas o'i wrthrych yn ail hanner y cofiant. Unwaith eto, mae'n rhaid cofio mai cyd-destun yw hwn sy'n deillio o gymhellion cofiannol yr awdur o gynnig delfryd i'w hefelychu. Gellir dadlau y caiff y cyd-destun cyfundebol hwn ei ddwysáu yn ymdriniaeth y cofiannydd â bywyd ei wrthrych gan y ffaith fod pryderon, teyrngarwch ac ymroddiad Henry Rees yn adlewyrchu agwedd y cofiannydd yntau tuag at y Cyfundeb. Gwelwyd eisoes fod i Owen Thomas lais cofiannol pendant. Ac mae'r llais hwn yn awgrymu'r pwyslais cyd-destunol ar brydiau, megis ei sylwadau ar y cerydd cyhoeddus a dderbyniodd Henry Rees gan John Roberts, Llangwm wrth gael

---

[197] Ef oedd llywydd yr Athrofa (*CHR*, t.815; gw. hefyd t.849).

[198] Enghraifft arall gynharach y soniwyd amdani eisoes (gw. n.157 uchod a *CHR*, tt.326-46) oedd hanes ysgaru oddi wrth gymdeithas genhadol amlenwadol Llundain a sefydlu'r Gymdeithas Genhadol Gymreig ymysg y Methodistiaid Calfinaidd. Ni chefnogai Henry Rees yr alwad am sefydlu'r gymdeithas Gymreig, ond ni lwyddodd i atal y penderfyniad nac ychwaith ddarbwyllo Cymdeithasfa'r gogledd i oedi nes clywed barn eu cyd-weithwyr yn ne Cymru, er mwyn '*symmud yn un Cyfundeb gydâ'n gilydd*' (t.341, pwyslais OT). Eto, mae'r cofiannydd yn awyddus i bwysleisio iddo fod yn ffyddlon i'r gymdeithas, gan weithio ar ei rhan a chyfrannu at ei thrafodaethau, a hynny, yn aml iawn, mewn awyrgylch anodd, 'mewn congl, ac allan o olwg y byd' (t.345). Un o'i brif swyddogaethau oedd ymweld â Chymdeithasfa Llandeilo, 1842, er mwyn darbwyllo'i haelodau i ymuno â'r cynllun a sicrhau cefnogaeth i'r gymdeithas newydd. Yn wir, noda Owen Thomas fwy nag unwaith yn y cofiant ddyled aruthrol y Cyfundeb i Henry Rees yn y cyd-destun hwn, ynghyd â'i ffyddlondeb i'r gymdeithas ac am y mynych alwadau a fu arno 'at rai gorchwylion tra phoenus mewn cysylltiad â hi' (t.788).

ei dderbyn yn aelod o Gyfarfod Misol Dinbych.[199] Y mae'n ddiddorol fod y cofiannydd yn manylu cymaint ar y digwyddiad, pan na wnaed ond 'cyfeiriad cynnil' at yr un drosedd yn union yn achos John Jones, Tal-y-sarn.[200] Tybed nad yw tinc geryddgar Owen Thomas wrth gyfeirio at y ffaith fod Henry Rees, o bawb, wedi gwyro oddi wrth y drefn yn bwrw peth goleuni ar ei brosesau cofiannol yma.[201] Byddai sylw o'r fath yn rhwym o atgyfnerthu'r portread o'r cyfundebwr ffyddlon, yn ogystal â thanlinellu'r pwysigrwydd i bregethwyr ieuainc i gadw at y rheolau ar bob cyfrif. A thybed, yn wir, nad oedd digon o reswm dros bwysleisio teyrngarwch o'r fath yn wyneb y secwlareiddio cynyddol a wynebai'r enwadau, ynghyd â'r berthynas gecrus a fodolai rhwng enwadau a'i gilydd, ac o'u mewn, erbyn degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[202] Y mae'n debyg mai un o'r esgyrn amlycaf yng nghynnen Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd erbyn y 1880au oedd dadleuon y pregethwr ieuanc Emrys ap Iwan a gythruddwyd gan haeriad Lewis Edwards y dylai pawb 'fod yn *loyal* i'r Cyfundeb' ar fater yr achosion Seisnig, neu'r 'Inglis Côs'.[203] Gwrthodwyd ordeinio Emrys ap Iwan yng Nghymdeithasfa Llanidloes, 1881, yn

---

[199] Am y cefndir, gw. n.98 uchod, ynghyd â *CHR*, tt.74-8, 80-2. Fe'i derbyniwyd i'r Cyfarfod Misol, ond aeth oddi yno gyda chyngor 'i fod yn fwy gwyliadwrus a gochelgar rhagllaw, gydâ golwg ar Drefniadau y Cyfundeb'.

[200] Gw. *CJJT*, tt.86-7. Sail Owen Thomas dros wneud hynny yn y cofiant i John Jones oedd disgleirdeb ei ddoniau pregethwrol. Eto, oni ellid bod wedi dweud yn debyg am Henry Rees?

[201] Dywed mai'r rheswm am fanylu ar John Williams, Meidrim yw er mwyn 'rhoddi rhyw gip-olwg i'r darllenydd ar gymeriad y gŵr a berswadiodd Henry Rees i'r afreoleidd-dra, a allasai droi allan yn gryn brofedigaeth iddo yntau; afreoleidd-dra, ag yr ydym erbyn hyn yn synu, pa fodd, ac yntau y fath un, yr hudwyd ef iddo' (*CHR*, t.78).

[202] Gw. y drafodaeth yng nghlasur R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914: Cyfrol 1* (Abertawe, 1981), tt.86-120 a 64-85.

[203] D. Densil Morgan, *Lewis Edwards* (Dawn Dweud) (Caerdydd, 2009), t.219. Bu Emrys ap Iwan yn dadlau'n gyhoeddus â Lewis Edwards a rhai o fawrion eraill yr enwad. Am ragor o gefndir yr helynt, gw. *Lewis Edwards*, tt.215-25; R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914: Cyfrol 2* (Abertawe, 1982), tt.254-5; Davies, *Hanes Cymru*, tt.406-7; T. Gwynn Jones, *Emrys ap Iwan. Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr: Cofiant* (1912; arg. newydd, Abertawe, 1978), penodau 5, 6 a 7; Frank Price Jones, 'Yr achosion Seisneg', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 47, 3 (1972), 66-80, a 48, 1 (1973), 2-11; Saunders Lewis, 'Emrys ap Iwan yn 1881', yn *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), tt.371-6; Robert Ambrose (Emrys ap Iwan), 'Y cwrdd gweddi', yn D. Myrddin Lloyd (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan III: Crefyddol* (Llundain, 1942), tt.73-9; Rees, *Pregethwr y Bobl*, tt.297-305; R. Tudur Jones, 'Ymneilltuaeth a'r iaith Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', yn *'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg': Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911*, gol. Geraint H. Jenkins (Caerdydd, 1999), tt.229-50.

wyneb y dadleuon a gafodd gyda Lewis Edwards ei hun yn y wasg ac, fel y dangosodd Saunders Lewis yn ddiweddarach, ar fater ei ddaliadau ynglŷn â'r cyfarfod gweddi. Mae'n ddiddorol mai ar Owen Thomas y galwyd i ymliw ag ef ar ran yr enwad i 'gerdded llwybr canol . . . yn ôl ei arfer' yn y Gymdeithasfa honno, ac yng Nghymdeithasfa Llanfyllin ddwy flynedd yn ddiweddarach, lle cytunwyd i'w ordeinio.[204] Dyma'r union gyfnod y comisiynwyd Owen Thomas i ysgrifennu'r cofiant, ac iddo ddechrau ar y gwaith. Megis arweinwyr eraill y Cyfundeb ar y pryd, yr oedd dilyn rheolau yn drefn naturiol i'r cofiannydd, ac felly ydoedd i Henry Rees genhedlaeth ynghynt.[205] Byddai'r agenda ddidactig o gynnig esiampl un o brif arweinwyr y gorffennol yn sicr yn fodd o gyfrannu at gael Emrys ap Iwan a'i debyg 'i *asio* gyda'i frodyr'[206] ar faterion cyfundebol, ac nid rhyfedd bod Owen Thomas yn pwysleisio'r bwlch aruthrol a adawyd ar farwolaeth Henry Rees yn 1869:

> Teimlid ein bod wedi ein hamddifadu . . . o un o'r gwylwyr mwyaf gofalus a llygadog, un o'r cynghorwyr doethaf a mwyaf diogel, ac un o'r arweinwyr mwyaf medrus a llwyddiannus a fu genym erioed, neu yr anrhydeddwyd unrhyw Gyfundeb crefyddol erioed âg ef.[207]

Fel y nodwyd uchod, felly, nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith mai'r un nodweddion neu rinweddau a bwysleisir yn y portread ohono fel pregethwr ac fel cyfundebwr. Er gwaetha'r ffaith fod ymdriniaeth fanwl a thrylwyr Owen Thomas â chyfraniad cyfundebol ei wrthrych yn tueddu i ddieithrio'r cyd-destun pregethwrol o'r naratif

---

[204] Cafodd ei ordeinio yng Nghymdeithasfa'r Wyddgrug, Mehefin 1883. Jones, *Emrys ap Iwan*, t.122. O ddarllen yr hanes a rydd T. Gwynn Jones yng nghofiant Emrys ap Iwan, ac yna D. Ben Rees yng nghofiant Owen Thomas, gwelir yn glir ei awydd mawr i amddiffyn y Cyfundeb, a chael Emrys ap Iwan i dderbyn ei benderfyniadau a'i reolau (Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.298).

[205] Fel y dywed D. Ben Rees, 'Yr oedd y Gymdeithasfa wedi ei disgyblu i gymryd ei phenderfyniadau o ddifrif ac i weithredu arnynt – dyna'r traddodiad a swcrwyd gan Thomas Charles a John Elias a Henry Rees, a'r traddodiad y safai Lewis Edwards ac Owen Thomas ynddo', Rees, *Pregethwr y Bobl*, t.300.

[206] Jones, *Emrys ap Iwan*, t.117.

[207] *CHR*, tt.903. Diddorol yw gweld defnydd Owen Thomas o'r person cyntaf lluosog wrth gyfeirio at y Cyfundeb yma, yn hytrach na'r trydydd person sy'n fwy arferol yn *Cofiant John Jones, Talsarn*. Gw. y drafodaeth ar y 'Cofiannydd Ymwybodol' ym mhennod 2, tt.116-40.

mewn modd na wnaethpwyd yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, rhaid gweld Henry Rees y cyfundebwr fel ymestyniad ar y portread o'r pregethwr delfrydol a gyflwynwyd yn y penodau blaenorol. Dyna sut y gall Owen Thomas ychwanegu bod ei wrthrych 'yn ei holl gymmeriad a'i ymarweddiad, ar hyd ei holl oes weinidogaethol, yn addurn i efengyl Crist' (903).

## 4.5. '"GŴR SANCTAIDD I DDUW" MEWN GWIRIONEDD YDOEDD': HENRY REES Y SANT

Fodd bynnag, nid y pwyslais cyfundebol yw'r unig gyd-destun pellach a geir ar bortread Owen Thomas o'i wrthrych yn y cofiant. Amlycach na Henry Rees y cyfundebwr yw'r cyd-destun duwiol neu santaidd a geir yn nehongliad y cofiannydd, yn enwedig yn ail hanner y cofiant. Gwelwyd eisoes yn y bennod hon fod Annie Davies yn credu bod ei thad yn sant, ac mai ei dduwioldeb diamheuol ydoedd craidd y portread cofiannol 'cywir' a gyflwynwyd gan y cofiannydd: 'How utterly false to *him* any memoirs would have been, however ably or eloquently written', meddai yn ei llythyr olaf at Owen Thomas, '. . . that did not leave as its pre-eminent impression of him – his holy saintliness of character.'[208] Yr un oedd ei barn bron i bymtheng mlynedd yn ddiweddarach pan gyhoeddwyd cofiant Saesneg i Henry Rees gan ei merch, Annie Mary Davies.[209] Lluniodd ysgrif fer ar gyfer y gyfrol sy'n portreadu'i thad ac sy'n cynnwys rhai atgofion personol a theuluol amdano. Ar un wedd, mae'n ymgais ymwybodol i bwysleisio eangder a dynoldeb (onid dynolrwydd) ei gymeriad

[208] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 10, oddi wrth Annie Davies [1891].
[209] Annie Mary Davies, *Life and Letters of Henry Rees* (Bangor, 1904). Fel y gwelir o'r tudalen deitl, rhannau o gofiant Owen Thomas, wedi eu cyfieithu, yw sail llawer o gynnwys y gyfrol.

ar ei aelwyd. Myn gywiro'r argraff mai bod arallfydol ydoedd, 'one who was popularly supposed to live somewhere up among the angels'.[210] Eto, y mae yr un pryd yn ddiysgog gadarn ei chred ei fod yn ddyn duwiol iawn, a fwynhai gymundeb aml a pharhaus gyda'i Dad Nefol: 'things "the angels desire to look into" . . . these were to him THE THINGS of his life. He believed them, therefore he spoke them, in saintly character, and in earnest preaching'.[211] Iddi hi, felly, gallai'r sant, y pregethwr a'r dyn gyd-fyw'n hapus o fewn mawredd un gŵr anghyffredin.[212]

Nid Annie Davies yn unig a goleddai'r farn hon. Mewn adolygiad ar y gyfrol yn *Y Traethodydd*, er enghraifft, nododd Griffith Ellis, Bootle fod '"Cofiant John Jones yn fwy galluog; ond Cofiant Henry Rees yn fwy duwiol"'.[213] Ategu'r gymhariaeth a wnaeth adolygydd arall a ddywedodd mai Owen Thomas, 'yr hanesydd' a geir yn ei gofiant cyntaf, ond mai 'hanes . . . [b]ywyd ysbrydol' a geir yn yr ail gofiant. Wrth gwrs, gall sylwadau o'r fath gyfeirio at y gwahaniaeth ym mhersonoliaeth y ddau wrthrych. Eto, y mae'n amlwg fod duwiolfrydedd Henry Rees yn elfen o bwys wrth ei bortreadu ac mai dyma, ym marn sawl beirniad, ydoedd sail holl ddoniau a chryfderau ei gymeriad.[214] Nid syndod, efallai, i fwy nag un gredu 'y

---

[210] Ibid., t.333.
[211] Ibid., t.335.
[212] Er bod y sylwadau hyn yn atgoffa dyn o gŵyn George M. Ll. Davies na phortreadwyd John Jones y dyn yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, mae'n bwysig cofio nad yw sylwadau Annie Davies mor uniongyrchol feirniadol o'r cofiant. Credaf fod sail y sylwadau yn fwy cymhleth na beirniadaeth ar y cofiant, a'r cofiannydd, yn unig, ac mai ymgais sydd yma i egluro cynnwys rhai o lythyrau Henry Rees a oedd yn cyfeirio at faterion pob dydd a theuluol. Ei dymuniad ydoedd 'to lift the veil a little – to give a glimpse of my sainted father as he was in the home and the family'. Nid yw'n syndod gweld y fath bwyslais mewn cofiant a fwriadwyd yn bennaf ar gyfer y teulu a chyfeillion.
[213] Ellis, 'Cofiant y Parchedig Henry Rees', 456.
[214] '*Cofiant y Parchedig Henry Rees*', 10. Eto, ni fyddai Griffith Ellis wedi llwyr gytuno â honiad yr adolygydd hwn mai prif ragoriaeth yr ail gofiant yw mai 'hanes y dyn ydyw, ac nid hanes ei amgylchiadau'. Dichon fod sylw adolygydd *Y Drysorfa*, mai Henry Rees oedd 'y cymeriad mwyaf *saintly*, yn nyfnder ei ysbrydolrwydd, llymder ei burdeb, a llwyredd ei ymgysegriad i'r Efengyl, a welodd neb erioed', yn ormodieithol ei naws. Eto, mae'n amlwg nad oedd yn llais unigryw. Gw. 'Hanes bywyd y diweddar Barchedig Henry Rees . . . Rhan I', 300.

bydd Mr Rees yn byw yn ein meddwl fel sant',[215] ac i Lewis Edwards nodi yn ei bregeth angladdol mai difrifoldeb a santeiddrwydd Henry Rees oedd 'sylfaen ei holl ddefnyddioldeb'.[216] Felly, er na ellir gwadu dylanwad Annie Davies ar y dehongliad ysbrydol neu dduwiol sylweddol a geir yn y cofiant, y mae'n amlwg nad ystryw ar ei rhan hi yn unig a fu'n gyfrifol amdano. O'r herwydd, efallai mai gormodiaith fyddai honni, fel y gwnaeth D. E. Jenkins, fod Owen Thomas o'r farn i deulu Treborth ymyrryd yn ormodol yn y portread, ac iddynt ddifetha'r gyfrol o'r herwydd.[217] Yn wir, ceir digon o dystiolaeth rhwng cloriau'r cofiant fod y cofiannydd yn ymwybodol iawn o'r difrifwch ysbrydol diymwad a hynodai gymeriad Henry Rees. Gwelwyd ym mhennod gyntaf y traethawd hwn mor gyffredin oedd y pwyslais ar dduwioldeb a diwydrwydd y pregethwr yn y cofiannau, ond byddai'n beryglus ystyried mai ystrydeb yn unig ydoedd elfen o'r fath. Mewn brawddeg dra arwyddocaol a didwyll yn y cofiant, sonia Owen Thomas mai '"gŵr sanctaidd i Dduw" mewn gwirionedd ydoedd; un o'r rhai mwyaf felly, os nad y mwyaf o gwbl, ag y daethem ni erioed i gyfarfyddiad âg ef'.[218] Dyma gryn ddweud o gofio am y myrdd o bregethwyr y daethai ar eu traws yn ystod ei oes, gan gynnwys John Jones, Tal-y-sarn ei hun a'i arwr yn y pulpud, John Elias. A byddai'n haws ei ddiystyru fel talp o weniaith Fictoraidd a ychwanegwyd er mwyn plesio Annie Davies pe na bai'r portread o Henry Rees fel sant yn hydreiddio'r cofiant. O ystyried bod amlder y dystiolaeth yn awgrymu y lluniwyd y dehongliad neu'r cyd-destun yn ymwybodol gan Owen

---

[215] '*Cofiant y Parchedig Henry Rees*' (24 Gorffennaf 1890), 10. Gw., yn ogystal, y cyfeiriad at 'ysbryd goleuedig a sanctaidd Mr Rees' yn yr adolygiad a geir yn *Y Traethodydd* yn 1890: 'Nodiadau llenyddol', 169.

[216] Lewis Edwards, 'Pregeth angladdol i'r diweddar Barch. Henry Rees' (ysgrifennwyd gan O. T. Williams, Rhyl), *Y Drysorfa* (Hydref 1889), 363. Traddodwyd y bregeth wreiddiol yn y Bala ar 4 Mawrth 1869, ond fe'i cyhoeddwyd yn *Y Drysorfa* tua'r un pryd ag yr ymddangosodd rhannau cyntaf y cofiant yn 1889.

[217] Gw. n. 48 a 49 uchod. Gw. hefyd Jenkins, 'Review and revision', t.326. Fel y nodwyd eisoes, mae prinder y dystiolaeth sy'n cefnogi honiad D. E. Jenkins yn bwrw amheuaeth ar ei gywirdeb, braidd.

[218] *CHR*, tt.814-15. Nodwyd eisoes i Owen Thomas symud i Lerpwl ym Mehefin 1865. Bu farw Henry Rees yn Chwefror 1869.

Thomas i gyd-fynd â'i agenda gofiannol, cystal bwrw golwg fanylach ar effaith y cyd-destun 'santaidd' hwn ar bortread y cofiannydd o'i wrthrych.

### 4.5.1 'Ni bu pregethwr erioed yn fwy hynod nag ef am hyn': perthynas y pregethwr a'r sant

Y mae'n bwysig ystyried nad cyd-destun annibynnol ar bortread Owen Thomas o'i wrthrych fel pregethwr ydoedd Henry Rees y sant. Megis y ddau gyd-destun arall a drafodwyd yn y bennod hon, pwrpas y dehongliad ysbrydol neu santaidd hwn fyddai cryfhau'r elfen ddidactig a oedd yn sail i fwriad gwaelodol Owen Thomas o gyflwyno patrwm o bregethwr i'w efelychu.[219] Unwaith eto, mae'r berthynas hon ar ei hamlycaf wrth ddadansoddi'r modd y lluniwyd y dehongliad cofiannol. Soniwyd eisoes mor amlwg yw duwioldeb pregethwr yng nghofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac nid unrhyw bregethwr ydoedd Henry Rees, ond un hynod am sancteiddrwydd ei gymeriad. Yr hyn sy'n cadarnhau mor allweddol ydyw duwioldeb Henry Rees i bortread ei gofiannydd o'r pregethwr yw'r ffaith mai'r un nodweddion a bwysleisia Owen Thomas wrth amlygu'r cyd-destun santaidd a'r cyd-destun pregethwrol fel ei gilydd, sef hynodrwydd naturiol ei wrthrych a'i ymroddiad a'i ddiwydrwydd diflino. O graffu ar y nodweddion hyn gwelir gryfed yw'r berthynas ddeongliadol ac efelychiadol sy'n bodoli rhwng y pregethwr a'r sant wrth iddynt ymgordeddu drwy'i gilydd, a chyfoethogi ei gilydd, yn y cofiant.

[219] Ynghyd â'r portread o'r pregethwr a geir yn y cofiant i John Jones, Tal-y-sarn, yn ogystal.

***'y fath eneinniad sanctaidd ar ei ysbryd': ei hynodrwydd***

Ceir pwyslais cyson yn y cofiant ar adlewyrchu 'ansawdd duwiolfrydig' cymeriad Henry Rees i'r darllenydd (226). Un wedd ar hyn yw bod portread Owen Thomas yn aml yn gosod ei wrthrych ar wahân i'r byd hwn a'i drigolion. Dyma'r union elfen y soniodd Annie Davies amdani yng nghofiant Saesneg 1904, ac fel y gwelwyd eisoes yr oedd cysylltiad anwadadwy rhwng hynny a'i dduwioldeb. Yn fachgen, er enghraifft, nodir bod ganddo 'gydwybod . . . dyner iawn yn erbyn pechod' (10) sy'n ei ddwysbigo pan yw ar gyflawni rhyw ddrygioni, yn ogystal â'i wneud yn agored iawn i ddylanwad daionus yr ysbryd (21).[220] Yr un effaith a geir yn narlun y cofiannydd o gymeriad myfyrgar a difrifol ei wrthrych, megis y duedd a oedd ynddo yn iau i '[dd]ydd-freuddwydio', er gwaetha'r ffaith y ceir tystiolaeth yn y cofiant sy'n awgrymu ei fod yn meddu ar bersonoliaeth siriol a chyfeillgar.[221] Gwelir hyn ar ei amlycaf, efallai, yn yr hanes a rydd Owen Thomas am ymweliad Henry Rees a'i frawd William â chartref y cofiannydd un prynhawn.[222] Er ei fod yn adrodd am yr 'hoewder chwareus' a nodweddai'r ddau frawd wrth iddynt adrodd straeon am hen gymeriadau Llansannan, fe'n hatgoffir gan yr awdur y gallai hwyliau Henry Rees newid yn ddisymwth.

> Ond difrifwch, a difrifwch ofnadwy, oedd nodwedd arbenig ei feddwl ef; ac weithiau, o ganol rhywbeth tra digrifol, fe'i ceid, ar unwaith, mewn tymher hollol wahanol, fel pe buasai wedi clywed rhyw lais o'r byd arall, yn galw arno . . . (854)

---

[220] Gw., yn ogystal, *CHR*, tt.17-18.

[221] Er enghraifft, ibid., tt.51, 58, 140. Ond gw. ei sylwadau yn rhagymadrodd yr ail gyfrol, lle mae'n amddiffyn peidio â chynnwys rhagor o 'ffraethineb' ei wrthrych oherwydd nad oedd yn gydnaws â'i gymeriad cyhoeddus. O'r herwydd, teimla na fyddai 'efe ei hunan yn foddlawn iawn i unrhyw sylw neillduol gael ei alw at hyn yn ei "*Gofiant*"' (*CHR*, II, t.iii, pwyslais OT).

[222] Yr oedd y ddau frawd wedi addo ymweld â mam Owen Thomas a oedd yn byw gyda'i mab ar y pryd.

Nid cannwyll dan lestr ydoedd Henry Rees. Yn wir, pwysleisia'r awdur yn gyson fod duwioldeb a santeiddrwydd mewnol ei wrthrych wedi ei adlewyrchu yn ymddygiad a phersonoliaeth y gŵr oddi allan, yn ogystal ag yn ei weithiau (boed lythyrau, ysgrifau neu bregethau).[223] Wrth gwrs, golyga hynny fod agosatrwydd dwyfol, 'dwysder teimlad' (769) neu 'ysbryd nefolaidd' (181) yn nodweddion pendant o bortread y cofiannydd o'r pregethwr cyhoeddus yn cyflawni ei alwedigaeth, megis pan ddisgrifia Owen Thomas effaith pregethau Henry Rees ar ei wrandawyr. Mewn pregeth yng Nghymdeithasfa Beaumaris yn Hydref 1827, er enghraifft, noda fod 'pawb oeddent ar y *Green* . . . yn teimlo fod adeg y "cyfarfod" â Duw megis wedi dyfod' (165). Dwysáu'r ymdeimlad fod y dyn a'r pregethwr yn sefyll y tu hwnt i feidrolion eraill a wna'r pwyslais a geir fwy nag unwaith ar ansicrwydd neu anghysur Henry Rees wrth ddelio â'r byd. Cafwyd elfen debyg yn y cofiant i John Jones, ond nid darlun o benchwibandod diniwed 'dyn yr un peth' a geir y tro hwn gan y byddai hynny'n milwrio yn erbyn ei sgiliau trefniadol a chyfundebol sylweddol.[224] Yn hytrach, daw'n amlwg fod purdeb ac 'uniondeb perffaith' Henry Rees yn anghydnaws â materolrwydd a bydolrwydd dyn. Dyma, efallai, sy'n egluro'i eiriau mewn llythyr a ddyfynnir gan y cofiannydd lle cyfeddyf fod '"pryder a gofal yn nghylch pethau bydol, yn niwed mawr i feddwl pregethwr"'.[225] Ac nid barn y cofiannydd yn unig sy'n tystio i hyn, megis pan ddyfynna o lythyr Margaret Jones, gwrthrych y cofiant

[223] Gw. *CHR*, tt.69, 176, 226, 300, 401, 508, 512, 814-15, 902, 966. Gw., er enghraifft, y traethawd a luniodd Henry Rees i'r *Drysorfa* tua diwedd 1831 yn trafod ei safbwyntiau ar Iawn Crist (tt.182-5). Yma, mae Owen Thomas yn ailadrodd y sylwadau a wnaethpwyd ganddo yn y cofiant i John Jones, Tal-y-sarn (*CJJT*, tt.514-16), a noda fod 'rhyw ireidd-dra sanctaidd, priodol i'r awdwr ei hunan ar yr holl gyfansoddiad' (*CHR*, t.184). Er na chred Owen Thomas y byddai Henry Rees yn cyd-fynd yn llwyr â chynnwys y traethawd yn ddiweddarach yn ei oes, nid yw'n amau didwylledd ei gredoau ar y pryd, gan fod stamp diamheuol y sant i'w canfod ar y geiriau ym marn y cofiannydd. Sylwer yn ogystal debygrwydd yr 'ireidd-dra' hwn o ran ansawdd i'r 'eneiniad' a drafodir isod, sy'n elfen amlwg o bregethu Henry Rees.

[224] Yn y cofiant i John Jones, pwrpas cyfeiriadau o'r fath yw pwysleisio awydd y gwrthrych i roi ei holl amser i bregethu a myfyrio ar bregethau.

[225] *CHR*, t.384. Yr oedd trafferth o'r fath yn bur anghyfarwydd iddo yn ôl y cofiannydd. Eto, ceir mwy nag un awgrym iddo ddioddef helbulon bydol ac iddo gael ei dwyllo gan unigolion anegwyddorol, yn enwedig yng nghyswllt arian neu eiddo. Gw., er enghraifft, tt.383, 663. Gweler hefyd tt.150, 825, 854.

poblogaidd, *Fy Chwaer*, a fynegodd mewn syndod y gallai Henry Rees, 'yr hwn, tybygaf, sydd yn byw mor agos at yr Arglwydd . . . [f]eddu yr un profiad, am dwyll y gelyn a'r galon, â myfi' (234-5).[226] Dyna sut y gall Owen Thomas, wrth ddadansoddi galluoedd ei wrthrych yn y pulpud, ddweud nad oedd pregethu na phregethau Henry Rees 'ar ryw ystyr . . . ond ffurf gyhoeddus ar ei dduwioldeb' (954).

Ond heb os, y gair 'eneiniad' a ddefnyddir amlaf yn y cofiant wrth gyfleu effeithiau pregethau Henry Rees ar ei gynulleidfa. Fe'i disgrifir gan Owen Thomas fel 'eneinniad nefol oedd fel yn wastadol ar ei ysbryd yn peri i'w wrandawwyr deimlo ei fod yn llefaru wrthynt megis cenad dros Dduw, ac mewn llawn awdurdod oddiwrtho' (170). Ac mae'r ansoddeiriau a gaiff eu harfer yn y cofiant wrth adrodd amdano, megis 'nefol a bendigaid' (849) a 'sanctaidd' (872), yn dwysáu duwioldeb y gwrthrych a phwysleisio'i agosrwydd at ei Dduw. Dyma, felly, gysylltu'n uniongyrchol yr elfen dduwiol gyda'r pregethwr, a'i alwedigaeth gyhoeddus, ynghyd â chrisialu'r ansawdd ysbrydol hynod a feddai.[227] Gwelir defnydd cyson iawn o'r gair 'eneiniad' pan edrydd y cofiannydd am bregethau hynotaf Henry Rees.[228] Yn wir, mae'n ddiddorol mai'r disgrifiad dramatig, llygad-dyst ohono'n pregethu a ddefnyddia Owen Thomas wrth gynnig dadansoddiad o'r elfen ysbrydol hon ym mhennod olaf, thematig y cofiant sy'n ymdrin â'i ddoniau pregethwrol. Does dim dwywaith nad dyma yw nodwedd fwyaf trawiadol ac effeithiol pregethau Henry Rees

[226] Nodwyd eisoes sylwadau Richard Bumford (ibid., t.170). Gw. hefyd y sylwadau o eiddo Edward Morgan a ddyfynnir (t.555).
[227] Gw. *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t.1214 am ddiffiniad o'r gair 'eneiniad', sy'n cynnwys y diffiniad ffigurol ohono fel 'dylanwad ysbrydol, tywalltiad o'r Ysbryd Glân, arddeliad (dwyfol)'.
[228] Ac nid amdano'n pregethu yn unig. Fe'i defnyddir wrth adrodd am rai o weddïau nerthol Henry Rees, er enghraifft. Achlysuron eraill lle sonnir am ei 'eneiniad' yw pan yw'n gweinyddu'r sacramentau neu draddodi'r cyngor mewn gwasanaeth ordeinio. Gw., er enghraifft, *CHR*, tt.162, 417, 734. Fel hyn y sonia Owen Thomas amdano'n gweinyddu'r cymun: 'yr oedd yr eneinniad rhyfedd oedd mor gyson ar ei ysbryd ef ei hunan, a'r gymdeithas bersonol agos a gadwai yn wastadol â Christ Iesu yn ei ddioddefiadau a'i angeu, yn peri fod rhyw arogledd nefol ar ei weinyddiad o'r Swpper Sanctaidd, a effeithiai ar dymherau, os nad ar galonau, y rhai caletaf, ac a deimlid mewn gwirionedd gan y Saint, yn adfywiol a bendithiol i'w hysbrydoedd' (t.162).

ym marn ei gofiannydd. Yr oedd, meddai, yn ei 'dymher a'i ysbryd . . . y fath gydnawsedd bendigedig â'r pethau a draddodir ganddo' (964), ac mae hyn eto yn tystio mai hynodrwydd ydyw sy'n tarddu'n naturiol ohono fel pregethwr, ac sy'n rhodd iddo oddi uchod (940). Ni ellir gwadu, felly, nad yw duwioldeb Henry Rees yn greiddiol i'w ddawn a'i hynodrwydd fel pregethwr, ac mae'r ffaith bod Owen Thomas yn credu ei fod 'yn hollol ddigyffelyb' (963) yn hynny o beth yn awgrymu cyd-destun mwy penodol na'r wireb/ystrydeb ddisgwyliedig fod pregethwr yn ŵr Duw. O'r herwydd, dyma nodwedd sy'n clymu'r pregethwr a'r sant ynghyd, ac yn cyfoethogi portread canolog y cofiannydd.

***'yr ymdrech parhaus sydd yn anghenrheidiol ar du y credadyn': ymroddiad, diwydrwydd a chysegredigaeth ysbrydol***

Wrth gwrs, nid yw'r ffaith fod hynodrwydd duwiol Henry Rees yn tarddu'n naturiol ohono yn gyfystyr â dweud ei bod yn elfen ddiamod neu sefydlog ym mhortread y cofiannydd. I'r gwrthwyneb, yn wir. Megis y pregethwr, y mae'r sant yn gyfuniad o'i ddoniau cynhenid a'i 'ymdrech gwastadol . . . i ymberffeithio mewn sancteiddrwydd, ac i gael ei hunan, o ran ei gymeriad personol, yn ddifeius ger bron Duw' (918). Unwaith eto, gwelir y berthynas glòs rhwng y cyd-destun pregethwrol ac ysbrydol yn ymdriniaeth gofiannol Owen Thomas â'i wrthrych. Daw'n amlwg fod ymroddiad ysbrydol Henry Rees yn dwysáu wrth iddo ddatblygu ei ddoniau fel pregethwr, ac nid gormodiaith fyddai honni mai cysondeb, neu ddiwydrwydd, ei ymroddiad parhaus i dduwiolfrydedd yng ngŵydd ei gyd-ddyn sydd i gyfrif am ddarlun llywyddol y cofiant ohono fel pregethwr cymeradwy a 'gŵr sanctaidd i Dduw'. Gwelir hyn yn glir yn y bennod ddadansoddol sy'n ymdrin ag ef 'fel pregethwr', ac mewn sawl cyfeiriad

a geir yn ail hanner y cofiant sy'n tystio i'w agosatrwydd i'r byd tragwyddol wrth iddo heneiddio.[229] Wrth bregethu ym Mhwllheli un tro, er enghraifft, ac yntau heb fod yn gwbl iach, dywed y cofiannydd ei fod mor nefolaidd ei ysbryd fel yr ofnid ei fod ar fin croesi i dragwyddoldeb yn y fan a'r lle (589).

Ond amlycach na hynny yw pwyslais cyson Owen Thomas ar amlygu ymdrech ei wrthrych i fyw buchedd dduwiol; pwyslais y gellir ei olrhain i agenda gofiannol ddidactig yr awdur. Soniwyd eisoes fod ymdrech ddwys Henry Rees i ddarllen a myfyrio ar yr ysgrythurau a phynciau diwinyddol pan oedd yn iau wedi ei wneud yn 'ŵr ieuanc gwir dduwiol' yn llygaid ei gyfoedion, yn ogystal â'i gymhwyso i'w ystyried ar gyfer galwedigaeth yn y pulpud. Ni châi'r naill heb y llall. Ac mae'n amlwg na phallodd hynny wedi iddo ddatblygu yn bregethwr. Yr ymroddiad diball hwn yw hanfod y dwysder myfyrdod a'i hynodai wrth arfer y weddi deuluaidd cyn dechrau ar waith y Saboth (883-4),[230] neu pan sonia'r cofiannydd am bryderon ysbrydol ei wrthrych ynglŷn â'r gwaith o bregethu'r efengyl. Wedi iddo ddychwelyd o'i daith i'r Unol Daleithiau, er enghraifft, nodir iddo ailafael yn ei weinidogaeth '[g]ydâ rhyw ddwyster teimlad, a ystyrid hyd yn nôd yn fwy angerddol nag oedd gyffredin iddo o'r blaen' (323). Sonnir am yr anerchiadau 'mor ragorol ac mor gyfaddas' (524) a luniodd at sylw ieuenctid yr eglwys, neu'r cyngor a draddododd

[229] Gw., er enghraifft, ibid., tt.518, 611, 833-5, 859, 863, 869, 870-2, 882-3, 893-900. Nid yn annisgwyl efallai, y mae'r wedd hon i'w gweld yn adroddiadau Owen Thomas ar waeledd Henry Rees yn 1866. Edrydd y cofiannydd iddo ymweld â'i wrthrych, lle llwyddodd i leddfu ei amheuon ynglŷn â'i afiechyd a'i gadwedigaeth (tt.833-5). Fe'i ceir yn ogystal yn yr adroddiad o'i waeledd olaf sydd wedi ei lunio o argraffiadau Annie Davies gan mwyaf (tt.893-900).

[230] Noda'r cofiant fod ganddo 'olwg o bryder difrifol ar ei wyneb' a bod 'ei weddi mor ddwys a theimladol a sanctaidd, fel yr ymddangosai i mi mewn rhyw *bellder mawr oddiwrthym ni*, ac yn y fath agosrwydd at Dduw' (ibid., tt.883-4 (Pwyslais OT (neu AD)). Dyfynnu sylwadau gan Annie Davies a wna Owen Thomas yma, a sonnir sut y cyferbynnai'r darlun hwn yn llwyr gyda'i ysgafnder hwyliog pan oedd gwaith y dydd ar ben. Ceir enghreifftiau pellach o ymroddiad Henry Rees i weddi yn y cofiant, megis ei sylw mewn llythyr at Lewis Edwards ym mis Ebrill 1853 y dylid arfer rhagor ar weddi er mwyn cyfoethogi'r meddwl a'r enaid (t.537). Yn wir, yn ei bennod olaf ddadansoddol, noda'r cofiannydd mai '[c]ysondeb ei gymdeithas â Duw mewn gweddi' (t.916) oedd un o gryfderau mawr ei wrthrych.

yng ngwasanaeth ordeinio Cymdeithasfa Caernarfon ar y pwnc 'Cymhwysderau a Gwaith y Weinidogaeth'. Ym marn Owen Thomas, dangosai'r cyngor nid yn unig fod Henry Rees yn llwyr ymroddedig i bregethu, ond yn ogystal yr ofnau a feddai y gallai neges yr efengyl gael ei glastwreiddio 'yn ei ddwylaw ef a'i frodyr' (493).[231]

Ond y wedd amlycaf a mwyaf cyson ar gysegredigaeth ysbrydol Henry Rees ym mhortread Owen Thomas yw ei 'ymdrech parhaus' (946) i sicrhau purdeb ei galon a'i ysbryd ei hun yn wyneb llygredigaethau a themtasiynau'r byd. Dyma'r '[rh]yfel ysbrydol' a nodweddai ei fywyd crefyddol,[232] megis pan sonia'r cofiannydd am y tro y gwylltiodd Henry Rees gyda swyddog mewn gorsaf reilffordd wedi i'r ddau ohonynt golli'r trên.[233] Edrydd sut yr edifarhaodd yn fuan a chyfaddef wrth ei gyfaill fod '"dyn yn greadur gwan iawn"' (827). Nid oes syndod mai yn ymateb Henry Rees i'w ymddygiad y mae diddordeb y cofiannydd, gan y dengys ei fod yn esiampl i unrhyw un a oedd am feithrin calon bur a duwiolfrydig. Nid yn unig yr oedd yn cydnabod mai pechadur ydoedd, ond y perthynai iddo yn ogystal '[y]r argyhoeddiad . . . o'r angenrheidrwydd am ddefnydd ffydd o Grist Iesu fel unig foddion ei farweiddiad' (102). Trafodwyd uchod yn y bennod hon sut y dylanwadwyd ar Henry Rees gan syniadau a gweithiau piwritanaidd (a gwaith John Owen yn arbennig) am

[231] Yr un yw'r pryder gyda golwg ar ymddygiad ei gyd-bregethwyr ar adegau penodol, megis ei bryder fod rhai yn gwadu ewyllys rhagluniaethol Duw adeg dirwasgiad economaidd 1847 (ibid., tt.456-7), neu ei agwedd ochelgar tuag at effeithiau dramatig a llethol diwygiad 1859 ar y cynulleidfaoedd, a'i gyngor ar i'w frodyr '"lawenhau mewn dychryn", rhag i ni gamgymmeryd . . . teimladau naturiol, wedi eu gorweithio, am serchiadau sanctaidd, yn ffrwyth adnewyddiad yr Ysbryd Glân' (tt.670-80 [677]).
[232] Ibid., t.918. Gw. hefyd sawl cyfeiriad yn y cofiant sy'n nodi ei fod yn arfer 'gwyliadwriaeth' neu 'lymder' tuag ato'i hun yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, ibid., tt.102, 231, 348, 734, 794.
[233] Yr oedd Henry Rees ac Owen Thomas yn mynychu Cymdeithasfa Llanfair-caereinion ar y pryd, lle galwyd ar Owen Thomas yn ôl yn gynnar i Lerpwl gan 'amgylchiadau teuluol'. Ond fe'i perswadiwyd gan Henry Rees i aros am un oedfa arall fel y gallasent deithio yn ôl i Lerpwl gyda'i gilydd. Eglura Owen Thomas sut y rhuthrodd ef a Henry Rees i'r orsaf i geisio dal y trên. Er iddo'u gweld mewn pryd, ni wnaeth y swyddog ddim i atal y trên rhag gadael yr orsaf. Yn wir, awgryma'r cofiannydd iddo gymryd pleser yn eu helynt. Tebyg mai teimlo cyfrifoldeb am sefyllfa ei gyfaill yr oedd Henry Rees wrth eu gweld yn colli'r trên ac mai dyna a achosodd iddo wylltio.

farweiddio neu ddarostwng y pechod cynhenid sydd mewn dyn.[234] Golygai hynny wrth gwrs, ochel rhag pechu ar y naill law ac ymroddi'n egnïol i dduwiolfrydedd ar y llall ym mhob agwedd ar fywyd.[235] Ac er nad yw Owen Thomas yn gwadu 'duwioldeb' Henry Rees pan oedd yn blentyn,[236] byddai'n deg nodi mai yng nghyd-destun y dylanwad piwritanaidd parthed marweiddio llygredigaeth y galon yr ymdrinnir â'i ymroddiad a'i ddiwydrwydd ysbrydol personol ar y cyfan. Yn ddiddorol, er nad yn annisgwyl efallai, gwelir mai tystiolaeth hunangofiannol – boed sgwrs, ysgrif, llythyr neu bregeth – yw ffynhonnell y cofiannydd yn aml iawn wrth drafod yr agwedd hon, a'r dystiolaeth honno wedi ei fframio gan sylwadau cyd-destunol o'i eiddo'i hun.[237] Er enghraifft, dyfynna'r awdur o un o ysgrifau ei wrthrych lle dywed fod ymgyfarwyddo â gweithiau John Owen pan oedd temtasiynau'r byd ar fin ei lethu wedi 'ffurfio cyfnod newydd yn fy mywyd, fel cristion ac fel pregethwr' (116-17). Er mai ffynonellau hunangofiannol sy'n ymdrin â bywyd mewnol ei wrthrych a geir yma, does dim dwywaith nad yw Owen Thomas yn cysylltu'r elfen hon â datblygiad gyrfa Henry Rees fel pregethwr yn ogystal, a'i allu i gyflawni ei alwedigaeth yn llwyddiannus. Priod waith ei wrthrych yn y pulpud ydoedd datgan iachawdwriaeth Crist ac annog eraill i ymroddi i santeiddrwydd, ac yn wir, sonia'r cofiannydd mai 'yn hyn y teimlid ef yn fwyaf hynod o bob peth gan lawer o'u wrandawwyr' (947).[238] O'r herwydd, gellir dadlau bod y cyd-destun ysbrydol, santaidd yn sylfaen i'r portread cofiannol canolog o Henry Rees fel pregethwr.

---

[234] Gw. tt.255-8 uchod.

[235] Fel y dywed J. I. Packer: 'The Christian, therefore, must use the means of grace assiduously, hearing, reading, meditating, watching, praying, worshipping; he must animate himself to "universal obedience", an all-round, all-day conformity to God's revealed will; and he must persevere in it with resolution and resilience.' Packer, *Among God's Giants*, t.261.

[236] Gw., er enghraifft, *CHR*, t.69. Gw. hefyd adroddiad Owen Thomas parthed pryderon ei wrthrych adeg Diwygiad 1859, ibid., tt.674-80 (tt.280-1 a n.231 uchod).

[237] Gw. y drafodaeth ar hunangofiannau piwritanaidd ym mhennod 1 y traethawd hwn, tt.22-31.

[238] Digwydd hyn y tu allan i'r pulpud yn ogystal, megis ei gyngor i'r saint yn yr Amwythig, a oedd wrthi'n adeiladu capel newydd, ar iddynt beidio ag 'esgeuluso dygiad yn mlaen adeiladaeth y deml ysbrydol oddimewn i'w heneidiau eu hunain' (*CHR*, t.150). Ceid hefyd wedd fwy personol neu deuluol

### 4.5.2 'Nid ydyw yn ddim byd fel pregethwr, wrth ydyw fel Cristion': y cyd-destun ysbrydol, personol

Y mae'n amlwg, felly, fod Henry Rees y sant yn nodwedd arwyddocaol o ddehongliad llywodraethol Owen Thomas o'i wrthrych fel pregethwr. Ym marn Owen Thomas, rhoddai santeiddrwydd Henry Rees

> hyfdra mawr iddo ef ei hunan, yn nhraddodiad ei genadwri . . . [a] gadael argyhoeddiad dwfn a dwys o'i gywirdeb a'i ddiragrithrwydd yn nghyd-wybodau ei wrandawwyr; ac yn y dadguddiad a roddid ganddo o'u calonau eu hunain iddynt hwy, yn ngoleuni ei ddarluniad ef oddiar ei ymwybodolrwydd o ddrwg ei galon ei hunan, - yr oeddent yn gorfod teimlo fod rhyw awdurdod mwy na dynol yn ei weinidogaeth. (919)

Serch hynny, mae'r cyd-destun ysbrydol sylweddol sy'n hydreiddio'r cofiant nid yn unig yn cyfrannu at greu archdeip o bregethwr, ond y mae yn ogystal yn hanfod i bortread manwl o Henry Rees fel Cristion o argyhoeddiad yn ei hawl ei hun. O'r herwydd, gellir dadlau mai'r sant yw'r ddelwedd amlycaf ar ei gymeriad yn y cofiant, ac y daw'r darllenydd, er yn anfwriadol, i deimlo megis Richard Bumford, ei hen gydymaith ar sawl taith bregethu, '[nad] ydyw yn ddim byd fel pregethwr, wrth ydyw fel Cristion' (170). Nodwyd eisoes fod y sant preifat a'r pregethwr cyhoeddus ynghlwm yn eu hanfod ym mhortread y cofiannydd. Serch hynny, amwysir y berthynas rhyngddynt o fewn y portread hwnnw gan bwyslais y cofiannydd ar y cyd-destun ysbrydol, mwy personol ei naws. Mae'r cyd-destun hwn yn fwy annibynnol ar

---

ar y gwaith a wnaed yn y pulpud, megis ei weddïau yng ngŵydd ei deulu ar iddynt ofalu rhag cymell pechod yn y galon, ac i'w 'sancteiddrwydd gael ei sicrhau' (t.880). Gw. yn ogystal y drafodaeth isod (tt.298-320, yn arbennig 304-20) ar yr ohebiaeth rhyngddo a'i ferch, lle mae'n ei hannog hi a'i gŵr yn daer i ddarllen gweithiau John Owen, yn benodol y gyfrol *Indwelling Sin in Believers* (1667).

y cyd-destun pregethwrol cyhoeddus – nodwedd nas ceir i'r un graddau o gwbl yn *Cofiant John Jones, Talsarn*. Un elfen arwyddocaol sy'n dwysáu'r tensiwn hwn rhwng y sant a'r pregethwr yn nehongliad cofiannol Owen Thomas yw ei ddefnydd cyson o bapurau personol, amrywiol Henry Rees er mwyn '[d]angos ansawdd dduwiolfrydig ei feddwl a'i ymroddiad i grefydd bersonol' (226). Hynny yw, pan fo naratif y cofiant yn troi o'r cyfrwng cofiannol at yr hunangofiannol.[239] Cyfeiriwyd eisoes at rai ffynonellau o'r fath yn y traethawd hwn, megis y sylwadau a luniodd Henry Rees ar gyfer golygydd *Trysorfa y Plant* neu'r myfyrion dyddiadurol, cyffesol eu naws, a gofnodwyd ym mis Mai 1837. Mae'r ffynonellau hyn yn aml yn cynnwys datganiadau ynglŷn â'i gyflwr ysbrydol, yn ogystal â'i argraffiadau ar bwysigrwydd arfer moddion megis darllen, ymprydio neu weddïo i leddfu ei enaid.[240] Enghreifftiau eraill amlwg fyddai'r nodiadau sy'n croniclo'i bregethau ar y Sul dros gyfnod o rai misoedd yn niwedd 1837 a dechrau 1838 (228-32, 235-38), a'r adroddiad ar ei daith i Berlin er mwyn mynychu cyfarfod o'r Cynghrair Efengylaidd.[241] Ac o graffu ar y deunyddiau 'hunangofiannol' hyn, a defnydd Owen Thomas ohonynt, nid yw'r pwyslais sydd yma ar amlygu duwioldeb Henry Rees yn cyfrannu at y cyd-destun pregethwrol a chyhoeddus o reidrwydd. Hynny yw, ymddengys y tro hwn nad yw'r berthynas gymhleth rhwng cyfryngau cofiannol a hunangofiannol yn amlygu'r pregethwr. Un enghraifft ddiddorol yw defnydd y cofiannydd o sylwadau Henry Rees ar ei daith bregethu i'r Amerig yn 1839.[242] Daw'n amlwg mai'r hyn a oedd bwysicaf i

---

[239] Ystyr 'hunangofiannol' yma yw unrhyw ddeunyddiau y cyfeirir atynt a luniwyd gan Henry Rees ei hun, megis llythyrau neu ysgrifau a phregethau, rhagor na chreadigaeth lenyddol 'hunangofiannol' yn unig.

[240] Er enghraifft, pan sonia'n arbennig am ddarllen a myfyrio yn Efengyl Ioan. Daw'r sylwadau hyn o'r flwyddyn 1837. Gw. *CHR*, tt.226-8.

[241] Cyflwynwyd yr adroddiad yn wreiddiol ar ffurf darlith yng nghapel Pall Mall yn Rhagfyr 1857, ac fe'i dyfynnir yn gyflawn yn y cofiant gan y cofiannydd er mwyn cyflwyno 'arddangosiad teg . . . o ysbryd meddwl' Henry Rees. *CHR*, t.627. Am yr adroddiad, gw. tt.627-48. Gw., yn ogystal, ibid., tt.414-15.

[242] Gw. ibid., pennod 8, *passim*. Gweler uchod (t.271, n.161) parthed y ffynonellau 'hunangofiannol' a ddefnyddiodd Owen Thomas wrth lunio'r bennod hon.

Owen Thomas oedd bod y sylwadau yn cynnwys enghreifftiau 'amlwg . . . o grefyddolder ysbryd a theimlad duwiolfrydig Mr Rees yn ystod y daith' (299-300). Dyfynnir, yn ogystal, lythyr o'i eiddo at ei wraig lle mynega ei obaith y bydd yn ymddangos yn fwy duwiol nag erioed yn ei golwg pan ddychwel i Gymru (300). Felly, er na ellir datgysylltu'r datganiadau ysbrydol hyn gyda'i ddatblygiad (a'i lwyddiant) fel pregethwr ar y naill law, gellir ar y llaw arall ddadlau mai eu priod bwrpas yw cynnal a chyfoethogi'r darlun o'i dduwioldeb personol ym meddwl y darllenydd. Dyfnhau'r argraff hwn a wna'r ffaith mai'r cyfrwng hunangofiannol amlycaf o'r hanner a ddefnyddir yn y cofiant yw'r llythyr.

***'y tad serchog a gofalus, y Cristion ffyddlawn a manwl': llythyrau Henry Rees***

Pa anawsterau bynnag a wynebai Owen Thomas wrth gychwyn ar y gwaith o lunio *Cofiant Henry Rees*, nid oedd prinder llythyrau yn eu mysg.[243] Fel y tystia teitl llawn y cofiant ei hun, *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys casgliad helaeth o'i lythyrau*, lluniwyd y gyfrol yn nelw ffurf nodweddiadol traddodiad cofiannol Seisnig y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef y *life and letters*. Er mor boblogaidd ydoedd y ffurf swmpus, aml-gyfrwng, aml-gyfrol hon, mae'n eironig mai hi hefyd, yn ôl Richard Altick, 'critically speaking, [was] the most vulnerable form of literary biography'.[244] Dyma sylw sy'n dadlennu amharodrwydd neu anallu'r mwyafrif o gofianwyr yr oes i arfer cynildeb neu ddethol crefftus wrth ymdrin â'u deunyddiau, yn

[243] Gwelwyd eisoes fel y gresynai nad oedd llawer o ddeunyddiau, ac yn benodol nad oedd 'digonedd o lythyrau' ar gael a fyddai'n hwyluso'r gwaith o gynllunio ac ysgrifennu *Cofiant John Jones, Talsarn* (gw. y llythyr at David Jones, Treborth a ddyfynnwyd gan Iolo Carnarvon yn *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, tt.282-3) (pennod 1 y traethawd hwn, tt.14-15). Yn wir, dyma un o'r prif wahaniaethau rhwng y ddau gofiant.

[244] Richard D. Altick, *Lives and Letters: a history of literary biography in England and America* (New York, 1965), t.182. Astudiaeth o gofiannau llenyddol yw eiddo gwaith swmpus Altick, ond y mae ei drafodaeth yn berthnasol gan mwyaf i gofiannaeth yn gyffredinol.

enwedig y deunyddiau hynny a ddeuai o law'r gwrthrych ei hun.[245] Wrth gwrs, y mae'r llythyr yn gyfrwng sy'n deillio o draddodiad hir, ac mae i'w gael ymysg y ffurfiau ysgrifenedig cynharaf.[246] Ond fel y dangosodd rhai astudiaethau diweddar ar y *genre*, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ehangwyd a phoblogeiddiwyd y cyfrwng yn ddirfawr yn sgil sawl datblygiad cymdeithasol a diwylliannol, megis y cynnydd mewn llythrennedd, ynghyd â'r datblygiad yn y wasg brintiedig a'r gwasanaeth post.[247] Nid rhyfedd, felly, i'r llythyr ddatblygu'n ddeunydd tra defnyddiol i gofianwyr yr oes, ac iddynt ail-gyd-destunoli'r ffurf mewn modd anrhydeddus wrth fynd ati i olrhain bywyd a phortreadu cymeriad eu gwrthrychau.[248] Nid oes amheuaeth na welai'r cofiannydd yn Owen Thomas yntau werth mawr i lythyrau. Yn wir, er bod gwerth diamheuol i ddeunydd hunangofiannol yn ei olwg, gellid dadlau ei fod yn prisio mwy ar lythyrau'r gwrthrych na deunyddiau eraill,

---

[245] Cynhwysid yn aml doreth o ohebiaeth heb docio'r hyn a oedd yn ddianghenraid ac amherthnasol. Fel yr eglura Altick: 'Many a nineteenth-century "life and letters" was produced by the simplest process imaginable: arranging the subject's correspondence and personal memoranda in chronological order, cutting wherever prudent, writing a minimal amount of introductory and connective prose, and sending the resultant manuscript off to the printer' (ibid., t.196).

[246] Gw., er enghraifft, David Barton a Nigel Hall, 'Introduction', yn idem (goln), *Letter Writing as a Social Practice* (Amsterdam & Philadelphia, 2000), t.5, ynghyd â phennod Charles Bazerman yn yr un gyfrol, 'Letters and the social grounding of differentiated genres', tt.15-30 (yn arbennig, tt.16-21).

[247] Nigel Hall, 'The materiality of letter writing', yn *Letter Writing as a Social Practice*, gol. David Barton a Nigel Hall (Amsterdam & Philadelphia, 2000), t.88 a 91. Máire Cross a Caroline Bland, 'Gender politics: breathing new life into old letters', yn idem (goln), *Gender and Politics in the Age of Letter-Writing, 1750-2000* (Aldershot, 2004), t.6; Gw. yn ogystal David Vincent, *Literacy and Popular Culture: England 1750-1914* (Cambridge, 1989). Mewn cyd-destun Cymreig, gw. Bill Jones, 'Writing back: Welsh emigrants and their correspondence in the nineteenth century', *North American Journal of Welsh Studies*, Vol.5.1 (Gaeaf 2005), yn benodol 29-36; idem, '"Going into print": published immigrant letters, webs of personal relations, and the emergence of the Welsh public sphere', yn *Letters Across Borders: the Epistolary Practices of International Migrants*, gol. Bruce S. Elliott, David A. Gerber a Suzanne M. Sinke (Palgrave, 2006), tt.175-99. Gw. yn ogystal y bennod ar lythyrau milwyr yn Jerry Hunter, *Llwch Cenhedloedd: y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst, 2003); Jerry Hunter, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War* (Cardiff, 2007), tt.162-4. Hoffwn ddiolch i Bill Jones am ei sylwadau defnyddiol wrth ymchwilio i'r rhan hon o'r bennod.

[248] Fel yr eglura Barton a Hall caiff llythyrau eu hail-gyd-destunoli pan gânt eu defnyddio mewn cyfrwng a chyd-destun sy'n wahanol i'w bwriad gwreiddiol. Gw. 'Introduction', yn *Letter Writing as a Social Practice*, t.9. Gw., yn ogystal, benodau Lucile M. Schulze a Catherine Kell yn yr un gyfrol, lle trafodir y defnydd o lythyrau o fewn cyd-destun addysgiadol: Lucille M. Schulze, 'Letter-writing instruction in 19th century schools in the United States', yn *Letter Writing as a Social Practice*, gol. David Barton a Nigel Hall (Amsterdam & Philadelphia, 2000), tt.109-30; Catherine Kell, 'Teaching letters: the recontextualisation of letter-writing practices in literacy classes for unschooled adults in South Africa', yn *Letter Writing as a Social Practice*, gol. David Barton a Nigel Hall (Amsterdam & Philadelphia, 2000), tt.209-32.

megis ysgrifau, nodiadau dyddiadurol neu bregethau hyd yn oed. Gwelwyd eisoes iddo wneud defnydd diddorol o'r ychydig lythyrau o eiddo John Jones a ddaeth i'w law wrth lunio'i gofiant,[249] ac yn rhagymadrodd *Cofiant Henry Rees* mae'n ddiamwys ei ddiolch i Annie Davies am gyflwyno llythyrau teuluaidd 'gwerthfawr' ei thad i'w cynnwys yn y gyfrol.[250] Ymhellach, yr oedd cysylltiad rhwng pwysigrwydd y llythyr fel ffurf â thueddiadau'r cyfnod parthed dilysrwydd neu eirwiredd yr hyn a fynegid ynddo. Erbyn heddiw, wrth gwrs, derbynir amwysedd a goddrychedd testunol y llythyr, ynghyd â'r ffaith ei fod yn gaeth i gyd-destun amseryddol pendant: 'Like the diary form, the letter is personal and immediate; it is not fiction but it is not fact. It is an engagement by the writer with the present.'[251] Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fodd bynnag, nid amheuid dilysrwydd y llythyr. Credid ei fod yn adlewyrchu gwir deimladau neu argraffiadau yr ysgrifennydd, ac y ceid ynddo ddrych o gymeriad dyn.[252] Yn ôl y llenor a'r beirniad Seisnig William Hazlitt, er enghraifft, llythyrau oedd 'the honestest records of great minds',[253] a gellir tybio mai felly ydoedd barn Owen Thomas yn ogystal. Sonia yn y cofiant, er enghraifft, fod 'delw' Henry Rees ar lythyr cynnar o'i eiddo (101-2), a dywed fwy nag unwaith fod cynnwys llythyr yn 'nodweddiadol o Mr Rees' (619).[254] Ystyrid mai rhinwedd mewn cofiannau, casgliadau neu ddetholion cofiannol oedd i wrthrych y cofiant adrodd ei hanes yn ei eiriau ei hun; elfen a gyfiawnhai ddyfynnu swmp o'i lythyrau yn fanwl ac yn bur ddi-fwlch, ac eithrio peth ymyrraeth olygyddol oherwydd gofynion gramadeg, chwaeth

---

[249] Gw. pennod 3 y traethawd hwn, tt.215-16. Fel y gwelir yno, er bod llythyrau eraill o eiddo John Jones yn bodoli na wnaeth Owen Thomas ddefnydd ohonynt, mae'n anodd profi a wyddai am eu bodolaeth ai peidio.
[250] *CHR*, t.vii. Gw. yn ogystal tt.537, 579, 591 a 648 am ei ddefnydd o'r ansoddair fwy nag unwaith yng nghorff y cofiant.
[251] Cross a Bland, 'Gender politics', t.7. Gw. yn ogystal Jones, 'Writing back', 30-1.
[252] Fel y dywed Lucille M. Schultz am y bedwaredd ganrif ar bymtheg, 'I see no writers who questioned the metonymy in which the appearance of the letter was read as a representation of the character of the writer', Schultz, 'Letter-writing instruction in 19th century schools in the United States', tt.118-21 [121]; Altick, *Lives and Letters*, t.195.
[253] Dyfynnir yn ibid., t.195.
[254] Gw., yn ogystal, *CHR*, tt.512, 524, 657, 683.

neu dawedogrwydd: 'The natural corollary to "Let the subject speak for himself" therefore was "Let the reader form his own image of the man"', chwedl Richard Altick.[255] Dyma fethodoleg gofiannol rymus a fwriadai gynnig i'r darllenydd bortread dilys ac awdurdodol o'r gwrthrych heb ei lurgunio gan fwriadau cofiannol yr awdur. Wrth gwrs, â Altick ymlaen i nodi mai siarad fel y bwriadai'r cofiannydd iddynt siarad a wna'r gwrthrychau, ac mai anathema yw rhyddid hunangofiannol cyflawn. O'r herwydd, cyfrannai'r llythyr at gryfhau awdurdod y gwrthrych a'r cofiannydd fel ei gilydd. Fel y trafodwyd yn ail bennod yr astudiaeth hon, dyma elfen a fyddai wedi apelio yn fawr at amcanion cofiannol didactig Owen Thomas wrth ymdrin â llythyrau Henry Rees.

Ar un wedd, felly, bu Owen Thomas yn hynod ffodus o dderbyn casgliad helaeth o lythyrau ei wrthrych i'w defnyddio wrth lunio *Cofiant Henry Rees*. Er nad dyma'r lle i gynnig ymdriniaeth fanwl â'r casgliad cyfan, mae'n werth nodi rhai sylwadau am y llythyrau sy'n ymddangos yn y gyfrol.[256] Afraid dweud bod y llythyrau yn amrywio o ran pwnc, arddull a swyddogaeth. Serch hynny, nid proses syml mo'u categoreiddio yn fathau gwahanol gan fod rhai llythyrau yn trosgynnu dosbarthiadau testunol ffurfiol o'r fath. Ac mae'n bwysig cofio bod diffyg gwybodaeth a diffyg manylion cyd-destunol hanfodol, megis enw'r derbynnydd, yn cyfrannu at amwyso'r broses o'u dosbarthu ambell waith.[257] Dro arall, arferion golygyddol Owen Thomas ei hun sy'n gyfrifol. Er enghraifft, hepgorir un neu ragor o rannau o rai llythyrau gan y cofiannydd, neu fe gynhwysa ddyfyniadau ohonynt yn unig, tra dyfynnir llythyrau eraill yn ddi-fwlch ac yn eu cyfanrwydd, hyd y gwyddys.

[255] Altick, *Lives and Letters*, t.198.
[256] Nid oes gwybodaeth ar gael i farnu a wrthodwyd rhai llythyrau'n gyfan gwbl gan Owen Thomas, ond gellir bod yn bur hyderus na chynhwyswyd pob llythyr yn ei ofal yn y cofiant.
[257] Gall diffyg enw beri amwysedd wrth ystyried perthynas Henry Rees â'r derbynnydd.

Ymhellach, rhaid gochel dosbarthu'r casgliad hwn yn ôl ein safonau ni heddiw parthed ffurfioldeb neu anffurfioldeb y cynnwys. Er enghraifft, ceir nifer o lythyrau y mae eu cynnwys yn awgrymu cyd-destun ffurfiol ei naws oherwydd eu bod yn ymdrin â phynciau cyfundebol, swyddogol. Eto, y mae nifer o'r derbynwyr, megis y pregethwyr Methodistaidd amlwg Lewis Edwards neu William Roberts, Amlwch, yn gyfeillion mynwesol i Henry Rees – ffaith sy'n amwyso ffurfioldeb honedig y llythyrau fel y cyfryw. Fodd bynnag, nid yw'r llythyrau hynny mor anffurfiol neu gynefin â'r llythyrau teuluol sy'n frith drwy'r gyfrol.[258] Yn wir, dichon mai'r rhaniad amlycaf y gellir ei wneud gyda'r casgliad yw ystyried y llythyrau o nodwedd gyhoeddus, sy'n grefyddol, ysbrydol, diwinyddol, pregethwrol neu gyfundebol eu naws a'u cynnwys ar y naill law, a'r llythyrau personol a theuluol ar y llall.

*'annog a chynghori': llythyrau cyhoeddus*

Llythyrau at gyd-bregethwyr, swyddogion neu aelodau eglwysig (ac eglwysi cyfain ambell waith) yw'r math cyntaf. Er y ceir hefyd lythyrau at gyfeillion, megis y cyfreithiwr William Lloyd, Rhuthun, y mae pob un o'r gohebwyr hyn yn rhan o'r byd cyhoeddus, eglwysig neu enwadol, yr oedd Henry Rees yn perthyn iddo. Mae pynciau'r llythyrau yn amrywio'n fawr, o dderbyn neu wrthod gwahoddiadau i bregethu, neu ymddiheuro am orfod torri cyhoeddiad oherwydd salwch, i drafodaethau ar gyfundrefnaeth yr enwad, neu ar athrawiaethau diwinyddol, sydd weithiau'n ffrwyth trafodaeth swyddogol cyfarfodydd y Gymdeithasfa. Dro arall, ceir hanes taith bregethu neu gynghorion bugail i'w braidd neu unigolyn i gyfaill. Unwaith eto, yr hyn sy'n gyffredin iddynt oll yw'r ffaith mai ymwneud y maent â'r byd crefyddol neu ysbrydol. Fel yr awgrymwyd, ceir peth amwysedd ynglŷn â bwriad neu

[258] Defnyddir y gair 'cynefin' yma i olygu yr hyn a elwir yn Saesneg yn 'familiar letter'.

swyddogaeth rhai llythyrau sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf fel gohebiaeth bersonol at gyfaill unigol, ond sydd, mewn gwirionedd, wedi eu bwriadu i'w darllen yng ngŵydd sawl unigolyn mewn seiat, gyfarfod enwadol neu gynulliad eglwys benodol. Sylwir ar yr amwysedd hwn gan Owen Thomas ei hun yn y cofiant,[259] a phwysleisia sawl beirniad diweddar y dylid ystyried natur y cyd-destun hwn cyn derbyn yn ddigwestiwn mai'r derbynnydd yn unig a ddarllenai'r llythyrau mewn tawelwch ac unigedd. 'Private letters were experienced comunally through being read and passed around', meddai Bill Jones,[260] ac mae hyn yn arbennig o wir am y llythyrau ysbrydol ac anogaethol eu naws sy'n ymdrin â llygredigaeth yr enaid a chyflwr ysbrydol dyn. Dyma'r llythyrau a ddisgrifiwyd gan E. Wyn James fel 'ymestyniad o ffurfioldeb a chwrteisi'r seiat brofiad'.[261] Yr oeddynt, felly, yn solet o fewn traddodiad efengylaidd a Methodistaidd y ddeunawfed ganrif a hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac fel y noda Robert Rhys, bu defnydd helaeth ar gyfrwng y llythyr ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd fel modd o 'annog a chynghori ac o feithrin cymdeithas'.[262] Un enghraifft benodol yw'r llythyr yng nghofiant Thomas Jones, Dinbych, dyddiedig 6 Mawrth 1801, sy'n bwrw golwg 'ar agwedd ei feddwl, ac ansawdd ei deimladau crefyddol' yn ôl ei gofiannydd.[263] Fel y gellid disgwyl, mewn llythyrau ysbrydol ac anogaethol o'r fath mae ysbrydolrwydd neu dduwioldeb Henry Rees yn amlwg. Sonia mewn un llythyr cynnar, er enghraifft, am ei gywilydd nad yw'n fwy ymroddgar a dyfal 'yn yr ymarferiad o bob moddion appwyntiedig' er mwyn ennill mwy o

---

[259] Mae rhai llythyrau yn amlwg wedi eu cyfeirio at 'gyfeillion' eglwys benodol (*CHR*, tt.106-8, 837). Dro arall noda i lythyr at unigolyn gael ei ddarllen mewn cyfarfod o'r Gymdeithasfa (t.847). Serch hynny, dywed mewn un man y dylid ystyried dau lythyr at Hugh Griffiths o'r Amwythig 'mewn rhan yn llythyrau personol ato ef, ac mewn rhan yn Annerchiadau at yr holl eglwys' (t.150); ibid., tt.150-1, 151-3; gw. hefyd lythyr pellach at Hugh Griffiths, t.176.
[260] Jones, 'Writing back', 33.
[261] Wrth drafod llythyrau Ann Griffiths. Gw. *www.anngriffiths.cardiff.ac.uk/cyflwyniad.html* [gwelwyd 9 Gorffennaf 2011].
[262] Rhys, *James Hughes*, t.92.
[263] Jonathan Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych, yn cynnwys ei gysylltiad a Duwinyddiaeth a Llenyddiaeth ei Oes a Hanes a Symudiadau y Methodistiaid Calfinaidd, ac a'r Ordeiniaid Cyntaf a fu ar eu Gweinidogion yn y flwyddyn 1811* (Dinbych, 1897), t.121.

'sancteiddrwydd, gostyngeiddrwydd, a zêl dros ogoniant Duw' (105). Mewn llythyr diweddarach, dywed mor hanfodol y bu 'gorsedd grâs a geiriau y Beibl' iddo ar y daith i Unol Daleithiau'r America. Edrydd am bwysigrwydd gweddi, a chais gymell ei gyfeillion yn ôl yng Nghymru i weddïo rhagor (283-5).[264] Ac mewn llythyr a ysgrifennwyd at Eliezer Pugh ryw ddwy flynedd cyn ei farwolaeth, mynega nad golud a chyfoeth yw hanfodion eglwys dda ond 'cariad, undeb a thangnefedd . . . ac nid oes dim tangnefedd heb sancteiddrwydd' (837).[265] Serch hynny, nid yw pob llythyr yn cyflwyno mynegiant uniongyrchol o'r fath. Mae'n bwysig cofio mai gohebiaeth o natur grefyddol neu ysbrydol yw'r llythyrau hyn oll, wrth gwrs, ond y maent wedi eu gosod o fewn fframwaith sy'n gymdeithasol neu gyhoeddus ei natur yn aml iawn. O'r herwydd, y mae cymeriad y gweinidog neu'r pregethwr yn amlwg iawn ynddynt. Er bod Henry Rees yn mynegi teimladau sy'n ysbrydol bersonol mewn rhai llythyrau, eu cyd-destun yw'r byd cyhoeddus, enwadol a phregethwrol, byd y 'gwaith mawr', a rhaid gweld y portread o'r sant sydd i'w gael yn y llythyrau hyn yng ngoleuni hynny. O'r herwydd, y mae llythyrau o'r fath yn llwyddo i gadw cydbwysedd deongliadol y cofiannydd o gyflwyno portread o bregethwr o sant yn y cofiant.

*'Annie fach . . . ': llythyrau teuluol*

Y llythyrau mwyaf cyffredin o ddigon yn y cofiant, fodd bynnag, yw llythyrau teuluol, ac er bod peth amwysedd yma eto ynglŷn â phwy oedd derbynnydd a darllenydd y llythyrau hyn, mae'n amlwg bod cyd-destun mwy personol yn perthyn iddynt. Er bod gohebiaeth at sawl aelod o'r teulu wedi ei chynnwys yn y cofiant,

[264] Fel mae'n digwydd, fe gyhoeddwyd y ddau lythyr hyn ac felly bu iddynt ganfod cynulleidfa ehangach na'r unigolion y bwriadwyd y llythyrau ar eu cyfer. Mae'n amheus na fyddai Henry Rees wedi tybio y cyhoeddid yr ail lythyr, ond noda Owen Thomas na fyddai wedi ystyried y cyhoeddid y cyntaf (*CHR*, t.104).

[265] Mae'n bur sicr o ddarllen y llythyr mai at sylw y seiat yn ei eglwys yn Chatham Street, Lerpwl y mynegid y neges.

daw'n eglur mai at ei ferch, Annie, yr ysgrifennwyd y mwyafrif o'r llythyrau hyn.[266] Y mae'r gyfres 'amhrisiadwy' hon o lythyrau, chwedl Owen Thomas (501), yn rhychwantu ugain mlynedd olaf ei fywyd, gan ddechrau pan oedd ei ferch mewn ysgol breswyl.[267] Ond gyrrwyd y rhan fwyaf o'r llythyrau wedi i Annie briodi â Richard Davies ym mis Mawrth 1855 a symud i fyw o Lerpwl.[268] Mae'r ohebiaeth swmpus yn cael lle blaenllaw yng nghofiant Owen Thomas. Eto, erys rhai problemau yn ei chylch. Yn gyntaf, oherwydd na cheir dyddiad pendant wrth bob llythyr, ac na ddyfynnir llythyrau cyfain bob tro, mae'n anodd mesur faint yn union o lythyrau a gynhwysir yn y cofiant.[269] Yn ail, mae'n amheus a gynhwysir yn y cofiant yr holl lythyrau a anfonodd Henry Rees at ei ferch dros y blynyddoedd.[270] Yn drydydd, mae'n anodd gwybod i sicrwydd a welodd Owen Thomas yr holl lythyrau sydd yn awr ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol wrth lunio'r cofiant.[271] Dichon iddo wneud, gan fod y casgliad cyfan ymron wedi ei gyhoeddi yn y gyfrol. Serch hynny, cyfyd cwestiwn pellach, sef i ba raddau y cafodd Owen Thomas benrhyddid gan y teulu i weld y casgliad cyfan? Fel cofiannydd, byddai disgwyl iddo olygu'r cynnwys, yn bennaf i gyd-fynd â moesoldeb a thawedogrwydd y cyfnod, ac mae tystiolaeth o hynny i'w ganfod yn y gwaith.[272] Eto, ambell waith ceir yr argraff fod yr ohebiaeth

---

[266] Ceir ambell lythyr at ei rieni a'i rieni-yng-nghyfraith, ynghyd â rhai llythyrau at ei wraig. Y mae'n ddiddorol nad oes ymysg y llythyrau hyn ohebiaeth gan Henry Rees at ei frodyr, ac yn benodol at ei frawd William Rees, na'i chwiorydd.

[267] Cynhwysir yn ogystal yn y casgliad rhyw ddwsin o lythyrau at ei wyrion, sef plant Annie a Richard Davies.

[268] Ceir nifer pur gyson o lythyrau ar gyfer pob blwyddyn, hyd nes canol y 1860au pan oedd Henry Rees yn heneiddio ac yn treulio llawer mwy o amser ar aelwyd ei ferch.

[269] Tebyg bod rhwng 70 ac 80 o lythyrau yn y casgliad.

[270] Gw., er enghraifft, sylw Owen Thomas parthed y llythyr unigol a gynhwysir yn y cofiant at gyfaill mawr Henry Rees, a'i was priodas, sef John Jones, Llanfyllin; llythyr a ddaeth yn 'ddamweiniol i'n llaw' yn ôl y cofiannydd (*CHR*, t.199).

[271] Gw. LlGC, CMA 2, llsgau 14509-83, 'Letters from Henry Rees to his daughter, Anne, 1858-64'.

[272] Gw. y drafodaeth ar ffynonellau Owen Thomas ym mhennod 2, tt.124-31. Er enghraifft, gw. ei sylw diamwys mai dyfyniadau yn unig a gyflwynir o'r llythyrau teuluol, a hynny, 'oblegyd eu nodwedd gyfrinachol' (*CHR*, t.577). Dro arall, ystyriaethau mwy llenyddol neu arddulliol sy'n sail i'w benderfyniadau. Er enghraifft, cyflwynir dyfyniadau yn unig o lythyr sy'n rhoi hanes ymweliad Henry Rees â Berlin er mwyn osgoi ail-adrodd ffeithiau, gan fod Owen Thomas yn dyfynnu'n gyflawn yr araith a draddododd ar ei ddychweliad (t.624). Afraid dweud nad oedd golygu o'r fath yn unigryw i'r

eisoes wedi ei dethol, onid ei sensro, cyn iddi gyrraedd Owen Thomas. Sonia, er enghraifft, am lythyr at Annie Davies a ysgrifennwyd o Langollen yn 1855, 'o'r hwn', meddai, 'ni chawsom ond y dyfyniad canlynol . . .' (572). Llai amwys o'r hanner yw 'Nodiad' Annie Davies am lythyrau ei thad at ei wyrion, lle dywed mai 'extracts' yn unig a gynhwyswyd ohonynt yn y cofiant (882).[273] Ymddengys na ellir haeru'n bendant mai llaw olygyddol y cofiannydd yn unig a fu'n torri a dethol yn achos yr ohebiaeth hon. Ac wrth gwrs, ni ddylid ychwaith anwybyddu cyfraniad damweiniau a threigl amser wrth ystyried y bylchau hyn.[274] Dyma rai ystyriaethau na ellir eu hanwybyddu wrth fwrw golwg dros y llythyrau.

Fodd bynnag, fe groesawyd yr ohebiaeth yn dalog gan Owen Thomas. Sonia am ei 'lawenydd dirfawr' o allu ei chynnwys yn y cofiant (501), ynghyd â'i sicrwydd, a fynegir fwy nag unwaith ganddo yn y gyfrol, o werth diamheuol y llythyrau hyn i'r darllenwyr. Â chyn belled â nodi y 'siomir ni yn anghyffredin, os na bydd y darllenydd yn eu gwerthfawrogi yn fawr'.[275] Ceir awgrym clir yn un o lythyrau Richard Davies o'r rheswm dros groeso twymgalon Owen Thomas i benderfyniad Annie Davies i gyhoeddi llythyrau ei thad. Sonia am ddarllen y llythyrau, a dywed: 'they are indeed inimitable – my tears dropped too fast, so I had to stop – they cannot

---

llythyrau teuluol. Gw. ei sylw am hepgor 'y pethau personol a neillduol . . . na buasent o ddiddordeb i'r darllenydd' wrth gynnwys yn y cofiant un o lythyrau Henry Rees at y cyfreithiwr William Lloyd, Rhuthun (t.388).

[273] Ymddengys fod Annie Davies wedi cyplysu'r nodiad eglurhaol hwn wrth y llythyr olaf a anfonodd Henry Rees at ei ŵyr. Gellir awgrymu, felly, mai at sylw Owen Thomas ei hun y bwriadwyd y nodiad, a'i fod yntau wedi ei gyhoeddi yn y cofiant, 'yr hwn a ddodwn i mewn yn ei geiriau ei hun', chwedl ef.

[274] Ymhellach, cofier sylw Annie Davies am gyflwr y deunyddiau a ddaeth o law ei hewythr, William Rees (cofiannydd gwreiddiol ei thad). Noda Richard Altick fod rhai cofianwyr yn ddibris iawn o'r llythyrau gwreiddiol, neu y dinistrid yr ohebiaeth wrth gysodi'r cofiant. Wrth sôn am gofiannydd Charles Dickens, dywed: 'Forster often cut from Dickens' letters the passages he wanted to print in his biography, discarding the rest. Although the copy for the first volume survives, that for the latter two was destroyed. For this reason the only texts we have for hundreds of Dickens' most valuable letters are the edited excerpts printed by Forster', Altick, *Lives and Letters*, t.196. Er na chafodd llythyrau Henry Rees at Annie Davies driniaeth cyn waethed â hynny, mae'n bosibl fod rhai llythyrau wedi eu colli yn y broses olygyddol.

[275] *CHR*, t.508. Gw. hefyd tt.565-6, 577, 658.

but be a blessing to every one that reads them.'[276] O ddarllen y cofiant, mae'n amlwg fod yr awdur o'r un farn. Wrth gwrs, yr oedd y llythyrau hyn yn llenwi bylchau yn ei wybodaeth a'i ddeunyddiau cofiannol, ond nid oes amheuaeth yn ogystal na welai Owen Thomas werth didactig pendant i'r casgliad. O fwrw golwg fanylach arnynt, gwelir mor hwylus y mae'r llythyrau hyn yn cyflawni bwriad y cofiannydd o gyflwyno gerbron ei ddarllenwyr gofiant sy'n gyfrwng bendith ac addysg. Er bod iddynt naws ddirodres, uniongyrchol neu ymddiddanol y *familiar letter* Seisnig,[277] y mae'n bwysig nodi bod y cynnwys ar y cyfan yn perthyn i draddodiad efengylaidd a Methodistaidd y llythyrau anogaethol, lle 'mae cyngor a chyffes yn agos iawn at ei gilydd', chwedl Robert Rhys.[278] Fel y dengys cynghorion llythyrau Robert Jones, Rhos-lan at ei fab ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid newyddbeth oedd bod i lythyrau o'r fath gyd-destun personol a theuluol, nac ychwaith fod gohebiaeth o'r fath yn ymddangos mewn cofiannau.[279] Does dim dwywaith nad yr un math o drafodaeth ar gyflwr ysbrydol yr enaid a phechod a geir yn llythyrau Henry Rees bron i hanner can mlynedd yn ddiweddarach. Dyna yw pwnc cyfran, os nad cyfran helaethaf, pob llythyr. Y mae'r cynghorion ysbrydol a gyflwynir yn gyson iawn eu neges, ac yn tystio i Galfiniaeth efengylaidd Henry Rees, a'i gred, fel y Piwritaniaid

---

[276] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 19, oddi wrth Richard Davies (3 Ionawr 1890).

[277] Susan M. Fitzmaurice, *The Familiar Letter in Early Modern English* (Philadelphia, 2002), t.19.

[278] Rhys, *James Hughes*, t.91. Yr oedd Iago Trichrug yn hŷn na Henry Rees o ryw ugain mlynedd. Bu farw yn 1844.

[279] Ibid., t.92. Cofnodir yr ohebiaeth, neu rannau ohoni, yn *Cofiant o fywyd a marwolaeth y diweddar Mr Robert Jones, Dinas, gynt o Roslan, Sir Gaernarfon, pregethwr yr efengyl yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn a fu farw Ebrill 18, 1829, yn y 84 flwyddyn o'i oed a'r 60fed o'i weinidogaeth: at yr hyn y chwanegwyd pigion o'i lythyrau ac o'i waith prydyddol ynghyd â llythyr ato oddiwrth y diweddar Barch. T. Charles o Bala* (Llanrwst, 1834). Mewn cyfrol sy'n rhychwantu 52 tudalen, mae tt.24-48 yn cynnwys llythyrau, y mwyafrif helaeth ohonynt (20 mewn nifer) at ei deulu ac yn benodol ei fab, Samuel, a drigai yn Lerpwl. Ac o'u darllen, gellir ymdeimlo â'u naws ysbrydol ac anogaethol, wrth i'r tad gynghori ei fab i ymwrthod â themtasiynau ac ymbil arno i fyw buchedd dduwiol a diwair: 'Mae yn bosibl bod yn foesol heb fod yn dduwiol, ond ni all neb fod yn wir dduwiol na byddo hefyd yn foesol. Y mae gras yn dysgu pawb a fo yn berchen arno, o ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon' (t.25). Mewn llythyr arall anogir ei fab i 'weddio llawer, ac ymdrechu yn wrol yn erbyn pump o ellyllau gydâ'r gwaethaf yn uffern', sef balchder, anlladrwydd, 'cwmpeini drwg', meddwdod a lladrad (t.26).

gynt, yn iachawdwriaeth y cyfamod gras drwy ffydd, sef y cyfamod rhwng Duw a dyn a weithredir 'trwy i ni feddiannu'r rhinwedd sydd ym marwolaeth Crist'.[280] Yn wir, gellir dadlau mai eu cyd-destun teuluol, personol yn unig sy'n gwahaniaethu'r llythyrau hyn oddi wrth y llythyrau crefyddol a chynghorol mwy cyhoeddus eu hamcan a'u hawyrgylch a geir yn y cofiant.

Ond mae'n wahaniaeth pwysig, serch hynny. Er gwaethaf confensiynau arddulliol a pharchusrwydd y cyfnod, mae'n deg dweud mai llythyrau personol tad at ei ferch yw'r rhain. Ac mae'n amlwg mai felly y gwelai Annie Davies hwy. Sonia wrth Owen Thomas, er enghraifft, mai profiad chwerw-felys iawn oedd gweld 'my own letters from Taid' wedi eu hargraffu yn y cofiant: 'now they appear in print it seems to *hurt* me somehow . . . I feel as if I were betraying the most *sacred* thing I have.'[281] Mae sylwadau o'r fath yn atgyfnerthu honiad Owen Thomas na fyddai Henry Rees wedi disgwyl i'r ohebiaeth hon gael ei chyhoeddi (508). Wrth gwrs, mae cyngor ac anogaeth ysbrydol i'w canfod yn y llythyrau hyn yn ogystal, ond mae'n rhaid ystyried eu bod yn perthyn i gyd-destun sy'n fwy personol a phreifat. Er bod yr ohebiaeth wedi ei gosod o fewn cyfrwng cyhoeddus, felly, a'i bod yn hyrwyddo'r darlun didactig o'r Cristion cyhoeddus, nid yw'n cyfrannu yn uniongyrchol at y portread cofiannol o Henry Rees y pregethwr fel y cyfryw. Er gwaetha'r amwysedd a drafodwyd eisoes ynghylch pwy yn union a ddarllenai'r llythyrau, hyd yn oed

[280] Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.204. Am y cyfamod gras, gw. R. Tudur Jones, 'Athrawiaeth y cyfamodau', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), tt.9-16. Fel y dywed R. Tudur Jones, credai'r Piwritaniaid, megis John Owen a Richard Baxter, mewn '[d]au gyfamod, y naill rhwng y Tad a'r Mab, a'r llall rhwng y Tad a'r etholedigion. Cyfamod iachawdwriaeth oedd y cyntaf, a'r cyfamod gras oedd yr ail' (t.13). Gw. yn ogystal Gibbard, *Elusen i'r Enaid*, t.63, lle dywed: 'Sicrhawyd goruchafiaeth i ddyn Duw oherwydd natur ffydd, y cyfryngau a ordeiniodd Duw i'w gynorthwyo, a'r ffaith i Dduw ei Hun ethol ei bobl i sancteiddrwydd.'

[281] LlGC, Papurau Owen Thomas: llythyrau teulu Treborth, rhif 8, oddi wrth Annie Davies (19 Rhagfyr [1889]). Dyma adlais o'i geiriau yn y nodiad a ddyfynnir yn y cofiant: 'I have only given extracts of these sweet simple letters (to the children), and I give them with some reluctance, as I do many of his letters' (*CHR*, t.882).

lythyrau teuluol,[282] gellir adnabod rhai tueddiadau yn y llythyrau sy'n gosod stamp personol neu gynefin arnynt.[283] Ceir rhai nodweddion arddulliol, er enghraifft, sy'n awgrymu cyd-destun mwy anffurfiol, megis y defnydd o gyfarchiad sangiadol neu ebychiadol ei naws o fewn brawddegau. Mae sangiadau megis 'my dear Annie' (568), 'Annie fach' (607) neu 'my girl' (686-7, 717) yn mynegi anwyldeb y berthynas rhwng yr anfonwr a'r derbynnydd. Anffurfiol, yn ogystal, yw'r llysenw 'Taidi' (neu 'Taidy') a geir yn llythyrau Henry Rees at yr wyrion, ac mewn ambell lythyr at ei ferch (687). Dyma'r llysenw, wrth gwrs, a arferid gan ei ferch yn ei flynyddoedd olaf.[284] Enghraifft arall yw defnydd Henry Rees, ambell waith, o ffurfiau berfol yr ail berson unigol wrth gyfeirio at ei ferch, lle disgwylid yr ail berson lluosog sy'n nodweddiadol o'r cyfnod. Er mai pur anaml y gwna hyn yn y casgliad, digwydd yn rhy fynych i'w ddiystyru fel llithriad yn unig.[285] Daw i'r fei pan fo'r tad yn erfyn ar ei ferch i arfer buchedd dduwiol. Mewn un llythyr, er enghraifft, dywed: 'Treulia ryw ychydig amser bob dydd i ddarllen cyfran o'r Beibl, ac i weddïo, pe na byddai ond hanner awr. Hwyrach na phrofi nemawr o lês oddiwrth hyny ar y dechreu; ond dal at yr arferiad, ac yr wyf fi yn siwr y daw i dalu yn y man' (581).[286] Elfen arall y gellir honni ei bod yn awgrymu cyd-destun mwy anffurfiol fyddai tuedd Henry Rees i gyfnewid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar ganol llythyr, ac weithiau ar ganol brawddeg. A cheir rhai

[282] Y mae cynnwys yr ohebiaeth yn adlewyrchu y byddai disgwyl i'r llythyrau gael eu darllen (yn uchel, o bosibl) ar yr aelwyd i'r teulu cyfan. Er enghraifft, dywed Henry Rees ar ddiwedd un llythyr, 'Read this to my friend in _____ [atalwyd yr enw gan Owen Thomas]' (ibid., t.503). Dro arall, mae'n amlwg o'r cyfarchiad mai at y teulu cyfan y bwriedid y llythyr. Ac mae'n bosibl y darllenid y llythyrau hyn, neu rannau ohonynt, yng ngŵydd morynion y tŷ neu gyfeillion yn ogystal.

[283] Wrth gwrs, nid yw'r tueddiadau hyn oll yn gwbl unigryw i'r llythyrau teuluol hyn. Gwelir rhai ohonynt yn ei lythyrau at gyfeillion. Ond yn sicr, maent yn awgrymu cyd-destun llai ffurfiol.

[284] Gw., er enghraifft, adroddiad Annie Davies am waeledd olaf Henry Rees, *CHR*, tt.893-900.

[285] Rhaid cofio bod y mwyafrif o'r llythyrau yn Saesneg, neu'n rhannol yn Saesneg, a bod aml i lythyr wedi ei gyfeirio at y pâr priod neu'r teulu oll, fel y soniwyd eisoes. Ceir y ffurf unigol a'r lluosog mewn rhai llythyrau.

[286] Gw. yn ogystal *CHR*, tt.504, 587, 607. Ceir amrywiaeth rhwng y naill ffurf ferfol a'r llall mewn rhai llythyrau. Er bod defnydd o'r trydydd person unigol 'cais' i'w weld yn yr enghraifft olaf mae'r cyd-destun yn awgrymu'n gryf mai llithriad sydd yma, ac mai'r ail berson unigol a fwriedid.

nodweddion eraill, megis arfer ieithwedd blentynaidd wrth ohebu â'i wyrion.[287] Weithiau, mae cynnwys yr ohebiaeth yn mynegi anffurfioldeb neu breifatrwydd y llythyrau. Ceir ynddynt rai brawddegau sy'n arddangos teimladau personol na fyddid wedi eu disgwyl mewn llythyrau mwy ffurfiol, megis pan gystwya'i hun fwy nag unwaith yn y casgliad am ysgrifennu er nad oes ganddo ddim i'w ddweud: 'How foolish! Taking the pen in hand, and beginning to write without one word to say . . . I say this because I have nothing to say' (816). Enghraifft bellach fyddai'r elfen o 'gwynfan', chwedl ei gofiannydd, a geir mewn ambell lythyr diweddarach o'i eiddo, lle gall fod yn bur blaen ei dafod. Y mae uniongyrchedd o'r fath yn wahanol i fewnfodaeth ysbrydol yr hunangofiannau ac awyrgylch anogaethol llythyrau mwy cyhoeddus:

> Our new minister [sef David Saunders] is come. It is well he is come . . . I am becoming more and more in love with llonyddwch. One or two short sermons on Sunday, one society every week, and that a small one, with no turmoil about making *blaenoriaid*, and endless subjects of agitation, meetings and meetings every night, till ten o'r eleven o'clock.[288]

Ar un wedd, dyma agwedd anarferol nad oes disgwyl ei ganfod yn y cofiant. Ymateb Owen Thomas i sylwadau o'r fath yw ei bod yn amlwg fod angen gorffwys ar ei wrthrych, gan nad oedd yn nodweddiadol iddo 'rodresu yn y fath deimladau' (720). Ymhellach, ac yn ddigon naturiol, y mae naws rhai o'i lythyrau at ei wyrion, a'r llythyrau at ei ferch sy'n cyfeirio at ei wyrion, yn ysgafnach.[289]

---

[287] Gw., er enghraifft, ibid., tt.689-90, 722, 723-4, 724.
[288] Ibid., t.718. Dyddiad y llythyr yw Gwanwyn 1862.
[289] Gw. yn ogystal y llythyr a ysgrifennodd tra oedd ei ferch a'i gŵr ar wyliau, a'r plant yn aros gyda'u taid a'u nain. Dywed mewn modd digon ffraeth nad oes angen iddynt drafferthu casglu'r plant ar eu dychweliad (661). Ceir enghraifft gan Owen Thomas o ysgafnder neu ddigrifwch Henry Rees mewn llythyr at ei gyfaill William Lloyd (t.657), ond enghraifft brin yw hon fe ymddengys, gan mai tuedd y llythyrau at gyfeillion eglwysig neu gyd-bregethwyr yw eu bod yn fwy difrifol a ffurfiol eu naws.

Un peth sy'n sicr, fodd bynnag, yw bod cynnwys y llythyrau hyn yn hyrwyddo'r cyd-destun ysbrydol, personol a santaidd a welir yng ngweddill y gyfrol. Pwysleisir, er enghraifft, drefn ragluniaethol yr Hollalluog, a ddigwydd fynychaf pan yw Henry Rees yn ymateb i ddigwyddiadau pleserus a phoenus fel ei gilydd.[290] Iddo ef, dysgu oddi wrth law Duw sy'n bwysig, megis pan ysgrifenna i fynegi ei lawenydd fod un o'r wyrion wedi ei hadfer o'i gwaeledd: 'Derbyniwch hi yn ddiolchgar, gan ddymuno dysgu rhyw wers newydd, ac ennill rhyw gymaint o leshâd, trwy yr ymweliad bygythiol hwn' (712). Agwedd arall amlwg a geir yn y llythyrau yw ei gred yn llygredigaeth calon dyn drwy bechod, ynghyd â gras Duw fel cyfrwng achubiaeth drwy i'r Ysbryd Glân '[dd]ylanwadu'n uniongyrchol a digyfrwng ar ewyllys a deall pechadur i'w adgenhedlu a thrwy foddion gras . . . i'w ddwyn i dröedigaeth neu'r enedigaeth newydd'.[291] Sonia yn y llythyr cyntaf un at ei ferch, er enghraifft, am obaith adnewyddol aberth Crist yn y cyfamod i ddioddefaint byd (501). Dro arall, mynega mor llwm y byddai llawenydd dyn yn y Nefoedd oherwydd ei hunanoldeb pe câi ei fesur yn ôl ei ddefnyddioldeb ar y ddaear. 'Oh', meddai, 'what a consolation it is that salvation is by grace . . . I shall turn my unworthiness to some good account by adoring him the more'.[292] Er mwyn ennyn santeiddhad, rhaid wrth y frwydr barhaol o farweiddio pechod yn y galon drwy ochel rhag pob 'foolish craving' (578), ac ymwrthod â magu calon lygredig.[293] Er mwyn gochel hynny rhaid oedd yn ogystal

[290] Er enghraifft, y mae clywed newyddion drwg am un o longau Richard Davies yn brawf fod sofraniaeth Duw a'r ysbryd yn anwadadwy: 'Byddai edrych ar y dygwyddiad fel rhyw arwydd ddrwg yn ddisail, a byddai cau Duw allan o hono, ar y llaw arall, yn Atheistiaeth gormodol . . . He blows in every wind, and moves in every wave . . . Be assured he has done it' (ibid., t.593). Gw., yn ogystal, tt.608-10, 662, 687, 718, 846.
[291] Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.198. Gw. *CHR*, tt.572, 586-7, 660, 760.
[292] Ibid., t.623. Gw. hefyd tt.587, 607, 653, 656, 660, 685, 712, 846, 861.
[293] Fel y dywed mewn un llythyr am demtasiynau, 'to permit them to lodge there, and to indulge them until they melt into the spirit and . . . constitute a solid corrupt frame of mind' (ibid., t.662). Yn wir, â ymlaen i ddweud y gallai arddel pechodau o'r fath, heb eu marweiddio, olygu y deuai arnynt iachâd anorfod gan Dduw ei hun, ac mae'r rhybudd yn hynod o glir a moel: 'It may cost you a child or two.'

arddel duwiolfrydedd mewn buchedd ac enaid. Dyma, 'briod nod y Cristion',[294] a dyma hefyd briod bryder Henry Rees tuag at ei ferch a'i theulu. Sonia am ei 'awydd am eich sancteiddiad a'ch cysur' (568), a cheir mynegiant angerddol ddigon ynglŷn â'r elfen hon yn aml iawn mewn cyd-destun personol neu deuluol, fel tad ac fel taid.[295] O'r herwydd, y mae'r llythyrau yn llawn o gynghorion ynglŷn â chyflawni egwyddor santeiddhad. Wrth gwrs, duwioldeb ysbrydol a moesol ydyw, un sy'n 'fydol' yn yr ystyr Galfinaidd bod duwiolfrydedd yn treiddio i bob agwedd ar fywyd.[296] Er enghraifft, caiff Annie ei rhybuddio rhag balchder o unrhyw fath (501, 662, 716-18), pwysir arni i ochel rhag diogi ac iddi fod 'yn weithgar fel y wenynen' (502), hyd yn oed wrth gyflawni'r dasg fwyaf distadl.[297] Dywed wrthi am beidio chwennych cyfoeth a moethau bydol (507, 577, 666, 669-70, 759-60), ac y dylai 'fyw yn gynnil, islaw yr *income*' (825). Caiff ei siarsio yn ogystal i ddatblygu 'a kind and Christian temper' tuag at bawb, o ba bynnag ddosbarth, 'especially your religious friends' (584), ac i barchu barn eraill, megis ei rhieni a'i gŵr (507, 761). Gwelir mor allweddol yw magu cymeriad pur a duwiol yng nghynghorion yr ohebiaeth hon. Sonia mewn un llythyr cynnar na ddylai 'indulge in dreams and reveries . . . novels and foolish fictions, which feed the minds of silly girls' (511), a cheir anogaeth gyson mewn llythyrau diweddarach ar iddi ddisgyblu a diwyllio ei meddwl yn gyffredinol (502-3, 511, 518, 568, 584). Y mae'n amlwg mai'r nod oedd ymdebygu i Grist:

---

[294] Gibbard, *Elusen i'r Enaid*, t.60.
[295] Gw., er enghraifft, *CHR*, tt.606, 659-61, 861.
[296] Fel yr eglura R. Tudur Jones, 'Os pechod gwreiddiol yw pechod yn treiddio hyd at y gwraidd, nid yw gwaith gras Duw fymryn yn llai trylwyr. Mae'n treiddio trwy holl weithgareddau dyn ac i holl gilfachau ei bersonoliaeth . . . Nid ffoi oddi wrth y byd crëedig yw bod yn Gristion ond derbyn cyfrifoldeb gwefreiddiol am y byd a sicrhau fod gras Duw yn treiddio trwy bob rhan ohono' (R. Tudur Jones, 'Cewri ar eu gliniau: agweddau ar dduwioldeb y Piwritaniaid', yn *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998), tt.47-8).
[297] Fel y dywed: 'the meanest of his duties he does as a servant of Christ, doing the will of God from the heart' (*CHR*, t.622).

> It would be well to study the elements of great character. What are they? Are they pride, vanity, giddiness, obstinacy, baseness, deceit, disobedience . . . Oh! let Annie study His blessed character and rest upon His death for salvation, and make it her aim to be of the same mind, temper and disposition.[298]

Yn wir, yn ei daerineb dros arfer duwioldeb ysbryd, nid yw Henry Rees yn osgoi arddel arddull bur geryddgar tuag at ei ferch o dro i dro, megis pan gaiff ei chystwyo am ddiffyg difrifwch ysbrydol tuag at ei chrefydd.[299] Dro arall, mae'n angerddol iawn ei fynegiant: 'O! ti a fydd yn ffwl, yn wir ffwl, fy ngeneth, os cymmeri dy swyno gan ddim, fel ag i wrthod y Duw hwn i fod yn Dduw i ti, ac os esgeulusi feithrin y wybodaeth hòno o hono ag sydd i'w chael trwy gymdeithas âg ef yn y Beibl, ac mewn gweddïau' (626).[300] Dyma, wrth gwrs, yw'r prif gyfryngau neu foddion sy'n galluogi santeiddhad, a phwysleisia Henry Rees yn aml y dylai Annie eu harfer yn gyson a thrylwyr. Y Beibl, wrth gwrs, yw datguddiad uniongyrchol Duw ei hun,[301] ac mae myfyrio ar ei air mewn gweddi, mewn cymundeb uniongyrchol ag ef, yn hanfodol er mwyn llesáu'r enaid a phuro'r galon.[302] Ymdrech a llafur parhaus yw'r allwedd, felly, ymdrech sy'n berthnasol i bob agwedd ar fywyd, o fyfyrio dros lygredigaethau'r galon i ystyried digwyddiadau a chwrs bywyd,[303] a hynny nid mewn

---

[298] Ibid., tt.510-11. Gw, yn ogystal, tt.518-19, 663.

[299] Dywed na fyddai ei ferch yn gyfarwydd â'r geiriau 'cyfrifoldeb', 'marwolaeth', 'barn' a 'thragwyddoldeb'. Gw. ei eiriau: 'You think they are very familiar to you! Ah! when they come to mix with all your feelings, and dwell in your soul as realities, you will think otherwise.'

[300] Yn bur fuan cyn hynny fe'i holodd a fu iddi goncro 'for some moments, at least, your aversion to secret prayer' (ibid., t.612).

[301] Jones, 'Pregethu Henry Rees', t.204.

[302] Fel y dywed mewn un llythyr: 'I look upon a man, - *megis wedi cael ei gefn ato gydâ byw yn dduwiol*, if he is in love with the Bible. You are there with God, and with him as a friend' (*CHR*, t.571, pwyslais HR neu OT).

[303] Er enghraifft, mewn llythyr a ysgrifennwyd pan oedd Annie a'i gŵr ar fin symud o'u cartref yn Minydon, Porthaethwy, i'r Benarth, ger Conwy, rhydd gyfeiriad at y Piwritaniaid er mwyn pwysleisio y dylid gweddïo ar yr achlysur: 'Sleep well, rise early; it is as it were the end of one world and to-morrow you commence another. I do not think Philip Henry, nor any of the old Puritans would have closed the one, nor opened the other, without some self-examination and prayer' (ibid., t.761).

ystum wag ond yn llawn diffuantrwydd calon a hunanymholi.[304] Ond fel yr awgrymwyd uchod, nid cynghorion yn unig sydd yma. Megis ffurf yr hunangofiant ysbrydol, ceir cryn drafod, a beirniadu, ar ei gyflwr ysbrydol ei hun yn y llythyrau. Nid rhyfedd hyn o gofio bwysiced yw gostyngeiddrwydd a hunanddisgyblaeth i dduwioldeb y Cristion.[305] 'I often feel the want of faith', meddai wrthi un tro (667). Ond golyga adnabyddiaeth o'i gyflwr pechadurus ei hun fod modd i Henry Rees fwrw goleuni ar brofiadau a phechodau ei ferch yn nelw'r 'cynghorwr profiadol', chwedl Robert Rhys.[306] Pan anoga hi i arddel synnwyr a phwyll, dywed: 'My own defects would supply me with plenty of matter for advice' (569). Dro arall, fodd bynnag, ymddengys fod ei gyflwr llygredig ei hun yn ei wneud yn ostyngedig ac yn gyndyn o'i hannog ymron: 'I feel afraid of urging you to cultivate love for the Bible, and to communion with God in prayer, because I am so destitute of them myself' (611). Hyd yn oed wrth gynghori, felly, nid ceryddu diffygion ei ferch yn unig a wna, ond ei rai yntau yn ogystal, ac mae hynny'n cryfhau blas hunangofiannol y llythyrau hyn.[307]

'housekeeper *dda': duwioldeb domestig y ferch*

Un agwedd ddiddorol ar yr elfen anogaethol yn y llythyrau hyn, sydd eto'n tynhau'r berthynas rhwng y Cristion personol ac amcanion cofiannol Owen Thomas, yw'r cynghorion parthed duwiolfrydedd buchedd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â byd y ferch a'r fam. Dyma elfen sydd eto'n amlygu'r amwysedd rhwng cyfryngau personol a chyhoeddus yn y llythyrau hyn, ac sy'n dieithrio'r pregethwr ymhellach. Nodwedd

[304] Fel hyn y mae'n holi ei ferch mewn un llythyr: 'Edrych pa fodd y mae dy galon mewn gweddi; a ydyw y teimladau crefyddol a fyddi yn eu mwynhau, yn cryfhau yr ymroad yn erbyn pob *idea* a phob blys drwg, ac yn dy ystwytho at y dyletswyddau ag sydd yn gofyn yr hunan-ymwadiad mwyaf i'w cyflawni' (ibid., t.587). Pwysleisir mewn man arall, er enghraifft, fod yn rhaid darllen gwaith John Owen 'with self-examination and prayer' (t.656). Gw. yn ogystal, tt.504, 580-1, 582-3, 583, 591-3, 594, 607, 626, 688-9, 709-10, 716-18, 846, 860.
[305] Gibbard, *Elusen i'r Enaid*, tt.60-2.
[306] Rhys, *James Hughes*, t.92.
[307] Gw. ymhellach, er enghraifft, *CHR*, tt.570, 580-1, 595-6, 621-2, 623, 718-21, 721-2.

amlwg o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y sfferau penodol ac amrywiol a berthynai i ddynion a merched.[308] Dadlennwyd gan Jane Aaron, er enghraifft, gysondeb y portread o'r 'fam yn Israel' yn llenyddiaeth y cyfnod, ac i'r darlun o'r wraig a'r fam rinweddol dyfu'n fwyfwy amlwg yn ail hanner y ganrif. Yn wir, datblygodd yn batrwm i'w ddilyn, wrth i Anghydffurfwyr yn arbennig geisio gwrthbrofi honiadau a wnaethpwyd am y Gymraes gan Gomisiynwyr y Llyfrau Gleision yn 1847.[309] Yng nghofiannau'r cyfnod gwelwyd sut y bu i'r pwyslais 'benywaidd' hwn, ynghyd â datblygiadau crefyddol a chymdeithasol, gyflwyno delfryd ddomestig, yn ogystal ag un ysbrydol, i ran y wraig rinweddol.[310] A'r un delfrydu mewn perthynas â'r sffêr fenywaidd a geir yn llythyrau Henry Rees i'w ferch. Yn un o'i lythyrau cynharaf ati, dair blynedd yn unig wedi cyhoeddiad y Llyfrau Gleision gyda llaw, fe'i cawn yn ei hannog i fod yn ddarbodus, a cheir cyd-destun benywaidd pendant i'w eiriau: 'I would rather the one finger of the tailor paved by the marks of the needle, than the eight fingers of the *would-be* lady, which can do nothing but thump the piano . . . she has none of the spirit of Him who came from heaven' (507-8). I Henry Rees, felly, yr un yw diwydrwydd a darbodaeth ddomestig y ferch â'i duwiolfrydedd, a thybed nad oedd ei agwedd yn amlygu ei Galfiniaeth a'i gred yn y duwioldeb 'bydol', hollgynhwysol a drafodwyd uchod. Ceir

---

[308] R. Tudur Jones, *Coroni'r Fam Frenhines* (Llandysul, 1977); idem, 'Daearu'r angylion: sylwadau ar ferched mewn llenyddiaeth, 1860–1900', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XI* (1979), tt.191–226; Kathryn Curtis, Marged Haycock, Elin ap Hywel a Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Gwragedd a grym yn y ganrif ddiwethaf', *Y Traethodydd* (Ionawr 1986), 28–33; Aaron, *Pur fel y Dur*, *passim*; Rosemary Jones, '"Sfferau ar wahân"?: menywod, iaith a pharchusrwydd yng Nghymru'r Oes Victoria', yn *'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg': Y Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801–1911*, gol. Geraint H. Jenkins (Caerdydd, 1999), tt.175–205. Gw. hefyd R. Tudur Jones, 'Darganfod plant bach: sylwadau ar lenyddiaeth plant yn Oes Victoria', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol VIII* (1974), tt.160–204; Hywel Teifi Edwards, 'Comisiynu'r rhieingerdd eisteddfodol, 1855–58', *Llên Cymru*, 18 (1995), 273-300; idem, 'Torri bara menyn cyn trin geiriau', *Taliesin*, 120 (Gaeaf 2003), 14-27. Am hanes y ferch yn Lloegr yn y cyfnod gw. Deborah Gorham, *The Victorian Girl and the Feminine Ideal* (London, 1982); Judith Rowbotham, *Good Girls make Good Wives: Guidance for Girls in Victorian Fiction* (Oxford, 1989), t.12.

[309] Aaron, *Pur fel y Dur*, pennod 4, tt.99-130, am drafodaeth ar y ddelwedd o'r 'fam yn Israel'.

[310] Gw. Llion Pryderi Roberts, 'Rhwydo'r dystiolaeth: cofiannu a chyfannu Fanny Jones, Tal-y-sarn?', *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 31 (2007), yn arbennig 78-86.

sawl cyfeiriad o'r fath yn y llythyrau hyn,[311] ond dichon mai'r llythyr sy'n dadlennu gliriaf y ferch rinweddol yw'r un a ysgrifennwyd ym mis Mai 1855 sydd, yn ôl ei gofiannydd, yn rhoi 'syniad newydd hollol am dano i lawer o'r rhai a'i darllenant' (573). Y mae'r llythyr anarferol hwn wedi ei ysgrifennu dros sawl diwrnod, ac mae'n arwyddocaol ei fod wedi ei osod ar ffurf ymddiddan rhwng y tad a'r ferch – ffurf sy'n gweddu i nodwedd anogaethol a didactig ei gynnwys:

> 'Good morning, my dear A___,' 'Good morning, Father. Yr oeddwn i yn myned i wneyd un o'ch hen gynghorion chwi yn awr, pan ddaethoch i mewn.' 'Ai ïe, beth yw hwnw?' 'Darllen cyfran o'r Beibl, a gweddïo, cyn ymosod at orchwylion cyffredin y dydd. Mae yn gofus genyf eich clywed yn dywedyd, fod tymher grefyddol ar y meddwl yn dymher hynod o'r manteisiol i beri i ddyn ofalu, canfod, cofio, a chyflawni yn ewyllysgar a doeth waith pob dydd yn ei ddydd.'[312]

Â Henry Rees ymlaen i ddyrchafu darbodaeth, diwydrwydd, gofal a chynildeb gydag amrywiaeth o ddyletswyddau'r wraig, yn bennaf yng nghyd-destun gwaith tŷ, megis gwnïo botwm ar gôt ei gŵr a threfnu ar gyfer diwrnod golchi a'r te prynhawn. Nid yn annisgwyl efallai, dyfynna eiriau Llyfr y Diarhebion am y wraig rinweddol (576), wrth i'r Annie ddychmygol nodi fwy nag unwaith ei bod yn 'yn *right ambitious* i fod yn *housekeeper* dda' (575). Er nad oes amheuaeth nad yw'r llythyr hwn, a'r llythyrau eraill, yn gosod y ferch yn bendant o fewn ei sefyllfa ddomestig, mae'n arwyddocaol mai cyd-destun duwiol sydd i'r sefyllfa honno.

Ymhellach, mae'r ohebiaeth hon yn amlygu nid yn unig y sffêr fenywaidd, ond yn nodi ffiniau'r sffêr honno yn ogystal. Pan fo'r teulu yn ystyried symud cartref, er enghraifft, mae hierarchiaeth gymdeithasol ac ysbrydol y cyfnod i'w chlywed yn

[311] Gw., er enghraifft, *CHR*, tt.568-70, 573-7, 577, 606-6, 658-9, 688-9, 716-18, 759-61, 844-5, 845-6.
[312] Ibid., t.573. Yn ogystal â'i ddefnydd mewn gweithiau piwritanaidd, mae'r dull ymddiddanol neu Socrataidd yn deillio yn ôl i weithiau awduron y cyfnod Clasurol. Mae'n ddiddorol bod natur yr ymddiddan yma yn anffurfiol iawn ac wedi ei osod mewn cyd-destun teuluol.

glir yn ei gyngor: 'edryched dear A____ lawer ar farn ei gŵr yn hyn; ac edryched yntau lawer at Dduw; a chyd-weddïwch' (760). Ac os yw ei dyletswydd at ei phriod yn bwysig, y mae ei dyletswydd fel mam yn bwysicach fyth. Unwaith eto, dyma elfen sy'n ychwanegu cyd-destun domestig neu fenywaidd pendant ar dduwiolfrydedd y ferch. Caiff ei siarsio ynghylch pwysigrwydd magu plant sy'n arddel duwioldeb a moesoldeb. Ac fe'i cawn yn ymbilio arni: 'O! teach them [y plant] to practice the great gospel virtues in their own childish sphere' (659). I Henry Rees, cyfrifoldeb aruthrol y fam yw bod yn gyfrwng i sicrhau achubiaeth ei phlant. 'O! their Covenant interest, - this is their Asylum. Try to get them in' (689). Nid rhyfedd, felly, fod cryn bwyslais i'w ganfod ar y cyfrifoldeb hwn wrth i'r plant dyfu. Megis gyda'i sylwadau eraill ar y nodwedd hon, nid llais unigryw ydoedd Henry Rees yn y cyfnod hwn.[313] Nid oes amheuaeth na chaiff elfen o'r fath ei chroesawu gan Owen Thomas, ac ni all osgoi cyfeirio rhai o'r agweddau mwy benywaidd at ferched yn benodol, megis pan fynega ei obaith fod y cynghorion a geir 'yn fendithiol i ba fam bynnag a'u darllenont gydâ dim gofal, ac ystyriaeth, ac awydd i dderbyn llesâd' (658). Serch hynny, y fendith anhraethol i'r darllenydd yn gyffredinol yw ei brif fyrdwn wrth ymdrin â'r llythyrau. Ac mae eu pwyslais didactig, ysbrydol a moesol, yn egluro brwdfrydedd diderfyn Owen Thomas tuag atynt. 'Onid dedwydd, mewn gwirionedd,' meddai mewn un man

> y ferch ieuainc ag yr oedd ganddi y fath gynghorwr? Yn y llythyrau hyn . . . y mae yn anmhosibl peidio canfod y tad serchog a gofalus, y Cristion ffyddlawn a manwl, a'r athraw addfwyn a doeth. (508)

[313] Gw., er enghraifft, sylwadau Lewis Edwards yn ei ragymadrodd i gofiant Mary Ann Edmunds, *Yr Athrawes o Ddifrif*, a gyhoeddwyd yn 1859: 'Yn y teulu y mae dysgu geirwiredd; yn y teulu y mae dysgu gonestrwydd; yn y teulu y mae dysgu diwydrwydd; yn y teulu y mae dysgu glanweithdra; yn y teulu y mae gwreiddio y bobl ieuainc mewn egwyddorion crefyddol' ('Rhagdraeth', yn J. W. Jones a J. Edmunds, *Yr Athrawes o Ddifrif: sef lloffion o hanes bywyd a marwolaeth Mrs Edmunds, Bangor, yn nghyda detholiad o'i hysgrifeniadau* (Caernarfon, 1859), t.x). Gw., yn ogystal, Aaron, *Pur fel y Dur*, tt.120-3.

Y mae'r geiriau uchod yn cyfleu agwedd y cofiannydd at y llythyrau hyn, bid siwr. Ond y mae yn ogystal yn awgrymu'r cyd-destun ysbrydol sy'n portreadu'r gwrthrych yn nhermau 'Cristion ffyddlon', rhagor na'r pregethwr cyhoeddus yn unig.

Fel y gwelwyd o graffu ar gynnwys y llythyrau, ac fel y dangosodd y drafodaeth ar y cyd-destun pregethwrol uchod, yr un hanfodion ysbrydol a geir yn yr ohebiaeth hon ag a geir yn ei bregethau. Er bod modd ystyried y llythyrau hyn fel ymestyniad personol ar ei weinidogaeth, yr hyn sy'n synnu dyn wrth ddarllen yr ohebiaeth yw cyn lleied o'r pregethwr sy'n bresennol. Ceir rhai cyfeiriadau at ei alwedigaeth, megis nodi enwau'r lleoedd y bu'n pregethu ynddynt, ynghyd ag effaith y gwaith arno,[314] ond ychydig iawn o gyfeiriadau penodol at bregethu a geir yma. Mewn ambell lythyr, gosodir pwnc i'w drafod a neilltuir y sylwadau yn bwyntiau pendant, megis pan drafodir yr hyn a ddywedir am blant yn y Beibl (601-2). Dro arall, ceir myfyrion ar bynciau neu rannau penodol o'r Beibl sy'n datblygu yn egin bregethau, gyda'r sylwadau wedi eu rhannu'n bennau swyddogol. Digwydd hyn ddwywaith yn yr ohebiaeth, sef y llythyr lle ceir trafodaeth o'r adnodau sy'n ymdrin â pherthynas cariad â duwioldeb yn epistol gyntaf Paul at y Thesaloniaid (582-3),[315] a'r ymdriniaeth mewn llythyr arall â dameg yr heuwr a ddaeth, yn ôl ei ferch, yn sail i'w bregeth ar y pwnc (721).[316] Mewn un llythyr gesyd bregeth a draddodwyd ganddo yn ddiweddar, a hynny oherwydd i'w ferch ddymuno cael 'a little of an old sermon or

[314] Gw. y gŵyn mewn llythyr, dyddiedig 6 Gorffennaf 1855, ei fod mewn 'agwedd ddwl a thrymaidd' oherwydd bod gwres llethol y capeli yn llesteirio'i feddwl.
[315] Gw., 1 Thesaloniaid, 3:12-13.
[316] Nodir croesgyfeiriad at y bregeth gan y cofiannydd yn union wedi'r dyfyniad o'r llythyr.

something' pan nad oedd ganddo unrhyw newyddion arall (650-4).[317] Caiff y ffaith fod y pregethwr cyhoeddus yn absennol braidd o'r llythyrau hyn ei ddwysáu gan ddiffyg dethol ymddangosiadol Owen Thomas yn cynnwys cymaint o lythyrau personol a theuluol yn ail hanner y cofiant. Canlyniad hyn yw tarfu ar y ffram naratifol gyhoeddus y soniwyd amdani yn gynharach, sy'n golygu nad yw cydbwysedd deongliadol y cofiant cystal ag y gallai fod. Nodwyd eisoes y byddai llythyrau o'r fath yn gweddu i fwriadau didactig Owen Thomas. Yn wir, sonia wrth agor y ddeuddegfed bennod (sef dechrau'r ail gyfrol), mai'r casgliad hwn o lythyrau, wedi 'eu cyfleu mor ddilynol ag y gallwn i'w gilydd o ran amser' (577), fydd craidd gweddill penodau'r cofiant (566). Ac nid celwydd mo'i air. Er parhau â'r naratif cofiannol cronolegol yn y penodau hyn wrth gwrs, ceir tudalennau lawer lle ceir sawl llythyr yn dilyn ei gilydd, wedi eu fframio gan sylwadau byr, pontiol neu eglurhaol y cofiannydd. O'r herwydd, mae'r ohebiaeth yn tra-arglwyddiaethu ar gynnwys ac adeiladwaith yr ail gyfrol. Ond nid gwendid strwythurol mo hyn yn unig, fodd bynnag. Drwy wanhau'r ffram naratifol, gyhoeddus sy'n sail i'r dweud, gwanheir yn ogystal bortread canolog y cofiannydd o'i wrthrych 'fel pregethwr', ynghyd â'i bwyslais gofalus yn hanner cyntaf y cofiant ar y cyd-destun pregethwrol. Er gwaetha'r berthynas greiddiol rhwng y pregethwr a'r sant, mae'r cyd-destun ysbrydol, personol, santaidd mor hollbresennol yn ail hanner y cofiant, nes ei bod yn anodd cysoni'r ddau hanner â'i gilydd, a chyll y cofiannydd yr undod hwnnw o ran adeiladwaith a phortread a oedd yn un o egwyddorion cydnabyddedig y ffurf, ac a fu mor llwyddiannus yn y cofiant cynharach i John Jones.[318] Os nad oedd digon o'r 'dyn' yn y cofiant hwnnw ym marn rhai, dichon fod gormod ohono yn *Cofiant Henry*

[317] Er mai un enghraifft sydd yn y llythyrau hyn, mae'r ffaith i'w ferch ofyn iddo gynnwys pregethau yn ei lythyrau pan nad oedd ganddo ddim ychwaneg i'w ddweud yn awgrymu iddo ddigwydd fwy nag unwaith.
[318] Altick, *Lives and Letters*, t.183.

*Rees*. Canlyniad anochel hynny yw mai'r sant o bregethwr, ac nid y pregethwr o sant, yw portread arhosol y gyfrol.

**4.6. CLO**

Ceir digon o dystiolaeth yn y cofiant, felly, parthed yr hyn yr amcanai Owen Thomas ei gyflawni wrth fynd ati i baratoi cofiant i'w gyfaill anrhydeddus, Henry Rees. Ac mae'n rhaid ei longyfarch ar un wedd am ei ddyfalbarhad wrth lunio clamp o gyfrol ac yntau yng nghanol prysurdeb mawr ac mewn gwth o oedran. Cafodd fyw i weld cyhoeddi'r cofiant cyflawn, a derbyn canmoliaeth gan un ac oll. Eto, mae'n amlwg na fu i'r cofiant yr un clod, ac na fu iddo gael yr un effaith ar lenyddiaeth y cyfnod, ag eiddo *Cofiant John Jones, Talsarn*. Yr oedd hynny'n anochel i raddau, gan mai dilyniant mewn un ystyr oedd y gwaith hwn, o ran thema ac adeiladwaith, i glasur 1874. Fel yr awgrymodd Ceri Wyn Jones yn ddiweddar mewn cyd-destun gwahanol, ar y cyntaf mewn unrhyw gamp y bydd hanes yn gwenu.[319] Y mae'n fwy na phosibl, wrth gwrs, i brysurdeb Owen Thomas a'r ffaith fod ei iechyd a'i gof yn breuo, gael cryn effaith ar ei allu i gwblhau'r cofiant yn ôl ei safonau ei hun, ac ni ddylid ychwaith anghofio dylanwad teulu Treborth, a'u hymyrraeth bosibl, ar wneuthuriad y cofiant gorffenedig. Serch hynny, ceisiwyd canolbwyntio ar y dystiolaeth a geir rhwng cloriau'r gyfrol ei hun wrth geisio tafoli ail gofiant Owen Thomas. Megis y bennod ddiwethaf, nod y bennod hon oedd ystyried dehongliad y cofiannydd o'i

[319] Ceri Wyn Jones, 'Trafod cerddi'r gadair, 2008', *Barddas*, 299/300 (Awst/Medi/Hydref 2008), 52.

wrthrych, gan dalu sylw i'r berthynas rhyngddo ac amcanion a phrosesau cofiannol y portread a gynigiwyd.

Dilyniant, felly, yw'r gyfrol, ac nid beirniadaeth ar y cofiant yw dweud hynny. Dengys, yn wir, gliried oedd amcanion Owen Thomas parthed ei ddehongliad o'i ddau wrthrych – dehongliad a oedd yn amlygu pwysigrwydd anhraethol y budd a ddeuai o ddarllen amdanynt. Yn *Cofiant John Jones, Talsarn*, creodd Owen Thomas archdeip o bregethwr, un y gellid ei edmygu a'i efelychu ym mhob modd, ac nid oes amheuaeth nad dyna fwriad y cofiannydd yn y cofiant i Henry Rees. Y mae'r datganiadau croyw parthed ei gynulleidfa darged a'i amcanion didactig, ynghyd â'i bwyslais cyson a gofalus yn hanner cyntaf y gyfrol ar hynodrwydd, datblygiad ac ymroddiad y pregethwr wrth ei alwedigaeth yn dyst o hynny. Dyma ddiléit Owen Thomas, wrth gwrs, fel y tystiodd ei gofiannydd Iolo Carnarvon amdano pan ddywedodd fod 'pregethu, son am bregethu a phregethwyr, ac ysgrifennu am danynt, pa faint bynnag o lafur a dybiai, yn flasus-fwyd o'r fath a garai'.[320] Unwaith eto, fodd bynnag, mae dadansoddi dehongliad cofiannol Owen Thomas a'i brosesau fel cofiannydd yn bwrw goleuni ar ddiffyg unoliaeth y portread a geir yn y cofiant hwn. Dadleuir i'r cofiannydd gyflwyno cyd-destunau amgen ar y portread o'r gwrthrych, a bod ystyried y berthynas amwys rhwng bywyd mewnol neu ysbrydol a bywyd cyhoeddus y gwrthrych yn rhwym o ddadlennu'r cyd-destunau cysylltiedig hyn. Nid pregethwr yn unig mo Henry Rees yn y cofiant, ond cyfundebwr a sant yn ogystal. Er bod y cyd-destunau hyn ar un wedd ynghlwm wrth ei gilydd, ac yn berthnasol i amcanion cofiannol Owen Thomas, mae'n amlwg i'w presenoldeb yn adeiladwaith y cofiant amwyso'n gynyddol y portread canolog o'r pregethwr yn y gyfrol. Y mae

[320] Roberts, *Cofiant y Parchedig Owen Thomas*, t.530.

manylder ymdriniaeth yr awdur â rhai agweddau ar y cyd-destun cyfundebol ac ysbrydol nad yw'r pregethwr yn ganolog iddynt, yn ogystal â'i ddefnydd o ddeunyddiau hunangofiannol sy'n cyflwyno gwedd fwy personol ar y cyd-destunau, yn gwanhau'r ffrâm gofiannol sy'n allweddol i gynnal y cyd-destun pregethwrol. O'r herwydd, dieithrir y pregethwr o'r naratif, ac ni cheir yn y cofiant hwn, yn sicr yn yr ail hanner, y briodas grefftus rhwng cynnwys ac adeiladwaith sy'n hynodi *Cofiant John Jones, Talsarn*. Mae'n bosibl nad oedd modd cyflawni hynny drwy gyfrwng bywyd gŵr a oedd yn fwy amlochrog ei gyfraniad i'w enwad, ac a oedd yn hynod fel Cristion a sant yn ogystal ag fel pregethwr, na'r 'dyn un peth' o Dalysarn.[321] Ymhellach, y mae'r doreth o ffynonellau hunangofiannol yn golygu y ceir pwyslais amlycach o'r hanner ar ansawdd ysbrydol personol y pregethwr yn y cofiant hwn.

Fodd bynnag, gobeithio i mi ddangos yn ogystal nad gweddau annibynnol ar y pregethwr mo'r cyfundebwr na'r sant yn nehongliad y cofiannydd. Yn wir, yr oeddynt yn rhan bendant o wead y portread cyflawn o'r pregethwr yn cyflawni ei alwedigaeth, ac nid cyd-ddigwyddiad yw bod yr un pwyslais thematig ar ddoniau, datblygiad ac ymroddiad neu ddiwydrwydd i'w ganfod yn ymdriniaeth y cofiannydd â'r cyd-destunau cyfundebol a duwiol hyn. I Owen Thomas, felly, yr un oedd y pregethwr a'r cyfundebwr a'r sant. Gwelwyd mor glir ydoedd presenoldeb y cyd-destun ysbrydol, Cristnogol hwn i ddarllenwyr y cofiant ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond nid oes amheuaeth nad yw'n cyfrannu at ansefydlogi'r portread cofiannol ymysg darllenwyr modern. Fodd bynnag, rhaid gochel rhag credu mai diffygion y cofiannydd yn unig sy'n gyfrifol am bresenoldeb y cyd-destunau cyfatebol hyn yn y cofiant. Y maent, yn sicr, yn cyfrannu at amcanion cofiannol didactig Owen Thomas o gyflwyno

[321] Wrth gwrs, nid yw dweud hyn yn gyfystyr â nodi nad oedd John Jones, Tal-y-sarn yn hynod am ei dduwioldeb, ond y ceir cyd-destun llawer amlycach i'r elfen hon yn *Cofiant Henry Rees*.

esiampl i'w efelychu i bregethwyr ieuainc a darllenwyr yn negawd olaf bryderus y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pregethwyr oedd y rhain na chofiai am Henry Rees nac oes aur y Cyfundeb a'r pregethwr mawr. Er na fu iddo lwyr lwyddo yn ei amcan, felly, nid oes amheuaeth nad dyhead pennaf y cofiannydd oedd i ddarllenwyr *Cofiant Henry Rees* 'ymgydnabyddu i ryw fesur â'i ragoriaethau, a dyfod i gyfarfyddiad âg enghraifft mor nodedig o gysegredigaeth calon a meddwl i'r efengyl' (906).

# Diweddglo

Flwyddyn wedi i Iolo Carnarvon gyhoeddi *Cofiant y Parchedig Owen Thomas, D.D., Liverpool*, yr oedd T. Gwynn Jones yn myfyrio ar y gwaith o gofiannu un arall o eiconau'r Gymru Fictoraidd, Thomas Gee:

> Ceisiais adael iddo adrodd ei hanes ei hun, hyd y gellais. Yr oedd hwnnw, wrth raid, yn hanes Cymru am drigain mlynedd. Oni rydd y gwaith i'r neb a'i darlleno ryw syniad am un o ddynion mwyaf a goreu Cymru, a'r Deyrnas hon, yn ehangder ei fryd a'i feddwl; rhyddid a chadernid ei farn; maint ag egni ei lafur maith; tiriondeb ei ysbryd a gloewder ei ffydd; nid ar gyflawnder ei oes ef y bydd y bai. Traidd ysblander bywyd arwr fil o bethau na ddichon yr hanesydd eu croniclo.[1]

Dyma ddyfyniad arwyddocaol am ei fod yn codi cwr y llen ar y berthynas gymhleth rhwng dyn a chymdeithas, rhwng y lleol a'r cenedlaethol, a rhwng cofiannaeth a hanesyddiaeth, a oedd wedi gwreiddio yn y dychymyg cofiannol Cymreig erbyn troad yr ugeinfed ganrif. Y mae, yn ogystal, yn awgrymu'r cyfeiriad y byddai cofianwyr y ganrif newydd yn ymlwybro tuag ato wrth weld edwino cyfnod y pregethwr fel seren y cofiannau a gwawrio oes y llenor yn y Gymru gofiannol. Hyderir bod yr astudiaeth hon wedi llwyddo i osod, ac ailosod, y seiliau ar gyfer ailgloriannu'r dychymyg cofiannol hwnnw.

Fel y nodwyd eisoes, bu diffyg sylw beirniadol diweddar yn y Gymraeg i ffurf y cofiant, ac i ysgrifennu cofiannol, yn sbardun i fynd ati i edrych o'r newydd ar un o ffurfiau rhyddiaith mwyaf poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn ogystal yn fodd o gyflwyno ffrwyth ymdriniaethau a chysyniadau cyffrous diweddar gan feirniaid rhyngwladol ym maes llên bywyd, neu *life-writing*, at ffurf y cofiant crefyddol Cymraeg. Penderfynwyd

[1] T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych, 1913), t.iii.

mai ffocws yr astudiaeth fyddai'r gydberthynas ganolog a chreadigol rhwng y cofiannydd a'i wrthrych ac a'i ddarllenydd. Hyderaf fod ystyried perthynas ddeongliadol o'r fath yn gyfrwng i ailystyried rhai syniadau sydd wedi dylanwadu ar y maes yng Nghymru, megis bod safon anwastad y cofiannau yn dibynnu ar fawredd y gwrthrych a/neu anallu'r cofiannydd; bod y cofiannydd yn awdur absennol, gwrthrychol a mud nad yw'n dehongli bywyd ei wrthrych yn greadigol a goddrychol; ac mai'r un anallu neu amaturiaeth ar ran y cofiannydd a oedd yn bennaf cyfrifol am ddarluniau statig ac arwynebol fformiwlëig y cofiannau. Dyma gamsyniadau a roes sail i'r gred nad llenyddiaeth oedd y cofiannau hyn, a bod pinaclau'r *genre* – goreuon y ffurf neu gofiannau arwyddocaol y ganrif – yn sefyll ar wahân i'r traddodiad fel y cyfryw. Amcenir y bydd yr astudiaeth hon yn cyfrannu at ddiddordeb newydd yn y cofiant, ac mewn ysgrifennu cofiannol, yma yng Nghymru. O ystyried bod nifer o enillwyr diweddar gwobr Llyfr y Flwyddyn, er enghraifft, yn gysylltiedig â'r *genre* amlochrog ac eang hwn, gwelir mor bwysig yw adleisio galwad Saunders Lewis gynt ar i genhedlaeth newydd ddyfod i lafurio yn y maes.[2]

Ceisiwyd bwrw goleuni ar seiliau deongliadol cofianwyr Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ddangos mai eu prif nod oedd cyflwyno 'darluniau diriaethol o'r cymeriad Ymneilltuol', chwedl R. Tudur Jones,[3] a hynny drwy bortreadu'r pregethwr duwiol a diwyd yn 'mawrhau ei swydd' er mwyn addysgu a chyfoethogi eneidiau eu darllenwyr. Yr oedd hynny'n golygu bod y cofiannydd yn gwneud mwy na chofnodi'n slafaidd y bywyd a

[2] Saunders Lewis, 'Y cofiant Cymraeg', yn *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t.341. Enillwyd Llyfr y Flwyddyn, 2011 gan Ned Thomas am ei hunangofiant, *Bydoedd: Cofiant Cyfnod* (Tal-y-bont, 2010). Mae'n werth nodi bod dwy gyfrol arall ymhlith y rhestr fer hir yn dwyn cysylltiad â'r *genre*, sef cofiant Hywel Gwynfryn, *Hugh Griffith* (Llandysul, 2010) a chyfrol Tony Bianchi, *Cyffesion Geordie oddi Cartref* (Llandysul, 2010). Yn 2006 yr oedd dau gofiant ar y rhestr fer, sef cofiant Robin Chapman i Saunders Lewis, *Un Bywyd o Blith Nifer* (Llandysul, 2006), a chofiant Rhys Evans, *Gwynfor: Rhag pob Brad* (Tal-y-bont, 2005), a aeth rhagddo i ennill y wobr. Enillwyd Llyfr y Flwyddyn 2003 a 2008 gan nofelau sy'n hunangofiannol neu gofiannol eu naws, sef cyfrol Angharad Price, *O! Tyn y Gorchudd: Hunangofiant Rebecca Jones* (Llandysul, 2002) a nofel Gareth Miles, *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst, 2007).

[3] R. Tudur Jones, 'Anghydffurfiaeth', yn *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, gol. J. Dyfnallt Morgan (Llandybïe, 1968), t.123.

fu, ond yn hytrach yn ymdrin yn greadigol â'i wrthrych, ac yn cymryd penderfyniadau cofiannol a golygyddol ynglŷn â'r portread a gyflwynid. Yn wir, megis ffurfiau llenyddol eraill yn y ganrif ansad hon, dichon mai anodd, bellach, yw synio am y cofiant Cymraeg fel traddodiad unffurf, solet a digyfnewid. Yn hytrach, amcanwyd at drafod y cofiannau fel corff o lenyddiaeth sy'n fwy amrywiol a chymhleth nag a dybir yn gyffredin, ac a ddatblygodd ar sawl lefel yn ystod y ganrif. Gwnaethpwyd hynny drwy bwysleisio cymhlethdod tarddiadau'r ffurf a'r gydberthynas rhwng gwahanol *genres* llenyddol. Ceisiwyd hefyd ddehongli'r cofiant Cymraeg yng nghyd-destun rhai cysyniadau diweddar ym maes theori hunan/gofiannaeth, megis ystyried o'r newydd y bont rhwng gwrthrychedd a goddrychedd yn nehongliad yr awdur a'r cysylltiad hanfodol ac organaidd sy'n bodoli rhwng yr hunangofiannol a'r cofiannol, rhwng y bywyd mewnol ac allanol, a rhwng cyfryngau preifat a chyhoeddus. Dewiswyd canolbwyntio ar gofiannau Owen Thomas, Lerpwl i'r pregethwyr nerthol a dylanwadol John Jones, Tal-y-sarn a Henry Rees, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, er mwyn cyfrannu ffocws newydd at y drafodaeth ddigon prin a fu eisoes ar gofiant gorau'r ganrif ym marn sawl beirniad, sef *Cofiant John Jones, Talsarn*, ynghyd â chynnig yr ymdriniaeth feirniadol, fanwl gyntaf â *Cofiant Henry Rees*. Ceisiwyd trafod y cofiannau hynod hyn o safbwynt dehongliad y cofiannydd o'i wrthrychau, a'u gosod yng nghyd-destun eu cysylltiad â'r corff o gofiannau a luniwyd i bregethwyr y bedwaredd ganrif at bymtheg. Dadleuwyd mai'r un weledigaeth gofiannol sy'n ganolog i'r ddau gofiant hyn, ond bod dadansoddi ymdriniaeth Owen Thomas â'i brosesau, a'i ddehongliad cofiannol, yn hanfodol er mwyn deall pam y deil un i gael ei ystyried yn glasur tra bu i'r llall golli statws gyda threigl y blynyddoedd.

Yn ail, mae i gofiannau Owen Thomas arwyddocâd pellach, gan eu bod yn greiddiol i ddeall y prif ddatblygiadau a fu yn ffurf y cofiant yn ystod y ganrif. Ac fel y nodwyd uchod,

amcanwyd at dynnu ar ddadleuon a chysyniadau beirniadol o Gymru a'r tu hwnt er mwyn cynnig dadansoddiad o'i seiliau deongliadol fel cofiannydd. Yn sgil diffyg trafodaeth feirniadol ac ymwybodol ar 'gofiannaeth' gan Owen Thomas ac eraill yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, bwriad astudiaeth o'r fath oedd ailasesu ei rôl gofiannol ac awdurol, gan roi pwyslais ar amlygu creadigrwydd Owen Thomas fel cofiannydd a oedd yn meddwl yn ymwybodol am y dehongliad o'i wrthrychau, ac yn ymateb i amcanion pendant a oedd wedi'u gwreiddio yn ideoleg gofiannol y cyfnod ac yng ngofynion cynulleidfa darged. O'r herwydd, mae dadansoddi hunangofiant deallusol Owen Thomas fel cofiannydd, neu ei brosesau deongliadol a chreadigol yn ei gofiannau, yn fodd o gyflwyno goleuni pellach ar y dehongliad penodol a gynigiwyd o'r naill wrthrych a'r llall, sef iddo geisio eu portreadu yn cyflawni eu galwedigaeth 'fel pregethwyr' duwiol, llafurfawr ac ymroddedig. Yr oedd hyn yn clymu'r cofiannau anghyffredin hyn nid yn unig wrth y cysyniad poblogaidd a welwyd yng nghofiannau Lloegr, Ffrainc ac America yn y cyfnod o gynnig naratif cenedlaethol drwy gofiannu bywydau gwŷr neilltuol a chyhoeddus, ond hefyd wrth seiliau llenyddol, didactig ac ideoleg Anghydffurfiol y cofianwyr Cymraeg. Yr hyn a wnaeth Owen Thomas, felly, oedd adeiladu mewn modd arwyddocaol ac ysblennydd ar waith y cofianwyr hyn, a thrwy weu'r traddodiad Cymraeg a Seisnig/rhyngwladol gyda'i gilydd rhoes sylfaen gadarn i'r cyd-destun cymdeithasol a chenedlaethol a ganmolwyd gan Saunders Lewis, ac sydd bellach yn safon ddisgwyliedig i lenyddiaeth gofiannol mewn unrhyw iaith. Fel y dywed Hermione Lee:

> Any life that is acted out through a profession, whether that of a judge or gardener, a conductor or a cook, requires the biographer to grasp the network of forces and the social assumptions which surround that profession at that time and in that place, to look at how attitudes to the subject, and their profession, may have shifted through time, and to work out the relationship between public performance and identity.[4]

[4] Hermione Lee, *Biography: A Very Short Introduction* (Oxford, 2009), t.105.

Nid oes ddwywaith nad Owen Thomas a sylweddolodd gliriaf beth oedd potensial ffurf y cofiant Cymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac iddo yn ei gofiannau fraenaru'r tir i gofianwyr degawdau olaf y ganrif a chynnig, i gryn raddau, weledigaeth gofiannol ar gyfer llenorion yr ugeinfed ganrif. Mae maint ei gyfraniad i greadigrwydd a datblygiad y cofiant Cymraeg, a'i ddylanwad ar y ffurf, i'w ganfod yn yr ymdrech amlwg a welir rhwng cloriau'r ddau gofiant i gyflwyno priodas gain rhwng strwythur bywgraffiadol a phortread eglur a thrylwyr o'r pregethwr cyflawn, fel ag y gallai pregethwyr eraill y cyfnod a'u cynulleidfaoedd 'gyfranogi i ryw raddau' o'u bucheddau a'u hesiampl.[5] Yn hynny o beth, dylid cofio mai pwysicach i Owen Thomas oedd iddo sicrhau bod coffadwriaeth ei wrthrychau yn gyfiawn, yn gofiadwy ac yn arhosol. Dyna oedd ei briod ddiben, ac nid yw pwysleisio'r diben hwnnw yn ddibwys o safbwynt arwyddocâd ei gofiannau i ninnau heddiw, ychwaith. Os yw *Cofiant John Jones, Talsarn* bellach yn deyrnged arbennig i oes yr hoelion wyth, y mae *Cofiant Henry Rees* yn gyfraniad diamheuol i'n dealltwriaeth o fywyd ysbrydol cyhoeddus a phersonol y pregethwr Methodistaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, pan ddatganodd Cymanfa Gyffredinol Lerpwl ym mis Mai 1890 groeso diamwys i'r cofiant hwnnw, tybed nad y gobaith a fynegwyd gan y Gymanfa am arfer 'rhyw foddion . . . i'w roddi yn nwylaw pob pregethwr yn ein plith'[6] a roes fwyaf o bleser i Owen Thomas, gan mai amcan pennaf y naill gofiant a'r llall oedd moli Duw ac addysgu dyn drwy gyflwyno hyd eithaf ei allu bortread parhaol o'r 'gweinidog da i Iesu Grist'.

[5] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (Wrexham: 1890), t.906. Gw. hefyd t.966.
[6] Ibid; cyfrol II, t.iv.

# Llyfryddiaeth

## LLAWYSGRIFAU

LlGC, Casgliad Owen Thomas, llythyrau at Owen Thomas, rhif 95 [Thomas Lloyd Jones], 4 Mai 1868.

LlGC, Casgliad Saunders Lewis. Llythyrau at Owen Thomas gan David Jones, Treborth (8 llythyr).

LlGC, CMA, Coleg y Bala 1, Llsg. 256, 'Atgofion am y Parch Henry Rees, by the Revd William Rees – Gwilym Hiraethog'.

LlGC, CMA 2, llsgau 14509-83, 'Letters from Henry Rees to his daughter, Anne, 1858-64'.

LlGC, Llsg. 12788C, llythyr rhif 29, George M. Ll. Davies at D. E. Jenkins.

LlGC, Llsg. 12788C (Papurau D. E. Jenkins) Llythyrau John Jones, Tal-y-sarn.

LlGC, Llsg. 15762, llythyrau J. Glyn Davies (4), llythyr at R. T. Jenkins, dyddiedig 7 Tachwedd 1942.

LlGC, Papurau J. Glyn Davies, Casgliad Tanycastell. Llythyrau John Jones, Tal-y-sarn.

LlGC, Papurau Owen Thomas, Llsg. 5930. Llythyr gan Owen Thomas at Evan Davies, 31 Ionawr 1889.

LlGC, Papurau Owen Thomas: Llythyrau Annie a Richard Davies, Treborth at Owen Thomas (23 llythyr).

## FFYNONELLAU

(1953), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion).

AARON, Jane (1998), *Pur fel y Dur: Y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

AARON, John (2002), 'Introduction', yn THOMAS, Owen, *The Atonement Controversy in Welsh Theological Literature and Debate, 1707-1841*, cyf. AARON, John (Edinburgh: The Banner of Truth Trust), tt.ix-xl.

ALLEINE, Theodosia (1677), *The Life and Death of that Excellent Minister of Christ, Mr. Joseph Alleine, late teacher of the church of Taunton in Somerset-shire, assistant to Mr Newton* (London: Nevil Simmons & Thomas Sawbridge).

ALTICK, Richard D. (1965), *Lives and Letters: a history of literary biography in England and America* (New York: Knopf).

AMIGONI, David (1993), 'Introduction: historicising academic disciplines', yn idem, *Victorian Biography: Intellectuals and the Ordering of Discourse* (New York & London: Harvester, Wheatsheaf), tt.1-17.

——— (1993), *Victorian Biography: Intellectuals and the Ordering of Discourse* (New York & London: Harvester, Wheatsheaf).

——— (2006), 'Introduction: Victorian life writing: genres, print, constituencies', yn idem (gol.), *Life Writing and Victorian Culture* (Aldershot: Ashgate), tt.1-19.

——— (gol.) (2006), *Life Writing and Victorian Culture* (Aldershot: Ashgate).

ANDERSON, Linda (2001), *Autobiography* (London & New York: Routledge).

ARAGO, F. (1857), *Biographies of Distinguished Scientific Men* (cyf. SMYTH, W. H., BADEN POWELL, Rev., GRANT, Robert) (London: Longmans & Roberts).

BAGSHAW, Edward (1671), *The Life and death of Mr. Vavasor Powell, that faithful minister and confessor of Jesus Christ: wherein his eminent conversion, laborious, successful ministry, excellent conversation, confession of faith, worthy sayings, choice experiences, various sufferings, and other remarkable passages, in his life, and at his death, are faithfully recorded for publick benefit: with some elegies and epitaphs by his friends* (London: d.c.).

——— (1772), *Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr. Fafasor Powell, y gweinidog a'r milwr dewrwych [hwnn] o eiddo Iesu Grist*, cyf. RISIART, D. (Caerfyrddin: I. Ross).

BARTHES, Roland (1989) [1968], 'The death of the author', yn RICE, Philip a WAUGH, Patricia (goln), *Modern Literary Theory: A Reader* (London: Edward Arnold).

BARTON, David a HALL, Nigel (2000), 'Introduction', yn idem (goln), *Letter Writing as a Social Practice* (Amsterdam & Philadelphia: John Benjamins), tt.1-14.

BASSETT, Thomas (1946), *Braslun o Hanes Hughes a'i Fab, Cyhoeddwyr Wrecsam* (Croesoswallt: Cymdeithas Lyfryddol Cymru).

BAYLY, Lewis (1629), *Yr Ymarfer o Dduwioldeb: yn cyfarwyddo dyn i ryngu bodd Duw, yr hwn lyfr â osodwyd allan yn Saeson-aec o waith y gwir barchedig dâd Lewis Esgob Bangor*, cyf. VAUGHAN, Rowland (London: Felix Kyngston).

——— (1640) [1611], *Practice of Piety: directing a Christian how to walke that he may please God* (London: J[ohn] L[egat] & G[eorge] M[illar]).

BAZERMAN, Charles (2000), 'Letters and the social grounding of differentiated genres', yn BARTON, David a HALL, Nigel (goln), *Letter Writing as a Social Practice* (Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins), tt.15-30.

BEARD, Thomas (1711), *The Holy Seed; or, The Life of Mr Thos Beard, wrote by himself; with some account of his death, September 15, 1710, soon after he had completed the 17th year of his age; with his funeral sermon, by Jos. Porter; with a preface by Mr Math. Henry* (2nd edn; London: N. Cliff & D. Jackson).

BEBBINGTON, David W. (1989), *Evangelicalism in Modern Britain: A History from the 1730s to the 1980s* (London: Unwin Hyman).

BENNET, Richard (1922), 'Derbyniad John Jones, Talsarn, i'r Gymdeithasfa', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 7, 57-62.

BENTON, M. (2005), 'Literary biomythography', *Auto/Biography*, 13, 206-26.

BERTAUX, Daniel (1981), 'Introduction', yn idem (gol.), *Biography and Society: The Life History Approach in the Social Sciences* (London: Sage), tt.1-15.

BIANCHI, Tony (2010), *Cyffesion Geordie oddi Cartref* (Llandysul: Gomer).

BOOTH, Alison (1991), 'Biographical criticism and the "Great" woman of letters', yn EPSTEIN, William H. (gol.), *Contesting the Subject: Essays in the Postmodern Theory and Practice of Biography and Biographical Criticism* (Indiana: Purdue University Press), tt.85-108.

BOSTRIDGE, Mark (gol.) (2004), *Lives for Sale: Biographers' Tales* (London & New York: Continuum).

BOSWELL, James (1998) [1791], *Life of Johnson*, gol. CHAPMAN, R. W. (Oxford: Oxford University Press).

BOYCE, Benjamin (1947), *The Theophrastan Character in England to 1642* (London: Cass).

BRADLEY, Ian (1976), *The Call to Seriousness: The Evangelical Impact on the Victorians* (London: Cape).

BRIGGS, John a SELLERS, Ian (goln) (1973), *Victorian Nonconformity* (London: Edward Arnold).

BROUGHTON, Trev Lynn (1999), *Men of Letters, Writing Lives: Masculinity and Literary Auto/Biography in the Late Victorian Period* (London & New York: Routledge).

BUNYAN, John (1731), *Bywyd a Marwolaeth yr Annuwiol dan enw Mr Drygddyn, wedi ei Annerch i'r Byd mewn ymddiddan cyfeillgar Rhwng Mr Doethineb a Mr Ystyriol*, cyf. LEWIS, T. (Caerfyrddin: N. Thomas ac I. Williams).

——— (1737), *Helaethrwydd o Ras i'r Gwaelaf o Bechaduriaid, mewn hanes gywyr a ffyddlon o fywyd a marwolaeth John Bunyan: neu ddadguddiad rhagorol, a rhyfeddol drugaredd Duw yng Nghrist iddo ef*, cyf. EINNON, John (Caerfyrddin: [Nicholas Thomas]).

——— (1763), *Helaethrwydd o Ras i'r Pennaf o Bechaduriaid, mewn ffyddlon hanes o fywyd a marwolaeth y Parch. John Bunyan neu, Ymadroddiad byr o ragorol drugaredd Duw tu ag atto ef yn Nghrist*, cyf. THOMAS, Rhys (Caerfyrddin: Jonathan Harris; arg. 1830).

——— (1767), *Helaethrwydd o Ras i'r Gwaelaf o Bechaduriaid, sef cywyr hanes o fywyd a marwolaeth Ioan Bunyan: neu Fyrr ddatcuddiad o ragorol drugaredd Duw iddo êf*, cyf. THOMAS, Evan (Caerlleon: Ioan Harfie).

——— (1960) [1678], *The Pilgrim's Progress, from this World to That which is to Come*, gol. WHAREY, James Barton a SHARROCK, Roger (2nd edn; Oxford: Clarendon Press).

——— (1962) [1666], *Grace Abounding to the Chief of Sinners*, gol. SHARROCK, Roger (Oxford: Clarendon Press).

——— (1988) [1680], *The Life and Death of Mr Badman: Presented to the World in a Familiar Dialogue Between Mr Wiseman, and Mr Attentive*, gol. FORREST, James F. & SHARROCK, Roger (Oxford: Clarendon Press).

CARLYLE, Thomas (1832), '[Review of] Croker's edition of Boswell's *Life of Johnson*', *Fraser's Magazine* (Ebrill), 253-9. Adargraffwyd yn CLIFFORD, J. L. (gol.) (1962), *Biography as an Art: Selected Criticism* (London: Oxford University Press), tt.78-84.

——— (1838), '[Review of] Lockhart's *Life of Scott*', *The London and Westminster Review* (Ionawr), 299-301. Adargraffwyd yn CLIFFORD, J. L. (gol.) (1962), *Biography as an Art: Selected Criticism* (London: Oxford University Press), tt.84-6.

——— (1865), *History of Friedrich II of Prussia* (London: Chapman & Hall).

——— (1888), *Critical and Miscellaneous Essays* iv (London: Chapman & Hall).

——— (1966) [1841], *On Heroes, Hero-Worship and the Heroic in History*, gol. NIEMEYER, Carl (Lincoln & London: University of Nebraska Press).

CHAPMAN, Robin (1994), 'Cyffes cofiannydd', *Llais Llyfrau* (Hydref), 6-7.

——— (2006), 'Rhyw fath o fywyd: cofiannau Cymraeg cyfoes', *Y Traethodydd* [rhifyn arbennig ar gofiannau] (Ebrill), 69-77.

——— (2006), *Un Bywyd o Blith Nifer: Cofiant Saunders Lewis* (Llandysul: Gomer).

CHARLES, Thomas (1807), *Hyfforddwr yn Egwyddorion y Grefydd Gristnogol* (Bala: Robert Saunderson).

——— (1864) [1805, 1808, 1810, 1811], *Geiriadur Ysgrythyrol, yn cynnwys Hanesiaeth, Duwinyddiaeth, Athroniaeth, a Beirniadaeth Ysgrythyrol* (6ed arg., Bala: R. Saunderson).

CHARLES, Thomas a JONES, Thomas (1799-1801), *Trysorfa Ysbrydol: yn cynnwys amrywiaeth o bethau ar amcan crefyddol, yn athrawiaethol, yn annogaethol, yn hanesiol, &c. ynghyd ag farddoniaeth* (Caerlleon: W. C. Jones).

CHARNELL-WHITE, Cathryn A. (2000), 'Y pedwar peth diwethaf – marwolaeth, nefoedd, uffern a'r farn – yn llenyddiaeth Gymraeg y ddeunawfed ganrif' (Traethawd Ph.D., Cymru (Aberystwyth)).

——— (2003), 'Galaru a gwaddoli ym marwnadau Williams Pantycelyn', *Llên Cymru*, 26, 40–62.

CLEAVER, William (1809), *Catecism Eglwys Loegr: a gafodd ei gymmeradwyo gan gymanfa a phrif eglwyswyr ar ei diwygiad oddiwrth babyddiaeth yn y flwyddyn 1562, a gyhoeddwyd yn 1570 ac amryw weithiau ar ol hyny, ac a orchmynwyd ei ddysgu yn ysgolion y deyrnas*, cyf. JONES, Thomas (Dinbych: Thomas Gee).

CLIFFORD, J. L. (gol.) (1962), *Biography as an Art: Selected Criticism, 1560-1960* (London: Oxford University Press).

COCKSHUT, A. O. J. (1974), *Truth to Life: The Art of Biography in the Nineteenth Century* (London: Collins).

COKE, Thomas a MOORE, Henry (1792), *The Life of the Rev. John Wesley* (London: J. Smith).

COLLINSON, Patrick (1983), *Godly People: Essays on English Protestantism and Puritanism* (London: Hambledon).

CROSS, Máire a BLAND, Caroline (2004), 'Gender politics: breathing new life into old letters', yn idem (goln), *Gender and Politics in the Age of Letter-Writing, 1750-2000* (Aldershot: Ashgate), tt.3-14.

CURTIS, Kathryn, HAYCOCK, Marged, AP HYWEL, Elin a LLOYD-MORGAN, Ceridwen (1986), 'Gwragedd a grym yn y ganrif ddiwethaf', *Y Traethodydd* (Ionawr), 28–33.

d. e. (1698), *The Life of Thomas Firmin* (London: A. Baldwin).

d.e. (1724), *The Life, Character and Death of Judas Iscariot* (3edn; London: d.c.).

d.e. (1824), *Hanes Bywyd a Marwolaeth Judas Iscariot*, cyf. WILLIAMS, Edward (Trefriw: J. Jones).

d. e. (1840), 'Bywyd y Parch. Ebenezer Richard [adolygiad]' *Y Drysorfa*, 113-15.

d. e. (1849), '*Hanes Bywyd y Parch. John Evans, Llwynffortun* [adolygiad]', *Y Drysorfa*, 145-6.

d. e. [THOMAS, Owen] (1856), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 381-8.

d.e. (1857), 'Cymdeithasfa Caernarfon', *Y Drysorfa* (Hydref), 344-8.

d. e. [THOMAS, Owen] (1857), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 378-84.

d. e. (1857), 'Y diweddar Barch. J. Jones, Tal y sarn', *Baner ac Amserau Cymru*, 26 Awst, 307-8.

d. e. [THOMAS, Owen] (1858), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 253-60.

d. e. [THOMAS, Owen] (1858), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 501-8.

d.e. (1859), *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Rhagfyr, 181.

d.e. (1860), 'Adroddiad o Gymdeithasfa Caernarfon, 12 Medi 1860', *Baner ac Amserau Cymru*, 19 Medi, 810.

d. e. [THOMAS, Owen] (1860), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 379-88.

d. e. [THOMAS, Owen] (1860), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 499-504.

d. e. [THOMAS, Owen] (1862), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 125-32.

d.e. (1863), *Baner ac Amserau Cymru*, 4 Tachwedd, 702.

d. e. [THOMAS, Owen] (1864), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 123-32.

d. e. [THOMAS, Owen] (1864), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 367-84.

d.e. (1865), *Baner ac Amserau Cymru*, 25 Ionawr, 59.

d.e. ([1866]), 'John Jones', yn PARRY, John (gol.), *Y Gwyddoniadur Cymreig: Cyfrol VI* (Dinbych: Thomas Gee), tt.381-90.

d.e. (1867), 'Pregethwyr Cymru – y Parch. Henry Rees, Liverpool', *Trysorfa y Plant*, vi, 9-14.

d.e. (1869), 'Aelodau Seneddol Cymru – Richard Davies, Benarth', *Trysorfa y Plant*, viii, 113-15.

d.e. (1869), 'Claddedigaeth y Parch. Henry Rees, Liverpool', *Baner ac Amserau Cymru*, 3 Mawrth, 6-7.

d.e. (1869), 'Cymdeithasfa Beaumaris', *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Ebrill, 7.

d.e. (1869), 'Marwolaeth y Parch. Henry Rees', *Trysorfa y Plant*, viii, 89, 144-6, 278.

d.e. (1870), *Y Tyst Cymreig*, 14 Ionawr, 3.

d.e. [EDWARDS, Lewis] (1871), 'Nodiadau llenyddol [adolygiad ar *Cofiant John Jones, Talsarn*]', *Y Traethodydd*, 385-8.

d.e. (1871), 'Y Parchedig O. Thomas ar "Hen Bregethwyr Cymru"', *Y Goleuad*, 18 Chwefror, 12.

d.e. (1874), '*Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn* [adolygiad]', *Y Drysorfa* (Medi), 337-8.

d.e. (1874), '*Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn* [hysbyseb]', *Y Goleuad*, 20 Mehefin, 16.

d.e. (1880), *Y Genedl Gymreig*, 16 Rhagfyr, 7.

d.e. (1880), *Y Goleuad*, 18 Rhagfyr, 8.

d. e. (1882), 'Cofiantau', *Y Goleuad*, 8 Ebrill, 10.

d.e. (1886), *Y Goleuad*, 23 Hydref, 4.

d.e. (1887), *Y Goleuad*, 19 Chwefror, 12.

d.e. (1887), *Y Goleuad*, 24 Rhagfyr, 8.

d.e. (1888), *Y Genedl Gymreig*, 20 Mehefin, 17.

d.e. (1889), 'Hanes bywyd y diweddar Barchedig Henry Rees . . . Rhan I [adolygiad]', *Y Drysorfa* (Awst), 300-1.

d.e. (1890), '*Cofiant y Parchedig Henry Rees* [adolygiad]', *Y Goleuad*, 6 Chwefror, 10.

d.e. (1890), '*Cofiant y Parchedig Henry Rees* [adolygiad]', *Y Goleuad*, 24 Gorffennaf, 10.

d.e. (1890), *Hanes Bywyd Henry M. Stanley: yn cynnwys trem ar ei yrfa anturiaethus a'i archwiliadau llwyddiannus yn nghyfandir tywyll Affrica, at wasanaeth ei gydwladwyr* (Dinbych: T. Gee a'i fab).

d.e. (1890), 'Nodiadau llenyddol [adolygiad ar *Cofiant Henry Rees*]', *Y Traethodydd*, 167-70.

d.e. (1890), 'Nodion Cymreig', *Y Goleuad*, 2 Ionawr, 4.

d.e. (1890), '1890', *Y Goleuad*, 25 Rhagfyr, 8.

d.e. (1891), 'Newyddion Cymreig', *Baner ac Amserau Cymru*, 24 Ionawr, 5.

D'AVARY, D. L. (1994), *Death and the Prince: Memorial Preaching before 1350* (Oxford: Clarendon Press).

DAVIES, Annie Mary (1904), *Life and Letters of Henry Rees* (Bangor: Jarvis & Foster).

DAVIES, Daniel (1826), *Hanes Bywyd y Parch. Ioan Griffiths, o Landwr, ynghyd ag eiddo y Parch. W. Griffiths, o'r un lle* (Caerfyrddin: J. Evans).

DAVIES, E. O. (1923), *Ein Cyffes Ffydd, 1823-1923* (Caerdydd: William Lewis).

DAVIES, Evan (1895), 'Y Parch. Owen Thomas, D.D.', *Ceninen Gwyl Dewi*, 13-20.

DAVIES, Gwyn (2002), *Golau Gwlad: Cristnogaeth yng Nghymru 200-2000* (Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Bryntirion).

DAVIES, J. Cadvan (1907), 'Hiraethog', *Y Geninen*, xxv, 263-6.

DAVIES, J. Glyn (1957), 'Cambria, Wisconsin, in 1898', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, tt.128-59.

DAVIES, John (1990), *Hanes Cymru* (arg. 1992; Llundain: Allen Lane, Penguin Press).

DAVIES, Morris (1865), *Cofiant Ann Griffiths, gynt o Dolwar Fechan, Llanfihangel yn Ngwynfa, Swydd Drefaldwyn: ynghyd a'i Llythyrau a'i Hymnau, gyda nodiadau* (arg. 1908; Dinbych: Gee a'i fab).

DAVIES, Owen (1880), *Cofiant John Prichard, Llangollen, mewn cysylltiad a rhai agweddau o hanes Bedyddwyr Cymru yn gyffredinol* (Caernarfon: Swyddfa 'Y Genedl').

DAVIES, Samuel (1835), *Hanes bywyd crefyddol a marwolaeth ddedwydd, Edward Prichard, pregethwr cynnorthwyol, y'mhlith y Methodistiaid Wesleyaidd* (Caernarfon: L. E. Jones).

DAVIES, Samuel (1887), *Cofiant y Parch. Thomas Aubrey* (Bangor: Y Llyfrfa Wesleyaidd).

DAVIES, T. R. (1860), *Cofiant y diweddar Barch. Thomas Rees Davies, Glanwydden, a ddechreuwyd ganddo ef ei hun, ac a orphenwyd (trwy ddeisyfiad) gan H. W. Hughes; gyda rhagdraith ystadegawl, yn cynnwys adolwg ar y triugain*

*mlynedd diwethaf yn nghysylltiad enwad y Bedyddwyr yn Nghymru* (Caerfyrddin: W. M. Evans).

DENT, Arthur (1630), *Llwybr Hyffordd ynn Cyfarwyddo yr Anghyfarwydd i'r Nefoedd*, cyf. LLWYD, Robert (Llundain: Nicholas Okes).

——— (1997) [1601], *The Plaine Mans Pathway to Heauen, wherein every man may clearely see whether hee shall be saued or damned* (d.ll.: Soli Deo Gloria Publications).

DENZIN, Norman K. (1989), *Interpretive Biography* (Newbury Park & London: Sage).

EDWARDS, Hywel Teifi (1995), 'Comisiynu'r rhieingerdd eisteddfodol, 1855–58', *Llên Cymru*, 18, 273–300.

——— (2003), 'Torri bara menyn cyn trin geiriau', *Taliesin*, 120 (Gaeaf), 14–27.

EDWARDS, Lewis (1859), 'Rhagdraeth', yn JONES, J. W. ac EDMUNDS, J., *Yr Athrawes o Ddifrif: sef lloffion o hanes bywyd a marwolaeth Mrs Edmunds, Bangor, yn nghyda detholiad o'i hysgrifeniadau* (Caernarfon: G. Parry), tt.vii-xvi.

——— (1860), *Athrawiaeth yr Iawn* (Dinbych: Thomas Gee).

——— (1889), 'Pregeth angladdol i'r diweddar Barch. Henry Rees' (ysgrifennwyd gan O. T. Williams, Rhyl), *Y Drysorfa* (Hydref), 361-7.

EDWARDS, Roger (1864), *Buchdraeth y diweddar Barchedig John Hughes, Liverpool, awdwr 'Methodistiaeth Cymru' &c: ynghyda detholion o'i bregethau* (Gwrecsam: R. Hughes a'i fab).

——— (gol.) (1872), *Pregethau, gan Henry Rees, Liverpool: y gyfrol gyntaf* (Treffynnon: P. M. Evans).

——— (gol.) (1875), *Pregethau, gan Henry Rees, Liverpool: yr ail gyfrol* (Treffynnon: P. M. Evans).

——— (gol.) (1881), *Pregethau, cynghorion gweinidogaethol ac anerchiadau, gan y diweddar Barchedig Henry Rees, Liverpool: y drydedd gyfrol* (Treffynnon: P. M. Evans & son).

ELIAS, John (1834), *Cofiant o fywyd a marwolaeth y diweddar Mr Robert Jones, Dinas, gynt o Roslan, Sir Gaernarfon, pregethwr yr efengyl yn mhlith y Trefnyddion Calfinaidd, yr hwn a fu farw Ebrill 18, 1829, yn y 84 flwyddyn o'i oed a'r 60fed o'i weinidogaeth: at yr hyn y chwanegwyd pigion o'i lythyrau ac o'i waith prydyddol ynghyd â llythyr ato oddiwrth y diweddar Barch. T. Charles o Bala* (Llanrwst: John Jones).

ELLIS, Griffith (1890), 'Cofiant y Parchedig Henry Rees', *Y Traethodydd*, 455-69.

——— (1900), 'Cyfarfod y gweinidogion Cymreig yn Liverpool a'r amgylchoedd', *Y Drysorfa* (Mai), 208-12.

——— (1910), 'Adgofion am yr Hybarch Ddoctor Owen Thomas', *Y Drysorfa*, 1-7.

EPSTEIN, William H. (gol.) (1991), *Contesting the Subject: Essays in the Postmodern Theory and Practice of Biography and Biographical Criticism* (Indiana: Purdue University Press).

EVANGELICAL ALLIANCE (2011) [Ar-lein] (London: Evangelical Alliance). Ar gael: http://www.eauk.org [Gwelwyd: 9 Gorffennaf 2011]

EVANS, Christmas (1811), *Neillduolrwydd y Prynedigaeth, yn cael ei chwilio allan; gan nodi y'mha bethau mae yn gynnwysedig* (Aberystwyth: James a Williams).

EVANS, D. Charles (1886), *Adgofion am y Diweddar Barchedig David Jones, Treborth; yn cynwys crynhodeb o hanes ei fywyd* (Dolgellau: Evans).

EVANS, D. Emlyn (gol.) (1908), *Tonau Talysarn, sef casgliad o donau y Parch. John Jones, Talysarn, gydag emynau* (Machynlleth: Mrs Jones, Cambrian House).

EVANS, Rhys (2005), *Gwynfor: Rhag pob Brad* (Talybont: Y Lolfa).

EVANS, Simon ([1850?]), *Cofiant y diweddar Barch. John Evans, Hebron, Swydd Benfro, a'i briod Martha: hi a hunodd yn yr Iesu, Gorphenaf 31, 1847, yn 58ain oed, efe a fu farw Hydref 3, 1849, yn yr 62ain flwyddyn o'i oedran, a'r 32ain o'i weinidogaeth* (Caerdydd: D. Evans).

EVANS, William (1892), *Cofiant y Parchedig William Evans, Tonyrefail: yn cynwys ei gynghorion gweinidogaethol, areithiau dirwestol, llythyrau, a nifer o'i bregethau* (Casnewydd: W. Jones).

FITZMAURICE, Susan M. (2002), *The Familiar Letter in Early Modern English* (Philadelphia: John Benjamins).

FLETCHER, Joseph (1833), *The Funeral Sermon, on the Death of the Rev. W. Thorp, delivered at Castle Green Chapel, Bristol* (London: Westley & Davis).

FORREST, James F. a SHARROCK, Roger (1988), 'Introduction', yn idem (goln), *The Life and Death of Mr Badman: Presented to the World in a Familiar Dialogue Between Mr Wiseman, and Mr Attentive* [John Bunyan] (Oxford: Clarendon Press), tt.xi-xlii.

FORSTER, John (1966) [1872-4], *The Life of Charles Dickens* (2 vols; London: Dent).

FOULKES, J. (1856), *Cofiant y Diweddar Barch. Moses Parry. Gyda rhagdraethawd gan y Parch. Henry Rees* (Dinbych: Thomas Gee).

FROUDE, James Anthony (1856), *History of England from the Fall of Wolsey to the Death of Elizabeth* (d.ll.: J. W. Parker & son).

——— (1891) [1882], *Thomas Carlyle: a history of the first forty years of his life, 1795-1835* (1891 edn; London: Longmans, Green).

——— (1891) [1884], *Thomas Carlyle: a history of his life in London, 1834-1881* (1891 edn; London: Longmans, Green).

GARRATY, John A. (1958), *The Nature of Biography* (London: Jonathan Cape).

GASKELL, Elisabeth (1857), *The Life of Charlotte Brontë* (d.ll.: Smith, Elder).

GEORGE, Angharad Wynne (2010), '"Mwtlai wyd di?": ôldrefedigaethedd, Cymru'r Oesoedd Canol a Dafydd ap Gwilym' (Traethawd Ph.D., Cymru (Caerdydd)).

GIBBARD, Noel (1979), *Elusen i'r Enaid: arweiniad i weithiau'r Piwritaniaid Cymreig, 1630-1689* (Pen-y-bont ar Ogwr: Llyfrgell Efengylaidd Cymru).

GITTINGS, Clare (1988), *Death, Burial and the Individual in Early Modern England* (London: Routledge).

GITTINGS, Robert (1978), *The Nature of Biography* (Seattle: University of Washington Press).

GOLDBERG, Michael (1972), *Carlyle and Dickens* (Athens: University of Georgia Press).

GOLDING, Peter (1985), 'John Owen on the mortification of sin', *Congregational Studies Conference Papers, 1985* (Beverley: Evangelical Fellowship of Congregational Churches), 17-30. [Ar gael ar-lein, http://www.JohnOwen.org [Gwelwyd: 9 Gorffennaf 2011]]

GORHAM, Deborah (1982), *The Victorian Girl and the Feminine Ideal* (London: Croom Helm).

GREAVES, R. L. (1981), *Society and Religion in Elizabethan England* (Minneapolis: University of Minnesota Press).

GREEN, Abel (1845), *Cofiant, yn cynwys Ychydig o Hanes Bywyd y Diweddar Barchedig Jenkin Davies, Twrgwyn, yn Swydd Ceredigion, ynghyd â rhai o'i bregethau* (Castellnewydd-Emlyn: William Jones).

GRIFFITH, Mair Ogwen (1925), *Chwiorydd Enwog y Cyfundeb* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd).

GRIFFITH, Owen (1896), *Cofiant y Parchedig Cadwaladr Owen* (Wrecsam: Hughes).

GRIFFITHS, Thomas Jeremy (1828), *Cofiant am y Parch. David Davies, gynt o Gastell-Hywel, Ceredigion: ganwyd 1745, bu farw 1827* (Caerfyrddin: J. Evans).

GRUFFYDD, R. Geraint (1993), 'Marwnadau William Williams, Pantycelyn', *Llên Cymru*, 17, 254–71.

GURNAL, William (1796-1819), *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth neu, Draethawd am ryfel y saint yn erbyn y diafol*, cyf. JONES, Thomas (4 cyfrol) (Dinbych: Thomas Gee).

GWYNFRYN, Hywel (2010), *Hugh Griffith* (Llandysul: Gomer).

HAIGH, Christopher (2007), *The Plain Man's Pathways to Heaven: Kinds of Christianity in Post-Reformation England* (Oxford: Oxford University Press).

HALL, Donald (2004), *Subjectivity* (New York & London: Routledge).

HALL, Joseph (1634), *The Works of Joseph Hall* (London: Nath. Butler).

HALL, Nigel (2000), 'The materiality of letter writing', yn BARTON, David a HALL, Nigel (goln), *Letter Writing as a Social Practice* (Amsterdam & Philadelphia: John Benjamins), tt.83-108.

HALLAM, Tudur (2007), *Canon Ein Llên: Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

HALLER, W. (1938), *The Rise of Puritanism* (New York: Columbia University Press).

HALYBURTON, Thomas (1833) [1714], *Memoirs of the Rev. Thomas Halyburton: Professor of Divinity in the University of St. Andrews* (Princeton: N. J. Baker & Connolly).

HARRIES, W. J. (1954), 'Astudiaeth o'r cofiant Cymraeg yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg o safbwynt llenyddol' (Traethawd MA, Cymru (Abertawe)).

HARRIS, Joseph (1824), *Cofiant y diweddar John R. Harris (Ieuan Ddu, o lan Tawy), yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn Rhag. 4 1823, mab y Parch. J. Harris, Abertawe, yn nghyd â 'Galar tad ar ol ei unig fab'* (d.ll.: d.c.).

HENRY, Matthew (1818) [1712], *Memoirs of the Life and death of the Rev. Philip Henry, some time the Minister of the Gospel at Worthenbury, and afterward at Broad-Oak, who died June 24, 1696, in the 65th year of his age, to which is added, a sermon on occasion of the death of Mrs Henry* (London: T. Cordeux).

HILL, George Birkbeck (gol.) (1887), *Boswell's Life of Johnson, including Boswell's Journal of a Tour to the Hebrides and Johnson's Diary of a Journey into North Wales* (6 Vols; New York: Bigelow, Brown & Co.).

HINDMARSH, Bruce (2008), 'The antecedents of evangelical conversion narrative: spiritual autobiography and the Christian tradition', yn HAYKIN, Michael a STEWART, Kenneth (goln), *The Emergence of Evangelicalism: Exploring Historical Continuities* (Nottingham: Apollos), tt.327-44.

HOADLY, Benjamin (gol.) (2002), *The Works of Samuel Clarke* (Bristol: Thoemmes).

HOLMES, Richard (1985), *Footsteps: Adventures of a Romantic Biographer* (1995 edn; London: Flamingo).

HOULBROOKE, Ralph (1998), 'Funeral sermons', yn idem, *Death, Religion, and the Family in England, 1480-1750* (2000 edn; Oxford: Oxford University Press), tt.295-330.

HUGHES, Glyn Tegai (1991), 'Pantycelyn a'r Piwritaniaid', yn MORGAN, Derec Llwyd (gol.), *Meddwl a Dychymyg Williams Pantycelyn* (Llandysul: Gwasg Gomer), tt.31-54.

HUGHES, Hugh (1858), *Cofiant John Jones, Tal-y-sarn* (Pwllheli: Hughes a'i Gyf., Swyddfa'r Arweinydd).

HUGHES, James (1827), *Cofiant Byr o fuchedd a marwolaeth Thomas Davies, o'r Tir Newydd, plwyf Cegidfa, swydd Drefaldwyn, yr hwn a fu farw Ebrill 18, 1827, yn 23 oed: at yr hyn y chwanegwyd, pigion o rai o'i lythyrau, ynghyd â sylwedd pregeth, a draddodwyd gan y Parch. John Elias, yn Jewin Street, Llundain, ar yr achlysur o'i farwolaeth* (Llundain: J. Jones).

HUGHES, John (1830), *Cofiant am y diweddar Barch. Owen Jones, o'r Gelli, swydd Drefaldwyn, gweinidog yr Efengyl ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd: ynghyd a chan o alar ar yr achos* (Caerlleon: John Parry).

——— (1830), *Cofiant o'r Materion y Buwyd yn Areithio arnynt yn Nghyfarfod Blynyddol yr Ysgolion Sabbothol perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd yn Swydd Drefaldwyn, yr hwn a gynhaliwyd yn Myfod, Rhagfyr 11, 1829, yn nghydag araith y Parch. Henry Rees, o'r Amwythig, wedi ei hysgrifenu ganddo ef ei hun* (Llanfaircaereinion: R. Jones).

——— (1840), *Cofiant y Parch. W. Jones, Dol-y-fonddu, a'r Parch. E. Griffiths, Meifod, Gweinidogion gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, yn Swydd Drefaldwyn; ynghyd a Byr-gofiant am Mr. T. Griffiths, a Mrs M. Griffiths, brawd a mam y Parch. E. Griffiths* (Caerlleon: John Parry).

HUGHES, John (1831), *Cofiant am y Diweddar Barch. John Jones o Dreffynnon, Swydd Fflint, gweinidog yr Efengyl yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, yr hwn a fu farw Awst 2, 1830, yn y 66 flwyddyn o'i oedran a'r 37 o'i weinidogaeth* (Caerlleon: John Parry).

HUGHES, Medwin (1987), 'Studies in Calvinistic Methodist Welsh literature, 1790-1825' (D. Phil. Dissertation (Oxford), 2 vols).

HUGHES, Robert (1893), *Hunan-gofiant ynghyda Phregethau a Barddoniaeth y Diweddar Barch. Robert Hughes (Robin Goch), Uwchlaw'r Ffynnon* (Pwllheli: William Hughes).

HUMPHREYS, John a ROBERTS, John (1820), *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones, gweinidog yr efengyl, yn ddiweddar o dref Ddinbych; hanes ei fywyd a 'sgrifenwyd ganddo ef ei hun, ar ddymuniad ei gyfaill Parchedig Mr. Charles* (Dinbych: Thomas Gee).

HUNTER, Jerry (2003), *Llwch Cenhedloedd: y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

——— (2007), *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the American Civil War* (Cardiff: University of Wales Press).

JAMES, E. Wyn (1998), 'Ann Griffiths, Mary Jones a Mecca'r Methodistiaid', *Llên Cymru*, 21, 74-87.

——— (2011), 'Cyflwyniad i fywyd a gwaith Ann Griffiths' [Ar-lein] (Caerdydd: Prifysgol Caerdydd). Ar gael: http://www.anngriffiths.cardiff.ac.uk/cyflwyniad.html [Gwelwyd 9 Gorffennaf 2011]

JAMES, T. E. (1856), *Cofiant y Diweddar Barch. David Rees, Gweinidog y Bedyddwyr yn Methania, Aberteifi* (Caerfyrddin: W. M. Evans).

JENKINS, D. E. (1924), 'A review and revision of the biography of John Jones, Talsarn by Owen Thomas' (MA Dissertation (Liverpool)).

——— (1924), 'Owen Thomas's cofiant', yn idem, 'A review and revision of the biography of John Jones, Talsarn by Owen Thomas' (MA Dissertation (Liverpool)), tt.319-33.

——— (1924), 'The biography in preparation', yn idem, 'A review and revision of the biography of John Jones, Talsarn by Owen Thomas' (MA Dissertation (Liverpool)), tt.22-38.

JENKINS, Geraint H. (1978), *Literature, Religion and Society in Wales, 1660-1730* (Cardiff: University of Wales Press).

——— (1983), *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

——— (1998), 'The eighteenth century', yn JONES, Philip Henry and REES, Eiluned (goln), *A Nation and its Books: A History of the Book in Wales* (Aberystwyth: National Library of Wales), tt.109-22.

——— (2000), 'Historical writing in the eighteenth century', yn JARVIS, Branwen (gol.), *A Guide to Welsh Literature, c.1700-1800* (Cardiff: University of Wales Press), tt.23-44.

JENKINS, John Gwili (1931), 'Calfiniaeth ac Arminiaeth', yn idem, *Hanfod Duw a Pherson Crist* (Lerpwl: Hugh Evans), tt.26-55.

JENKINS, John Gwili (1931), *Hanfod Duw a Pherson Crist* (Lerpwl: Hugh Evans).

JENKINS, R. T. (1933), *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

JONES, Aled G. (1993), *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

JONES, Bedwyr Lewis (2002) [1976], 'Cofiannau ac atgofiannau', yn BOWEN, Geraint (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru). Adargraffwyd yn WILIAMS, Gerwyn (gol.), *Gorau Cyfarwydd: Detholiad o Ddarlithoedd ac Ysgrifau Beirniadol Bedwyr Lewis Jones* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Barddas), tt.275–92.

JONES, Bill (2005), 'Writing back: Welsh emigrants and their correspondence in the nineteenth century', *North American Journal of Welsh Studies*, 5.1 (Gaeaf), 23-46.

——— (2006), '"Going into print": published immigrant letters, webs of personal relations, and the emergence of the Welsh public sphere', yn ELLIOTT, Bruce S., GERBER, David A. a SINKE, Suzanne M. (goln), *Letters Across Borders: the Epistolary Practices of International Migrants* (d.ll.: Palgrave), tt.175-99.

JONES, Ceri Wyn (2008), 'Trafod cerddi'r gadair, 2008', *Barddas*, 299/300 (Awst/Medi/Hydref), 52.

JONES, D[avid]., THOMAS, Owen a PARRY, John (1868), *Cofiant y Parch. John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd: Hugh J. Hughes).

JONES, David (1784), *Llythyr oddi wrth Dafydd ab Ioan y Pererin, at Ioan ab Gwilym y Prydydd: yn rhoddi byrr hanes o fywyd a marwolaeth y Parchedig Mr Christopher Basset, Athraw yn y Celfyddydau, o Aber-ddawen, yn Sir Forgannwg* (Trefecca: d.c.).

JONES, David Ceri (2004), *'A Glorious Work in the World': Welsh Methodism and the International Evangelical Revival, 1735-1750* (Cardiff: University of Wales Press).

JONES, David Samuel (1894), *Cofiant Darluniadol y Parchedig William Williams o'r Wern* (Dolgellau: W. Hughes).

JONES, Emyr Gwynne (1968), 'Y cofiant', yn MORGAN, Dyfnallt (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Llandybïe: Llyfrau'r Dryw), tt.175–86.

JONES, Frances (Fanny) (1917), 'Adgofion mebyd yn Nhal y Sarn [cyfres]' *Y Dinesydd Cymreig* (15 Awst–7 Tachwedd).

——— (1947), *Adgofion am Dalysarn*, gol. George M. Ll. Davies (Dinbych: Gee).

JONES, Frank Price (1956), *Thomas Jones o Ddinbych, 1756-1820* (Dinbych: Gwasg Gee).

——— (1972 a 1973), 'Yr achosion Seisneg', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd* 47, 3, 66-80, a 48, 1, 2-11.

JONES, Geraint (2008), *Gŵr Hynod Uwchlaw'r Ffynnon* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

JONES, Idwal (1937), *Hunangofiant y Parch. Thomas Jones* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth).

JONES, J. Morgan a MORGAN, W. (1895-7), *Y Tadau Methodistaidd*, 2 gyfrol (Abertawe: d.c.).

JONES, John (1829), *Cofiant am fywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Hughes, o Liverpool: yr hwn a fu farw Tachwedd 2, 1828, yn y 71 flwyddyn o'i oedran, a'r 40 o'i weinidogaeth; gydag ychydig o hanes ei gydlafurwr, y Parch. Thomas Edwards, yr hwn a fu farw Mai 26, 1825* (Liverpool: Nevetts).

JONES, John (1834), *Cofiant y diweddar Barch. Richard Jones, gynt o Wern Llanfrothen, Swydd Feirionydd: yr hwn oedd yn weinidog yr Efengyl ynghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd. Bu farw Chwefror 26, 1833, yn 60 oed* (Caerlleon: John Parry).

JONES, John (1869), 'Dyfod at Grist' (Ioan 6:44), yn PARRY, Griffith (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych: Thomas Gee), tt.390-406.

——— (1869), 'Sefyll yn segur' (Mathew 20:6), yn PARRY, Griffith (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych: Thomas Gee), tt.79-83.

——— (1869), 'Y symmudiad mawr' (Job 7:10), yn PARRY, Griffith (gol.), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych: Thomas Gee), tt.335-47.

JONES, John (1883), *Cofiant a phigion o bregethau y Parch. Michael Roberts, Pwllheli: yn cynwys yr hyn a ysgrifenodd am dano ei hun, ac am ei dad, y Parch. J. Roberts, Llangwm* (Pwllheli: Robert Owen).

JONES, John Gwilym (1977), 'Hunangofiant fel llenyddiaeth', yn idem, *Swyddogaeth Beirniadaeth ac Ysgrifau Eraill* (Dinbych: Gee), tt.182–98.

JONES, John Gwynfor (gol.) (1992), *Agweddau ar Dwf Piwritaniaeth yng Nghymru yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg* (Llanbed: E. Mellen).

——— (2007), 'Cefndir William Morgan a'i gyfraniad i Brotestaniaeth', yn idem, *Crefydd a Chymdeithas: Astudiaethau ar Hanes y Ffydd Brotestannaidd yng Nghymru, c.1559-1750* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.115-66.

——— (2007), 'Dylanwad piwritaniaeth ar Anglicaniaeth yng Nghymru', yn idem, *Crefydd a Chymdeithas: Astudiaethau ar Hanes y Ffydd Brotestannaidd yng Nghymru, c.1559-1750* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.209-34.

——— (2007), '*The Practice of Piety*, campwaith Lewis Bayly, Esgob Bangor', yn idem, *Crefydd a Chymdeithas: Astudiaethau ar Hanes y Ffydd Brotestannaidd yng Nghymru c.1559-1750* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.235-61.

——— (gol.) (2011), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 3: Y Twf a'r Cadarnhau (c.1814-1914)* [i'w gyhoeddi ym Medi 2011].

JONES, Jonathan (1897), *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych, yn cynnwys ei gysylltiad a Duwinyddiaeth a Llenyddiaeth ei Oes a Hanes a Symudiadau y Methodistiaid Calfinaidd, ac a'r Ordeiniaid Cyntaf a fu ar eu Gweinidogion yn y flwyddyn 1811* (Dinbych: T. Gee a'i fab).

JONES, Josiah (1863), *Bywyd a Gweithiau Azariah Shadrach* (Machynlleth: Evan Jones).

JONES, Owen (1891), 'Owen Thomas', *Cymru*, 56-60.

JONES, Owen a THOMAS, Robert (1863), *Cofiant y Diweddar Barch. Dafydd Rolant y Bala, yn nghyd a detholion o'i bregethau* (Wrexham: Hughes a'i fab).

JONES, R. M. (1977), 'Oes aur y bregeth Gymraeg', yn idem, *Llên Cymru a Chrefydd: Diben y Llenor* (Abertawe: C. Davies), tt.412–30.

JONES, R. Tudur (1950), 'Rhesymeg y Piwritaniaid', *Efrydiau Athronyddol*, viii, 19-37.

——— (1966), *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

——— (1968), 'Anghydffurfiaeth', yn MORGAN, Dyfnallt (gol.), *Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Llandybie: Christopher Davies), tt.119-28.

——— (1970), 'Rhyddiaith grefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg' yn BOWEN, Geraint (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith* (Llandysul: Gomer), tt.318-53.

——— (1971), *Vavasor Powell* (Abertawe: Gwasg John Penry).

——— (1974), 'Darganfod plant bach: sylwadau ar lenyddiaeth plant yn Oes Victoria', yn WILLIAMS, J. E. Caerwyn (gol.) *Ysgrifau Beirniadol VIII*, tt.160–204.

——— (1975), *John Elias: Pregethwr a Phendefig* (Abertawe: Mudiad Efengylaidd Cymru).

——— (1976), 'Relations between Anglicans and Dissenters: the promotion of piety', yn WALKER, D. (gol.), *A History of the Church in Wales* (Penarth: Church in Wales Publications), tt.77-102.

——— (1977), *Coroni'r Fam Frenhines* (Llandysul: Gomer).

——— (1979), 'Daearu'r angylion: sylwadau ar ferched mewn llenyddiaeth, 1860–1900', yn WILLIAMS, J. E. Caerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XI*, tt.191-226.

——— (1981), *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914: Cyfrol 1* (Abertawe: Tŷ John Penry).

——— (1981), 'Awr machlud y pregethwr mawr', yn idem, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914: Cyfrol 1* (Abertawe: Tŷ John Penry), tt.154-71.

——— (1982), *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890-1914: Cyfrol 2* (Abertawe: Tŷ John Penry).

——— (1987), *Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* (Abertawe: Coleg Prifysgol Abertawe).

——— (1998), 'Athrawiaeth y cyfamodau', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.9-16.

——— (1998), 'Awr anterth Efengyliaeth yng Nghymru 1800-1850', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.285-308.

——— (1998), 'Cewri ar eu gliniau: agweddau ar dduwioldeb y Piwritaniaid', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.17-50.

——— (1998), 'Eglwys Loegr a'r saint, 1660-88', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.91-112.

——— (1998), 'Gwilym Hiraethog (1802-83)', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.183-93.

——— (1998), 'John Jones, Tal-y-sarn (1797-1857)', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.170-82.

——— (1998), 'Pregethu Henry Rees (1798-1869) a Gwilym Hiraethog', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.194-209.

——— (1998), 'Y "Dwym Ias" a'r "Sentars Sychion"', yn MORGAN, D. Densil (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Bangor), tt.153-69.

——— (1999), 'Ymneilltuaeth a'r iaith Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', yn JENKINS, Geraint H. (gol.), *'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg': Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.229-50.

JONES, Robert (1958) [1820], *Drych yr Amseroedd*, gol. ASHTON, G. M. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

JONES, Robert Ambrose (Emrys ap Iwan) (1942), 'Y cwrdd gweddi', yn LLOYD, D. Myrddin (gol.), *Detholiad o Erthyglau a Llythyrau Emrys ap Iwan III: Crefyddol* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig), tt.73-9.

JONES, Rosemary (1999), '"Sfferau ar wahân"?: menywod, iaith a pharchusrwydd yng Nghymru'r Oes Victoria', yn JENKINS, Geraint H. (gol.), *'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg': Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801–1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.175–205.

JONES, T. Ellis (1936), 'Ffwleriaeth yng Nghymru', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 2-49.

JONES, T. Gwynn (1913), *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych: Gee).

——— (1978) [1912], *Emrys ap Iwan. Dysgawdr, Llenor, Cenedlgarwr: Cofiant* (arg. newydd; Abertawe: Hughes).

JONES, T. M. (1908), *Cofiant y Parch. Roger Edwards, Yr Wyddgrug, yn cynnwys ei waith dyddorol 'Y Tri Brawd a'u Teuluoedd'* (Gwrecsam: Hughes a'i fab).

JONES, Thomas (1788), *Marwnad ar Anne Parry, o Fryn Milan ym mhlwyf Llanrhaiadr, sir Ddimbych* (Gwrecsam: R. Marsh).

——— (1791), *Marwnad mewn côf am y Parchedig Daniel Rowlands...hefyd am y Parchedig William Williams...ac yn ddiweddaf, am Dafydd Morys* (Gwrecsam, R. Marsh).

——— (1800), *Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg: an English and Welsh Dictionary* (Caerlleon: W. C. Jones).

——— (1806), *Drych Athrawiaethol: yn dangos Arminiaeth a Chalfinistiaeth, mewn ffordd o ymddiddan rhwng dau gyfaill, Holydd ac Atebydd* (Bala: R. Saunderson).

——— (1813), *Diwygwyr, Merthyron a Chyffeswyr Eglwys Lloegr: ynghyd a Phrif ddiwygwyr yScotland a Gwledydd Tramor, a phrawf eglur a dilys o'r egwyddorion crefydd yr ymdrechant o'u plaid* [*Merthyrdraeth*] (Dinbych: Thomas Gee).

——— (1816), *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Charles, Gwyryf yn y Celfyddydau, yn ddiweddar o'r Bala, Sir Feirionydd, wedi ei gyfieithu a'i gasglu gan Thomas Jones; at yr hyn a chwanegwyd marwnad ar yr achos* (Bala: Robert Saunderson).

——— (1816), *Marwnad ar yr ystyriaeth alarus o farwolaeth y Parch. Thomas Charles...a fu farw...1814* (Dinbych: Thomas Gee).

——— (1819), *Ymddyddanion rhwng Ymofynydd a Henwr, ar brynedigaeth: hefyd sylwadau gwahanol ar ddau lyfryn, un yn tueddu at ryw fath o gyffredinolrwydd yn y Prynedigaeth, a'r llall yn waeth, i'r ochr arall, yn gosod terfyn i werth aberth Crist; a chywydd &c. ar yr un materion* (Dinbych: Thomas Gee).

JONES, Thomas [Glan Alun] (1844), *Fy chwaer: sef cofiant am Miss Margaret Jones, Cefn y Gader, Wyddgrug* (Wyddgrug: Hugh Jones).

KAPLAN, Cora (2007), 'Biographilia', yn idem, *Victoriana: Histories, Fictions, Criticism* (Edinburgh: Edinburgh University Press), tt.37-84.

——— (2007), *Victoriana: Histories, Fictions, Criticism* (Edinburgh: Edinburgh University Press).

KAPLAN, Fred (1983), *Thomas Carlyle: A Biography* (Cambridge: Cambridge University Press).

KELL, Catherine (2000), 'Teaching letters: the recontextualisation of letter-writing practices in literacy classes for unschooled adults in South Africa', yn BARTON, David a HALL, Nigel (goln), *Letter Writing as a Social Practice* (Amsterdam & Philadelphia: John Benjamins), tt.209-32.

LA TROBE, Benjamin (1792), *Hanes Ferr o Fywyd Howell Harris, Yscweier; a dynnwyd allan o'i ysgrifeniadau ef ei hun. At ba un y chwanegwyd Crynodeb byrr o'i Lythyrau o'r flwyddyn 1738 hyd y fl. 1772* (Trefecca: d.c.).

LANGLAND, William (1967), *Piers Plowman*, gol. SALTER, Elizabeth a PEARSALL, Derek (London: Arnold).

LE ROY LADURIE, Emmanuel (2001), *Saint-Simon and the Court of Louis XIV* (Chicago: University of Chicago Press).

LEE, Hermione (1997), *Virginia Woolf* (London: Vintage).

——— (2005), *Body Parts: Essays in Life-Writing* (London: Chatto & Windus).

——— (2009), *Biography: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press).

LEWIS, Jenkin (1807), *Hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Jenkin Lewis; gynt Gweinidog yr efengyl y mhlith yr Independiaid yn Llanfyllin; a gyfieithwyd o'r Drysorfa Efengylaidd am fis Hydref, 1807*, cyf. JONES, D. (Treffynnon: E. Carnes).

LEWIS, Mairwen (1957), 'Astudiaeth gymharol o'r cyfieithiadau Cymraeg o rai o weithiau John Bunyan, a'u lle a'u dylanwad yn llên Cymru' (Traethawd MA, Cymru (Aberystwyth)).

LEWIS, Saunders (1933), 'Cywydd gan Thomas Jones, Dinbych', *Y Llenor* (Hydref), 135.

——— (1973), 'Emrys ap Iwan yn 1881', yn GRUFFYDD, R. Geraint (gol.), *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.371-6.

——— (1973) [1935], 'Y cofiant Cymraeg', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1935), tt.157–73. Adargraffwyd yr erthygl yn GRUFFYDD, R. Geraint (gol.), *Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.341–56.

LEWIS, Walter (1811), *Pregeth a Bregethwyd yn y Plough yn Aberhonddu, a'r Aber, yn Swydd Frycheiniog, ar yr Achlysur o Farwolaeth y Parchedig Evan Davies, yr hwn a fu yn weinidog ffyddlon yn y llefydd uchod dros ysbaid ugain mlynedd, a ymadawodd a'r byd Hydref 29, 1811; at yr hyn y chwanegwyd hanes byr o'i fywyd duwiol heddychlon, a'i farwolaeth orfoleddus* (Aberhonddu: Henry Hughes).

LEY, John (1640), *A patterne of pietie: or the religious life and death of that grave and gracious matron, Mrs Jane Ratcliffe, widow and citizen of Chester; of whom the discourse is framed and applied so as the commemoration of the dead may best serve to the edification of the living, whether men or women, whereof part was preached, and the whole written by John Ley* (London: Felix Kingston).

LOCKHART, John Gibson (1837), *Memoirs of the Life of Sir Walter Scott* (4 vols; Paris: A. & W. Galignoni & Co.).

LLWYD, Rheinallt (1998), 'Printing and publishing in the seventeenth century', yn JONES, Philip Henry a REES, Eiluned (goln), *A Nation and its Books: A History of the Book in Wales* (Aberystwyth: National Library of Wales), tt.93-107.

LLYWELYN-WILLIAMS, Alun (1972), 'Bywgraffiad fel creadigaeth lenyddol', yn BOWEN, Geraint (gol.), *Ysgrifennu Creadigol* (Llandysul: Gomer), tt.139–55.

MACAULAY, Thomas Babington (1831), '*Life of Samuel Johnson*', *Edinburgh Review*, 54, 1-38.

——— (1858) [1848], *The History of England from the Accession of James the Second* (5 vols; London: Longman).

MACDONNELL, John Cotter (1857), *The Doctrine of Atonement deduced from Scripture, and vindicated from misrepresentations and objections* (London: d.c.).

MARCUS, Laura (1994), *Auto/biographical Discourses: Theory, Criticism, Practice* (Manchester: Manchester University Press).

MATTHEWS, Edward (1863), *Bywgraffiad y Parch. Thomas Richard, Abergwaen: nodiadau arno fel dyn, Cristion a phregethwr; penodau o'i ymadroddion detholedig, yn nghyd a phigion o'i areithiau, llythyrau &c.* (Abertawe: Joseph Rosser).

MILES, Gareth (2007), *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

MILL, John Stuart (1859), *Dissertations and Discussions Political, Philosophical, and Historical* (London: W. Parker).

MORGAN, D. Densil (1991), *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul: Gwasg Gomer).

——— (1991), 'Y dadleuwr a'r diwinydd', yn idem, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul: Gwasg Gomer), tt.139-58.

——— (2006), 'Owen Thomas (1812-91) and the Welsh Nonconformist response to the "Lampeter Theology"', *Welsh Journal of Religious History*, 1, 27-49.

——— (2007), 'Lewis Edwards ac Athrawiaeth yr Iawn', *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 31, 52-75.

——— (2008), 'Continuity, novelty and evangelicalism in Wales, *c.*1640-1850', yn HAYKIN, Michael a STEWART, Kenneth (goln), *The Emergence of Evangelicalism: Exploring Historical Continuities* (Nottingham: Apollos), tt.84-102.

——— (2009), *Lewis Edwards* (Dawn Dweud) (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

MORGAN, Derec Llwyd (1978), 'Llenyddiaeth y Methodistiaid, 1763-1814', yn ROBERTS, Gomer M. (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2: Cynnydd y Corff* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd), tt.456-526.

——— (1981), *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul: Gwasg Gomer).

——— (1983), *Williams Pantycelyn* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn).

——— (1986), 'John Thomas, awdur *Rhad Ras*', yn idem, *Pobl Pantycelyn* (Llandysul: Gwasg Gomer), tt.20-7.

——— (1986), 'Methodistiaeth Ann Parry (1718-1787)', yn idem, *Pobl Pantycelyn* (Llandysul: Gwasg Gomer), tt.28-36.

MORGAN, J. H. (1924), 'Y meddwl piwritanaidd a llên', *Y Llenor*, 3, 1, 5-13.

MORGAN, John (1900), 'Y Parch. Owen Thomas, D.D.', *Y Drysorfa* (Ebrill), 154-9 (Mai), 199-203 (Gorffennaf), 299-304 (Awst), 342-7 (Medi), 393-7 (Tachwedd), 485-91.

MORGAN, Merfyn (1981), *Gweithiau Oliver Thomas ac Evan Roberts: Dau Biwritan Cynnar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

MORGAN, William (1839), *Cofiant, neu Hanes Bywyd y diweddar Barch. Christmas Evans, wedi ei gasglu gan mwyaf o'i ysgrifeniadau a'i gofnodion ef ei hun* (Caerdydd: Ll. Jenkins).

MORRIS, James (1897), *Cofiant Dafi Dafis, Rhydcymerau* (Dolgellau: Swyddfa'r 'Goleuad').

NADEL, Ira Bruce (1984), *Biography: Fiction, Fact and Form* (London: Macmillan).

NICOLSON, Nigel a TRAUTMANN, Joanne (goln) (1980), *The Letters of Virginia Woolf, Vol. 6, 1936-1941* (London: Hogarth Press).

OWAIN, O. Llew (1907), *Cofiant Mrs Fanny Jones, Gweddw y Diweddar Barch. J. Jones, Talysarn* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig).

OWEN, Goronwy P. (gol.) (1997), *Atgofion John Evans y Bala: Y Diwygiad Methodistaidd ym Meirionnydd a Môn* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn).

OWEN, Goronwy Wyn (2005-6), 'Henry Rees (1798-1869): pregethwr a llenor', *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 29-30, 97-105.

——— (2008), *Cewri'r Cyfamod: Y Piwritaniaid Cymreig, 1630-1660* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn).

OWEN, John (1844) [1839], *Hanes bywyd a gweinidogaeth y Parchedig Daniel Rowlands (gynt o Langeitho)* (Caerlleon: Edward Parry).

OWEN, John (2010) [1667], *Indwelling Sin in Believers* (Edinburgh: The Banner of Truth Trust).

OWEN, William (1829), *Cofiant byr am Mr. John Bebb, iau, o'r Trallwm, Swydd Drefaldwyn, yr hwn a fu farw yn gysurus, Hydref 9, 1827, yn ychydig dros 21ain oed, wedi ei gyfieithu a'i gasglu, gan mwyaf, allan o'i gof-lyfr cyfrinachol ef ei hun* (Caerlleon: John Parry).

OWST, G. R. (1933), *Literature and Pulpit in Medieval England, a neglected chapter in the history of English letters and of the English people* (Cambridge: Cambridge University Press).

PACKER, J. I. (1991), *Among God's Giants: Aspects of Puritan Christianity* (Eastbourne: Kingsway).

PARKE, Catherine (2002), *Biography: Writing Lives* (New York and London: Routledge).

PARRY, Griffith (1864), 'Adolygiad ar *Buchdraeth y Diweddar Barchedig John Hughes, Liverpool, Awdwr "Methodistiaeth Cymru"'*, *Y Traethodydd*, 352-63.

——— (gol.) (1869), *Pregethau y Diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn* (Dinbych: Thomas Gee).

——— (1891),'Y diweddar Barchedig Owen Thomas D.D.', *Y Drysorfa*, 321-7.

PARRY, John (1806), *Cofiaint am y diweddar Barchedig John Brown, gweinidog yr efengyl yn Scotland: yn cynnwys rhai o'r pethau hynotaf yn ysdod ei fywyd ef* (Caerlleon: W. C. Jones).

PARRY, John (gol.) (1856-79), *Y Gwyddoniadur Cymreig* (10 cyfrol; Dinbych: Thomas Gee).

PARRY, R. (1859), *Adgofion am John Elias* (Dinbych: Thomas Gee).

PARRY, Thomas (1944), *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

PARRY, W. J. (gol.) (1886), *Cofiant Tanymarian* (Dolgellau: W. Hughes, Swyddfa'r 'Dysgedydd').

PHILLIPS, T. (1851), *Cofiant yn nghyda phigion o bregethau ac anerchiadau y diweddar Barch. John Thomas, o Aberteifi* (Aberystwyth: E. Williams a'i mab).

PHILLIPS, William (1978), *Mynegai i'r 'Traethodydd' (1845-95)* (Cyfrol II) (d.ll.: Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru).

PIMLOTT, Ben (2004), 'Brushstrokes', yn BOSTRIDGE, Mark (gol.), *Lives for Sale: Biographers' Tales* (London & New York: Continuum), tt.165-70.

PRICE, Angharad (2002), *O! Tyn y Gorchudd: Hunangofiant Rebecca Jones* (Llandysul: Gomer).

——— (2002), *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

——— (2006), 'Borshiloff' yn THOMAS, Owen (gol.), *Llenyddiaeth Mewn Theori* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.137-51.

REED, Joseph W. Reed, Jr. (1966), *English Biography in the Early Nineteenth Century* (New Haven & London: Yale University Press).

REES, D. Ben (d.d.), 'Owen Thomas', yn idem, *Pregethu a Phregethwyr* (Dinbych: Gwasg Gee), tt.139-49.

——— (1979), *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd: Cyhoeddiadau Modern Cymreig).

——— (1979), 'Y cofiannydd', yn idem, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Dr Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd: Cyhoeddiadau Modern Cymreig), tt.207-45.

REES, D. Ben (1981), *Haneswyr yr Hen Gorff* (Lerpwl a Llanddewi Brefi: Cyhoeddiadau Modern Cymreig).

——— (gol.) (1984), *Cymry Lerpwl a'u Crefydd: Dwy Ganrif o Fethodistiaeth Galfinaidd Gymreig* (Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig).

REES, Henry (1833), 'Annerchiad at y Cristion yn nhrafferth y byd', *Y Drysorfa*, 294-7, 323-6.

——— (1840), '*Cofiant y Parch. W. Jones, Dol-y-fonddu* [adolygiad]', *Y Drysorfa*, 212-14.

——— (1845), 'Eglwys Crist', *Y Traethodydd*, 278-88.

——— (1853), 'Y gweinidog a'r ysgolfeistr Thomas Lloyd, Abergele', *Y Traethodydd* (Ebrill), 231-60.

——— (1856), 'Rhagdraethawd', yn FOULKES, John, *Cofiant y Diweddar Barch. Moses Parry* (Dinbych: Thomas Gee), tt.vii-xiv.

——— (1884), 'Anfoniad Crist ac anfoniad ei genadau', yn WILLIAMS, D. (gol.), *Y Gofadail Fethodistaidd, sef Pregethau gan Nifer o Weinidogion Ymadawedig y Methodistiaid: Ail Gyfrol* (Conwy: David Williams), tt.339-49.

REES, Henry a PARRY, Moses (1841), *Y Genadaeth i'r America: Golygiad Byr ar Agwedd Crefydd y'mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, yn Unol Daleithiau yr America; ynghyd a Hanes Taith Henry Rees a Moses Parry, i ymweled a'r Eglwysi yno* (Caerlleon: T. Thomas).

REES, William (1842), *Cofiant y diweddar Barch. W. Williams o'r Wern: yn cynnwys byr-grynhodeb o hanes ei fywyd, ei nodwedd, ei lafur a'i lwyddiant gweinidogaethol, ei farwolaeth, rhai o'i bregethau a'i ddywediadau; barddoniaeth &c.* (Llanelli: Rees a Thomas).

RHIEL, Mary a SUCHOFF, David (goln) (1996), *The Seductions of Biography* (New York: Routledge).

RICHARD, E. W. a RICHARD, H. (1839), *Bywyd y Parch. Ebenezer Richard* (Llundain: W. Clowes).

RICHARD, Henry (1864), *Memoirs of Joseph Sturge* (London: S. W. Partridge).

ROBERTS, Brian (2002), *Biographical Research* (Buckingham: Open University Press).

ROBERTS, Brynley F. (2000), 'The literature of the "Great Awakening"', yn JARVIS, Branwen (gol.), *A Guide to Welsh Literature, c.1700-1800* (Cardiff: University of Wales Press), tt.279-304.

ROBERTS, Eleazar (1907), 'Adgofion henwr', *Y Geninen*, 38-47.

ROBERTS, G. T. (1957), 'John Jones Tal-y-sarn (1796-1857)', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 18, 89-91.

ROBERTS, Gomer M. (gol.) (1973), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 1: Y Deffroad Mawr* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd).

——— (gol.) (1978), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2: Cynnydd y Corff* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd).

ROBERTS, J. J. (Iolo Carnarvon) ([1912]), *Cofiant y Parchedig Owen Thomas, D.D., Liverpool* (Caernarfon: D. O'Brien Owen).

ROBERTS, John (1850), *Cofiant y Parchedig John Elias, o Fon* (Liverpool: M. A. Jones).

ROBERTS, Llion Pryderi (2006), '"Y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto": mawl a moes yng nghofiannau'r pregethwyr', *Y Traethodydd* [rhifyn arbennig ar gofiannau] (Ebrill), 78-97.

——— (2007), 'Rhwydo'r dystiolaeth: cofiannu a chyfannu Fanny Jones, Tal-y-sarn?', *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 31, 76-121.

ROBERTS, Samuel (1837), *Cofiant y Parch. John Roberts o Lanbrynmair* (Llanelli: David Rees a John Thomas).

ROBERTS, T. a ROBERTS, D. ([1893]), *Cofiant y Parch. W. Rees, D.D. (Gwilym Hiraethog)* (Dolgellau: W. Hughes).

ROGERS, Pat (1998), 'Introduction', yn BOSWELL, James, *Life of Johnson*, gol. CHAPMAN, R. W. (Oxford: Oxford University Press), tt.v-xxxiv.

ROSENBERG, John D. (1985), *Carlyle and the Burden of History* (Oxford: Clarendon Press).

ROWBOTHAM, Judith (1989), *Good Girls make Good Wives: Guidance for Girls in Victorian Fiction* (Oxford: Basil Blackwell).

ROWLANDS, Daniel (1896), 'Nodiadau llenyddol', *Y Traethodydd*, 471-3.

ROWLANDS, John (1828), *Cofiant y diweddar Barchedig David Davis, Abertawy* (Abertawe: J. A. Williams).

ROWLANDS, John (1879), *Cofiant y Parch. Daniel Davies, D.D. (y Dyn Dall)* (Llanelli: James Davies & Co.).

ROWLANDS, John (1996), 'Chwarae a chwedlau: cip ar y nofel Gymraeg ôl-fodernaidd', *Y Traethodydd* (Ionawr), 5-24.

ROWLANDS, William (1847), *Cofiant bywyd a marwolaeth y diweddar Barch. John Davies, Gweinidog Wesleyaidd: yn nghyda brasluniad lluaws o'i bregethau; at yr hyn y chwanegwyd nodau helaeth am bregethwyr ereill o'r un cyfundeb* (Llanidloes: Timothy Jones).

RYLAND, J. E. (1856), *Memoirs of John Kitto, compiled chiefly from his letters and journals* (Edinburgh: William Oliphant and sons).

RHYS, Morgan (1764), *Marw-nad: neu hanes bywyd a marwolaeth y Parchedig Mr. Lewis Lewis, Gweinidog yr Efengyl, yn Llanddeiniol yn Sir Aberteifi* (Caerfyrddin: Ioan Ross).

——— (1774), *Hanes byrr o fywyd dychlynedd a dedwydd farwolaeth Morgan Nathan* (Caerfyrddin: J. Ross).

RHYS, Robert (2007), *James Hughes: 'Iago Trichrug'* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn).

SAMUEL, Edward (1731), *Pregeth ynghylch gofalon bydol: a bregethwyd yn Eglwys Llangywer, yr ail dydd o fis Mai 1720, ar gladdedigaeth Mr Robert Wynne, diweddar vicar Gwyddelwern* (Caerlleon: Roger Adams).

SAMUEL, John (1826), *Hanes bywyd y Parch. Joseph Harris (Gomer), Gweinidog y Bedyddwyr yn yr Heol Gefn, Abertawy* (Abertawe: John A. Williams).

SCHULZE, Lucile M. (2000), 'Letter-writing instruction in 19th century schools in the United States', yn BARTON, David a HALL, Nigel (goln), *Letter Writing as a Social Practice* (Amsterdam & Philadelphia: John Benjamins), tt.109-30.

SHAFFER, Elinor (2004), 'Shaping Victorian biography', yn FRANCE, Peter a ST CLAIR, William (goln), *Mapping Lives: The Uses of Biography* (Oxford: Oxford University Press), tt.115-33.

SHARROCK, Roger (1962), 'Introduction', yn BUNYAN, John, *Grace Abounding to the Chief of Sinners*, gol. SHARROCK, Roger (Oxford: Clarendon Press), tt.xi-xliii.

——— (1962), 'Preface', yn BUNYAN, John, *Grace Abounding to the Chief of Sinners*, gol. SHARROCK, Roger (Oxford: Clarendon Press), tt.iii-iv.

SHELSTON, Alan (1977), *Biography* (London: Methuen).

SMILES, Samuel (1862), *Lives of the Engineers: with an account of their principal works; comprising also a history of inland communication in Britain* (London: John Murray).

——— (1865), *Lives of Boulton and Watt* (London: John Murray).

STANLEY, Liz (1992), *The Auto/biographical I: The Theory and Practice of Feminist Auto/biography* (Manchester: Manchester University Press).

STARR, G. A. (1965), *Defoe and Spiritual Autobiography* (1971 edn; New York: Gordian Press).

STEPHENS, Meic (gol.) (1997), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (arg. newydd; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

STRACHEY, Lytton (1918), *Eminent Victorians* (1921 edn; London: Chatto & Windus).

TATE, Andrew (2006), 'Introduction: Victorian life writing', *Nineteenth-Century Contexts*, 28, 1 (March), 1-3.

THEOPHRASTUS (2004), *Characters*, cyf.a gol. DIGGLE, James (New York: Cambridge University Press).

THOMAS, Awstin M. (1983), 'Cymeriadau Theophrastus', *Y Traethodydd* (Gorffennaf a Hydref), 147-55 a 208-15.

THOMAS, Edward (1905), *Mamau Methodistaidd* (Gwrecsam: Hughes a'i fab).

THOMAS, John (1810), *Rhad Ras, neu Lyfr Profiad: mewn byr hanes am ddaioni y Arglwydd tuag at ei wael wasanaethwr, Ioan Thomas (awdwr Caniadau Sion), o'i febyd hyd yma* (Abertawe: J. Voss).

——— (1949), *Rhad Ras*, gol. OWEN, J. Dyfnallt (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

THOMAS, Joshua (1778), *Hanes y Bedyddwyr, ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon* (Caerfyrddin: John Ross).

THOMAS, Josiah (gol.) (1896), *Pregethau y Parchedig Owen Thomas, D.D.* (Lerpwl: A. Wynne Thomas).

THOMAS, Levi (1846), *Cofiant; neu hanes bywyd y diweddar Barch. D. Thomas, gweinidog y Bedyddwyr yn Llangloffan, Swydd Benfro, yr hwn a fu farw Chwef. 19, 1846* (Caerdydd: Owen a Roberts).

THOMAS, Ned (2010), *Bydoedd: Cofiant Cyfnod* (Tal-y-bont: Y Lolfa).

THOMAS, Oliver (1631), *Car-wr y Cymru, yn annog ei genedl anwyl, a'i gydwlad-wyr er mwyn Crist a'i heneidiau i chwilio yr Scrythurau yn ol gorchymyn Crist* (Llundain: Felix Kingston).

——— (1981) [*c.*1647], *Drych i Dri Math o Bobl*, yn MORGAN, Merfyn (gol.), *Gweithiau Oliver Thomas ac Evan Roberts: Dau Biwritan Cynnar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.209-24.

THOMAS, Owen (1856), 'Duwinyddiaeth Llanbedr', *Y Traethodydd*, 246-75.

——— (1859), 'Yr esboniadau', *Y Traethodydd*, 198-211.

——— (1860), 'Perthynas llenyddiaeth ysgrythyrol a llenyddiaeth a gwybodaeth gyffredinol', *Y Llenor* (Ionawr), 1-6 (Chwefror), 25-7.

——— (1874), *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn mewn cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrexham: Hughes and son).

[———] (1885), *Y Beibl Darluniadol: y Testament Newydd: yn cael ei egluro a sylwadau gwreiddiol, gan John Kitto; ynghyda lluaws o nodiadau ychwanegol* (Wrecsam: Hughes a'i fab).

——— (1889), *Nodiadau Deongliadol ac Ymarferol ar yr Epistol at yr Hebreaid* (Wrecsam: Hughes a'i fab).

——— (1890), *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (2 gyfrol) (Wrexham: Hughes and son).

——— (1893), *Catalogue of Dr. Owen Thomas's Library, in the Calvinistic Methodists (or Welsh Presbyterian) Theological College, Bala, North Wales* (Dolgelley: E. W. Evans, 'Goleuad' Office).

——— (1896), 'Y gwir weinidog yn mawrhau ei weinidogaeth', yn THOMAS, Josiah (gol.), *Pregethau y Parchedig Owen Thomas, D.D.* (Liverpool: A Wynne Thomas), tt.348-61.

——— (2002), *The Atonement Controversy in Welsh Theological Literature and Debate, 1707–1841*, cyf. AARON, John (Edinburgh: The Banner of Truth Trust).

THOMAS, Owen a REES, J. Machreth (1898), *Cofiant y Parchedig John Thomas, D.D. Liverpool* (Llundain: Alexander & Shepheard).

THOMAS, R. (gol.) (1870), *Cadwaladr Jones, Dolgellau: ei fuchedd, ei weinidogaeth, ei ddefnyddioldeb cyffredinol, a phrif linellau ei nodweddiad* (Liverpool: 'Y Tyst Cymreig').

TOON, Peter (1971), *God's Statesman: the life and work of John Owen, pastor, educator, theologian* (Exeter: Paternoster Press).

TRENCH, Edmund (1693), *Some remarkable passages in the holy life and death of Edmund Trench: most of them drawn out of his own diary* (London: T. Parkhurst & J. Robinson).

TRIDGELL, Susan (2004), *Understanding Our Selves: The Dangerous Art of Biography* (Bern: Peter Lang).

TUDUR, Geraint (2000), *Howell Harris: from Conversion to Separation, 1735-1750* (Cardiff: University of Wales Press).

VINCENT, David (1989), *Literacy and Popular Culture: England 1750-1914* (Cambridge: Cambridge University Press).

WALKER, Cheryl (1991), 'Persona criticism and the Death of the Author', yn EPSTEIN, William H. (gol.), *Contesting the Subject: Essays in the Postmodern Theory and Practice of Biography and Biographical Criticism* (Indiana: Purdue University Press), tt.109-22.

WALTERS, Huw (1993), *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig, 1735-1850* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

——— (1998), 'The periodical press to 1914', yn JONES, Philip Henry a REES, Eiluned (goln), *A Nation and its Books: a history of the book in Wales* (Aberystwyth: National Library of Wales), tt.197-208.

——— (1999), 'Y Gymraeg a'r wasg gylchgronol', yn JENKINS, Geraint H. (gol.), *'Gwnewch Bopeth yn Gymraeg': Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd, 1801-1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.327-52.

WALTON, Izaak (1824) [1678], *The Lives of Dr John Donne, Sir Henry Wotton, Mr Richard Hooker, Mr. George Herbert and Dr Robert Sanderson* (1824 edn; Oxford: Clarendon Press).

WATSON, Thomas (1839), *Traethawd ar Santeiddhad, gan Thomas Watson, wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Owen Thomas, Bangor*, cyf. THOMAS, Owen (Llanrwst: Hugh Jones).

WESLEY, John (1761), *Byrr Hanes am fywyd a marwolaeth Nathanael Othen*, cyf. EVANS, John (Bala: John Rowland).

WHITE, Eryn (1995), *'Praidd Bach y Bugail Mawr': Seiadau Methodistaidd De-Orllewin Cymru, 1737-50* (Llandysul: Gomer).

WILLIAMS, Daniel (1697), *The Excellency of a Publick Spirit: set forth in a Sermon Preach'd (since much enlarged) at the Funeral of that late Reverend Divine Dr Samuel Annesley, who departed this Life Dec 31. 1696. In the 77th year of his age. With a Brief Account of His Life and Death* (London: John Dunton).

WILLIAMS, Edward (1809), *An Essay on the Equity of Divine Government, and the sovereignty of divine grace* (London: J. Burditt).

——— (1812), *A Defense of Modern Calvinism: containing an examination of the Bishop of Lincoln's work, entitled, A refutation of Calvinism* (London: J. Black).

WILLIAMS, G. J. (1985), 'Stephen Hughes a'i gyfnod', yn LEWIS, Aneirin (gol.), *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.171-206.

WILLIAMS, John (1848), *Cofiant y Parch. W. Williams, Llandilo-fawr: yn cynwys hanes ei fywyd o'i febyd i'w fedd, ynghyd a byr-ddarluniad o'i nodwedd, ei lafur, ei lwydd gweinidogaethol, &c* (Llanelli: David Rees a David Williams).

WILLIAMS, John (1899), *Cofiant a Phregethau y Parch. John Hughes, D.D., Caernarfon* (Liverpool: I. Foulkes).

WILLIAMS, Owen (1817), *Cofiant neu Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Peter Williams, o Gaerfyrddin; allan o'i ysgrifen-law ef ei hun, wedi ei gasglu a'i gyfieithu gan Owen Williams; at yr hyn y chwanegwyd dwy o farwnadau ar yr achos* (Caernarfon: Arvonian Press).

WILLIAMS, Thomas John (1848), *Hanes Bywyd y Parch. John Evans, Llwynffortun* (Llanelli: David Rees a David Williams).

WILLIAMS, William (1906) [1777], *Drws y Society Profiad*, gol. THOMAS, Edward (Caernarfon: D. O'Brien Owen, Llyfrfa'r Cyfundeb).

——— (1964) [1764], *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus*, yn ROBERTS, Gomer M. (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.191-399.

——— (1967) [1768], *Hanes Bywyd Tri Wŷr o Sodom a'r Aipht*, yn HUGHES, Garfield H. (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn, II* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt.117-60.

WOOLF, Virginia (1967), 'The new biography', yn WOOLF, Leonard (gol.), *Collected Essays by Virginia Woolf, Volume Four* (London: Hogarth Press), tt.229-35.

WORSLEY, Henry (1856), *The Life of Martin Luther* (2 vols; London: d.c.).

# Atodiad 1

Thomas Jones, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Charles, Gwyryf yn y Celfyddydau, yn ddiweddar o'r Bala, Sir Feirionydd, wedi ei gyfieithu a'i gasglu gan Thomas Jones; at yr hyn a chwanegwyd marwnad ar yr achos* (Bala: Robert Saunderson, 1816).

**Adeiladwaith cyffredinol (adrannau)**


| | tt. |
|---|---|
| Cofiaeth y Parchedig Thomas Charles, A.B. | 5-153 |
| Cofiant [gan Thomas Jones] | |
| Cyfuniad o hanes cyhoeddus a llythyrau | 153-212 |
| Hanes ei ddyddiau diwethaf | 212-24 |
| Marwolaeth Mrs Charles | 224-5 |
| Attodiad | |
| 'Ei hanes gyda Chymdeithas y Beiblau, a'i ddiwydrwydd' | 226-7 |
| 'Dihangfa ryfedd ar daith foreol i Lerpwl' | 227-8 |
| 'Crynodeb o Gofnodion Mr Charles, ar ei Daith trwy'r Werddon' | 229-41 |
| 'Ychydig Hanesion Chwanegiadol, sydd heb eu rhoddi yn eu lleoedd priodol' | 241-2 |
| Marwnad [gan Thomas Jones] | 243-52 |

# Atodiad 2a

John Humphreys a John Roberts, *Cofiant, neu hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones, gweinidog yr efengyl, yn ddiweddar o dref Ddinbych; hanes ei fywyd a 'sgrifenwyd ganddo ef ei hun, ar ddymuniad ei gyfaill Parchedig Mr. Charles* (Dinbych: Thomas Gee, 1820).

**Adeiladwaith cyffredinol (adrannau)**

| | tt. |
|---|---|
| Hunangofiant Thomas Jones, Dinbych | 5-80 |
| Cofiant [gan John Humphreys a John Roberts, Llangwm] | |
| Symud o Gaerwys | 81-2 |
| Tri llythyr o eiddo Thomas Jones, Dinbych | 82-88 |
| Symud i Syrior | 88-90 |
| Gohebiaeth at Thomas Jones ac oddi wrtho | 90-106 |
| 'Ychydig am dano Fel Dyn, fel Cristion, fel Pregethwr &c' | 107-11 |
| 'Ei ddyddiau a'i glefyd olaf' | 111-21 |
| Marwolaeth Thomas Jones (o'r *Eurgrawn Efengylaidd*) | 122 |
| Englyn + 'bedd-argraff' + 'A funeral hymn' + 'Emyn ar gladdedigaeth' + 'bedd-argraff' [Saesneg] | 123-7 |

## Atodiad 2b

Jonathan Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych, yn cynnwys ei gysylltiad a Duwinyddiaeth a Llenyddiaeth ei Oes a Hanes a Symudiadau y Methodistiaid Calfinaidd, ac a'r Ordeiniaid Cyntaf a fu ar eu Gweinidogion yn y flwyddyn 1811* (Dinbych: T. Gee a'i fab, 1897).


| | tt. |
|---|---|
| Pennod 1: 'Blynyddoedd boreuol ei oes: 1756-1772' | 17-36 |
| Pennod 2: 'Blynyddoedd o argyhoeddiadau a dylanwadau croesion: 1772-1779' | 37-55 |
| Pennod 3: 'Blynyddoedd y cymmhellion i bregethu: 1779-1783' | 56-70 |
| Pennod 4: 'Ei flynyddoedd cyntaf fel pregethwr, hyd ei symmudiad o Gaerwys: 1783-1795' | 71-95 |
| Pennod 5: 'Ei symmudiad o Gaerwys i'r Wyddgrug, a'i hanes am y naw mlynedd y bu efe yno: 1795-1804' | 96-132 |
| Pennod 6: 'Ei symmudiad o'r Wyddgrug i Ruthyn, a'i hanes tra yn y dref hono: 1804-1809' | 133-57 |
| Pennod 7: 'Ei amddiffyniad i'r athrawiaeth Galfinaidd: 1805-1811' | 158-91 |
| Pennod 8: 'Ei symmudiad o Ruthyn i Ddinbych, a'i hanes am ei saith mlynedd cyntaf yn y dref hono: 1809-1816' | 192-221 |
| Pennod 9: 'Yr ordeiniad cyntaf yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, a hanes Mr Jones mewn cyssylltiad a hyny: 1806-1811' | 222-58 |
| Pennod 10: 'Ei hanes yn Syrior Goch, hyd ei ddychweliad i Ddinbych yn ol: 1816-1818' | 259-78 |
| Pennod 11: 'Ei hanes ar ol ei ddychweliad i Ddinbych: 1818-1820' | 279-88 |

Pennod 12: 'Ei olygiad ar athrawiaeth yr Iawn, a'i wrthwynebiad i Uchel-Galfiniaeth: 1814-1820' 289-353

Pennod 13: 'Ei hanes yn ei fisoedd olaf, a'i farwolaeth: 1820' 354-75

Pennod 14: 'Sylwadau arno fel pregethwr' 376-95

Pennod 15: 'Golwg arno fel awdwr, ac fel bardd' 396-444

Pennod 16: 'Adfyfyrdod ar ei hanes, ei gymmeriad, ac ar effeithiau pwysig ei fywyd' 445-64

Yr Attodiad 465-74

Mynegai 475-80

## Atodiad 3

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn mewn cysylltiad a Hanes Duwinyddiaeth a Phregethu Cymru* (Wrexham: Hughes and son, 1874).


| | tt. |
|---|---|
| Pennod 1: 'Boreu ei Oes: 1796-1807' | 17-38 |
| Pennod 2: Dyddiau ei Ieuenctyd: 1807-1815' | 39-49 |
| Pennod 3: 'Ei Ymdaith yn y Wlad Bell: 1816-1819' | 50-64 |
| Pennod 4: 'O'i ymuniad a'r Eglwys hyd nes y dechreuodd Bregethu: 1819-1821 | 65-77 |
| Pennod 5: 'Pregethu hyd ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol: 1821' | 78-88 |
| Pennod 6: 'O'i dderbyniad i'r Cyfarfod Misol hyd ei Briodas: 1821-1823' | 89-104 |
| Pennod 7: 'O'i Briodas hyd ei dderbyniad yn aelod o'r Gymdeithasfa: 1823-1824' | 105-53 |
| Pennod 8: 'O'i dderbyniad yn aelod o'r Gymdeithasfa hyd ei Ordeiniad: 1824-1829' | 154-97 |
| Pennod 9: 'Ymroddiad i lafur Gweinidogaethol cyflawn: 1829-1833' | 198-221 |
| Pennod 10: 'Blynyddoedd dechreuad cyfnewidiad yn ngwedd ei Weinidogaeth: 1833-1840' | 222-61 |
| Pennod 11: 'Dadleuon Duwinyddol Cymru: 1707-1841' | |
| Rhan 1 'Dadleuon rhwng Calviniaid ac Arminiaid: 1707-1831' | 262-361 |
| Rhan2 'Dadleuon rhwng Calviniaid a'u gilydd: 1811-1841' | 362-537 |
| Rhan 3 'Dadleuon yn Nghorph y Methodistiaid: 1814-1841' | 538-609 |

Pennod 12: 'Blynyddoedd cyflawnder ei Nerth: 1841-1849' 610-86

Pennod 13: 'Blynyddoedd ei arolygiaeth ar Gloddfa Dorothea: 1850-1853' 687-98

Pennod 14: 'Blynyddoedd diweddaf ei Einioes: 1853-1857' 699-733

Pennod 15: 'Ei Gystudd diweddaf a'i Farwolaeth: Mawrth – Awst, 1857' 734-91

Pennod 16: 'Ei gysylltiad a'r Weinidogaeth Gymreig, a'i gymeriad fel Pregethwr'

Rhan 1 'Byrolygiad ar y Pulpud Methodistaidd hyd ei ddyddiau ef' 792-970

Rhan 2 'Ei nodweddau neillduol ef fel Pregethwr' 971-1024

'Attodiad: yn cynnwys diwygiadau ac ychwanegiadau' 1025-41

Mynegai: 1042-52

## Atodiad 4

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig Henry Rees, yn cynnwys Casgliad Helaeth o'i Lythyrau* (2 gyfrol) (Wrexham: Hughes and son, 1890).


| | tt. |
|---|---|
| Pennod 1: 'Boreu ei Oes: 1798-1812' | 1-23 |
| Pennod 2: 'Blynyddoedd cyntaf ei ieuenctyd: 1812-1816' | 24-49 |
| Pennod 3: 'Gadael tŷ ei dad a myned i gymmydogaeth y Bettws, Abergele: 1816-1819' | 50-69 |
| Pennod 4: 'O'r pryd y dechreuodd bregethu nes y gadawodd yr Ysgol yn Abergele: 1819-1821' | 70-97 |
| Pennod 5: 'O'i fynediad i'r Amwythig, hyd ei Neillduad i'r holl waith: 1821-1827' | 98-159 |
| Pennod 6: 'O'i ordeiniad hyd ei ymadawiad â'r Amwythig: 1827-1836' | 160-218 |
| Pennod 7: 'O'i symmudiad i Liverpool hyd ei ymweliad âg America: 1837-1839' | 219-45 |
| Pennod 8: 'Ei ymweliad âg America, a'i Deithiau yno: 1839' | 246-321 |
| Pennod 9: 'O'i ddychweliad o'r America, hyd aflwyddiant y cais arno i adael Liverpool: 1839-1841' | 322-88 |
| Pennod 10: 'O agoriad athrofa Trefecca, hyd y cyffro mawr yn nghylch Addysg Ddyddiol: 1842-1847' | 389-455 |
| Pennod 11: 'O Gymdeithasfa Liverpool, 1847, hyd Gymdeithasfa Caernarfon, 1854' | 456-555 |
| Pennod 12: 'Blynyddoedd pryder teuluaidd ac eglwysig: 1855-1861' | 557-712 |

Pennod 13: 'O ddechreu y flwyddyn 1862, hyd y Gymmanfa Gyffredinol gyntaf yn Abertawe, 1864' 713-81

Pennod 14: 'O'i ymweliad â Llydaw hyd ei ymweliad â Hastings, ar ol cystudd trwm: 1864-1867' 782-839

Pennod 15: 'O'i ddychweliad o Hastings, hyd ei gystudd diweddaf, a'i farwolaeth: 1867-1869' 840-903

Pennod 16: 'Ei nodweddau neillduol fel Pregethwr' 904-66

Attodiad: yn cynnwys sylwadau cywiriadol ac adgyflenwol 967-1129

Mynegai 1131-43

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL